



Dŵr Cymru
Welsh Water

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2024



CROESO I ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024



Cynnwys

TROSOLWG

Datganiad Cadeirydd y Bwrdd	01
Ni yw Dŵr Cymru	05
Yr hyn a wnawn	06
Ein hardal weithredu	07
Pwy rydym yn eu gwasanaethu	08
Themâu Strategol a Ffactorau Galluogi	09
Ein Proses Busnes	10
Sut rydym yn Gweithio	11
Gwerthoedd ar Waith	12
Fframweithiau Rheoleiddio a Mesur Perfformiad	13

ADRODDIAD STRATEGOL

Neges y Prif Weithredwr	14
Crynodeb o Berfformiad	15
Adolygiad y Prif Swyddog Ariannol	20
Y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol	24
sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd	30
Sut rydym yn Cynllunio	49
Cynlluniau Hirdymor: Dŵr Cymru 2050	50
Datganiad A172	51
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	54
Ein Dull o Reoli Risg	56
Datganiad am Hyfywedd Hirdymor	67
Yr Hyn y mae Cynaliadwyedd yn	72
ei Olygu i Dŵr Cymru	
Cynaliadwyedd ac Amcanion Amgylcheddol,	74
Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI)	
Cynllun Adfer EPA 4 Seren	91

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

Cyflwyniad y Cadeirydd i Lywodraethu	92
Fframwaith Llywodraethu	93
Cipolwg ar Lywodraethu	96
Bwrdd y Cyfarwyddwyr	98
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	102
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	106
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	154
	156

DATGANIADAU ARIANNOL

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	157
Datganiad Cyfunol o Incwm	158
Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr	168
Mantolen Gyfunol	168
Datganiad Cyfunol o Newidiadau	169
mewn Cronfeydd Wrth Gefn	170
Mantolen y Rhiant-gwmni	170
Datganiad y Rhiant-gwmni o Newidiadau	171
mewn Cronfeydd Wrth Gefn	
Datganiad Cyfunol o Llif Arian Parod	171
Datganiad Llif Arian y Rhiant-gwmni	172
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	173

ATODIADAU

A – Rhestr Termiau	210
B – Rheoleiddio Cwmnïau Dŵr yng Nghymru	211
C – PR19 Ymrwymadau Perfformiad wedi'u Diffinio	216
D – Ymatebion Strategol i Dŵr Cymru 2050	217
E – Amcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol	219
a Llywodraethu (ACLI)	221

Mae'r ddogfen hon wedi ei chyfieithu o'r Saesneg a'r cynnwys wedi ei ddilysu yn annibynnol er mwyn sicrhau cysondeb.

DATGANIAD CADEIRYDD Y BWRDD



UNIG NOD GLAS CYMRU
YW DARPARU'R GWASANAETH
GORAU POSIBL I'W
GWSMERIAID.

Alastair Lyons CBE
Cadeirydd y Bwrdd

Ein Diben

Fel cwmni cyfyngedig drwy warant heb randdeilioid, mae Glas Cymru yn bodoli at un diben yn unig – galluogi Dŵr Cymru, ei is-gwmni rheoleiddiedig a berchenogir yn llawn, i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'w gwsmeriaid, gan ddarparu dŵr iach a glân iddynt a gwaredu a thrin eu dŵr gwastroff fel bod modd ei ddychwelyd i'r amgylchedd heb achosi niwed. Y ffocws diwyro hwn ar wasanaethu'r cymunedau yn ein hardal weithredu sy'n ysgogi'r diwylliant i bawb sy'n rhan o Dŵr Cymru – ei Fwrdd, ei Gyfarwyddwyr Gweithredol, a'i weithlu. Fel Cadeirydd, rwy'n teimlo'n falch iawn wrth glywed am ein pobl yn mynd gam ymhellach i adfer cyflenwadau i gwsmeriaid pan fydd prif bibellau'n byrstio neu dywydd garw, neu'n helpu cwsmeriaid i adfer ar ôl i garthffosydd orlifo o ganlyniad i law trwm neu rwystr. I'r gwrthwyneb, rwyf innau, fy nghydwethwyr ar ein Bwrdd a'n Gyfarwyddwyr Gweithredol yn teimlo'n siomedig iawn pan na fydd ein gwasanaeth yn cyflawni'r hyn sy'n ddisgwyliedig neu pan fydd yr hyn a wnawn yn niweidio'r amgylchedd.

Cyflawni

Rydym yn cydnabod bod angen i ni wella ein perfformiad, ac fel y noda Peter Perry yn ei neges fel Prif Swyddog Gweithredol, mae ganddo ef a'i dîm gweithredol gynlluniau clir a thrylwyr, gydag adnoddau ar gael ar eu cyfer, i sicrhau'r gwelliant hwnnw, ac mae'r broses o roi'r cynlluniau hynny ar waith yn destun adolygiad manwl gan ein Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ar ran y Bwrdd. Cyflawni yw prif ffocws y busnes ar gyfer y flwyddyn hon a'r flwyddyn sydd i ddod. Fel y nodir yn y cynllun adfer perfformiad rydym wedi ei gyflwyno i Ofwat, ac o ddefnyddir gennym ni ac Ofwat i fesur ein cyflawniad, mae gennym dargedau allweddol i'w cyflawni er mwyn ein rhoi yn ôl ar ben ffordd – llai o achosion o lygredd, yn enwedig y rheini a gaiff eu categorioedd'n ddifrifol gan ein rheoleidiwr amgylcheddol,

llai o ollyngiadau dŵr, llai o achosion o darfu ac achosion byrrach o darfu ar y cyflenwad, a dŵr tap o ansawdd gwell.

Buddsoddi

Yn y rhan fwyaf o achosion, buddsoddi yn yr asedau rydym yn eu defnyddio i ddarparu ein gwasanaeth yw sylfaen y gwelliant hwnnw. Bydd yn cymryd mwy na blwyddyn i sicrhau'r gwelliant sydd ei angen mewn llawer o'r meysydd a nodwyd, ac mewn rhai achosion, er enghraifft systemau gorlif storm, bydd yn cymryd mwy na chyfnod Cynllun Rheoli Asedau pum mlynedd. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol dros gyfnod y Cynllun Rheoli Asedau cyfredol, a ddechreuodd yn 2020, gan gynnwys £483 miliwn o wariant cyfalaf y flwyddyn ddiwethaf a £557 miliwn o wariant arfaethedig ar gyfer 2024-2025, sef blwyddyn olaf y cyfnod rheoleiddio hwn, a byddwn wedi buddsoddi £2.0 biliwn dros y cyfnod rheoleiddio cyfan. Mae hyn yn cynnwys £80 miliwn y bu modd ei fuddsoddi o ganlyniad i'n statws nid er cyfranddalwyr sy'n ein galluogi i ailfuddsoddi yn y busnes, a fyddai fel arall wedi cael ei dalu fel dididendau. Bydd y ffigur hwn wedi cynyddu i £165 miliwn erbyn i'r prosiectau hyn gael eu cwblhau. Fel rhan o'r cynlluniau rydym wedi eu cyflwyno i Ofwat ar gyfer AMP8, sef y cyfnod rheoleiddio pum mlynedd nesaf a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2025, byddem yn buddsoddi mwy na £4 biliwn, sef ein buddsoddiad arfaethedig uchaf erioed a'r mwyaf a fyddai'n bodloni ein tri maen prawf – a ellir ei gyflawni, a all ein cwsmeriaid ei fforddio, ac a allwn godi'r cyllid sydd ei angen i'w gefnogi. Mae sicrhau cytundeb Ofwat i'n cynllun yn hanfodol i'n galluogi i sicrhau'r gwelliannau rydym yn anelu at eu cyflawni er budd ein cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Heriau

Mae ein cynlluniau ar gyfer AMP8 yn cynnwys cynlluniau a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'n problemau mwyaf heriol.

Tynnodd y BBC sylw at y rheini sy'n wynebu effaith ein gwaith trin carthion yn Aberteifi. Yma, mae dŵr o'r môr yn mynd i mewn i'r carthffosydd ac mae'r halen yn y dŵr yn adweithio â'r broses drin, gan leihau capasiti'r gwaith yn ddifrifol ac achosi gollyngiadau mynych. Er mwyn dod o hyd i'r datrysiad mwyaf costeffeithiol ar gyfer ein cwsmeriaid, rhoesom gynnydd, gyda chytundeb Cyfoeth Naturiol Cymru, ar nifer o bethau gwahanol, gan gynnwys leinio rhan o garthffosydd Aberteifi. Fodd bynnag, ni fu'r un ohonynt yn ddatrysiad parhaol, ac o ganlyniad, gwnaethom gytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'n rhaid adeiladu gwaith trin newydd – bydd hynny'n costio tua £20 miliwn ac yn cymryd tair blynedd i'w gwblhau. Methiant asedau sy'n gyfrifol am achosion difrifol tebyg o lygredd fel arfer: rydym wedi wynebu dau achos o lygredd o'r fath dros y 18 mis diwethaf o ganlyniad i fethiannau ar hyd prif bibell arfordir y de-ddwyrain, sy'n rhedeg 18 milltir ar hyd gwastadeddau Gwent. Rydym wedi cynnwys £84 miliwn yn ein cyflwyniad ar gyfer PR24 i Ofwat i osod prif bibell newydd. Dyddodion manganis a hoearn mewn prif bibellau cyflenwi haeam bwrw sy'n bennaf cyfrifol am broblemau yn ymwneud â derbynoldeb dŵr, ac mae gennym werth 7,000 o filltiroedd o brif bibellau o'r fath o hyd. Ym mhob AMP, rydym yn adnewyddu neu'n newid cyfran benodol o'r prif bibellau cyflenwi hyn, a byddwn yn parhau i wneud hyn yn y dyfodol agos – yn ystod yr AMP cyfredol, rydym yn gwario £120 miliwn ac rydym yn bwriadu gwario £135 miliwn yn yr un nesaf. Yn yr un modd, achosion o brif bibellau cyflenwi yn byrstio sy'n gyfrifol am ein gollyngiadau dŵr mwyaf difrifol a'n hachosion mwyaf difrifol o darfu ar y cyflenwad dŵr, ac mae hyn yn arbennig o wir am y prif bibellau sment asbestos sy'n gyffredin yng ngorllewin Cymru. Erbyn hyn, mae tua 60-90 mlynedd ers i'r pibellau hyn gael eu gosod, a thros y 12 mis diwethaf, mae nifer yr achosion o bibellau'n byrstio wedi dyblu o gymharu â phedair blynedd yn ôl. Unwaith eto, rydym wedi ceisio £66 miliwn

DATGANIAD CADEIRYDD Y BWRDD

PARHAD

yn ein cyflwyniad ar gyfer PR24 i ddechrau mynd i'r afael â'r prif bibellau hyn.

Mae newid hinsawdd yn chwarae rhan fawr yn hyn o beth gan fod symudiadau yn y dddear o ganlyniad i gyfnodau sych estynedig a chyfnodau sydyn o dywydd rhewllyd/dadmer, fel y gwelwyd yn 2022, ymysg y prif bethau sy'n achosi i bibellau fyrstio.

- dim ond yn gymharol ddiweddar rydym wedi gwerthfawrogi, drwy waith dadansoddi, effaith lawn newid hinsawdd o ran cyflymu dirywiad asedau. Wrth i ni wynebu llawer mwy o dywydd garw, er enghraifft llifogydd 2023 a'r glaw diddiwedd y gaeaf diwethaf, mae'n rhaid i asedau berfformio o dan amodau nad ydynt wedi cael eu dylunio ar eu cyfer, ac mae'n rhaid ailystyried y ffordd rydym wedi arfer gweithredu ein rhwydwaith i sicrhau'r perfformiad gorau posibl. Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu bod yn rhaid i ni gynllunio ar gyfer mwy o achosion o'r fath yn y dyfodol.

Erbyn diwedd yr AMP nesaf yn 2030, ein bwriad yw tynnu 90% o'r ffosffadau rydym yn gyfrifol am eu tynnu yn nalgylchoedd yr afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a datrys yn foddhaol y 100 uchaf o systemau gorlif storm a raddiwyd yn ôl y niwed amgylcheddol y maent yn ei achosi. Er mwyn bodloni'r meini prawf a bennwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer asesu bod system gorlif storm yn foddhaol, rydym yn rhagweld y bydd yn costio tua £670 miliwn i gyflawni'r statws hwn ar gyfer y 100 o systemau gorlif storm hyn. I roi syniad o faint yr her, pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y system garthffosiaeth o'r awdurdodau dŵr i Dŵr Cymru pan gawsom ein preifateiddio, daethom yn gyfrifol am 2,300 o systemau gorlif o'r fath. Cafodd rhai o'r systemau gorlif storm 'gwaddol' hyn eu hadeiladu flynyddoedd maith yn ôl mewn mannau y mae'n anodd iawn mynd iddynt neu wybod eu bod hyd yn oed yn bodoli erbyn hyn. Oherwydd hyn, mae gennym tua 120 o systemau gorlif storm nad oes ganddynt drwyddedau ar hyn o bryd. Rydym am sicrhau'r trwyddedau hyn cyn gynted â phosibl oherwydd gellid dweud bod y systemau gorlif hyn yn gweithredu'n 'anghyfreithlon' ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hyn, mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru asesu eu heffeithiolrwydd a phennu cyfnod estynedig dilynol o fesur eu heffaith ar yr amgylchedd. Ein nod, y cytunwyd arno ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru, yw sicrhau bod yr holl drwyddedau hynny ar waith erbyn 2027, gan flaenoriaethau'r rheini sy'n ymwneud â'r afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Blaenoriaethu

Mae blaenoriaethu yn allweddol gan y byddwn bob amser am wneud mwy nag y gellir ei fforddio, ei gyflawni a'i ariannu. Er mwyn gwneud hynny, rydym yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i ddeall eu blaenoriaethau, a chysoni ein blaenoriaethu ni â'u rhai nhw. Er mwyn paratoi'r cynllun ar gyfer PR24, sefydlodd Llywodraeth Cymru Fforwm PR24, gan ddwyn ynghyd gwmnïau dŵr Cymru, y rheoleiddwyr amgylcheddol, Ofwat, a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr i gytuno ar flaenoriaethu ac adolygu ein cynlluniau. Wrth i'r cyfryngau yn arbennig roi cryn sylw i lygredd a gweithrediad y system garthffosiaeth, roedd yn hanfodol bod gennym bolisi clir i lywio blaenoriaethau, a chafodd hyn ei ddarparu'n bendant yn ystod 2023 gan Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Newid Hinsawdd drwy'r cyfarwyddiadau a roddwyd ym mhroses Fforwm PR24. Gofynnwyd i ni wella ansawdd dŵr yn y 109 o afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac, yn fwy cyffredinol, lleihau'r niwed i'r amgylchedd a achosir gan ein gweithrediadau, gan flaenoriaethu'r buddsoddiadau hynny a fyddai'n sicrhau'r buddiannau mwyaf.

Fforddiadwyedd

Mae sylwebwyr yn gofyn a ydym wedi tanfuddsoddi yn y gorffennol. Gyda seilwaith sylweddol, y mae elfennau mawr ohono yn hen, byddwn bob amser am wneud mwy nag sy'n fforddiadwy, yn enwedig wrth gydnabod y pwysau ariannol a wynebwr gan lawer o'n cwsmeriaid sydd ymysg y rhai mwyaf difreintiedig yn y DU. Rhwng 2001 a 2023, gwnaethom gynyddu biliau bob blwyddyn ar gyfradd is na chwyddiant, a dim ond 6% mewn termau real dros y cyfnod hir hwnnw, gan ein bod yn ymwybodol iawn mai ein biliau ni oedd eisoes y rhai uchaf ond un yn y diwydiant. Y rheswm dros hyn yw ein taliadau carthffosiaeth, sy'n adlewyrchu'r buddsoddiad mawr a wnaed gennym ar ôl i ni gael ein preifateiddio er mwyn ailadeiladu ein gweithfeydd carthion arfordirol, trin elifion yn hytrach na'u pwmpio drwy ollyngfeydd hir i'w rhyddhau heb eu trin i'r môr. I'r cwmnïau hynny â gweithfeydd trin carthion mewndirol, roedd y rhain wedi cael eu hailadeiladu cyn i ni gael ein preifateiddio ar draul y trethdalwr yn hytrach na thrwy gynyddu biliau cwsmeriaid. Nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith ein bod ni o South West Water, sydd â'r nifer mwyaf o weithfeydd arfordirol, ymysg y rhai sy'n codi'r taliadau carthffosiaeth uchaf. I'r gwrthwyneb, ein

biliau cyflenwi dŵr yw'r isaf ond dau yn y diwydiant yn y DU.

Y gallu i gyllido

Yn ogystal â chadw ein biliau'n isel, gwnaethom ddefnyddio £2.8 biliwn a ddeilliodd o beidio â thalu difidendau i gyfranddalwyr i leihau'r lefel gerio wreiddiol o 93% a wynebodd Glas Cymru yn 2001 pan brynodd Dŵr Cymru. Erbyn hyn, mae gennym un o'r lefelau gerio isaf yn y sector, sef 60% ac, o ganlyniad, un o'r statysau credyd gorau. Mae cynnal ein statws credyd gradd A yn bwysig iawn. Mae'n ein galluogi i dalu costau llog is, gan arbed 1/4% o gymharu â chwmnïau dŵr eraill, ac yn rhoi hyder i ni yn ein gallu i godi'r £3.7 biliwn y bydd ei angen arnom cyn diwedd yr AMP nesaf er mwyn ailariannu'r ddyled bresennol o £2.4 biliwn a sicrhau'r cyllid pellach a fydd yn cefnogi rhaglen gyfalaf AMP8.

Y gallu i gyflawni

Yn ogystal â'r cyfyngiadau ar yr hyn y gall gwsmeriaid ei fforddio a'r hyn y bydd benthydwyr yn ei ddarparu, mae terfyn hefyd ar yr hyn y gall ein busnes a'n cadwyn gyflenwi ei gyflawni mewn cyfnod penodol o amser. Wrth i ni baratoi ar gyfer cynnydd o 118% yn ein gwariant cyfalaf yn AMP8 o gymharu â'r AMP cyfredol, rydym ar gam datblygedig o'r broses o gaffael yr adnoddau contractwyr angenrheidiol a'r broses o ddylunio a pharatoi rhaglen adeiladu Blwyddyn 1 AMP8. Ein nod yw sicrhau bod gwerth £400 miliwn o brosiectau cyfalaf yn barod i ddechrau erbyn dechrau'r AMP newydd.

Bod yn agored

Beth bynnag sydd wedi digwydd yn y gorffennol, rhaid i ni wynebu'r sefyllfa fel y mae ac, felly, wneud cymaint o gynnydd â phosibl, cyn gynted â phosibl. Mae gan ein fîm rheoli uchelgeisiau mawr dros gyfnod yr AMP nesaf – adennill sgôr o 4 seren yn yr Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol, y gwnaethom ei hennill ddiwethaf yn 2021, a symud o fod ar ei hôl hi yn y sector i gael ein hasesu gan Ofwat yn un o'r cwmnïau mwyaf bloenllaw. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhywbeth y gellir ei gyflawni dros nos, na hyd yn oed mewn blwyddyn. Felly mae risg, hyd yn oed os byddwn yn cyflawni'r rhaglen fuddsoddi hon ac yn sicrhau'r gwelliannau dilynol mewn perfformiad, y gallwn wynebu problemau eraill sy'n atgyfnerthu canfyddiadau andwyol o'n busnes a pherfformiad ein rheolwyr. Mae gennym ddiwylliant o fod yn agored ac yn onest am broblemau, gan ymddiried bod gwneud hynny, a bod yn glir ynghylch yr

hyn rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater, yn cael ei ystyried yn gadarnhaol ac yn ennyn cefnogaeth. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn, gwyddom fod angen i ni feithrin dealltwriaeth ehangach o'r ffeithiau sy'n sail i broblemau perfformiad. Er enghraifft, pan fydd cyfnod o sychder fel yr hyn a welwyd yn 2022 a bydd lefelau cronfeydd dŵr yn gostwng yn sylweddol, mae cyfansoddiad y dŵr crai yn newid, gan olygu ei bod yn fwy anodd ei drin. Gallai hyn achosi blas ac arogl gweddilliol sydd, yn ddealladwy ddigon, yn effeithio ar dderbynioldeb y cynnyrch terfynol i gwsmeriaid. Rhaid disgwyl mwy o hyn yng ngoleuni'r newid yn yr hinsawdd, felly rydym yn ceisio datblygu dulliau arloesol o wrthsefyll effeithiau o'r fath, gan ddysgu lle y bo'n bosibl o brofiad cwmnïau dŵr eraill yn y DU a thu hwnt. Fel y trafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn (tudalen 77), yn ystod yr AMP cyfredol rydym wedi cwblhau 69 o brosiectau arloesedd a ddeilliodd o gynlluniau a gyflwynwyd i'n Porth Arloesi, gan fuddsoddi £7.1 miliwn mewn trochwil wedi ei drooli a sicrhau cymhareb trosolodd uwchlaw 8.

Rydym wedi ceisio meithrin y ddealltwriaeth honno o'r hyn rydym yn ei wneud ymysg y rheini sydd agosaf at y problemau a'r rheini y gofynnir iddynt fynegi barn am yr hyn sy'n digwydd. Felly, mae'r tîm rheoli wedi ceisio hysbysu'r rheini sy'n cynrychioli cymunedau yn y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraethau lleol a'r rheini sydd â diddordeb penodol yn ein gweithgareddau, er enghraifft arweinwyr cyrff onllywodraethol amgylcheddol a chynrychiolwyr y gymuned ffermio. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi rhwyngweithio â'r grwpiau ymdrochi sefydledig yng Nghymru er mwyn deall y safleoedd y maent yn eu defnyddio. Rydym hefyd wedi ceisio hysbysu ar lefel leol ac wedi ychwanegu at ein tîm o Reolwyr Cyswllt Ansawdd Afonydd a sefydlwyd yn BA 23 er mwyn ymgysylltu â chynrychiolwyr cymunedau o fewn dalgychoedd afonydd, gan esbonio ein cynlluniau a thrafod problemau'n uniongyrchol ar lawr gwlad. Ym mis Ionawr, gwnaethom ddechrau cyhoeddi data sydd fwy neu lai'n amser real (o fewn 24 awr) ar ollyngiadau o'r systemau gorlif storm hynny a allai lygru traethau neu ddyfroedd ymdrochi mewndirol poblogaidd. Er mai ein bwriad yw lleihau nifer y gollyngiadau sy'n creu niwed amgylcheddol yn gynyddol, mae cyhoeddi'r wybodaeth hon yn y cyfamser yn helpu pobl i gynllunio ble a phryd i nofio.

Fel y dangosodd ein Cyfarwyddwyr Gweithredol pan wnaethom ymddangos gerbron pwyllgorau o Senedd Cymru a

Senedd y DU y flwyddyn ddiwethaf, byddwn bob amser yn agored am broblemau a'r hyn rydym yn ei wneud i'w datrys. Yn yr un modd, oherwydd maint a chymhlethdod gweithrediadau, a'n seilwaith sy'n heneiddio, mae'n anochel y bydd problemau'n codi hyd yn oed yn y cwmni dŵr mwyaf effeithlon. Mae gennym 834 o weithfeydd trin carthion, 2,500 o orsafoedd pwmpio, 2,500 o systemau gorlif storm, 36,000 o gilometrau o garthffosydd a 3,500 o drwyddedau gollwng unigol.

Ein gwaith ni yw lleihau nifer y problemau hyn, a'u difrifoldeb, i'r eithaf. O ran achosion difrifol o lygredd, dywed Cyfoeth Naturiol Cymru mai ei nod yw eu dileu yn llwyr, ac rydym hefyd yn bwriadu cyflawni'r amcan hwnnw.

Yn yr un modd, pan gododd ein cynghorydd sicrwydd allanol, Jacobs, gwestiynau yn 2022 am briodoldeb y fethodoleg roeddem yn ei defnyddio i gyfrifo gollyngiadau dŵr yn ein rhwydwaith, rhoesom wybod i Ofwat ar unwaith fod angen i ni ymchwilio ymhellach ac y gallai fod angen i ni ailddatgan ffigurau a gyflwynwyd yn flaenorol. Gwnaethom wedyn sefydlu pwyllgor o'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd Archwilio a minnau, er mwyn sicrhau ymchwiliad manwl cynhwysfawr yn annibynnol ar y rheolwyr dan sylw i ganfod y ffeithiau, pennu'r rheswm dros y problemau a'r hyn yr oedd angen ei wneud i'w hunioni a'u hatal rhag digwydd eto, a llunio barn am y canlyniadau. Daeth adroddiad Ofwat ei hun i gasgliadau tebyg iawn i'n rhai ni ein hunain, ac er mwyn adfer ein perfformiad o ran gollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen, rydym yn buddsoddi £59 miliwn arall yn ystod dwy flynedd olaf AMP7.

Mae gennym reswm da dros gredu fod ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn gwerthfawrogi ein bod yn agored ac yn canolbwyntio ar y cymunedau lle rydym yn gweithredu. Yn ôl adroddiad Water Matters CCW a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024, ni yw'r cwmni gorau yn y diwydiant o hyd am ymddiriedaeth cwsmeriaid, a ni yw'r Cwmni Dŵr a Charthffosiaeth uchaf ond dau ar fesur profiad cwsmeriaid preswyl C-MeX. Croesawodd prosiect Cymunedau Cydnherth o ran Dŵr yng ngorllewin Casnewydd bron 1,000 o bobl i'w ddiwrnod cymunedol yn gynnar ym mis Tachwedd er mwyn cyrraedd mwy o gwsmeriaid agored i niwed, ac ymwelodd dros 150,000 o bobl â'r ganolfan ymwelwyr newydd yng nghronfeydd dŵr Llanisien/Llys-faen yn ystod y tri mis gweithredol cyntaf, gan ragori ar y targed blyneddol o 180,000.

Atebolrwydd

Mewn cwmni sy'n eiddo i gyfrandalwyr, mae'n glir i bwy y mae'r Cadeirydd a chydweithwyr ar y Bwrdd yn atebol – i rhanddeiliaid mewn cyfarfod cyffredinol. Os na fydd y Bwrdd yn sicrhau bod rheolwyr y cwmni yn bodloni disgwyliadau rhanddeiliaid, gall ddisgwyl gael ei herio ar berfformiad mewn cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol â rhanddeiliaid, ac yn y pen draw, gall rhanddeiliaid bleidleisio i gael gwared arno. Mae'r hyn y gall rhanddeiliaid ei wneud a'r hyn na allant ei wneud wedi'i ddiffinio'n glir yng nghyfansoddiad y cwmni – ei femorandwm a'i erthyglau: yr hyn na allant ei wneud yw cyfrannu'n uniongyrchol at y broses o bennu strategaeth y cwmni neu reoli ei fusnes. Mater i Fwrdd y cwmni yw hynny, sy'n dirprwyo awdurdod am ddatblygu strategaeth y cytunwyd arni a'i rhoi ar waith i'r Prif Swyddog Gweithredol a'i dîm gweithredol a benodwyd.

Mae gan ein Bwrdd yr un atebolrwyddau, ond i'n Haelodau yn hytrach na rhanddeiliaid. Yn yr un modd, mae'r Bwrdd yn cael ei herio ar ei berfformiad mewn cyfarfodydd ffurfiol a chan aelodau unigol yn anffurfiol yn ystod y flwyddyn. Pan ddatblygwyd cyfansoddiad y Cwmni yn 2001, ei nod oedd efelychu trefniadau llywodraethu cwmni rhestredig: yn wir, gwnaethom ddilyn Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn wirfoddol. Mae gan ein Haelodau yr un pwerau â rhanddeiliaid i raddau helaeth, ond yn wahanol i rhanddeiliaid, nid oes ganddynt unrhyw fuddiant ariannol yn y busnes: eu hunig ddiddordeb yw helpu'r Cwmni i gyflawni ei ddiben er budd ei gwsmeriaid, gan ddefnyddio eu sgiliau, eu profiad a'u dealltwriaeth personol o'r hyn sydd ei angen ar y cymunedau y maent yn rhan ohonynt.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd bod yn dryloyw am y ffordd y caiff atebolrwydd ei arfer yn ymarferol, yn enwedig o ystyried y craffu dwys a wynebwr gan bob cwmni yn y sector dŵr. Eleni, rydym wedi adfer ein harfer cyn pandemig COVID-19 o gynnal cyfarfodydd rhanbarthol anffurfiol rhwng ein Haelodau a'n rheolwyr – ddwywaith y flwyddyn mewn tri lleoliad – gan neilltuo swm sylweddol o amser ar gyfer cwestiynau anffurfiol. Bydd Cadeirydd pob un o'n Pwyllgorau yn siarad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol eleni er mwyn amlinellu'r stiwardiaeth a arferwyd gan eu Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er mwyn pwysleisio annibyniaeth y broses o ddethol Aelodau newydd ymhellach, rydym wedi gwahodd Aelodau nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad arall â'r Cwmni i sefyll i gael eu hethol i'r Panel Dethol Aelodau

DATGANIAD CADEIRYDD Y BWRDD

PARHAD

Annibynnol, a gadeirir gan Syr Paul Silk. Yn ogystal â dosbarthu cofnodion manwl i Aelodau ar ôl pob un o'n cyfarfodydd ffurfiol, byddwn yn cynnwys crynodeb o'r gweithgarwch hwnnw, ac o'r cwestiynau a'r heriau o gyflwynwyd gan Aelodau, yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn y dyfodol.

Cydweithio

Mae llawer o'r hyn rydym am ei gyflawni yn ymwneud â gweithio gydag eraill i ddod o hyd i atebion a chyflawni amcanion. Un o amcanion Llywodraeth Cymru yw lleihau faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio ac mae Ofwat yn debygol o ofyn i ni leihau'r defnydd o ddŵr y pen yn sylweddol erbyn 2030. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar barodrwydd ein cwsmeriaid preswyl a'n cwsmeriaid busnes i gymryd camau i ddefnyddio llai o ddŵr. Gallwn ddarparu cymorth drwy awgrymu camau y gellid eu cymryd a thrwy nodi lle mae dŵr yn cael ei wastffurfio ar hyn o bryd. Yn yr un modd, bydd cwsmeriaid, yn gywir ddigon, yn disgwyl i ni osgoi gwastraffu dŵr wedi'i drin drwy allyngiadau, ac rydym wedi creu rhaglen sylweddol iawn o waith i nodi a thrwsio gollyngiadau ar ein prif bibellau cyflenwi a'n rhwydwaith dosbarthu. Dros ddwy flynedd olaf yr AMP cyfredol, rydym yn rhagweld y byddwn yn gwario tua £150 miliwn ar hyn. Prif achos carthffosydd yn gorlifo yw blociadau, a'r peth mwyaf sylweddol sy'n cyfrannu at hynny yw fflysio weips. Wrth i ni barhau i ddadlau dros ddeddfwriaeth i wahardd weips plastig, yn y cyfamser, rydym yn annog ein cwsmeriaid i feddlw cyn fflysio! O ran llygredd, ein nod yw dod o hyd i atebion cynaliadwy, lle bynnag y bo'n bosibl, i systemau gorlif storm, gan ddefnyddio dulliau fel gwelyau brwyn i hidlo systemau gorlif yn hytrach na chodi tanciau storio concrid mawr ag ôl-troed carbon niweidiol. Er mwyn gwneud hynny, mae angen cydweithio â thirfeddianwyr ac awdurdodau lleol i nodi safleoedd priodol ar gyfer cynlluniau o'r fath.

Ein Cyfraniad

Ochr yn ochr â'n prif ddiben o ddarparu seilwaith cenedlaethol hanfodol, ein nod hefyd yw gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn un o brif ffocysau Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu y Bwrdd, a sefydlwyd yn 2021. Mae gwaith dadansoddi diweddar gan Ysgol Fusnes Caerdydd yn dangos

bod ein gweithgareddau yn ychwanegu £1bn at economi Cymru. Rydym yn cyflogi (ym mis Mawrth 2024) bron 4,000 o bobl yn uniongyrchol ac yn amcangyfrif ein bod yn creu'r un nifer o swyddi yn ein cadwyn gyflenwi, a bod y rhaglen gyfalaf ar gyfer AMP8 yn debygol o greu 2,000 o swyddi pellach yn y sector adeiladu. Cymerodd bron 90,000 o blant ran yn ein rhaglen addysg yn 2023, ac roedd yn bleser gennym groesawu Lynne Neagle, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, a Julie Morgan, Aelod o'r Senedd dros Ogledd Caerdydd, i agor ein canolfan ymwelwyr newydd yng nghronfeydd dŵr adferedig Llanisien a Llys-faen yn ffurfiol fis Medi diwethaf. O ystyried bod ein hardal weithredu yn cynnwys cymunedau sydd â'r lefel uchaf o amddifadedd cymdeithasol yn y DU, rydym yn cynnig y cyfraniad uchaf at dorffau cymdeithasol o blith unrhyw gwmni dŵr, ac rydym wedi ehangu ein cynlluniau yn ddiweddar i dargedu'r cwsmeriaid hynny sy'n gweithio nad ydynt yn cael budd-daliadau yn seiliedig ar brawf modd ond sydd â chyllidebau negyddol.

Olyniaeth

Ar ôl ymuno â Bwrdd Glas Cymru ym mis Mai 2016, hwn fydd fy Adroddiad Blynyddol olaf gan y byddaf yn ymddeol ar ddiwedd 2024. Mae ein Huwch-gyfarwyddwr Annibynnol, Jo Kenrick, yn hen law ar arwain y Pwyllgor Enwebu i ddethol pwy y bydd yn ei argymhell i'r Bwrdd i'm hollynu.

Bu'n ffrainc cadeirio sefydliad masnachol sydd ag ymrwymiad cymdeithasol mor gryf i'w wlad, y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, a phob un o'i gwsmeriaid. Mae ganddo ddiwylliant cadarnhaol sy'n poeni am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a'r effaith ar yr amgylchedd. Tra ei bod yn agored, yn ymgynghorol ac yn gydsyniol ar y naill law, yn fewnol ac ymysg ei randdeiliaid, pan fydd argyfwng, mae'n rhaid iddo ymateb yn effeithlon ac yn gywir, heb unrhyw amheuaeth ymysg y tîm ymateb o ran beth i'w wneud, sut na phryd, ac mae'n gwneud hynny – wyneb derbyniol "gorchymyn a rheoli".

Mae'r heriau a wynebwr gan y tîm rheoli yn gymhleth ac yn amlweddol. Mae'n rhaid iddo ddarparu dwy elfen benodol o seilwaith cenedlaethol hanfodol – dŵr glân a charthffosiaeth – gan geisio bodloni amrywiaeth o randdeiliaid ar yr un pryd – cymdeithas yn gyffredinol; Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y

DU a llywodraethau lleol; rheoleiddiwr economaidd; rheoleiddwyr amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr; y Gyfarwyddiaeth Dŵr Yfed; y Cyngor Defnyddwyr Dŵr; ein Grŵp Her Cwsmeriaid ein hunain, cyrff anllwydraethol amgylcheddol, ac wrth gwrs, ein Haelodau, i enwi dim ond rhai. Drwy fy rolau blaenorol, dysgais fod angen i'r Bwrdd ganolbwyntio ar gynnydd rheolwyr drwy gynnal adolygiad rheolaidd o nifer cyfyngedig o bethau allweddol i'w cyflawni a fyddai'n pennu llwyddiant y cwmni wrth roi ei strategaeth ar waith. Mae'r cyfnod rheoleiddio cyfredol – AMP7 – yn cynnwys 56 o Ymrwymadau Perfformiad wedi'u diffinio gan ein rheoleiddiwr, a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd ein rheolwyr. Mae hyn oll yn digwydd ar adeg pan fo cymdeithas a'r cyfryngau yn rhoi sylw mawr, yn gywir ddigon, i'r ffaith nad ydym yn bodloni disgwyliadau heddiw, a'n bod yn defnyddio system garthffosiaeth hanesyddol y bydd ei hailddylunio yn costio biliynau ac yn cymryd sawl AMP i'w gyflawni. Mae gennyf barch mawr tuag at allu ac ymrwymiad rheolwyr Dŵr Cymru a bu'n bleser gweld unigolion ifanc brwdfrydig ac ymrwymedig o bob cefndir yn ennill profiad ac yn ymgymryd â rolau mwyfwy heriol ar eu taith at ddod yn arweinwyr y dyfodol.

Rwy'n gobeithio, pan fyddaf yn ymddeol, y bydd y Cwmni wedi cael Penderfyniad Terfynol gan Ofwat ar gyfer AMB8 y gellir ei gyflawni, ei fforddio a'i ariannu: un a fydd yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen i wneud cynnydd sylweddol dros y pum mlynedd nesaf yn y meysydd hynny lle mae'n wynebu'r heriau mwyaf ar hyn o bryd, ac sy'n helpu'r Cwmni i wireddu ei Weledigaeth – "Ennyn Ymddiriedaeth ein Cwsmeriaid Bob Dydd". Diolch yn fawr i bawb yn Dŵr Cymru sy'n ymroi cymaint i wireddu hyn, a diolch iddynt am eu cyfraniad a'u cymorth dros fy nghyfnod fel Cadeirydd.

Alastair Lyons CBE
Cadeirydd y Bwrdd

6 Mehefin 2024

NI YW DŴR CYMRU

Ers sefydlu Glas Cymru, ein nod yw bod yn berchen ar Dŵr Cymru, ei gyllido a'i reoli er budd ei gwsmeriaid. Mae hyn wedi diffinio ein Diben yn gyson o'r cychwyn cyntaf, ac yn 2018, cafodd Datganiad o Ddiben newydd, mwy ffurfiol (gweler yr ochr dde) ei gynnwys yn erthyglau cymdeithasu'r Cwmni. Fel cwmni cyfyngedig drwy warant heb randdeiliaid, mae Glas Cymru yn bodoli at un diben yn unig – galluogi Dŵr Cymru, ei is-gwmni rheoleiddiedig a berchenogir yn llawn, i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'w gwsmeriaid. Rydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i'n cwsmeriaid drwy gyflenwi eu dŵr yfed a gwaredu eu dŵr gwastraff a'i drin mewn modd cynaliadwy sy'n diogelu ein hamgylchedd a'r fioamrywiaeth y mae'n ei chefnogi. Fel busnes seilwaith hirdymor yng Nghymru, rydym yn cysoni ein cynlluniau a'n hymrwymadau llesiant ein hunain (a gyhoeddwyd yn 2020) â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ac rydym yn falch o gefnogi diwylliant Cymru a'r Gymraeg.

 Gweler tudalen 08 am ragor o wybodaeth am bwy rydym yn eu gwasanaethu a'n rhanddeiliaid



Darllenwch fwy amdanom ar-lein yn: corporate.dwrcymru.com/cy-gb

Ein Diben

Diben ein cwmni yw darparu dŵr a gwasanaethau amgylcheddol o ansawdd uchel, sy'n darparu gwell gwerth am arian, er mwyn gwella llesiant ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Credwn fod ein Diben, ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd yn elfennau cyd-atgyfnerthol o'r ffordd rydym yn gweithredu a'n diwylliant corfforaethol.

Ein Gweledigaeth

Ein Gweledigaeth yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd.

Ein gwerthoedd



Mae ychwanegu Cydraddoldeb i bawb fel Gwerth penodol yn adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi cyflwyno mwy o fentrau i gefnogi a gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 12 sy'n dangos rhywfaint o'n cynnydd yn y maes hwn.

YR HYN A WNAWN

Mae ein Diben, ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd yn golygu bod gennym ffocws diwyro ar ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid, gan sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Serch hynny, rydym yn cydnabod yn llawn nad yw ein gwasanaethau na'n perfformiad amgylcheddol wedi cyrraedd y lefelau gofynnol yn ddiweddar, felly ein blaenoriaethau presennol yw:



Gwella'r gwasanaethau
rydym yn eu darparu
i gwsmeriaid a
gwasanaethau



Gwella ein
perfformiad
amgylcheddol



Sicrhau cadernid a chynaliadwyedd i gefnogi
ein gweithgarwch yn yr hirdymor, a chyflawni
strategaeth Dŵr Cymru 2050 a'n hamcanion
ACLI

Ein gwaith ni yw gofalu am ddŵr y rheini yn ein hardal weithredu, gan gefnogi iechyd y cyhoedd a bywydau pobl o ddydd i ddydd.



Er mwyn gwneud hyn, rydym:

- yn benthycu dŵr o'r cylch dŵr, yn ei gasglu a'i storio mewn cronfeydd dŵr, ond yn gadael tua 97% yn yr amgylchedd naturiol;
- yn ei lanhau ym mhob un o'n 66 o weithfeydd trin dŵr er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel i'w yfed; ac
- yn ei bibellu i'n cwsmeriaid er mwyn iddynt ei ddefnyddio pan fydd ei angen arnynt.



Yna, rydym:

- yn gwaredu dŵr gwastraff; ac
- yn ei drin fel bod modd ei ddychwelyd i'n hafonydd a'n moroedd.



Fel rhan o hyn, rydym:

- yn gweithio gyda thirfeddianwyr i atal y dŵr ffo sy'n llifo o'r brynau ac arwynebau eraill i gronfeydd dŵr rhag cael ei halogi;
- adeiladu a chynnal a chadw sylfaen asedau enfawr, gan gynnwys argaeau, gweithfeydd trin ar gyfer dŵr crai a dŵr gwastraff; a rhwydwaith helaeth o bibellau a gorsafoedd pwpio i gludo dŵr.

Weithiau, bydd ein hasedau'n methu neu'n cael eu llethu gan law eithafol neu dywydd oer, gan darfu ar y broses o gyflenwi dŵr glân neu waredu a thrin dŵr gwastraff. Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn gweithio'n galed i ddatrys pethau cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau unrhyw anghyfleustra i'n cwsmeriaid a niwed i'n hamgylchedd.

Yn ychwanegol at ddarparu'r gwasanaethau hyn i'n cwsmeriaid, rydym yn creu gwerth cymdeithasol i'r cwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu drwy wneud y canlynol:

- rhedeg canolfannau ymwelwyr at ddibenion hamdden a llesiant;
- cefnogi cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus, boed hynny'n ariannol neu fel arall;
- darparu cyllid i brosiectau cymunedol;
- cydweithio ag eraill ar waith ymchwil ac arloesedd er mwyn creu ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon o weithredu;
- cynnal rhaglenni i addysgu'r genhedlaeth iau ar arferion da wrth ddefnyddio dŵr a gwaredu dŵr gwastraff; a
- gwneud cyfraniad mawr at economi Cymru, gan ddarparu swyddi uniongyrchol ac, o bosibl, yrfaedd hir a gwerth chweil i'n gweithlu o tua 4,000 o bobl (ym mis Mawrth 2024), a chefnogi tua 5,000 o swyddi'n anuniongyrchol ym musnesau ein cyflenwyr a'n contractwyr.

Drwy'r holl weithgareddau hyn, rydym yn dibynnu'n fawr ar y canlynol:

- diogelu'r amgylchedd naturiol rhag niwed (gan gynnwys llygredd);
- gwella cadernid a chynaliadwyedd ein gweithrediadau, ein hasedau a'n gwasanaethau;
- addasu er mwyn bod yn barod i ymdopi â heriau presennol a heriau yn y dyfodol, a gallu gwneud hynny, er enghraifft
 - newid hinsawdd,
 - poblogaeth sy'n cynyddu ac yn heneiddio, a
 - sylfaen asedau sy'n heneiddio, y cofodd rhan fawr ohoni ei dylunio ar gyfer gofynion ac amodau gwahanol iawn i'r rheini rydym yn eu gweld heddiw a'r rheini rydym yn disgwyl eu gweld dros y degawdau nesaf;
- gwella ansawdd y dŵr yn ein hafonydd ac ar ein traethau;
- diogelu a gwella bioamrywiaeth;
- lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr; a
- gwella ein heffeithlonrwydd ynni a symud tuag at sicrhau allyriadau carbon sero net.
- Sylfaen asedau sy'n heneiddio, y cofodd rhan fawr ohoni ei dylunio ar gyfer gofynion ac amodau gwahanol iawn i'r rheini rydym yn eu gweld heddiw a'r rheini rydym yn disgwyl eu gweld dros y degawdau nesaf.



Disgrifir ein model busnes yn fwy ffurfiol o ran mewnbynnau, prosesau ac allbynnau ar dudalen 10.

EIN HARDAL WEITHREDU

Mae'r ardal rydym yn cyflenwi dŵr yfed iddi yn cwmpasu'r rhan fwyaf o Gymru a Swydd Henffordd a rhannau o Lannau Dyfrdwy.

Mae ein rhwydwaith dŵr gwastraff yn cwmpasu'r rhan fwyaf a Swydd Henffordd.



Mae nodweddion ein hardal weithredu a'r heriau a wynebir ynddi yn cynnwys y canlynol:

Nodweddion demograffig ac economaidd-gymdeithasol

Mae cyfran helaeth o'n cwsmeriaid ar wasgar mewn ardaloedd gwledig, sy'n golygu bod angen mwy o gilomedrau o bibellau a mwy o weithfeydd trin fesul cwsmer. Mae ein rhwydwaith dŵr yn cynnwys llawer o gronfeydd dŵr ucheldirol a systemau disgrychiant, sy'n golygu bod yn rhaid i biblinellau weithio ar wasgedd uchel iawn, gan gynyddu'r her mewn perthynas â phrif bibellau'n byrstio a gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar y rhwydwaith.

Rhwng 2019 a 2022, roedd tua 21% o bobl yng Nghymru yn byw mewn tldi incwm cymharol (ffynhonnell: Llywodraeth Cymru) ac mae'r amodau economaidd diweddar yn golygu bod y sefyllfa hon yn debygol o fod wedi gwaethgu. Mae allbynnau economaidd (Gwerth Ychwanegol Gros) ac incymau cartrefi yn gyffredinol is yng Nghymru o gymharu â'r DU gyfan. Mae hyn yn golygu ein bod yn wynebu heriau ychwanegol o ran sicrhau bod biliau'n fforddiadwy

a chydwyso fforddiadwyedd ag anghenion buddsoddi.

Ffactorau amgylcheddol naturiol

Mae nodweddion ein hardal weithredu yn peri heriau unigryw i ni fel cwmni dŵr. Er bod y lefelau glawiad uchel o gymharu â rhannau dwyreiniol y DU yn gadarnhaol o ran adnoddau dŵr, maent hefyd yn cynyddu'r risg o lifogydd ac yn rhoi pwysau ar ein gwaith rheoli dŵr wyneb a'n rhwydweithiau dŵr gwastraff. Mae ein cymysgedd o iseldir arfordirol ac ucheldir mynyddig sydd â phoblogaeth wasgaredig fel arfer yn creu heriau, gan fod yn rhaid i'n rhwydwaith weithredu ar wasgedd uchel; a gall fod yn anodd cyrraedd mannau ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio. Mae gennym hefyd forlin hir a llawer o afonydd bach sy'n sensitif yn ecolegol o gymharu â chwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill.

Addasu i'r hinsawdd

Mae'r tywydd eithafol a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf, yn amrywio o'r cyfnod hir o sychder yn 2022, i'r cyfnodau difrifol o dywydd rhewllyd/dodmer rhwng diwedd 2022 a dechrau 2023, i ddwyyster ac amllder stormydd a enwir gan y Swyddfa Dywydd yn BA 24, wedi atgyfnerthu'r angen i sicrhau ein bod yn addasu ein sylfaen asedau a'n gwasanaethau i ymdopi â bygythiadau'r newid yn yr hinsawdd. Ymysg ymatebion penodol mae creu gwell amddiffynfeydd rhag llifogydd o amgylch rhai o'n gweithfeydd trin dŵr sy'n fwy tebygol o wynebu llifogydd, gwella ein gwaith monitro er mwyn nodi problemau yn gynt, a chreu capasiti storio ychwanegol i ymdopi â glaw eithafol. Rydym hefyd wedi aildrefnu rhai o'n gweithrediadau ymateb brys fel bod modd i ni weithredu'n gynt ac yn fwy effeithiol i ddatrys problemau gweithredol, ac rydym yn cysylltu rhannau o'n rhwydwaith er mwyn ein galluogi i gynnal y cyflenwad yn ystod cyfnodau o sychder neu brinder dŵr.

Ein maint wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol

1.4 miliwn

O GARTREFI'N CAEL EU GWASANAETHU



DROS 800

MEGALITR O DDŴR CROYW YN CAEL EI DDARPARU BOB DYDD



BRON

10,000

O SWYDDI'N CAEL EU CEFNOGI



£1 biliwn

O WARIANT YN CAEL EI GYNHYRCHU: MAE EIN GWEITHGARWCH YN CYNRYCHIOLI >1% O ECONOMI CYMRU



PWY RYDYM YN EU GWASANAETHU

Cwsmeriaid preswyl

75%

O REFENIW

Rydym yn darparu gwasanaethau hanfodol i fwy na 3 miliwn o bobl, gan gynnwys cyflenwi dŵr yfed i'r rhan fwyaf o Gymru a Swydd Henffordd, a rhannau o Lannau Dyfrdwy. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau dŵr gwastraff i'r rhan fwyaf o Gymru a Swydd Henffordd.

Cwsmeriaid busnes

21%

O REFENIW

Mae gennym tua 110,000 o gwsmeriaid busnes (neu nad ydynt yn gartrefi). Maent yn cynnwys popeth o safleoedd diwydiannol mawr i swyddfeydd a siopau bach ar y stryd fawr, busnesau amaethyddol, awdurdodau lleol, elusennau, a chyfeusterau addysg ac iechyd.

Cwsmeriaid sy'n ddatblygwyr

4%

O REFENIW

Rydym yn gweithio gyda newydd-ddyfodiaid ac amrywiadau, darparwyr hunanosod a datblygwyr yn amrywio o ddatblygwyr tai mawr neu adeiladau masnachol i adeiladwyr tai unigol, gan ddarparu cysylltiadau dŵr a charthffosiaeth newydd a chefnogi darparwyr hunanosod oddi ar y safle yn unol â'r safonau a'r ddeddfwriaeth yn ein hardaloedd gweithredu.

Mae'n bwysig bod ein holl wasanaethau yn cyrraedd y safonau uchaf. Mae gweithio gyda datblygwyr yn y ffordd hon yn ein helpu i chwarae ein rhan wrth gefnogi datblygiad economaidd a thwf yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Ein rhanddeiliaid

Mae ein rhanddeiliaid yn chwarae rôl bwysig wrth lywio ein cynlluniau a'n huchelgeisiau. Ceir crynodeb o'r gwerth rydym yn ei greu ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid yn ein model busnes ar dudalen 10. Rydym yn ymgysylltu'n helaeth â'r grwpiau hyn, gan ystyried eu buddiannau a'u hamcanion eu hunain. Nodir manylion yr ymgysylltu hwn, a gaiff ei fonitro'n agos gan ein Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, ar dudalennau 54 i 55. Mae gwaith ymgysylltu'r Bwrdd a'r effaith y mae'n ei chael ar benderfyniadau'r Bwrdd, wedi'i nodi ar dudalennau 51 i 53.

Mae ein hasedau'n cynnwys y canlynol:

27,600km

O BRIF BIBELLAU DŴR

92

O GRONFEYDD DŴR A REOLIR

36,600km

O GARTHFFOSYDD

3m

O BOBL A WASANAETHIR

834

O WEITHFEYDD TRIN DŴR
GWASTRAFF A REOLIR

828m

O LITRAU O DDŴR A GYFLENWIR
BOB DYDD

THEMÂU STRATEGOL A FFACTORAU GALLUOGI

Ein themâu strategol

Er mwyn sicrhau eglurder yn yr adroddiad hwn, rydym yn grwpio ein gweithgareddau a'n cynlluniau o dan ddwy thema strategol:



Darparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid a'n cymunedau

sy'n cynnwys ein gwasanaethau cyflenwi dŵr a dŵr gwastraff a'n gweithgareddau sy'n creu gwerth cymdeithasol, a ddisgrifir uchod. Er hwylustod a symlrwydd, rydym yn defnyddio 'Darparu Gwasanaethau' i gyfeirio at y thema hon yng ngweddill yr adroddiad hwn.



Diogelu'r amgylchedd

sy'n cynnwys ein gweithgareddau i ddiogelu a chefnogi'r amgylchedd ac i addasu i heriau amgylcheddol yn y dyfodol, er enghraifft y newid yn yr hinsawdd, gan ddiogelu bioamrywiaeth a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd drwy ein gweithrediadau. Er hwylustod a symlrwydd, rydym yn defnyddio 'Yr Amgylchedd' i gyfeirio at y thema hon yng ngweddill yr adroddiad hwn.

Darparu Gwasanaethau

Cyllido

Yr Amgylchedd

Llywodraethu

Cynaliadwyedd

● Themâu strategol
● Ffactorau galluogi

Rydym hefyd yn adrodd o dan gategori ar wahân, sef



Cynaliadwyedd

Rydym yn datblygu ac yn cyflwyno polisiau sy'n galluogi'r busnes i gynnal ei nodau o ran darparu gwasanaethau a'r amgylchedd yn yr hirdymor ac, felly, cyflawni nodau Dŵr Cymru 2050. Felly, mae ymagwedd gynaliadwy at ein busnes yn angenrheidiol i gyflawni addewid Dŵr Cymru 2050.

Ein ffactorau galluogi

Mae'r ffordd rydym yn gweithio yn ategu ein themâu strategol, fel y dangosir yma



Cyllid

Fel busnes nid er cyfranddalwyr, rydym mewn sefyllfa well i ganolbwyntio ar anghenion ein cwsmeriaid a'n cymunedau, ac i gyflwyno cynnig buddsoddi deniadol i fuddsoddwyr mewn bondiau pan fydd angen i ni godi arian i dalu am ein cynlluniau buddsoddi. Mae gennym un o'r sgoriau credyd gorau yn y sector dŵr, sy'n cadw ein costau'n isel ac yn helpu i gynnal gwasanaethau fforddiadwy.

I goel rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau cyllido cadarn a sefydlog, gweler tudalen 24.



Llywodraethu


Rydym yn cydnabod bod llywodraethu cadarn yn hanfodol er mwyn ennyn a chynnal ymddiriedaeth ein rhanddeiliaid a'n helpu i gyflawni'r canlyniadau y maent yn dymuno eu gweld. Mae hyn yn dechrau gyda'r tŷn ar y brig a osodir gan Fwrdd profiadol (y mae'r mwyafrif o'i aelodau yn Gyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol) a fframwaith llywodraethu clir a chynhwysfawr sy'n elwa ar oruchwyliaeth a her sylweddol gan nifer o elfennau annibynnol. Disgrifir y fframwaith hwn yn adran Llywodraethu yr adroddiad hwn – gweler tudalen 96.

Sgoriau credyd (ar 31 Mawrth 2024)

Bondiau	MOODY'S	S&P	FITCH
Dosbarth A*	A1	AA	A
Dosbarth B	A3	A-	A
Dosbarth C	Baa2	BBB	BBB+
Rhagolwg	Sefydlog	Effaith negyddol	Sefydlog

* Mae'r bondiau Dosbarth A wedi'u gwarantu gan Assured Guaranty UK Ltd (A1/AA/Heb statws) ac maent yn dychwelyd i statws uchaf y gwarantwr a'r statws bond sylfaenol.

Annibyniaeth y Bwrdd ar 31 Mawrth 2024



● Cadeirydd
● Cyfarwyddwr Gweithredol
● Cyfarwyddwr Anweithredol

Cyfanswm y Cyfarwyddwyr: 9, Cyfarwyddwyr Anweithredol Annibynnol: 6

Cyfran y Cyfarwyddwyr sy'n annibynnol: 66.7%

Rhoddir manylion bywgraffyddol y Cyfarwyddwyr ar dudalennau 102 i 105.

EIN PROSES BUSNES

Mewnbynnau, allbynnau a chreu gwerth ar gyfer rhanddeiliaid

Ein mewnbynnau

Ein pobl

Mae ein gweithlu o bron 4,000 o bobl (ym mis Mawrth 2024) yn ymrwymedig i ragori ym mhopeth a wnânt.

Rheoleiddwyr

Rydym yn croesawu cydberthnasau agos ac agored â phob corff rheoleiddio a chorff y llywodraeth ac yn cydnabod bod cydweithio yn sicrhau canlyniadau gwell i'n cwsmeriaid a'r cymunedau rydym eu gwasanaethu.

Adborth gan gwsmeriaid

Rydym yn cynnal rhaglenni helaeth i gasglu adborth gan gwsmeriaid er mwyn llywio ein cynlluniau, gwella ein gweithrediadau a darparu'r gwasanaethau gorau posibl.

Cyflenwyr

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cyflenwyr a'n contractwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig gwerth da am arian i gefnogi fforddiadwydd ein gwasanaethau ein hunains.

Seilwaith a buddsoddwyr

Rydym yn datblygu, yn cynnal ac yn gweithredu seilwaith helaeth i ddarparu ein gwasanaethau'n effeithiol, nawr ac am ddegawdau i ddod. Darperir cyllid gan fuddsoddwyr yn ein bondiau.

Adnoddau naturiol

Mae'r hinsawdd gefnforol yng Nghymru yn darparu dros 3,000mm o law y flwyddyn mewn rhan rhannau o'n hardal weithredu, yn enwedig Eryri. Mae ardaloedd iseldir y de yn tueddu i weld llai o law.

Proses – Ein gweithrediadau



Yr allbynnau rydym yn anelu atynt

Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i Gymru*

Dŵr yfed diogel, dibynadwy o ansawdd da i Gymru*

Cefnogi dyfodol cymunedau i Gymru*

Diogelu'r amgylchedd i Gymru*

* Rydym yn defnyddio Cymru yma fel procsi ar gyfer ein hardal weithredu a ddisgrifir ar dudalen 07.

Gwerth a grëir i'n rhanddeiliaid

Ein pobl

Rydym yn darparu swyddi ac, o bosibl, yrfaeodd hirdymor a gwerth chweil mewn amgylchedd gwaith cefnogol a chynhwysol.

Cwsmeriaid, cymunedau a chymdeithas

Rydym yn helpu i gynnal iechyd y cyhoedd drwy ddarparu dŵr yfed diogel a gwasanaethau trin gwastraff. Rydym yn cynnig buddiannau cymdeithasol ychwanegol drwy ein tariffau cymdeithasol, ein rhaglenni addysgol a'n canolfannau ymwelwyr.

Cyflenwyr a chontractwyr

Mae ein gweithgoreddau yn cefnogi tua 5,000 o swyddi yn ein cadwyn gyflenwi ac yn gwneud cyfraniad mawr at economi Cymru ac economi'r DU, yn bennaf am fod angen i ni gyflogi cyflenwyr a chontractwyr i gefnogi ein gweithrediadau.

Cenedlaethau'r dyfodol a'r amgylchedd

Rydym yn cynllunio ar gyfer yr hirdymor, gan feithrin cadernid a chynaliadwydd ein gwasanaethau a lleihau'r niwed i'r amgylchedd a achosir gan weithgarwch dynol.

Grwpiau diwydiant a busnes

Drwy ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gyflenwyr a grwpiau eraill, rydym yn rhannu arferion gorau ac yn dysgu oddi wrthynt, gan gyfrannu at ddull Tîm Cymru o ysgogi canlyniadau gwell i bawb.

Ariannol a buddsoddwyr

Rydym yn cynnig enillion teg a risg isel i fuddsoddwyr mewn bondiau.

Rheoleiddwyr a'r llywodraeth

Rydym yn helpu i gyflawni amcanion rheoleiddiol ac amcanion polisi'r llywodraeth mewn ffordd agored a thryloyw.

SUT RYDYM YN GWEITHIO

Un Diben clir

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae sector dŵr y DU wedi bod yn destun craffu sylweddol wrth i ddisgwyliadau cwsmeriaid newid, mae rheoliadau amgylcheddol wedi cael eu tynhau, ac mae cwmnïau wedi ceisio ymateb i her gynyddol y newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar seilwaith sy'n heneiddio, gan gynnal biliau fforddiadwy yn ystod argyfwng costau byw.

Mae ein Diben clir a'n statws fel cwmni nid er cyfranddalwyr yn golygu bod gennym ffocws diwyro ar ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid, a chyfrannu at y cymunedau rydym yn rhan annatod ohonynt fel darparwr cyfleustodau hanfodol.

Ein diwylliant

Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn y gwaith rydym yn ei wneud a'r gwasanaethau cwsmeriaid rydym yn eu darparu.

Mae ein diwylliant yn seiliedig ar ein Gwerthoedd a'n Gweledigaeth i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Mae ein Diben clir yn ein helpu i ganolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cwsmeriaid a'r amgylchedd. Rydym bob amser yn ceisio gwneud pethau'n well, ac rydym yn gwneud hynny drwy ddysgu, arloesi, croesowu newid a rhannu arferion gorau yn fewnol a gyda sefydliadau eraill.

Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, mae gennym gynlluniau clir sy'n seiliedig ar dargedau mesuradwy. Er mwyn cyflawni'r cynlluniau hyn, rydym yn dibynnu ar ein pobl, sydd â'r lefelau uchaf o gymhelliant, ymroddiad ac awydd cryf i 'wneud y peth iawn'.

Ein nod bob amser yw bod yn glir pan fydd rhywbeth wedi mynd o chwith, cydnabod lle nad ydym yn cyflawni fel y dylem, a datblygu cynlluniau clir i wella.

Rydym yn cydnabod gwerth ffyrdd amrywiol o feddwl yn ein sefydliad. Dyna pam ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i hyrwyddo ac annog gweithlu mwy amrywiol, gan ddenu'r bobl orau ac adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Ein nod yw meithrin diwylliant cynhwysol lle y gall pawb fod yn nhw eu hunain, cyrraedd eu llawn botensial, cyfrannu at lwyddiant y Cwmni a mwynhau gyrfa iach a gwerth chweil.

Sut mae ein diwylliant yn ein helpu i gyflawni ein strategaethau

Rhan annatod o'n diwylliant yw gwrando ar gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill er mwyn deall eu hanghenion sy'n datblygu, addasu ein strategaeth a'n cynlluniau fel y bo'n briodol a glynu wrth ein diwylliant a'n Gwerthoedd i ddiwallu'r anghenion hynny.

GWERTHOEDD AR WAITH



Astudiaeth Achos

Diogelwch – ein 'taith i sero'

Nod ein gwerth craidd, sef 'Mae diogelwch yn bwysig i bawb', yw sicrhau bod pawb yn cadw'n iach ac yn ddiogel yn yr amgylchedd gwaith. Yn y pen draw, ein nod yw sicrhau amgylchedd heb unrhyw anafiadau ac mae gennym strategaeth hirdymor i wella iechyd, diogelwch a llesiant, sef ein "Taith i Sero". Mae'r strategaeth hon yn ymgorffori'r ffordd y byddwn yn dileu peryglon ac yn lleihau'r risgiau i'n hiechyd a'n diogelwch ni ein hunain ac iechyd o diogelwch unrhyw un arall y gallai'r hyn a wnawn effeithio arno.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cadw Gwobr Aur y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau a Gwobr Platinwm Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru. Gallwch ddarllen mwy am ein 'taith i sero' yn ein hadroddiad blynyddol ar lechyd, Diogelwch a Llesiant <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/health-and-safety-reports>



Astudiaeth Achos

Cydraddoldeb i bawb

Er mwyn taro'r cydbwysedd a ddymunir o ran gweithlu amrywiol, mae angen i ni ddenu a recriwtio mwy o ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Ym mis Ionawr 2024, roedd canran y ceisiadau gan ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn 8%, sef cynnydd o gymharu â 4% yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn wedi cael ei sbarduno gan nifer o fentrau, sydd wedi'u crynhoi isod:

- Rydym yn gwarantu cyfweiliad i unrhyw ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a all ddangos eu bod yn bodloni gofynion sylfaenol y rôl.
- Rydym wedi newid yr iaith a ddefnyddir yn ein hysbysebion a'n disgrifiadau swydd er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cynhwysol.
- Rydym yn defnyddio byrddau swyddi sy'n targedu grwpiau heb gynrychiolaeth.
- Rydym wedi cynnal digwyddiadau gyrfaedd mewn ysgolion wedi'u hanelu at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Rydym wedi mynd i ddigwyddiadau cymunedol sy'n datlhu amrywiaeth, fel Pride a Ramadan.

Mae'r cynnydd yn nifer y ceisiadau a nodwyd uchod yn galonogol, ac roeddem yn falch o weld bod ein harolwg ymgysylltu â staff diweddaraf wedi dangos bod 84% o'r rheini yn ein grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wedi datgan eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg, ni waeth beth fo'u cefndir, a'u bod yn gallu bod yn nhw eu hunain yn y gwaith.



FFRAMWEITHIAU RHEOLEIDDIO A MESUR PERFFORMIAD

Ein rheoleiddiwr economaidd, Ofwat, sy'n gosod y fframwaith cynllunio a pherfformiad ar ein cyfer ni a chwmnïau dŵr eraill.

Mae Adolygiadau o Brisiau bob pum mlynedd yn gosod terfynau ar filiau cwsmeriaid gan ystyried anghenion gwariant a ffactorau ariannol fel cyfraddau llog. Mae'r adolygiad diweddaraf, sef PR 24, yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2025 a 2030. Cyfeirir at y cyfnod hwn fel Cyfnod Rheoli Asedau (AMP)8. Bydd Ofwat yn pennu targedau perfformiad (blynyddol ac ar gyfer y cyfnod cyfan ar gyfer ymrwymadau perfformiad penodol), a bydd yn nodi'r sail ar gyfer mesur y rhain er mwyn sicrhau cysondeb a gallu eu cymharu ar draws y sector. Defnyddir y targedau ar gyfer ymrwymadau perfformiad i gyflwyno adroddiadau cyfnodol i Ofwat, ac er mwyn gosod gwobrau a chosbau ariannol ar gyfer ein perfformiad mewn perthynas â rhai mesurau. Mae'r rheolwyr yn paratoi cynlluniau busnes blynyddol yn y cyd-destun hwn, ac ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo'r cynlluniau hyn, mae'r Bwrdd yn eu defnyddio i fonitro perfformiad y Grŵp.

Mae gennym hefyd strategaeth hirdymor (Dŵr Cymru 2050), a gyhoeddwyd gyntaf yn 2018 ac a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2022, sy'n nodi ein huchelgeisiau a'n nodau hirdymor.

Un o gonglfeini Dŵr Cymru 2050 yw cynaliadwyedd, a ategir ymhellach gan ein 10 amcan ACLI a'n saith Nod Llesiant, sy'n cyd-fynd yn agos â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (y Ddeddf), nodau datblygu cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a 10 egwyddor Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig.

 Trowch at dudalen 49 i weld Sut Rydym yn Cynllunio, tudalennau 20 i 23 am grynoded o'n perfformiad mewn perthynas â'r AMP yn ystod y flwyddyn, tudalen 73 am fanylion ein hamcanion ACLI, a thudalen 50 am ragor o wybodaeth am Dŵr Cymru 2050.

 Gweler hefyd atodiad B ar dudalen 216 am grynoded o'n rheoleiddwyr allweddol.

Bwriedir i'r dudalen hon a'r tudalennau sy'n dilyn roi cyflwyniad byr ond cyffredinol i'n busnes a'r cyd-destun rydym yn gweithredu oddi mewn iddo. Mae'r adrannau sy'n dilyn (Neges y Prif Weithredwr ar dudalen 15, Crynodeb o Berfformiad ar dudalennau 20 i 23 ac Adolygiad y Prif Swyddog Ariannol ar dudalen 24) yn rhoi rhagor o fanylion am ein perfformiad a'n sefyllfa diweddar.



ADRODDIAD STRATEGOL

Mae'r adroddiad strategol hwn yn amlinellu ein perfformiad dros y flwyddyn, y risgiau rydym yn eu hwynebu a'r ffordd rydym yn eu lliniaru, ynghyd â'n gweledigaeth a'n strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Neges y Prif Weithredwr	15
Crynodeb o Berfformiad	20
Adolygiad y Prif Swyddog Ariannol	24
Y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)	30
Sut rydym yn Cynllunio	49
Cynlluniau Hirdymor: Dŵr Cymru 2050	50
Datganiad A172	51
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	54
Ein Dull o Reoli Risg	56
Datganiad am Hyfywedd Hirdymor	67
Yr Hyn y Mae Cynaliadwyedd yn ei Olygu i Dŵr Cymru	72
Cynaliadwyedd ac Amcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI)	74
Cynllun Adfer EPA 4 Seren	91

NEGES Y PRIF WEITHREDWR



“RYDYM YN YMRWYMEDIG I WELLA EIN GWASANAETHAU I GWSMERIAID A'R AMGYLCHEDD.”

Peter Perry
Prif Swyddog Gweithredol

2023 – Cefndir

O safbwynt y tywydd, roedd 2023 bron yn gyferbyniad llwyr i'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod o sychder yn 2022, gwelwyd y tymheredd uchaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru. Dyma'r cyfnod sychaf a gofnodwyd erioed, ac roedd yn fwy dwys na'r amodau difrifol tebyg a welwyd yn 1976.

Lle roedd 2023 yn flwyddyn wlypach na'r arfer yn gyffredinol, yng Nghymru, gwelwyd y mis Mawrth gwlypaf erioed a'r mis Mai sychaf erioed, wrth i'r tywydd amrywio o un pegwn eithaf i'r llall mewn ychydig fisodd! Yn gyson â hyn, dim ond yn ystod deufis o'r flwyddyn gyfan, sef mis Mai a mis Mehefin, y gwelwyd llai o law na'r cyfartaledd hirdymor. Gwelsom hefyd y cyfnod gwlypaf rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr ers 1890 – glawiad o 134% o'r cyfartaledd hirdymor – sef digwyddiad 1 mewn 80 mlynedd. Ar ddiwedd 2023 gwelwyd hefyd y nifer mwyaf o stormydd a enwir gan y Swyddfa Dywydd, sef cyfanswm o chwech, ynghyd â phedwar arall ym mis Ionawr 2024. Arweiniodd y digwyddiadau olaf hyn at amodau gweithredu heriol iawn, ond diolch byth, ni chawsant effaith sylweddol ar gwsmeriaid. Er ein bod wedi lliniaru effaith yr amodau hyn, mae maint y llifogydd a'r achosion o golli'r prif gyflenwad trydan yn rhybudd, o ystyried yr amcanestyniadau bod newid yn yr hinsawdd yn debygol o olygu y daw'r math hwn o senario yn gyffredin.

Fel cwmni dŵr ar ochr orllewinol Prydain, rydym yn aml yn gweld y patrymau tywydd mwy tyrfol sy'n gysylltiedig â jetlif llai sefydlog. Er ein bod yn dod i'r arfer â'r eithafion sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd, rhaid i ni allu ymateb yn weithredol y byrdymor ond sicrhau ein bod yn cynllunio i lliniaru'r risg gynyddol hon

drwy fuddsoddi yn yr hirdymor. Rydym yn gweithredu mewn hinsawdd llai rhagweladwy nag o'r blaen, ac mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni addasu fel sefydliad er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i'r newidiadau hyn.

Mae'r eithafion hyn o ran tywydd yn creu heriau ychwanegol i ni o ran y gwasanaethau a ddarparwn. Mewn rhai amgylchiadau, bydd yr effaith ar asedau a adeiladwyd mewn oes arall, sydd bellach yn cael eu profi mewn sefyllfaoedd na chawsant eu dylunio ar eu cyfer, yn golygu bod angen gwneud gwaith ar raddfa eang i osod rhai newydd yn eu lle dros amser. Mae ein cynllun buddsoddi ar gyfer PR24 yn ystyried hyn ar sail blaenoriaeth o aseswyd, a bydd mynd i'r afael â'r risg yn rhan greiddiol o gylchoedd buddsoddi dros y degawdau nesaf.

Rydym hefyd yn cydnabod bod BA 24 wedi bod yn gyfnod anodd i lawer o'n cwsmeriaid, ac rydym yn parhau i gynnig lefelau o gymorth fforddiadwydd sy'n arwain y sector i'r rheini sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau dŵr. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i ddatblygu ein dull arloesol o fynd i'r afael â'r mater hollbwysig hwn drwy gyflwyno cynllun Cymuned yn ehangach. Lansiwyd y cynllun hwn gyntaf ar ddiwedd 2023 ac mae'n helpu'r rheini sy'n ennill cyflogai isel, sydd â chyllidebau negyddol ac nad ydynt yn gymwys i gael budd-daliadau yn seiliedig ar brawf modd. Mae'n galluogi ein cwsmeriaid yn yr amgylchiadau hyn i gael seibiant talu cyn dychwelyd i drefniant talu arferol wrth i'w hamgylchiadau personol wella.

Ein perfformiad

Mae BA 24 wedi bod yn flwyddyn heriol i ni o ran rhoi o'n mesurau perfformiad, ac roeddem yn siomedig bod Ofwat wedi ein dosbarthu'n gwmni sydd ar ei hôl hi yn ei adroddiad blynyddol ar berfformiad ar gyfer 2022/23. Mewn ymateb i hyn, rydym yn canolbwyntio'n llwyr ar ein cynlluniau adfer ar gyfer y meysydd lle nad ydym wedi cyrraedd y safonau disgwylidig. Rwy'n ymdrin â hyn yn yr adran sy'n dilyn ar Edrych i'r Dyfodol, a bydd hyn yn sail i'n cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Yn ein busnes cyflenwi dŵr, roeddem yn falch o fod wedi sicrhau cydymffurfiaeth o 99% â safonau dŵr yfed. Fodd bynnag, o ganlyniad i un methiant lefel isel yn ymwneud â choliform yn ein gwaith trin dŵr mwyaf yn Felindre, ger Abertawe, er na chafodd fawr ddim effaith ar iechyd y cyhoedd, dyblodd ein sgôr ar y Mynegai Risg Cydymffurfio i bob pwrpas. Cawsom sgôr o 7.7 yn gyffredinol am berfformiad (2022: 5.4), gyda'r methiant yn Felindre yn cyfrif am 50% o ffigur perfformiad 2023. Gwnaethom wella ein perfformiad bacteriolegol ehangach mewn gweithfeydd trin dŵr a chronfeydd dŵr yn 2023. Fodd bynnag, er gwaethaf rhaglen fuddsoddi barhaus i adnewyddu prif bibellau, erys ansawdd ein rhwydwaith yn heriol iawn mewn perthynas ag afliwio a chydymffurfiaeth o ran haearn. Mae ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer PR24 yn targedu gwelliannau parhaus mewn perthynas â'r mesurau hyn yn benodol.

Gan na chafwyd cyfnod difrifol o dywydd rhewlyd yn ystod y gaeaf, gwnaethom wella ein perfformiad mewn perthynas ag achosion o darfu ar y cyflenwad yn 2023, sef tua 23 munud, (2022: 45 munud). Cafodd achosion o bibellau'n byrstio o

NEGES Y PRIF WEITHREDWR PARHAD

ganlyniad i ddirywiad prif bibellau dŵr yng ngorllewin Cymru effaith andwyol ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn, gan gyfrif am fwy na 25% o gyfanswm y munudau cwsmeriaid a gollwyd. Yn yr ardal hon, sy'n wledig yn bennaf, mae gennym nifer helaeth o brif bibellau sment asbestos, ac ar y cyd â phartneriaid ar ein cynllun buddsoddi ar gyfer PR24, rydym wedi nodi bod amllder cynyddol achosion o bibellau'n byrstio yn deillio o effaith newid yn yr hinsawdd ar amodau'r tir, wedi'i waethgu gan y cyfnodau eithafol olynol o dywydd rhewllyd/dodmer a welwyd yn 2022.

Gan droi at ein perfformiad o ran dŵr gwastraff, mae'r tywydd gwlyb yn bennaf wedi arwain at amodau gweithredu heriol yn ystod y flwyddyn. Mae nifer yr achosion o lygredd wedi cynyddu yn gyffredinol, gyda mwy na'r nifer arferol o achosion yn gysylltiedig â'r llifogydd a achoswyd gan y cyfnod stormus ym mis Rhagfyr 2023. Hyd at y pwynt hwn, roeddem ar drywydd tebyg i 2022 (89) o ran alldro, ond gwelsom gynnydd i 108. Gwnaethom gofnodi saith achos difrifol o lygredd yn 2023, sef cynnydd bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafodd yr amodau gwlyb hefyd effaith ar gydymffurfiaeth ein gweithfeydd trin dŵr gwastraff, sef 97.3% o gymharu â 98.7% yn 2022. Bydd y perfformiad cyfunol hwn yn golygu ein bod yn cadw sgôr o 2* yn yr Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol ar gyfer blwyddyn galendr 2023. Fodd bynnag, wrth i'r flwyddyn ariannol ddod i ben, mae nifer sylfaenol y methiannau yn ymwneud â samplu dŵr gwastraff a'r ffactorau sy'n cyfrannu at hynny megis achosion o garthfossydd yn dymchwel, yn lleihau, gan olygu ein bod mewn sefyllfa well i adennill sgôr o 3* yn yr Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol ym mlwyddyn galendr 2024.

Unwaith eto, sicrhawyd canlyniadau da o ran ansawdd dŵr ymdrochi yng Nghymru yn 2023, wrth i 98% o'r dyfroedd ymdrochi dynodedig gyrraedd ein safonau amgylcheddol llym. Cafodd 80 o'n 109 o ddyfroedd ymdrochi (73%) eu dosbarthu'n 'rhagorol', sef y dosbarthiad gorau posibl. Mae canlyniadau Cymru yn cymharu'n dda â rhannau eraill o'r DU. Yn Lloegr, cyrhaeddodd 66% o'r dyfroedd ymdrochi y safon Rhagorol, ac yn yr Alban, cyrhaeddodd 44% y safon hon. Serch hynny, mae adroddiadau am ansawdd dŵr yn dibynnu'n fawr ar newidiadau hinsoddol, yn enwedig

cyfnodau o law trwm. Rydym eisoes yn gweld mwy o law yng Nghymru ar gyfartaledd o gymharu â rhannau eraill o'r DU, ac nid oedd y flwyddyn ddiwethaf yn eithriad. Ym mis Gorffennaf 2023, gwelwyd 191% o'r glawdd cyfartalog hirdymor yng Nghymru, a 125% yn ystod mis Awst a mis Medi.

O ran gwasanaeth cwsmeriaid, daethom yn bumed yn arolwg boddhad cwsmeriaid C-MeX Ofwat (pedwerydd yn BA 23). At hynny, daethom yn gyntaf o blith y Cwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth ym mesur ymddiriedaeth y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i helpu'r rheini sy'n wynebu amgylchiadau ariannol ac wedi cefnogi mwy na 130,000 o gwsmeriaid drwy ein tariffau cymdeithasol.

Buddsoddiad cyfalaf

Rydym wedi buddsoddi £483 miliwn yn BA 24. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos ehangder y gwelliannau sy'n rhan o raglen y flwyddyn hon.

Rhaglen Ddŵr

Rydym yn gwneud cynnydd da ar hyn o bryd mewn perthynas â chynllun mwyaf AMP7 i uwchraddio falfiau a'r capasiti gorlif yng nghronfa ddŵr cronni Llyn Celyn yng nghanol gogledd Cymru. Bydd y buddsoddiad o £45 miliwn yn y gronfa ddŵr yn cynnwys uwchraddio'r seilwaith y dibynnir arno yn ystod stormydd drwy gynyddu'r capasiti tynnu dŵr a sgwrio drwy drefniant falfiau newydd ac ychwanegu gorlifan newydd at strwythur yr argae. Mae Llyn Celyn yn rheoleiddio llif y dŵr i mewn i Afon Dyfrdwy a bydd y cynllun hwn nid yn unig yn gwella cydnerthedd yr ased ond hefyd yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gynyddu nifer y gollyngiadau i mewn i Afon Dyfrdwy i'r eithaf, a'u rheoli'n fwy effeithiol. Deallwn mai dyma'r gorlifan cronfa ddŵr fwyaf sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd yn Ewrop.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn y rhaglen ddŵr er mwyn gwella perfformiad mewn perthynas â gollyngiadau dŵr, derbynioldeb dŵr i gwsmeriaid, ac ansawdd dŵr. Mae gennym dîm dynodedig sy'n buddsoddi £10 miliwn i fynd i'r afael â gollyngiadau dŵr i fyny'r afon ar ein system prif bibellau cyflenwi dŵr drwy drwsio gollyngiadau mawr cymhleth a gosod mesuryddion a phwyntiau

gosod ar y rhwydwaith i'n galluogi i ddefnyddio technegau arloesol i ganfod gollyngiadau mewn pibellau. Rydym hefyd yn buddsoddi £59 miliwn ychwanegol rhwng 2023 a 2025 i ganfod a thrwsio gollyngiadau ar y rhwydwaith dosbarthu dŵr ehangach.

Rydym yn buddsoddi £10 miliwn arall ar raglen o waith i lanhau ac adnewyddu cronfeydd dŵr gwasanaeth ledled ein hardal weithredu. Mae'r rhaglen wedi symud yn ei blaen yn ystod y flwyddyn gan wella cyflwr asedau a lleihau'r risg y bydd dŵr glaw yn mynd i mewn i'r tanciau, a'u hadnewyddu er mwyn cynyddu eu hoese weithredol lle bo angen. Rydym wedi buddsoddi £30 miliwn i leihau'r risg y bydd haearn a manganis yn mynd i mewn i'r system ddŵr, gan achosi cwynion gan gwsmeriaid. Drwy fodelu data hydrologig, data ar ansawdd dŵr a data cwsmeriaid, rydym wedi gallu nodi'r rhannau hynny o'r rhwydwaith dŵr y mae angen eu newid neu eu glanhau. Mae'r rhaglen waith hon yn mynd rhagddi mewn ardaloedd trefol a gwledig o Drefynwy, Caerdydd, Llys-wen ger Aberhonddu, Rasa a Glynwby, a bydd yn ymestyn i Fro Morgannwg, y Barri a Gorrlewin Casnewydd yn fuan.

Rhaglen Dŵr Gwastraff

Rhoddydd ein prosiectau i wella lefelau ffosforws yn Afon Gwy ar waith yn Eign, Rotherwas yn Henffordd, a Llanllieni, a llwyddwyd i gyflawni dyddiadau ymrwymiad y Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau erbyn mis Mawrth 2024. Yn dilyn y rhaglen adeiladu ddwys hon dros gyfnod o 18 mis, mae cwblhau'r prosiectau hyn, sef ein prosiectau dŵr gwastraff mwyaf yn AMP7, yn gyflawniad sylweddol, gan wella 142km o'r afon. Yn ychwanegol at y gwaith mawr hwn, rydym eisoes wedi cwblhau prosiectau yn Norton, Llanandras, Weble, Kingstone a Madeley, Clehonger a Peterchurch ar Gwy Uchaf. Mae gwaith adeiladu wedi dechrau yn ystod y cyfnod fel rhan o gynlluniau i leihau lefelau ffosffad yng Nghleirwy, Trefynwy a Lower Cleeve. Caiff yr holl ymrwymadau prosiect a wnaed mewn perthynas ag Afon Gwy fel rhan o'n Manifesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru eu cyflawni ar amser, gan fuddsoddi cyfanswm o £53 miliwn.

Mae gwaith adeiladu wedi dechrau yn New Inn, ger Pont-y-pŵl, i greu Ateb sy'n Seiliedig ar Natur (NBS) arloesol sy'n trin gollyngiadau o system gorlif storm cyn eu rhyddhau i Afon Lwyd.

Bydd yr ateb hwn sy'n seiliedig ar natur yn sicrhau canlyniad 'Dim Effaith', ac fel rhan ohono, bydd gollyngiadau storm yn pasio drwy sgrin fecanyddol newydd. Yna bydd llifau'n symud drwy gyfres o welyau brwyn awyrog i ddechrau cyn symud drwy wlypdiroedd a adeiladwyd er mwyn eu trin yn naturiol cyn eu rhyddhau i'r afon. Bydd y buddsoddiad o £13 miliwn yn darparu cynefin gwlyptirol ar gyfer bywyd dyfrol, bioamrywiaeth well, ardaloedd newydd o goetir ac amwynderau cyhoeddus gwell drwy lwybrau troed ac ardaloedd chwarae naturiol. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn 2024. Bwriedir i'r cynllun hwn baratoi'r ffordd ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur tebyg ar raddfa fwy, y byddwn yn eu cyflawni yn AMP8.

Ansawdd dŵr arfordirol a dŵr afonydd

Parhaodd hyn i fod yn bwnc llosg i ni a'r diwydiant ehangach yn ystod 2023 a 2024, gan ddenu sylw parhaus gan y cyfryngau a gwleidyddion. Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gwneud cryn ymdrech i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn deall eu pryderon a rhannu ein hymrwymiad i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd dyfrol. Yn wyneb cymaint o ffocws allanol, rydym wedi datblygu tîm medrus o reolwyr cyswllt ansawdd dŵr arfordirol a dŵr afonydd ledled ein hordal weithredu. Mae'r tîm hwn yn mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â grwpiau ymgyrchu, cynghorwyr, rheoleiddwyr a defnyddwyr dŵr yn y gymuned. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda rhannau eraill o'n busnes er mwyn helpu i ymgysylltu â'r cwsmeriaid hyn a rhannu gwybodaeth â nhw. Mae cydberthnasau effeithiol yn cael eu meithrin, gyda'r nod o sicrhau ei bod yn hygyrch i'r rheini sydd â diddordeb yn yr hyn a wnawn. Mae hyn yn ein helpu i arwain y ffordd ac yn ein gwneud yn fwy hygyrch i'r rheini sydd â diddordeb yn yr hyn a wnawn. Bu'r gymuned nofio dŵr agored yn allweddol i arolwg diweddar, a ddefnyddiwyd i'n helpu i nodi lleoliadau ymdrochi yn ein hordal weithredu. Drwy hyn, bu modd i ni weld pa ardaloedd oedd yn arbennig o bwysig i ddefnyddwyr dŵr, a gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio lansiad cychwynnol ein Map o Systemau Gorlif Storm, a lansiwyd ar ddechrau 2024.

Rydym hefyd yn darparu cymorth drwy Raglen Gyllid Cefnogi Gwyddoniaeth Dinasyddion.

Mae diddordeb parhaus y cyhoedd mewn gollyngiadau carthion wedi golygu ein bod wedi sicrhau bod cynrychiolwyr etholedig lleol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gweithgareddau. Yn 2023 a 2024, rydym wedi cyfarfod â mwy na 80 o wleidyddion, gan gynnwys Aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol a Chynghorwyr lleol. Mae hyn wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn agored yn dryloyw ynglŷn â'r materion sensitif hyn. Cynyddodd lefel y craffu gwleidyddol arnom yn sylweddol yn dilyn eitem newyddion gan y BBC a oedd yn canolbwyntio ar y gwaith trin dŵr gwastraff yn Aberteifi yng ngorllewin Cymru, a ddarlledwyd ym mis Hydref 2023. Gan ddefnyddio gwybodaeth a gyhoeddwyd gennym, heriodd y rhaglen yr amser a gymerodd a'r broses reoleiddio a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â lefel y gollyngiadau o systemau gorlif storm ar y safle, sydd wedi'i leoli ar aber Afon Teifi, yn agos at y man lle mae'n ymuno â Bae Ceredigion. Oherwydd natur y rhaglen, daethom yn destun cryn sylw cyhoeddus, ac yn sgil hynny, cawsom ein galw i gyfarfodydd pwyllgor craffu yn Senedd Cymru ac yn San Steffan. Mae'n debyg mai hwn oedd yr archwiliad cyhoeddus mwyaf sylweddol roeddem wedi'i wynebu ers sawl blwyddyn wrth i ni esbonio'r amgylchiadau penodol a effeithiodd ar ein gwaith yn Abertawe.

Arweiniodd sesiynau'r pwyllgorau dethol hefyd at gwestiynau ehangach am ein perfformiad amgylcheddol, ac aethom i drafferth fawr i ddangos ein bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch y materion hyn. Cydnabu'r Athro Peter Hammond (rhan o dîm y BBC) hyn yn ystod y sesiwn yn San Steffan, wrth ein cymharu â chwmnïau eraill nad ydynt bob amser wedi cyhoeddi gwybodaeth am systemau gorlif.

Mae'r ffocws ar wella ansawdd dŵr arfordirol a dŵr afonydd yng Nghymru yn wahanol i Loegr. Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei chyfarwyddiadau ar gyfer PR24, wedi nodi'n glir mai ei phrif flaenoriaeth yw lleihau niwed i'r amgylchedd yn hytrach, er enghraifft, na lleihau nifer y troeon y mae'r systemau gorlif yn gweithredu. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i weithrediad systemau gorlif ac yn ystod BA 24, rhoddodd Prif Weinidog Cymru bwyslais penodol ar leihau lefelau ffosffad mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth

Arbennig yng Nghymru. Mae'r dull gweithredu gwahanol hwn, yr ydym o'i blaid, hefyd wedi'i adlewyrchu yn ein cynllun buddsoddi ar gyfer PR24, lle rydym yn targedu gostyngiad o 90% mewn lefelau ffosffad mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn benodol erbyn 2030. Rydym wedi gweithio i esbonio'r dull gweithredu gwahanol yng Nghymru i'n rhanddeiliaid, ar y sail bod gwell sicrwydd y caiff mwy o welliant ei gyflawni os caiff ymdrechion eu canolbwyntio ar leihau niwed ecolegol. Yng Nghymru, mae 44% o gyrff dŵr yn ennill statws ecolegol 'da' o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr o gymharu â 14% yng Nghymru.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod pryderon ynghylch estheteg a phryderon posibl ynghylch iechyd y cyhoedd yn gysylltiedig â systemau gorlif storm, ac rydym am flaenoriaethu buddsoddiad lle mae pryderon o'r fath yn codi. Er mwyn osgoi amheuaeth, rydym am wella perfformiad systemau gorlif yn gyffredinol, ond mae'n rhaid i hyn fod yn rhaglen hirdymor oherwydd maint a chyfluniad ein system garthffosiaeth a'r costau dan sylw.

Y tywydd gwlyb yn 2023 oedd y prif ffactor a achosodd i'n perfformiad o ran dŵr gwastraff ddirywio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'n werth nodi bod y cynnydd yng ngweithrediad systemau gorlif storm yn ystod yr haf a'r hydref gwlyb wedi ychwanegu at ddiddordeb y cyhoedd a'r feirniadaeth ohonom. Rydym yn cydnabod yn llwyr fod ymwybyddiaeth gymdeithasol yn y maes hwn yn cynyddu, ac rydym wedi ceisio esbonio i bawb sydd wedi cysylltu â ni y cysylltiad cynhenid rhwng cyfnodau parhaus o law a gweithrediad systemau gorlif fel rhan annatod o'n rhwydwaith carthffosiaeth gwaddol. O ran ein heffaith ar ansawdd dŵr afonydd, effeithiodd y lefelau uwch na'r cyfartaledd o law ar gydymffurfiaeth ein gweithfeydd trin a nifer o achosion o lygredd hefyd.

Rydym yn ymrwymedig i fod yn agored ac yn dryloyw gyda'n cwsmeriaid, ein rheoleiddwyr a gwleidyddion ynglŷn â'n heffaith ar yr amgylchedd a'n perfformiad, a byddwn yn cynnal hyn yn unol â phryderon y cyhoedd. Ym mis Chwefror 2024, gwnaethom lansiad cam cyntaf ein rhaglen adrodd 'fyw' ar systemau gorlif storm, lle y caiff gwybodaeth sydd fwy neu lai'n amser real ei chyhoeddi yn dangos a yw system gorlif wedi bod yn weithredol. Mae'r rhan gychwynnol hon o'r broses

NEGES Y PRIF WEITHREDWR PARHAD

o roi'r rhaglen ar waith wedi'i thargedu at leoliadau ymdrochi mewndirol ac arfordirol ledled ein hardal weithredu. Rydym yn bwriadu cynnwys pob system gorlif arall yn y rhaglen adrodd 'fyw' erbyn mis Chwefror 2025.

Edrych i'r Dyfodol

Ein prif ffocws yn 2024 a 2025 fydd adfer perfformiad lle nad ydym yn bodloni disgwyliadau o ran rhai o'n mesurau rheoleiddio allweddol. Hoffwn bwysleisio ein siom dybryd bod Ofwat wedi ein hasesu'n gwmni sydd ar ei hôl hi, ac rydym yn gwneud pob ymdrech i adfer lefelau gwasanaeth a pherfformiad i'r hyn a gyflawnwyd gennym yn flaenorol.

Gwyddom ein bod ar ei hôl hi, ac rydym wedi rhoi cynlluniau ac adnoddau ar waith i wneud y gwelliannau angenrheidiol.

O ran ein gweithgareddau dŵr yfed, rydym yn targedu'r gwelliannau canlynol:

- Ansawdd Dŵr – mwy o waith rheoli proses yn ein gweithfeydd trin, ein rhaglen helaeth i adnewyddu tanciau storio dŵr wedi'i drin, gwaith wedi'i dargedu i newid prif bibellau a gweithgareddau gwell i gynnal a chadw'r rhwydwaith.
- Achosion o darfu ar y cyflenwad – mesur heriol i ni oherwydd natur wledig ein hardal orllewinol, cyflwr asedau a'r ffaith bod piblinellau'n gweithio ar wasgedd uchel yn yr ardal honno, fel y nodir uchod. Fodd bynnag, rydym yn rhoi mwy o adnoddau cynnal a chadw adweithiol ar waith yn yr ardaloedd sy'n wynebu'r risg fwyaf, wedi'u hategu gan ddefnydd cyflymach o gyflenwadau amgen, fel tanceri dŵr lleol a thimau atgyweirio dynodedig.
- Gollyngiadau – llawer mwy o adnoddau 'confod a thrwsio', dulliau gwell o fonitro'r rhwydwaith o bell er mwyn targedu gwaith atgyweirio yn well, ein cynllun Cortref i helpu i drwsio gollyngiadau ym mhibellau cyflenwi cwsmeriaid, dulliau deallus o reoli wasgedd y rhwydwaith a newid prif bibellau.
- Defnydd y Pen – ymgyrchoedd cyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid drwy'r flwyddyn, ein rhaglen addysg sy'n cynnwys bron 90,000 o ddisgyblion ysgol yn BA 24, trwsio gollyngiadau preifat, a

RYDYM YN YMRWYMEDIG I FOD YN AGORED AC YN DRYLOYW GYDA'N CWSMERIAID, EIN RHEOLEIDDWYR A GWLEIDYDDION YNGLŶN Â'N HEFFAITH AR YR AMGYLCHEDD A'N PERFFORMIAD.

threialon yn cynnwys mesuryddion deallus a chasgenni dŵr.

Yn ein busnes dŵr gwastraff, rydym yn canolbwyntio ar y gwelliannau canlynol:

- Cydymffurfiaeth Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff – lefelau gwell o waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio er mwyn atal cyfarpar rhag methu, defnyddio cyfarpar trin cludadwy ychwanegol ar y cam cynharaf ar ôl canfod bod gwaith trin yn dirywio, mwy o waith i optimeiddio/monitro systemau rheoli proses, gan uwchgyfeirio methiannau posibl yn gyflym, trefniadau gwell ar gyfer trin biosolidau (llaid) er mwyn lleihau risg gwaith trin, a buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu.

Achosion o Lygredd – ar ein rhwydwaith carthffosioeth, mwy o fonitroau o bell ar garthffosydd a gorsafoedd pwmpio sy'n peri risg uchel, ymgyrch ymddygiad cwsmeriaid 'stop cyn creu bloc' i atal weips, braster, olew a saim rhag cael eu gwaredu i garthffosydd, gwaith glanhau carthffosydd wedi'i dargedu, mwy o waith i gynnal a chadw carthffosydd wedi'u pwmpio a buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu.

Ar draws y meysydd gwella perfformiad allweddol a amlinellir uchod, rydym hefyd yn gwneud y canlynol:

- cymhwyso atebion arloesol a thechnoleg newydd, yn enwedig mewn perthynas â monitroau deallus o bell ychwanegol fel bod modd ymyrryd yn gynt ac yn well;
- gwneud y defnydd gorau posibl o'n cyfleuster gwyddor data, fel technegau dysgu peiriant, dadansoddeg ragfynegol a gwybodaeth reoli wel er mwyn helpu i ragweld problemau posibl cyn iddynt effeithio ar wasanaethau neu'r amgylchedd;
- gweithio gyda mwy na 70 o sefydliadau allanol, gan gynnwys ymgyngoriaethau arbenigol byd-eang blaenllaw, academia a busnesau technoleg, er mwyn datblygu strategaeth arloesi sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ein

mesurau perfformiad mwyaf heriol.

PR24

Gwnaethom gyflwyno ein cynllun buddsoddi rheoleiddio mwyaf erioed ym mis Hydref 2023, ac roeddem yn falch o gadarnhau cefnogaeth cwsmeriaid i'r cynllun a'u derbynoldeb ohono, sef cyfradd o 84%, y gorau yn y sector. Yn ychwanegol at yr elfen o'r cynllun sy'n ymwneud ag ymchwil ymhlith cwsmeriaid, yn ystod y flwyddyn gwnaethom gynnal dwy sesiwn 'Eich Dŵr, Eich Barn' ar-lein er mwyn i gwsmeriaid ddod i ddeall ein cynigion. Roedd y rhain yn sesiynau heriol lle roedd mwy na 50 o gwsmeriaid a chynrychiolwyr o gyrff anllwyddraethol amgylcheddol yn bresennol, a bu modd i ni egluro a chadarnhau ein cynlluniau hirdymor.

Gyda mwy na £2 biliwn o'r cyfanswm o tua £4 biliwn wedi'i dargedu at welliannau amgylcheddol, mae blaenoriaethau allweddol eraill ein cynllun yn cynnwys gwella cydnherthedd gwasanaethau a lliniaru risg newid yn yr hinsawdd. O ran y gyntaf, yn ein busnes dŵr, rydym yn ceisio mynd i'r afael â materion fel y dirywiad y cyfeirir ato uchod yng nghyflwr prif bibellau dŵr sment asbestos, yn enwedig yng ngorllewin Cymru.

Mae lliniaru newid yn yr hinsawdd hefyd yn rhan greiddiol o'n buddsoddiad yn niogelwch argaeau, lle mae stormydd a glaw trymach yn golygu y byddwn yn parhau i weld rhaglen fawr o waith i uwchraddio'r asedau hanfodol hyn i ymdopi ag amodau gweithredu newydd mwy heriol. Mae newid yn yr hinsawdd hefyd yn effeithio ar ddŵr heb ei drin ucheldirol, gan olygu ei bod hi'n fwy anodd ei drin ac, mewn rhai achosion, ychwanegu at faterion fel ansawdd esthetig dŵr yfed. Rydym yn buddsoddi i liniaru hyn yn ein gweithfeydd trin ac yn ein rhwydwaith o brif bibellau dŵr.

Bydd elfennau allweddol ein cynllun buddsoddi yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r oedi o ran ein tanberfformiad mewn perthynas â mesurau allweddol,

fel y gostyngiad i sgôr o 2 seren yn yr Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol. Y prif risg a wynebwn yn hyn o beth yw'r potensial am achosion difrifol o lygredd sy'n gysylltiedig â methiannau ar ein prif bibellau carthion wedi'u pwmpio diamedr mawr. Rydym wedi cynnwys buddsoddiad i fynd i'r afael â phob un o'r rhain yn ein cynllun, ynghyd â gwella Systemau Gorlif Storm.

Drwy ein cynllun, rydym wedi ceisio sicrhau cysylltiadau clir rhwng y meysydd lle rydym yn tanberfformio a lle mae angen buddsoddi er mwyn cefnogi adferiad. Bydd technoleg a ffyrdd mwy effeithlon o feddwl hefyd yn chwarae eu rhan o ran ein helpu i gyflawni ein targedau perfformiad ac mae ein cynlluniau ehangach i baratoi ar gyfer AMP8 yn cynnwys y rhain.

Gan gydnabod yr effaith sylweddol y mae newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar ein gweithrediadau a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, mae ein cynllun hefyd yn symud ymhellach tuag at sicrhau allyriadau carbon sero net.

Fel rhan o'n buddsoddiad i wella'r amgylchedd, rydym hefyd wedi cyflwyno ein 'Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol' mwyaf erioed sy'n werth mwy na £1 biliwn, sef pedair gwaith mwy na'n buddsoddiad ar gyfer PR19. Nod yw cynllun hwn yw gwella mwy na 720km o afonydd yng Nghymru yn ogystal ag allbynnau allweddol eraill, fel lleihau lefelau ffosffad yn chwech o'r afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig 90% erbyn 2030.

Gwnaethom lunio ein cynllun ar gyfer PR24 i gynnwys tair elfen allweddol: Y Gallu i Gyllido, Fforddiadwyedd a'r Gallu i Gyflawni Bu pob elfen yn destun gwaith craffu ac adolygu rheolaid drwy gydol y cyfnod o ddwy flynedd wrth i ni ddatblygu ein cynigion. Yn allanol, digwyddodd hyn drwy 'Fforwm PR24 Cymru' Llywodraeth Cymru ac yn fewnol drwy brosesau ein Cyfarwyddwyr Gweithredol a'n Bwrdd.

Wrth i BA 24 ddod i ben, rydym yn aros am Benderfyniad Drafft Ofwat, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod yr haf. Ers cyflwyno'r cynllun, mae llawer o'n ffocws wedi bod ar sut y byddwn yn ei gyflawni. Gyda chynnydd mor sylweddol mewn buddsoddiad a'i effaith gynhenid ar y sefydliad a'n cwsmeriaid, mae'n bleser gennyf ddweud bod gennym, drwy ein gwaith cynllunio asedau a chyflawni asedau a'n timau caffael, gynlluniau clir yn

barod i'w cwblhau hyd at 2027, a'n bod wedi sicrhau adnoddau i gyflawni'r mwyafrif ohonynt. Erbyn mis Medi 2024, caiff ein holl adnoddau cyflawni eu trefnu i gyflawni ein cynllun ar gyfer AMP8.

Ein pobl

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi perfformio'n well nag erioed o ran diogelwch, gyda chyfanswm o bum anaf adroddadwy a 17 o ddigwyddiadau difrifol a arweiniodd at golli amser. Mae hyn yn parhau â'r duedd o leihad cynyddol dros y degawd diwethaf ers 2011 pan fu 30 o ddamweiniau adroddadwy. Mae cryn ymdrech yn cael ei gwneud i gyrraedd y safon uchel hon o berfformiad o ran diogelwch ac rwy'n ddiolchgar iawn i'n rheolwyr, ein pobl a'n gweithwyr proffesiynol ym maes diogelwch am eu hymroddiad a'u mewnbwn. Mae ein rhaglen hyfforddi STEP ('Safety Takes Every Person') wedi'i sefydlu'n dda ac yn parhau i gael ei defnyddio i addysgu ein pobl am yr arferion gorau diweddaraf mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant. Mae STEP hefyd yn sail i'n diwylliant o ddiogelwch ac elfennau hirsefydledig ein cynlluniau gwella, fel ein 'Diwrnodau Diogelwch chwarterol a arweinwyd gan Gyfarwyddwyr Gweithredol. Mae'r rhain, ein proses asesu risg personol 'Take 5' a chynllun ymgysylltu misol 'Safety Conversation' yn ein helpu i ymgorffori meddylfryd diogelwch yn gyntaf yn gadarn ymysg ein pobl a'nartneriaid contract. Ochr yn ochr â'n cynllun diogelwch uniongyrchol, rydym yn disgwyl llawer o ffocws ar iechyd galwedigaethol a llesiant. Rydym wedi cadw Dyfarniad Aur RoSPA a Gwobr Iechyd Galwedigaethol Platinwm Llywodraeth Cymru am iechyd galwedigaethol.

Sicrhodd ein Harolwg Ymgysylltu â Chyflogeion yn 2023 gyfradd gwblhau o 89%, sef ein cyfradd gwblhau uchaf erioed, a sgôr ymgysylltu ar lefel y cwmni o 75%, yn gyson â sgôr 2022. Roedd hyn yn arbennig o galonogol gan fod chwyddiant uchel ar ddechrau 2023 wedi golygu ein bod wedi gorfod ailnegodi ein cytundeb tâl ar y pryd wrth i'n pobl wynebu her costau byw yn eu bywydau gartref. Er y bu modd i ni sicrhau canlyniad synhwyrol a theg i'r Cwmni a'n pobl, roedd yn galonogol gweld ein bod wedi cynnal ein lefelau ymgysylltu â chyflogeion uchel.

Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill yn arolwg 2023 oedd:

- mae 98% o'n pobl yn glir ynghylch eu rôl o ran eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain;
- cred 94% o'n pobl fod y Cwmni yn cymryd iechyd a diogelwch o ddifrif;
- cred 91% fod Dŵr Cymru yn ymdrech i ddarparu gwasanaeth gwych i'w gwsmeriaid;
- byddai 80% yn argymhell Dŵr Cymru fel lle da i weithio.

Yn 2024, byddwn yn ymgysylltu â'n pobl i ddatblygu ein cynlluniau i baratoi ar gyfer AMP8, cyn dechrau'r cyfnod rheoleiddio newydd ym mis Ebrill 2025. Bydd targedau perfformiad tynnoch, disgwyliadau uwch gan gwsmeriaid, diddordeb gwleidyddol parhaus, a heriau fel ein rhaglen buddsoddi cyfalaf fwyaf erioed, yn golygu bod angen y gallu gorau posibl o fewn y sefydliad. Mae ein cynlluniau i wella gwasanaethau ac effeithlonrwydd o ran cost yn dibynnu ar ein pobl, a byddwn yn parhau i gefnogi, datblygu a gwobrwyo ein cydweithwyr i ateb yr heriau hyn. Byddwn hefyd yn adeiladu ar ein dull cynyddol gyda'n hundebau llafur i gytuno ar y newidiadau sydd eu hangen i wella perfformiad, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn cynnal ein safle fel un o'r cyflogwyr mwyaf blaenllaw yng Nghymru drwy ein cynllun pobl ehangach, sy'n ymdrin â meysydd allweddol fel cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cynnal ein hymrwymiad parhaus i hyfforddiant, datblygiad personol a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, fel bod ein pobl yn parhau i roi o'u gorau ac yn parhau i fod yn llysgenhadon balch dros Dŵr Cymru fel darparwr gwasanaethau hanfodol y gellir ymddiried ynddo a chyflogwr gwych.



Peter Perry

Prif Swyddog Gweithredol.

6 Mehefin 2024

CRYNODEB O BERFFORMIAD



Yma, rydym yn crynhoi ein perfformiad yn ystod y flwyddyn. Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn gosod targedau perfformiad blynyddol ar gyfer y busnes, gyda'r nod o bennu targedau sy'n heriol ond y gellir eu cyflawni. Wrth bennu'r targedau hyn, mae'r Bwrdd yn ystyried perfformiad y flwyddyn flaenorol, cymariaethau yn y diwydiant a'r lefelau o ymrwymiad perfformiad a bennwyd gan Ofwat ar gyfer y flwyddyn yn ei Benderfyniad Terfynol ar gyfer PR19.

Ar gyfer saith o'n mesurau allweddol, mae Ofwat wedi nodi ein bod yn tanberfformio o gymharu â gweddill y diwydiant. O ganlyniad, rydym wedi cymharu cynllun ymrwymiad gwasanaeth sy'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i adfer ein perfformiad. Mae ein cynllun ymrwymiad gwasanaeth ar gael yma – <https://corporate.dwrcymru.com/-/media/project/files/page-documents/corporate/library/annual-performance-reports/2023-2024/welsh-water--service-commitmentplan.ashx>.

Disgwyliadau'r Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau

Rydym yn rhagweld y byddwn, o dan gynllun Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau Ofwat, yn wynebu gwerth tua £27 miliwn o gosbau net (BA 23: £18 miliwn). Caiff y cosbau hyn eu gwrthbwysu gan refeniw rheoleiddio a ganiateir ar gyfer BA 26.



Darparu gwasanaethau

Darpariaeth i gwsmeriaid a chymunedau	Gwirioneddol BA 24	Gwirioneddol BA 23	RAG ¹ BA 24	Targed CB ² BA 24	Targed PT ³ BA 24	RAG ¹ FY 24	RAG ¹ BA 24	VPS ⁴
			Gwirioneddol v Gwirioneddol BA 23			Gwirioneddol v Targed y CB	Gwirioneddol v Targed y PT	
Ansawdd dŵr (Mynegai Risg Cydymffurfio) (%)	7.74	5.40	●	4.50	0.00	●	●	A
Derbynioldeb dŵr yfed (cysylltiadau fesul 1,000 o'r boblogaeth)	2.48	2.35	●	2.02	1.75	●	●	A&L
Achosion o darfu ar y cyflenwad – (munudau:eiliadau)	23:16	44:31	●	8:48	5:23	●	●	A
Carthffosydd allanol yn gorlifo (nifer)	3,539	3,634	●	3,600	3,379	●	●	–
Carthffosydd mewnol yn gorlifo (nifer)	201	169	●	210	216	●	●	A
Toriadau heb eu cynllunio (%)	0.35	1.05	●	1.5	2.34	●	●	–
C-MeX (Safle ymhlith cwmnïau dŵr eraill)	5ed	4ydd	●	Y 3 uchaf	dd/g ⁵	●	dd/g	A
Boddhad cwsmeriaid busnes (sgôr yr arolwg o gwsmeriaid/5)	4.3	4.4	●	4.4	4.5	●	●	A
D-MeX (Safle ymhlith cwmnïau dŵr eraill)	11ed	13eg	●	9fed	dd/g	●	dd/g	A
Cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus ar dariffau cymdeithasol (000oedd)	130	129	●	dd/g	dd/g	dd/g	dd/g	–
Gwasanaethau â blaenoriaeth i gwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus (% y cyrhaeddiad)	11.5	10.4	●	11.5	6.3	●	●	–
Unigolion sy'n manteisio ar addysg gymunedol (000oedd)	88	80	●	74	74	●	●	L
Ymwelwyr â chyfleusterau hamdden (000oedd)	1,034	739	●	775	775	●	●	L

DS Mae troednodiadau 1 i 5 yn berthnasol i bob tabl ar dudalennau 20 i 23.

- ¹ Mae'r dangosyddion RAG ● yn wirydd lle mae perfformiad wedi aros yr un peth neu wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn, neu wedi cyflawni'r targed neu ragori arno, neu lle mae achrediad allanol wedi'i gadw; ● ac yn goch lle mae perfformiad wedi dirywio neu lle na lwyddwyd i gyflawni'r targed.
- ² BP = targed y Cynllun Busnes
- ³ PT = Penderfyniad Terfynol Ofwat PR 19
- ⁴ Mae VPS yn dynodi mesurau sy'n pennu canlyniadau tâl amrywiol (A = cynllun blynyddol, L = cynllun hirdymor)
- ⁵ Mae dd/g yn dynodi nad oedd unrhyw dargedau ffurfiol, neu nad oes canlyniadau gwirioneddol ar gael eto.

Gwnaethom wella ein perfformiad o flwyddyn i flwyddyn mewn perthynas â nifer o fesurau Darparu Gwasanaethau allweddol, gan gynnwys achosion o darfu ar y cyflenwad a charthffosydd allanol yn gorlifo. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, rydym yn dal i fod ar ei hôl hi o ran nifer o dargedau ein Cynllun Busnes.



Gwnaethom wella ein perfformiad yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn o ran nifer yr achosion o darfu ar y cyflenwad o ganlyniad i lai o ddigwyddiadau tywydd andwyol. Er mwyn gwella ein hamseroedd ymateb i achosion o darfu ar y cyflenwad yn sylweddol a chyflawni ein cynllun busnes, rydym wedi dechrau rhoi newidiadau sefydliadol ar waith i ganoli ein hymateb i achosion o bibellau'n byrstio 24/7 a gwneud y defnydd gorau posibl o leoliad ein fflyd tanceri a'n timau ymateb lleol.

Mae ein perfformiad o ran Ansawdd Dŵr yn parhau i fod yn her, ond rydym wedi gwneud cynnydd da o ran ein cynllun adfer drwy fuddsoddi yn ein rhaglen glanhau tanciau a chynyddu cyfraddau archwilio. Gellir priodoli mwy na thri phwynt yn sgôr y Mynegai Risg Cydymffurfio i un methiant yn Felindre, ac rydym wedi cynyddu'r mesurau lliniaru ar y safle er mwyn osgoi methiannau yn y dyfodol.

Mae heriau o ran derbynioddeb Dŵr Yfed yn deillio o nodweddion ein ffynonellau dŵr a'r math o rwydwaith sydd gennym a'i oedran. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd nifer y cysylltiadau gan gwsmeriaid. Serch hynny, rydym yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni rhaglen o Astudioethau Parthol ein AMP sy'n anelu at leihau achosion o afliwio a gwella cydymffurfiaeth o ran haearn drwy newid a glanhau'r rhwydwaith, a disgwylir i hyn oll wella derbynioddeb y cyflenwad dŵr a lleihau nifer y cwynion cysylltiedig.

Rydym wedi cynnal sgoriau boddhad cwsmeriaid fwy neu lai yn BA 24, gan sicrhau'r pumed safle o dan fesur C-MeX y sector cyfan. Wrth gymharu â chwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth eraill sydd â gweithgareddau tebyg i'n rhai ni, gwnaethom sicrhau'r trydydd lle o dan fesur C-MeX. Mae hyn wedi'i ategu gan lefel y tariffau cymdeithasol rydym wedi parhau i'w darparu i gwsmeriaid drwy ein cynlluniau HelpU a WaterSure, ynghyd ag ymestyn ein cymorth i fwy o gwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus drwy ehangu ein cynllun Cymuned. Mae gallu cwsmeriaid i gael gwasanaethau â blaenoriaeth wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn ac yn rhagori ar dargedau'r Cynllun Busnes a'r Penderfyniad Terfynol. Gwnaethom hefyd berfformio'n dda mewn perthynas ag oddysg gymunedol a nifer yr ymwelwyr â chanolfannau ymwelwyr, gan wella o flwyddyn i flwyddyn a rhagori ar y targedau ar gyfer y ddau fesur hyn. Croesawodd ein canolfannau ymwelwyr fwy na miliwn o bobl, a chafodd y ffigur hwn fryn hwb gan ein canolfan newydd yng Nghaerdydd yn dilyn ein gwaith i adfer cronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien.



Yr Amgylchedd

Diogelu'r amgylchedd	Gwirioneddol BA 24	Gwirioneddol BA 23	RAG ¹ BA 24 Gwirioneddol v		Targed CB BA 24	Targed PT BA 24	Gwirioneddol v Targed y CB	Gwirioneddol v Targed y PT	VPS ⁴
			Gwirioneddol BA 23						
Sgôr yn Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru (Nifer y sêr)	dd/g	2	dd/g		3	dd/g	dd/g	dd/g	-
Achosion o lygredd (nifer)	107	89			81	81			A
Gollyngiadau (cyfartaledd tair blynedd) (megalitr y dydd)	251.7	242.0			239.6	194.7			L
Defnydd o ddŵr y pen (cyfartaledd tair blynedd) (litr y pen y dydd)	150.7	154.8			149.5	139.0			L
Cydymffurfiaeth gweithfeydd trin %	97.34	98.50			99.16	100.00			A
Carthffosydd yn dymchwel (nifer)	223	248			265	265			L
Cilometrau o afonydd a wellwyd	345	122			294	25			A&L

Amcangyfrifon gorau y rheolwyr yw ffigurau gwirioneddol BA 24 ar gyfer nifer yr achosion o lygredd a chydymffurfiaeth gweithfeydd trin ar adeg llofnodi'r adroddiad hwn, ac felly, ffigurau dros dro ydynt. Syrthiodd ein perfformiad cyffredinol mewn perthynas â mesurau diogelu'r amgylchedd ymhell islaw disgwyliadau ein rhanddeiliaid. Mae'r gwelliant o ran nifer yr achosion o garthffosydd yn dymchwel a'r cynnydd parhaus o ran y cilomedrau o afonydd a wellwyd yn galonogol. Ym mis Mai 2023, gwnaethom gyhoeddi ein maniffesto ar gyfer Ansawdd Dŵr Afonydd sy'n nodi ein huchelgeisiau a'n cynllun gweithredu ar gyfer parhau i wella statws biolegol ein hafonydd yn yr ardal. <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment>

Mae amrywiaeth o ffactorau yn dylanwadu ar achosion o lygredd, gan gynnwys blociadau a lefelau glawiad, ynghyd â'r mesurau sydd gennym ar waith i liniaru eu heffaith. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o lygredd, i'w priodoli'n bennaf i flociadau. Fodd bynnag, nifer y stormydd sy'n gyfrifol am y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwaith i wella perfformiad mewn perthynas â'r mesur hwn, gan gynnwys lleihau nifer y blociadau drwy rwydweithiau darbodus, cynnal arolygiadau rhagweithiol a chynnal archwiliadau wedi'u targedu mewn ardaloedd risg uchel.

Rydym yn dal i fod ar ei hôl hi o ran ein targedau ar gyfer gollyngiadau, ac fel rhan o'n Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth, rydym wedi nodi rhaglen adfer glir sy'n cynnwys adnoddau ychwanegol i ganfod a thrwsio gollyngiadau, a rhaglen gollyngiadau dŵr i fyny'r afon sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar drwsio prif bibellau cyflenwi. Yn ystod dwy flynedd olaf AMP7, byddwn yn buddsoddi tua £150 miliwn mewn gwaith i leihau gollyngiadau, sef un o'n meysydd buddsoddi mwyaf, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i leihau gollyngiadau.

Er ein bod wedi gwella'r Defnydd o Ddŵr y Pen o flwyddyn i flwyddyn, rydym ar ei hôl hi o ran targedau ein cynllun busnes. Rydym hefyd yn mynd i'r afael â hyn drwy ein Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth a buddsoddiad ychwanegol o £5 miliwn yn BA 25 wedi'i dargedu at ymgrych gyfathrebu eang sy'n canolbwyntio ar newid ymddygiad cwsmeriaid a mesuryddion deallus.

CRYNODEB O BERFFORMIAD PARHAD



Roedd cydymffurfiaeth gweithfeydd trin yn waeth na'r ddwy flynedd flaenorol ac islaw targed ein cynllun busnes. Nodwyd cyfanswm o 14 o weithfeydd nad oeddent yn cydymffurfio o blith sylfaen o 598 o ollyngiadau. Prif achosion cyffredin y methiannau hyn oedd arferion rheoli llaid, cyflwr asedau ac amseroedd ymateb i liniaru methiannau. Mae ein cynlluniau gwella yn cynnwys iechyd a chydnerthedd asedau, tanceri ychwanegol at ddibenion lliniaru a gwneud y defnydd gorau posibl o'r dechnoleg larymau bresennol.

Mae'r sgôr o 2 seren yn yr Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol yn cynnwys nifer o fesurau, y mae rhai ohonynt yn ymrwymadau perfformiad sydd wedi'u cynnwys yn y sylwebaeth hon. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n dyfarnu'r sgoriau hyn yn seiliedig ar nifer o feini prawf perfformiad. Caiff perfformiad ei fesur dros flwyddyn galendr ac adroddir arno ym mis Gorffennaf y flwyddyn ganlynol. Rydym yn cydnabod bod ein sgôr bresennol o 2 seren yn Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i fod yn annerbyniol, ac rydym wedi datblygu cynlluniau i adennill ein sgôr flaenorol o 4 seren (a enillwyd ddiwethaf yn 2020), yn ystod AMP8. Gweler tudalen 91 am ragor o fanylion.



Cynaliadwyedd

Cynaliadwyedd	Gwirioneddol BA 24	Gwirioneddol BA 23	RAG FY 24 Gwirioneddol v Targed		RAG FY 24 Gwirioneddol v Targed y CB		Cynllun Tâl Amrywiadwy (VPS)
			Gwirioneddol BA 23	CB BA 24	Gwirioneddol v Targed y CB	CB BA 24	
Sgôr Sustainable Fitch	2	2	●	2	●		–
Allyriadau nwyon tŷ gwydr (sy'n cyfateb i gilodunelli o CO ₂)	201	169	●	dd/g	dd/g		–
Hunangynhaliadaeth ynni (%)	24	22	●	28	●		–
Blwch cyflog rhwng y rhywiau (% ganolrifol yr holl gyflogeion)	4.8	3.6	●	dd/g	dd/g		–
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (% y staff sy'n hunanddatgan nodweddion)	80%	74%	●	dd/g	dd/g		–
Anafiadau adroddadwy RIDDOR (nifer)	5	5	●	6	●		–
Achrediad Iechyd a Diogelwch	ISO45001	ISO45001	●	dd/g	dd/g		–
Cod Taliadau Prydlon	98%	98%	●	dd/g	dd/g		–
Achrediad Treth Deg	Wedi'i gadw	Wedi'i gadw	●	dd/g	dd/g		–

Mae ein metrigau Cynaliadwyedd yn ymwneud â'n Strategaeth Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a'r amcanion a nodir yn fanylach yn Atodiad E ar dudalen 221. Mae'r rhain yn wahanol i ymrwymadau perfformiad ac maent yn sail i'n cynlluniau a'n hymrwymadau i weithredu yn unol â gwerthoedd ein cwmni a'n gweledigaeth 'i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd'. Amcangyfrif gorau y rheolwyr yw sgôr Sustainable Fitch ar gyfer BA 24 – caiff adroddiadau 2024 eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2024.





Ariannu

Canlyniadau cyllido	Gwirioneddol BA 24	Gwirioneddol BA 23	RAG BA 24 Gwirioneddol v Gwirioneddol BA 23		Targed CB BA 24	RAG BA 24 Gwirioneddol v Targed y CB		Cynllun Tâl Amrywiadwy (VPS)
Sgoriau credyd (Moody's/S&P/Fitch)	A3/A-/A	A3/A-/A			A3/A-/A			A
Gerio	60%	58%			61%			-
Cymhareb sicrwydd llog	0.7x	0.4x			1.0x			-
Cymhareb sicrwydd llog ar ôl cynnal a chadw	3.0x	1.7x			dd/g			-
Arian o weithrediadau/dyled net	0.7%	(3.8%)			2.7%			-

Erys ein sefyllfa ariannol yn gryf, yn sefydlog ac yn gynaliadwy. Rydym mewn sefyllfa dda i ddallu ein hanghenion o ran cyllido yn y dyfodol ac i barhau i gefnogi cwsmeriaid a all fod yn wynebu anawsterau ariannol. Cynyddodd ein lefel gerio ychydig yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'n cynlluniau buddsoddi, ac erys yn unol â tharged y Bwrdd o tua 60%.

Statws credyd

Erys ein statws credyd ymysg y cryfaf yn y sector, felly credwn y byddwn yn gallu codi cyllid yn effeithiol i ariannu buddsoddiadau yn y dyfodol yn ein gwasonaethau i gwsmeriaid a chymunedau ac mewn gwaith i ddiogelu'r amgylchedd



Darllenwch fwy am ein perfformiad a'n sefyllfa ariannol yn odolygiad y Prif Swyddog Cyllid ar dudalennau 24 i 29 ac yn ein dotganiad am hyfywedd hirdymor ar dudalennau 67 i 71.



ADOLYGIAD Y PRIF SWYDDOG CYLLID



“MAE EIN MANTOLEN
GADARN AC UNIG DDIBEN EIN
BUSNES WEDI EIN GOSOD
AR WAHÂN.”

Mike Davis
Prif Swyddog Cyllid

Yn wyneb heriau sy'n gysylltiedig â'r tywydd i sicrhau perfformiad amgylcheddol, her costau byw ein cwsmeriaid, a'r heriau economaidd a wynebir gan farchnadoedd ariannol byd-eang, bydd ein mantolen gadarn ac unig ddiben ein model busnes yn ein galluogi i wella ein perfformiad a darparu'r gwasanaethau y mae ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'n hamgylchedd yn eu haeddu.

Perfformiad yn BA 24

Mae ein perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn wedi adlewyrchu effeithiau'r amodau economaidd heriol diweddar, gyda chwyddiant uchel ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn arwain at daliadau llog uwch a phwysau costau gweithredol a gostyngiadau mewn cyflogau gwirioneddol yn rhoi pwysau ar allu ein cwsmeriaid i fforddio eu costau byw o ddydd i ddydd. Rydym yn cydnabod nad yw ein perfformiad gweithredol wedi bodloni ein disgwyliadau ni na disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliad dros y blynyddoedd diwethaf. Er mwyn ymateb i hyn, rydym wedi cynyddu lefel y cymorth rydym yn ei ddarparu i gwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus, wedi buddsoddi mwy er budd mesurau gweithredol allweddol fel gollyngiadau a chydnerthedd asedau, ac wedi rhoi cynlluniau penodol ac wedi'u targedu clir ar waith i wella effeithlonrwydd gweithredol. Rydym yn cydnabod nad yw ein perfformiad gweithredol wedi bodloni ein disgwyliadau ni na disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliad dros y blynyddoedd diwethaf.

Y flwyddyn ddiwethaf, gwelsom bwysau chwyddiant sylweddol a chynnydd graddol ond parhaus mewn cyfraddau llog a lefelau isel hanesyddol, wrth i Fanc Lloegr geisio lleddfu grymoedd chwyddiant. Er ein bod wedi gweld rhywfaint o ostyngiad mewn cyfraddau chwyddiant, maent wedi parhau i effeithio ar ein taliadau cronni dyled ar fondiau mynegrifol yn ystod y flwyddyn, gan roi pwysau ar ein costau cyllido net. O ganlyniad, mae ein dyled net ar sail addasiad trosi crynodol (CTA) wedi cynyddu £324 miliwn hefyd. Mae'r ffaith bod 94% o'n dyled yn dyled sefydlog neu wedi'i rhagfantoli mewn termau real neu nominal wedi lliniaru effaith cynnydd mewn

cyfraddau sefydlog Banc Lloegr, gan leihau ein hamlygiad.

Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio ei hun yn gysylltiedig â'r gyfradd chwyddiant yn rhoi elfen o ddiogelwch tymor hwy nad yw wedi'i adlewyrchu yn y datganiad o incwm, gan wrthbwysu effaith chwyddiant ar werth dyled fynegrifol i gynnal lefelau gerio o gwmpas 60%, gyda lefel gerio o 60% y flwyddyn hon. Dyma un o'r lefelau isaf yn y sector ac mae'n ategu ein mantolen gadarn, gyda chyfanswm hylifedd o £483 miliwn a chronfeydd ariannol wrth gefn o £1,522 miliwn.

Cydnherthedd Ariannol a Rhagolwg Ariannol

Drwy'r cyfnod hwn sydd wedi bod yn heriol yn economaidd, rydym wedi cadw ein sgoriau credyd o A3, A- ac A gan Moody's, S&P a Fitch, yn y drefn honno. Mae'r sgoriau hyn yn parhau i fod ymhlith y gorau yn sector cyfleustodau'r DU. Rydym yn monitro ein perfformiad ariannol gan ddefnyddio mesurau sy'n canolbwyntio ar y cyfamodau yn ein dogfennau gwaraneiddio busnes cyfan ac ar y mesurau sydd eu hangen i gadw ein sgoriau credyd. Erys lefelau gerio yn isel ac ymhell o fewn trothwyon y cyfamodau a'r sgoriau credyd. Mae'r pwysau parhaus ar ein cymhareb sicrwydd llog yn deillio'n bennaf o'r ffaith bod chwyddiant yn rhoi pwysau ar gostau gweithredu a chyllido. Er ein bod yn cydnabod y bydd y gymhareb hon yn parhau i fod dan bwysau am weddill AMP7, disgwyli'r iddi ader yn gynnar yn AMP8. I weld canlyniadau profion straen ein rhagolwg ariannol, darllenwch y nodyn busnes gweithredol ar dudalen 171 a'n hasesiad o hyfywedd hirdymor ar dudalen 67.

Adolygiad o Brisiau 2024

Ym mis Hydref 2023, gwnaethom gyflwyno ein cynllun busnes mwyaf uchelgeisiol erioed i Ofwat, rheoleiddiwr economaidd y diwydiant. Ein nod yw gwario tua £4 biliwn ar ein seilwaith yn AMP8 (2025-2030) – 93% yn fwy na'r hyn y disgwyliwn ei wario yn AMP7. Mae hyn yn cynnwys £2.5 miliwn i ddiogelu'r amgylchedd naturiol.

Rydym yn cydnabod bod ein byd yn newid a bod yn rhaid i ni newid yn unol â hynny. Mae gennym nodau uchelgeisiol i wella canlyniadau ar gyfer yr amgylchedd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid, gan leihau methiannau gwasanaeth. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i ni hefyd addasu i wynebu'r heriau a gyflwynir gan y tueddiadau sy'n gweithio yn ein herbyn, yn enwedig newid hinsawdd.

Bydd Ofwat yn cyhoeddi ei benderfyniad drafft ynghylch cyfnod rheoli prisiau AMP8 ar 11 Gorffennaf 2024, a'i benderfyniad terfynol ym mis Rhagfyr 2024, a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025.

Ymchwiliad Ofwat

Ar 28 Mai 2024, cyhoeddodd Ofwat ei benderfyniad terfynol yn dilyn ei ymchwiliad i achosion wedi'u hunanddatgan o gamadrodd gan Dŵr Cymru ar ollyngiadau a defnydd y pen yn 2020/21 a 2021/22. Cyflwynodd Ofwat gosb ariannol nominal o £1 ynghyd â'r ymrwymadau gofynnol i dalu gwerth £40 miliwn o iawndal i gwsmeriaid a wnaed gan y Cwmni o'i wirfodd ac ymrwymiad i wario £59 miliwn yn ychwanegol ar weithgareddau yn ymwneud â gollyngiadau a defnydd y pen yn ystod y ddwy flynedd hyd at 31 Mawrth 2025. Mae'r rhain yr un fath â'r hyn a gynigiwyd gan y Cwmni i Ofwat yn 2023, a gofnodwyd yn adroddiad blynyddol a chyfrifon BA 23.


Anghenion Cyllido

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, byddwn yn ceisio ailgyllido gwerth tua £2 biliwn o'n dyled bresennol a chodi gwerth £1 biliwn pellach o ddyled newydd. Rydym yn disgwyl cyhoeddi offerynnau ar draws amrywiaeth eang o ddyddiadau oeddfedu gan adlewyrchu natur hirdymor ein busnes, yn bennaf yn y farchnad bondiau sterling lle bu awydd cryf am ein dyled yn hanesyddol. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn ystyried ffynonellau cyllid amgen.

Crynodeb o'n Canlyniadau Ariannol a'n Sefyllfa Ariannol

Y flwyddyn a ddaeth i ben	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2023	% yr amrywiant
Refeniw	928	844	10%
Treuliau gweithredu (gan gynnwys incwm gweithredu arall)	(394)	(396)	1%
Gwariant ar adnewyddu seilwaith	(101)	(78)	30%
Elw gweithredu cyn dibrisiant ac amorteiddio	433	370	17%
Treuliau eraill (gan gynnwys eitemau eithriadol a dibrisiant ac amorteiddio)	(387)	(377)	3%
Treuliau cyllido net	(211)	(304)	29%
Ennill/colled net ar offerynnau ariannol	(7)	160	102%
Colled cyn treth	(172)	(151)	8%
Gwariant cyfalaf gan gynnwys asedau anniriaethol	(382)	(305)	25%
(All-lif)/mewnlif arian parod yn ystod y flwyddyn	(212)	(136)	57%
Hylifedd (arian parod a chyfleusterau nas hawliwyd)	487	579	16%
Dyled net	4,503	4,179	8%
Gerio (%)	60%	58%	2%
Sgoriau credyd (Moody's, S&P, Fitch)	A3, A-, A	A3, A-, A	-

Elw gweithredu cyn dibrisiant ac amorteiddio (£m)



Refeniw

Mae ein refeniw yn deillio'n bennaf o'r gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff rydym yn eu darparu i gwsmeriaid. Caiff ein prisiau eu pennu bob pum mlynedd drwy broses adolygu prisiau Ofwat, ac i raddau helaeth, y broses hon sy'n pennu faint y gallwn ei fuddsoddi yn ein gwasanaethau a'n seilwaith.

Roedd ein refeniw yn BA 24 10% yn uwch na'n refeniw yn BA 23, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd mewn prisiau, a oedd yn gyson â lwfans Ofwat ond yn sylweddol is na'r brif gyfradd chwyddiant yn ystod y cyfnod.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau y mae'r argyfwng costau byw presennol, sydd wedi'i ysgogi gan chwyddiant, yn eu rhoi ar ein cwsmeriaid. Rydym yn parhau i ehangu ein hamrywiaeth o dariffau cymorth i gefnogi cwsmeriaid drwy'r cyfnod hwn. Mae 130,000 o gwsmeriaid bellach yn cael help i dalu eu biliau, ac rydym wedi cyfrannu £14 miliwn drwy ein strwythur dychwelyd gwerth nid er cyfranddalwyr yn ystod y flwyddyn.

ADOLYGIAD Y PRIF SWYDDOG CYLLID PARHAD

Elw gweithredu (gan gynnwys gwariant ar adnewyddu seilwaith)

Cynyddodd ein helw gweithredu (gan gynnwys gwariant ar adnewyddu seilwaith ond heb gynnwys dibrisiant ac amorteiddio) ar gyfer y flwyddyn i £433 miliwn, sef cynnydd o £63 miliwn. Roedd y symudiadau mwyaf sylweddol, heblaw'r refereniw a nodir uchod, yn ymwneud â'r canlynol:

Effeithiodd pwysau cost ar ein sylfaen costau gweithredu groidd £21 miliwn (6%) o flwyddyn i flwyddyn, wedi'i ysgogi'n bennaf gan bwysau chwyddiannol parhaus. Cynyddodd costau cyflogaion gros o ganlyniad i'r dyfarniad cyflog blynyddol o 6.2%, cynnydd yng nghyfraddau'r farchnad a mwy o waith yn cael ei roi ar gontact allanol mewn perthynas ag eitemau fel cysylltiadau newydd a gollyngiadau (53%).

Cynyddodd darpariaethau ar gyfer colledion credyd disgwyledig ar ddyledion cwsmeriaid heb eu talu i £28 miliwn, sef cynnydd o £4 miliwn (14%), gan gynrychioli refereniw craidd o 3.0%. Mae'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn adlewyrchu'r cynnydd chwyddiannol i filiau cwsmeriaid yn bennaf. Mae 75% o'n cwsmeriaid preswyl yn talu drwy ddebyd uniongyrchol, a thrwy ddulliau ymgysylltu rhagweithiol a chymorth wedi'i deilwra, mae cwsmeriaid sy'n wynebu anawsterau ariannol yn parhau i dalu drwy gynlluniau talu.

Gwnaeth gostyngiadau o ran costau wella ein sylfaen costau gweithredu groidd £3 miliwn, gyda chostau digwyddiadau newid yn yr hinsawdd yn cael eu lliniaru drwy fuddsoddi a gwneud gwaith cynnal a chadw, a'r lleihad yn nifer y comisiynau casglu dyledion yn adlewyrchu ein newid strategol i reoli'r broses o gasglu dyledion yn fewnol.

Arweiniodd penderfyniadau gweithredol at gynydd o £5 miliwn mewn costau gweithredol, wrth i'n gweithlu gael ei atgyfnerthu gan 236 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn a chostau cynnal a chadw ychwanegol ar draws y gweithrediadau i ddiogelu'r amgylchedd.

Mae costau ynni wedi parhau'n sefydlog ac mae ein hamlygiad wedi cael ei lliniaru drwy ein polisi rhagfantolion pŵer a'n gallu i hunangynhyrchu. Rydym yn rhagfantoli'r mwyafrif o'n costau trydan fel arfer, gan arbed tua 20% yn ystod y flwyddyn. Rydym yn parhau i gael budd o flaenbrynu tua 60% o'n gofyniad nwy hyd at fis Mawrth 2025. Rydym yn parhau i fuddsoddi i gynyddu ein capasiti i gynhyrchu ein hynni ein hunain – menter busnes hanfodol i gyflawni ein targedau gwyrdd – gan gynhyrchu tua 25% o'r holl ynni rydym yn ei ddefnyddio yn fewnol. Ein nod yw cynyddu hyn i 35% erbyn 2030. Rydym wrthi'n adolygu ein strategaeth brynu ar gyfer y cyfnod adolygu prisiau nesaf hyd at 2030.

Costau Cyllido Net

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o offerynnau ariannol i'n helpu i gyllido ein gweithrediadau. Mae'r rhain yn cynnwys bondiau cyfradd sefydlog a mynegrifol yn ogystal â benthyciadau a phrydlesau cyllid sefydlog, amrywiadwy a mynegrifol. Mae ein holl ddyled fynegrifol yn gysylltiedig â chyfradd chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu, a barhaodd yn hanesyddol o uchel yn ystod BA 24, gan ostwng o 13.5% ym mis Mawrth 2023 i 4.7% ym mis Mawrth 2024, sef cyfradd gyfartalog o 7.6%. Mae £127 miliwn wedi'i gronni ar y fantolen a bydd yn cael ei dalu pan fydd y ddyled gysylltiedig yn aeddfedu, sef £65 miliwn yn is na'r flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn rheoli ein hamlygiad i gyfraddau chwyddiant gan ddefnyddio offerynnau ariannol deilliadol. Rydym wedi cyfnewid rhywfaint o'n dyled cyfradd gyfnewidiol i ddyled cyfradd sefydlog a rhywfaint o'n dyled cyfradd sefydlog i ddyled fynegrifol drwy ddefnyddio 'cyfnewidiadau.' Ar ôl ystyried effaith y cyfnewidiadau hyn, mae 82% o'n dyled yn fynegrifol, ac mae'r gweddill yn ddyled cyfradd gyfnewidiol (6%) neu gyfradd sefydlog (12%).

Gwelwyd gostyngiad o £93 miliwn mewn treuliau cyllid net o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad o £126 miliwn mewn taliadau cronni dyled wedi'u gohirio, a wrthbwyswyd gan effaith y cynnydd yng nghyfradd sefydlog Banc Lloegr ar ein dyled cyfradd gyfnewidiol, sef 6% o'n holl ddyled.

Mae cyfanswm y treuliau cyllid net o £211 miliwn yn y datganiad incwm (tudalen 168) yn uwch na'r £196 miliwn o log arian parod net a dalwyd a'r setliadau offerynnau ariannol deilliadol yn y datganiad o lifau arian parod (tudalen 171). Mae'r gwahaniaeth i'w briodoli'n bennaf i £127 miliwn o daliadau mynegeo heb fod yn arian parod, a wrthbwyswyd gan £19 miliwn o gostau benthycu wedi'u cyfalafu, £40 miliwn o setliadau deilliadol a gafwyd ar ôl 31 Mawrth 2024 a gostyngiad o £28 miliwn mewn croniadau llog.

Mae'r enillion gwerth teg a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r symudiadau mewn cyfnewidiadau cyfradd llog gan adlewyrchu'r cynnydd mewn cyfraddau llog hirdymor a gostyngiadau mewn disgwyliadau'r Mynegai Prisiau Manwerthu, tra bod gwerthoedd cyfnewidiadau pŵer yn is na'r flwyddyn ddiwethaf a rhagwelir gostyngiad mewn costau pŵer a chyfraddau cwblhau contractau cyfnewidiadau. Yn ystod BA 24, y symudiad yng ngwerth cyfnewidiadau oedd colled heb fod yn arian parod o £7 miliwn (BA 23: ennill o £160 miliwn). Gweler Nodyn 4 am ragor o wybodaeth. Mae gwerthoedd teg yn amrywio yn unol â symudiadau yn y farchnad, a all fod yn anwadal, a gall hyn arwain at enillion a cholledion sylweddol yn y datganiad incwm.

Datganiad Llif Arian Parod

Yn gyffredinol, gwelwyd gostyngiad o £212 miliwn mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn 2024 (2023: gostyngiad o £136 miliwn) ac mae manylion y prif symudiadau yn y llif arian parod wedi'u nodi yn y tabl isod:


Symudiadau arian parod	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth			Eglurhad
	2024	2023	Newid	
Benthyciad newydd	150	-	150	Ym mis Rhagfyr 2023, cododd y Grŵp fenthyciad o £150 miliwn am gyfnod o saith mlynedd fel rhan o'i Strategaeth Trysorlys.
Symudiad net mewn benthyciadau	(189)	(76)	(113)	Cynyddodd ad-daliadau net benthyciadau o ganlyniad i setlo contract prydlesau cyllid yn ystod y flwyddyn gwerth £202 miliwn, a wrthbwyswyd drwy godi £80 miliwn o gyfleuster credyd cylchdro y Grŵp.
Llog net a dalwyd	(175)	(136)	(39)	All-lif arian parod net mewn perthynas â llog uwch o ganlyniad i amseru setliadau deilliadol a gafwyd ar ôl diwedd y flwyddyn.
Buddsoddiad gwariant cyfalaf (CapEx)	(380)	(305)	(75)	Gwnaed buddsoddiad cyfalaf ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan adlewyrchu'r broses o fuddsoddi cyfalaf yn raddol dros gyfnod yr AMP hwn a chynnydd ein rhaglen buddsoddi cyfalaf gwerth £2 biliwn. Rhennir cyfanswm ein buddsoddiad rhwng ychwanegiadau cyfalaf o £380 miliwn (mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y fantolen ac wedi'u dibrisio dros oes ddefnyddiol yr asedau) a gwariant o £101 miliwn ar adnewyddu seilwaith (costau cynnal a chadw a gaiff eu nodi'n llawn ar y datganiad incwm ar ôl i'r cynllun gael ei gwblhau).
Symudiadau llif arian parod gweithredol	381	380	-	Roedd llif arian parod gweithredol yn gyson â'r flwyddyn flaenorol gan adlewyrchu cynnydd o £84 miliwn mewn refeniw, a wrthbwyswyd gan gynydd mewn gwariant gweithredol (gan gynnwys gwariant ar adnewyddu seilwaith) o £21 miliwn a symudiadau cyfalaf gweithio o £63 miliwn.
Arall	1	1	-	Mae arall yn cynrychioli'r dreth net a gafwyd yn bennaf.
All-lif arian parod yn ystod y flwyddyn	(212)	(136)	(77)	

Hylifedd

Ar 31 Hydref 2024, roedd gennym gyfanswm hylifedd o £487 miliwn (2023: £579 miliwn) a gwerth £167 million o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo (2023: £379 miliwn). Mae gwerth £400 miliwn o gyfleusterau credyd cylchdro ar gael i ni gyda grŵp o bedwar banc cydberthynas allweddol (am ragor o fanylion, gweler Nodyn 16). Yn ystod y flwyddyn, cafodd y cyfleusterau hyn eu hadnewyddu, gan gynyddu eu capasiti o £200 miliwn y flwyddyn ddiwethaf i £400 miliwn, y cafodd £80 miliwn ohono ei ddefnyddio, wedi'i gyfuno â benthyciad newydd o £150 miliwn, i derfynu trefniadau prydlesau cyllid gwerth £202 miliwn a chefnogi gweithrediadau parhaus, fel rhan o'n Strategaeth Trysorlys i ddefnyddio opsiynau cost dyled amgen rhatach a sicrhau cyfrifoldeb ariannol.

Rydym yn buddsoddi arian parod yn ddarvoudus, gan ei adneuo am uchafswm o dri mis, a dim ond gyda banciau uchel eu parch, o fewn terfynau a sefydlwyd yn y polisi Trysorlys a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Gwnaethom arenillion adneuron cyfartalog o 4.98% yn ystod y flwyddyn, sy'n cymharu'n ffafriol ag arenillion Cronfa Hylifedd Sterling ICS BlackRock o 4.87%.

Ein gwariant yn BA 24 (%)



ADOLYGIAD Y PRIF SWYDDOG CYLLID PARHAD


Dyled Net

Rydym yn ariannu ein gweithrediadau o ddydd i ddydd a'n rhaglen buddsoddi cyfalaf drwy gyfuniad o filiau cwsmeriaid a benthychiadau gan farchnadoedd a sefydliadau ariannol. Ein dyled net ar sail ein cytundeb telerau cyffredin ar 31 Mawrth 2024 oedd £4,503 million, sef cynnydd o £324 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd llifau arian parod gweithredol a chyfalaf gweithio yn cyfateb i'r swm a fuddsoddwyd mewn gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda'r cynnydd mewn dyled net i'w briodoli'n bennaf i wasanaethu dyled a chronni dyled.


Ein nod yw sicrhau bod digon o gyllid ar goel i ddiwallu ein hanghenion ariannol a ragwelir a bod digon o hyblygrwydd ar gyfer argyfyngau a allai ddigwydd yn rhesymol. Mae ein haeddfedrwydd dyled cyfartalog yn gymharol hir, sef 9.2 mlynedd (31 Mawrth 2023: 10.4 mlynedd), gan adlewyrchu natur hirdymor ein sylfaen asedau. O dan delerau ein strwythur gwaraneiddio busnes cyfan, ni all mwy na 20% o'n dyled fod yn ddyledus o fewn cyfnod treigl o 24 mis. Nodir manylion ein hoesiadau o gyfraddau llog a risg chwyddiant yn Nodyn 1 a Nodyn 16.

Ym mis Tachwedd 2023, cymeradwyodd y Bwrdd ein strategaeth ailgyllidebu ar gyfer AMP8, sef y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2025 a 2030, pan fydd gwerth tua £2 biliwn o brif ddyled yn aeddfedu.


Symudiadau dyled o flwyddyn i flwyddyn (£m)



Dyled net/Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio



Uwch-gymhareb sicrwydd llog



Cydnherthedd Ariannol

O dan delerau ein strwythur gwaraneiddio busnes cyfan, rhaid i ni gadw lefelau gerio islaw 85%. Felly, mae gennym gryn hyblygrwydd i ymdopi â risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Rydym yn parhau i fod ymhell o fewn ein cymarebau ariannol wedi'u cyfmodi, yn benodol y gymhareb dyled net i Werth Cyfalaf Rheoleiddio, sy'n mesur dyledusrwydd y Cwmni o gymharu â'r busnes a gydnabyddir gan Ofwat, a'r uwch-gymhareb sicrwydd llog cyn ac ar ôl cynnal a chadw cyfalaf, sy'n mesur llifau arian parod cyn ac ar ôl cynnal a chadw cyfalaf dros log yn ystod cyfnod penodol o amser.

Rydym wedi cynnal ein sgoriau credyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon (Moody's A3; S&P A-, a Fitch A), ac mae'r rhain ymysg yr uchaf yn sector cyfleustodau'r DU. Mae sgoriau credyd uchel yn ennyn hyder buddsoddwyr ac yn ein galluogi i gael gafael ar ddyled wedi'i phrisio'n effeithlon i ariannu ein rhaglen fuddsoddi, gan gadw biliau'n fforddiadwy i'n cwsmeriaid.

	Moody's	S&P	Fitch
Dosbarth A	A1	AA	A
Dosbarth B	A3	A-	A
Dosbarth C	Baa2	BBB	BBB+

Ym mis Chwefror 2024, cadarnhaodd dadansoddiad credyd wedi'i ddiweddarau Moody's sgôr o A3 ar gyfer ein dyled Dosbarth B a sgôr o Baa2 ar gyfer ein dyled Dosbarth C, gyda rhagolwg sefydlog ar gyfer y naill a'r llall.

Ym mis Mawrth 2024, cadarnhaodd Fitch sgôr o A ar gyfer ein dyled Dosbarth B a sgôr o BBB+ ar gyfer ein dyled Dosbarth C, gyda rhagolwg sefydlog ar gyfer y naill a'r llall.

Cwblhawyd dadansoddiad diweddaraf S&P ym mis Tachwedd 2022, gan gadarnhau sgôr o A- ar gyfer ein dyled Dosbarth B a sgôr o BBB ar gyfer ein dyled isradd Dosbarth C, ond diwygiodd y rhagolwg o sefydlog i negyddol. Nid yw hyn yn effeithio ar y bondiau Dosbarth A, sy'n destun gwarant ariannol gan Assured Guaranty UK Ltd).

Difidendau

Fel cwmni cyfyngedig drwy warant, ni thalwyd unrhyw ddifidendau yn ystod y flwyddyn (BA 23: dim). Nid oes unrhyw ddifidendau o fewn y Grŵp wedi'u datgan ac mae gwargedion yn y busnes rheoleiddiedig wedi'u cadw er budd ein cwsmeriaid. Am ragor o fanylion, gweler ein polisi difidendau.

Trethiant

Ni fydd unrhyw dreth gorfforaeth yn daladwy ar gyfer BA 24. Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, caiff elw trethadwy ei wrthbwyso gan lwfansau cyfalaf ar ein rhaglen fuddsoddi.

PM Davis

Mike Davis
Prif Swyddog Cyllid

6 Mehefin 2024



Y TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD (TCFD)

Cyd-destun Strategol Cydymffurfiaeth

Rhan o’n strategaeth 2050 barhaus yw darparu gwasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o’r radd flaenaf ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Mae mynd i’r afael â heriau sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd yn hanfodol i’n llwyddiant. Mae’r wybodaeth a roddir yn y datgeliad hwn yn dangos yr ystyriaethau sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd sy’n rhan o’n prosesau llywodraethu, strategaeth a rheoli risg, a’r ffordd rydym yn monitro cynnydd drwy fetrigau priodol.

Mae ein strategaeth ar gyfer rheoli risgiau sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd yn cael ei mireinio’n barhaus i’w cysoni â’n nod o gyrraedd sefyllfa niwtral o ran ynni erbyn 2050. Mae ein cynnydd tuag at gyflawni ein hymrwymadau o’r flwyddyn ddiwethaf wedi’i ddangos isod.

Datganiad Cydymffurfiaeth

Ar ôl ystyried pedwar argymhelliad y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy’n Gysylltiedig â’r Hinsawdd a’r 11 o ddatgeliadau a argymhellwyd yn ogystal â’r canllawiau i bob sector a nodir yn adran C o ‘Annex: Implementing the Recommendations of the Task Force on Climate-related Financial Disclosures’, Hydref 2021, yma rydym yn cyflwyno datgeliad llawn ein Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy’n Gysylltiedig â’r Hinsawdd sy’n gyson â’r argymhellion a’r datgeliadau hyn. Ochr yn ochr â datgeliadau’r Tasglu, rydym wedi adrodd yn unol â Rheoliadau Cwmnïau (Datgeliadau Ariannol sy’n gysylltiedig â’r Hinsawdd) (Adroddiad Strategol) 2022 gorfodol (Rheoliadau Datgeliadau Ariannol sy’n gysylltiedig â’r Hinsawdd y DU).

Rydym yn cydnabod yr heriau sylweddol a berir gan newid yn yr hinsawdd ac yn ymrwymedig i fynd i’r afael â nhw drwy ddilyn argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy’n Gysylltiedig â’r Hinsawdd. Bydd hyn yn rhoi tryloywder i’n rhanddeiliaid ac mae’n gyson â’n hymroddiad i sicrhau cydnerthedd a chynaliadwyedd.

Dyma’r trydydd datgeliad blynyddol o’r risgiau a wynebwn o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, gan roi diweddariad ar adroddiad blaenorol ein Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy’n Gysylltiedig â’r Hinsawdd, a gyhoeddwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023.

Proses adrodd ein Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy’n Gysylltiedig â’r Hinsawdd

Ers mabwysiadu fframwaith y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy’n Gysylltiedig â’r Hinsawdd yn 2021, rydym wedi gwneud cynnydd cyson tuag at gyflawni’r argymhellion ac wedi gwella ein datgeliadau ariannol sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd o flwyddyn i flwyddyn. Mae’r tabl isod yn rhoi diweddariad ar ein hymrwymadau o’n datgeliadau ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

	Byddwn yn gwneud y canlynol	Cynnydd
1. Llywodraethu	Gwella’r ffordd rydym yn monitro risgiau’r hinsawdd, gan gydnabod bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ein Strategaeth Gyflawni Hirdymor, a fydd yn nodi pwyntiau ysgogi a gwaith pellach ar risgiau pontio.	Wrth lunio ein cynllun busnes ar gyfer PR24, gwnaethom ystyried addasiadau allweddol i ymateb i’r risgiau a wynebwn o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Roedd hyn yn cynnwys adolygu’r canlynol: - Senarios newid yn yr hinsawdd a fandadwyd gan Ofwat, o fewn Strategaeth Gyflawni Hirdymor. Mae’r strategaeth hon yn cwmpasu llwybrau ymaddasol sy’n gysylltiedig â phwyntiau ysgogi penodol, ac mae’n sicrhau ein bod yn buddsoddi’n gyfrifol yn unol â’n dealltwriaeth o risg. - Y trefniadau llywodraethu mewn perthynas â strategaeth ymaddasu Dŵr Cymru, gan arwain at sefydlu Pwyllgor Newid Hinsawdd, sy’n bennaf cyfrifol am oruchwylio ein strategaeth ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau strategol a’n hymrwymadau o ran darparu gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy.
	Adailadu ar ein trefniadau ar gyfer llywodraethu risgiau corfforaethol ac ACLI, sydd eisoes yn gadarn, drwy ddatblygu ein map llywodraethu. Mae hyn yn sicrhau bod ein Bwrdd yn gwbl ymwybodol o welliannau i drefniadau monitro risg a phwyntiau ysgogi a nodir.	Rydym yn parhau i adrodd ar risgiau’r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy’n Gysylltiedig â’r Hinsawdd, sy’n cwrrd bob chwarter, ac yn cynnal adolygiadau ffurfiol o risg bob chwe mis. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at ddatblygu Dangosyddion Risg Allweddol ar gyfer ein targedau carbon a newid yn yr hinsawdd. Ein Pwyllgor Newid Hinsawdd sy’n gyfrifol am fonitro risgiau’r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy’n Gysylltiedig â’r Hinsawdd.

	Byddwn yn gwneud y canlynol	Cynnydd
2. Strategaeth	Cwblhau adroddiad ar ymaddasu i'r hinsawdd er mwyn egluro ein strategaeth, sy'n amlinellu ein dull o fonitro a lliniaru risgiau â blaenoriaeth.	Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar Ymaddasu i Newid Hinsawdd yn 2023 ac rydym yn disgwyl diweddaru'r adroddiad hwn bob pum mlynedd o leiaf.
	Datblygu ein strategaethau lliniaru ac ymaddasu (yn unol â'n mesurau lliniaru strategol a nodwyd uchod) a'n cynlluniau cyflawni ymhellach yng nghydestun PR24. Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Dŵr Gwastraff a Draenio a Chynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn ystod 2024, gan adlewyrchu canlyniadau ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn 2023.	Mae ein hadroddiad Ymaddasu i Newid Hinsawdd yn crynhoi ein cynnydd mewn perthynas â strategaethau a chynlluniau, gan gynnwys: • Adolygu a diweddaru strategaethau lliniaru ac ymaddasu • Ymgorffori ystyriaethau yn ymwneud â senarios newid yn yr hinsawdd yn y gwaith sy'n sail i'r Cynllun Rheoli Dŵr Gwastraff a Draenio a'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr • Adolygu ein Polisi Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd er mwyn sicrhau bod pob strategaeth a chynllun yn ystyried i ba raddau y mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o ddylanwadu ar gost, perfformiad a risg sy'n gysylltiedig â chynlluniau sy'n deillio o'r strategaeth honno Rydym wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau strategol: • Ein Cynllun Busnes ar gyfer PR24, 2025-2030 • Ein Cynllun Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff ar gyfer 2023 • Ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr diwygiedig ar gyfer 2024
	Datblygu ein senarios ar gyfer dadansoddi ein risgiau ymhellach er mwyn ystyried pwyntiau tyngedfennol a lefelau uwch o anrhefn wleidyddol a hinsoddol, yn unol â chanllawiau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd ar ddadansoddi senarios.	Mae ein senarios risgiau trawsnewid yn ystyried RCP (Llwybr Crynadau Cynrychioliadol) 2.6 yn 2030 a RCP 8.5 yn 2030 ac maent yn seiliedig ar ffactorau ysgogi yn cynnwys newidiadau i bolisi, deddfwriaeth a chyllid, newid mewn technoleg a newid mewn ymddygiad cymdeithasol. Mae ein senarios risgiau ffisegol yn ystyried newidiadau tebygolrwydd isel, effaith uchel yn cynnwys cynhesu o fwy na phedair gradd erbyn 2100 a digwyddiadau byd-eang mawr eraill. Lle y bônt ar gael, byddwn yn ystyried sut mae'r peryglon hyn yn debygol o newid mewn byd sydd ddwy radd yn gynhesach erbyn 2050 a byd sydd bedair gradd yn gynhesach erbyn 2100.
3. Rheoli risg	Datblygu'r broses o feintio risgiau yn ariannol erbyn mis Mawrth 2024. Byddwn yn defnyddio'r dull aml-gyfalaf fel rhan o'n gwelliannau i ddeall ac ymdrin â risgiau yn well.	Mae ystyriaeth i newid yn yr hinsawdd wedi'i hymgorffori yn ein fframwaith Rheoli Risgiau Busnes ar gyfer y Cwmni cyfan. Rydym yn parhau i ddefnyddio ein matrices risgiau Rheoli Risgiau Busnes er mwyn sgorio a blaenoriaethu risgiau newid yn yr hinsawdd yn hytrach yn defnyddio dull aml-gyfalaf. Mae asesiad difrifoldeb y matrices risgiau Rheoli Risgiau Busnes yn defnyddio effeithiau ar enw da ac effeithio gweithredol yn ychwanegol at effeithiau ariannol (arian parod). Ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r fframwaith aml-gyfalaf sy'n datblygu er mwyn meintio risgiau yn ariannol.
4. Metrigau a thargedau	Parhau i ddatblygu targedau byrdymor a thymor canolig ar gyfer yr adolygiad o brisiau sydd ar ddod.	Mae ein cynllun busnes ar gyfer PR24 yn nodi ein canlyniadau hirdymor wedi'u hategu gan dargedau byrdymor a thymor canolig
	Nodi metrigau ar gyfer monitro cynnydd yn barhaus er mwyn lliniaru ein risgiau a chyflawni ein targedau.	Mae targedau blaengar wedi'u gosod ar gyfer metrigau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd hyd at 2025 yn unol â'n gorwelion amser o ran newid yn yr hinsawdd. Mae metrigau allweddol a ddefnyddir i fesur a rheoli risgiau ffisegol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi'u nodi yn Adroddiad Monitro misol Tîm Gweithredol Dŵr Cymru. Mae metrigau ar gyfer risgiau pontio sy'n ymwneud â charbon/ymaddasu wedi'u pennu.

YTASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R HINSAWDD (TCFD) PARHAD

1. Llywodraethu

1.1. Crynodeb

Mae ein strwythur llywodraethu wedi'i ddylunio i roi pwys mawr ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Yn ychwanegol at ffocws llywodraethu penodol ar risgiau, rydym wedi ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol yn ein prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau ein bod yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi, asesu a lliniaru risgiau o safbwynt eang. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau cydnherthedd ein gweithrediadau yn wyneb heriau fel newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a rheoli ein hadnoddau dwr mewn ffordd gynaliadwy.

Goruchwyllo: Y Bwrdd

Mae'n adolygu risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn rheolaidd, gan gynnwys papurau ar amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a gwasanaethau, sy'n cefnogi dealltwriaeth o risgiau a materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n dod i'r amlwg.

Goruchwyllo



Adrodd

Goruchwyllo: Y Pwyllgor ACLI

Mae'n datblygu ac yn goruchwyllo Strategaeth Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu'r Grŵp. Mae'n monitro perfformiad yn erbyn targedau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu'r Cwmni a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'n adolygu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn rheolaidd. Mae'n cymeradwyo'r dull o ymdrin â datgeliadau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd. Mae'n adolygu papurau ar amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a gwasanaethau, sy'n cefnogi dealltwriaeth o risgiau a materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n dod i'r amlwg.

Mae'n monitro perfformiad yn erbyn amcanion y Strategaeth Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu:

1. cynllunio a chynaliadwyedd hirdymor
2. cyflawni ein strategaeth carbon sero net
3. addasu ein hasedau a'n gwasanaethau i liniaru risgiau newid yn yr hinsawdd, ynghyd ag is-feysydd ffocws a mesurau, y mae'r Pwyllgor ACLI yn eu monitro bob chwarter.



Gweithredu: Rôl Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol a'r Rheolwyr

Y Prif Swyddog Gweithredol: mae'n bennaf cyfrifol am barodrwydd y Grŵp i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a llywio ein strategaeth lliniaru.

Y Prif Swyddog Risg: mae ganddo gyfrifoldeb gweithredol am drefniadau llywodraethu rheoli risg, gan gynnwys nodi, rheoli a chofnodi risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn briodol.

Tîm Gweithredol Dŵr Cymru: Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (un o is-grwpiau Tîm Gweithredol Dŵr Cymru) sy'n gyfrifol am adolygu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, ac am ddatblygu metrigau a thargedau manwl i liniaru newid yn yr hinsawdd.

Rheolwyr Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Dŵr a Gwastraff: maent yn gyfrifol am ymateb i newid yn yr hinsawdd ac am roi cynlluniau ymaddasu ar waith. Ar y cyd ag aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol, maent yn gyfrifol am reoli'r risgiau a'r camau lliniaru, er enghraifft drwy sicrhau bod gan y Cwmni yr adnoddau a'r bobl fedrus sydd eu hangen i fodloni amcanion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

1.2. Goruchwyliaeth y Bwrdd o risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf a wynebwn fel busnes ac mae'n effeithio ar ein themâu strategol. Ein prif gyfrwng ar gyfer goruchwyllo risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yw Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI) y Bwrdd, sy'n cwrdd bob chwarter ac yn adolygu risgiau'n ffurfiol bob chwe mis.

Rhoddir diweddariadau llafar ac ysgrifenedig i'r Bwrdd â'r pob cyfarfod o'r Pwyllgor ACLI, a gall pob Cyfarwyddwr gael gafael ar y cofnodion a'r papurau a drafodwyd. At hynny, mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn cael diweddariadau manwl ar risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r amlwg bob chwe mis, y mae dwy o'r risgiau hyn yn gysylltiedig â'r hinsawdd (targedau carbon ac ymaddasu). Mae diweddariadau cryno misol ar risgiau yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol i'r risgiau hyn.

Caiff adroddiadau risg y Pwyllgor ACLI a'r Bwrdd eu hadolygu gan y Tîm Gweithredol, sy'n sicrhau y caiff risgiau newid yn yr hinsawdd eu nodi ac y caiff mesurau lliniaru priodol eu cynllunio a'u rhoi ar waith i sicrhau cynaliadwyedd, sero net ac addasu amcanion strategol. Mae'r Pwyllgor ACLI a'r Bwrdd hefyd yn adolygu papurau ar amrywiaeth eang o bynciau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a gwasanaethau, sy'n cefnogi dealltwriaeth o risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg.

Yn dilyn adolygiad gweithredol, caiff adroddiadau ar risgiau strategol ac adroddiadau rheoli misol eu llunio ar gyfer pob un o gyfarfodydd y Bwrdd a chaiff adroddiadau ar risgiau ACLI gan y Pwyllgor ACLI bob chwe mis, gyda diweddariadau chwarterol. Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu ac yn datblygu cynigion buddsoddi ar gyfer y strategaeth gyflawni ar gyfer PR24 sy'n seiliedig ar asesiadau o amrywiaeth o senarios hinsawdd posibl yn y dyfodol.

Mae'r adran ar y strategaeth (2.1) isod yn cynnwys crynodeb lefel uchel o'r senarios hyn. Mae PR24 yn nodi ein strategaeth ar gyfer cyflawni'r amcan lefel uchel o ddiogelu a gwella'r amgylchedd gan sicrhau y caiff hyn ei gyflawni mewn ffordd gynaliadwy, gan gydnabod bod newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd naturiol yn ystyriaethau craidd.

Mae'r buddsoddiad 'Sero Net' a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol ar gyfer AMP8 yn rhoi darlun clir i ni o'r ffordd y dylem lywio ein hymateb i'r hinsawdd ac argyfyngau naturiol. Y flwyddyn ddiwethaf, fel rhan o'n cynllun busnes ar gyfer PR24, gwnaethom gynnig buddsoddi £42 miliwn (CapEx) mewn gwelliannau ar gyfer cynlluniau wedi'u targedu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol, ac rydym yn parhau i fonitro hyn yn erbyn ein Hymrwymiad Perfformiad cyffredin i newid allyriadau nwyon tŷ gwydr.



Y TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD (TCFD) PARHAD

2. Strategaethy

2.1. Terfynau Amser

Rydym yn ystyried ein pum prif risg a chyfle ffisegol a phontio dros y byrdymor (drwy AMP8 o 2025 i 2030), y tymor canolig (hyd at 2050) a’r hirdymor (hyd at 2100 a thu hwnt). Mae hyn yn gyson â therfynau amser cynllunio busnes Dŵr Cymru a’r targedau rydym yn eu nodi yn y datgeliad hwn. Mae adolygu dros orwelion amser byrdymor a thymor hwy yn ein helpu i ddeall ein proffil risgiau dros amser, gan gydnabod, er enghraifft, bod angen ystyried risgiau pontio yn y byrdymor (e.e. ystyried ymddeol asedau yn gynnar yn erbyn cloi allyriadau â buddsoddiadau), a risgiau ffisegol yn fwy sylweddol yn y tymor hwy.

2.2. Methodoleg a Thybiaethau

Mae ein risgiau yn seiliedig ar Lwybrau Crynadau Cynrychioliadol 2.6, 6.0 ac 8.5 y Panel Rhyngwladol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC). Mae’r dewis a’r amrywiaeth o senarios yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o wyddor yr hinsawdd a’i pherthnasedd i’n cylchoedd cynllunio busnes.

Defnyddir dadansoddiadau o senarios y Lwybrau Crynadau Cynrychioliadol¹ yn aml yn y diwydiant dŵr ac mae’n adnodd credadwy sydd ar gael i’r cyhoedd ar gyfer asesu risgiau i ddŵr yn y dyfodol. Mae dadansoddiadau o senarios y Lwybrau Crynadau Cynrychioliadol yn cynnig tafflwybrau allyriadau gwahanol sy’n ein galluogi i gynllunio ac ymaddasu ar gyfer lefelau amrywiol o newid yn yr hinsawdd yn unol â’n strategaeth gynllunio hirdymor.

Isod ceir crynodeb o dybiaethau allweddol pob llwybr a’r cynnydd cymedr yn nymheredd y byd dros yr 21ain ganrif:

¹ Canllawiau UKCP18: Lwybrau Crynadau Cynrychioliadol. <https://www.metoffice.gov.uk/binaries/content/assets/metofficegovuk/pdf/research/ukcp/ukcp18-guidance---representative-concentration-pathways.pdf>

RCP2.6

- Senario dotblygu canolig ar gyfer poblogaeth, incwm, ynni a defnydd tir
- Newid o 2.6 W/m² yn y cydbwysedd ymbelydrol erbyn 2100

RCP6.0

- Senario sefydlogi lle mae allyriadau yn cyrraedd eu lefel uchaf erioed yn 2080 cyn i’r newid yn y cydbwysedd ymbelydrol sefydlogi ar ôl 2100
- Newid o 6.0 W/m² yn y cydbwysedd ymbelydrol erbyn 2100

RCP8.5

- Y senario gwaethaf posibl o ran newid yn yr hinsawdd, lle mae systemau ynni’r dyfodol yn symud tuag at dechnolegau ag allyriadau nwyon tŷ gwydr uchel
- Newid o 8.5 W/m² yn y cydbwysedd ymbelydrol erbyn 2100



Erbyn 2100

1.5 gradd

2-4 gradd

4+ gradd

Wrth gynllunio ar gyfer anwadalrwydd a newidiadau sydyn yn yr hinsawdd, mae’n hanfodol ein bod yn ystyried newidiadau tebygolrwydd isel, effaith uchel, gan gynnwys cynhesu o fwy na 4°C erbyn 2100.

2.3 Ein Defnydd o Senarios a Gwaith Dadansoddi a Modelu i Lywio Gwaith Cynllunio Hirdymor

Diben y ffocws ar ddadansoddi senarios yw deall sut y gall ein hinsawdd newid ynghyd â chrynnodiadau o nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer yn y dyfodol.

Rydym yn dadansoddi senarios ar draws ein prif wasanaethau (dŵr, dŵr gwastraff, biosolidau ac ynni), gan ystyried cylchoedd oes asedau a gorwelion cynllunio. Mae adolygu dros orwelion byrdymor a thymor hwy yn ein helpu i ddeall ein proffil risgiau dros amser.

Er mwyn gwella ein dealltwriaeth o risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor a phrofi cydnheredd ein strategaeth, gwnaethom gynnal ein dadansoddiad o senarios cyntaf o dan y Llwybrau Crynoddau Cynrychioliadol yn BA 22. Mae effaith y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o all effeithio ar Dŵr Cymru yn golygu bod angen dadansoddi risgiau ffisegol a phontio gan ddefnyddio'r senarios allweddol canlynol:

Ffisegol	- Mae'r risgiau yn seiliedig ar senario RCP8.5 allyriadau uchel ar draws 2030, 2050 a 2100 - Byd sydd 4°C yn gynhesach erbyn 2100
Pontio	Mae'r risgiau yn seiliedig ar effaith "waethaf" RCP2.6 yn 2030 a datgarboneiddio cyflym RCP8.5 yn 2050

2.4. Ystyried Newid yn yr Hinsawdd wrth Gynllunio

Mae ein Polisi Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd (2023) yn parhau i fod yn hanfodol i'n dull a'n hymrwymiad i ystyried senarios newid yn yr hinsawdd yn ein strategaethau a'n cynlluniau hirdymor, gan gynnwys y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, y Cynllun Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff a'r Strategaeth Gyflawni Hirdymor. Mae'r cynlluniau hyn yn asesu'r risg hirdymor i asedau a systemau penodol ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o ymyriadau addasu er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein uchelgeisiau ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid a pherfformiad amgylcheddol, fel cynlluniau ymaddasol, o dan amrywiaeth o senarios hinsawdd. Yn unol ag argymhellion a gofynion rheoliadol, bydd strategaethau Dŵr Cymru fel arfer yn defnyddio RCP 6.0 (canolig-uchel) fel y senario cynllunio 'mwyaf tebygol' lle bynnag y bo'n bosibl ond dylid ei "straen-brofi" yn erbyn RCP2.6 (isel a RCP8.5 (uchel).

	RCP 2.6	RCP 6.0	RCP 8.5
Strategaeth gyflawni hirdymor	Defnyddir asesiad meintiol ac ansoddol i ddatblygu'r llwybr a ffeirir	Nid yw'r gofynion rheoleiddio yn gofyn am strategaeth yn erbyn RCP 6.0	Asesiad meintiol ac ansoddol
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	Defnyddir gwaith modelu i lywio'r Strategaeth Gyflawni Hirdymor	Defnyddir gwaith modelu i ddatblygu'r cynllun buddsoddi a ffeirir	Defnyddir gwaith modelu i ddatblygu senario wedi'i straen-brofi
Cynllun Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff	Defnyddir gwaith modelu i lywio'r Strategaeth Gyflawni Hirdymor	Defnyddir gwaith modelu i ddatblygu'r cynllun buddsoddi a ffeirir	Defnyddir gwaith modelu i ddatblygu profion straen
Adroddiad Ymaddasu i'r Hinsawdd	Nid yw'n berthnasol gan fod y ffocws ar ymaddasu mewn senarios o newid pellach sylweddol yn yr hinsawdd (h.y., yn waeth na RCP 2.6)	Asesiad meintiol ac ansoddol	Asesiad meintiol ac ansoddol
Ymrwymadau carbon sero net	Asesu gofynion i gysoni â'r broses o gyflawni'r llwybr hwn	Uchelgeisiau sero net sydd fwyaf perthnasol i senario pontio cyflym	Uchelgeisiau sero net sydd fwyaf perthnasol i senario pontio cyflym

Er mwyn sicrhau y caiff lleihau carbon ei integreiddio'n llawn yn ein proses gwneud penderfyniadau strategol, mae dull Dŵr Cymru o fesur a phrisio allyriadau carbon yn dilyn canllawiau arfer gorau'r Adran dros Ddiogeled Ynni a Sero Net (2021) ac mae'n defnyddio'r gwerthoedd carbon diweddaraf fesul tunnell o allyriadau cyfwerth â charbon deuocsid (tCO₂e). Nodir amcangyfrifon o garbon corfforedig a gweithredol ochr yn ochr ag amcangyfrifon o gostau preifat ar gyfer yr holl asedau yn y Gronfa Ddata Costau Uned a gaiff eu cynnwys wedyn yn yr Adnodd Amcangyfrif Carbon a Chost. Mae ein hadnodd dadansoddi aml-gyfalaf ar gyfer cynllunio buddsoddiad yn defnyddio £309/Tunnell of Garbon, sef ffigur a gymeradwywyd gan Lywodraeth y DU¹. ¹ <https://www.gov.uk/government/publications/valuing-greenhouse-gas-emissions-in-policy-appraisal>

Y TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD (TCFD) PARHAD

2.5. Senarios Newid yn yr Hinsawdd

Wrth adolygu ein senarios, gwnaethom gytuno mai'r Llwylbrau Crynoddau Cynrychioliadol sydd fwyaf perthnasol i'n model busnes o hyd a'u bod yn ymdrin yn ddigonol ag effeithiau posibl y risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n codi yn y diwydiant gwastraff a dŵr. Mae dadansoddiadau o senarios y Llwylbrau Crynoddau Cynrychioliadol yn cynnig taflwybrau allyriadau gwahanol sy'n ein galluogi i gynllunio ac ymaddasu ar gyfer lefelau amrywiol o newid yn yr hinsawdd yn unol â'n strategaeth gynllunio hirdymor. Mae gwaith modelu newid yn yr hinsawdd yn destun ansicrwydd ynghylch a oes ymdrech fyd-eang gyfunol i gyflawni pob senario a'r amrywiaeth o ganlyniadau posibl o ran tymheredd.

Yn unol â senarios y Llwylbrau Crynoddau Cynrychioliadol, caiff ein risgiau eu hasesu dros 2030, 2050 a 2100 o dan y senario 8.5 prawf straen uchel ar gyfer risgiau ffisegol i ystyried p'un a yw cymdeithas yn gwneud ymdrech ar y cyd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ai peidio. Caiff ein risgiau pontio eu profi yn erbyn RCP2.6 yn 2030 (senario lliniaru llym) a RCP8.5 yn 2050.


Categori risg a ffactorau ysgogi	2030	2050	2100
Ffisegol	Tywydd anrhagweladwy (RCP 8.5 yn 2030)	Hinsoddau tymhestlog (RCP 8.5 yn 2050)	Stormydd trychinebus (RCP 8.5 yn 2100)
Llifogydd a stormydd	Bydd lefelau glawiad yn ystod y gaeaf wedi cynyddu 6%	Bydd lefelau glawiad yn ystod y gaeaf wedi cynyddu 12%	Bydd lefelau glawiad yn ystod y gaeaf wedi cynyddu 22%
Sychder a thywydd poeth	Bydd lefelau glawiad yn ystod yr haf wedi gostwng 9% a bydd y tymheredd cyfartalog yn ystod yr haf wedi cynyddu 1.4 gradd	Bydd lefelau glawiad yn ystod yr haf wedi gostwng 21% a bydd y tymheredd cyfartalog yn ystod yr haf wedi cynyddu 2.6 gradd	Bydd lefelau glawiad yn ystod yr haf wedi gostwng 36% a bydd y tymheredd cyfartalog yn ystod yr haf wedi cynyddu 8 gradd
Codiad yn lefel y môr	Bydd lefel gyfartalog y môr wedi codi 0.11-0.2m	Bydd lefel gyfartalog y môr wedi codi 0.2-0.398m	Bydd lefel gyfartalog y môr wedi codi 0.51-1.13m

Pontio	Proses bontio gyflym i sero net (RCP 2.6 yn 2030)	Proses bontio anhrefnus ac wedi'i hoedi (RCP 8.5 yn 2050)
Cyfreithiol	Mae polisi a rheoliadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn annog lleihad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr1 cyn 2030.	Ar ôl methu â chyflawni targedau 2050, mae llywodraethau a chymdeithas yn gweithredu ar fyrder, gan arwain at newid mewn polisi a deddfwriaeth, gan greu costau enfawr am allyrru nwyon tŷ gwydr ac annog lleihad mewn allyriadau ar unwaith.
Technolegol	Caiff datblygiadau technegol eu gwneud yn gyflym a defnyddir datrysiadau sy'n seiliedig ar natur a thechnoleg effeithlon yn lle eitemau sy'n defnyddio llawer o danwydd ffosil, a ystyrir yn ddiangen, yn anymarferol ac yn gostus i'w gweithredu.	Mae datblygiadau technolegol yn gyflym, ond mae cyfyngiadau mawr ar gadwyni cyflenwi.
Cymdeithasol	Mae ymddygiad cymdeithas yn pennu disgwyliadau gan fusnesau ac mae'r drwydded i weithredu yn gysylltiedig â chyflawni ymrwymïadau sero net. Cydnabyddir gwerth dŵr ac mae cwsmerïaid yn fwy parod i dderbyn costau.	Mae cymdeithas yn ymateb yn gadarn i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn cefnogi camau gweithredu ar gyfer yr hinsawdd. Fodd bynnag, mae cwsmerïaid yn llai parod i dderbyn costau achosion blaenorol o ddiffyg gweithredu.

¹ Mae Protocol Kyoto yn ymdrin â chwe allyriad tŷ gwydr – carbon deuocsid (CO₂), methan (CH₄), ocsid nitraidd (N₂O), hydrofflorocarbonau (HFCs), perfflorocarbonau (PFCs), a sylffwr hecsaflworid (SF₆). Rydym yn aml yn defnyddio'r talfyriad 'carbon' neu CO₂e i gyfeirio at bob un ohonynt gyda'i gilydd.

Drwy ddiffinio'r senarios sy'n dilyn, gallwn gynrychioli ffactorau ysgogi perthnasol effeithiau ar fusnes (a ddangosir isod yn Ffigur 1). Mae hyn wedi ein galluogi i ystyried effeithiau pontio, a all fod yn fwy mewn proses bontio gyflym a threfnus i economi carbon isel, yn ogystal â'r effeithiau ffisegol a all fod yn fwy mewn proses bontio anhrefnus ac wedi'i hoedi.

Ffigur 1. Ffactorau ysgogi perthnasol effeithiau ar fusnes



2.6. Cydnherthedd y Model Busnes a'r Strategaeth yn ôl y Senarios a Ddefnyddir

Credwn fod gennym y strategaeth1 gywir, gan gynnwys ein taith i Sero Net erbyn 2040, i fynd i'r afael â'r heriau a' cyfleoedd sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. Mae ein strategaeth hirdymor, Dŵr Cymru 2050, yn ein galluogi i ymateb i flaenoriaethau cwsmeriaid, ac i wireddu ein gweledigaeth yng nghyd-destun byd sy'n newid.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y caiff y strategaeth hon ei hadolygu yng ngoleuni Penderfyniad Terfynol PR24. Rydym yn cydnabod hefyd fod llawer o ansicrwydd ynghylch effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd yn parhau i ymgorffori ein gwaith modelu senarios yn ein gwaith cynllunio er mwyn deall yr effeithiau hyn yn well. Rydym wedi asesu risg er mwyn ein galluogi i ddisgrifio ein cydnherthedd o ran effeithiau newid yn yr hinsawdd, gan ddefnyddio senarios y Llwybrau Crynoddau Cynrychioliadol sydd ar gael yn gyhoeddus ac wedi'u hadolygu gan gymheiriaid. Mae tybiaethau'r senarios hyn wedi'u hamlinellu ar dudalennau 34 - 37.

Mae ein Polisi Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd (2023) yn parhau i fod yn hanfodol i'n hymrwymiad i ystyried senarios newid yn yr hinsawdd yn ein strategaethau a'n cynlluniau hirdymor, gan gynnwys y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, y Cynllun Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff a'r Strategaeth Gyflawni Hirdymor. Credwn, ar sail ein dealltwriaeth bresennol, fod ein strategaeth yn gadarn. Mae targedau o ran ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a thargedau pontio/carbon wedi'u nodi'n risgiau strategol a chânt eu hadlewyrchu yn ein datganiad am hyfywedd hirdymor (gweler tudalennau 67 - 71)).

¹ <https://corporate.dwrcymru.com/-/media/project/files/page-documents/corporate/our-plans/water-2050/welsh-water-2050-review-and-update-2022---english.ashx>

YTASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R HINSAWDD (TCFD) PARHAD

3. Rheoli Risg

3.1. Integreiddio Rheoli Risg Newid yn yr Hinsawdd

Mae rheoli risg yn rhan annatod o fusnes Dŵr Cymru. Mae'r risgiau a wynebwn o ran newid yn yr hinsawdd wedi'u hymgorffori yn ein proses Rheoli Risgiau Busnes, sy'n rhoi dull cyson o nodi, asesu, rheoli, monitro ac adrodd ar risgiau presennol a phosib i'n busnes. Ein Pwyllgor ACLI sy'n cymryd perchenogaeth dros y broses adrodd ac yn ei harwain. Ceir rhagor o fanylion am y broses Rheoli Risgiau Busnes, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau, ar dudalennau 56 - 66 o'r adroddiad blynyddol hwn.

Mae'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn adroddiad y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd y flwyddyn hon wedi'u nodi drwy ystyried ein senarios newid yn yr hinsawdd (tudalennau 56 - 66) ar draws gorwel amser 2030-2100.

Caiff y risgiau a'r cyfleoedd hyn eu dosbarthu a'u sgorio o fewn y fframwaith Rheoli Risgiau Busnes, gan alluogi'r Tîm Gweithredol, y Pwyllgor ACLI a'r Bwrdd i asesu blaenoriaethau o ran risg a'u harwyddocâd yn y tymor hwy, gan ddefnyddio sgoriau risg a gwerthoedd parodrwydd i dderbyn risg, sy'n helpu'r Bwrdd i gynnal asesiad gwrthrychol o risgiau a blaenoriaethau. Ar sail y farn ddangosol hon, gallwn gadarnhau nad yw'r risgiau hyn yn peri risg berthnasol i weithrediad cyffredinol y busnes yn y byrdymor na'r tymor canolig. Dros y tymor hwy, mae cryn ansicrwydd ynghylch lefel y risg, ac mae ymaddasu yn dibynnu ar gytundebau prisiau a chyllid yn y dyfodol.

3.2. Blaenoriaethu Risgiau Newid yn yr Hinsawdd

Gellir dosbarthu risgiau newid yn yr hinsawdd yn ddau brif gategori:

Risgiau pontio – gall pontio i economi carbon isel olygu bod angen newidiadau mewn polisi, cyfraith, technoleg a'r farchnad er mwyn mynd i'r afael â'r gofynion o ran lliniaru ac ymaddasu sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, a gallant arwain at lefelau amrywiol o effeithiau ariannol, yn ogystal â risg i enw da y Grŵp.

Risgiau ffisegol – newidiadau wedi'u hysgogi gan ddigwyddiad (aciwt) neu newidiadau hirdymor (cronig) ym mhatrymau'r hinsawdd, gan achosi difrod uniongyrchol i asedau ac effeithiau anuniongyrchol drwy darfu ar y gadwyn gyflenwi. At ddibenion y datgeliad hwn, rydym wedi categorioeddio ein risgiau yn rhai aciwt neu gronig, ond rydym yn cydnabod y gall ein risgiau berthyn i'r ddau gategori.

Drwy nodi'r senarios a'r ffactorau ysgogi risg (a amlinellir yn adran 3), lluniwyd rhestr hir o risgiau drwy fapio categorïau o asedau yn erbyn pob un o'r ffactorau ysgogi, er mwyn sicrhau ein bod yn nodi'r amrywiaeth ehangaf o risgiau ar draws ein sylfaen asedau. Gwnaethom asesu canlyniadau a thebygolrwydd risg yn unol â'n proses Rheoli Risgiau Busnes, gan wneud addasiadau i'n galluogi i ddadansoddi'r ansicrwydd a'r terfynau amser sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn well. Cafodd y risgiau hyn eu hasesu a'u blaenoriaethu wedyn drwy gyfres o weithdai er mwyn nodi'r pum prif risg a chyfle ffisegol a phontio.

Erys ein pum prif risg a chyfle ffisegol a phontio yr un fath â'r rhai a nodwyd yn natgeliad blaenorol ein Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (2023), a chynhaliwyd asesiad newydd ar gyfer ein hadroddiad Ymaddasu i Newid Hinsawdd (2023).

Rydym yn cydnabod y lefel uchel o ansicrwydd hyd at 2100 a byddwn yn parhau i sganio'r gorwel a monitro rhestr hwy o risgiau a chyfleoedd a nodwyd yn Atodiad A a B o'n hadroddiad ar Ymaddasu i Newid Hinsawdd (2023).

3.3. Risgiau a Chyfleoedd

Caiff ein risgiau strategol eu hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd, y mae dau ohonynt yn ymwneud â lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo (targedau carbon). Mae rheoli'r risgiau strategol hyn yn hanfodol i gyflawni ein hamcanion risg allweddol, gan gynnwys cyllid buddsoddwyr, gan gydnabod pwysigrwydd cynyddol ein hymrwymiad i faterion ACLI i fuddsoddwyr.

Nodwyd rhestr gynhwysfawr o risgiau a chyfleoedd drwy'r broses dadansoddi senarios¹. Yn y tablau canlynol, mae'r rhain wedi'u crynhoi yn pum prif risg a chyfle i Dŵr Cymru. Er mwyn asesu effeithiau'r risgiau hyn, ystyried effeithiau meintiol, e.e. cynnydd mewn costau ac effeithiau ansodol, e.e. niwed i enw da.

3.4. Effeithiolrwydd Mesurau Lliniaru Strategol

Mae cryn ansicrwydd ynghylch y risgiau gweddilliol gan fod ein mesurau lliniaru yn dibynnu ar fuddsoddiad, lefelau cyllid a'r senario hinsawdd yn y dyfodol, sy'n dal i fod yn ansicr iawn, hyd yn oed yn oed o dan amcanestyniadau mwyaf tebygol y Llwybrau Crynoadau Cynrychioliadol.

Gwnaethom asesu'r tebygolrwydd y bydd ein mesurau lliniaru strategol yn gostwng lefel y risg ar draws 2030, 2050 a 2100 a'u heffeithiolrwydd o ran hynny, drwy ystyried senarios hinsawdd yn y dyfodol a sicrwydd buddsoddiad.

Mae risg sylfaenol na fydd y fframwaith rheoleiddio ar ei ffurf bresennol yn cefnogi cyllid ar gyfer y buddsoddiadau ymaddasu a lliniaru rydym am eu cyflawni.


¹ Adroddiad Ymaddasu i Newid Hinsawdd 2023 | Dŵr Cymru (<https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/our-plans>)

Risgiau Sylfaenol: Pontio

Y Senario a'r Cyfnod Amser a ystyriwyd	RCP2.6 ar gyfer yr effaith "waethaf"	RCP8.5 ar gyfer datgarboneiddio cyflym	Nid yw'n berthnasol oherwydd y terfynau amser hwy
Cyfnod Amser	2030	2050	2100

Ffactor ysgogi	Disgrifiad o'r risg	Mesurau lliniaru strategol
Technological	T1 Cofnodi allyriadau'n Mae risg y bydd allyriadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhai a gofnodwyd. Mae'r ansicrwydd hwn yn arwain at danfuddsoddi neu orfuddsoddi mewn gweithgoreddau lliniaru ac yn gwneud y sefydliad yn agored i effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r rheolaethau prisiau ar gyfer allyrru nwyon tŷ gwydr.	Buddsoddi mewn dealltwriaeth wyddonol well o'n hallyriadau, gan gynnwys amcangyfrif ein hallyriadau Cwmpas 3. Dylai hyn arwain at gofnodion cyflawn a chadarn iawn o allyriadau ar gyfer Cwmpas 1, 2 a 3 cyn 2030. Rhaglen lleihau allyriadau sy'n ffoi gan dargedu gwaith i fonitro a lleihau 50,000 o dunelli o allyriadau sy'n cyfateb i CO₂ bob blwyddyn. Bydd cwblhau'r gwaith hwn a'n buddsoddiad cynhwysfawr mewn prosesau trin, rheoli a mesur awtomataidd yn cadarnhau'r lleihad a gyflawnwyd. Caiff hyn ei gwblhau erbyn 2030.
	T2 Anallu i fabwysiadu technolegau newydd yn gyflym Mae risg y bydd ein galluoedd technolegol i gefnogi'r broses bontio yn annigonol i liniaru allyriadau gweddilliol a rheoli heriau yn y dyfodol, e.e. gwaredu biosolidau a lleihau allyriadau proses.	Rhaglenni arloesi cydweithredol, gan gynnwys £37.5 miliwn drwy gronfa arloesi Ofwat a phartneriaethau â hyd at 100 o academyddion a sefydliadau eraill. Dros AMP8, bwriedir i hyn gael ei gynyddu i gyfanswm o £400m. Bydd hyn yn effeithiol o ran nodi cyfleoedd newydd, ond mae pa brosiectau arloesi sector cyfan a ddewisir y tu hwnt i reolaeth Dŵr Cymru.
Rheoleiddio a pholisi	T3 Effaith ariannol masnachu allyriadau estynedig a threth carbon Mae risg o bwysau deddfwriaethol a rheoliadol cynyddol i ymuno a chynlluniau masnachu allyriadau neu risg o orfodi treth carbon, gan arwain at gostau sylweddol.	Polisi Caffael Cynaliadwy i gryfhau ein cadwyni cyflenwi a lleihau allyriadau Cwmpas 3. Mae risg o hyd fod y System Addasiadau Trawsffiniol ar gyfer treth carbon ar fewnforion, a all ddod i rym yn 2026, yn arwain at bwysau cost o ran dod o hyd i gynyrrch. Fodd bynnag, dylai'r dyheadau a nodir yn ein Polisi Caffael Cynaliadwy a'n od Ymddygiad Cyflenwyr lliniaru hyn er mwyn sicrhau bod cynhyrchion a gwasanaethau carbon isel ar gael.
	T4 Mae cyflymder y broses bontio yn cynyddu costau ac yn creu mwy o gystadleuaeth am adnoddau yn y gadwyn gyflenwi Mae risg y bydd grymoedd polisi yn gorfodi cwmnïau i bontio ar yr un pryd, gan achosi cystadleuaeth am yr un adnoddau.	Polisi Caffael Cynaliadwy i gryfhau ein cadwyni cyflenwi a lleihau allyriadau Cwmpas 3. Mae ein Strategaeth Gyflawni Hirdymor yn cynnwys llwybrau ymaddasol, sy'n ein galluogi i fuddsoddi'n gyfrifol yn unol â'n dealltwriaeth o risg.
	T5 Nid yw'r targedau rheoleiddio sy'n gysylltiedig â charbon corfforedig yn cyd-fynd â'r targedau rheoleiddio o dan y Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol. Mae risg y gall targedau ar gyfer carbon corfforedig a thargedau eraill yn y Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol wrthdaro, gan arwain at niwed i enw da a/neu effaith amgylcheddol negyddol, gan waethygu'r canlyniadau ar gyfer nifer o feysydd risg eraill (e.e. ymrwymadau i faterion ACLI).	Datblygu fframwaith mesur gwasanaeth a'i ddefnyddio i gyflwyno'r achos dros ddatrysiadau glas/gwyrdd i leihau effeithiau carbon ymyriadau a helpu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Y TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD (TCFD) PARHAD



Ceir crynodeb o'r newidiadau mewn sgoriau i adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf a'n dealltwriaeth o newid yn yr hinsawdd ar dudalennau 40 a 42.

Risg	Newid mewn sgôr	Rheswm dros y newid
T1	Cynyddu'r sgôr o 16 i 20.	Er mwyn adlewyrchu'r ffaith ein bod, fel sector, wedi tanamcangyfrif allyriadau sy'n ffoi, a bydd angen i hyn gael ei unioni yn llyfr gwaith cyfrifyddu carbon UKWIR.


Prif Risgiau: Ffisegol

Y Senario a'r Cyfnod Amser a ystyriwyd	RCP8.5 ar gyfer yr 'achos gwaethaf posibl'	RCP8.5	RCP8.5
Cyfnod Amser	2030	2050	2100

Ffactor ysgogi	Disgrifiad o'r risg	Mesurau lliniaru strategol
Aciwt – Llifogydd a stormydd	P1 Rhwydweithiau carthffosydd yn gorlifo yn ystod cyfnodau o law trwm Mae risg y bydd carthffosydd yn gorlifo yn ystod cyfnodau o law trymach neu gyfodau hirach o law, gan arwain at lifogydd (llifogydd mewnol/allanol) a gollyngiadau o systemau gorlif storm cyfun).	Technoleg synhwyrddion ar y rhwydwaith carthffosydd a defnydd parhaus o offer Monitro Hyd Digwyddiadau er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch systemau gorlif storm sy'n gorlifo. Darparu ail Gynllun Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff erbyn 2027. Mae ein Cynllun Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff yn cynnwys strategaethau i gynyddu capasiti'r rhwydwaith carthffosydd a datrysiadau draenio cynaliadwy, wedi'u cefnogi gan fuddsodiad o £420 miliwn yn AMP8 a mwy na £4 biliwn erbyn 2050. Gwnaethom ymgysylltu â rheoleiddwyr, rhanddeiliaid a chwsmeriaid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun. Mae hyn yn llywio'r ffordd rydym yn bwriadu cyflawni ein nodau er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd mewn modd fforddiadwy.

Ffactor ysgogi	Disgrifiad o'r risg	Mesurau lliniaru strategol
Cronig – Digwyddiadau tywydd eithafol – sychder a thywydd poeth	P2 Effaith newid yn yr hinsawdd ar ansawdd dŵr yfed Mae risg y bydd amodau tywydd eithafol, gan gynnwys amodau sych, mwy o law, cylchoedd gwlyb/sych mwy eithafol, ac achosion anuniongyrchol eraill, yn newid cyfansoddiad dŵr heb ei drin sy'n mynd i mewn i weithfeydd trin, gan newid cyfundrefnau trin cemegol a'r gallu i drin yr un faint o ddŵr.	Rhaglenni monitro a modelu ansawdd dŵr heb ei drin. Rheoli dalgylchoedd, gan fynd ati'n benodol i efelychu'r dull a ddefnyddir ym mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog. Uwchraddio gwaith trin dŵr Cwm Taf neu weithfeydd trin dŵr tebyg eraill. Gwaith ymchwil a datblygu ar algâu, sut maent yn tyfu a sut i'w rheoli yn ogystal â thechnolegau newydd fel catalysis ar gyfer trin algâu a'r cyfansoddion cemegol a gynhyrchir ganddynt (gweler cronfa arloesi Ofwat) Mae'r mesurau hyn yn debygol o fod yn effeithiol erbyn 2030 o ystyried y dirywiad araf mewn ansawdd dŵr. Fodd bynnag, yn yr hirdymor hyd at 2050 a 2100, nid yw mesurau o'r fath wedi bod ar waith yn ddigon hir i'w hasesu a bydd eu heffeithiolrwydd yn dibynnu ar y senario ansawdd.
Acíwt – Digwyddiadau tywydd eithafol – sychder a thywydd poeth	P3 Cynnydd yn y galw gan gwsmeriaid mewn amodau poeth Mae risg y bydd angen mwy o ddŵr ar gwsmeriaid mewn amodau poeth, gan gyfyngu ar y lleihad arfaethedig yn y defnydd o ddŵr y pen i fodloni cyfyngiadau ar y cyflenwad/galw lleol.	Modelu sychder a chyflenwad yn y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Rhaglen i leihau gollyngiadau i 75/85 MI/d erbyn 2050. Rhaglen i leihau'r defnydd o ddŵr y pen i 100/110 l/p/dydd erbyn 2050. Defnyddio technoleg i ddatblygu rhwydwaith mwy deallus i fonitro ac ymateb i faterion o ran y cyflenwad lleol yn fwy effeithiol. Disgwyli'r strategaethau rheoli dŵr hyn barhau'n effeithiol o 2030-2050 gan fod ein cynllun rheoli adnoddau dŵr yn rhagweld y gellir ateb y galw'n ddigonol yn y senario hinsawdd mwyaf andwyol. Fodd bynnag, hyd at 2100, bydd y rhain yn dibynnu ar y senario hinsawdd, ond dylai parhau i lunio cynllun rheoli adnoddau dŵr sicrhau y caiff y risg hon ei rheoli'n effeithiol.
Acíwt – Digwyddiadau tywydd eithafol – sychder a thywydd poeth	P4 Risg i'n hasedau yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol neu godiad yn lefel y môr Mae risg y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ein hasedau (e.e. argaeau, gweithfeydd trin dŵr, gorsafoedd pwmpio, pibellau). Gall hyn arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o bibellau'n byrstio a dirywiad cyffredinol asedau. Gall digwyddiadau o'r fath achosi llifogydd yn ein hasedau yn ystod cyfnodau o law trwm, gan arwain at anallu i gyflenwi cwsmeriaid neu risg o niwed i'r amgylchedd o ganlyniad i golli'r gallu i drin dŵr.	Modelu llifogydd mewn asedau wedi'i gefnogi gan fuddsoddiadau mewn cydnherthedd asedau drwy gynnal adolygiadau rheolaidd. Modelu erydu arfordirol ac afonydd. Rhaglen lliniaru llifogydd partneriaeth. Mae'r mesurau hyn yn debygol o fod yn effeithiol erbyn 2030 o ystyried y newid araf o ran y risg o lifogydd. Gan dybio y caiff cyllid ei sicrhau yn PR29 i'w fuddsoddi, dylai rhaglen o fesurau lliniaru amddiffynfeydd rhag llifogydd rhwng 2030 a 2050 fod yn effeithiol. Os caiff y gwaith hwn ei wneud hyd at 2100, yna dylai'r risg gael ei lliniaru'n effeithiol.
	P5 Risg i gadwyni cyflenwi seilwaith yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol Mae risg y bydd difrod i systemau seilwaith eraill neu y terfir arnynt o ganlyniad i effaith uniongyrchol digwyddiadau tywydd eithafol (e.e. seilwaith telathrebu, trafnidiaeth neu ynni). Gall hyn darfu ar ein systemau ein hunain a gall arwain at anallu i gyflenwi ein cwsmeriaid ac achosi risg o niwed amgylcheddol o ganlyniad i golli'r gallu i drin dŵr.	Ymgysylltu â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ar y rhyngddibyniaethau â darparwy'r seilwaith allweddol fel pŵer a thrafnidiaeth er mwyn deall y goblygiadau i systemau. Gosod generaduron wrth gefn ar safleoedd penodol er mwyn gwella cydnherthedd. Strategaeth caffael cynaliadwy. Mae maint y risg hon yn dibynnu ar b'un a fydd y Llywodraeth yn mabwysiadu argymhellion y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ac yn gosod targedau cydnherthedd i bawb eu dilyn.

Y TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD (TCFD) PARHAD



Risg	Newid mewn sgôr	Rheswm dros y newid
P1	Cynyddu'r sgôr o 12 i 25.	Er mwyn adlewyrchu ein dealltwriaeth yn y Cynllun Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff o'r tebygolrwydd uchel y caiff ein systemau draenio eu gorlwytho a'r costau cynyddol i liniaru'r risgiau hyn.
P3	Cynyddu'r sgôr o 8 i 10.	Er mwyn adlewyrchu'r galw o welwyd dros yr hafau diwethaf mewn ardaloedd fel Sir Benfro.

Cyfleoedd

Ffactor ysgogi	Disgrifiad o'r Cyfle	Ein Dull o Fanteisio ar y Cyfle
Newid mewn technoleg	O1 Datblygu a defnyddio technoleg arloesol. Mae gennym gyfle i ddatblygu a defnyddio technolegau newydd arloesol i wella ein gwasanaeth nawr ac ateb heriau'r hinsawdd yn y dyfodol.	Y ffordd orau o fanteisio ar y cyfle hwn yw drwy fuddsoddi mewn technolegau carbon isel ac ynni adnewyddadwy a chydweithio â phrifysgolion i wella ein cydnerthedd yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd.
Newid mewn polisi, deddfwriaeth a chyllid	O2 Rhoi egwyddorion yr economi gylchol ar waith Mae cyfle i roi egwyddorion yr economi gylchol ar waith, gyda'r cyd-fantais o leihau allyriadau carbon cysylltiedig. Gallai arferion o'r fath hefyd sicrhau llesiant cymdeithasol ac economaidd.	Rhaglen i leihau allyriadau sy'n ffoi 50% a rhaglen i gynyddu faint o biofethan/biohydrogen a gynhyrchir i 120GWh y flwyddyn. Rhaglen ymchwil a threialu i ystyried y defnydd o'r economi gylchol mewn rhannau gwahanol o'r busnes.
	O3 Cymorth i ddatblygu cyfreithiau a rheoliadau newydd Mae gennym gyfle i barhau i gefnogi 'Tîm Cymru', Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill drwy newidiadau cadarnhaol i ddeddfwriaeth, polisiau a rheoliadau. Gall hyn greu cyfleoedd i reoli ein risgiau o'n cyfleoedd ar y cyd, sy'n berthnasol i reoli ein risgiau rhyngddibynnol a risgiau sy'n rhwneadu.	Rydym yn helpu Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol mewn nifer o feysydd deddfwriaethol, polisi a rheoliadol e.e. datblygu maethynnau, bioamrywiaeth a masnachu carbon mewn dalgylchoedd afonydd; darparu gwaith modelu ansawdd dŵr; gwaith samplu amgylcheddol a chasglu data; cyngor ar reoliadau newydd i wella cynaliadwyedd yn ein sector. Byddai dull gweithredu o'r fath yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru.
Newid mewn polisi, deddfwriaeth a chyllid	O4 Defnyddio polisi caffael cynaliadwy i fanteisio ar yr economi werdd Mae cyfle i ddefnyddio ein Polisi Caffael Cynaliadwy (2023), a gefnogir gan ein cymuned o randdeiliaid amgylcheddol, i gefnogi economi werdd Cymru, gan gynnwys, er enghraifft, drwy Gytundebau Prynu Ynni gwifren uniongyrchol neu Gytundebau Prynu Pŵer Corfforaethol Lleol.	Rydym wedi datblygu polisi caffael cynaliadwy newydd ac wedi sicrhau cymeradwyaeth ar ei gyfer, ac rydym bellach yn gweithio gyda chanolfannau rhagoriaeth lleol i'n helpu i roi'r polisi ar waith a sicrhau gwerth i'n cwsmeriaid. Rydym hefyd yn cefnogi nifer o fentrau'r economi gylchol, yn enwedig lle mae'r rhain yn cyd-fynd ag anghenion perfformiad eraill.

¹ Adroddiad Ymaddasu i Newid Hinsawdd 1 | Dŵr Cymru (<https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/our-plans>)

3.5. Asesu Effaith


Er mwyn meintoli effeithiau ein prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, rydym wedi mabwysiadu matrices risgiau wedi'i addasu o'n fframwaith Rheoli Risgiau Busnes.

Mae'r sgoriau wedi'u haddasu yn ystyried trothwyon tebygolrwydd dros gyfnod estynedig o amser (100 mlynedd) i gefnogi gwaith cynllunio a chanlyniadau hirdymor. Mae'r sgoriau'n seiliedig ar yr effeithiau ariannol a gweithredol mwyaf o'r effeithiau mwyaf ar enw da er mwyn sicrhau bod y sgoriau yn adlewyrchu'r effaith fwyaf ar y busnes. Sgoriau heb eu lliniaru (heb gynnwys rheolaethau a gwelliannau) ydynt, er mwyn helpu i ddangos lle mae angen canolbwytio ar reoli a buddsoddi.

Mae'r trothwyon tebygolrwydd wedi'u haddasu yn adlewyrchu'r angen i asesu nifer o gyfnodau amser. Rydym wedi amlinellu'r amrywiaeth o ganlyniadau a ystyriwyd wrth sgorio'r risgiau hyn isod.

Y TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD (TCFD) PARHAD

Enw da	Gweithredol	Iechyd a diogelwch gweithredol	Trefniadaeth weithredol	Gwasanaeth cwsmeriaid gweithredol	Ariannol (arian parod)
Effaith ddifrifol a pharhaol ar bob cydberthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth	Effaith ar randdeiliad allweddol a nifer sylweddol o gwsmeriaid	Marwolaeth neu ddigwyddiad mawr, e.e. tân/ffrwydrad	Effaith sylweddol ar weithgarwch recriwtio a chadw	Effaith ar bob rhanddeiliad allweddol a nifer sylweddol o gwsmeriaid: >200,000 o gwsmeriaid	>£100m
Effaith ar randdeiliad allweddol, y llywodraeth neu fuddsoddwyr	Effaith ar nifer sylweddol o gwsmeriaid a/neu effaith dreiddiol ar nifer o ymrwymadau perfformiad	Anaf/salwch sy'n newid bywyd neu ddigwyddiad o bwys e.e. Digwyddiad Peryglus RIDDOR	Effaith ar y gallu i gadw/ denu unigolion allweddol	Effaith ar nifer sylweddol o gwsmeriaid a/neu effaith dreiddiol ar nifer o ymrwymadau perfformiad: 200,000 o gwsmeriaid	>£50m–£100m
Effaith ar gydberthnasau allweddol â rhanddeiliad	Effaith ar un neu ychydig o ymrwymadau perfformiad	Anaf neu glefyd RIDDOR	Effaith ar forâl yn fewnol ac ar enw da allanol fel cyflogwr cyfrifol	Effaith ar un neu ychydig o ymrwymadau perfformiad: 50,000 o gwsmeriaid	>£25m–£50m
Effaith ehangach ar enw da/ ymddiriedaeth ond ystyrir bod modd ei rheoli	Materion gweithredol sylweddol ond ystyrir bod modd eu rheoli	Anaf lle collir amser/salwch cysylltiedig â gwaith/difrod i eiddo	Effaith ehangach ar nifer o dimau/ swyddogaethau ond ystyrir bod modd ei rheoli	Materion gweithredol sylweddol ond ystyrir bod modd eu rheoli: 15,000 o gwsmeriaid	>£10m–£25m
Effaith leol/ bach yn unig	Effaith fach, hydrin	Mân anaf/ damwain y bu bron iddi ddigwydd	Effaith ar forâl tim/ swyddogaeth	Effaith fach, y gellir ei rheoli: <10,000 o gwsmeriaid	<£10m



Tebygolrwydd	1	2	3	4	5
Risg ffisegol: Pob ffactor ysgogi	Digwyddiad < 1 mewn 100 mlynedd	Digwyddiad 1 mewn 100 mlynedd	Digwyddiad 1 mewn 30 mlynedd	Digwyddiad 1 mewn 5 mlynedd	Digwyddiad 1 mewn blwyddyn
Risg bontio: Newid mewn polisi, deddfwriaeth a chyllid	Mae angen newid stwythur y llywodraeth ar gyfer y newid hwn	Dim awydd ar ran y llywodraeth, mae rhai mudiadau torfol yn ymgychu dros y newid hwn	Mae angen newid arweinyddiaeth y llywodraeth/plaid lleidyddol er mwyn cyflwyno'r newid hwn	Mae awdurdodaethau eraill yn cyflwyno'r polisi hwn	Trafodaethau am gyflwyno'r polisi hwn
Newid mewn technoleg	Dim trafodaethau hysbys am y dechnoleg hon		Rhywfaint o ymchwil academaidd yn y maes hwn/ technoleg.		Mae prosiectau i dreialu technoleg yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd
Newid mewn ymddygiad cymdeithas	Nid oes enghreifftiau o'r ymddygiadau hyn i'w gweld yn unrhyw le		Mae rhai enghreifftiau o'r ymddygiad hwn i'w gweld mewn daearyddiaethau eraill		Mae newid sylweddol mewn ymddygiad i'w weld yng Nghymru

3.6. Cydnerthedd y Model Busnes a'r Strategaeth yn ôl y Senarios a Ddefnyddir

Rydym wedi defnyddio ein Polisi Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd (2023) i ddiffinio'r tybiaethau cynllunio, y gofynion o ran profion senarios a'r disgwyliadau ar gyfer cynlluniau ymaddasol ar gyfer pob strategaeth a chynllun y mae'r hinsawdd yn effeithio arnynt. Gan gynllunio buddsoddi mewn gwaith dylunio a rheoli asedau, rydym wedi gosod llwybr cynllunio craidd ar gyfer y senario canolig-uchel yn seiliedig ar RCP6.0 a byddwn yn ei strae'n brofi yn erbyn y senarios RCP2.6 (isel) a RCP8.5 (uchel) mwy eithafol lle bynnag y bo'n bosibl. Yn unol â chanllawiau cyfredol Ofwat, bydd hyn yn lleihau'r risg na fydd digon o addasiadau yn cael eu gwneud i'r seilwaith wrth gynllunio ar gyfer PR24.

Mae angen cynllun 'llwybr craidd' hyd at 2050 ar gyfer pob cynllun a strategaeth hirdymor. Byddai hyn yn cynnwys gweithgareddau sydd eu hangen bob amser ni waeth beth fo'r senario newid yn yr hinsawdd, h.y. gwariant isel neu heb anfanteision, a gweithgareddau sydd eu hangen i gynnal opsiynau hirdymor. Caiff cynlluniau ymaddasol eu datblygu lle bo angen buddsoddiad sylweddol uwchlaw'r llwybr craidd o dan un neu fwy o'r senarios hyn er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethau mawr mewn canlyniadau oherwydd effeithiau newid yn yr hinsawdd.

4. Metrigau a Thargedau sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd.

Mae'r broses o reoli ein risgiau yn seiliedig ar fonitro ein metrigau a'n targedau sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio ac ymaddasu yn aml. Mae gennym fetrigau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd cymaradwy a ddefnyddir gan y diwydiant sy'n nodi mewn modd ystyrlon lle y caiff targedau newid yn yr hinsawdd eu haddasu a'u cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o fesurau sy'n dangos ein gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel gan leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ar yr un pryd. Adroddir ar y rhain yn flynyddol yn ein mesurau Ymrwymiad Perfformiad ar dudalennau 20 i 23, sy'n rhoi asesiad tryloyw o'n perfformiad. Caiff y mesurau hyn sy'n gysylltiedig â pherfformiad eu hymgorffori mewn polisiau cydnabyddiaeth ar gyfer tâl amrywiadwy blynyddol (AVPS) a thâl amrywiadwy hirdymor (LTVPS). Gweler tudalennau 144 a 146 o'r ddadansoddiad o berfformiad yn erbyn targedau o dan y cynlluniau hyn.

4.1. Ein Siwnei i Sero Net

Ein nod yw cyflawni statws sero net erbyn 2040 a bydd hyn yn helpu i liniaru ein risgiau pontio. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi nodi chwe maes ffocws:

1. Lleihau'r defnydd o drydan/prynu trydan adnewyddadwy a chynhyrchu mwy o drydan adnewyddadwy ein hunain
2. Lleihau'r defnydd o danwydd ffosil
3. Pontio'n raddol i fflyd carbon isel
4. Rheoli a lleihau allyriadau sy'n ffoi o brosesau trin
5. Monitro a lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag adeiladu
6. Atafaelu carbon

Am ddatgeliadau manwl ar gyfer allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 a'n cynllun uchelgeisiol i gyflawni statws sero net erbyn 2040, gweler Amcan ACLI 2 – Carbon Sero Net ar dudalen 78.

Targedau ar draws ein gorwelion strategol

2025

- Cynhyrchu 35% o'n hanghenion ynni
- Lleihau dwysedd carbon corfforedig 33% ar gyfer prosiectau unigol o gymharu â blwyddyn sylfaen 2020/21



2030

- Lleihau allyriadau sy'n ffoi 50% o gymharu â blwyddyn sylfaen 2020/21
- Cynhyrchu 50% o'n hanghenion ynni
- Cynhyrchu teirgwaith mwy o fïomethan/biohydrogen o gymharu â blwyddyn sylfaen 2020/21
- Lleihau carbon corfforedig 50% yn erbyn datrysiadau prosiect confensiynol o gymharu â blwyddyn sylfaen 2020/21



Y tu hwnt i 2030

- Trosi'r allyrwyr N_2O mwyaf yn driniaeth adweithydd
- Fflyd o gerbydau di-allyriadau
- Lleihau carbon corfforedig 90% erbyn 2040 o gymharu â blwyddyn sylfaen 2020/21
- Defnyddio dulliau dal, defnyddio a storio carbon i ddal 8,000 tCO₂e y flwyddyn

Y TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD (TCFD) PARHAD

4.2. Metrigau a Ddefnyddir i Asesu Risgiau a Chyfleoedd sy’n Gysylltiedig â’r Hinsawdd

Mae’r adran hon yn disgrifio ein perfformiad mewn perthynas â’n risgiau a’n cyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd ac mae’n amlinellu’r metrigau allweddol rydym yn eu defnyddio i olrhain ein cynnydd yn erbyn y prif risgiau ffisegol a phontio a wynebwn.

Mae’r tabl hwn yn dangos y metrigau a’r targedau i reoli ein pum prif risg ffisegol

Risg	Metrig	Perfformiad BA 24 ¹	Targed BA 25
P1	Llifogydd carthion mewnol	203	200
	% y risg o garthffosydd yn gorlifo mewn storm	24.88%	29.45%
P2	Derbynioldeb dŵr yfed (cysylltiadau fesul 1,000 o’r bologaeth)	2.48	1.58
	Mynegai risg digwyddiadau ansawdd dŵr tap	24.14	10
P3	Y defnydd o ddŵr y pen (l/p/d)	152.5	138
	% y risg o gyfyngiadau difrifol yn ystod cyfnod o sychder	4.4%	0%
P4	Gwydnwch asedau (y rhwydwaith dŵr + asedau uwchlaw lefel y ddaear)	88.4%	86.5%
P5	Cydymffurfiaeth gweithfeydd trin dŵr	97.67%	100%
	Gwydnwch asedau (y rhwydwaith dŵr + asedau uwchlaw lefel y ddaear)	88.4%	86.5%

¹ Perfformiad presennol ar gyfer mesurau P1, P3, P4 a P5 ym mis Rhagfyr 2023. Perfformiad presennol ar gyfer mesurau P2 ym mis Chwefror 2024.

Mae’r tabl hwn yn dangos y metrigau a’r targedau i reoli ein pum prif risg pontio

Risg	Metrig	Perfformiad FY 24	Targed FY 25
T1	Lleihau allyriadau proses (CapEx) ¹	0	Lleihau allyriadau sy’n ffoi 50% erbyn 2030 ²
T2	Hunangynhaliaeth ynni (%)	25%	35%
T3	Canran y prosiectau cyfalaf ag ôl troed carbon isel	40%	33%
T4	Lleihau dwysedd allyriadau Cwmpas 3	0	Lleihau dwysedd 7% bob blwyddyn
T5	% y lleihad mewn CO ₂ o gymharu â llinell sylfaen 2010-11	65%	66%
	Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol	2 seren	3 seren

¹ Yn amodol ar benderfyniad terfynol Ofwat

² Mae targed Sero Net 2050 y disgwylir i gwmnïau yng Nghymru ei gyflawni yn dilyn blynyddoedd targed interim 2020, 2030 a 2040

Mae’r tabl hwn yn dangos y metrigau a’r targedau i reoli ein pedwar prif gyfle

Cyfle	Metrig	Perfformiad FY 24	Targed FY 25
O1	Mesuryddion a osodwyd	48%	51%
O2	% ansawdd cynnyrch bioadnoddau	99.5%	97.3%
O3	Dalgylchoedd ynni a wellwyd	23	18
	Km o afonydd a wellwyd	345	418
O4	% y lleihad mewn CO ₂ o gymharu â llinell sylfaen 2010-11	65%	66%

Mae'r tabl isod yn amlinellu ein mesurau i reoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Risg	Disgrifiad o fesurau a thargedau
P1	Mae mesur nifer yr achosion o garthffosydd yn gorlifo'n fewnol yn ein galluogi i ddeall i ba raddau y mae'r risg hon yn effeithio ar y gymuned a'r cwsmeriaid rydym yn eu gwasanaethu. Rydym wedi gosod targed ar gyfer 2050 o 200 (nifer yr achosion). Mae'r mesur cydnerthedd, sef y risg y bydd carthffos yn gorlifo yn ystod storm ddifrifol, yn elfen allweddol o'n strategaeth hirdymor i leihau risg llifogydd. Y mesur hwn yw canran y boblogaeth sy'n wynebu risg y bydd carthffos yn gorlifo yn ystod storm 1 mewn 50 mlynedd.
P2	Mae mesur derbynoldeb dŵr yfed yn brif flaenoriaeth i'n cwsmeriaid. Mae'n bwysig ein bod yn darparu dŵr sydd nid yn unig yn cyrraedd safonau ansawdd ond sydd hefyd yn dderbyniol i gwsmeriaid. Rydym wedi gosod targed ar gyfer 2050 o 1.58 fesul 1,000 o'r boblogaeth a wasanaethir. Caiff hyn ei ategu gan y Mynegai Risg Digwyddiadau i fesur ein hymateb i ddigwyddiadau ansawdd dŵr yfed ac asesu effeithiau digwyddiadau ar gwsmeriaid. Rydym wedi pennu sgôr darged ar gyfer 2050 o 10.
P3	Mae'r defnydd o ddŵr y pen a'r risg o gyfyngiadau difrifol yn ystod sychder yn fesurau gwerthfawr gan eu bod yn llywio gwaith monitro galw a pharodrwydd ar gyfer sychder. Rydym wedi gosod targed o ran y defnydd o ddŵr y pen ar gyfer 2050 o 138 l/p/d.
P4	Mae mesur cydnerthedd y rhwydwaith dŵr ac asedau uwchlaw lefel y ddaear yn ein galluogi i nodi risg o effaith fawr ar gwsmeriaid mewn amgylchiadau eithafol. Dyma'r asedau lle mae methiant yn arwain at darfu ar gyflenwad dŵr cwsmeriaid.
P5	Defnyddir mesur cydnerthedd y rhwydwaith dŵr ac asedau uwchlaw lefel y ddaear ar y cyd â chydymffurfiaeth gweithfeydd trin dŵr i ddeall y risg o anallu i gyflenwi ein cwsmeriaid a lle y byddai methiant i gydymffurfio yn cael yr effaith fwyaf sylweddol ar yr amgylchedd.

Risg	Disgrifiad o fesurau a thargedau
T1	Yn ein PR24, rydym yn cynnig buddsoddi £38.55m mewn CapEx (ar ôl y newid ffin eithaf ac effeithiau prisiau gwirioneddol, ac yn sylfaen brisiau 2022/23) yn AMP8 tuag at becyn buddsoddi i leihau allyriadau proses. Nod y pecyn buddsoddi hwn yw mesur a rheoli allyriadau sy'n ffoi, fel ocsid nitraidd (N2O) ac uwchraddio lefel yr hyder mewn prosesau adrodd. Rydym wedi gosod targed i leihau'r allyriadau hyn fwy na 50% erbyn 2030, sy'n ategu'r targedau interim (2020, 2030 a 2040) mewn perthynas â Sero Net y disgwylir i gwmnïau yng Nghymru eu cyflawni.
T2	Mae hunangynhaliadaeth ynni yn faes cyffrous i ni a'n cwsmeriaid, wrth i gyfleoedd technolegol newydd godi'n barhaus. Felly, mae'r mesur hwn yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi'r broses o bontio i sero net a mabwysiadu technolegau sy'n effeithlon o ran ynni.
T3	Bydd monitro canran y prosiectau cyfalaf ag ôl troed carbon isel yn cefnogi ein nod o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a sicrhau bod ein buddsoddiadau cyfalaf yn cyd-fynd â thargedau lleihau allyriadau, gan liniaru'r risg o ddiffyg cydymffurfio â chynlluniau masnachu allyriadau posibl neu ofnyion treth carbon.
T4	Mae Cwmpas 3 yn ymwneud ag allyriadau i fyny ac i lawr yr afon o weithgarwch y gadwyn gyflenwi neu ddefnydd cwsmeriaid o gynhyrchion a gwasanaethau. Bydd y mesur hwn yn dangos allyriadau'r gadwyn gyflenwi ac yn helpu i nodi meysydd lle mae diffyg datrysiadau technolegol neu lle mae datrysiadau o'r fath yn annigonol i liniaru allyriadau gweddilliol.
T5	Drwy fonitro ein lleihad mewn allyriadau CO ₂ , gallwn fesur cynnydd yn erbyn y nod ehangach o gyflawni statws Sero Net erbyn 2040 ac, erbyn diwedd AMP8, sicrhau bod ein targedau yn cyd-fynd â'r rheini a bennwyd gan gyrff rheoleiddio a'r Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol. Asesir ein heffaith ar yr amgylchedd drwy'r Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol a byddwn yn anelu at sicrhau sgôr 3 seren.

Y TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD (TCFD) PARHAD

Cyfle	Disgrifiad o fesurau a thargedau
O1	Mae mesur canran y cwsmeriaid preswyl sydd â mesuryddion yn dangos ein cynnydd tuag at wireddu'r cyfle hwn a gwella'r broses o fonitro'r defnydd o ddŵr er mwyn creu dyfodol mwy cynaliadwy a chydnerth o ran dŵr.
O2	Y mesur hwn yw canran y llaid dŵr gwastraff sy'n cynhyrchu cynnyrch biosolidau sydd wedi'i achredu gan y Cynllun Sicrwydd Biosolidau. Mae hyn yn dangos i ba raddau y mae egwyddorion yr economi gylchol yn cael eu rhoi ar waith wrth drin dŵr gwastraff a rheoli biosolidau.
O3	Caiff y cyfle hwn ei fesur drwy ein hamcan ACLI o gynllunio a chynaliadwyedd hirdymor. Ein maes ffocws ar gyfer yr amcan hwn yw gweithio gyda chwe Bwrdd Rheoli Maethynnau, a thrydydd partion eraill, i alluogi datblygiadau cynaliadwy yn nalgylchoedd Afon Gwy ac Afon Wysg. Mae mesur y Km o afonydd a dalgylchoedd dŵr a wellwyd yn asesu ein cynnydd tuag at gyflawni'r amcan hwn.
O4	Un o'r meysydd ffocws ar gyfer ein hamcan ACLI o ddangos atebolrwydd yw ailgyhoeddi'r Cod Ymddygiad Cyflenwyr i gynnwys ein huchelgeisiou o ran caffael cynaliadwy yn 2024. Byddwn yn mesur effeithiolrwydd caffael cynaliadwy yn ein cadwyn gyflenwi drwy ein lleihad mewn CO ₂ .

4.3. Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a Thargedau

Datblygodd UK Water Industry Research Limited lyfr gwaith a methodoleg gysylltiedig safonol ar gyfer amcangyfrif allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol, sef y Llyfr Gwaith Cyfrifyddu Carbon, er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb o ran y broses adrodd ym mhob rhan o'r diwydiant dŵr. Caiff ei ddiweddarau bob blwyddyn i adlewyrchu ffactorau allyriadau diweddaraf Llywodraeth y DU. Adroddir ar ein data bob blwyddyn yn unol â safon adrodd ar garbon ISO 14064.

Wrth asesu cynnydd tuag at gyflawni ein targed o fod yn sero net erbyn 2040, rydym yn cyflwyno ein perfformiad manwl mewn perthynas â'n hallyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2, a'r chwe chategori Cwmpas 3 sy'n berthnasol i'n sector – gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thanwydd ac ynni, cludo a dosbarthu i fyny'r afon, gwastraff a gynhyrchir gan weithrediadau, cludo a dosbarthu i lawr yr afon* a thrin cynhyrchion soled ar ddiwedd eu hoes** – ar dudalen 79 o'r adroddiad hwn. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw allyriadau Cwmpas 3 yn cynnwys categorïau 7, 8, 10, 11, 13, 14 na 15 ar y sail eu bod yn amherthnasol ac y tu hwnt i'r rheoloeth weithredol. Ceir crynodeb o'n hallyriadau (gwastraff a dŵr gwastraff) gweithredol ar gyfer BA 24 a blynyddoedd blaenorol isod:

Allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol blynyddol gros (mae pob gwerth mewn Kilodunelli o allyriadau sy'n cyfateb i CO ₂)	BA 24	Y FA 23
Cwmpas 1	62.1	62.5
Cwmpas 2 (yn seiliedig ar leoliad)	91.6	90.7
Cwmpas 3 (yn seiliedig ar leoliad)	66.2	15.8
Cymhareb effeithlonrwydd nwyon tŷ gwydr (kgCO₂ e /MI)		
Allyriadau fesul MI o ddŵr yfed	38	4
Allyriadau fesul MI o ddŵr gwastraff	79	102

	Targed Tymor Agos/Interim	Targed Hirdymor
Cwmpas 1	Lleihad o 50% erbyn 2030	Sero Net erbyn 2040
Cwmpas 2	0 erbyn 2035	0 erbyn 2040
Cwmpas 3	Lleihad o 7% mewn dwysedd bob blwyddyn o dan addewid Ras i Sero Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd	Sero Net erbyn 2040
Hunangynhaliath ynni (%)	2025: 35%	2050: 50%
% y lleihad mewn CO₂ o gymharu â llinell sylfaen 2010-2011	2025: 66%	2050: 100%

4.4. Methodoleg Mesurau

Mae'r atodiad ar ymrwymadau perfformiad gweithredol yn nodi gwybodaeth fanwl am y mesurau a ddefnyddir i asesu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar dudalen 46.

¹ OAtodiad ar ymrwymadau perfformiad gweithredol | <https://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2019/07/PR19-draft-determinations-D%C5%B5r-Cymru-Outcomes-performance-commitment-appendix.pdf>

* Yng Nghwmpas 1 a Chwmpas 2 gan fod y rhain yn ymwneud â'n gweithgareddau cyflenwi dŵr

** Yng Nghwmpas 1 a Chwmpas 2 gan fod y rhain yn ymwneud â'n gweithgareddau trin dŵr gwastraff

Sut Rydym yn Cynllunio

Hirdymor

Mae gan Dŵr Cymru strategaeth hirdymor – Dŵr Cymru 2050, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2018. Mae'n amlinellu heriau a chyfleoedd allweddol y busnes dros yr hirdymor, a sut rydym yn bwriadu ymateb iddynt er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth cydnerth a chynaliadwy. Caiff y strategaeth ei hadolygu'n llawn a'i diweddarau bob pum mlynedd, a chynhaliwyd yr adolygiad cyntaf yn 2022.

Ochr yn ochr â Dŵr Cymru 2050, gwnaethom lansio ein Hymrwymiadau Llesiant yn 2020. (Dyma'r ymrwymiadau i Gymru sy'n cyfateb i'r Ymrwymiadau Er Budd y Cyhoedd a gyhoeddwyd gan gwmnïau dŵr yn Lloegr yn 2019.) Maent yn gyson â'r saith Nod Llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cafodd ein Strategaeth Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI) ei hadolygu a'i chymeradwyo gan Bwyllgor ACLI y Bwrdd ym mis Chwefror 2022 (ac mae bellach ar gael yn dwr.cymru.com/esg). Mae'n cynnwys 10 amcan allweddol i gefnogi'r ffocws ar faterion ACLI yng nghyd-destun Dŵr Cymru 2050.

Datblygwyd y Strategaeth Gyflawni Hirdymor ochr yn ochr â Chynllun Busnes PR24, gan fodloni un o ofynion methodoleg PR24 Ofwat. Canolbwyntiodd ar y buddsoddiad mewn gwelliannau sydd ei ongen er mwyn cyflawni canlyniadau hirdymor y cytunwyd arnynt hyd at 2050 o dan amrywiaeth o senarios.

Ar gyfer ymateb strategol Dŵr Cymru 2050, gweler Atodiad D ar dudalen 219. Ar gyfer ein hamcanion ACLI, gweler Atodiad E ar dudalen 221.

Tymor Canolig

Cynllun Busnes AMP7 (2020-2025): Ar ôl ymgynghori â'n cwsmeriaid, gwnaethom gytuno ag Ofwat (o dan broses PR14) ar raglen pum mlynedd ar gyfer 2020-25 a oedd yn cynnwys mwy na £2.0 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf. Mae'n cynnwys gostyngiadau ar filiau mewn termau real, gwelliannau o ran effeithlonrwydd, a chyfanswm o 56 o dargedau yn ymwneud â pherfformiad a buddsoddi ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod.

Cyflwynwyd Cynllun Busnes PR24 ar gyfer y cyfnod nesaf o bum mlynedd rhwng 2025 a 2030 (AMP8) ym mis Hydref 2023 er mwyn i Ofwat graffu arno a'i herio. Mae'n cyd-fynd â'n nodau hirdymor o dan Dŵr Cymru 2050.

Byrdymor

Mae ein cynllun busnes mewnol blynyddol yn gosod targedau sy'n heriol ond y gellir eu cyflawni, gan ystyried targedau perfformiad ac ymrwymiadau perfformiad y flwyddyn flaenorol a osodwyd yn yr adolygiad mwyaf diweddar o brisiau.



CYNLLUNIAU HIRDYMOR: DŴR CYMRU 2050

Mae Dŵr Cymru 2050 yn nodi'r tueddiadau, yr heriau a'r cyfleoedd y disgwyliwn iddynt fod yn flaenllaw yn y blynyddoedd hyd at 2050, a 18 o ymatebion strategol rydym yn eu cyflwyno dros y cyfnod hwnnw er mwyn dod yn "wasanaeth dŵr gwirioneddol gadarn, cynaliadwy ac o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol".

Er cyfleustra, nodir yr ymatebion strategol yn Atodiad D i'r adroddiad hwn – gweler tudalen 214.

Yn anochel, bydd cryn ansicrwydd ynglŷn ag unrhyw waith cynllunio dros gyfnod mor hir. Er ein bod yn disgwyl i'r themâu craidd a'r tueddiadau barhau, rydym hefyd yn eu monitro ac yn eu diweddaru drwy adolygiadau bob 5 mlynedd sy'n cyd-fynd yn fras â chylch yr Adolygiad Prisïau rheoleiddiol. Mae'r diweddariad diwethaf a gyhoeddwyd ar gael yn [corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/our-plans](https://dwrcymru.com/cy-gb/about-us/our-plans)

Mae ein cynllun busnes a gyflwynwyd o dan PR24 yn seiliedig ar Dŵr Cymru 2050 ac yn gyson â'n Strategaeth Gyflawni Hirdymor – sef fframwaith cynllunio newydd sy'n ofynnol gan Ofwat fel rhan o'r wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer yr Adolygiad Prisïau.



DATGANIAD A172

Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr weithredu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'u dyletswyddau fel y'u nodwyd yn Neddf Cwmnïau 2006.

Mae darpariaethau perthnasol Adran 172 o'r Ddeddf Cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwyr Cwmni weithredu mewn ffordd y mae'n ystyried, yn ddidwyl, fyddai fwyaf tebygol o hyrwyddo llwyddiant y cwmni. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr roi sylw i'r canlynol, ymhlith materion eraill:

- canlyniadau tebygol unrhyw benderfyniad yn yr hirdymor;
- buddiannau cyflogaion y cwmni;
- yr angen i feithrin cydberthnasau busnes y cwmni â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill;
- effaith gweithrediadau'r cwmni ar y gymuned a'r amgylchedd;
- dymunoldeb sicrhau bod y cwmni yn cynnal ei enw da am safonau busnes uchel.

Nodir isod drosolwg o'r ffordd y mae'r Bwrdd wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn hyn o beth yn ystod y flwyddyn. Am ragor o wybodaeth, gweler yr Adroddiad Llywodraethu ar dudalennau 92 i 156.

Mae ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn chwarae rhan hollbwysig yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, ac mae'r holl eitemau ar agenda'r Bwrdd yn ystyried buddiannau rhanddeiliaid ac effaith ein penderfyniadau arnynt. Er ein bod yn anelu at sicrhau bod amrywiaeth eang o sgiliau, cefndiroedd, a phrofiadau ar y Bwrdd drwy'r amser, rydym hefyd yn gwerthfawrogi clywed gan ein rhanddeiliaid yn uniongyrchol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o ymgysylltu â safbwyntiau amrywiol ein grwpiau rhanddeiliaid i Gwsmeriaid a Chymunedau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'n Gwasanaethau i Ddatblygwyr, a Chyflenwyr.

Rhwymedigaeth y Bwrdd i Hyrwyddo Llwyddiant Hirdymor y Cwmni

Fel busnes sy'n cael ei arwain gan gwsmeriaid, mae mynd i'r afael ag effeithiau hirdymor ein gweithrediadau ar ein cymunedau a'r amgylchedd yn ganolog i'n strategaeth. Er mwyn cyflawni'r strategaeth honno bydd angen meithrin cydberthnasau â

llywodraethau, rheoleiddwyr, cyflenwyr a cwsmeriaid, ond mae hefyd yn dibynnu, yn hollbwysig, ar gydweithwyr ym mhob rhan o'r busnes ac ar ein cadwyn gyflenwi.

Ymgysylltu â Chwsmeriaid

Cynrychiolir llais y cwsmer drwy'r Grŵp Her Annibynnol.

Bu Aelodau'r Bwrdd yn bresennol mewn digwyddiadau "Eich Dŵr, Eich Llais" ym mis Ebrill a mis Tachwedd 2023 er mwyn rhoi cyfle i gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill godi cwestiynau ynglŷn â materion sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau busnes ar gyfer 2025-30.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae'r Bwrdd yn clywed yn uniongyrchol gan ein prif rhanddeiliaid yn rheolaidd, gan gynnwys ein rheoleiddwyr, drwy eu presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Caiff safbwyntiau rheoleiddwyr eu casglu'n uniongyrchol drwy wahoddiadau i ddod i gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ac yn anuniongyrchol ar ffurf gohebiaeth reoleiddiol a chaiff manylion cyfarfodydd eu cyfleu gan aelodau Tim Gweithredol Dŵr Cymru drwy adroddiadau rheoli misol i'r Bwrdd.

Yn ystod BA 24, clywodd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn uniongyrchol gan Gyfarwyddwyr Cyfoeth Naturiol Cymru (mis Mehefin 2023) a Phrif Arolygydd yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (mis Mawrth 2024). Mae'r Cadeirydd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd a gadeirir gan Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru ochr yn ochr â Chadeirydd Ofwat a Chadeirydd Hafren Dyfrdwy er mwyn adolygu cynnydd o ran gwella ansawdd dŵr afonydd yng Nghymru. Mae'r Cadeirydd hefyd yn mynd i gyfarfodydd cadeiryddion cwmnïau dŵr ledled Cymru a Lloegr â Chadeirydd Ofwat a Chadeirydd Asiantaeth yr Amgylchedd o bryd i'w gilydd er mwyn trafod materion sy'n effeithio ar y sector dŵr, ac mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn mynd i gyfarfodydd tebyg gan Fwrdd Water UK ochr yn ochr â Phrif Swyddogion Gweithredol cwmnïau dŵr eraill. Bu'r Prif Swyddog Gweithredol yn bresennol yng nghyfarfodydd yr Uwchgynhadledd Ffosffadau a gynhaliwyd gan Brif Weinidog Cymru er mwyn gwella ansawdd dŵr afonydd a rhoddodd gyflwyniad ar gyfraniad y cwmni tuag at gyflawni hynny.

Mae'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Ariannol wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd er mwyn adolygu cynnydd y cwmni yn erbyn ei amcanion yng nghyd-destun polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â dŵr.

Drwy gydol BA 24, mae'r Grŵp, a'r diwydiant dŵr yn gyffredinol, wedi bod yn destun cryn sylw yn y cyfryngau ac ymhlith y cyhoedd. Yn wyneb yr her hon, mae ein cydweithwyr gweithredol, yn enwedig y Prif Swyddog Gweithredol a'n Rheolwyr-Gyfarwyddwyr dros Ddŵr a Gwasttraff Dŵr wedi gwneud ymdrech ar y cyd i neilltuo amser i gyfarfod â grwpiau rhanddeiliaid â diddordeb ledled Cymru er mwyn deall eu safbwyntiau, eu pryderon a'u hanghenion yn well. Ymhlith grwpiau eraill, mae cryn dipyn o amser wedi cael ei dreulio gyda grwpiau ac unigolion sydd â phryderon ynglŷn â llygredd ac ansawdd afonydd, gan gynnwys ymgysylltu manwl er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwefan Monitro Parhad Digwyddiadau fyw'r Grŵp sy'n darparu data byw ar amllder a pharhad rhyddhau dŵr o systemau gorlif storm.

Bu Aelodau'r Bwrdd yn bresennol yng nghyflwyniad Dŵr Yfed 2022 (Cymru) Prif Arolygydd Dŵr Yfed ym mis Gorffennaf 2023 a roddodd drosolwg o ansawdd cyflenwadau dŵr cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.

Ymgysylltu â Chyflenwyr

Nodir y risg i'r gadwyn gyflenwi fel un o'r prif risgiau strategol a adolygir gan y Bwrdd, ac mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau misol drwy'r Adroddiad Rheoli Misol gan y Cyfarwyddwr Masnachol, gan gynnwys diweddariad ar unrhyw broblemau o ran caffael neu gyflenwyr allweddol. Mae'r Bwrdd wedi rhoi sylw penodol i'r mater hwn dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau bod cyflenwyr cystadleuol â sgiliau priodol ar gael i sicrhau'r cynnydd sylweddol arfaethedig yn y rhaglen buddsoddi cyfalaf yn ystod AMP8. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid, a'r ffordd y cyflawnir ein cynlluniau buddsoddi ac y darperir nwyddau a gwasanaethau eraill, yn unol â'n disgwyliadau a gwerthoedd y Cwmni. Mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr contractwyr sy'n gweithio ar ein rhaglen o brosiectau cyfalaf pan fyddant yn ymweld â safleoedd. Mae gennym Bolisi Talu Cyflenwyr ac rydym wedi llofnodi Cod Taliadau Prydlon Llywodraeth y DU (gweler tudalen 75 am fanylion).

DATGANIAD A172 PARHAD

Ymgysylltu â Chyflogeion

Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo cynhwysiant ac yn cefnogi datblygu pawb i'w lawn botensial. Rhoddir diweddariadau rheolaidd ar iechyd a diogelwch, trosiant staff, lefelau absenoldeb a salwch, ac adolygir polisïau allweddol megis Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chyflogau, yng nghyfarfodydd y Bwrdd neu'r Pwyllgor perthnasol. Mae'r Tîm Gweithredol hefyd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar drafodaethau â'r undebau llafur cydnabyddedig, drwy'r uwch dîm negodi, ac mewn perthynas ag arolygon ymgysylltu â chyflogeion a'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno gan y Tîm Gweithredol mewn ymateb i adborth gan gydweithwyr yn yr arolwg.

Mae Cadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd â grwpiau o gydweithwyr o bob maes busnes. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi anffurfiol heb agenda benodol ac maent yn rhoi cyfle i gydweithwyr godi materion gyda'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ac i'r Bwrdd ddeall yn uniongyrchol y materion sy'n bwysig i gydweithwyr. Caiff nodiadau ar y pynciau a drafodir yn y cyfarfodydd hyn eu paratoi a'u rhannu ag aelodau eraill o'r Bwrdd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Caiff y cyfarfodydd hyn â chydweithwyr eu cynnal o bell fel arfer, nid wyneb yn wyneb, sy'n golygu bod dosbarthiad daearyddol eang o gydweithwyr yn gallu cymryd rhan. Hefyd, caiff cyfarfodydd ar wahân eu trefnu â rheolwyr o bob rhan o'r busnes, a hynny ar ffurf cinio anffurfiol rhwng y rheolwyr a'r Bwrdd, sy'n rhoi cyfle i gydweithwyr drafod unrhyw faterion sy'n bodoli eisoes neu faterion newydd ag aelodau'r Bwrdd, ac i aelodau'r Bwrdd gael adborth a gwybodaeth uniongyrchol.

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol, y Prif Swyddog Ariannol ac aelodau'r Tîm Gweithredol hefyd yn cymryd rhan yn y Sioeau Teithiol blyneddol i Gyflogeion ym mhob rhan o'i ardal weithredu. Yn ystod BA 24, daeth tua 2,000 o gydweithwyr i'r Sioeau Teithiol i Gyflogeion lle y rhoddwyd diweddariadau allweddol ar gynlluniau strategol a gweithredol a chyfle i godi cwestiynau a rhoi adborth gwerthfawr.

Ymgysylltu ag Aelodau Glas

Nodir rôl Aelodau Glas ar dudalennau 97 a 110 o'n Hadroddiad Llywodraethu. Daw ein Haelodau o bob rhan o'n hardal gyflenwi a nod y Panel Dethol Aelodau Annibynnol, a gadeirir gan Syr Paul Silk, yw sicrhau dosbarthiad eang o gefndiroedd, sgiliau a phrofiad ymhlith yr Aelodau.

Mae Debra Bowen Rees, un o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol, yn aelod o'r Panel ac, felly, mae ganddi gysylltiad penodol ag Aelodau Glas.

Mae'r Panel yn ymgymryd â phroses recriwtio flynyddol i adnewyddu'r Aelodaeth wrth i Aelodau ymddeol (ar ôl gwasanaethu am y tymor mwyaf a ganiateir, sef 9 mlynedd). Mae'r Bwrdd yn cyfarfod â'n Haelodau ym mis Gorffennaf a mis Rhagfyr bob blwyddyn ac yn croesawu mewnbyn a her adeiladol yr Aelodau ar faterion strategol allweddol yn y cyfarfodydd hyn, lle mae cyfle bob amser i gael adborth yr Aelodau a thrafodaethau. Hefyd, mae Cyfarfodydd yr Aelodau Rhanbarthol yn cael eu trefnu mewn tri lleoliad gwahanol yn ein hardal weithredu ddwywaith y flwyddyn er mwyn rhoi diweddariadau gweithredol a strategol allweddol i'r Aelodau a bod yn fforwm ar gyfer ymgysylltu pellach a her rhwng yr Aelodau a'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

Mae tîm Ysgrifenyddiaeth y Cwmni yn sicrhau bod yr Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y materion cyfredol sy'n effeithio ar y busnes yn rheolaidd ac mae'n bwydo safbwyntiau'r Aelodau ac ymgysylltu â nhw i mewn i adroddiad Ysgrifennydd y Cwmni i'r Bwrdd ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd.

Ymgysylltu â'r Grŵp Her Annibynnol

Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys eiriolwyr dros gwsmeriaid a'r amgylchedd o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn adolygu ymchwil, strategaeth, polisïau, a mentrau i gwsmeriaid a gwneud sylwadau arnynt. Bu Cadeirydd y Grŵp Her Annibynnol yn bresennol ar gyfer yr eitem PR24 ynglŷn â Deall Cwsmeriaid ar agenda cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin 2023 er mwyn rhoi trosolwg annibynnol ar ymgysylltu â chwsmeriaid ac ymchwil a oedd wedi cyfrannu at broses cynllunio busnes PR24 y Grŵp, gan nodi'r blaenoriaethau allweddol i gwsmeriaid yr oedd angen iddynt gael eu hadlewyrchu yng nghynllun busnes y Grŵp.

Ymgysylltu â'r Panel Cynghori Annibynnol ar yr Amgylchedd

Mae'r Panel yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau anllwydoraethol amgylcheddol, academyddion a sefydliadau yn y trydydd sector. Mae Cynghorwyr annibynnol ar yr Amgylchedd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd y Panel hwn ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar faterion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.

Ymgysylltu â buddsoddwyr Glas Cymru

Yn ystod BA 23, aeth aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol i Gyfarfod Buddsoddwyr Blyneddol y Grŵp yn Llundain. Mae tîm Trysorlys y Grŵp hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â buddsoddwyr a'r asiantaethau statws credyd drwy gydol y flwyddyn. Caiff pob cyfathrebiad ffurfiol â buddsoddwyr ei gymeradwyo gan y Bwrdd, ac mae buddsoddwyr yn cael Adroddiad i Fuddsoddwyr bob chwe mis ac mae croeso iddynt godi unrhyw ymholiadau yn ei gylch gyda'r tîm Trysorlys.

Rôl Tîm Gweithredol Dŵr Cymru

Mae Tîm Gweithredol Dŵr Cymru (y Tîm Gweithredol), a arweinir gan y Prif Swyddog Gweithredol ac sy'n cynnwys y Prif Swyddog Ariannol, yn gyfrifol am reoli gweithredol y Grŵp. Mae'r Tîm Gweithredol wedi'i ddynodi'n uwch-reolwyr at ddiben Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ond nid at ddibenion adran 414C(8) o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'n cynnwys rolau uwch-reolwyr swyddogaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am ryngweithio â phrif randdeiliaid y Cwmni.

Mae ein Rheolwyr-Gyfarwyddwyr dros Ddŵr a Gwastraff Dŵr a Manwerthu (Cwsmeriaid Preswyl) yn mynychu pob un o gyfarfodydd y Bwrdd.

Rôl y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo mesurau i sicrhau bod buddiannau rhanddeiliaid bob amser yn cael eu hystyried. Mae'r papurau a baratwir gan reolwyr i'r Bwrdd eu cymeradwyo yn cynnwys gwybodaeth am ystyriaethau perthnasol rhanddeiliaid sydd i'w trafod wrth wneud penderfyniadau, a hynny er mwyn sicrhau bod digon o sylw yn cael ei roi i bryderon rhanddeiliaid, a bod buddiannau'r holl randdeiliaid yn cael eu hystyried ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Bwrdd.

Mae hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau yn yr hirdymor. Yn unol iawn â'n Diben, bydd i'r penderfyniadau y mae'r Bwrdd yn eu gwneud yn awr oblygiadau i'n cwsmeriaid a'n cymunedau yn awr ac am genedlaethau i ddod. Mae hyn yn arbennig o wir am argaeledd dŵr yn yr hirdymor yr effeithir arno gan yr amgylchedd, newid yn yr hinsawdd a demograffeg ac arferion defnydd y cymunedau a wasanaethwn. Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar dueddiadau hirdymor ac mae'n ystyried strategaethau hirdymor ar gyfer carbon ac ynni, dŵr, a chynllunio adnoddau rheoli dŵr gwastraff.

Drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogaion drwy sesiynau ymgysylltu â chyflogaion, cyfarfodydd anffurfiol â rheolwyr, a thrwy gynnal ymweliadau â safleoedd gweithredol (gweler tudalen 110 am ragor o fanylion), mae'r Bwrdd yn gallu gweld a phrofi'n uniongyrchol sut y caiff ein diwylliant a'n gwerthoedd u cymhwyso ym mhob rhan o'r busnes. Mae cynnal diwylliant effeithiol ac unigryw yn Dŵr Cymru, o dan ein cyfansoddiad nid er cyfranddalwyr yn rhan allweddol o'r gwaith o gyflawni ein strategaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd i hyrwyddo llwyddiant hirdymor y Cwmni. Darllenwch fwy am ein diwylliant a'n gwerthoedd ar dudalennau 05 i 12 o'r adroddiad hwn.

Prosesau gwneud penderfyniadau'r Bwrdd mewn perthynas â'n rhanddeiliaid yn ystod BA 24

Penderfyniad	Pynciau trafod	Cam gweithredu a gymerwyd ar ôl penderfyniad gan y Bwrdd o ganlyniad i adborth rhanddeiliaid
Ansawdd Dŵr Afonydd	Ymateb i bryder ymhlith y cyhoedd a'r rheoleiddwyr ynglŷn â llygredd carthion: Cyhoeddi data Gorlif Storm bron yn amser real.	Ar ôl ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid a chwsmeriaid, cymeradwyodd y Bwrdd lansiad Map Gorlif Storm bron yn amser real y Grŵp ym mis Chwefror 2024. Roedd y lansiad hwn yn arwydd pellach o ymrwymiad y Grŵp i fod yn agored ac yn dryloyw yn unol â disgwyliadau cwsmeriaid a rhanddeiliaid.
	Uwchgynhadledd Ffosffadau'r Prif Weinidog (Mawrth a Rhagfyr 2023).	Bu aelodau'r Bwrdd yn bresennol ym mhob Uwchgynhadledd, gan gyfrannu at y Cynlluniau Gweithredu y cytunwyd arnynt yn yr Uwchgynhadledd. Mae'r Grŵp yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol i Brosiect 'Dalgylch Arddangos Teifi', sy'n ceisio datblygu a chyflwyno atebion arloesol i wella ansawdd afon yn Afon Teifi ac sy'n gynllun peilot ar gyfer prosiectau cydweithredol tebyg ar afonydd eraill.
Cynnydd Costau Byw	Cefnogi ein cwsmeriaid drwy ein Strategaeth ar gyfer Cwsmeriaid mewn Sefyllfa Fregus	Mae'r Grŵp wedi cymeradwyo penderfyniad i barhau i fuddsoddi a darparu adnoddau ar gyfer ei fentrau tariff cymdeithasol, gan gynnwys cyflwyno cynllun Cymuned sy'n rhoi cymorth ariannol i aelwydydd cymwys mewn gwaith sy'n ei chael hi'n anodd fforddio cynnydd Costau Byw. Caiff adborth o geir drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid ei ymgorffori mewn Strategaeth wedi'i diweddaru ar gyfer Cwsmeriaid mewn Sefyllfa Fregus ar gyfer 2024 a fydd yn parhau i gefnogi cwsmeriaid yn AMP8.
Cynllunio ar gyfer PR24	Ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid	Mae dealltwriaeth y Bwrdd o flaenoriaethau cwsmeriaid a rhanddeiliaid, a gafwyd drwy ymgysylltu â chwsmeriaid ac ymchwil, a chymryd rhan yn Fforwm PR24 Cymru, wedi cael ei defnyddio fel rhan o'n gwaith cynllunio ar gyfer PR24.
Strategaeth Ystadau	Cysoni strategaethau ar gyfer rheoli tir, dalgylchoedd dŵr, bioamrywiaeth, a sero net.	Drwy ymgysylltu a chydweithio â pherchnogion tir, er mwyn cysoni gwaith rheoli tir â dalgylchoedd dŵr, a deialog ragweithiol â'r parciau cenedlaethol a'r rheoleiddwyr, cofodd Strategaeth Ystadau wedi'i diweddaru ei datblygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd. Ei nod yw cefnogi gweledigaeth 2050 y Grŵp drwy ddefnyddio daliadau tir i sicrhau'r llesiant mwyaf posibl i gwsmeriaid, hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, meithrin bioamrywiaeth, a chefnogi ecosystemau
Rhoi gwybod am ollyngiadau dŵr	Rhoi gwybodaeth anghywir am ollyngiadau dŵr a defnydd y pen yn ystod BA 21 a BA 22 a nodwyd ym mis Mai 2022	Yn sgil canlyniad ymchwiliad Ofwat, dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol wrth ei holl randdeiliaid ei bod yn edifar ganddo am yr hyn a oedd wedi digwydd. Mae'r Grŵp wedi gwneud iawn i'w holl gwsmeriaid mewn ffordd briodol, wedi ymrwymo i gynnydd sylweddol mewn buddsoddiadau yn y maes hwn, ac wedi cryfhau timau gweithredol perthnasol i sicrhau'r gostyngiadau arfaethedig mewn gollyngiadau dŵr a'r defnydd y pen.
Buddiannau Staff	Darparu Gofal Iechyd Preifat i Bob Aelod o'r Staff	Ar ôl adborth gan Aelodau Glas, cymeradwyodd y Grŵp benderfyniad i ddarparu gofal iechyd preifat am ddim i bob aelod o staff y Grŵp.

GWERTH YMGYSYLLTU DA Â RHANDDEILIAID

Ein nod yw datblygu a chynnal cydberthnasau cydfuddiannol â phob grŵp rhanddeiliaid yn seiliedig ar ein gwerthoedd o fod yn agored, gonestrwydd ac ymddiriedaeth.

Cyflawnir hyn drwy strategaeth ymgysylltu barhaus a oruchwylir gan ein Pwyllgor ACLI, sy'n adolygu ac yn monitro cynnydd yn erbyn ein cynlluniau ymgysylltu. Cyflwynir hyn ar ffurf matrices rhanddeiliaid a drefnir gan ein tîm cyfathrebu sydd, ochr yn ochr ag aelodau'r Tîm Gweithredol, yn gyfrifol am ymdrin â chydberthnasau â'n rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'n rheoleiddwyr, er mwyn cynnal deialog ddwyffordd gadarnhaol er mwyn helpu i roi ein cynlluniau busnes ar waith a chefnogi polisiau ehangach 'Tîm Cymru' lle y bo'n briodol.

Ceir barn lefel uchel am y gwerth a grëwn i'n grwpiau rhanddeiliaid yn ein model busnes ar dudalen 10. Mae'r tabl gyferbyn ar dudalen 55 yn seiliedig ar y matrices rhanddeiliaid a ddorperir yn rheolaidd i'r Pwyllgor ACLI ac mae'n nodi ein gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn BA 24, ochr yn ochr â diddordeb ein grwpiau rhanddeiliaid a'n hamcanion ymgysylltu.



YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID YN YSTOD Y FLWYDDYN

Grŵp rhanddeiliaid	Eu diddordeb	Ein hamcan	Sut yr ymgysylltwyd
 Ariannol a Buddsoddwyr	Buddsoddiad sicr a dibynadwy ynghyd a dealltwriaeth gadarn o'n Strategaeth, ein perfformiad, ein huchelgois a'n diwylliant, a adlewyrchir mewn agenda ACLI gadarnhaol	Sicrhau bod cyllid ar gael pan fo'i angen am gost briodol ac yn unol â'n Polisi Buddsoddi ACLI	Mae gennym raglen gynhwysfawr o ymgysylltu â buddsoddwyr, gan gynnwys ymweliadau safle a deialog reolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am berfformiad ariannol a gweithredol, risgiau a chamau lliniaru posibl.
 Ein Pobl	Cyflogaeth â chyflogwr ac enw da y gellir ymddiried ynddo sy'n gwneud y 'peth cywir' dros gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd.	Cymell, cefnogi a grymuso gweithlu agored a diogel sy'n gweithio er budd cwsmeriaid heddiw ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu i wella ein gwasanaeth cwsmeriaid yn barhaus yn ogystal â'n perfformiad gweithredol ac amgylcheddol	Gwahoddir pob cydweithiwr i alwad Teams misol â'r Prif Swyddog Gweithredol a rhoddir cyfle i ofyn cwestiynau i'r Tim Gweithredol; ategir hyn drwy gyfathrebu'n barhaus er mwyn cefnogi iechyd, diogelwch a llesiant cydweithwyr yn ogystal â chyfres o Sioeau Teithiol blynyddol i Gydweithwyr lle mae'r Tim Gweithredol yn cynnal dro 20 o 'ddigwyddiadau neuadd y dref' yn ein hardal weithredu.
 Cwsmeriaid, Cymunedau a Chymdeithas	Cwmni dibynadwy y gellir ymddiried ynddo sy'n gweithio er budd ei gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd	Ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Dylanwadu ar ymddygiad e.e. i leihau defnydd, peidio ag ychwanegu eitemau amhriodol i ddŵr gwastraff a charthffosydd. Esbonio ein gweithgareddau gweithredol a'n cynlluniau i gyflawni yn erbyn eu hamcanion nhw a'n hamcanion ni	Cynhaliwyd dau gyfarfod agored 'Eich Dŵr, Eich Llais' gennym er mwyn helpu i lywio'r broses o ddatblygu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-30. Rydym yn cyfarfod bob chwarter â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr a'n Grŵp Her Cwsmeriaid Annibynnol, sy'n chwarae rôl allweddol i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid. Rydym yn olrhain canfyddiadau cwsmeriaid, gan gynnwys ymddiriedaeth a boddhad, yn erbyn dangosyddion allweddol. Rydym yn cynnig opsiynau hunanwasanaeth ar-lein i gwsmeriaid roi gwybod am broblemau a gallant hefyd gysylltu â ni 24/7 drwy nifer o sianeli gwahanol.
 Rheoleiddwyr a Llywodraethau	Cwmni effeithlon sy'n perfformio'n dda ac sy'n darparu gwasanaethau hanfodol mewn ffordd effeithlon a dibynadwy, ac sy'n ychwanegu gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach	Cael eu mewnbwn a'u cytundeb ynglŷn â'n Cynlluniau Busnes a chefnogi ein polisïau 'Tim Cymru' ehangach lle y bo'n briodol. Deall a dylanwadu ar gyfeiriad polisi	Rydym yn cyfarfod â'n rheoleiddwyr yn rheolaidd ar lefel Cyfarwyddwyr a rheolwyr er mwyn trafod materion gweithredol a materion sy'n effeithio ar ein henw da, yn ogystal â gofynion deddfwriaethol a pherfformiad a materion cysylltiedig, cynlluniau'r dyfodol a phenderfyniadau/cynigion polisi. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru a swyddogion llywodraeth leol a chynrychiolwyr etholedig ynglŷn â materion sy'n ymwneud â dŵr a'r amgylchedd.
 Grwpiau Diwydiant a Busnes	Cydweithio ar nodau cyffredin sy'n cefnogi anghenion eu haelodau ac amcanion eu sefydliadau	Gweithio gyda'n gilydd i helpu'r Cwmni i gyflawni ei amcanion ac ychwanegu gwerth at y cymunedau lle rydym yn gweithredu	Rydym yn chwarae rôl allweddol fel 'cwmni angori' yng Nghymru ac fel aelod o gyrff cynghori megis Sefydliad y Cyfarwyddwyr a Busnes yn y Gymuned, er mwyn sicrhau ein bod yn dylanwadu ar omrywiol agendâu polisi a rhoi mewnbwn strategol yn eu cylch.
 Cyflenwyr a Chontractwyr	Diwallu anghenion eu cleientiaid: gwella eu henw da eu hunain a chefnogi eu nodau corfforaethol eu hunain	Ymgysylltu a chydweithio â chyflenwyr sy'n cefnogi ein hethos ac yn rhannu nodau ACLI cyffredin, a thrwy hynny sicrhau bod modd cyflawni ein cynlluniau.	Ar ôl cytuno ar fesurau perfformiad ar ddechrau ein cydberthynas â chyflenwyr, rydym yn aml yn cyfarfod â nhw er mwyn monitro ac adolygu eu perfformiad, gan gynnwys eu hiechyd, eu diogelwch a'u llesiant. Rydym yn cynnal archwiliadau ac arolygiadau o gyflenwyr, gan sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaethau cyson a di-dor i gwsmeriaid.
 Grwpiau amgylcheddol	Diogelu a gwella'r amgylchedd ac ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd	Dod i ddeall yr agenda amgylcheddol ehangach; ennyn cefnogaeth ac ysgogi her adeiladol ynglŷn â'n cynlluniau; datblygu dulliau gweithredu/prosiectau cydweithredol ac arloesol; gwella ac amddiffyn enw da'r Cwmni o ran ei ymrwymiad i'r amgylchedd	Gan fod ein perfformiad o ran yr amgylchedd yn destun craffu, rydym yn aml yn cyfarfod â grwpiau amgylcheddol – yn breifat ac fel rhan o gyfarfodydd cyhoeddus – i drafod cynlluniau buddsoddi er mwyn helpu i ymdrin â materion a phryderon. Ategir hyn gan ein Panel Cynghori Annibynnol ar yr Amgylchedd (sy'n cynrychioli sefydliadau rheng flaen yng Nghymru) sy'n cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf posibl o'n rhaglen fuddsoddi i gwsmeriaid a'r amgylchedd, a sicrhau dyfodol diogel a chynaliadwy i'r amgylchedd.

EIN DULL O REOLI RISG

Proses Rheoli Risgiau Busnes:



Mae ein Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes yn rhoi'r strwythur i'r busnes ragweld a rhoi gwybod am fygythiadau i gyflawni'r ymrwymïadau hyn i gwsmerïaid ac ymateb yn effeithiol pan fydd risgiau'n codi. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys:

- Proses rheoli risg i'r Grŵp cyfan.
- Strwythur llywodraethu sefydledig sy'n fodd i'r Bwrdd oruchwylio risgiau, ynghyd â goruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio o'r broses rheoli risg a model 'Tair Llinell Amddiffyn' sy'n pennu perchenogaeth o brosesau rheoli risg.
- Dull gweithredu o ymdrin â pharodrwydd i dderbyn risg a arweinir gan y Bwrdd, yn seiliedig ar ein hymrwymïadau i gwsmerïaid a'n strategaeth.

Ein Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes

Mae'r Fframwaith hwn yn sefydlu proses rheoli risgiau busnes sy'n diffinio sut y caiff risgiau eu rheoli a'u cofnodi ym mhob rhan o Dŵr Cymru, a ddangosir isod.

Mae'r Grŵp yn gweithredu'r Fframwaith drwy ddefnyddio model y 'Tair Llinell Amddiffyn' sy'n sicrhau atebolrwydd a pherchenogaeth o ran nodi, asesu, lliniaru a monitro risgiau ar lefel asedau, prosiectau, swyddogaethau ac yn strategol. Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo'r system, gan sicrhau ei bod yn gyson â'n parodrwydd i dderbyn risg a'n hamcanion risg strategol. Mae'r Bwrdd hefyd yn goruchwyllo polisiau, sy'n diffinio risg, ymddygiad a gofynion rheolaeth ar gyfer y Grŵp.

Rheoli Risg i gyflawni ein Hymrwymïadau i Gwsmerïaid

Rydym yn rheoli risgiau'n ofalus yn unol â'n strategaeth a'n prif ddiben, sef darparu gwasanaethau hanfodol i 3.1 miliwn o bobl.



Tair Llinell Amddiffyn

Mae Dŵr Cymru yn gweithredu model y Tair Llinell Amddiffyn. O dan y model hwn:

Llinell Gyntaf

Rheolwyr gweithredol sydd â pherchenogaeth, cyfrifoldeb ac atebolrwydd am asesu, rheoli a lliniaru risgiau'n uniongyrchol.

Ail Linell

Mae swyddogaethau rheoli arbenigol a chyrrff llywodraethu mewnol yn monitro ac yn cefnogi gwaith rheoli risg yn effeithiol gan y llinell gyntaf. Maent hefyd yn sicrhau llif gwybodaeth am risgiau i fyny ac i lawr y sefydliad, gan gynnwys protocolau uwchgysirio risg.

Trydedd Linell

Sicrwydd annibynnol ynghylch a yw cynllun, effeithiolrwydd gweithredol a chynaliadwydd systemau rheolaeth fewnol yn ddigonol.

Llinell Gyntaf	Ail Linell	Trydedd Linell
Pob cyflogai	Tîm Risg	Archwilio Mewnol
Rheolwyr meysydd busnes ac asedau	Tîm Gweithredol Dŵr Cymru	
Rheolwyr prosiect	Grwpiau a Phwyllgorau Llywodraethu	

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio y tu allan i'r Fframwaith, ac maent yn cael adroddiadau a sicrwydd gan y tair llinell amddiffyn yn rheolaidd.



Parodrwydd i Dderbyn Risg

Diffinnir ein parodrwydd i dderbyn risg yn amcanion risg strategol y Grŵp sy'n cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Maent yn cyd-fynd â'n themâu strategol (Cyflawni dros Gwsmeriaid a Chymunedau a Diogelu'r Amgylchedd (gweler tudalen 09) a chânt eu defnyddio i gefnogi penderfyniadau sy'n ymwbyddol o risg.

1.1 Amcan Risg Cyffredinol

Mae'r Grŵp yn cydnabod bod yr ymrwymiad i barhau i gyflawni prif ddiben y Cwmni, sef darparu gwasanaethau hanfodol i 3.1 miliwn o bobl yn ei ardal gyflenwi a lleihau ei effaith ar yr amgylchedd i'r eithaf, yn dibynnu ar goel digono gyllid i'w fuddsoddi yn yr hirdymor. Er mwyn sicrhau cyllid cost is mae angen i'r Grŵp ddiogelu ei enw da ei hun ac uniondeb ei gydberthynas â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill. Fel rhan o hyn, mae ei barodrwydd i dderbyn risg ar lefel isel ar y cyfan mewn perthynas â pherfformiad a gwasanaeth cwsmeriaid, sy'n rhoi cyfle i gyflwyno rhai atebion arloesol i sicrhau'r gwerth gorau yn y tymor hwy i gwsmeriaid a'r gymuned ehangach.

1.2 Amcanion Risg Strategol

- i. Darparu dŵr yfed a gwasanaethau amgylcheddol o ansawdd uchel, sy'n rhoi gwell gwerth am arian, er mwyn gwella llesiant ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- ii. Buddsoddi yn ein hasedau a'n pobl er budd pennaf ein cwsmeriaid. Bydd y Grŵp yn buddsoddi cyllid yn effeithlon ac yn effeithiol yn y seilwaith asedau er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i gwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol. Bydd hefyd yn gweithio i ddenu a chadw sgiliau ac adnoddau priodol er mwyn sicrhau lefelau uchel o wasanaeth cwsmeriaid.
- iii. Mynediad sefydlog/effeithlon at gyllid a hylifedd. Mae'r Grŵp yn cynllunio ar gyfer bodloni gofynion all-lif arian parod arfaethedig ac annisgwyl sy'n codi. Bydd profion straen ar gyfer digwyddiadau annisgwyl yn digwydd cyn i'r cynllun gael ei gymeradwyo.
- iv. Cynnal hyder rhanddeiliaid. Nid yw'r Grŵp yn barod i dderbyn unrhyw risgiau sylweddol a fyddai'n arwain at niweidio ei enw da neu at amodau iechyd a diogelwch andwyol i unrhyw rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Datblygiadau yn ystod y Flwyddyn – Risgiau sy'n gysylltiedig â Newid yn yr Hinsawdd

Rydym yn parhau i integreiddio dealltwrioeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd â'n prosesau Rheoli Risgiau Busnes, ochr yn ochr â chynnwys senarios hinsawdd mewn gwaith cynllunio strategol. Caiff risgiau o fethu ag ymaddasu i newid yn yr hinsawdd neu gyflawni targedau carbon eu hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd. Mae cyfres fanylach o risgiau ACLI a risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cael rhagor o sylw gan Bwyllgor ACLI y Bwrdd (gweler tudalen 129).

EIN DULL O REOLI RISG PARHAD

Rolau mewn perthynas â'r Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes

Y Bwrdd

mae'n goruchwyllo trefniadau llywodraethu, gan gynnwys y Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes, yn cymeradwyo parodrwydd i dderbyn risgiau, ac yn adolygu risgiau strategol a newydd. Coiff ei gefnogi gan y Tîm Gweithredol sy'n rhoi diweddariadau a throsolwg o risgiau yn rheolaidd.

Y Pwyllgor Archwilio

mae'n goruchwyllo'r Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes a'r prosesau rheoli risg ar ran y Bwrdd, gan gynnwys cael sicrwydd gan reolwyr ynglŷn â phrosesau goruchwyllo risg a chael adroddiadau gan yr Archwilwyr Mewnol sy'n ymdrin ag effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg a systemau sy'n sail i reolaeth.

Y Tîm Gweithredol

mae'n goruchwyllo rheoli risgiau busnes, yn trafod risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r golwg, yn adolygu cofrestrî risg busnes, yn goruchwyllo'r Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes, ac yn argymhell parodrwydd i dderbyn risg i'r Bwrdd.

Y Prif Swyddog Gweithredol

O dan awdurdod a ddirprwyd gan y Bwrdd, mae'n cynnig asesiadau risg strategol, gan gynnwys parodrwydd i dderbyn risg, i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio er mwyn iddynt eu hystyried, eu haddasu, a'u cymeradwyo. Mae'n sicrhau bod system o reoli risg a llywodraethu risg yn gweithredu'n effeithiol ar lefel y rheolwyr, er mwyn llywio prosesau gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwaith cynllunio ariannol a gweithredol a chyflawni amcanion.

TY Prif Swyddog Risg

mae'n rheoli prosesau rheoli risg y Grŵp, gan gynnwys y Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes a llif gwybodaeth am risgiau. Mae'n paratoi adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd, gan dynnu sylw at newidiadau mewn risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r golwg, ac yn paratoi adroddiadau chwarterol ar gofrestrî risg corfforaethol i'w hadolygu gan y Tîm Gweithredol.

Archwilwyr Mewnol

mae'n rhaid iddynt fodloni eu hunain bod y system rheoli risg yn effeithiol a sicrhau bod camau lliniaru risg yn gallu lleihau risg fawr i'r lefel derbyn risg sydd ei hangen.

Timau Unigol

Maent yn rheoli risgiau yn eu meysydd, yn cofnodi risgiau'r Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes, yn diweddar'u'r Gofrestrî Risg, yn pennu pwy yw perchennog y risg, ac yn uwchgyfeirio risgiau drwy arweinydd y tîm.

Mae gan bob risg berchennog risg sy'n gyfrifol am asesu, rheoli, a chyflwyno adroddiadau. Ar gyfer risgiau'r Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes, Cyfarwyddwr neu bennaeth gwasanaeth yw perchennog y risg fel arfer. Ar gyfer Risgiau Prosiect, rheolwr y prosiect yw perchennog y risg fel arfer. Ar gyfer Risgiau Asedau, pennaeth gwasanaeth neu berchennog yr ased yw perchennog y risg fel arfer.

Mae'n rhaid i bob cydweithiwr nodi risgiau yn ei faes/maes gweithredu a chydymffurfio â rheolaethau i'w lliniaru. Dylai risgiau na ellir eu rheoli'n unigol gael eu huwchgyfeirio. Mae gan bob risg berchennog risg sy'n atebol amdani.



Mae'r Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes yn diffinio rolau rheoli risg, gan bennu pwy yw perchennog prosesau rheoli risg, adrodd a goruchwyllo.

Prif Risgiau a Wynebair gan y Grŵp

Rydym yn asesu'r risgiau'n ofalus, gan ystyried pa mor debygol o godi ydynt a difrifoldeb posibl eu heffoith ar ein cwsmeriaid, ei henw da a'n sefyllfa ariannol. Gan fod cydberthynas agos rhwng rhai o'n prif risgiau, caiff ein strategaethau, ein rheolaethau a'n camau lliniaru eu datblygu yn unol â hynny.

Mae proffil ein risg weddilliol, sy'n adlewyrchu'r camau lliniaru hyn, wedi cynyddu yn 2023. Yn benodol, mae ffocws rhanddeiliad ar ein perfformiad amgylcheddol wedi cynyddu, sy'n effeithio ar risgiau o ran ymddiriedaeth, ac rydym yn cydnabod bod yn rhaid i'n perfformiad wella.

Crynodeb o'r prif risgiau gweddilliol a wynebwr gan y Grŵp



EIN DULL O REOLI RISG PARHAD

Prif risg	Effaith bosibl	Mesur lliniaru
1 Perfformiad amgylcheddol ac enw da	Mae risg nad ydym o bosibl yn rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd yn effeithiol, risg nad ydym yn cyrraedd safonau amgylcheddol, a risg nad ydym yn ymdrin â phryderon rhanddeiliaid yn ddigonol o ran materion amgylcheddol. Gallai hyn arwain at golli ymddiriedaeth ein rhanddeiliaid ac at gostau sylweddol uwch, niwed posibl i'n henw da/ymddiriedaeth cwsmeriaid, a/neu ddirwyon sylweddol/erlyniadau.	Rheolir gweithgareddau gweithredol allweddol drwy ddefnyddio systemau rheoli wedi'u hardystio i ISO 14001. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, y Panel Cyngori Annibynnol ar yr Amgylchedd, y llywodraeth a rheoleiddwyr i ddeall pryderon amgylcheddol a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer buddsoddiadau yn awr ac yn y dyfodol. O ran ansawdd dŵr afonydd, a systemau gorlif storm yn benodol, rydym yn gweithio gyda Thasglu Dŵr Afonydd Llywodraeth Cymru, Byrddau Rheoli Maethynnau a grwpiau tebyg eraill i ddatblygu ein cynlluniau. Un enghraifft allweddol yw ein Maniffesto ar gyfer afonydd yng Nghymru (gweler ar-lein yn https://dwr.cymru.com/rivermanifesto)
2 Parhad busnes	Methiant asedau strategol, y gweithlu, systemau corfforaethol, darpariaeth y gadwyn gyflenwi neu ddigwyddiadau allanol sy'n arwain at anallu i ddarparu gwasanaethau hanfodol megis dŵr yfed glân a diogel, gwasanaethau dŵr gwastraff, diogelu'r amgylchedd neu gasglu arian parod.	Caiff ein cynlluniau parhad busnes eu profi'n rheolaidd, ac rydym yn cynnal ymarferion i baratoi ar gyfer risgiau tarfu allweddol. Drwy ein Llawlyfr Ymateb i Ddigwyddiadau a'n Strwythur Rheoli Digwyddiadau rydym yn gallu ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau a all darfu ar ein gwasanaethau. Hefyd, rydym yn cael ein cefnogi gan y diwydiant ehangach drwy drefniadau Rheoli Digwyddiadau Platinwm Water UK, sy'n hwyluso cyd-gymorth rhwng busnesau.
3 Effeithiau newid yn yr hinsawdd a risgiau pontio	Y risg o fethu â lliniaru/ymaddasu i newid cyflymach yn yr hinsawdd, sy'n arwain at sefyllfa lle mae ein seilwaith mewn rhan o'n hardal weithredu yn cael ei orlethu gan ddigwyddiadau tywydd; neu lle yr achosir difrod mawr i nifer o asedau, sy'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, darparu gwasanaethau, cwsmeriaid a'n henw da.	Mae ein prosesau cynllunio busnes yn ystyried senarios newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau ein bod yn buddsoddi'n briodol i feithrin y gallu i'w wrthsefyll. Mae'r Tîm Gweithredol wedi ychwanegu at y trefniadau llywodraethu drwy ffurfio Pwyllgor Newid Hinsawdd er mwyn goruchwyllo cynnydd gwaith addasu. Rydym yn ymrwymo i liniaru newid yn yr hinsawdd: yn ystod 2021, lansiwyd ein strategaeth 'Siwrnai i Sero Net' i gyflawni sefyllfa carbon sero net erbyn 2040 (ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 78).
4 Digwyddiad mawr yn ymwneud ag iechyd a diogelwch	Mae risg y bydd cyflogai, contractwr, ymwelydd neu aelod o'r cyhoedd yn cael anaf difrifol, mynd yn sâl neu'n marw o ganlyniad i'n gweithgareddau gwaith neu mewn cysylltiad â nhw. Er ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i osgoi anaf personol o unrhyw fath, os byddant yn digwydd mae hynny'n codi'r risg o erlyniad, dirwyon posibl ac erlyniadau troseddol yn erbyn Cyfarwyddwyr unigol, a cholli enw da. Gallai hyn ddigwydd o ganlyniad i fethiant i sefydlu a/neu weithredu asedau diogel, arferion gwaith diogel neu drefniadau addas ar gyfer rheoli contractwyr yn unol â gofynion cyfreithiol ac arferion gorau.	Y Prif Swyddog Gweithredol yw Cyfarwyddwr y Bwrdd sy'n gyfrifol, ac mae'r Bwrdd yn adolygu diweddariadau misol ac adroddiadau chwarterol ar faterion iechyd, diogelwch a llesiant a pherfformiad. Defnyddir canllawiau 'Leading H&S' yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)/Sefydliad y Cyfarwyddwyr fel fframwaith 'cyfarwyddol'. Rydym yn defnyddio dangosyddion sydd ar y blaen/sydd ar eu hôl hi i reoli risg a pherfformiad yn fanwl. Rydym hefyd yn cyfathrebu'n fynych ac yn rheolaidd â phob rhan o'r busnes. Mae ein gweithdrefnau gweithredol a'n polisiau yn gyson ag ISO 45001.

ALLWEDD

↓ Wedi gostwng

↔ Sefydlog

↑ Wedi cynyddu

Newidiadau dros y cyfnod

Tuedd o
ran risg BA 24

Mae diddordeb ein cwsmeriaid yn yr amgylchedd wedi parhau i gynyddu, sy'n adlewyrchu pryderon ynglŷn â'r argyfwng amgylcheddol byd-eang, ochr yn ochr â materion mwy lleol megis ansawdd dŵr afonydd.



Nid ydym yn osgoi'r ffaith y gall ein gweithrediadau effeithio ar yr amgylchedd ac nad ydym wedi cyflawni ein holl dargedau o ran perfformiad. Rydym yn rhoi ffocws ar fod yn dryloyw, defnyddio data i sbarduno gwelliannau a thargedu ein buddsoddiadau er mwyn sicrhau'r budd mwyaf. Yn benodol, rydym yn canolbwyntio ar adennill gradd 4 seren yr Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol drwy ffocws parhaus ar reoli, a thrwy fuddsoddiadau ar unwaith ac o dan AMP 8 mewn seilwaith draenio a phrosesau trin.

Mae'r risg hon wedi parhau i gynyddu ers adroddiad BA 23.

Rydym wedi rhyddhau ein Map Gorlif Storm, sy'n darparu gwybodaeth amser real bron am ein gweithgarwch o ran gorlif storm ger dyfroedd y mae ein cwsmeriaid yn nofio ynddynt, sy'n cefnogi ein cam gweithredu gan y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd, i ddarparu mwy o wybodaeth i'n cwsmeriaid. Yn ogystal â'n cynllun presennol i wario dros £800 miliwn mewn asedau dŵr gwastraff yn AMP7, yn 2022 rydym wedi neilltuo buddsoddiad ychwanegol o £140 miliwn yn ansawdd dŵr afonydd a systemau gorlif storm.

Yn ystod 2023, roedd ein timau gweithredol yn wynebu pwysau sylweddol, gan gynnwys o ganlyniad i'r nifer mwyaf erioed o stormydd a enwyd a oedd wedi gorlwytho rhai rhwydweithiau draenio. Gwnaeth ein timau gweithredol a pharhad busnes ymdrin â'r digwyddiadau hyn yn dda, gan atal tarfu ar wasanaethau ar raddfa fawr.



Hefyd, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar leihau achosion o darfu ar y cyflenwad, drwy ddatblygu ein gweithdrefnau a chryfhau asedau. Yn benodol, rydym yn cyflwyno gweithdrefnau ymateb newydd ar gyfer y Rhwydwaith Dŵr, y cyfeirir atynt fel Prosiect Novello, ac rydym wedi cynnwys buddsoddiad cydnheredd allweddol yn ein buddsoddiadau arfoethedig o dan AMP 8.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu a phrofi cynlluniau wrth gefn, gan gynnwys colli cyflenwadau tanwydd a phŵer yn genedlaethol a phandemig.

Rydym yn cydnabod y gall gwrthdaro rhyngwladol (Wcráin, Israel) barhau i achosi risgiau i gadwyni cyflenwi tanwydd a chemegion ac rydym wedi rhoi ffocws ar y rhain mewn gweithgareddau cynllunio a phrofi.

Rydym yn gweld digwyddiadau tywydd eithafol amlach a dwysach ac rydym wedi datblygu ein gwaith cynllunio addasu i newid yn yr hinsawdd a chydnerthedd asedau.



Rydym wedi adolygu ein risgiau addasu hyd at 2100, a adlewyrchir felly yn ein datgeliad i'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (gweler tudalen 30) ac yn ein Hadroddiad Addasu i'r Hinsawdd a gyhoeddwyd yn 2023.

Rydym wedi datblygu cynlluniau addasu hyd at 2050 fel rhan o waith cynllunio AMP8 yn unol â chanllawiau Ofwat, er mwyn sicrhau bod modd addasu ein cynlluniau, o ystyried yr ansicrwydd o ran graddfa ac amseriad effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn parhau i adolygu materion iechyd, diogelwch a llesiant yn fanwl, ac mae Tîm Rheoli Argyfyngau'r Tîm Gweithredol yn cael diweddariad wythnosol.



Ym mis Gorffennaf 2024 rydym yn disgwyl cadw ein Gwobr Aur am lechyd gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (am y seithfed flwyddyn yn olynol) a Safon lechyd Gorfforaethol Platinwm Llywodraeth Cymru.

Ar gyfer 2024-25, byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein Strategaeth ar gyfer lechyd a Diogelwch a'n cynlluniau gwella er mwyn iddynt fod yn gyson ag anghenion y busnes o dan AMP8.

EIN DULL O REOLI RISG

PARHAD

Prif risg	Effaith bosibl	Mesur lliniaru
5 Seiberdechnoleg, technoleg gwybodaeth a thechnoleg weithredol (TG a TW)	Gallai achos mawr o golli neu amharu ar system TG neu TW, neu fethiant sylweddol o ran gwybodaeth sensitif, megis o ganlyniad i seiberymosodiad, arwain at darfu'n sylweddol ar wasanaethau gweithredol a gwasanaethau cwsmeriaid, colli enw da a chosbau a dirwyon rheoleiddiol posibl.	Mae gennym Raglen Seiberddiogelwch barhaus i sicrhau gwelliannau yn niogelwch ein hamgylcheddau TG a TW. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i lawer o agweddau ar ein sefyllfa o ran diogelwch, gan ddefnyddio rheolaethau CIS 18 fel meincnod. Ymhlith y gwelliannau nodedig yn ystod y cyfnod hwn mae'r canlynol: - Dwy lwyfan seiberddiwylliant sy'n gwella'r elfen ddynol o ddiogelwch. - Llwyfan mynediad diogel ar gyfer TW sy'n sicrhau bod yr holl fynediad i amgylcheddau TW o TG gorfforaethol yn cael ei reoli a'i fonitro. - Cynefino partner SOC Hybryd, Bridewell, i wella prosesau monitro amgylcheddau TG a TW 24x7x365. - Mae dros 300 o gyflenwyr allweddol wedi cael eu cynefino i'r Dyddlyfr Risg, sef ein llwyfan rheoli diogelwch trydydd parti - Gweithredu llwyfan gwybodaeth am seiberfygythiadau, sy'n rhoi gwybodaeth amser real am fygythiadau i ni y gallwn weithredu arni. - Mae ein tîm seiber, sy'n cynnwys Pensaerniaeth Diogelwch, Ymgynghoriaeth Diogelwch, Seiberddiwylliant a Gweithrediadau Diogelwch, yn helpu'r sefydliad ehangach i roi rheolaethau ar waith i atal, canfod ac ymateb i fygythiadau, gan gynnal ymarferion seiber o lefel dactegol i lefel weithredol. Rydym yn cymryd rhan mewn fforymau a drefnir gan y diwydiant a'r llywodraeth ac rydym wedi bod yn rhan o ymarferion ehangach megis Ymarfer Amddiffyn Cyber Marvel NATO ac Ymarfer Aqua Fortress DEFRA.
6 Perfformiad gweithredol a chostau	Bydd perfformiad islaw targedau effeithlonrwydd AMP7 y cytunwyd arnynt yn achosi'r risg o beidio â sicrhau canlyniadau i gwsmeriaid, sy'n denu cosbau ariannol sylweddol o dan y Cymhellion Cyflawni Canlyniadau ac yn gwanhau ymddiriedaeth cwsmeriaid a hyder rheoleiddwyr yn y Cwmni.	Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo strategaethau gweithredol a chynlluniau gwella i gyflawni ymrwymiadau perfformiad AMP7. Mae'r Tîm Gweithredol yn paratoi adroddiadau perfformiad ac yn cynnal trafodaethau ar gostau bob mis. Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu perfformiad yn erbyn y cynllun costau ym mhob cyfarfod. Caiff cynlluniau ariannol eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd yn flynyddol. Mae'r Tîm Gweithredol yn olrhain prosiectau newid drwy'r Cwmni cyfan er mwyn gwella perfformiad a chyflawni targedau costeffeithlonrwydd. Cyflwynir adroddiadau ar y rhain yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol bob mis. Rydym yn parhau i weithio gyda'n tîm Gwyddor Data i fanteisio ar ddatblygiadau arloesol megis technoleg glyfar i ddarparu ein gwasanaethau'n fwy effeithlon a mesur ein perfformiad.

KEY



Wedi gostwng



Sefydlog



Wedi cynyddu

Newidiadau dros y cyfnod

Tuedd o
ran risg BA 24

Effeithiodd rheolyddion rhesymeg raglenadwy ar gwmnïau dŵr ledled y byd, onid nid effeithiwyd ar Dŵr Cymru.



Rydym yn parhau i weld lefelau uchel o negeseuon e-bost gwe-rwydo o ran niferoedd a soffistigedigrwydd ac rydym wrthi'n cyflwyno Diogelwch Annormal sy'n cynnig hidlydd ychwanegol, mwy effeithiol rhag yr ymosodiadau hyn. Rydym yn disgwyl gweithredu ar lefelau rhybudd uwch ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Er bod ein perfformiad y flwyddyn hon yn dda o ran rhai mesurau pwysig, megis C-MeX, sef mesur allweddol Ofwat o wasanaeth cwsmeriaid, rydym yn cydnabod bod ein perfformiad mewn rhai meysydd eraill wedi bod yn siomedig, gyda methiant i gyrraedd ein targedau ynglŷn â tharfu ar y cyflenwad dŵr, cydymffurfiaeth dŵr â'r radd EPA, cydymffurfiaeth gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gollyngiadau dŵr. Mae cynllun adfer ar waith gennym (am ragor o wybodaeth, gweler tudalennau 20 i 23 o'n Crynodeb o Berfformiad a thudalen 91 am ein cynllun adfer)



EIN DULL O REOLI RISG

PARHAD

Prif risg	Effaith bosibl	Mesur lliniaru
7 Colli ymddiriedaeth, yn enwedig ymhlith ein cwsmeriaid	Mae methiant i ennyn ymddiriedaeth a hyder ein cwsmeriaid yn achosi'r risg y bydd cwsmeriaid yn colli hyder yn ein gwasanaethau. Fel cyflenwr monopoli gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, rydym yn destun cryn dipyn o graffu, a chyfarwyddo, gan y llywodraeth a rheoleiddwyr.	Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar atgyfnerthu'r gwaith o gynnwys cwsmeriaid yn ein gweithgareddau ac ymgysylltu â nhw, a chynnal cydberthynas dda â'n rhanddeiliaid. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid allweddol ac yn ceisio sicrhau bod ein gweithgareddau cyfathrebu mor effeithiol â phosibl.
8 Pobl, talent ac amrywiaeth	Y risg y byddwn yn methu â denu a chadw talent i gefnogi pob un o feysydd ein busnes. a/neu Rydym yn methu â gwella amrywiaeth ein gweithlu er mwyn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn yn well, sy'n arwain at berfformiad busnes gwael	O dan Strategaeth Adnoddau Dynol 5 mlynedd (a lansiwyd yn 2021) y nod yw ein bod yn cael ein cydnabod fel y cyflogwr gorau yng Nghymru. Yn ganolog i hyn mae cefnogi datblygiad cydweithwyr a sicrhau bod ein prosesau recriwtio yn cefnogi gweithlu amrywiol a chynhwysol. Rydym yn cyflwyno adroddiad ar ein Bwlch Cyflog rhwng y rhywiau i Bwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd (gweler tudalen 173). Am wybodaeth am ein gwaith i wella amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gweithlu gweler tudalen 88.
9 Risg cyllid (ariannu)	Y risg y bydd cost codi dyled newydd yn mynd yn ddrtach nag y mae'r system rheoli prisiau bresennol yn ei ganiatáu neu y bydd yn fwy anodd i'w chael. Gallai hyn goel ei achosi gan yr amgylchedd economaidd ehangach neu ostyngiad yn statws credyd Glas. Mae'n bosibl hefyd na fydd banciau yn gallu cynnig cyllid ychwanegol am ychydig fisoedd os bydd unrhyw darfu ar farchnadoedd ariannol yn effeithio ar lifau arian parod.	Rydym yn parhau i fonitro'r amgylchedd yn fanwl, yn enwedig yng ngoleuni'r ansicrwydd economaidd ehangach ac effeithiau rhyfeloedd/gwrthdaro yn Wcráin a'r Dwyrain Canol. Rydym yn monitro ac yn rhagamcanu cymarebau dyled a gofynion cyllid yn fanwl. Rydym yn rheoli prisiau mewnbwn ynni drwy hunangynhyrchu, deilliannau ariannol a Chytundebau Prynu Ynni hirdymor.



ALLWEDD

- ⬇️ Wedi gostwng
- ↔️ Sefydlog
- ⬆️ Wedi cynyddu

Newidiadau dros y cyfnod

Tuedd o ran risg BA 24

Mae Baromedr Ymddiriedaeth Fyd-eang blynyddol Edelman yn awgrymu bod ymddiriedaeth cwsmeriaid wedi dirywio'n sylweddol dros y degawd diwethaf. Ategir hyn gan ymchwil i gwsmeriaid a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y sector dŵr gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (yn ei adroddiad blynyddol Water Matters) sy'n dangos dirywiad drwy'r sector cyfan yn y mesur o ymddiriedaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Hefyd, mae ein harolwg tracio ymddiriedaeth misol ein hunain yn dangos bod ymddiriedolaeth yn is ar y cyfan nag ydoedd y flwyddyn ddiwethaf.

Yng ngoleuni costau byw a phwysau amgylcheddol cynyddol, rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i weithio'n galed i gynnal hyder cwsmeriaid yn ein gallu i gydbwyso fforddiadwyedd â'r angen i fuddsoddi i leihau ein heffaith amgylcheddol a chynnal gwasanaethau at y dyfodol.

Mae ein statws nid er cyfranddalwyr, y ffaith ein bod yn gyflogwr cyflog byw gwirioneddol, a'n model hybrid ar gyfer cydweithwyr sy'n gweithio mewn swyddfeydd yn dal i fod yn atyniadol i ymgeiswyr allanol. Y flwyddyn hon rydym wedi gweld gwelliant o 8% yn y niferoedd sy'n gwneud cais am rolau o blith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Cafwyd trosiant o 9% ymhlith cydweithwyr drwy gydol 2023.



Mae'n is i adlewyrchu cyfraddau cadw uchel parhaus a chynnydd o ran y cynllun datblygu ac amrywiaeth hirdymor

Nid yw Dŵr Cymru na'r cwmnïau dŵr eraill sydd â statws credyd da wedi profi llawer o newid o ran eu costau cyllido oherwydd heriau cyllido yn y sector dŵr ehangach. Fodd bynnag, ceir posibilrwydd o effaith hirdymor os bydd unrhyw rai o'r risgiau yn y sector cyfan yn cael eu gwireddu.

Mae'r rhagolygon presennol o'r economi a chwyddiant wedi cael eu hystyried wrth lunio cynllun busnes 2024-25 y Cwmni, sy'n dangos lefelau uchel o hylifedd arian parod.

Rydym wedi cynnal balans arian parod sylweddol ac wedi cynyddu hylifedd byrdymor drwy gynyddu ein cyfleusterau credyd cylchdro.

Rydym yn monitro ein cymarebau credyd a'n gofynion cyllido yn fanwl ac mae ein cynlluniau busnes yn anelu at gynnal statws credyd cryf. Rydym yn paratoui i godi dyled newydd ymhell cyn bod ei hangen arnom fel y gallwn fanteisio ar gyfnodau pan fo hylifedd marchnadoedd yn gryf.

Rydym yn cydnabod bod peth ansicrwydd ynglŷn ag anghenion buddsoddi yn y dyfodol (AMP 8 a thu hwnt), yn enwedig o ran cyflawni amcanion amgylcheddol a chydnerthedd gwasanaethau, gan y gall disgwyliadau ar gyfer perfformiad amgylcheddol newid ac y gall ffactorau megis ein dealltwriaeth o newid yn yr hinsawdd a chydnerthedd asedau ddatblygu.



EIN DULL O REOLI RISG

PARHAD

Risgiau sy'n dod i'r amlwg a wynebir gan y Grŵp

Trafodir risgiau sy'n dod i'r amlwg yn fanwl gan y Bwrdd ddwywaith y flwyddyn.

ALLWEDD

⬇️ Wedi gostwng ⬆️ Sefydlog ⬆️ Wedi cynyddu

Risg sy'n dod i'r amlwg	Effaith bosibl	Mesur lliniaru	Newidiadau dros y cyfnod	Tuedd o ran risg
1 Sylweddau a all fod yn Achos Pryder (Dŵr Gwastraff a Dŵr Yfed)	Halogyddion sy'n dod i'r amlwg, gan ennyn diddordeb gwyddonol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n arwain at effeithiau posibl ar brosesau trin (dŵr a dŵr gwastraff) a all effeithio ar ein targedau carbon a/neu achosi pryderon iechyd y cyhoedd (Ymhlith yr enghreifftiau cyfredol mae microlygryddion megis microblastigion, cemegion o waith dyn megis PFAS a sylweddau fferyllol)	Rydym yn dilyn datblygiadau ym maes rheoleiddio'r amgylchedd a dŵr yfed ac yn cefnogi ymchwil gan gorff ymchwil diwydiant dŵr y DU (UKWIR) ac eraill i risgiau posibl (o ran trin dŵr ac iechyd y cyhoedd).	Mwy o ddiddordeb yn y cyfryngau a ffocws cynyddol ar ymchwil i 'gemegion byth bythol' a gofyniad gan ein rheoleiddiwr, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, i ddadansoddi pob ffynhonnell dŵr yfed am bresenoldeb PFAS (sylweddau perffflwroalcyl a pholyfflwroalcyl) ac i roi asesiadau risg ar waith i liniaru risgiau. Hyd yma, nid yw ein rhaglen fonitro wedi nodi lefelau sylweddol o PFAS yn ein ffynonellau dŵr, a ddefnyddiwn i ddarparu dŵr yfed. Mae'r Asiantaeth Cemegion Ewropeaidd wedi cysylltu â Chomisiwn yr UE i wahardd PFAS nad ydynt yn hanfodol, sy'n cael cryn dipyn o gefnogaeth. Cynhwysir PFAS (monitro a safonau) yn y Gyfarwydddeb Dŵr Yfed ar ei newydd wedd. Nid yw Cymru, Lloegr na Gogledd Iwerddon wedi mabwysiadu'r Gyfarwydddeb Dŵr Yfed, ond mae'r Alban wedi gwneud hynny) Mae'r drafft presennol o'r Gyfarwydddeb Dŵr Gwastraff Trefol newydd yn cynnwys PFAS (monitro a safonau) Gwnaeth Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Unol Daleithiau (US EPA) orfodi'r safon dŵr yfed genedlaethol (gyntaf erioed) ar gyfer PFAS (y tro cyntaf ers 26 mlynedd mae EPA wedi pennu terfyn cyfreithiol ar halogydd mewn dŵr yfed)	↔️
2 Gwahaniaethau deddfwriaethol	Mae risg y bydd costau cynyddol o ran cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau dŵr ac amgylcheddol a all fod yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr a/neu gostau cynyddol o ganlyniad i ddehongliadau gwahanol gan y rheoleiddiwr amgylcheddol.	Rydym yn cydnabod rhai meysydd lle ceir gwahaniaethau posibl, yn enwedig o ran gofynion ynglŷn â thrin dŵr a gollyngiadau gorlif storm. Yn y meysydd hyn rydym yn mynd ati i weithio gyda'n rhanddeiliaid i ddatblygu'r atebion gorau ar gyfer buddiannau ein cwsmeriaid. Rydym yn cefnogi llawer o grwpiau buddiant. Erys ein ffocws ar ddod yn dryloyw drwy gyflwyno prosesau monitro ansawdd dŵr afonydd ac ar fonitro ac adrodd cydymffurfiaeth llifau.	Rydym yn cydweithio â Water UK a Llywodraeth Cymru i ddeall y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r broses ddatblygol o ddehongli'r Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol. Ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygiadau polisi gwahanol ynglŷn â thrwyddedu a rheoleiddio sy'n effeithio ar yr holl asedau dŵr gwastraff a gweithio drwy agweddau allweddol ar eglurder canllawiau ar y cyd ag ef drwy hyn rydym yn dylanwadu ar gysondeb canllawiau allweddol megis "gollwng ar ddiwrnod sych" rhwng asiantaethau. Gweithio gyda Thasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru i gytuno ar natur y gwelliannau gofynnol a pha mor gyflym y dylid eu cyflwyno yn seiliedig ar angen amgylcheddol.	↔️

DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMOR

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi cynnal asesiad cadarn o hyfywedd hirdymor y Grŵp, gan ystyried sefyllfa bresennol y Grŵp, effaith bosibl y prif risgiau sy'n wynebu'r busnes mewn senarios difrifol ond credadwy, ac effeithiolrwydd unrhyw gamau lliniaru. Mae'r asesiad hwn yn ystyried rhagolygon y Grŵp yn y tymor hwy er mwyn sicrhau bod y busnes yn gallu gwrthsefyll gwahanol senarios difrifol ond credadwy a pharhau â'i weithrediadau, parhau i gael mynediad i drefniadau cyllido a pharhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i gwsmeriaid pe bai senarios o'r fath yn codi. Yn seiliedig ar yr asesiad hwn o hyfywedd, mae gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol y bydd y Grŵp yn parhau i weithredu a chyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod o chwe blynedd hyd at fis Mawrth 2030. Esbonnir y rhesymeg dros ddewis y cyfnod hwn isod.

Fel gwarcheidwad busnes hirdymor, mae hyfywedd parhaol yn rhan annatod o'n prosesau rheoli risg a chynllunio. Mae'r Bwrdd yn cynnal asesiad manwl o brosesau rheoli risg y Grŵp, a nodir ar dudalennau 56 i 66, gan roi ystyriaeth briodol i reoli risgiau a allai effeithio ar y model busnes yn yr hirdymor, a pherfformiad, statws credyd, solfedd a hylifedd y Grŵp yn y dyfodol. Yn benodol, caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â'r lefelau presennol o ansicrwydd economaidd, perfformiad amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd eu hadolygu. Mae'r Bwrdd yn herio'r broses o nodi ac asesu risgiau ddwywaith y flwyddyn, a'r tybiaethau ac effaith amcangyfrifedig y gweithgareddau lliniaru a ddefnyddir mewn rhagolygon ariannol unwaith y flwyddyn. Hefyd, rydym wedi sefydlu proses o asesu rhagolygon y Grŵp a gynhelir bob blwyddyn gan y Tîm Gweithredol. Caiff canlyniadau'r asesiad hwn eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio, sy'n adolygu ac yn argymhell y Datganiad am Hyfywedd Hirdymor i'r Bwrdd, lle y caiff ei adolygu gan y Cyfarwyddwyr i'w gymeradwyo. Rydym yn cynnwys ein hasesiad o risgiau yn ein proses gyllidebu fanwl flynyddol a'n proses o lunio rhagolygon ar gyfer y cyfnod rheoleiddio presennol ac, ar lefel ehangach, ar derfynlin o 5-10 mlynedd.

Rydym yn fonopoli gwasanaeth cyhoeddus hanfodol a reoleiddir, gyda thrwydded dreigl om 25 mlynedd a nodweddir gan raglenni buddsoddi amflwyydd a refeniw sefydlog a rhagweladwy. Mae'r diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr yn cael ei reoleiddio gan Ofwat sydd â dyletswydd statudol i sicrhau y gall cwmnïau effeithlon gyllido eu swyddogaethau. Mae Ofwat yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy reoli prisiau dros Gyfnodau Rheoli Asedau ('AMPs') o bum mlynedd. Mae'r AMP presennol (AMP7) yn rhedeg tan 31 Mawrth 2025 ac mae'r Adolygiad Prisiau ar gyfer yr AMP nesaf (AMP8) wedi hen ddechrau a disgwylir iddo ddod i ben ym mis Rhagfyr 2024 pan fydd Ofwat yn cyhoeddi ei Phenderfyniad Terfynol (FD24). Bydd FD24 yn pennu'r refeniw a ganiateir a gwerth cyfalaf rheoleiddio busnes dŵr y Grŵp ar gyfer AMP8 sy'n adlewyrchu asesiad Ofwat o enillion gofynnol y busnes o gyfalaf a gwariant sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau a chyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol. Bydd Ofwat hefyd yn pennu ymrwymiad perfformiad gwasanaeth a gwobrau a chosbau ariannol am ragori ar y targedau hynny neu fethu â'u cyrraedd o dan ei system o Gymhelliant Cyflawni Canlyniadau. Bydd sefyllfa ariannol y Grŵp y tu hwnt i 2025 yn dibynnu ar ganlyniad FD24. Os bydd y Cyfarwyddwyr yn credu bod FD24 yn cael effaith andwyol ar sefyllfa ariannol y Grŵp, gallai ofyn i Ofwat gyfeirio FD24 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd am ailbenderfyniad. Mae ein hasesiad ar gyfer y flwyddyn nesaf yn seiliedig ar y penderfyniad terfynol ar gyfer AMP7, a bydd rhagolygon y Grŵp y tu hwnt i 2025 yn seiliedig ar ein barn bresennol ar ein penderfyniad terfynol ar gyfer AMP8, sy'n ystyried effeithiau posibl y prif risgiau a'r ansicrwydd sy'n wynebu'r Grŵp. Disgwylir i Ofwat gyhoeddi penderfyniad drafft ar 11 Gorffennaf 2024. .

Nodir asesiad y Cyfarwyddwr o sefyllfa ariannol y Grŵp ar 31 Mawrth 2024, rhaglenni buddsoddi, strategaeth gyllido a phroffil aeddfedrwydd dyled yn Adolygiad y Prif Swyddog Ariannol ar dudalennau 24 i 29. Mae agweddau pwysig sy'n berthnasol i'r asesiad o hyfywedd hirdymor y Grŵp yn cynnwys y canlynol:

- Caiff lefel gerio ei chynnal yn unol â tharged y Grŵp o tua 60%,
- Mae digon o arian parod a chyfleusterau arian parod i gyllido ymrwymadau ariannol dros y flwyddyn nesaf ar gael i'r Grŵp,
- Mae statws credyd gan Moody's, S&P) dipyn yn uwch na lefelau gradd fuddsoddi,
- Mae'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn parhau i fod wedi'u hariannu'n llawn, heb newid yn y cyfraniadau.

Mae'n angenrheidiol gwneud rhai tybiaethau ac ystyried rhai ffactorau sensitif wrth ystyried rhagolygon y Grŵp yn y tymor canolig. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Mae'r Grŵp yn gallu parhau i gael gafael ar gyllid dyled a marchnadoedd cyfalaf, sy'n galluogi'r Grŵp i ailstrwythuro ei ddyled yn llwyddiannus wrth iddo ddod yn ddyledus yn AMP8 a pharhau i gario ein cyfleusterau credyd cylchdro drosodd pan fo angen;
- Nid yw'r fframwaith rheoleiddio a statudol presennol yn newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr asesiad hwn a bydd adolygiad prisiau PR24 yn cynnig cyfradd enillion ddigonol i alluogi'r Grŵp i gyllido ei swyddogaethau ar gyfer y cyfnod 2025-30;
- Mae tystiolaeth hanesyddol a'r gwerthusiad o ddigwyddiadau tebyg a welwyd yn y farchnad wedi cael eu defnyddio i lywio effaith bosibl y senarios a fodelwyd;
- Mae'r senarios difrifol ond credadwy yn seiliedig ar farn y Bwrdd ynglŷn â thebygolrwydd a difrifoldeb pob prif risg ar ôl cymryd camau lliniaru.

DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMOR PARHAD

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis cyfnod o 6 blynedd i asesu ein hyfywedd ariannol parhaus. Mae gwaith cynllunio yn y tymor canolig yn ystyried y cyfnod rheoli prisiau cyfredol a'r un nesaf, er mwyn hwyluso cyfnod pontio didrafferth rhwng cyfnodau rheoli prisiau. Mae'r Bwrdd yn ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu ar y cyfnod sydd i'w gwmpasu gan yr asesiad, a dewiswyd cyfnod o 6 blynedd yn bennaf am ei fod yn cwmpasu gweddill yr AMP cyfredol hyd at 2025, a'r AMP nesaf hyd at 2030 heb orfod cynnwys gormod o flaendybaciaethau. Mae cyfnod asesu hwy yn golygu mwy o ansicrwydd wrth i ni wynebu mwy o amrywiaeth o ran y canlyniadau posibl, ac ni fyddai unrhyw gyfnodau pellach sy'n cael eu hallosod o'n rhagolwg ar gyfer AMP8 yn cynnig fawr ddim budd ychwanegol, os o gwbl, o ran profi hyfywedd y Grŵp ymhellach.

Senarios Straen

Mae ein hasesiad o hyfywedd yn seiliedig ar amlygu ein rhagolygon llinell sylfaen hyd at 2031 i nifer o senarios "straen" negyddol, sy'n cynnwys barn y Bwrdd am y tebygolrwydd y bydd pob un o'n prif risgiau ac ansicrwydd yn digwydd a'u difrifoldeb, a'u heffaith yn unigol ac ar y cyd. Ceir y risgiau allweddol a wynebir gan y Grŵp a'r mesurau lliniaru yn y crynodeb o'r risgiau allweddol. Hefyd, rydym wedi addasu ein tybiaethau craidd ynglŷn â chwyddiant er mwyn rhedeg senarios mewn amgylcheddau lle mae chwyddiant a'r gyfradd sylfaenol yn uchel ac yn isel ac wedi gwerthuso eu canlyniadau.

Rydym wedi nodi'r senario negyddol mwyaf difrifol, ond credadwy yn y pen draw, fel ffordd o fesur y lefel gyffredinol o hyblygrwydd sy'n bodoli yn yr hyn sydd, yn ein barn ni, yn gynllun heriol ond cyflawnadwy.

Rydym yn credu bod rhai o'n senarios cyfunol yn annhebygol o ddigwydd yn ymarferol. Fodd bynnag, maent yn ddefnyddiol o ran pennu'r lefel gyffredinol o gydnerthedd a deall beth fyddai angen digwydd er mwyn peryglu bodolaeth y Grŵp.

Fel rhan o'r asesiad, mae prawf straen o chwith ar senario damcaniaethol eithafol sy'n canolbwyntio ar orwariant Totex wedi cael ei gynnal er mwyn deall i ba raddau y gallai'r Grŵp amsugno straen ariannol bellach, cyn opsiynau lliniaru, cyn ei fod yn cyrraedd statws credyd islaw gradd fuddsoddi. Dangosodd y prawf straen o chwith hwn y byddai'n rhaid bod yr amodau eithafol hyn ymhell y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael eu hystyried yn senarios 'difrifol ond rhesymol' cyn y byddai risg i hyfywedd hirdymor y Grŵp.

Senarios y prif risgiau	Prawf straen a gymhwyswyd	Prif risg	Opsiynau lliniaru ariannol sydd ar gael
1. Methiannau i gyflawni ymrwymïadau perfformiad a diffyg cydymffurfiaeth â rheoliadau Heriau effeithlonrwydd ymestynol gan Ofwat ar ein penderfyniad drafft ar gyfer PR24, cosbau sy'n codi o ganlyniad i fethu â chyflawni ymrwymïadau perfformiad ein hadolygiad prisiau a bennwyd gan Ofwat, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed, gan gynnwys risgiau allweddol i'r busnes, cynnydd cyfyngedig tuag at Dŵr Cymru 2050, cydnerthedd asedau a charbon sero net, sy'n arwain at ddirwyon gan gyrrff rheoleiddio/cyfreithiol.	Lwfans referniw 7% yn is na'r dybiaeth sylfaenol, sy'n effeithio ar Werth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) dros y cyfnod y mae'r rhagolygon yn ymwneud ag ef, wedi'i wrthbwyso gan wariant Cyfalaf ychydig yn is.	6 7	1, 2, 3
2. Argyfwng costau byw a dirywiad economaidd Dirwasgiad estynedig â thwf CDG isel sy'n arwain at chwyddiant isel, pwysau costau yn mynd i mewn i'r AMP nesaf a phwysau ar gyfraddau casglu arian parod oddi wrth gwsmeriaid sy'n effeithio ar faint o ddrwgddyledion a gaiff eu dileu gennym.	Gostyngiad mewn chwyddiant o tua 1.5% a chyfraddau llog o tua 0.5% a chynnydd cyfartalog yn y Totex o 4% y flwyddyn	2 9	1, 3, 3
3. Digwyddiadau hinsawdd difrifol a methiannau gweithredol Digwyddiadau tywydd eithafol, fel cyfnod estynedig o wres mawr, tywydd oer a thywydd gwlyb yn arwain at gostau nas cynlluniwyd a methiant asedau allweddol sy'n effeithio ar weithrediadau a'r gwasanoeth a ddarperir.	Cynnydd cyfartalog o 6% yn Totex y flwyddyn dros y cyfnod y mae'r rhagolygon yn ymwneud ag ef.	1 3	3
4. Ansawdd dŵr a methiannau amgylcheddol Llygredd dŵr dros gyfnod estynedig yn arwain at doriadau sylweddol yn y cyflenwad a chosbau. Systemau Gorlif Storm yn gweithredu am gyfnod estynedig sy'n arwain at bwysau ychwanegol o safbwynt gwleidyddol, rheoleiddiol ac enw da. Cyhoeddusrwydd posibl sy'n effeithio ar gwmnïau dŵr eraill yn effeithio ar y ffordd yr eir ati i graffu ar ein gweithrediadau.	Cynnydd cyfartalog o 6% yn Totex y flwyddyn dros y cyfnod y mae'r rhagolygon yn ymwneud ag ef.	1 4	2, 3

ALLWEDD

- | | | |
|--|---|--|
| 1 Perfformiad amgylcheddol ac enw da | 4 Digwyddiad mawr yn ymwneud ag iechyd a diogelwch | 7 Colli ymddiriedaeth, yn enwedig ymhlith ein cwsmeriaid |
| 2 Parhad busnes | 5 Seiberdechnoleg, technoleg gwybodaeth a thechnoleg weithredol | 8 Pobl, talent ac amrywiaeth |
| 3 Effeithiau newid yn yr hinsawdd a risgiau pontio | 6 Perfformiad a chostau | 9 Risg cyllid a gallu cwsmeriaid i dalu |

Senarios y prif risgiau	Prawf straen a gymhwyswyd	Prif risg	Opsiynau lliniaru ariannol sydd ar gael
5. Seiberddiogelwch Achos difrifol o dorri amodau sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg a systemau yn effeithio ar y modd y darperir gwasanaethau, twyll neu golli data. Ystyrir bod y posibilrwydd o dwyll yn annhebygol ar raddfa fawr yn seiliedig ar gryfder presennol ein gwasanaethau TG.	Cynnydd cyfartalog o 1.4% y flwyddyn yn Totex dros y cyfnod y mae'r rhagolygon yn ymwneud ag ef sy'n cynrychioli dirwyon a chostau unioni.	5	2, 3
6. Cynnydd yng nghost trefnu dyled newydd Effaith gostwng statws credyd o ganlyniad i berfformiad gweithredol a/neu ariannol gwael sy'n cynyddu cost trefnu dyled newydd.	Cynnydd yn yr elw ar gost dyled o tua 1.5% yn y byrdymor, sy'n gostwng i tua 0.5% uwchlaw ein cynllun costau yn y tymor canolog.	2, 9	3
7. Digwyddiad mawr yn ymwneud ag iechyd a diogelwch Marwolaeth oherwydd esgeuluster corfforaethol.	Digwyddiad mawr unigol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch mewn un flwyddyn o'r cyfnod y mae'r rhagolygon yn ymwneud ag ef sy'n arwain at y ddirwy iechyd a diogelwch fwyaf ar y farchnad hyd yma.	4	-
8. Andwyol iawn ond credadwy Mae senario andwyol iawn ond credadwy yn adlewyrchu ysgytwadou sylweddol o ran costau sy'n digwydd mewn amgylchedd chwyddiant isel. Mae siociau costau yn seiliedig ar luosydd tebygolrwydd fformiwläig, sy'n cyfuno pob senario gan ddefnyddio eu tebygolrwydd i bwysoli eu heffaith ariannol.	Lluosydd fformiwläig o'r holl senarios yn seiliedig ar debygolrwydd y prif risgiau		1, 2, 3
9. Prawf straen o chwith Gwnaethom gynnal prawf straen o chwith ar ein cynllun ariannol er mwyn nodi'r dirwyad yn ein perfformiad ariannol y byddai ei angen i'n statws credyd fynd islaw gradd fuddsoddi, gan arwain at dorri ein cyfamed a cholli ein trwydded.	Cyfanswm yr effaith ariannol sy'n arwain at statws credyd islaw gradd fuddsoddi, ac at dorri ein cyfamed a cholli ein trwydded.		1, 2, 3

DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMOR

PARHAD

Camau Lliniaru

Os bydd senarios mwy eithafol ond llai tebygol yn digwydd, mae nifer o gamau lliniaru allweddol ar gael i'r Grŵp, y caiff eu heffeithiolrwydd ei ategu gan sefyllfa hylifedd gref y Grŵp. Yn ogystal â'r mesurau diogelu sy'n bodoli yn yr amgylchedd rheoleiddio y mae'r Grŵp yn gweithredu oddi mewn iddo, mae nifer o gamau gweithredu ar gael i liniaru senarios mwy difrifol. Wrth ddewis camau lliniaru mewn ymateb i'n prif senarios risg, byddem yn pwyso a mesur buddiannau'r holl randdeiliaid ac yn blaenoriaethu camau lliniaru na fyddent yn arwain at dorri ein hymrwymadau i gwsmeriaid.

Camau lliniaru a ystyrir yn ystyriaethau busnes arferol Ystyriaethau		Wedi'u hymgorffori yn ein cynllun ariannol
1 Lleihau costau yn y rhaglen gwariant dewisol	Byddem yn adolygu gwariant dewisol er mwyn nodi costau y gellid eu hosgoi neu eu lleihau heb effaith niweidiol i randdeiliaid allweddol, yn enwedig gwasanaeth cwsmeriaid.	Yn rhannol
2 Ymgysylltu ag asiantaethau credyd a banciau	Os eir y tu hwnt i drothwy statws neu drothwy cyfomod, efallai na fyddai statws yn cael ei ostwng bob tro, ac y byddai'r gallu i orddel doethineb hefyd yn cael ei ystyried gan asiantaethau statws credyd. Wrth i broses y PR24 fynd rhagddi, rydym yn ymgysylltu ag asiantaethau statws credyd a'n banciau yn rheolaidd a byddwn yn parhau i gysylltu â nhw ynglŷn â phwysau macro-economaidd a chyflwyno ein cynllun ariannol.	Ddim yn gymwys
3 Ailbroffilio'r rhaglen gyfalaf	Byddem yn ceisio ailbroffilio ein rhaglen gyfalaf, o dan y senario gwaethaf oll, er mwyn lleddfu effaith senarios risg ar ein llifau arian parod a'r effaith ar gymarebau perfformiad allweddol dros nifer o flynyddoedd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ein rhaglen gyfalaf o ran gwella ein hasedau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid, megis lleihau gollyngiadau dŵr, a bydd unrhyw gamau lliniaru yn ystyried yn ofalus yr effaith ar ein rhanddeiliaid, yr amgylchedd a'n perfformiad.	Naddo

Rhagolwg

Mae'r lefel ymestyn yn y senario tra difrifol ond credadwy yn tybio gostyngiadau o tua 4.6% mewn referniw, sef tua £380m, cynnydd o tua 3.9% mewn gwariant gweithredol, sef £115m, y byddai'n naill a'r llall yn arwain at ostwng ein statws credyd a'n metrigau cyfamolod, gyda gostyngiad o 8.0% mewn gwariant cyfalaf, sef £460m i wrthbwyso gostyngiad mewn lwfansau referniw a ragwelir o'n penderfyniad drafft ynglŷn â PR24 a fydd yn effeithio ar ein Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio ac felly'n cynyddu lefelau gerio. Nid yw'r senario tra difrifol ond credadwy yn cynrychioli'r holl opsiynau lliniaru sydd ar gael i'r Grŵp, am fod gostyngiadau mewn Totex ac opsiynau cyllido eraill ar gael i leihau gerio a chymarebau perfformiad ariannol enillion yn unol â metrigau statws credyd, pe bai angen y rhain.

Mae'r Grŵp yn disgwyl y gallai'r senario tra difrifol ond credadwy o bosibl arwain at ostyngiad un radd mewn statws credyd o'r statws presennol, sef A3/A-/A, i Baa1/BBB+/BBB+, gyda'r diwydiant dŵr o dan wyladwriaeth negyddol, ond mae'n rhoi digon o hyblygrwydd yn erbyn gostyngiad a fyddai'n arwain at radd islaw gradd fuddsoddi (Baa3/BBB-/BBB-). Mae'r lefel ymestyn a awgrymwyd mewn senario gostyngiad dwbl pesimistaidd ar gael yn ein prawf straen o chwith isod.

Hefyd, rydym wedi modelu amgylchedd chwyddiant uchel a chwyddiant isel, gyda'r amgylchedd chwyddiant uchel yn cynrychioli gwrthdaro sy'n dwysáu yn y Dwyrain Canol sy'n effeithio ar y macro-economi mewn ffordd debyg i'r gwrthdaro rhwng Wcráin a Rwsia, a fyddai'n peri i chwyddiant a chyfraddau llog godi dros dro i 9.0% a 6.0% yn y drefn honno erbyn diwedd 2025/26, a fyddai'n lleihau'n raddol i 4.5% a thua 5.0% erbyn 2027-28 am weddill y cyfnod. Byddai hyn yn rhoi pwysau ar y Grŵp yn y byrdymor, ond yn yr hirdymor gyda'n lwfans referniw yn gysylltiedig â chwyddiant byddai amgylchedd chwyddiant uchel yn fuddiol i'r Grŵp. Byddai amgylchedd chwyddiant isel yn golygu gostyngiad o 1.5% mewn chwyddiant a gostyngiad o tua 0.5% mewn cyfraddau llog dros y cyfnod y mae'r rhagolygon yn ymwneud ag ef, a fyddai'n rhoi pwysau ar y Grŵp yn y tymor canolig i'r hirdymor. Yn y ddau senario, byddai gan y Grŵp ddigon o hyblygrwydd yn erbyn senario'r prawf straen o chwith.


Gwnaethom gynnal prawf straen o chwith ar ein cynllun ariannol er mwyn nodi'r dirywiad yn ein perfformiad ariannol y byddai ei angen i'n statws credyd fynd islaw gradd fuddsoddi, gan arwain at dorri ein cyfamolod a cholli ein trwydded. Nodwyd gennym. cyn camau lliniaru, y byddai angen i elw gweithredu ostwng 14.1%, gyda capex yn cynyddu tua 2.4% dros y cyfnod y mae'r rhagolygon yn ymwneud ag ef o'n

cynllun craidd er mwyn arwain at statws credyd islaw gradd fuddsoddi, sy'n 67.4% yn ychwanegol at ein senario tra difrifol ond credadwy.

Casgliad

Drwy gynnal profion straen, mae'r Bwrdd wedi ystyried yr effaith ar y cyfamolodau sy'n gysylltiedig â'n sefyllfa gyllido bresennol (llog a gerio), a hefyd ar y prif fetrigau ariannol a defnyddir gan asiantaethau statws credyd wrth asesu statws credyd a hylifedd. Os bydd angen i'r Grŵp ailstrwythuro ei ddyled i lefel fforddiadwy, a bod modd iddo wneud hynny'n llwyddiannus, ni chaiff y Grŵp ei amlygu yn y dyfodol agos nac yn yr hirdymor i anwadalarwydd tuag i lawr os bydd risgiau strategol, gweithredol, hylifol neu gydymffurfio'r Grŵp yn codi'n unigol neu ar y cyd, fel y'i profwyd yn y senario difrifol ond credadwy.

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod y rheolaethau rheoli risg a rhagweld sydd ar waith yn gadarn a bod cynllun 2024 ac allbynnau profion straen yn darparu lefel briodol o wybodaeth y gellir ei defnyddio i ddod i gasgliad ynghylch hyfywedd hirdymor y Grŵp. Ar ôl adolygu'r allbynnau a grynhoir uchod, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd y Grŵp yn gallu parhau i weithredu a chyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod hyd at fis Mawrth 2030.



YR HYN Y MAE CYNALIADWYEDD YN EI OLYGU I DŴR CYMRU

Fel busnes sy'n defnyddio seilwaith hirdymor, mae datblygu ein hasedau a'n gweithrediadau mewn ffordd gynaliadwy yn rhan allweddol o'n gweithgarwch. Felly, mae cynaliadwyedd yn llywio ein polisiâu a'n strategaethau ein hunain a rhai'r Llywodraeth a rheoleiddwyr fel ei gilydd, yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar fuddsoddwyr, ac yn helpu i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid.

Yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), gwnaeth Llywodraeth Cymru ddiffinio datblygu cynaliadwy fel unrhyw weithred a gyflawnir i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac felly gyflawni'r nodau llesiant a restrwyd yn y Ddeddf (Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | LLYW/CYMRU)

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru fel Cyfoeth Naturiol Cymru, weithio gyda'i gilydd ac eraill a mabwysiadu dull gweithredu hirdymor mwy cydgyssylltiedig fel y bydd eu penderfyniadau yn cael effaith gadarnhaol ar genedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r rhai sy'n byw heddiw. Mae'r agweddau hyn ar y Ddeddf yn amlwg yn cyd-fynd â'n Gweledigaeth a llawer o'n bwriad strategol fel y'i nodwyd yn Dŵr Cymru 2050 a'n hamcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI). | Dŵr Cymru (dwr.cymru.com)). Nid ydym yn gorff cyhoeddus fel y'i diffiniwyd yn y Ddeddf, felly nid oes dyletswydd arnom i gydymffurfio â hi. Serch hynny, mae rhai o'n partneriaid yn gyrff cyhoeddus y mae ganddynt rwymedigaethau o dan y Ddeddf, ac rydym yn dilyn ei hegwyddorion.

Datblygu Cynaliadwy

Rydym wedi mabwysiadu diffiniad y Ddeddf o gynaliadwyedd – i weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Felly, gollwn sicrhau bod ein nodau ACLI hefyd yn cyd-fynd â Nodau Datblygu

Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (CU) (a 10 egwyddor Compact Byd-eang y CU (Y 17 NOD | Datblygu Cynaliadwy (un.org) a'r 10 egwyddor a nodwyd yng Nghompact Byd-eang y CU (Hafan | Compact Byd-eang y CU)).

Er mwyn bod yn gyson â'r Ddeddf, ac yn enwedig diffiniad y Ddeddf o gynaliadwyedd, lle bynnag y bo modd, rydym yn canolbwyntio'n lleol, rydym yn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau Cymru, ac rydym yn ystyried yn benodol y pum 'ffordd o weithio' a restrwyd yn y Ddeddf (VWG-5-ways-of-working-factsheet.pdf (wcva.cymru)):

Drwy ddilyn egwyddorion y Ddeddf byddwn yn cydbwysu ystyriaethau yn y tymor byrrach ag anghenion hirdymor ein cwsmeriaid a chymdeithas. Mae hyn yn arbennig o wir wrth fodloni gofynion byrdymor a all gael effaith hirdymor niweidiol, ond hefyd, pan fydd ein hamcanion yn effeithio ar ei gilydd neu ar amcanion cysylltiedig e.e. wrth wella ansawdd dŵr afonydd rydym yn cynyddu ein hól troed carbon a chostau ein gwasanaethau i gymdeithas.

Fel cyrff cyhoeddus, y mae ganddynt rwymedigaethau o dan y Ddeddf (er nad oes rhai gennym ni), rydym yn mabwysiadu dull gweithredu 'Tim Cymru'. Mae hyn yn golygu ein bod yn rhannu ein sgiliau, ein gwybodaeth a'n hadnoddau â chyrff eraill yng Nghymru, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr – sydd o dan rwymedigaeth i weithio o dan y Ddeddf ac sy'n rhannu diddordeb mewn cyflawni nodau llesiant Cymru – yn ein trafodaethau strategol, er budd y cyhoedd. Rydym hefyd yn cydweithio â phartïon eraill, sy'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion yn effeithlon, ac sy'n helpu cyrff eraill yng Nghymru i gyflawni eu nodau hwythau.

Cynaliadwyedd ac Amcanion ACLI

Ein dull o ymdrin â chynaliadwyedd

Er mwyn bod yn gynaliadwy, mae'n rhaid i ni ddiwallu anghenion y cenedlaethau presennol heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r ffordd hon o weithredu yn rhan annatod o bopeth a wnawn ac mae'n seiliedig ar ein model busnes 'nid er cyfranddalwyr'. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i ni ganolbwyntio a fuddionau hirdymor cwsmeriaid a chymunedau, sy'n hollbwysig er mwyn i ni barhau i fod yn gynaliadwy, o ystyried ein hasedau hirsefydledig iawn.

Mae Dŵr Cymru 2050 yn gyson â'r saith Nod Llesiant fel y'u hamlinellwyd yn y Ddeddf. Yn 2020, gwnaethom lansio ein Hymrwymiadau Llesiant, y cytunwyd arnynt gyda'n Grŵp Her Annibynnol (y Grŵp Her Cwsmeriaid gynt). Mae'r ymrwymiadau hyn wedi cael eu cyfuno yn ein strategaeth Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI) a'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ei hategu. Mae'r Grŵp Her Annibynnol yn bwrw golwg dros berfformiad yn erbyn y metrigau hyn ac yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor ACLI.



I gael rhagor o wybodaeth am effaith y sector dŵr a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ewch i: <https://www.unglobalcompact.org.uk/measuring-up/>

Yn hytrach na thrafod cynaliadwyedd ar ei ben ei hun, mae'r adroddiad hwn yn nodi dwy thema strategol sy'n ymwneud â'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau dŵr yfed a dŵr gwastraff, ac yn diogelu'r amgylchedd.

Mae'r rhain yn cyd-fynd yn dda â'r Nodau Llesiant: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru lewyrchus; Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae cynaliadwyedd yn rhan ganolog o genhadaeth Dŵr Cymru 2050 i ddod yn wasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn fwy cyffredinol, mae'r Weledigaeth yn mynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n ein hwynebu yn y tymor byr, a'r tymor hwy yn enwedig, ac mae'n sail i'r ymatebion strategol a nodir yn Dŵr Cymru 2050. Gweler ein dogfennau 2050 ar-lein yn Ein llinellau | Dŵr Cymru (dwrcymru.com).



Cynaliadwyedd a'n Themâu Strategol

Isod nodwn grynodedb o'r hyn y mae cynaliadwyedd yn ei olygu i bob un o'n themâu strategol.

Darparu Gwasanaethau i'n Cwsmeriaid a'n Cymunedau

Gwasanaethau dŵr yfed a dŵr gwastraff cynaliadwy yw'r rhai hynny sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd, gan ddiwallu anghenion cwsmeriaid yn effeithlon, a chydymffurfio â'r trwyddedau rydym yn gweithredu'n unol â nhw. Maent hefyd yn defnyddio atebion arloesol i wella a mireinio'r gwasanaethau drwy'r amser fel y byddant yn bodloni disgwyliadau bythol gynyddol cwsmeriaid am bris y gallant ei fforddio, ac yn ymaddasu i heriau'r dyfodol er mwyn sicrhau y gall ein gwasanaethau gael eu cynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae creu gwerth cymdeithasol i'n cwsmeriaid, sy'n chwarae rôl hanfodol i gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarparwn, hefyd yn rhan annatod o fod yn gwmni dŵr cynaliadwy. Yn y pen draw, cwsmeriaid, i raddau helaeth, sy'n penderfynu faint o ddŵr y bydd angen i ni ei dynnu o'r amgylchedd, a gallant effeithio ar ein carthffosydd a'r amgylchedd drwy fflysio plastigion a deunyddiau eraill i'r garthffos yn amhriodol. Mae gweithio gyda chwsmeriaid i newid eu hymddygiad yn hanfodol er mwyn cadw ein gwasanaethau ar sail gynaliadwy – a thrwy hynny greu gwerth cymdeithasol.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau dŵr yfed a dŵr gwastraff iddynt, byddwn hefyd yn manteisio i'r eithaf ar botensial ein daliadau tir a'n cyfleusterau, er mwyn helpu ein cwsmeriaid i fwynhau'r amgylchedd, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, a meithrin gwell dealltwriaeth o'r rôl ollweddol y maent yn ei chwarae i sicrhau y gallwn gynnis gwasanaethau cynaliadwy i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Diogelu ein Hamgylchedd

Gwasanaethau dŵr yfed a dŵr gwastraff cynaliadwy yw'r rhai hynny sy'n diogelu'r amgylchedd rhag effaith dychwelyd elifion wedi'u trin ac elifion storm i'n hafonydd a'n moroedd, rhag rhyddhau gormod o allyriadau carbon i'r atmosffer, rhag defnydd anghynaliadwy o gemegion a deunyddiau eraill, a rhag ailgylchu biosolidau, ac sy'n croesawu'r economi gylchol.

Maent yn rheoli llygredd yn y tarddle, ac yn helpu i atal llygryddion fel sylweddau perffflworoalcyl a pholyfflworalcyl (PFAS) – a elwir ar lafar hefyd yn 'gemegion byth bythol' – rhag mynd i mewn i'r system garthffosiaeth. Mae'r gwasanaethau hyn yn lleihau hyd y gellir y gofyniad i brosesu dŵr, drwy gyfyngu ar ollyngiadau dŵr a gweithredu mewn modd rhagweithiol i annog ac addysgu ein cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol i leihau eu defnydd o ddŵr.

Trosolwg o'r	Amcanion ACLI Gweler Tudalen
1 Gwaith Cynllunio Hirdymor	76
2 Carbon Sero Net	78
3 Addasu Asedau a Gwasanaethau	82
4 Budd Diriaethol i gymunedau	84
5 Fforddiadwyedd	86
6 Ymgysylltu â chwsmeriaid	87
7 Gweithlu amrywiol	88
8 Addasu i heriau'r dyfodol	89
9 Dangos Atebolrwydd	90
10 Cydweithio	90

CYNALIADWYEDD AC AMCANION ACLI

Llywodraethu er budd Cynaliadwyedd


Mae cynaliadwyedd yn rhan o bopeth a wnawn. Mae o'r pwys mwyaf i'r Cwmni a'r Bwrdd ein bod yn sicrhau ei fod yn cael ei lywodraethu'n effeithiol. I'r perwyl hwnnw, cwblhaodd ein Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol ac Amgylcheddol ei drydedd flwyddyn o oruchwylio'r strategaeth a ddatblygwyd gennym i gyflawni ein hamcanion cynaliadwyedd ac amgylcheddol (Yr Amgylchedd | Dŵr Cymru (dwrcymru.com)).

Amlinellir y prif heriau a adolygwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor ACLI ar gyfer BA 24 ar dudalen 129. Yn benodol, yn ystod y flwyddyn hon, gwnaethom gyflwyno ein polisi caffael cynaliadwy â'n cyflenwyr, a'n Strategaeth Ystadau newydd.

Cafodd ein strategaeth ACLI, gan gynnwys y 10 amcan ACLI a adolygwyd ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ACLI ym mis Chwefror 2022, ei hadolygu ymhellach gan ein Panel Cyngori Annibynnol ar yr Amgylchedd yn 2023 er mwyn sicrhau bod ein ffocws yn gyson â'r blaenoriaethau allweddol yn unol â chynghor y Panel.

Mae tri o'n 10 amcan ACLI yn ymwneud yn benodol â llywodraethu er budd cynaliadwyedd ac fe'u hesbonnir ar dudalennau 89 i 90.

Wedi'u Cefnogi a'u Hwyluso drwy Lywodraethu er budd Cynaliadwyedd



Yn ychwanegol at y cynnwys ar yr amcanion ACLI sy'n ymwneud yn benodol â llywodraethu er budd cynaliadwyedd, nodwn isod bolisiâu a mentrau eraill sy'n berthnasol i'r mater hwn.

Llywodraethu er budd Cynaliadwyedd: Polisiâu a Mentrau

Mae llywodraethu da wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau a'n cydberthnasau tryloyw ac atebol â'n rhanddeiliad. Drwy ein dull llywodraethu rydym yn sicrhau bod cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethu da a rheoli risg manwl yn rhan o'n prosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r busnes. Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer o fentrau, achrediadau a pholisiâu sy'n dangos hyd a lled ein dull gweithredu.

Achrediadau ar gyfer Treth Deg a Thaliadau Teg 	Nod Treth Deg Ym mis Gorffennaf 2021, daeth Dŵr Cymru yn gwmni cyntaf Cymru i sicrhau achrediad y Nod Treth Deg, sy'n adlewyrchu sut mae'r Cwmni yn rheol ei drethi mewn ffordd gyfrifol a thryloyw. O ganlyniad, mae'r datganiadau ariannol yn yr Adroddiad Blynnyddol hwn yn cynnwys nifer o feysydd lle ceir datgeliad manylach, a roddwyd er mwyn helpu rhanddeiliad i ddeall cyfanswm y dreth a nodwyd. Cod Taliadau Prydlon Gwnaethom lofnodi'r Cod Taliadau Prydlon ym mis Mai 2019, gan ymrwymo i dalu 95% o'n cyflenwyr o fewn 60 diwrnod. O 1 Gorffennaf 2021 roedd angen i lofnodwyr dalu 95% o gyflenwyr â llai na 50 o gyflogeion o fewn 30 diwrnod. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roeddem yn gwneud taliadau i 95% o'r holl fusnesau bach rydym yn ymwybodol ohonynt o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb, a 98% o'r holl anfonebau ar gyfer yr holl gyflenwyr o fewn 30 diwrnod i'w derbyn, gyda'r bwriad o wella hynny ymhellach.
Polisi Gwrth-lwgrwobrwyfaeth a Llygredigaeth ac Atal Twyll	Mae ein polisiâu yn nodi'n glir na fyddwn yn goddef unrhyw achosion o dwyll, anonestrwydd, llwgrwobrwyfaeth, llygredigaeth, dwyn na datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn amhriodol. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan ein polisi llym ar letygarwch a rhoddion gan gyflenwyr. Ni roddwyd gwybod am unrhyw achosion o dorri'r polisi i'r Archwilwyr Mewnol nac i'r llinell chwythu'r chwiban allanol yn ystod BA 24.
Polisi Caffael Cynaliadwy, Safonau Cydymffurfio Cadwyni Cyflenwi a mentrau Atal Caethwasiaeth	Polisi Caffael Cynaliadwy Rydym wedi pennu ein dyheadau o ran caffael cynaliadwy drwy gydweithio â rhanddeiliad allweddol, gan gwmpasu meysydd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae ein dyheadau wedi cael eu mapio yn erbyn Amcanion Strategaeth ACLI Dŵr Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac maent wedi'u cynnwys yn ein Polisi Caffael Cynaliadwy. Rydym wedi asesu effaith y dyheadau hyn o ran caffael cynaliadwy yn y categorïau allweddol rydym yn eu caffael drwy ymgymryd â gwaith mapio risgiau a chyfleoedd mewn contractau caffael sy'n bodoli eisoes yn erbyn y dyheadau. Rydym bellach yn rhoi ein Polisi Caffael Cynaliadwy ar waith. Safonau Cydymffurfio Cadwyni Cyflenwi Gwnaethom lansio'r Cod Ymddygiad Cyflenwyr ym mis Ebrill 2021. Ers hynny, rydym wedi: - cynnwys penderfyniad cyflenwyr i dderbyn y cod a chadarnhau eu cydymffurfiaeth ag ef fel prawf llwyddo/methu ar gam yr Holiadur cyn Cymhwyso o'r prosesau tendro; - cynnwys cydymffurfiaeth â'r cod fel geiriad safonol ym mhob contract nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'i ddyfarnu, ei newid neu ei ymestyn ers mis Ebrill 2021; - diwygio telerau ac amodau archebion prynu i gynnwys gofynion y cod. Ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern Cynhaliwyd ymgyrch flynyddol wythnos o hyd gennym i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern. Ym mis Hydref 2022, gwnaeth staff Caffael, ar y cyd â'r Gyng rhair Hope for Justice, ymgysylltu â chydweithwyr gweithredol hyfforddedig a chyflenwyr ynghylch sut i nodi'r arwyddion o gaethwasiaeth fodern ac i gadarnhau ein gweithdrefnau adrodd os amheuir achos o gaethwasiaeth fodern. Gwnaethom hefyd dynnu sylw ar y Cod Ymddygiad Cyflenwyr a'r gofyniad i gydymffurfio ag ef yn ystod y sesiynau hyfforddiant. Mae ein datganiad am Atal Caethwasiaeth ar gael yn https://dwrcymru.com/atalcaethwasiaeth. Mae pob aelod o'r Tîm Caffael wedi cwblhau achrediad e-Ddysgu a Phrawf Caffael a Chyflenwi Moesegol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi ac mae Dŵr Cymru wedi llwyddo i gael achrediad Nod Moeseg Gorfforaethol y sefydliad. Mae hyn yn dangos i gyflenwyr, cwsmeriaid a darpar gyflogeion Dŵr Cymru, a rhanddeiliad eraill, eu bod yn ymwneud â sefydliad sy'n ymrwymedig i sicrhau bod ei staff yn cael hyfforddiant ar ddod o hyd i gyflenwadau a rheoli cyflenwyr yn foesegol, a'n bod wedi mabwysiadu gwerthoedd moesegol yn y ffordd rydym yn dod o hyd i gyflenwyr a'u rheoli.

CYNALIADWYEDD AC AMCANION ACLI PARHAD



Diogelu'r Amgylchedd

Amcan ACLI 1 – Cynllunio Hirdymor

Byddwn yn dibynnu ar ein hasedau i ddarparu ein gwasanaethau hanfodol, a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd am genedlaethau lawer i ddod. Mae ein strwythur corfforaethol yn golygu na chawn ein llywio gan ddfidendau cyfranddalwyr – rydym yn cynllunio ar gyfer yr hirdymor ac yn ystyried anghenion cenedlaethau o gwsmeriaid y dyfodol. Rydym hefyd yn mynd ati i sicrhau bod ein harferion caffael yn gynaliadwy ac yn cefnogi busnesau lleol a'r economi gylchol yn fwy cyffredinol lle bynnag y bo modd.

Yn ystod 2023 ac wrth baratoi i gyhoeddi'r cynllun busnes ar gyfer AMP8 a thu hwnt, rydym wedi datblygu sut y byddwn yn cynnig gwerth hyd yn oed yn well i'n cwsmeriaid. Mae ein dull cynllunio yn sicrhau y caiff effeithiau a chyfluoedd mwy cyffredinol, y tu hwnt i agweddau ariannol, eu hystyried wrth i ni wneud penderfyniadau.

Diben Dŵr Cymru yw: 'Darparu dŵr yfed a gwasanaethau amgylcheddol o ansawdd uchel, sy'n darparu gwell gwerth am arian, er mwyn gwella llesiant ein cwsmeriaid a'r gymuned a wasanaethwn, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'. Mae ein dull cynllunio yn rhoi cyfle i integreiddio gwerth cyhoeddus â chyflawni swyddogaethau Dŵr Cymru mewn ffordd systematig er budd pawb. Wrth wneud hynny, mae hefyd yn cefnogi ein Diben ac yn helpu i symud y Cwmni i sefyllfa fwy gynaliadwy dros amser.

Dŵr fel Adnodd

Er bod cryn dipyn o law yn disgyn ledled Cymru, dim ond tua 3% o'r glawid hwnnw, ar gyfartaledd, a ddefnyddiwn ar gyfer cyflenwad dŵr cyhoeddus. Mae hyn yn gadael 97% ar gyfer amaethyddiaeth a'r amgylchedd, sydd dipyn yn uwch nag mewn llawer o ardaloedd yn Lloegr.

Caiff y rhan fwyaf o'n dŵr ei gyflenwi o'n cronfeydd cronni dŵr ond rydym hefyd yn tynnu dŵr o afonydd iseldirol fel afon Gwy ac afon Wysg yn y de-ddwyrain, afon Tywi, afon Cleddau ac afon Teifi yn y de-orllewin ac afon Dyfrdwy yn y gogledd. Mae dŵr daear yn cyfrif am lai na 5% o'n cyflenwadau ar lefel cwmni.

Rydym yn dal 151 o drwyddedau tynnu dŵr sy'n llywodraethu faint o ddŵr y gellir ei dynnu o'n ffynonellau dŵr. Rhoddir y trwyddedau gan Cyfoeth

Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr ac maent yn cyfyngu ar faint o ddŵr y gellir ei dynnu. Mae'r trwyddedau hyn yn cynnwys amodau ychwanegol, megis faint o ddŵr y mae angen ei ryddhau o gronfeydd dŵr i wneud iawn yn amgylcheddol, a'r angen am sgrinio i ddiogelu ecoleg ein hafonydd.

Y ddeddfwriaeth amgylcheddol allweddol sy'n llywodraethu ein ffynonellau dŵr heb ei drin yw'r rheoliadau Cynefinoedd a'r Fframwaith Dŵr. Er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth hon bu'n rhaid gwario yn ystod AMP6 ac AMP7 i reoli effaith gostwng faint o ddŵr y caniateid ei dynnu o dan drwyddedi mewn nifer o'n mannau tynnu dŵr ar afonydd.

O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) mae dyletswydd ychwanegol arnom, lle mae Adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys cwmnïau dŵr) 'geisio' cynnal a gwella bioamrywiaeth yn hytrach na 'rhoi sylw' i'w gwarchod yn unig. Er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw, mae angen i ni fynd ati'n rhagweithiol i ddeall effeithiau posibl ein gweithrediadau yn y tymor canolog i'r hirdymor fel y gallwn baratoi a lliniaru yr unol â hynny.

Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau y byddwn bob amser yn gallu darparu cyflenwad digonol o ddŵr i ddiwallu angen rhesymol ein cwsmeriaid am ddŵr, a bod hyn yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy o fewn terfynau amgylcheddol. Mae'r un mor bwysig ein bod yn ceisio lleihau'r galw am ddŵr drwy leihau gollyngiadau dŵr a hyrwyddo ymddygiadau ymhlith cwsmeriaid sy'n lleihau faint o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio. Bydd hyn yn lleihau faint o ddŵr y mae angen i ni ei dynnu a faint o ynni rydym yn ei ddefnyddio i brosesu a dosbarthu dŵr.

Er mwyn cefnogi'r nodau uchod, rydym yn datblygu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr hirdymor sy'n ymdrin â chynaliadwyedd cyflenwadau dros y 25 mlynedd nesaf, gan sicrhau bod ein systemau cyflenwi dŵr yn gallu gwrthsefyll cyfnodau sych, cyfyngu ar unrhyw niwed i'r amgylchedd, a chyfrif am y rhagolygon diweddaraf o'r galw o dan hinsoddd sy'n newid a phoblogaeth sy'n cynyddu.

Rydym wedi mabwysiadu dull cynyddol o Gynllunio Adnoddau Dŵr am fod terfynau amser Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr olynol yn gorgyffwrdd. Mae pob cynllun 5 mlynedd yn diweddarau'r cynllun diwethaf, yn seiliedig ar ysgogwyr newydd, megis canllawiau diwygiedig gan y llywodraeth neu reoleiddwyr, blaenoriaethau cwsmeriaid, a gwell tystiolaeth.

Mae'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn llunio set o opsiynau ac atebion er mwyn sicrhau gallu cyflenwadau ein cwsmeriaid i wrthsefyll cyfnodau sych yn yr hirdymor. Cyflawnir hyn drwy leihau'r galw am ddŵr, megis drwy ganfod mwy o ollyngiadau dŵr, neu ddarparu ffynonellau dŵr newydd. Cawn ein llywio gan y Llywodraeth, rheoleiddwyr, partion â diddordeb a'n cwsmeriaid i ddewis yr atebion mwyaf priodol. Rydym yn defnyddio metrigau economaidd ac amgylcheddol i helpu i farnu'r atebion mwyaf effeithiol i ateb yr heriau a nodir yn ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr.

Cynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff

Rydym bellach wedi datblygu ac wedi cyflwyno proses sy'n cyfateb yn fras i broses y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ar gyfer gwasanaethau dŵr gwastraff. Gelwir y rhain yn Gynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr. Yn ddiddorol ddigon, bydd rhwymedigaeth statudol yn yr UE i baratoi cynlluniau tebyg o 2025, sy'n golygu bod y DU ar floen y gad o ran datblygiadau o'r fath. Mae ein cynllun yn ymdrin ag effeithiau pwysau amgylcheddol, newid yn yr hinsoddd a phwysau gan gwsmeriaid ar y gwasanaethau dŵr gwastraff a ddarparwn. Mae'r rhain wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen mawr am fuddsoddiad pellach, yn enwedig i leihau effeithiau gorlif storm, y maethynnu a gynhwysir mewn gollyngiadau o elifion wedi'u trin, perygl llifogydd, ac, mewn rhai achosion, effeithiau gweithrediadau dŵr gwastraff ar ddyfroedd dynodedig, megis y rhai a ddefnyddir at ddibenion ymdrochi. Ymdrinnir â'r anghenion hyn yn ein cynlluniau busnes ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd nesaf, a hefyd ar gyfer cyfnodau dilynol. Mae ar gael yn Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff | Dŵr Cymru (dwr.cymru.com).

Arloesedd

Mae arloesedd effeithiol ac ymgorfforedig yn dal i fod yn allweddol os ydym am wella ein gwasanaethau, lleihau ein hól troed carbon ac amgylcheddol, a chynyddu'r gwerth cymdeithasol a ddarparwn.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i wneud cynnydd da o ran cyflawni'r agenda a amlinellwyd yn ein Strategaeth Arloesi, a gafodd ei hadnewyddu a'i chyhoeddi gennym yn 2022. Rydym wedi bod yn gweithio gyda mwy na 100 o sefydliadau academaidd a sefydliadau eraill, ein canolfan ragoriaeth ar gyfer arloesi – Spring Innovation Ltd, arbenigwr technoleg, a mentrau arloesi bydeang i gynnal ymchwil, a datblygu a threialu technolegau newydd y gallwn eu mabwysiadu. Mae ein strategaeth ar ei newydd wedd yn cadarnhau bod dau ysgogydd gweiddiol ein dull gweithredu yn dal i fod yn gwbl addas at y diben. Gweler Ein Heriau | DŵrCymru (dwrwymru.com).

Yn gyntaf, datblygu technolegau newydd i wella gwasanaeth cwsmeriaid, creu effeithlonrwydd a lleihau'r defnydd o adnoddau, carbon a chostau. Yn ail, defnyddio ein hymchwil a'n gwaith arweinir gan dystiolaeth i helpu i lywio barn rheoleiddwyr a llywodraethau, a thrwy hynny ein galluogi i ddatblygu polisiau arloesol newydd sy'n hwylyso ac yn cefnogi'r broses o wireddu ein Gweledigaeth ar gyfer 2050, er enghraifft, ar ddatrysiadau ar gyfer dalgylchoedd a masnachu mewn maethynnau.

Hyd yma yn ystod y Cyfnod Rheoli Asedau hwn mae dros 500 o gynigion ar gyfer arloesi wedi cael eu cyflwyno i'n Porth Arloesi yn dwrcymru.com/arloesi, ac wedi cwblhau tua 69 o brosiectau arloesedd sy'n deillio o'r rhain. Rydym wedi buddsoddi tua £7.1m mewn ymchwil sydd wedi denu cyllid ychwanegol, gan sicrhau cymhareb gyffredinol o ychydig dros 8:1 o ran cyllid ychwanegol. Rydym yn parhau i fod yn un o'r cwmnïau sy'n ymwneud fwyaf â phrosiectau Arloesedd Ofwat a ariennir, ac edrychwn ymlaen at weld cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn cynyddu o £200m yn AMP7 i £400m yn AMP8. Dylai'r datblygiadau arloesol hyn ein galluogi i sicrhau arbedion effeithlonrwydd pellach o ran y defnydd o adnoddau a'n hól troed carbon ac amgylcheddol, a hefyd fanteision ariannol.

Mae ein gwaith ymchwil yn parhau i gael ei ddefnyddio i helpu i newid polisiau yn yr UE drwy Eureau, sef y corff masnach y diwydiant Ewropeaidd. Roedd yn bleser gennym weld bod yr egwyddor ynglŷn â chyfrifoldeb cynhyrchwyr wedi cael ei chynnwys yn y

Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol sydd newydd gael ei chymeradwyo, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r diwydiant fferyllol ariannu o leiaf 80% o rai prosesau trin penodol sydd eu hangen i leihau presenoldeb cynhyrchion fferyllol mewn elifion carthion wedi'u trin. Yn yr un modd, bydd y sector yn ymgymryd â gwaith pellach i fonitro ei berfformiad a'i ôl troed amgylcheddol er mwyn i ni wneud penderfyniadau buddsoddi gwell a mwy cynaliadwy yn y dyfodol. Mae hyn yn gyswll pwerus a dylai helpu'r diwydiant dŵr a'r diwydiannau fferyllol a chemegol i symud tuag at sefyllfa fwy cynaliadwy. Mae ein rhaglen ymchwil bellach yn canolbwyntio ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys y ffordd orau o wneud buddsoddiadau cynaliadwy sy'n seiliedig ar natur ar gyfer ein hardal gyflenwi.

Rydym yn cynllunio ein Cynhadledd Arloesedd rithwir eilflwydd nesaf, a fydd yn dathlu ein llwyddiannau ym maes arloesi hyd yma, ac yn edrych ymlaen at AMP8 o ran datblygu partneriaethau cryfach i sicrhau gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd i'n cwsmeriaid.

Rydym yn dal yn weithredol iawn o ran cefnogi Spring Innovation Ltd, sef canolfan ragoriaeth ar gyfer arloesi yn y diwydiant dŵr. Mae Spring bellach yn gwbl weithredol ac yn cymryd camau breision i ddatblygu datrysiadau arloesol un llais a lledaenu'r wybodaeth sy'n deillio o'r gwaith treialu rydym ni, fel sector, yn ei wneud.

Bioamrywiaeth

Mae ein strategaeth Bioamrywiaeth ar gyfer 2022 – sydd ar gael yn <https://www.dwrwymru.com/cy-gb/blog/biodiversity-strategy-2022> yn nodi ein huchelgeisiau parhaus, ein hamcanion, a'n cynllun gweithredu i gadw a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol yn ein holl asedau gweithredol a daliadau tir, wrth gyflawni ein swyddogaethau. Ychwanegwyd at y strategaeth hon a'i hategu yn 2023 drwy gyhoeddi ein Strategaeth Ystadau newydd. Drwy'r ddwy strategaeth hyn gall y busnes wella'r ffordd y cyflawnir ein swyddogaethau craidd a hefyd helpu ein partneriaid i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth a wynebwn. Wrth wneud hynny, byddwn yn helpu i ddiogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a bodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid.

Roeddem yn bwriadu cyhoeddi ein cynllun Amrywiaeth bob tair blynedd ar ddechrau 2024, ond mae wedi'i ohirio nes ein bod yn cael y penderfyniad PR24 drafft fel y gallwn fod yn sicr ei fod yn adlewyrchu ein rhwymedigaethau a ariennir wrth symud ymlaen at AMP8+. Byddwn yn ei gyhoeddi ar ddiwedd haf 2024.

Mae ein strategaeth Bioamrywiaeth yn nodi, drwy wella ansawdd dŵr, y byddwn hefyd yn gwella ecoleg ein hafonydd. Erys hyn yn brif ffocws ein gwelliannau bioamrywiaeth, er bod nifer sylweddol o welliannau wedi cael eu gwneud i safleoedd canolfannau gweithgareddau lleol ac mewn mannau eraill yn 2023, ac i newidiadau defnydd tir mewn rhai dalgylchoedd ar y cyd â'n partneriaid i sicrhau bod dŵr heb ei drin o ansawdd gwell yn mynd i mewn i'n cronfeydd dŵr a'n hafonydd.

Bydd y ffocws hwn yn parhau drwy ein cynllun buddsoddi ar gyfer AMP8, sy'n adeiladu ar ein gwaith llwyddiannus mewn dalgylchoedd sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd dŵr yn ein dalgylchoedd dŵr yfed uwchdirol. Mae'n cydnabod, drwy wella ac adfer cynefinoedd tirol a dyfrol, y gallwn, ac y byddwn yn gwella ansawdd dŵr, clymu carbon, lliniaru perygl o lifogydd, ac yn gwella llesiant ein cwsmeriaid.

Mae ein strategaeth bioamrywiaeth yn nodi ein huchelgeisiau, ein hamcanion a'n cynllun gweithredu i gadw a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol yn ein holl asedau gweithredol a daliadau tir, wrth gyflawni ein swyddogaethau. Mae ein hamcanion strategol i gyflawni hyn, fel sydd eisoes wedi'u cefnogi gan ein cynllun bioamrywiaeth, yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Adfer cynefinoedd a gofalu am y safleoedd gwarchodedig rydym yn berchen arnynt.
- Gweithio mewn partneriaeth â'n rheoleiddwyr a'n rhanddeiliaid a hyrwyddo cyfleoedd ymchwil.
- Gwella'r ffordd y caiff rhywogaethau estron goresgynol eu rheoli.
- Datblygu ein cydweithwyr ac ennyn eu diddordeb fel llysgenhadon a gweithio'n well i ddeall disgwyliadau ein cwsmeriaid.
- Cadw a gwella bioamrywiaeth yn ein hasedau gweithredol a'n daliadau tir.

Mae ein strategaeth bioamrywiaeth yn cysylltu'n uniongyrchol â'n dyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Drwy gyflawni'r strategaeth byddwn yn cefnogi ac yn bodloni ein gofynion deddfwriaethol ynglŷn â bioamrywiaeth ac ecoleg, ac felly'n helpu i symud ein busnes i sefyllfa gynaliadwy. Nod y strategaeth yw gwella perfformiad yn y byrdymor a'r tymor canolig hyd at 2030, a sicrhau bod ein cynlluniau yn parhau'n gyson ag amcanion Dŵr Cymru 2050 yn y tymor hwy.

CYNALIADWYEDD AC AMCANION ACLI PARHAD




Diogelu'r Amgylchedd

Amcan ACLI 2 – Carbon Sero Net

Ein nod yw sicrhau allyriadau carbon sero net o ran carbon gweithredu a charbon corfforedig erbyn 2040 – <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/journey-to-zero>. Gwnaethom lofnodi addewid Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd 'Race to Zero' ym mis Chwefror 2021. O dan y Confensiwn, bydd rhwymedigaeth arnom i leihau cyfanswm ein hallyriadau 90% i 95%, yn unol â Thargedau seiliedig ar Wyddoniaeth, gyda chaniatâd ar gyfer gwrthbwysio credadwy drwy eithriad yn unig, er mwyn datgarboneiddio'r gweithgareddau a'r prosesau sy'n weddill lle mae'n anodd lleihau allyriadau. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein prosesau'n gwella'n barhaus er mwyn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a gofynnwn i'n partneriaid cadwyn gyflenwi allweddol i'n helpu i ddylunio datrysiadau "gwyrdd, seiliedig ar natur" sy'n fuddiol i'r amgylchedd a chymdeithas yn gyffredinol, wrth gyflawni ein swyddogaethau. Rydym wedi llunio cynllun chwe phwynt cynhwysfawr i ymdrin â'n hól troed carbon sydd wedi cyflawni gostyngiadau sylweddol o ~70% yn ein hallyriadau ers ein Llinell Sylfaen yn 2010/11. Gweler crynodeb o'n cynnydd a'n nodau isod. Byddwn yn adolygu ein llwybr Carbon Sero Net yng ngoleuni. Penderfyniad Terfynol PR24 er mwyn sicrhau ei fod wedi'i ariannu'n briodol.

Ein Nodau



Yn sail i sicrhau ein bod yn Sero Net erbyn 2040 mae amrywiaeth o gynlluniau buddsoddi a phecynnau gwaith i wneud cynnydd diriaethol ynglŷn â phob un o'n 3 Chwmpas allyriadau. Y chwe Phecyn Gwaith yw:


1. Defnyddio llai o ynni a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ein hunain
2. Defnyddio bionwy o garthion i ddatgarboneiddio gwres a/neu drafnidiaeth
3. Pontio'n raddol i fflyd o gerbydau carbon isel
4. Mynd ati i reoli a lleihau allyriadau sy'n ffoi o brosesau trin
5. Monitro a lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag adeiladu
6. Cynyddu lefelau atafaelu carbon a bioamrywiaeth i'r eithaf

Yn unol â chwe rhan ein cynllun Sero Net, mae Dŵr Cymru wedi gwneud y cynnydd canlynol yn ystod 2023/24:

1. Rydym wedi buddsoddi £6 miliwn i leihau faint o drydan a ddefnyddiwn drwy bympiau, moduron a chwythwyr, yn ogystal â chytuno ar nifer o Gytundebau Prynu Ynni newydd â generaduron adnewyddadwy, sydd yn aml yn berchen i'r gymuned.
2. Rydym wedi dechrau gwaith dylunio a dichonoldeb ar gyfer ail gyfleuster biofethan i'r grid, er mwyn datgarboneiddio nwy naturiol o'r grid.
3. Rydym wedi gosod 25 o wefrwyr newydd ar gyfer cerbydau trydan yn ein swyddfeydd er mwyn helpu i bontio i ddulliau trafniadaeth carbon is.
4. Mae ein profion arloesol ar y safle i ddilysu'r allyriadau o'n prosesau dŵr gwastraff, a sut y byddwn yn eu lleihau, wedi mynd rhagddynt ar chwe safle gwahanol.

5. Rydym yn parhau i sicrhau gostyngiadau dwysedd carbon o'n gweithgareddau adeiladu, sy'n golygu bod ein hallyriad fesul £ a fuddsoddwyd i uwchraddio gwasanaethau yn is na'r flwyddyn ddiwethaf.
6. Rydym yn cynnal adolygiad ystad gyfan o'n daliadau tir er mwyn datblygu cynlluniau buddsoddi i atafaelu cymaint o garbon â phosibl a gwella bioamrywiaeth drwy'r broses adolygu prisiau gyfredol.
7. Mae Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu Dŵr Cymru a'r Grŵp Llywio Cynaliadwyedd newydd ei ffurfio yn parhau i dynnu sylw rheolwyr at fentrau allweddol i wella cynaliadwyedd ein harferion yn awr, ac i'r dyfodol. Mae'r egwyddorion hyn wedi llywio'r Cynllun Busnes ar gyfer 2025-2030 a gyflwynwyd i'n Rheoleiddiwr, Ofwat, ym mis Hydref 2023, sy'n cefnogi'r dyheadau sydd gennym i fuddsoddi ymhellach mewn datgarboneiddio tuag at ein nod Sero Net.

Kilodunelli sy'n cyfateb i CO₂



¹ Cyfeirir at leihad mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau adeiladu yn y graff fel Carbon adeiladu, y mae Ofwat yn cyfeirio at fel Carbon Cyfalaf.

² Mae Dŵr Cymru yn disgwyl gweld lleihad sylweddol yn ei allyriadau carbon rhwng 2030 a 2040 wrth i ni droi ein fflyd yn gerbydau a bwerir gon danwydd nad yw'n danwydd ffosil, yn ogystal â manteision datrysiadau sy'n seiliedig ar natur a gwella ein daliadau tir i storio carbon deuocsid yn barhaol, sef 'atafaelau carbon'.

Disgrifiad	FY 24		FY 23	
	Yn seiliedig ar leoliad*	Yn seiliedig ar y farchnad*	Yn seiliedig ar leoliad	Yn seiliedig ar y farchnad
pob gwerth mewn Kilodunelli o allyriadau sy'n cyfateb i CO ₂				
Allryriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol blynyddol gros				
(i) Allyriadau Cwmpas 1				
Allryriadau uniongyrchol o losgi tanwyddau ffosil (gan gynnwys gwres a phŵer cyfunol a gynhyrchir ar y safle)	14.1	14.1	12.9	12.9
Allryriadau proses ac allyriadau sy'n ffoi	40.6	40.6	41.9	41.9
Trafnidiaeth: Cerbydau sy'n eiddo i'r cwmni neu gerbydau a brydlesir	7.4	7.4	7.7	7.7
(ii) Allyriadau cwmpas 2				
Trydan a brynir**	91.6	0.2	90.7	11.9
Gwres a brynir	0.0	0.0	0.0	0.0
Cerbydau trydan	0.0	0.0	0.0	0.0
Tynnu trydan a ddefnyddir i wefru cerbydau trydan ar y safle	0.0	0.0	0.0	0.0
(iii) Allyriadau cwmpas 3				
Teithio busnes ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn cerbydau preifat a ddefnyddir at ddibenion busnes y cwmni	0.7	0.7	0.8	0.8
Gweithgareddau a allanolir (os nad ydynt wedi'u cynnwys yng Nghwmpas 1 neu 2) Ynni ac arall	9.4	9.4	6.7	6.7
Trydan a brynir (trawsyrru a dosbarthu)	27.3	7.9	8.3	8.3
Cemegion***	28.8	28.8	n/a	n/a
Gwres a brynir – trawsyrru o dosbarthu	0.0	0.0	0.0	0.0
Allryriadau gweithredol gros	219.9	109.1	169.0	90.2

* Mae ffactorau sy'n seiliedig ar leoliad yn helpu sefydliadau i fesur eu heffaith o fewn lleoliadau ffisegol lle maent yn gweithredu, ac mae dull sy'n seiliedig ar y farchnad yn cyfrif am gymhlethdodau a goblygiadau penderfyniadau prynu.

** Rydym wedi newid ein dull o gofnodi ein hallyriadau carbon Cwmpas 2 er mwyn adewyrchu'r ynni wedi'i gefnogi gan Warant Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO) rydym yn ei brynu yn fwy cywir.

*** Rydym yn mynd i'r afael â diffyg data hanesyddol gan gyflenwyr ynglŷn â'r ffynhonnell hon o allyriadau drwy gynnwys yr allyriadau hyn am y tro cyntaf y flwyddyn hon ac yn y dyfodol fel rhan o'n gwaith parhaus i nodi'r holl allyriadau sy'n gysylltiedig â'n cadwyn gyflenwi gyfan.

CYNALIADWYEDD AC AMCANION ACLI PARHAD



Diogelu'r Amgylchedd


Amcan ACLI 2 – Carbon Sero Net – parhad

Rydym yn falch o'n record o hunangynhyrchu cyfran sylweddol o'r ynni a ddefnyddiwn yn ein gweithrediadau. Mae hyn yn ganolog i'n huchelgeisiau i leihau ein hallyriadau carbon a gwella ein cydnerthedd drwy ddod yn ynni niwtral yn 2050, drwy gynhyrchu digon o ynni i ddarparu ein gwasanaeth hanfodol i gwsmeriaid. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i gadw biliau ein cwsmeriaid yn fforddiadwy drwy leihau ein costau gweithredu. Rydym yn defnyddio tair prif dechnoleg i gyflawni hyn, fel yr esbonnir isod. Mae'r tabl isod yn dangos ein hunangynhaliath ynni dros y pum mlynedd diwethaf a'r cynnydd graddol rydym yn ei wneud. Gwnaeth y cyfnod o sychder yn BA 22 gael effaith niweidiol ar ein gallu i gynhyrchu trydan dŵr.

Hunangynhaliath ynni dros y pum mlynedd diwethaf:

Blwyddyn Ariannol	BA 19	BA 20	FBA 21	BA 22	BA 23	BA 24
% hunangynhaliol	23%	24%	24%	22%	22%	24%

Fel y'i nodwyd yn Dŵr Cymru 2050, rydym wedi pennu targedau interim i gynyddu faint o ynni rydym yn ei gynhyrchu ein hunain fel a ganlyn:



Mae rhai enghreifftiau penodol o'n sylfaen asedau adnewyddadwy yn dilyn:

Solar Ffotofoltäig Gwaith Trin Dŵr Alaw

Beth ydyw?

Mae ynni solar ffotofoltäig yn defnyddio nifer o baneli i droi heulwen yn drydan.

Sut mae'n gweithio?

Mae heulwen yn creu adwaith cemegol y tu mewn i'r panel sy'n rhyddhau trydan



Gwaith Trin Dŵr Bolton Hill



Dangosir y gwaith trin dŵr hwn isod. Mae'r system solar ffotofoltäig hon mewn cae wrth ymyl y gwaith trin dŵr yn Sir Benfro. Mae'r allbwn ynni blyneddol yn disodli trydan a fyddai fel arall yn creu ôl troed carbon o tua 50 tonnelli, yn ogystal â phweru ein gwaith trin dŵr.

Treulio Anerobig



Beth ydyw?

Drwy dreulio slwtsh carthion o'n gweithfeydd trin dŵr mewn tanciau heb ocsigen mae hyn yn gadael i facteria droi'r slwtsh yn nwy llawn methan.

Sut mae'n gweithio?

Caiff y nwy ei losgi yn ein peiriannau a'n boeleri i gynhyrchu gwres a thrydan i bweru prosesau'r safle.


Cronfa Ddŵr Caban Coch

Cronfa Ddŵr Caban Coch yn y canolbarth. Mae'r adeiladau i'r gogledd ac i'r de o afon Elan yn cynnwys generadur trydan dŵr sy'n defnyddio dŵr o'r gronfa. Mae'r ddau dyrbin hyn yn cynhyrchu digon o drydan i bweru ~1,500 o gartrefi ac maent yn disodli trydan o'r grid sy'n cyfateb i 360 tonnelli o allyriadau carbon deuocsid bob blwyddyn.

Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pum Rhyd

Canolfan trin slwtsh Dŵr Cymru yw gwaith trin dŵr gwastraff Pum Rhyd ger Wrecsam, sy'n defnyddio sawl technoleg ynni glân. Mae'r safle yn prosesu tua 100,000 o ddŵr gwastraff pobl bob blwyddyn yn ogystal â thrin y slwtsh a gynhyrchir o bob rhan o'r gogledd. Mae'r broses drin hon yn defnyddio hydrolysis thermol (ffwrn pwysedd ager) i basteureiddio slwtsh carthion a'i wneud yn ddiogel i'w ailgylchu i'w ddefnyddio ar ffermdir yn ogystal â helpu i ddadelfennu bacteria i gynhyrchu nwy methan yn y systemau treulio ar y safle. Defnyddir y bionwy hwn mewn peiriannau gwres o phŵer cyfun a'r cyfleuster biofethan i'r grid. Caiff y biofethan a gynhyrchir ei fwydo i mewn i'r grid nwy a'i ddefnyddio at amrywiol ddefnyddiau domestig a diwydiannol. Mae'r nwy a gynhyrchir yn cyfateb i anghenion gwresogi dros 2,500 o gartrefi ac mae'n disodli nwy naturiol sydd ag ôl troed carbon o fwy na 7,000 o dunelli y flwyddyn.

Generaduron trydan dŵr



Beth ydyw?

Mae generaduron trydan dŵr yn creu ynni o ddŵr sy'n llifo.

Sut mae'n gweithio?

Olwynion dŵr modern yw tyrbinau dŵr yn y bôn. Maent yn defnyddio pwysedd a llif dŵr i gynnig grym troi i yrru generaduron, sy'n cynhyrchu trydan.

CYNALIADWYEDD AC AMCANION ACLI PARHAD



Diogelu'r Amgylchedd

Amcan ACLI 3 – Addasu ein hasedau a'n gwasanaethau er mwyn lliniaru'r risg o newid yn yr hinsawdd

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddwyd ein hadroddiad ar Ymaddasu i Newid Hinsawdd – gweler Ein cynlluniau | Dŵr Cymru (dwrcymru.com). Cydnabu'r adroddiad y farn a arddelwyd gan lower ers amser maith bod newid yn yr hinsawdd yn fygythiad dirfodol byd-eang. Mae dŵr ar y rheng flaen o ran effeithiau newid yn yr hinsawdd – p'un a yw'n ysgogi cyfnodau sych hwy, stormydd, llifogydd, neu godiad yn lefel y môr sy'n peri i gymunedau fynd dan ddŵr. Mae gwneud popeth y gallwn i ymaddasu i heriau newid yn yr hinsawdd, fel y gallwn barhau i ddarparu gwasanaethau fforddiadwy a chydnerth, yn un o'n prif gyfrifoldebau ac yn flaenoriaeth gynyddol i'n cwsmeriaid. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd. Ein llywodraeth oedd y gyntaf yn y byd hefyd i amlinellu mewn ddeddfwriaeth Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n sicrhau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir gan gyrff cyhoeddus heddiw fod yn briodol i'n plant a'u plant hwythau, a'r genhedlaeth nesaf hefyd. Roedd ein Gwledigaeth ar gyfer 2050, sy'n cydfynd yn agos â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Nodau Cynaliadwydd y CU, yn nodi ein diben fel "darparu dŵr yfed a gwasanaethau amgylcheddol o ansawdd uchel, sy'n darparu gwell gwerth am arian, er mwyn gwella llesiant ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol". Felly, mae'n hollbwysig i ni fel busnes ein bod yn ymaddasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn eu lliniaru os ydym am gyflawni ein Gwledigaeth a'n Diben.

Mae llifogydd diweddar a digwyddiadau tywydd sych yng Nghymru a ledled y byd wedi ein hatgoffa o'r dinistr y mae ein tywydd cyfnewidiol eisoes yn ei achosi. Yn ôl y wyddoniaeth, bydd digwyddiadau fel y rhain yn parhau i gynyddu a dwysáu wrth i'n byd gynhesu. Fel y prif ddarparwr gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru, rydym yn bwrw ymlaen â'n hagenda wyddonol a'n hagenda arloesi er mwyn cefnogi ein huchelgeisiau i fod yn sero net, a hefyd i addasu ein sylfaen asedau i ateb yr heriau sydd eto i ddod.

Mae'r rhagolygon o ran hinsawdd y byd yn edrych yn ddu, ac ni fyddwn yn gwingo rhag sicrhau ein bod yn lleihau ein hallyriadau i gyflawni ein targed sero net ar gyflymder y gall ein cwsmeriaid ei fforddio neu'n gwneud ein hasedau yn fwy cydnerth o ran yr hinsawdd drwy ddefnyddio'r wyddoniaeth a'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn sicrhau y gall ein gwasanaethau barhau'n ddi-dor. Ar yr un pryd, rhaid i ni fod yn ymwybodol o fforddiadwydd gwasanaethau i'n cwsmeriaid, yn enwedig mewn cyfnod o galedi a chryn ansicrwydd ariannol. Fel cwmni heb gyfranddalwyr, gallwn gael ein harwain gan yr hyn sydd er budd pennaf ein cwsmeriaid a'r amgylchedd yn unig.

Ond ni allwn ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd heb gefnogaeth na gweithredu gan eraill. Mae'r ffordd y mae eraill yn rheoli eu tir yn y dalgylchoedd rydym yn tynnu dŵr ohonynt yn effeithio arnom, a hefyd y ffordd y mae eraill yn rheoli'r broses o ddraenio dŵr wyneb sy'n llifo i mewn i'n system garthffosiaeth. Mae gweithio mewn partneriaeth â'n llywodraeth, awdurdodau lleol a pherchnogion tir yn allweddol o hyd i'n cynlluniau i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd drwy ddulliau fforddiadwy. Un peth sy'n sicr, heb gefnogaeth ein partneriaid yn y Llywodraeth, ein rheoleiddwyr a'n hawdurdodau lleol, bydd paratoi ar gyfer effaith newid yn yr hinsawdd ac ymateb iddi yn heriol iawn. Gyda'n gilydd fel 'Tîm Cymru', drwy baratoi'n dda, ac yna ddarparu'r seilwaith newydd cadarn sydd ei angen arnom, rydym yn hyderus y gallwn ymaddasu a bodloni'r gofynion a osodir arnom am bris y gall ein cwsmeriaid ei fforddio.

Mae ein cynlluniau newid yn yr hinsawdd ar gyfer AMP8 (2025-2030) ar gyfer ymaddasu yn canolbwyntio ar weithgareddau a buddsoddiadau 'heb anfanteision/heb fawr ddim anfanteision'. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau gollyngiadau dŵr; cynyddu mesuryddion cwsmeriaid; helpu cwsmeriaid i leihau faint o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio; diogelu ansawdd dŵr a gwella bioamrywiaeth; buddsoddi mewn systemau draenio

trefol cynaliadwy pellach ac atebion sy'n seiliedig ar natur, a sbarduno datblygiadau arloesol a thechnoleg. Byddwn hefyd yn ymgymryd â gwaith monitro amgylcheddol a chynllunio asedau helaeth, er mwyn ennyn mwy o hyder yn y ddau brif adnodd a ddefnyddiwn i gynllunio ar gyfer y tymor hwy – ein cynlluniau rheoli systemau draenio a dŵr gwastraff a'n cynlluniau rheoli adnoddau dŵr.

Mae ein cynlluniau ar gyfer AMP8 hefyd yn cynnwys cryn fuddsoddiad mewn meysydd lle mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o gael effaith sylweddol ar wasanaethau, gan gynnwys mynd i'r afael â gorlif stormydd, gwella'r ffordd y caiff dŵr gwastraff ei drin, a gosod prif bibellau newydd yn lle rhai sy'n torri'n amlach mewn amodau sych, poeth. Rydym wedi dechrau ar daith i'n gwneud yn fwy cydnerth, ac rydym yn falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni. Mae llawer mwy i'w wneud, ac er mwyn i ni allu mabwysiadu dull addasadol, byddwn yn monitro ein cynnydd, gan gynnwys diweddarau ein Hadroddiad Ymaddasu i Newid Hinsawdd o leiaf bob pum mlynedd.

Erbyn y fersiwn nesaf o'r Adroddiad hwn ar Ymaddasu i Newid Hinsawdd yn 2027, edrychwn ymlaen at fod mewn sefyllfa well i'w gwneud yn llai tebygol y bydd angen strategaethau addasadol. Bydd gennym fodelau gwell i ragweld yr hinsawdd yn y dyfodol, a sut y bydd ein hasedau yn ymateb i hynny, a byddwn wedi datblygu technolegau newydd ac wedi'u rhoi ar waith i'n helpu i ddod o hyd i atebion fforddiadwy i'r her hon i'n cwsmeriaid a chymdeithas.

Gall newid yn yr hinsawdd effeithio ar ansawdd dŵr afonydd mewn sawl ffordd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r map ar y dudalen gyferbyn yn dangos statws ecolegol mwyaf diweddar afonydd yng Nghymru a Lloegr, sy'n dangos yn glir y gyfran uwch o afonydd yng Nghymru sydd wedi'u dosbarthu'n 'ddda' neu'n 'uchel'.

Ansawdd Dŵr ein Hafonydd yng Nghymru

Mae gwella ansawdd dŵr afonydd, fel gyda llawer o'n rhaglenni buddsoddi, yn ymrwymiad hirdymor ac, fel arfer, bydd buddiannau'n ymddangos dros gyfnod o flynyddoedd yn hytrach na misoedd. Cyrhaeddodd 45% o'n hafonydd yng Nghymru statws ecolegol "da" yn 2021, o gymharu â 27% yn 2009.




Gallwch ddarllen mwy am ein maniffesto ar gyfer Afonydd a Stormydd ar ein gwefan <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment>

Statws ecolegol

Y dosbarthiad diweddaraf

- Gwael iawn
- Gwael
- Cymedrol
- Da
- Uchel



ffynhonnell: <https://www.theguardian.com/environment/ng-interactive/2023/sep/12/unacceptable-how-raw-sewage-has-affected-rivers-in-england-and-wales-in-maps>

Astudiaeth Achos



Gwella gwelyau gro islaw ein hargaeau uwch, mawr.

Pan gaiff ein hargaeau eu hadeiladu gall hynny gynnwys argáu nifer o gyrsiau dŵr, sy'n creu rhwystr sy'n atal gro rhag symud yn naturiol i lawr yr afon, rhywbeth sydd fel arfer yn cynnig cynefin silio hanfodol i bysgod ac sy'n hyrwyddo ansawdd dŵr afon.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae ein Tîm Adnoddau Dŵr wedi ymchwilio i nodweddion gwaddodion afonydd i fyni'r afon o gronfa ddŵr Llwyn-on, cronfa ddŵr Pontsticill a chronfa ddŵr Tal-y-bont. Gan weithio gydag Ymddiriedaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru a Sefydliad Gwy ac Wysg, nodwyd gennym ble y byddai cyflwyno gro yn fuddiol i gynefin pysgod. Gosodwyd rhwydi gro a phlatiau pwysedd yn yr afonydd i gasglu samplau o ro a rhoi amcangyfrif o faint o ro, a maint y gro, a fyddai'n teithio'n naturiol ar hyd gwely'r afon.

Drwy gydgyssylltu'n agos â'r Ymddiriedaeth Afonydd, nodwyd ffynonellau o ro a oedd yn addas i'w ailgyflwyno yn yr afonydd islaw ein cronfeydd dŵr, o ailddefnyddiwyd yn bennaf o safleoedd tirlithriad mewn nentydd mynyddig neu o glirio sianeli afonydd. Cafodd y gro ei brofi, ei lanhau a'i ddidoli er mwyn sicrhau mai dim ond y rhan fuddiol oedd yn weddill, ac yna cafodd ei ailgyflwyno i'r afon cyn y llifau afon uwch a fydd yn gwasgaru'r gro i lawr yr afon, gan greu gwelyau gro naturiol.

Bydd arolwg dilynol o welyau'r afon yn cadarnhau a oedd y gwaith ychwanegu gro wedi llwyddo. Rydym yn disgwyl y bydd arolygon o infertebratau a physgod yn y dyfodol yn dangos manteision ecolegol y gwaith hwn.

CYNALIADWYEDD AC AMCANION ACLI PARHAD



Darparu Gwasanaethau

Amcan ACLI 4 – Buddiannau diriaethol i gwsmeriaid

Prosiect Cymunedau Cydnherth o ran Dŵr

Gwnaethom gwblhau ein gwaith Cymunedau Cydnherth o ran Dŵr yng Nghasnewydd yn ddiweddar, gyda gwaith paratoi yn mynd rhagddo i ganolbwyntio ar ardal brosiect newydd. Mae'r prosiect hwn, sy'n seiliedig ar le ac sy'n targedu rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, yn dwyn ynghyd sawl gwasanaeth mewn ymdrech integredig. Roedd y prosiect yn cynnwys partneriaeth â'r fenter gymdeithasol Grow Social Capital, sydd wedi datblygu ein dull o lunio partneriaethau a arweinir gan werthoedd ac wedi gwneud gwaith cymunedol y prosiect yn fwy pwrpasol.

Rydym wedi parhau mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys darparu dyfeisiau arbed dŵr am ddim, apwyntiadau gollyngiadau toiled, presenoldeb mewn digwyddiadau i gefnogi cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu bil, a chymorth wyneb yn wyneb i gwsmeriaid mewn ôl-ddyledion.

Ymhlith y gweithgareddau mwyaf nodedig y flwyddyn hon mae'r canlynol:

- ymwelodd ein timau i Gwsmeriaid mewn Sefyllfa Fregus a Cartref (Effeithlonrwydd Dŵr), mewn partneriaeth â Newport City Homes, â naw cyfadeilad i roi cymorth gyda chynhyrchion Ffitrwydd Dŵr;
- rhoddodd ein tîm Addysg gymorth llythrennedd i oedolion i westeion digartref yng Nghanolfan Eden Gate yng Nghasnewydd;

- gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith i hyrwyddo digwyddiad cyfleoedd gyrfu.

Wrth i ni symud ein ffocws i'r 'lle' nesaf, bydd y prosiect hwn yn parhau i herio cydweithwyr i fyfrio ar y ffordd y maent yn cefnogi cymunedau, yn darganfod ffyrdd arloesol o sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r gymuned – a chymhwyso'r gwersi a ddysgwyr y tu hwnt i'r prosiect.

Cyflwyno'r Rhaglen Addysgol BA 24

Mae ein rhaglen addysgol yn cynnig sesiynau cyfoethogi, llawn gwybodaeth ac ymarferol i helpu i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n cwmpasu amrywiaeth o themâu ynglŷn â'r amgylchedd a chynaliadwyedd, yn ogystal â phynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), ac mae galw mawr o hyd am ein darpariaeth am ddim. Mae'r profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau sy'n rhan o'n sesiynau allgymorth i ysgolion a'n sesiynau addysg mewn canolfannau yn golygu bod ein darpariaeth yn uchel ei pharch ymhlith ysgolion a disgyblion.

Mae dros 75,000 o ddisgyblion wedi cymryd rhan yn un o'n sesiynau mewn mwy na 500 o ymweliadau ag ysgolion – ac mae ein Tîm Addysg wedi treulio dros 1,000 o oriau gyda disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r cynnwys, sy'n cael ei greu a'i gyflwyno gan athrawon cymwysedig, yn defnyddio cyfuniad o sesiynau yn yr awyr agored, yn yr ystafell ddosbarth, mewn gwasanaethau ysgol ac ar-lein er mwyn sicrhau cymaint o effaith ac amrywiaeth â phosibl.

Mae gweithio mewn partneriaeth a sesiynau ar-lein yn parhau'n rhan allweddol o'n strategaeth, sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael y budd mwyaf posibl o'n cymorth addysgol. Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â menter Eco-Sgolion Cymru Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfres o sesiynau rhyngweithiol ar-lein, sy'n cael eu ffyrddio ar yr un pryd i mewn i ystafelloedd dosbarth bob tymor, ac sy'n cyrraedd bron 2,000 o ddisgyblion. Rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda Groundwork Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru – gan ddefnyddio presenoldeb athrawon mewn ysgolion i hybu negeseuon allweddol ac ychwanegu ar yr hyn a ddysgir yn y cwricwlwm. Mae'r tîm hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Eden Gate yng Nghasnewydd y flwyddyn hon ar raglen rhifedd a llythrennedd sy'n cefnogi gwesteion sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref.

Caiff ansawdd ein gwasanaeth ac effaith ein rhaglen addysgol eu cofnodi drwy werthusiadau athrawon.

“FFANTASTIG – DIOLCH YN FAWR. ROEDD Y PLANT WEDI YMROI'N LLWYR I'R TASGAU A DOEDDEN NHW DDIM AM I'R SESIWN DDOD I BEN. CYFLEOEDD ARDDERCHOG I GYDWEITHIO. BORE GWYCH A PHROFFESIYNOL. DIOLCH!.



Ysgol Gynradd Saundersfoot

Astudiaeth Achos

Gorllewin Cymru (Gwasanaethau Dŵr Gwastraff)

Rydym yn bwriadu buddsoddi tua £20 miliwn i adeiladu gwaith trin dŵr gwastraff newydd yn Aberteifi er mwyn ein helpu i newid y broses drin i sicrhau y bydd y safle yn gweithredu'n fwy effeithlon i ymdopi'n well â'r mewnlifiad o dŵr hallt o'r afon lanwol.

Gan y bydd angen i'n gwaith trin newydd gael caniatâd cynllunio ac y bydd angen ehangu'r safle, rydym yn bwriadu dechrau ar ein gwaith i'w adeiladu yn Aberteifi o fis Ebrill 2025 a disgwylw'n i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2027. Cyn dechrau ar y gwaith hwn, rydym wedi bod yn cynnal ymchwiliadau daear yn y gwaith trin yn Aberteifi er mwyn ein helpu i gynllunio'r safle

newydd ac, yn y cyfamser, rydym wedi gosod proses drin ychwanegol i'w helpu i ymdopi'n well yn ystod amodau storm. Cafodd ei gosod ym mis Hydref 2023 a bydd yn ei lle nes ein bod wedi cwblhau'r gwaith trin newydd yn Aberteifi.

Drwy gydol y broses o gynllunio'r gwaith hwn, rydym wedi ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol, grwpiau ymgyrchu lleol dros ansawdd dŵr afonydd a'r gymuned ehangach, yn ogystal ag anfon llythyr at drigolion Aberteifi am ein cynlluniau i adeiladu gwaith trin dŵr gwastraff newydd yn y dyfodol agos.

Astudiaeth Achos

De Cymru
(Gwasanaethau Dŵr Gwastraff)

Rydym wrthi'n buddsoddi £9 miliwn i uwchraddio'r gwaith trin dŵr gwastraff yn Aberhonddu. Mae'r ardal yn gwasanaethu dalgylch Aberhonddu ar hyn o bryd, ond yng ngoleuni'r twf arfaethedig sylweddol, a'r ffaith bod y gwaith presennol yn prosesu cymaint ag sy'n bosibl, bydd y buddsoddiad nid yn unig yn golygu y bydd yn ehangu i gefnogi'r datblygiadau hyn ond bydd hefyd yn gwella'r ffordd y caiff dŵr gwastraff ei drin ac yn lleihau lefel y ffosfforws a ryddheir i mewn i Afon Wysg.

Dechreuodd y prosiect ym mis Tachwedd 2022, gan ehangu ym mis Gorffennaf 2023 pan sefydlwyd tim mwy o faint i hwyluso'r gwaith adeiladu. Drwy gydol y prosiect, rydym wedi ymgysylltu â'r gymuned drwy gylchlythyrau, sesiynau â fan gymunedol a gynhaliwyd yng nghanol y dref, wedi mynd i Sioe Sirol Aberhonddu ac wedi croesawu rhanddeiliaid gwleidyddol i fynd ar daith o'r safle i weld y gwelliannau sy'n cael eu gwneud. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ar hyn o bryd yn ystod haf 2024.

Astudiaeth Achos

De Cymru
(Gwasanaethau Dŵr Gwastraff)

Yn ystod tywydd gwlyb iawn, gall rhannau o'r rhwydwaith gwastraff yng Ngwersyllt, Wrecsam gael eu gorlethu weithiau sy'n golygu bod eiddo lleol mewn perygl o fynd dan ddŵr. Yn 2023, gwnaethom gwblhau cynllun gwerth £2 filiwn i helpu i ddiogelu cartrefi yn yr ardal rhag llifogydd a hefyd i ddiogelu'r amgylchedd lleol yn ystod glaw trwm.

Yn ystod y prosiect 6 mis, roedd gwaith ar y safle yn cynnwys gosod pibellau ychwanegol yn y rhwydwaith gwastraff i greu manau storio ychwanegol yn y system yn ystod glaw trwm a hefyd addasiadau i danc storio danddaearol a oedd yn bodoli eisoes. Gosodwyd pibellau newydd mewn sawl lleoliad gwahanol, gan gynnwys maes chwarae ysgol gynradd, yn ogystal â ffordd leol a oedd yn golygu bod angen cau ffordd o dan linell reilffordd am gyfnod byr, a oedd yn gofyn am gyfathrebu'n fanwl â'r rhai yr effeithiwyd arnynt. Er bod y tim wedi wynebu heriau megis y tywydd a gweithio'n unol â therfynau amser tynn yn ystod gwyliau'r ysgol, cafodd y prosiect ei gwblhau'n gynnar.

Astudiaeth Achos

De Cymru (Gwasanaethau Dŵr)

Ym mis Hydref 2023, gwnaethom gwblhau prosiect buddsoddi gwerth £10 miliwn i uwchraddio'r pibellau dŵr yng Nghwm Rhymni. Gan weithio gyda'n partneriaid, roedd hyn yn golygu gosod 17 km o bibellau dŵr yn Rhymni, Bargoed a Deri a gweithio ar dopograffi heriol iawn weithiau.

Ers 2020, mae tim y prosiect wedi cymryd rhan mewn amrywiol ddigwyddiadau gwirfoddoli, yn amrywio o gefnogi elusen leol dros iechyd dynion i helpu clwb gwyliau'r ysgol yn yr ardal leol i drefnu diwrnodau celf a chrefft. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â mwy na 3,175 o ddisgyblion ysgol yn yr ardal ac wedi cefnogi rhaglen "Get Into Construction" Prince's Trust.

Ers dechrau'r prosiect, cefnogodd y tim y banc bywyd lleol, gan roi mwy na £6,900 a chododd cydweithwyr arian hefyd i gefnogi'r rhai mewn angen dros y Nadolig.

Astudiaeth Achos

Gorllewin Cymru
(Gwasanaethau Dŵr Gwastraff)

Rydym wrthi'n buddsoddi £5.5 miliwn i uwchraddio'r gwaith trin dŵr gwastraff yn Spittal, Sir Benfro, er mwyn helpu i wella ansawdd dŵr yn afon Cleddau. Mae eisoes yn trin y dŵr gwastraff sy'n dod o'r ardal gyfagos i safon uchel, a bydd y gwaith uwchraddio arfaethedig yn golygu y bydd y broses drin hyd yn oed yn well.

Bydd y gwaith paratoi yn dechrau cyn y Nadolig ac fel rhan o'r prosiect bwriedir cyflwyno proses sy'n cael gwared ar ffosffadau yn y dŵr gwastraff a drinnir. Gall ffosffadau achosi blwm algoidd felly drwy gael gwared ar ffosffadau yn y dŵr gwastraff a drinnir, bydd hyn yn helpu i leihau lefelau yn afon Cleddau gerllaw – a fydd, yn ei dro, yn fuddiol o ran ansawdd yr afon a'i bywyd dyfrol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o'n buddsoddiad arfaethedig gwerth £16 miliwn i wella ansawdd dŵr yn afon Cleddau erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Mae'r gweithfeydd trin eraill a fydd yn cael eu huwchraddio yn nalgylch ehangach Cleddau yn cynnwys Treletert (£3.9m), Rosemarket (£1m) a Chasblaidd (£6.5m).

CYNALIADWYEDD AC AMCANION ACLI PARHAD



Darparu Gwasanaethau

Amcan ACLI 5 – Fforddiadwyedd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan weithio gydag asiantaethau cyngor ar ddyledion, rydym wedi datblygu amrywiaeth o becynnau cymorth ariannol i helpu 130,000 o gwsmeriaid mewn sefyllfa fregus sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau. Mae ein cynllun cymorth diweddaraf, Cymuned, wedi'i anelu at roi cymorth dros dro i gwsmeriaid preswyl mewn gwaith i dalu eu biliau dŵr. Cyn i ni lansio Cymuned, nid oedd aelwydydd mewn gwaith fel arfer yn gymwys i gael cymorth ariannol gan Dŵr Cymru, ond drwy'r cynllun gallwn roi cymorth byrdymor os bydd bil yr aelwyd yn fwy na'i hincwm. Hwn yw'r unig gynllun o'i fath a gynigir yn y sector, ac rydym wedi ei ehangu yn ystod BA 24 ar ôl ei lansio ar ddiwedd 2023.

Nod ein hymgyrch 'Yma i Chi' yw codi ymwybyddiaeth o'r cymorth ariannol a gynigir gan Dŵr Cymru a hefyd ddileu'r rhwystrau canfyddedig sy'n atal cwsmeriaid rhag cysylltu os ydynt yn wynebu anawsterau.

Astudiaeth Achos

Enghraifft o HelpU

"dim ond eisiau helpu oedden nhw..."

Un o'n cynlluniau mwyaf poblogaidd yw tariff HelpU. Mae hwn yn helpu aelwydydd incwm isel ar sail prawf modd drwy gapio'r swm y maent yn ei dalu am eu dŵr, a hynny'n seiliedig ar faint o bobl sy'n byw yn yr eiddo.

“YN YSTOD APWYNTIAD YN Y GANOLFAN GWAITH DYWEDODD CYNGHORYDD WRTHA I FOD RHYWUN O DŴR CYMRU YNO I HELPŲ CWSMERIAID GYDA'U BIL. AR Y DECHRAU, AM FY MOD I'N GWYBOD FY MOD I MEWN DYLED GYDA FY MIL DŴR, ROEDDWN I'N POENI AM SIARAD Â RHYWUN O DŴR CYMRU. ROEDDWN I'N DIFARU WEDYN FY MOD I HEB WNEUD HYNNY LAWER YNGHYNT.”

“AETH JODY, [CYNGHORYDD HYRWYDDIADAU DŴR CYMRU], DRWY'R OPSIYNAU A ALLAI FOD AR GAEL I MI AR ÔL EDRYCH AR FY INCWM, A DYWEDODD, 'GALLWN EICH HELPŲ'. GWNAETH FY HELPŲ I GAEL GOSTYNGIAD O £500 AR FY MIL DRWY DREFNU TARIFF HELPŲ I MI A THRŴY EI GWNEUD YN HAWS I MI WNEUD FY NHALIADAU FEL Y GALLAF GLIRIO FY NYLED. BYDD HYN YN GWNEUD GWAHANIAETH MAWR I FY NHEULU, AC RWY'N DIFARU FY MOD I HEB SIARAD Â DŴR CYMRU YNGHYNT; DOEDDEN NHW DDIM YN FEIRNIADOL. DIM OND EISIAU HELPŲ OEDDEN NHW. GALLWN FOD WEDI OSGOI LLAWER O STRAEN.”



Amcan ACLI 6 – Ymgysylltu â'n Cwsmeriaid

Rydym yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid yn rheolaidd yn yr hirdymor, drwy waith ymchwil a grwpiau ffocws, ein grantiau cronfa gymunedol a rhaglenni Cymunedau Cydnerth o ran Dŵr. Mae disgwyliadau cwsmeriaid yn newid ac yn datblygu, ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn bodloni'r disgwyliadau hyn a chanolbwyntio ar y llwybr i gyflawni'r nodau hirdymor a bennwyd gennym yn Dŵr Cymru 2050 ar yr un pryd. Rydym wrthi'n datblygu polisi Caffael Cynaliadwy, a fydd yn sicrhau buddiannau i gymunedau drwy gadwyn gyflenwi fwy lleol. Rydym hefyd yn cyflwyno ffordd o gynllunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ar gyfer gwneud gwelliannau i wasanaethau cwsmeriaid, ac yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a chwsmeriaid ar brosiectau fel menter Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog.

Rydym yn casglu data drwy ein rhyngweithio arferol â chwsmeriaid ac yn ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill mewn ffyrdd gwahanol drwy'r amser. Mae'r wybodaeth a gawn drwy ymgysylltu o'r fath yn llywio ein penderfyniadau a'n blaenoriaethau busnes o ddydd i ddydd. Mae ein gweithgareddau

ehangach i ymgysylltu â chwsmeriaid yn cynnwys:

Ymchwil ad hoc: ymchwil i gwsmeriaid a gynhelir gan asiantaethau ymchwil annibynnol at ddibenion unigol e.e. ymatebion cwsmeriaid i gyflwyno Gwaharddiadau Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr yn Sir Benfro yn ystod y cyfnod sych estynedig yn 2022.

Gwybodaeth a lywir gan ddata cwsmeriaid: mae hyn yn cynnwys yr holl ddata cyswllt â chwsmeriaid, cwynion, adborth e.e. 'Rant Rave' sy'n gofyn am adborth cwsmeriaid ar gyfer pob cyswllt ac yn ei goladu.

Ymchwil olrhain: mae'r gwaith ymchwil hwn yn monitro tueddiadau mewn pynciau allweddol dros amser e.e. mae ein harolgwr olrhain ymddiriedaeth yn monitro ymddiriedaeth, gwerth am arian a materion misol eraill.

Digwyddiadau cyhoeddus: gall ein buddsoddiad o £1 filiwn y dydd yn ein gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff mewn cymunedau achosi tarfu ac anghyfleustra i'n cwsmeriaid. Dyna pam rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i gyfathrebu â chwsmeriaid cyn dechrau'r gwaith ac rydym yn aml yn cynnal digwyddiadau cymunedol ar

gyfer cynlluniau mawr eu heffaith er mwyn esbonio'r hyn rydym yn ei wneud i gwsmeriaid, ac am faint y bydd y gwaith yn debygol o bara a sut y bydd yn effeithio arnynt.

Er mwyn helpu i lywio ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-30, comisiynwyd rhaglen helaeth o ymgysylltu â chwsmeriaid ac ymchwil a oedd yn cynnwys bron 6,000 o gwsmeriaid preswyl a mwy na 1000 o gwsmeriaid amhreswyl ar nifer o faterion megis blaenoriaethau cwsmeriaid, anghenion hirdymor a fforddiadwyedd. Gwnaethom hefyd drefnu dau ddigwyddiad 'Eich Dŵr, Eich Llais' i'r cyhoedd ym mis Ebrill a mis Tachwedd 2023 a oedd yn cynnwys sampl hunanddewisol o'n sylfaen cwsmeriaid a rhanddeiliaid. Daeth mwy na 120 o gwsmeriaid i'r ddau ddigwyddiad, a roddodd gyfle iddynt roi adborth ar gynlluniau PR24 drafft. Roedd yn cynnwys cwestiynau ar yr amgylchedd, ein rhaglen fuddsoddi a chymorth i gwsmeriaid mewn sefyllfa fregus.

Astudiaeth Achos

Cyfarfodydd Cyhoeddus Eich Dŵr, Eich Llais

Mae adborth a mewnbn ystyrlon gan ein cwsmeriaid i helpu i lywio ein gwaith cynllunio busnes hirdymor a'n penderfyniadau o ddydd i ddydd yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau yn diwallu anghenion cwsmeriaid ac yn bodloni eu disgwyliadau. Fel y gwelwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ers pandemig COVID ac yn ystod yr argyfwng costau byw, gall anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid newid dros gyfnodau cymharol fyr ac rydym yn cynnal ymchwil i gwsmeriaid a chyfarfodydd cyhoeddus wyneb yn wyneb yn rheolaidd er mwyn casglu safbwyntiau ein cwsmeriaid.

Wrth i ni baratoi ein Cynllun Busnes ar gyfer AMP8, cynhaliwyd dau gyfarfod ar-lein i'r cyhoedd (ym mis Ebrill a mis Tachwedd 2023) er mwyn omlinellu ein cynlluniau drafft ac yna sut roeddem wedi'u diwygio yn dilyn rhywfaint o'r adborth a gawsom. Cafodd y ddwy

sesiwn eu cadeirio gan gadeirydd annibynnol ac roeddent yn cynnwys cyflwyniadau gan Peter Perry, Prif Swyddog Gweithredol Dŵr Cymru ac aelodau eraill o'r Tîm Arwain. Ymunodd niferoedd da o gwsmeriaid â'r sesiynau ynghyd ag amrywiaeth o sefydliadau a oedd â diddordeb mewn gwahanol agweddau ar ein cynlluniau. Roedd cwsmeriaid yn gallu cyflwyno cwestiynau i'r cadeirydd cyn y sesiynau neu eu gofyn yn ystod y digwyddiadau eu hunain. Ymdriniwyd â llawer o bethau yn ystod y ddwy sesiwn – o'r effaith ar yr amgylchedd i fforddiadwyedd, o gyflogau swyddogion gweithredol i ansawdd dŵr, ac o leihau carbon i stocioau pysgod mewn afonydd yng Nghymru. Mae crynodebau o'r sesiynau, copïau o'r cyflwyniadau ac adroddiad ar y ffordd roedd y cwmni wedi adlewyrchu'r pwyntiau a godwyd yn ei Gynllun Busnes a gyflwynwyd i Ofwat i gyd ar gael ar ein gwefan.

CYNALIADWYEDD AC AMCANION ACLI PARHAD



Darparu Gwasanaethau

Amcan ACLI 7 – Gweithlu Amrywiol

Ein hased pwysicaf yw ein gweithlu, ac mae denu a chadw pobl sydd â'r sgiliau cywir a'r amrywiaeth o ran profiad, cefndir a nodweddion personol i ateb yr heriau y bydd ein busnes yn eu hwynebu yn y dyfodol yn flaenoriaeth allweddol. Mae ein diwylliant a'n gwerthoedd wedi'u hymgorffori ym mholisiau ein gweithle megis ein polisi ar lechyd, Diogelwch a Llesiant, ac yn cefnogi gweithle cynhwysol lle y gall cydweithwyr ymfalchïo mewn "Ennyn Ymddiriedaeth ein Cwsmeriaid Bob Dydd".

Mae pob sefydliad ond cystal â'i bobl, ac felly anelwn at recriwtio a chadw'r dalent orau. Mae talent yn wahanol i rywedd, hil a chyfeiriadedd rhywiol: mae'n golygu doniau'r unigolyn. Rydym am gael yr opêl ehangaf bosibl i dalent o bob math a daw hyn o gael ein cydnabod yn allanol fel diwylliant cynhwysol lle mae pobl yn cael eu gwerthfawrogi am bwy ydynt a beth ydynt. Mae angen i'n holl bobl gydnabod o gwerthfawrogi'r diwylliant hwnnw drwy eu profiad bywyd fel y byddwn yn siarad â'u ffrindiau a'u cymunedau ac yn lledaenu'r neges bod Dŵr Cymru yn lle gwych i weithio ynddo.

Yn hanesyddol, mae'r sector dŵr wedi cyflogi gweithlu gwyn, gwrywaidd yn bennaf. Felly, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar wella ein hamrywiaeth o ran rhywedd, LHDCT+, pobl anneuaid, hil, anabledd, cefndir cymdeithasol a mwy, er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn yn well.

Mae ein gwaith i atgyfnerthu'r diwylliant hwn yn parhau i gael ei gefnogi drwy'r canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Monitro cynnydd drwy ddefnyddio data ansoddol a meintiol i nodi lle mae rhwystrau yn bodoli ac i ddangos effeithiau ein hymyriadau fel y gallwn wneud addasiadau priodol pan fo eu hangen.
- Defnyddio grwpiau rhwydwaith a arweinir gan gyflogion a'n Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel llwyfan i gael adborth a gwneud gwelliannau.
- Penodi llysgenhadon dros bob nodwedd warchodedig
- Annog staff i hunanddatgan nodweddion perthnasol er mwyn cefnogi dull gweithredu a lywir gan ddata ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yn ychwanegol at ein rhaglenni mewnol a gefnogir gan y dulliau gweithredu a amlinellir uchod, rydym wedi parhau i ddatblygu ein cydberthnasau allanol â sefydliadau, gan gynnwys

- Sgiliau Ynni a Chyfleustodau
- Busnes yn y Gymuned
- Stonewall Cymru
- Mahogany Inclusion Partners
- Menywod mewn Gwyddoniaeth a Pheirianneg

Mae ein partneriaeth lwyddiannus â Phrifysgol De Cymru yn parhau i gyflwyno ein rhaglen Rhwydwaith75 sy'n cyfuno lleoliad gwaith ac ostudio rhan-amser fel llwybr tuag at radd.

Rydym wedi penodi 46 o brentisiaid a hyfforddeion y flwyddyn hon, sy'n rhagori ar ein targed mewnol, a bwriadwn gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer BA 25.

O ran y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gweler yr Adroddiad ar gydnabyddiaeth ar dudalen 132.

Rydym wedi cynyddu cyfran y staff sy'n hunanddatgan nodweddion personol i 80%, sy'n golygu bod ein data bellach yn ddigon cadarn i gofnodi ein bwlch ethnigrwydd am y tro cyntaf (gweler ein hadroddiad ar gydnabyddiaeth). Bydd y data hyn hefyd yn rhoi gwell sylfaen dystiolaeth i ni ar gyfer datblygu mentrau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y dyfodol.

Metrigau eraill a ddewiswyd o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Menywod a benodir i uwch rolau yn BA 24 = 6 (BA 23 = 7)

Llif uwch dalent ar gyfer darpar benaethiaid gwasanaeth, cyfran sy'n fenywod BA 24 = 40% (BA 23 = 35%)



Diogelu'r Amgylchedd

Amcan ACLI 8 – Ymaddasu i Heriau'r Dyfodol

Mae Dŵr Cymru 2050 yn disgrifio ein hymrwymiad i gynllunio ar gyfer yr hirdymor, gan ragweld y risgiau a'r cyfleoedd sy'n codi ac ymateb yn rhagweithiol iddynt¹. Drwy hyn gallwn ymateb mewn ffordd sy'n amserol, yn effeithiol, ac yn fforddiadwy.

Fel y nodir yn yr adolygiad o Dŵr Cymru 2050 i'n helpu i ddatblygu ein cynllun busnes ar gyfer AMP8, credwn fod 8 tuedd allweddol sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar ddarpariaeth gwasanaethau yn yr hirdymor.

Rydym yn crynhoi yma sut rydym yn ymaddasu i'r tueddiadau hyn er mwyn cyflawni'r amcan ACLI hwn.

1. **Newid yn yr hinsawdd** – Bydd newid yn yr hinsawdd, fel y'i nodwyd yn ein hadroddiad ar Ymaddasu i Newid Hinsawdd a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023, yn arwain at ddigwyddiadau glaw mwy eithafol, sy'n debygol o arwain at risg gynyddol o lifogydd a llygredd. Rhagwelir y bydd hafau yng Nghymru yn sychach ac yn gynhesach, a allai arwain at ddiffyg cyflenwadau dŵr ac, o bosibl, fwy o alw am ddŵr².
2. **Newid o ran disgwyliadau cwsmeriaid** – Mae'n debygol y bydd disgwyliadau cwsmeriaid yn parhau i newid, gyda mwy o gwsmeriaid yn awyddus i gael gwasanaethau mwy personol a rheolaeth dros eu defnydd o wasanaethau ac yn llai parod i oddef toriadau mewn gwasanaethau. Bydd hyn yn arbennig o wir yn achos cwsmeriaid busnes.

3. **Newid amgylcheddol** – Mae ein hymchwil ni ac ymchwil eraill yn cadarnhau, er mwyn i gymdeithas ffynnu mewn ffordd gynaliadwy, fod yn rhaid i ni ddiogelu ein hamgylchedd ymhellach rhag llygredd. Gall rhywogaethau goresgynol, newid defnydd tir a risg uwch o lygredd amgylcheddol hefyd arwain at waethgu ansawdd dŵr a lleihau bioamrywiaeth. Fodd bynnag, dylai dulliau cydweithredol o ddarparu gwasanaethau ecosystem gwell arwain at ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol gwell.
4. **Diogelu seilwaith hanfodol e** – erys seilwaith sy'n heneiddio, cadwyn gyflenwi grynodedig a seiberddiogelwch yn bryderon allweddol o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Gallai datblygiadau technolegol arwain at arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn y gwaith o gynllunio, cyflwyno a gweithredu asedau newydd. Mae ein rhaglen arloesi a'n cefnogaeth i Spring – y ganolfan ragoriaeth ar gyfer arloesi y buom yn helpu ei sefydlu yn 2022 yn parhau i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn.
5. **Diogelu iechyd y cyhoedd** – mae safonau rheoliadol i ddiogelu ansawdd dŵr yfed yn parhau i dynhau. Rydym hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol yn 2023 i ddatblygu ein canolfannau gweithgarwch hamdden er mwyn cefnogi llesiant a gwerth cymdeithasol drwy hyrwyddo ffordd iachach a mwy cynaliadwy o fyw i'n cwsmeriaid.

6. **Newid mewn polisi a newid rheoleiddiol** – Disgwylir i gyflymder a graddau newidiadau mewn polisi a newid rheoleiddiol barhau i sbarduno safonau amgylcheddol ac ansawdd dŵr yfed tynnach byth.
7. **Newidiadau i strwythur yr economi** – Bydd twf yr economi ddigidol a'r economi wybodaeth yn creu cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd mwy effeithlon. Fodd bynnag, gallai hefyd achosi her i ni o ran parhau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid a bodloni eu disgwyliadau.
8. **Newid demograffig** – Bydd twf y boblogaeth yn arwain at fwy o alw am ddŵr mewn rhai ardaloedd a gallai poblogaeth sy'n heneiddio gynyddu nifer y cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus. Fodd bynnag, daw cyfleoedd i'r amlwg i ddatblygu proffil oedran mwy amrywiol yn y gweithlu.

¹ Aroddiad Ymaddasu i Newid Hinsawdd <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/our-plans>

² Dŵr Cymru 2050: Adolygu a Diweddarau. . <https://corporate.dwrcymru.com/-/media/project/files/page-documents/corporate/our-plans/water-2050/welsh-water-2050-review-and-update-2022---cymraeg.ashx>

CYNALIADWYEDD AC AMCANION ACLL PARHAD



Diogelu'r Amgylchedd

Amcan ACLI 9 – Dangos Atebolrwydd

O ystyried Diben clir ein cwmni, a ymgorfforwyd yn ein cyfansoddiad drwy ddiwygio ein Herthyglau Cymdeithasu yn 2019, rydym eisoes yn ymrwymedig i sicrhau bod Dŵr Cymru yn gweithredu er daioni yn ein holl ryngweithio â chwsmeriaid, cymunedau, perchnogion tir a datblygwyr yn ein hardal gyflenwi. O ganlyniad i'r ffocws cynyddol ar faterion ACLI a'r diddordeb cynyddol ymhlith buddsoddwyr bondiau yn ein gweithgareddau yn y meysydd hyn aethom ati i sefydlu'r Pwyllgor ACLI fel un o bwyllgorau'r Bwrdd yn 2021.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am bennu ac adolygu ein Strategaeth ACLI, adolygu ein perfformiad yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad sy'n berthnasol i faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a monitro ansawdd ein hadroddiadau corfforaethol ar y materion hyn, er mwyn sicrhau ein bod yn dilyn arferion gorau presennol a newydd yn y maes hwn. Fel rhan o hyn, rydym wedi adolygu ein trefniadau llywodraethu risg a pha mor effeithiol yw ein hystyriaeth o risgiau a chyfleodd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, ac rydym wedi defnyddio ein gwaith paratoi ar gyfer trydedd flwyddyn y Tasglu ar Ddatgeliadau sy'n gysylltiedig â'r Newid yn yr Hinsawdd er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hintegreiddio'n llawn â'n gwaith cynllunio a strategaeth hirdymor. Yn ogystal â chyflwyno adroddiadau i'r Tasglu, rydym wrthi'n adolygu fframweithiau adrodd eraill sy'n seiliedig ar natur, er mwyn gweld a allm eu defnyddio i wella ein trefniadau llywodraethu corfforaethol ar gyfer bioamrywiaeth yn benodol, a lliniaru ein holion troed amgylcheddol eraill, a sut.

Yn y cyfamser, rydym wedi gweithio'n galed i wella ein gallu i gyflwyno adroddiadau mewn amser real bron ar y ffordd y mae ein systemau gorlif storm yn gweithredu ac ansawdd dyfroedd ymdrochi yn ein hardal weithredu, gan fod yr agweddau hyn ar ein gweithrediad o ddiddordeb arbennig i'r cymunedau a wasanaethwn.

Amcan ACLI 10 – Cydwethio

Un o nodweddion amlwg Cymru yw ein gallu i weithio mewn partneriaethau agos, fel y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ei wneud o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddangos yn eu prosesau gwneud penderfyniadau yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol yn ogystal â'r presennol, a hynny er mwyn dangos eu bod yn gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'i diffiniwyd yn y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cefnogi pum ffordd o weithio yn uniongyrchol, y mae pob un ohonynt yn gyson â'n Gweledigaeth a'n safbwyntiau ynglŷn â chynaliadwyedd, er nad ydym yn gorff cyhoeddus fel y'i diffiniwyd o dan y Ddeddf.

Mae'r rhain fel a ganlyn:

- ymgymryd â datblygu cynaliadwy – sy'n rhan annatod o natur ein busnes a'n gweledigaeth;
- meddwl yn yr hirdymor – gan osgoi gweithredu byrdymor ac ystyried sut y bydd penderfyniadau yn effeithio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r genhedlaeth bresennol;
- Atal – gweithredu ar gam cynnar ac ar y cyd ag eraill i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau cyn iddynt godi neu waethygu er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i unigolion, cyrff cyhoeddus a chymdeithas yn ei chyfanrwydd;
- Integreiddio – sicrhau bod holl oblygiadau cam gweithredu yn cael eu hystyried fel y gall gweithgarwch mewn un maes gwaith gael ei lunio i ategu gweithgareddau mewn meysydd eraill yn hytrach na'u tanseilio;
- Cydwethio – gweithio gydag eraill, fel y gellir cyflawni cymaint o amcanion â phosibl drwy ddefnyddio'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael a pheidio â cheisio datrys problemau ar ein pennau ein hunain ond deall manteision cynnwys amrywiaeth mor eang â phosibl o bobl i helpu i lywio penderfyniadau a gwasanaethau a fydd yn effeithio ar eu bywydau.



CYNLLUN ADFER EPA 4 SEREN

Fel y noda datganiad y Cadeirydd a neges y Prif Swyddog Gweithredol, mae ein perfformiad o ran rhai mesurau yn is na'r safon y byddem ni ac eraill yn ei dymuno – yn benodol, mae ein gradd o dan Asesiad Perfformiad Amgylcheddol blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gostwng ers 2021, pan gyflawnwyd y radd uchaf, sef pedair seren, gennym. Rydym yn cydnabod bod ein hasesiad diweddar yn 2023, sef dwy seren, yn annerbyniol ac rydym yn benderfynol o adennill ein statws blaenorol fel cwmni sy'n arwain y diwydiant. Rydym wedi datblygu cynllun clir i wella perfformiad yn y maes hwn ac yn crynhoi rhai o'n gweithgareddau allweddol isod.

Fel gyda'n holl gynlluniau presennol, maent yn amodol ar ganlyniad proses adolygu prisiau Ofwat gan y gall hon effeithio ar ein gallu i'w fforddio, eu cyflawni a'u cyllido.

Cynllun Adfer – Ein Hymrwymadau		
Lleihau ein llygredd	Rydym yn bwriadu lleihau nifer yr achosion o lygredd o'n hasedau, a mynd i'r afael â'r asedau hynny y mae eu risg o achosi llygredd yn cynyddu. Rydym wedi cynyddu lefelau monitro asedau.	Ein nod yw lleihau llygredd i 66 ar y mwyaf erbyn 2030.
Cydymffurfiaeth o ran trin dŵr gwastraff	Byddwn yn gwella perfformiad asedau drwy fuddsoddi mewn safleoedd risg uchel a chynyddu lefelau monitro mewn safleoedd eraill.	Ein nod yw sicrhau 99.5% o gydymffurfiaeth erbyn 2030.
Lleihau nifer yr achosion difrifol o lygredd	Rydym yn mynd i'r afael â'r 10 o bibellau ymgodol a gorsafoedd pwmpio sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd, gan achosi llygredd difrifol, erbyn 2030. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ein cynlluniau buddsoddi.	Ynghyd â lleihau achosion o flocio, ein nod yw sicrhau gostyngiad o 40% erbyn 2025 a dileu'r rhain erbyn 2030.
Ennill EPA 4 seren	Ein nod yw cyflawni'r holl ymrwymadau a amlinellwyd yn y cynllun adfer hwn ar gyfer yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, adennill ein gradd a dychwelyd i arwain y diwydiant ac, yn bwysicach na dim, wella'r amgylchedd rydym i gyd yn gyfrifol am ei warchod.	Ein nod yw ennill 3 seren erbyn 2025, a 4 seren erbyn 2030.
Gwaredu 100% o slwtsh yn ddiogel	Mae'r Cynllun Sicrwydd Biosolidau yn sicrhau ein bod yn ailgylchu biosolidau mewn ffordd ddiogel a chyfrifol.	Ein nod yw trin 100% o'n slwtsh drwy ddulliau treulio anaerobig
Cyflawni 100% o Raglen Amgylcheddol Genedlaethol y Diwydiant Dŵr ar gyfer AMP7 a chyfnodau AMP yn y dyfodol	Rydym wedi cyflawni ein holl ymrwymadau o dan y rhaglen hon ers 2020 a'n nod yw parhau i'w cyflawni drwy gydol rhaglen AMP8 gyda chymorth tîm cyflawni penodol.	Byddwn yn parhau i gyflawni 100% o'n hymrwymadau o dan y rhaglen hon.
Cynnal y mynegrif cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw ar 100%	Ein nod yw parhau i gyflawni 100% drwy fynd i'r afael â pharthau lle y ceir risg megis parth canol a de Ceredigion.	Byddwn yn parhau i fuddsoddi a gwella ein rhwydwaith a chyflawni 100%.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

Cynnwys yr adran hon

Cyflwyniad y Cadeirydd i Lywodraethu	93
Fframwaith Llywodraethu	96
Cipolwg ar Lywodraethu	98
Bwrdd y Cyfarwyddwyr	102
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	106
Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau	115
Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch	118
Adroddiad y Pwyllgor Archwilio	121
Adroddiad y Pwyllgor Technoleg	126
Adroddiad y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu	129
Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth	132
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	154
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	156

CYFLWYNIAD CADEIRYDD Y BWRDD I LYWODRAETHU



“MAE LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL CADARN YN UN O NODWEDDION HANFODOL Y PENDERFYNIADAU A WNAWN ER MWYN EIN HELPU I DDARPARU GWASANAETHAU CYHOEDDUS HANFODOL.”

Alastair Lyons CBE
Cadeirydd y Bwrdd

Meysydd ffocws allweddol yn BA 24

- Ystyried y materion a nodwyd drwy graffu'n barhaus ar berfformiad gweithredol ac ystyried priodoldeb y cynlluniau gweithredu sy'n deillio o hynny er mwyn gwella perfformiad lle nad yw'n cyflawni ein hamcanion nac yn bodloni ein gofynion rheoleiddiol ar hyn o bryd, yn arbennig ein Hasesiad o Berfformiad Amgylcheddol.
- Goruchwyllo cynnydd y Cwmni o ran lleihau ei effaith ar yr amgylchedd drwy ei strategaeth Ansawdd Afonydd a'i raglen Gorlifoedd Storm.
- Parhau i baratoi ar gyfer PR24 yng nghyd-destun deall goblygiadau Penderfyniad Terfynol Ofwat a chael diweddariadau gan y timau Rheoleiddio a Chynllunio Asedau a chael diweddariadau gan y Tîm Rheoleiddio, y Tîm Cynllunio a Tîm Gweithredol Dŵr Cymru ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran rhoi'r prosiectau buddsoddi arfaethedig yng nghynllun busnes PR24 y Cwmni ar waith.
- Adolygu Cynllun Busnes PR24 a gyflwynwyd i Ofwat ar 2 Hydref 2023 a chraffu arno, a sicrhau staff bod y cynllun yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy ac y gellir ei gyllido.
- Cymeradwyo Strategaeth Gyllido ar gyfer AMP8, sy'n sicrhau bod digon o hyblygrwydd o ran hylifedd i wrthsefyll datblygiadau andwyol mewn marchnadoedd cyllido a lleihau'r risg o ran y farchnad a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd mewn marchnadoedd dyled gwahanol, ar y cyfraddau gorau.
- Goruchwyllo'r broses o ddatblygu a gweithredu cynlluniau i addasu i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, er mwyn i ni allu parhau i ddarparu gwasanaethau fforddiadwy a chydnerth.
- Sicrhau bod y Cwmni yn parhau i ddarparu cymorth i'r unigolion hynny ymhlith y cwsmeriaid hynny sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau ac sydd â nodweddion bregusrwydd.
- Asesu'r galwadau a osodir ar ein pobl gan ein gweithrediadau sy'n mynd rhagddynt ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos a sicrhau bod gennym yr adnoddau a'r dyluniad sefydliadol priodol.
- Goruchwyllo'r cynnydd o ran y dull cydweithio o ymdrin â PR24 yng Nghymru drwy Fforwm PR24 gyda Llywodraeth Cymru, Ofwat a rhanddeiliaid eraill er mwyn cytuno ar roi'r cynlluniau cywir ar waith gyfer y dyfodol.
- Goruchwyllo cynnydd Pwyllgor Prosiect Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid i adeiladu gwaith trin dŵr newydd yn ardal Merthyr Tudful, a sicrhau bod y cynllun yn bodloni gofynion model cyflawni Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid Ofwat.
- Sicrhau proses olyniaeth effeithiol a phriodol ar gyfer fy nghyfer fy hun pan fyddaf yn ymddeol o fod yn Gadeirydd ar ddiwedd 2024.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu cynnydd yn nifer yr heriau sy'n effeithio ar y sector dŵr, y Grŵp a'i gwsmeriaid.

Drwy gydol y flwyddyn, mae trafodaethau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau wedi canolbwyntio ar dirwedd weithredol a rheoleiddiol gynyddol heriol a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar y Grŵp a'n cyflogeion. Canolbwyntiodd gweithgarwch y Bwrdd yn benodol ar baratoi ein cynllun ar gyfer yr adolygiad rheoleiddiol nesaf o brisiau, PR24, gan nodi'r angen am gynnydd sylweddol yn lefel buddsoddiad y Grŵp er mwyn gwella ei gydnerthedd gweithredol, yn arbennig mewn perthynas ag osgoi achosion o lygredd. Nododd y Bwrdd ei bod yn galonogol gweld y lefel uchel o gefnogaeth y mae'r cynllun hwn wedi'i chael gan ein cwsmeriaid er gwaethaf y cynnydd sylweddol mewn biliau y byddai'n gofyn amdano. Yn yr un modd, mae'r Bwrdd wedi ystyried yr argyfwng costau byw parhaus, sydd wedi'i waethgu gan ddigwyddiadau geowleidyddol, y cynnydd mewn costau ynni a chwyddiant a chyfraddau llog cynyddol a sut y gall y busnes ddarparu cymorth i'n cwsmeriaid, yn arbennig er mwyn paratoi ar gyfer biliau uwch yn y dyfodol.

Fel Grŵp, rydym mewn sefyllfa dda i reoli'r effeithiau hyn ac mae'r Bwrdd yn dal i fod yn hyderus y gall y Grŵp barhau i gyllido tariffau cymdeithasol a grantiau cymunedol uwch ochr yn ochr â chynyddu gweithgarwch buddsoddi cyfalaf er mwyn parhau i gyflawni dros y cymunedau a wasanaethir gennym. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel y nodwyd yn ein Maniffesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru, neilltuodd y Bwrdd £100 ychwanegol o gronfeydd y Cwmni ar gyfer gwella ansawdd dŵr afonydd ar ben y buddsoddiad sy'n cael ei ariannu o filiau cwsmeriaid.

CYFLWYNIAD CADEIRYDD Y BWRDD I LYWODRAETHU PARHAD

Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn mabwysiadu dull llywodraethu cyfannol ac yn goruchwyllo gweithrediadau'r Grŵp ac yn craffu arnynt yn hytrach na chanolbwyntio ar rannau o weithgarwch ar wahân. Mae hyn wedi galluogi'r Bwrdd i oruchwyllo'n strategol berfformiad y Grŵp yn erbyn amcanion rheoleiddiol, gweithredol a strategol allweddol a'i gydymffurfiaeth â'r amcanion hynny.

Ffocws y Bwrdd yn y 12 mis diwethaf

Perfformiad gweithredol

Oherwydd maint yr heriau gweithredol ac amgylcheddol y mae'r Grŵp wedi'u hwynebu dros y 12 mis diwethaf, fel y trafodir yn fy natganiad i a datganiad y Prif Swyddog Gweithredol, mae'r Bwrdd, ac yn arbennig, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi rhoi cryn sylw i adolygu cynnydd y Cwmni yn erbyn ei fesurau gweithredol gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a Rheolwyr-Gyfarwyddwyr y Grŵp, sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn barhaol.

Treuliwyd cryn dipyn o amser yn adolygu cynlluniau adfer perfformiad y Grŵp a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella perfformiad Systemau Gorlif Storm y Grŵp, o ystyried y sylw cynyddol sy'n cael ei roi i'r mater hwn gan y cyhoedd, y cyfryngau a'n rheoleiddwyr. Ochr yn ochr â hyn, o ystyried yr argyfwng costau byw parhaus y mae ein cwsmeriaid yn ei wynebu, rhoddwyd ystyriaeth fanwl i Strategaeth y Cwmni ar gyfer Cwsmeriaid sy'n Agored i Niwed a'n cynnydd parhaus o ran cefnogi cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus, gan gynnwys ehangu'r Gronfa Gymunedol er mwyn cefnogi aelwydydd sy'n gweithio, nad ydynt yn cael budd-daliadau, sydd mewn trafferthion ariannol.

Adrodd ar ymchwiliadau i ollyingiadau dŵr

Cafodd y broblem bosibl o ran adrodd ar ollyingiadau dŵr ei dwyn i sylw'r Bwrdd gyntaf ym mis Mai 2022 a chymerwyd camau ar unwaith er mwyn deall achos sylfaenol y broblem yn well. Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y flwyddyn ddiwethaf, dechreuwyd ar adolygiad trydydd parti o'n dehongliad o ganllawiau Ofwat ar y dull adrodd ar gyfer dau Ymrwymiad Perfformiad, sef Gollyngiadau Dŵr a'r Defnydd o Ddŵr y Pen. Cynhaliwyd adolygiadau mewnol ochr yn ochr â'r adolygiad trydydd parti ac mae canlyniadau'r adolygiadau hyn wedi'u hystyried gan y Bwrdd yn uniongyrchol a thrwy waith ei Bwyllgorau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ystyriaeth fanwl gan y Pwyllgor Gollyngiadau Dŵr a'r Defnydd o Ddŵr y Pen, a sefydlwyd fel pwyllgor gorchwyl a gorffen yn benodol i oruchwyllo'r adolygiad hwn, ac a gadeiriwyd gennyf. Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr a manwl ar ein canfyddiadau i Ofwat ym mis Tachwedd 2023 ac ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Ofwat ei adroddiad drafft ei hun ar ei ymchwiliad i'r achosion o gamadrodd ar Ollyingiadau Dŵr a'r Defnydd o Ddŵr y Pen gan y Grŵp. Ceir manylion llawn y cyhoeddiad hwnnw ac ymateb y Grŵp ar dudalen 3. Bodlonodd y Pwyllgor ei hun nad oes unrhyw feysydd eraill lle y gellid camadrodd ar wybodaeth reoleiddiol a bod y gwersi angenrheidiol wedi'u dysgu o'r adolygiad a'r camau a gymerwyd i atal unrhyw achosion o gamadrodd rhag codi eto. Ym mis Mawrth 2024, cyflwynodd Ofwat adroddiad ar ei ymchwiliad i achosion hanesyddol o gamadrodd gan Dŵr Cymru ar ddata perfformiad yn ymwneud â gollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen. Fel y nodir yn Neges y Prif Weithredwr ar dudalen 15, rydym wedi ailddatgan ein hymddiheuriad am y mater hwn ac yn cydnabod bod y canlyniad yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hymchwiliad ein hunain a rannwyd ag Ofwat ym mis Mai 2023.

Cynllunio ar gyfer PR24

Cynhaliwyd diwrnod strategaeth y Bwrdd ym mis Tachwedd 2023 pan drafodwyd blaenoriaethau busnes strategol a hirdymor, gan gynnwys Strategaeth Gyllid y Grŵp i gefnogi'r cynnydd sylweddol mewn cyllid sydd ei angen i gyflawni cynlluniau buddsoddi PR24.

Rhoddodd y Diwrnod Strategaeth sylw arbennig i barhau i ddatblygu a mireinio paratodau'r Grŵp ar gyfer rhoi cynlluniau a gyflwynwyd i Ofwat ar 2 Hydref 2023 ar gyfer yr adolygiad pum mlynedd nesaf o brisiau, sef PR24, ar waith a deall yr heriau a'r cyfleoedd i Dŵr Cymru yng nghydestun cynigion PR24 a gyflwynwyd gan y sector dŵr yn gyffredinol. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol gweithio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid allweddol er mwyn cyflawni ein cynlluniau ac mae hyn yn chwarae rôl hollbwysig yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Rhoddir enghreifftiau o'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'n rhanddeiliaid ynghyd â manylion ein gweithgarwch ymgysylltu yn Natganiad A172 y Bwrdd ar dudalen 51.

Newidiadau llywodraethu

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi nodi'r gwelliannau canlynol i'n prosesau llywodraethu a, lle y bo'n briodol, wedi cymeradwyo eu rhoi ar waith:

- O ystyried ffocws y Grŵp ar wella ei berfformiad gweithredol, cytunwyd, o fis Mawrth 2024 ymlaen, y byddai pob Cyfarwyddwr Anweithredol yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch er mwyn i'r Bwrdd cyfan ddeall yn eithaf manwl y cynnydd a oedd yn cael ei wneud ac yn cael cyfle i graffu ar ein perfformiad a'i herio.



- Sefydlu Pwyllgor Newid Hinsawdd ar lefel weithredol, sy'n atebol i Dîm Gweithredol Dŵr Cymru, er mwyn goruchwyllo strategaeth y Grŵp ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd gyda'r amcan sylfoenol o gynllunio'r addasiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau y gall y Grŵp gyflawni ei nodau strategol a'i ymrwymïadau o ran darparu gwasanaeth cyhoeddus, mewn ffordd gynaliadwy. Caiff yr allbynnau o waith y Pwyllgor yn goruchwyllo, yn eu tro, gan Bwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu'r Bwrdd. Nodir gweithgareddau'r Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ar dudalennau 129 i 131.

Ein pobl

Mae'r Bwrdd o'r farn ei bod yn bwysig iawn ymgysylltu'n uniongyrchol â'n cydweithwyr, am fod hyn yn cynnig cyfle i feithrin dealltwriaeth o'r heriau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd, o safbwynt gweithredol a safbwynt staff swyddfa ac mae'n un o'r ffyrdd rydym yn monitro diwylliant ac ymddygiadau.

Yn yr un modd, mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymweld â safleoedd gweithredol sy'n ein galluogi i gyfarfod wyneb yn wyneb â chydweithwyr (gweler tudalen 110 am fanylion yr ymweliadau safle hyn yn ystod y flwyddyn). Mae'r ymweliadau hyn yn gyfle i ni drafod rhai o'r problemau a wynebir gan y busnes yn uniongyrchol a'u deall ac mae'n cynnig cyfle i ni weld y gwaith gwych sy'n cael ei wneud ym mhob rhan o'r busnes gan ein cydweithwyr.

Mae'n braf gweld y cynnydd sydd wedi'i wneud ym maes amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn falch o gefnogi cyhoeddi data ar Fwlch Cyflog y Grŵp o ran ethnigrwydd yn ogystal â data ehangach ar y Blwch Cyflog rhwng y Rhywiau. Mae hyn hefyd yn dangos ymrwymiad parhaus y Grŵp i sicrhau cydraddoldeb yn y gwaith. Gweler tudalen 150 am ragor o fanylion.

Ein haelodau

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cwmni ym mis Gorffennaf bob blwyddyn ac mae'n croesawu nifer mawr o'n Haelodau. Rydym yn gwerthfawrogi'r rôl amhrisiadwy y mae ein Haelodau yn ei chyflawni mewn perthynas â'n model heb gyfranddalwyr o ran dwyn y Bwrdd i gyfrif. Rydym yn ffodus, drwy ein proses recriwtio Aelodau flynyddol, y gallwn ddenu unigolion o amrywiaeth eang o gefndiroedd sy'n rhannu diddordeb nid yn unig yn ein Diben (sef yr hyn rydym yn ei wneud ac i bwy), ond hefyd yn ein diwylliant (sef sut rydym yn ei wneud), y mae'r ddau yn canolbwyntio ar sicrhau gwerth a'r canlyniadau gorau i'n cwsmeriaid a'r amgylchedd. Ceir rhagor o fanylion am ein gweithgarwch ymgysylltu ag Aelodau Glas Cymru ar dudalen 110.

Gwerthuso'r Bwrdd ac olyniaeth

Rhoddir manylion y gwerthusiad mewnol o berfformiad y Bwrdd ar dudalen 113 yn yr adroddiad hwn. Ar ôl cwblhau'r gwerthusiad hwn, mae Cynllun Effeithiolrwydd y Bwrdd wedi'i lunio, a gyflwynir i'r Bwrdd bob pedwar mis er mwyn sicrhau y caiff argymhellion eu tracio a'u rhoi ar waith.

At hynny, mae'r Bwrdd wedi cynnal hunanasesiad o'i weithgarwch yn erbyn Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 (y Cod) ac Egwyddorion Ofwat ar gyfer Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd (Egwyddorion). Dangosodd yr adolygiad hwnnw fod y Bwrdd wedi cymhwyso'r Egwyddorion ac wedi cydymffurfio â Darpariaethau'r Cod fel y mae'n ofynnol i ni ei wneud o dan delerau'r Cytundeb Telerau Cyffredin, sy'n rheoli ein proses dyroddi dyled. Rwy'n hyderus gyda phrosesau gwneud penderfyniadau a chydymffurfiaeth y Grŵp a bod y Cwmni wedi cydymffurfio ag egwyddorion allweddol llywodraethu da yn ystod y flwyddyn.

Alastair Lyons CBE
Cadeirydd y Bwrdd

6 Mehefin 2024

FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Dengys ein fframwaith llywodraeth, fel y'i nodir gyferbyn, y cydberthnasau rhwng Aelodau Glas, y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd.

Mae pwyllgorau gweithredol a phwyllgorau rheoli detholedig hefyd wedi'u cynnwys. Mae gan bob un o Bwyllgorau'r Bwrdd Gylch Gorchwyl a sefydlwyd yn ffurfiol, sy'n diffinio eu cwrmpas, eu cyfrifoldebau a'u dull gweithredu (Gellir gweld Cylch Gorchwyl Pwyllgorau drwy ddilyn y ddolen ganlynol: <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/terms-of-reference>). Mae Ysgrifenyddiaeth y Cwmni yn gweithio'n agos gyda Chadeirydd y Bwrdd a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Bwrdd er mwyn sicrhau y cynhelir llifau gwybodaeth priodol ac amserol. Caiff aelodau, cylch gorchwyl ac effeithiolrwydd pwyllgorau eu hadolygu bob blwyddyn. Rhoddir manylion pellach am bob un o Bwyllgorau'r Bwrdd ar y tudalennau canlynol.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn cynnal ein busnes mewn modd agored a thryloyw. Mae ein fframwaith llywodraethu yn parhau'n hyblyg, sy'n gwneud ein prosesau gwneud penderfyniadau a'n trefniadau goruchwyllo yn gyflym, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r Bwrdd yn monitro perfformiad ein gweithrediadau, ein strwythur llywodraethu mewnol a'r gwaith o reoli risg a rheolaethau cysylltiedig, a hefyd yn goruchwyllo'r ffordd y mae Tîm Gweithredol Dŵr Cymru a'i bwyllgorau rheoli yn gweithredu'r busnes. Mae Tîm Gweithredol Dŵr Cymru yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth y mae'r Bwrdd yn cytuno arni er mwyn cyflawni amcanion tymor canolig a hirdymor y Cwmni, a chyflawni targedau perfformiad gweithredol gofynnol yn unol â fframwaith rheoli risg sefydledig, polisïau cydymffurfio, systemau rheolaeth fewnol a gofynion adrodd.

Mae Tîm Gweithredol Dŵr Cymru, a benodir gan y Prif Swyddog Gweithredol, yn cynnwys 19 o unigolion sy'n cynrychioli holl swyddogaethau allweddol y busnes, yn ogystal â swyddogaethau rheoli risg ac archwilio mewnol.

Mae Tîm Gweithredol Dŵr Cymru hefyd yn cael ei gefnogi gan strwythur rheoli a fframwaith llywodraethu penodol, sy'n cynnwys is-bwyllgorau a grwpiau llywio ar gyfer prosiectau penodol, sy'n gweithredu o fewn cylch gorchwyl diffiniedig ac yn unol â pholisïau ein Grŵp. Caiff pob penderfyniad a wneir gan unigolion neu gan Bwyllgor sy'n cynnwys gwariant ariannol neu risg gysylltiedig ei lywodraethu gan drefniadau Dirprwy Awdurdod sefydledig y Grŵp.

Mae'r rhain wedi'u strwythuro i sicrhau y gall penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd gael eu gwneud yn effeithlon a hefyd sicrhau bod ymrwymïadau risg uwch neu werth mawr yn mynd drwy'r sianeli priodol i'w cymeradwyo.

Drwy gynnal y strwythur rheoli hwn, rydym yn sicrhau bod ein gweithrediadau yn cael eu rhedeg yn effeithiol a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol â'n hymrwymiad i'n gwerthoedd i wneud y peth cywir bob amser. Mae'r strwythur hwn hefyd yn sicrhau bod pob penderfyniad a wneir yn cael ei lywio'n ddigonol gan ddyletswyddau Cyfarwyddwyr o dan Adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac yn eu cefnogi, mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r canlynol:

- yr angen i feithrin cydberthnasau busnes y Cwmni â chyflenwyr, cwsmerïad a rhanddeiliaid eraill; a'r
- effaith gweithrediadau'r Cwmni ar y gymuned a'r amgylchedd, a dymunoldeb sicrhau bod y Cwmni yn cynnal ei enw da am safonau busnes uchel.
- Ceir manylion am y ffordd rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol ac enghreifftiau o'r ffordd y mae'r Bwrdd wedi ystyried eu buddiannau yn ystod y flwyddyn yn y Datganiad Adran 172 ar dudalennau 51 a 53.

Ein Haelodau

Unigolion a ddewisir yn annibynnol o bob rhan o'n hardal gyflenwi (heb fuddran ariannol yn y busnes) sy'n dwyn y Bwrdd i gyfrif. Yn yr un modd ag y byddai rhanddeiliad yn gyfrifol amdanant mewn cwmni sy'n eiddo i gyfranddalwyr, mae'r Aelodau yn gyfrifol am y canlynol: cael yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon, cymeradwyo'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr, cymeradwyo Polisi Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr, ethol ac ailethol Aelodau'r Bwrdd, penodi Archwilyr y Grŵp.



Y Bwrdd

Mae Cyd-fwrdd Glas Cymru Holdings Cyfyngedig (Glas Cymru) a Dŵr Cymru Cyfyngedig (Dŵr Cymru) yn gyfrifol am y ffordd gyffredinol y cynhelir busnes y Grŵp, gan gynnwys ein llwyddiant hirdymor i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethir gennym; pennu ein diben, ein gwerthoedd, ein safonau a'n hamcanion strategol; adolygu ein perfformiad; parhau i oruchwyllo ein fframwaith llywodraethu; sicrhau y cynhelir deialog gadarnhaol â'n rhanddeiliad. Gan ystyried dyletswydd pob Cyfarwyddwr o dan Adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'r Bwrdd wedi cadw'n ôl iddo'i hun, ymhlith blaenoriaethu eraill, y cyfrifoldeb am gymeradwyo amcanion hirdymor a chyllidebau Gweithredu a Gwariant Cyfalaf Blyneddol. Disgrifir manylion llawn y Materion a Gedwir yn Ôl i'r Bwrdd yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd (<https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/terms-of-reference>).



Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae'n pennu, yn adolygu ac yn argymhell y polisi ar gydnabyddiaeth Cadeirydd y Bwrdd, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r uwch-dîm rheoli. Mae'n goruchwyllo polisiâu ac arferion cydnabyddiaeth i'r gweithlu cyfan, gan roi sylw i'r rhain wrth benderfynu ar gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

Mae'n goruchwyllo Strategaeth Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu'r Grŵp a'r targedau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu arfaethedig. Mae'n ystyried sut yr adroddir ar holl elfennau'r Strategaeth Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ac y caiff mesurau eu mabwysiadu gan y Cwmni, ac yn monitro perfformiad yn erbyn targedau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu y Cwmni. Mae'n sicrhau bod y Cwmni yn datblygu ac yn cynnal polisiâu priodol er mwyn cefnogi ei Strategaeth Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn effeithiol, yn arbennig ei heffaith amgylcheddol.

Pwyllgor Prosiect Caffaeliad Uniongyrcho ar gyfer Cwsmeriaid

Mae'n goruchwyllo cynnydd y prosiect i adeiladu gwaith trin dŵr newydd yn ardal Merthyr Tudful ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas â'r cymeradwyoethau angenrheidiol a'r sicrwydd gan y Bwrdd sy'n ofynnol o dan fodel cyflawni Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid Ofwat.

Pwyllgor Gollyngiadau Dŵr a'r Defnydd o Ddŵr y Pen

Fe'i sefydlwyd yn ystod BA 23 fel Pwyllgor gorchwyl a gorffen er mwyn goruchwyllo'r adolygiad o gamddatganiadau o ran gollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen yn ystod BA 21 a BA 22. Yn y dyfodol, bydd y Pwyllgor yn goruchwyllo'r broses o gyflawni rhaglen Adfer ar ôl Gollyngiadau Dŵr y Grŵp.



Pwyllgor Gweithredol Dŵr Cymru

Mae Pwyllgor Gweithredol Dŵr Cymru yn cynnwys arweinwyr y prif unedau busnes a meysydd swyddogaethol, a chaiff ei benodi gan y Prif Swyddog Gweithredol i'w gefnogi yn y gwaith o gyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys datblygu a gweithredu strategaethau, cynlluniau gweithredol, polisiâu, gweithdrefnau a chyllidebau; monitro perfformiad gweithredol ac ariannol; asesu a rheoli risg; blaenoriaethu a neilltuo adnoddau.



Fforymau allweddol ar lefel weithredol sy'n cefnogi Tîm Gweithredol Dŵr Cymru

Grŵp Llywio Diogelwch Gwybodaeth

Mae'n sicrhau y caiff gwybodaeth y Grŵp ei diogelu a risgiau eu lliniaru. Cefnogir Grŵp Llywio Diogelwch Gwybodaeth gan Grŵp Llywio Data a Dadansoddeg.

Grŵp Buddsoddi Asedau

Mae'n sicrhau y caiff rhaglen gyfalaf y Grŵp ei chyflawni'n effeithiol.

Pwyllgor Cymeradwyo Polisiâu

Mae'n cefnogi'r gwaith o adolygu, cymeradwyo a chyfleu polisiâu'r Grŵp.

Bwrdd Welsh Water Holdings

Un o is-gwmnïau Glas Cymru Holdings Cyfyngedig (Glas Cymru), sy'n goruchwyllo endidau masnachol y Grŵp sydd y tu allan i'r busnes rheoleiddiedig.

Grŵp (Grwpiau) Llywio Rheoleiddio

Mae'r tîm Blaenoriaethu yn cyfarfod bob pythefnos er mwyn trafod datblygiadau yn y diwydiant a chytuno ar flaengynlluniau i fynd i'r afael â gofynion rheoleiddiol. Hefyd, mae gennym grŵp llywio penodol ar gyfer Taliadau ac un sy'n canolbwyntio ar PR24.

Adolygiad o Berfformiad mewn perthynas â Gollyngiadau Dŵr

Mae'n rhoi arweiniad, cymorth ac argymhellion i Dîm Gweithredol Dŵr Cymru er mwyn cyflawni'r amcanion sy'n ymwneud â pherfformiad mewn perthynas â gollyngiadau dŵr ac adfer ar ôl gollyngiadau dŵr.


Pwyllgor Newid Hinsawdd

Mae'n goruchwyllo strategaeth y Grŵp ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd gyda'r amcan sylfaenol o gynllunio'r addasiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau y gall y Grŵp gyflawni ei nodau strategol a'i ymrwymadau o ran darparu gwasanaeth cyhoeddus, mewn ffordd gynaliadwy.

CIPOLWG AR LYWODRAETHU

Ystadegau cyfansoddiad y bwrdd


Amrywiaeth o ran y rhywiau



- Menywod
- Dynion (heb gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol)

 Gweler tudalen 112 am annibyniaeth Cyfarwyddwyr.


Annibyniaeth



- Anweithredol (heb gynnwys y Cadeirydd)
- Cyfarwyddwyr Gweithredol

Cyfnod Cyfarwyddwyr Anweithredol yn y swydd ar 31 Mawrth 2024

A ddangosir i'r flwyddyn lawn agosaf hyd at 31 Mawrth 2024



Sgiliau a phrofiad y cyfarwyddwyr

Wrth benderfynu ar gyfansoddiad y Bwrdd ein nod yw cael o leiaf un cyfarwyddwr anweithredol sy'n honni ei fod yn arbenigwr ym ymhob maes sgiliau ac yn meddu ar brofiad sy'n berthnasol i'r broses o benderfynu ar strategaeth y Grŵp a'i rhoi ar waith.



Presenoldeb mewn cyfarfodydd

Cynhaliwyd naw cyfarfod o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Dengys y tabl isod union nifer y cyfarfodydd a fynychwyd ac uchafswm nifer cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau y gallai'r Cyfarwyddwyr fod wedi'u mynychu. Mae aelodau'r Bwrdd yn gwneud pob ymdrech i fynychu pob cyfarfod.

Cyfarwyddwr	Bwrdd	Ansawdd a Diogelwch ⁶	Archwilio	Cydnabyddiaeth	Enwebiadau	Cyllid	Technoleg	ACLI	Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid ⁷	Gollyngiadau Dŵr a'r Defnydd o Ddŵr y Pen ⁸
Peter Perry	9/9	6/7	5/6	5/5	4/4	–	4/4	3/4	1/1	9/10
Mike Davis	9/9	5/7	6/6	–	–	–	–	4/4	1/1	9/10
Alastair Lyons	9/9	6/7	–	5/5	2/2 ¹⁰	–	4/4	4/4	1/1	10/10
Graham Edwards ¹	3/3	2/2	–	–	1/1	–	–	–	–	–
Debra Bowen Rees ^{2, 3}	9/9	6/7	6/6	4/5	3/3	–	–	4/4	0/1	–
Tom Crick	9/9	5/5	–	5/5	2/2 ⁹	–	4/4	–	–	–
Jane Hanson ⁴	9/9	3/3	6/6	–	–	–	1/1	3/4	0/1	9/10
Joanne Kenrick	9/9	5/5	6/6	5/5	4/4	–	4/4	–	–	–
Barbara Moorhouse ⁵	9/9	7/7	–	–	–	–	1/1	–	–	–
Lila Thompson	9/9	7/7	–	–	2/2 ⁹	–	–	3/4	–	–

¹ Ymddeolodd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ym mis Gorffennaf 2023.

² Ymunodd â'r Pwyllgor Enwebiadau ym mis Gorffennaf 2023 a'r Pwyllgor Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid ym mis Chwefror 2024.

³ Ymddiswyddodd o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ym mis Tachwedd 2024.

⁴ Mae'n mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Technoleg pan goiaff ei wahodd gan Gadeirydd y Pwyllgor.

⁵ Ymunodd â'r Pwyllgor Technoleg ym mis Mawrth 2024.

⁶ O fis Chwefror 2024 ymlaen, bydd holl Aelodau'r Bwrdd yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

⁷ Pwyllgor Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid.

⁸ Un o Bwyllgorau gorchwyl a gorffen y Bwrdd a ffurfiwyd i'r pwrpas, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2023 er mwyn goruchwlio'r adolygiad o ollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen ond a fydd yn parhau i fod yn weithredol er mwyn goruchwlio'r gwaith o gyflwyno'r cynllun adfer.

⁹ Roedd yn bresennol yng nghyfarfodydd penodol y Pwyllgor Enwebiadau i benodi olynnydd i'r Cadeirydd.

¹⁰ Nid oedd Cadeirydd y Bwrdd yn bresennol yn y cyfarfodydd penodol i benodi olynnydd i'r Cadeirydd.



GWEITHGAREDDAU'R BWRDD

Gweithgareddau penodol y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Cyfansoddiad y bwrdd ac olyniaeth

Cynnydd a wnaed

Adolygodd y Bwrdd faint ac aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgorau ym mis Chwefror 2024 ar ôl i'r adolygiad mewnol o effeithiolrwydd y Bwrdd gael ei gwblhau.

Camau a gymerwyd:

Gweler tudalen 115 (Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau) am newidiadau a wnaed i aelodaeth pwyllgorau.

Trosglwyddo swyddogaethau'r Archwilydd Allanol

Cynnydd a wnaed

Ar ôl cwblhau proses aildendro'r Archwilydd Allanol yn ystod BA 23, cefnogodd a goruchwyliodd y Pwyllgor Archwilio y broses o drosglwyddo swyddogaethau archwilio allanol i Deloitte LLP.

Camau a gymerwyd:

Gweler tudalen 121 am fanylion gweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio.

Ateb yr her amgylcheddol

Cynnydd a wnaed

Ystyriodd y Bwrdd yn fanwl y metrigau sy'n disgrifio effaith gweithgareddau'r Cwmni ar yr amgylchedd, yn arbennig ar ansawdd dŵr afonydd yn ein hardal weithredu ac adolygodd, gyda rheolwyr, y cynlluniau a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn er mwyn lleihau'r niwed ecolegol a achosir ganddynt. Rhan allweddol o hyn yw'r gwaith y mae'r Cwmni wedi'i wneud i ddatblygu ei Gynllun Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff cyntaf a phennu natur a maint y cynllun buddsoddi amgylcheddol a all gael ei gyflawni, ei gyllido a'i fforddio gan gwsmeriaid yn y cynllun rheoli asedau nesaf a chynlluniau rheoli asedau dilynol.

Camau a gymerwyd:

Cyhoeddodd y Cwmni ei Faniffesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru ar 18 Mai 2023 yn ogystal â'r buddsoddiad amgylcheddol mwyaf erioed dros ddwy flwyddyn olaf AMP7 ac yn ei Gynllun arfaethedig ar gyfer PR24 rhwng 2025 a 2030 (AMP 8), a sicrhodd gytundeb Fforwm PR24 a arweinir gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Ymatebodd hyn yn uniongyrchol i bryderon cyhoeddus ynghylch llygredd carthion a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn Uwchgynhadledd Ffosffadau Prif Weinidog Cymru ym mis Gorffennaf 2022.

Pwyllgor Prosiect Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid

Cynnydd a wnaed

Cyfarfu'r Pwyllgor er mwyn goruchwilio cynnydd o ran y gwaith o ddatblygu Gwaith Trin Dŵr Cwm Taf ym Merthyr Tudful sy'n cael ei wneud o dan fodel cyflawni Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid Ofwat ar gyfer gwasanaethau sy'n tendro'n gystadleuol, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i gwsmeriaid. Diben y Pwyllgor yw sicrhau y gall y Bwrdd roi'r sicrwydd gofynnol i Ofwat bod y broses Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid wedi'i dilyn ar wahanol gamau o'r prosiect.

Camau a gymerwyd:

Yn ystod BA 24, argymhellodd y Pwyllgor ddiwygiadau i'r prosiect i'w cymeradwyo gan y Bwrdd, sy'n cynnwys datblygu dau safle – un i gymryd lle Gwaith Trin Dŵr Pontsticill ac un yn cyfunol Gwaith Trin Dŵr Llwynon a Gwaith Trin Dŵr Cantref.

Amrywiaeth y Bwrdd

Cynnydd a wnaed

Cyflawnodd y Bwrdd ei ymrwymiad i gyrraedd y targedau yr oedd wedi'u pennu yn ei Bolisi Amrywiaeth a oedd yn cynnwys o leiaf 33% o gynrychiolaeth fenywaidd ar y Bwrdd, y mae wedi'i gynnal, a thorged i benodi un Aelod o'r Bwrdd o gefndir ethnig lleiafrifol erbyn diwedd 2025.

Camau a gymerwyd:

Nodir gweithgareddau'r Pwyllgor Enwebiadau ar dudalen 115.

Pwyllgor Technoleg

Cynnydd a wnaed

Bu'r Pwyllgor yn monitro perfformiad yn erbyn amcanion technolegol strategol a gweithredol y Grŵp a datblygodd sicrwydd sylweddol bod polisiau a gweithdrefnau technolegol gweithredol y Grŵp yn ddigon aeddfed er mwyn i'r Pwyllgor allu 'ailgalibradu' ei ffocws ar gyfraniad technoleg at gyflawni mentrau strategol allweddol y Grŵp. O ganlyniad, mae wedi lleihau nifer cyfarfodydd y Pwyllgor o bedwar i dri chyfarfod y flwyddyn ar gyfer BA 25.

Camau a gymerwyd:

Ceir adroddiad llawn ar weithgareddau'r Pwyllgor ar dudalen 126.

Paratoi ar gyfer PR24

Cynnydd a wnaed

Ystyriodd y Bwrdd, yn gynyddol, bob un o elfennau cynllun PR24 (a gyflwynwyd i Ofwat ar gyfer mis Hydref 2023) a rhoi mewnbwn iddynt, gan dderbyn papurau ar y cynllun buddsoddi, y cynllun ariannol, y cynllun busnes, y strategaeth gyflawni hirdymor, gwariant sylfaenol ac effeithlonrwydd cymharol, ymrwymadau o ran perfformiad a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a chwsmeriaid.

Camau a gymerwyd:

Ar ôl trafod pob elfen berthnasol o gynllun PR24 â rheolwyr, datblygodd y Bwrdd ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r heriau y mae'r Cwmni yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod rhwng 2025-30 a'r cynllun sy'n cael ei baratoi gan reolwyr er mwyn cyflawni amcanion y Cwmni a bodloni ei ofynion rheoleiddiol. Mae mewnbwn y Bwrdd wedi'i adlewyrchu mewn fersiynau dilynol o elfennau'r cynllun.

Ailddatgan Gollyngiadau Dŵr

Cynnydd a wnaed

Drwy Bwyllgor gorchwyl a gorffen a ffurfiwyd i'r pwrpas, bu'r Bwrdd yn goruchwyllo'n fanwl yr ymchwiliad i'r achos o gofnodi data gollyngiadau dŵr y Cwmni ar gyfer BA 21 a BA 22, yr angen cysylltiedig i ailddatgan y ffigurau ar gyfer y defnydd o ddŵr y pen a'r broses o wneud taliadau unioni priodol i gwsmeriaid. Cyfeiriwyd at hyn am y tro cyntaf gan y Cwmni ym mis Mai 2022 ac fe'i dilynwyd gan adolygiad 15 mis a gynhaliwyd gan bartïon trydydd parti.

Camau a gymerwyd:

Rhoddyd gwybod i Ofwat fod angen ailddatgan ffigurau a gofnodwyd yn y gorffennol a phenderfynodd y Bwrdd roi ad-daliad o £10 i bob cwsmer er mwyn ymddiheuro am beidio â chydabod yr holl ollyngiadau dŵr roedd y Cwmni yn eu hwynebu. Mae cynllun gweithredu, a gefnogir gan fuddsoddiad ychwanegol gwerth £54 miliwn dros weddill cyfnod y Cynllun Rheoli Asedau (AMP) hwn, wedi cael ei roi ar waith a'i gymeradwyo gan Ofwat ar ôl iddo gwblhau ei ymchwiliad ei hun ym mis Mawrth 2024.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR



Alastair Lyons CBE
Cadeirydd y Bwrdd

D E F L N Q R T

Penodwyd: Mai 2016

Cyfrifoldebau

Penodwyd Alastair yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Mai 2016 ac ystyriwyd ei fod yn annibynnol ar adeg ei benodi'n Gadeirydd y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2016. Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Enwebiadau, y Pwyllgor Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid a'r Pwyllgor Gollyngiadau Dŵr a'r Defnydd o Ddŵr y Pen.

Sgiliau a phrofiad

Mae gan Alastair, sy'n gyfrifydd siartredig yn ôl galwedigaeth, dros 20 mlynedd o brofiad fel Cadeirydd Anweithredol cwmnïau rhestredig a phreifat. Yn ystod gyrfa weithredol helaeth ym maes gwasanaethau ariannol, ef oedd Prif Swyddog Gweithredol y National Provident Institution a Chymdeithas Adeiladu'r National and Provincial, Rheolwr Gyfarwyddwr Is-adran Yswiriant Abbey National plc a Chyfarwyddwr Prosiectau Corfforaethol ym Manc y National Westminster plc. Cafodd ei urddo'n CBE yn 2001 am ei wasanaethau dros nawdd cymdeithasol ar ôl gwasanaethu fel Cyfarwyddwr Anweithredol yn yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Drafnidiaeth.

Profiad arall

Cadeirydd Grŵp Admiral, sef yr yswiriwr moduron uniongyrchol, rhwng 2000 a 2017 ac wedyn AECS, sef cwmni daliannol Admiral yn Ewrop, tan 2021. Cadeirydd Towergate Insurance, Cadeirydd Serco, y grŵp gwasanaethau rhyngwladol, Dirprwy Gadeirydd Bovis Homes ac Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yn Phoenix, y cyfunwr yswiriant bywyd.

Penodiadau allanol

Cadeirydd Harworth Group plc a Vitality UK.



Peter Perry
Prif Swyddog Gweithredol

D E F L N Q T

APenodwyd: Awst 2006

Cyfrifoldebau

Penodwyd Peter yn Brif Swyddog Gweithredol ym mis Ebrill 2020. Ei rôl yw rheoli busnes y Grŵp yn effeithiol, o fewn y strategaethau a bennir gan y Bwrdd.

Sgiliau a phrofiad

Peter oedd Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru o fis Hydref 2017 ar ôl pedair blynedd fel Prif Swyddog Gweithredu. Mae gan Peter, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Dŵr Cymru ym mis Gorffennaf 2006, gefndir ym maes peirianeg sifil. Cyn hynny, ef oedd Prif Swyddog Gweithredu United Utilities Operational Services (UUOS), ar ôl bod yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau UUOS lle y bu'n gyfrifol am y contract gweithredol â Dŵr Cymru a buddiannau dŵr UUOS yn yr Alban ac Iwerddon. Cyn hynny gweithiodd i Dŵr Cymru am dros 20 mlynedd.

Profiad arall

Un o Gyfarwyddwyr (yn cynrychioli Cymru) y Cynllun Cynghori Rheoliadau Dŵr, sef y corff cenedlaethol sy'n nodi safonau ar gyfer deunyddiau a chreffftwaith a ddefnyddir ym maes cyflenwi dŵr yfed.

Penodiadau allanol

Llywydd y Sefydliad Dŵr. Cadeirydd Bwrdd Arweinyddiaeth Cymru ac Aelod o Fwrdd Arweinyddiaeth Gymunedol Busnes yn y Gymuned Cymru. Aelod o Fwrdd Dŵr y DU a chynghorydd ar Fforwm Cydnerthedd y DU.



Mike Davis
Prif Swyddog Ariannol

A D E F L Q

Penodwyd: Ionawr 2020

Cyfrifoldebau

Yn bennaf cyfrifol am weithrediadau ariannol y Grŵp.

Sgiliau a phrofiad

Groddiodd Mike yn beirionnydd cemegol ac mae'n gyfrifydd siartredig yn ôl galwedigaeth. Mae wedi cael profiad ym maes y cyfryngau, TGCh a mwyngloddio, gan gynnwys Cyfarwyddwr Cyllid ar ddau fusnes ecwiti preifat newydd. Mae wedi dal swyddi Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio a Rheolwr Ariannol yn Dŵr Cymru, gyda ffocws ar adolygiadau rheoleiddio o brisiau a chystadleuaeth.

Profiad arall

Rhwng 2010 a 2014, bu Mike yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol RCT Homes, sef landlord cymdeithasol cofrestredig, gan gadeirio ei Bwyllgor Rheoli Asedau a'i Bwyllgor Trysorlys. Bu'n un o Gyfarwyddwyr Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU.

Penodiadau allanol

Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Wales & West Utilities.

ALLWEDD

- A** Y Pwyllgor Archwilio
- D** Pwyllgor Prosiect Caffaeliad
Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid
(Pwyllgor Prosiect Cwm Taf gynt)

- E** Y Pwyllgor Materion Amgylcheddol,
Cymdeithasol a Llywodraethu
- F** Y Pwyllgor Cyllid
- L** Y Pwyllgor Goruchwyllo Gollyngiadau Dŵr
- N** Y Pwyllgor Enwebiadau

- Q** Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
- R** Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
- T** Y Pwyllgor Technoleg
- O** Cadeirydd y Pwyllgor



Debra Bowen Rees
Cyfarwyddwr Anweithredol

A D E Q R

Penodwyd: Ionawr 2020

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 112.

Debra yw Cadeirydd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Mae hefyd yn cynrychioli'r Bwrdd ar y Panel Dethol Aelodau Annibynnol, sy'n argymhell Aelodau Glas i'w penodi gan y Bwrdd.

Sgiliau a phrofiad

Mae gan Debra lawer o brofiad ym maes arwain a rheoli, gan gynnwys rheoli seilwaith rheoleiddiedig sy'n hanfodol i ddiogelwch. Ar ôl gyrfa lwyddiannus yn gwasanaethu mewn uwch swyddi yn yr Awyrlu Brenhinol, ymunodd Debra â Maes Awyr Coerdydd yn 2012 fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau, ac fe'i penodwyd yn Rheolwr Gyfarwyddwr yn 2014. Daeth yn Brif Weithredwr y maes awyr sydd o dan berchenogaeth Llywodraeth Cymru yn 2017 a bu'n gyfrifol am arwain y maes awyr drwy gyfnod o drawsnewid. Rhoddodd Debra y gorau i'w rôl yn Brif Weithredwr Maes Awyr Caerdydd ym mis Awst 2020, cyn gadael Bwrdd y Cyfarwyddwyr ym mis Medi 2020.

Profiad arall

Cadeirydd Cangen De-orllewin Cymru o Sefydliad y Cyfarwyddwyr. Ymddiriedolwr ac Aelod o Fwrdd Cwmni Theatr Hijinx.

Penodiadau allanol

Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Porthladd Aberdaugleddau, Airport Coordination Ltd ac ACL International Coordination Ltd.



Professor Tom Crick MBE
Cyfarwyddwr Anweithredol

Q R T

Penodwyd: Hydref 2017

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 112.
Tom yw Cadeirydd Pwyllgor Technoleg.

Sgiliau a phrofiad

Tom yw'r Athro Digidol a Pholisi a'r Dirprwy Is-ganghellor ym Mhrifysgol Abertawe ac mae ganddo brofiad rhyngddisgyblaethol helaeth fel gwyddonydd cyfrifiadurol. Mae ei waith yn rhychwantu ymchwil, polisi ac ymarfer, gan nodi problemau'n ymwneud â pharthau â themâu digidol, cyfrifiadurol a data cyffredinol ac yn mynd i'r afael â nhw, a gan ganolbwyntio'n arbennig ar yr effaith ar bobl, cymunedau, treftadaeth a diwylliant. Mae'n arwain strategaeth cenhadaeth ddinesig Prifysgol Abertawe, mae'n ffigwr rhyngwladol blaenllaw yn yr agenda sgiliau digidol ac mae wedi dal rolau cyngorol uwch gyda Nesta, Ofcom, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a BCS, y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG. Ym mis Tachwedd 2023, penodwyd Tom yn Brif Gynghorydd Gwyddonol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon lle mae'n darparu arweinyddiaeth wyddonol a thechnegol yn yr adran, yn rhoi cyngor uniongyrchol i weinidogion a swyddogion ac yn goruchwyllo'r defnydd a wner o ymchwil, tystiolaeth ac arbenigedd allanol. Mae'n aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru Ofcom a Choleg Arbenigwyr yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae Tom yn Beiriannydd Siartredig, yn Wyddonydd Siartredig ac yn un o Gymrodorion Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Fe'i urddwyd yn MBE yn Rhestr Anrhyddedau Pen-blwydd y Frenhines yn 2017 am ei wasanaethau i gyfrifiadurol.

Profiad arall

Un o Gomisiynwyr Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Is-lywydd BCS.

Penodiadau allanol

Prif Gynghorydd Gwyddonol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Sector Development Wales Partnership Ltd. (un o gyrff Llywodraeth Cymru a elwir yn Diwydiant Cymru). Aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru Ofcom.



Barbara Moorhouse
Cyfarwyddwr Anweithredol

Q T

Penodwyd: Ionawr 2023

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 112.

Mae Barbara yn cadeirio'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Sgiliau a phrofiad

Mae Barbara yn Gadeirydd, yn Gadeirydd Pwyllgor ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol profiadol ac mae wedi dal penodiadau mewn amrywiaeth o sectorau busnes. Treuliodd y rhan fwyaf o'i gyrfa Weithredol yn gweithio mewn rolau strategol, masnachol a chyllid mewn cwmnïau rhestredig, gan gynnwys fel Prif Swyddog Gweithredol dau gwmni meddalwedd rhestredig (sef Kewill Systems plc a Scala Business Solutions NV), Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp cwmni Morgan Sindall plc a Chyfarwyddwr Rheoleiddiol yng nghwmni South West Water plc. Mae Barbara hefyd wedi gweithio yn y sector cyhoeddus fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Drafnidiaeth a Phrif Swyddog Gweithredu Cyngor Dinas Westminster.

Profiad blaenorol arall

Cadeirydd Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yng nghwmni IDOX plc. Un o Ymddiriedolwyr a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn Elusen Guy's a St Thomas'. Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio yng nghwmni Medica Group plc.

Penodiadau allanol

Cadeirydd Agility Trains Group, sef cwmni gwasanaethau tren sy'n eiddo i gronfa seilwaith. Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yng nghwmni Aptitude Software Group plc. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Balfour Beatty plc.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR PARHAD



Jane Hanson CBE
Cyfarwyddwr Anweithredol

A D E F L Q

Penodwyd: Ionawr 2021

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 112.

Mae Jane yn cadeirio'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyllid

Sgiliau a phrofiad

Mae Jane yn Gyfrifydd Siartredig cymwysedig ac mae ganddi 20 mlynedd o brofiad o wasanaethu fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fyrddau cwmnïau preifat, rhestredig a sector cyhoeddus ac elusennau gan gyflawni rolau Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg a Chadeirydd Bwrdd. Roedd ei gyrfa weithredol yn cynnwys profiad helaeth o Ddatblygu Strategol, Rheoli Risgiau Busnes, Llywodraethu Corfforaethol a fframweithiau Rheolaeth Fewnol mewn endidau o'r radd flaenaf a reoleiddir yn llym, gan gynnwys Aviva plc. Hefyd, mae ganddi brofiad helaeth o ddatblygu a monitro fframweithiau risg ymddygiad a chwsmeriaid, a gorchywlio rhaglenni TG a thrawsnewid mawr a chymhleth. Urddwyd Jane â'r CBE yn 2023 am wasanaethau i elusennau ar ôl gwasanaethu fel Cadeirydd The Reclaim Fund am dros 10 mlynedd, gan ddarparu osedau'r Sector Cyllid gwerth mwy na £2 biliwn i achosion elusennol, a Thrysorydd Anrhydeddus y Pwyllgor Argyfyngau. Mae Jane yn ynad hefyd.

Profiad arall

Cadeirydd Reclaim Fund Ltd a Bwrdd Ehangu Asedau Segur Llywodraeth y DU, Cyfarwyddwr Anweithredol gyda chwmni Rothesay Life plc, Direct Line Group plc (Cadeirydd Pwyllgor Risg Bwrdd y Grŵp), William Hill plc, Old Mutual Wealth plc (Cadeirydd Pwyllgor Risg y Bwrdd) ac Aviva Ireland (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio) ac Aelod Annibynnol o Bwyllgor Tegwch Cwsmeriaid ReAssure Ltd. Trysorydd Anrhydeddus y Pwyllgor Argyfyngau.

Penodiadau allanol

Mae Jane yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Trysorlys EF, yn Gadeirydd ar yr Awdurdod Hedfan Sifil, yn Gyngorydd Annibynnol ac yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Risg Partneriaeth John Lewis ac yn Gadeirydd ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Cerddorfa Symffoni Bardi.



Joanne Kenrick
Cyfarwyddwr Anweithredol
Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol

A N Q R T

Penodwyd: Tachwedd 2015

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 112.

Penodwyd Joanne yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Gorffennaf 2023. Joanne yw Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Sgiliau a phrofiad

Joanne oedd Cyfarwyddwr Marchnata Homepage tan ddiwedd 2015. Cyn hynny, hi oedd Prif Swyddog Gweithredol Start, gan sefydlu a rhedeg menter gyhoeddus Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru ar gyfer sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy. Ymhlith ei rolau blaenorol mae Cyfarwyddwr Marchnata ac Arlwy Cwsmeriaid B&Q, Cyfarwyddwr Marchnata'r Loteri Genedlaethol, a Chyfarwyddwr Gwerthiannau Grŵp a Marchnata Wilson Connolly. Bu'n gweithio hefyd i Woolworths, Asda, Pepsico a Masterfoods. Mae gan Joanne radd yn y Gyfraith o Brifysgol Nottingham a thra roedd yn y coleg, hi oedd un o'r merched cyntaf i gael ei hyfforddi i hedfan gan yr RAF.

Profiad arall

Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Safestore Holdings plc, Cymdeithas Adeiladu'r Principality a BACS Payment Services Limited. Cadeirydd gwasanaethau Current Account Switch, Cash ISA Switch, a PayM Mobile Payments ar gyfer Pay. UK a Chadeirydd ymddiriedolwyr yr elusen, Make Some Noise.

Penodiadau allanol

Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Cymdeithas Adeiladu Coventry. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chadeirydd Sirius Real Estate. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol a hyrwyddwr Dyletswyddau Tuag at Ddefnyddwyr ar gyfer Vitality Health and Life Insurance.



Lila Thompson
Cyfarwyddwr Anweithredol

E Q

Penodwyd: Medi 2022

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 112.

Sgiliau a phrofiad

Mae gan Lila fwy nag 20 mlynedd o brofiad o ysgogi twf busnes, datblygu polisi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn sectorau diwydiannol, gan gynnwys gofal iechyd a'r amgylchedd. Ar hyn o bryd, mae'n arwain sefydliad oelodaeth cadwyni cyflenwi mwyaf y DU a fforwm y diwydiant dŵr sy'n darparu arweiniad meddwl annibynnol a lywir gan heriau fel Prif Swyddog Gweithredol Dŵr Prydain. Cyn cael ei phenodi'n Brif Swyddog Gweithredol, roedd Lila yn gyfrifol am roi cyngor i gwmnïau cydwladol ar gyfleoedd rhyngwladol a Llywodraeth y DU ar bolisi masnach.

Profiad arall

Un o Ymddiriedolwyr Hosbis St Christopher.

Penodiadau allanol

Un o Ymddiriedolwyr Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd (CIWEM). Aelod o Fwrdd Spring, sef canolfan ragoriaeth arloesedd y sector dŵr.

ALLWEDD

- A** Y Pwyllgor Archwilio
- D** Pwyllgor Prosiect Caffaeliad
Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid
(Pwyllgor Prosiect Cwm Taf gynt)

- E** Y Pwyllgor Materion Amgylcheddol,
Cymdeithasol a Llywodraethu
- F** Y Pwyllgor Cyllid
- L** Y Pwyllgor Goruchwilio Gollyngiadau Dŵr
- N** Y Pwyllgor Enwebiadau

- Q** Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
- R** Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
- T** Y Pwyllgor Technoleg
- O** Cadeirydd y Pwyllgor

**Graham Edwards OBE****Cyfarwyddwr Anweithredol****Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol**

Cyfnod: rhwng mis Hydref 2013
a mis Gorffennaf 2023

Cyfrifoldebau

Penodwyd Graham yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Gorffennaf 2020 ac ef oedd Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Sgiliau a phrofiad

Graham yw Prif Swyddog Gweithredol Wales & West Utilities. Mae ganddo gryn brofiad fel uwch-reolwr yn y sector cyfleustodau, yn rhedeg busnesau dosbarthu trydan a dŵr gyda South Wales Electricity, Hyder a Thames Water. Cyn gweithio yn y sector cyfleustodau, gweithiodd mewn uwch swyddi mewn amryw swyddogaethau ar draws amrywiaeth eang o fusnesau gweithgynhyrchu gan gynnwys peirianeg, cynhyrchu ac adnoddau dynol. Mae gan Graham MBA o Ysgol Fusnes Caerdydd ac mae'n Gymrawd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu.

Profiad arall

Cadeirydd CBI Cymru a Busnes yn y Gymuned Cymru. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Un o Lywodraethwyr Prifysgol De Cymru.

Penodiadau allanol presennol

Aelod o Fwrdd y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Ymdddeolodd Graham o'r Bwrdd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Gorffennaf 2023. Olynodd Joanne Kenrick Graham fel yr Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol ac ymgwyrodd Barbara Moorhouse â rôl Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.



ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae trefniadau llywodraethau corfforaethol cadarn yn rhan hanfodol o'r penderfyniadau a wnawn i greu gwerth ar gyfer ein rhanddeiliaid a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol.

Mae ein prosesau llywodraethu yn mynd ar drywydd Diben y Cwmni (a nodir yn llawn ar dudalen 05 o'r Adroddiad Blynnyddol hwn) ac maent yn seiliedig ar dryloywder a thegchwch, a ategir gan werthoedd y Grŵp.

Mae Egwyddorion Ofwat ar gyfer Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd yn cynnwys llawer o egwyddorion a darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (y Cod), a gyhoeddir gan y Cyngor Adroddiad Ariannol, yr rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio ag ef. Felly, rydym yn cymhwyso Egwyddorion Ofwat ac egwyddorion a darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU a gallwn gadarnhau eu bod wedi'u cymhwyso yn ystod y flwyddyn ariannol.

Sut rydym yn cyflawni darpariaethau canllawiau ofwat ar arweinyddiaeth, tryloywder a llywodraethu bwrdd

Darpariaethau canllawiau	Sut rydym wedi cydymffurfio â'r darpariaethau	Rhagor o wybodaeth
Diben, gwerthoedd a diwylliant	Mae Bwrdd y Penodai (y cyfeirir ato fel arall fel Dŵr Cymru Cyf., ein cwmni rheoleiddiedig neu'r Cwmni), wedi pennu Diben, strategaeth a gwerthoedd y Cwmni, ac mae'n fodlon bod y rhain a'i ddiwylliant yn adlewyrchu anghenion pawb a wasanaethir ganddo. Mae ein gweledigaeth a'n diwylliant yn sail i'n penderfyniadau a chânt eu monitro gan y Bwrdd (gweler diffiniad o'r Bwrdd isod) er mwyn iddo fodloni ei hun bod ymddygiad ym mhob rhan o'r busnes yn cyd-fynd â diben y Cwmni. Mae Datganiad Cyfeiriad a Pherfformiad y Cwmni yn nodi sut mae'r Cwmni wedi pennu ei ddyheadau ac wedi perfformio i'r rhai a wasanaethir ganddo.	Gweler tudalennau 1 i 12. Ceir Datganiad Cyfeiriad a Pherfformiad y Cwmni yn ein Hadroddiad Blynnyddol ar Berfformiad a fydd ar gael o ganol mis Gorffennaf 2024 ar ein gwefan https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/annual-performance-reports
Cwmni rheoleiddiedig ar wahân	Mae gan Dŵr Cymru Cyf Fwrdd effeithiol sydd â chyfrifoldeb llawn am bob agwedd ar fusnes y Penodai yn yr hirdymor. Yr un yw Bwrdd Cyfarwyddwyr ein cwmni daliannol, Glas Cymru Holdings Cyf, (y Bwrdd) gan mai ein hunig ddiben yw darparu ein gwasanaethau dŵr a gwastraff hanfodol er budd ein cwsmeriaid. Mae ein Hadroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'n fanwl rôl y Bwrdd a'r materion hynny sydd wedi'u dirprwyo i'w Bwyllgorau, y mae pob un ohonynt yn atebol i'r Bwrdd.	Gweler tudalennau 107 i 114. Er bod gennym Fwrdd unedig ar gyfer y Grŵp a Dŵr Cymru Cyf., rydym yn adolygu achosion posibl o wrthdaro ag aelodau'r Bwrdd yn rheolaidd ac yn ystyried unrhyw achosion o wrthdaro gan gyfeirio at yr agenda ar gyfer pob cyfarfod.
Arweinyddiaeth a thryloywder y Bwrdd	Bwrriedir i arweinyddiaeth y Bwrdd o'r ffordd y mae'n ymdrin â thryloywder a llywodraethu ennyn ymddiriedaeth yn Dŵr Cymru Cyf. ac mae'n sicrhau atebolrwydd am ei weithredoedd. Yn ôl y gofyn, cyhoeddir gwybodaeth am y canlynol yn yr Adroddiad Blynnyddol hwn: strwythur ein Grŵp; polisi difidendau; prif risgiau ac ansicrwydd; manylion Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau; presenoldeb mewn cyfarfodydd; Polisi Tâl Cyfarwyddwyr Gweithredol.	Strwythur y Grŵp, ewch i https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/company-structure Polisi Difidendau (tudalen 154). Prif Risgiau ac Ansicrwydd (tudalennau 56 i 66). Aelodau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau a phresenoldeb mewn cyfarfodydd (tudalen 99). Polisi Tâl Cyfarwyddwyr Gweithredol (tudalennau 132 i 153).
Strwythur y Bwrdd a'i effeithiolrwydd	Cynhelir adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau bob blwyddyn. Ym mhob trydedd flwyddyn, cynhelir yr adolygiad hwn gan werthuswr allanol annibynnol. Yn seiliedig ar y gwerthusiad mewnol diweddaraf, a gynhaliwyd gan Gadeirydd y Bwrdd ar gyfer BA 24, mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gymwys, yn cael eu rhedeg yn dda ac yn cynnwys digon o aelodau annibynnol, gan sicrhau y gallant wneud penderfyniadau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion gwahanol gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Caiff y cydbwysedd sgiliau a phrofiad, ac annibyniaeth y Bwrdd a'i Bwyllgorau, eu hadolygu'n rheolaidd. Ceir mwyafrif o Gyfarwyddwyr Anweithredol ar y Bwrdd ac ar bob un o'i Bwyllgorau.	Ceir casgliadau ein hadolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd a hwyluswyd yn fewnol ar gyfer 2023-24 ar dudalennau 113 a 114. Manylion bywgraffiadol aelodau ein Bwrdd, gan gynnwys sgiliau a phrofiad ac aelodau ei Bwyllgorau (tudalennu 102 i 105). Gwybodaeth am annibyniaeth a gwrthrychedd ein Cyfarwyddwyr (tudalen 112).

Mae adrannau canlynol yr adroddiad hwn yn nodi sut rydym yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cod, y mae ei brif egwyddorion yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

Sut rydym yn cyflawni darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU

Adran o'r cod

Adrodd ar y ffordd y cymhwysir egwyddorion yn erbyn darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 (y Cod).

1 Arweinyddiaeth y Bwrdd a Diben y Cwmni

 Darllenwch fwy ar dudalennau 107 i 110

2 Rhannu cyfrifoldebau

 Darllenwch fwy ar dudalennau 111 i 112

3 Cyfansoddiad y Bwrdd, olyniaeth a gwerthuso

 Darllenwch fwy ar dudalennau 113 i 117

4 Archwilio, risg a rheolaeth fewnol

 Darllenwch fwy ar dudalennau 118 i 131

5 Cydnabyddiaeth

 Darllenwch fwy ar dudalennau 132 i 153

Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod y Grŵp yn cyflawni ei Ddiben er budd ei gwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethir ganddo, gan ystyried buddiannau pob un o'i randdeiliaid, a'r Bwrdd yw prif fforwm gwneud penderyniadau'r Grŵp. Mae'n benderfynol o ddarparu arweinyddiaeth ysbrydoledig, yn uniongyrchol a thrwy ei Bwyllgorau, a dirprwyo awdurdod, fel y bo'n briodol, i dîm Gweithredol Dŵr Cymru. Mae'r Bwrdd wedi pennu Diben y Grŵp sy'n gyson â'i werthoedd ac a ategir gan ei Strategaeth, ac mae wedi'i fodloni bod diwylliant y Grŵp yn gyson â chyflawni'r Diben hwnnw.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am drefnu a chyfarwyddo materion y Grŵp mewn modd sy'n ei gwneud yn bosibl i'w amcanion tymor canolig a hirdymor

1 Arweinyddiaeth y Bwrdd a Diben y Cwmni

cytûn gael eu cyflawni. Drwy'r fframwaith llywodraethu effeithiol sydd ganddo, mae'r Bwrdd yn ceisio sicrhau perfformiad ariannol a gweithredol cryf a chynaliadwy, sy'n arbennig o bwysig i'r Grŵp o ystyried natur hirdymor y buddsoddiad sydd ei angen yn ei wasanaethau craidd i gwsmeriaid. Mae'r Bwrdd hefyd yn atebol am sicrhau, wrth gyflawni ei ddyletswyddau, fod rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol y Grŵp yn cael eu cyflawni, a bod y Grŵp yn gweithredu o fewn paramedrau risg a bennwyd yn briodol.

Mae'r Bwrdd yn ystyriol o'i rôl fel gwarcheidwad busnes hirdymor, gyda chyfrifoldeb, felly, i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf yn cael yr asedau sydd eu hangen arni i gyflawni Diben y Cwmni.

Mae'r Bwrdd yn pennu strategaeth y Grŵp yn seiliedig ar gynigion a luniwyd gan dîm Gweithredol Dŵr Cymru ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan reolwyr y busnes o ran cyflawni'r amcanion strategol y cytunwyd arnynt. Amlinellir nodau hirdymor y Bwrdd i'r Grŵp, yng nghyd-destun heriau'r dyfodol a disgwyliadau cwsmeriaid sy'n newid, yn ein dogfen strategaeth gyhoeddedig, Dŵr Cymru 2050. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Strategaeth Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn cynnwys 10 amcan allweddol i gefnogi'r ffocws ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yng nghyd-destun Dŵr Cymru 2050. Ceir manylion pellach am fframwaith cynllunio'r Grŵp yn yr Adroddiad Strategol ar dudalennau 14 i 91.

Gwnaeth y Grŵp ymrwymiad hefyd yn 2021 i gyflawni'r targed o allyriadau carbon sero net erbyn 2040 a chynhyrchu 35% o'n hynni ein hunain erbyn 2025. Er mwyn gweld sut rydym yn cyflawni ein Strategaeth Carbon Sero Net or hyn o bryd, gweler Amcan Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu 2 ar dudalen 78. Bydd y Grŵp yn parhau i adolygu ei Daith tuag at Sero Net yn ystod BA 25.

Ymgysylltu'r bwrdd â chyflogeion

Sesiynau ymgysylltu â chyflogeion

Yn ystod BA 23, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu â chyflogeion gan Gyfarwyddwyr Anweithredol gyda Hyrwyddwyr Ymgysylltu â Chyflogeion lle y trafodwyd amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys effaith tywydd garw ar dimau gweithredol; yr argyfwng costau byw; y broses o roi trefniadau gweithio hybrid ar waith ac effaith hynny; y sylw y mae'r cyhoedd a'r cyfyngau cymdeithasol yn ei roi i'r sector dŵr; PR24; rôl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a thâl uwch-gydweithwyr. Hefyd, cynhaliodd Tîm Gweithredol Dŵr Cymru sesiynau ymgysylltu gyda chydweithwyr lle y trafodwyd amrywiaeth o bynciau gan gynnwys gweithio hybrid, cyfathrebu a chydweithio, dyheadau gyrfa a datblygiad personol a'r trafodaethau ag undebau llafur ynghylch y dyfarniad costau byw i gydweithwyr. Ochr yn ochr â'r cyfarfodydd anffurfiol a gynhelir â rheolwyr (gweler isod), mae'r Bwrdd o'r farn mai hwn yw'r dull ymgysylltu mwyaf effeithiol o'i gymharu â'r tri dull mwy ffurfiol a awgrymir gan y Cod ar gyfer ymgysylltu â'r gweithlu

Cyfarfodydd anffurfiol â rheolwyr

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol rhwng Cyfarwyddwyr Anweithredol a rheolwyr o bob rhan o'r busnes er mwyn trafod gweithgarwch gweithredol a'r heriau y mae'r busnes yn eu hwynebu a diolch iddynt am eu hymdrechion. Roedd y Cadeirydd a Chyfarwyddwyr Anweithredol hefyd yn bresennol yn ystod ymweliadau safle a gwnaethant ymgysylltu â chydweithwyr mewn cyfarfodydd 'dros ginio' er mwyn trafod yr ymweliadau safle hyn.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

1 Arweinyddiaeth y Bwrdd a Diben y Cwmni – parhad

Gweithgareddau allweddol y Bwrdd yn ystod BA 24

Pwnc	Gweithgareddau a thrafodaethau allweddol yn ystod BA 24	Cyflawniad allweddol	Blaenoriaethau allweddol ar gyfer BA 25
Strategaeth a rheoli	Cynllunio ar gyfer PR24	Ymgynghori â rhanddeiliaid ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr drwy Fforwm PR24 Cymru er mwyn datblygu cynlluniau ar gyfer PR24	Asesu goblygiadau Penderfyniadau Drafft a Therfynol Ofwat a sicrhau bod y Grŵp yn barod i roi'r cynlluniau cymeradwy ar gyfer PR24 ar waith ac y gall wneud hynny.
	Dŵr Cymru 2050	Sicrhau bod y cynllun ar gyfer PR24 yn ymdrin â'r ymatebion strategol a nodir yn Dŵr Cymru 2050	Parhau i brofi aliniad ein cynlluniau ar gyfer PR24 a'r Strategaeth Gyflawni Hirdymor ddilynol yn erbyn amcanion Dŵr Cymru 2050 a darparu'r ymatebion strategol a nodir ynddi
	Adolygu Perfformiad Gweithredu yn erbyn targedau'r Cynllun Busnes a gofynion rheoleiddiol	Canolbwyntiodd ar y prif heriau gweithredol y mae'r Cwmni yn ei wynebu a phriodoldeb a digonolrwydd ymatebion arfaethedig rheolwyr	Canolbwyntio ar y meysydd hynny lle nad yw perfformiad gweithredu yn cyflawni targedau rheoleiddiol nac amcanion y Cwmni, gan fesur effeithiolrwydd y cynlluniau gwella a ddatblygwyd gan reolwyr
	Adnoddau Dŵr	- Cymeradwyodd Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Diwygiedig 2024 ar ôl ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid - Goruchwyliodd yr ymchwiliad i'r achosion o gamadrodd ar ollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen ar gyfer BA 21 a BA 22 a chytunodd ar gwantwm a phroses iawndal i gwsmeriaid a'r Ymrwymadau a wnaeth y Cwmni i Ofwat ar ôl i'w adroddiad ar y mater gael ei gyhoeddi	- Adolygu cynlluniau a thargedau ar gyfer y Defnydd o Ddŵr y Pen a Gollyngiadau Dŵr a monitro'r ffordd y cânt eu cyflawni - Goruchwylio cynllun gwella perfformiad Adnoddau Dŵr er mwyn cyflawni'r Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth y cytunwyd arno ag Ofwat
	Perfformiad amgylcheddol	- Adolygodd dargedau wedi'u diweddarau y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol a goblygiadau'r targedau hyn o ran natur, graddfa a phrosesau blaenoriaethu'r cynlluniau ar gyfer PR24 - Cymeradwyodd Strategaeth Rheoli Ystadau'r Grŵp - Adolygodd a chymeradwyodd Gynllun Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff y Grŵp	- Goruchwylio'r ffordd y mae'r Cwmni yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn asedau dŵr gwastraff ar sail cyfrannu at leihau niwed i'r amgylchedd - Adolygu effeithiolrwydd rhaglen y Cwmni i wella ei Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol a chyflawni'r Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth Amgylcheddol y cytunwyd arno ag Ofwat - Adolygu'r cynnydd a wnaed o ran rhoi Strategaeth Rheoli Ystadau'r Grŵp ar waith
	Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid (Pwyllgor Prosiect Cwm Taf gynt)	Mae'r Pwyllgor Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid wedi goruchwylio'r gwaith o lywodraethu'r prosiect i adeiladu gwaith trin dŵr mawr newydd a fydd yn gwasanaethu De Cymru, a chynnydd y prosiect hwnnw.	Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro cynnydd y prosiect drwy'r camau caffael a chyllido allweddol a bydd yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar gyfer cymeradwyaethau yn seiliedig ar roi'r sicrwydd sydd ei angen

Pwnc	Gweithgareddau a thrafodaethau allweddol yn ystod BA 24	Cyflawniad allweddol	Blaenoriaethau allweddol ar gyfer BA 25
Strategaeth a rheoli parhad	Taliadau cwsmeriaid ar gyfer 2023-24	Cymeradwyodd y Bwrdd strwythur taliadau ar gyfer BA 24 a oedd yn ceisio lleihau'r cynnydd mewn taliadau o ganlyniad i'r lefel uchel o chwyddiant cyffredinol. Hefyd, adolygodd y Bwrdd y cymorth ariannol a roddir i gwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau.	Monitro'r effaith ar allu cwsmeriaid i dalu eu biliau yn dilyn y cynnydd mewn taliadau ac yng nghyd-destun ehangach costau byw, wrth ystyried y lefel briodol o daliadau ar gyfer BA 25.
	Seilwaith IT, Seiber a Thechnoleg	- Mae'r Pwyllgor Technoleg wedi goruchwyllo'r gwaith o lywodraethu taith y busnes tuag at ddatrysiadau Cwmwl a'r cynnydd sydd wedi'i wneud - Bu'r Pwyllgor Technoleg yn goruchwyllo gallu'r Grŵp o ran seiberddiogelwch ac yn ystyried bygythiadau seiber presennol a newydd	- Monitro'r broses o symud data yn gyfan gwbl i'r Cwmwl a sicrhau bod y rhwydwaith a mesurau diogelwch yn parhau'n gwbl weithredol - Adolygu bygythiadau newydd i seiberddiogelwch yn borhaus ac asesu'r risg y mae hyn yn ei beri i'r Grŵp
Rheoli risg a rheolaethau mewnol	- Adolygodd y Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes - Adolygodd risgiau Strategol a risgiau Newydd bob chwe mis - Goruchwyliodd yr ymchwiliad i'r ffordd yr adroddir ar ollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen yn dilyn yr achosion o gamadrodd a nodwyd yn BA 22	- Cymeradwyo'r Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes newydd - Heriodd y Bwrdd asesiad Tîm Gweithredol Dŵr Cymru o risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn modd adeiladol - Cwblhaodd ymchwiliad Ofwat i'r achosion o gamadrodd ar ollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen a datblygodd cynlluniau unioni y cytunwyd arnynt gan gynnwys talu iawndal priodol i gwsmeriaid	- Monitro'r Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes ar draws y busnes - Cyflwyno adroddiadau ar risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r amlwg i'r Bwrdd, gan arweiniad y Prif Swyddog Risg - Goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r Ymrwymiadau a wnaed i Ofwat yn dilyn ei ymchwiliad i'r achosion o gamadrodd ar ddata gollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen
Adrodd ariannol a rheolaethau	- Adolygwyd polisiau cyfrifyddu ac Adroddiadau Ariannol hanner blwyddyn a diwedd y flwyddyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio - Cafodd systemau rheolaeth fewnol eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a'u cymeradwyo gan y Bwrdd fel rhan o'n proses adrodd diwedd y flwyddyn i Ofwat (gweler yr Adroddiad Blynnyddol ar Berfformiad a fydd ar gael o ganol mis Gorffennaf yn https://corporate.dwrwymru.com/cy-gb/library/annual-performance-reports)	- Adolygwyd polisiau cyfrifyddu ac Adroddiadau Ariannol hanner blwyddyn a diwedd y flwyddyn gyda mewnbwn gan yr Archwilydd allanol newydd ei benodi - Cafodd gwelliannau i brosesau diwedd y flwyddyn yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon a'r Adroddiad Blynnyddol ar Berfformiad eu hadolygu a'u cymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio	- Coiff polisiau cyfrifyddu ac Adroddiadau Ariannol eu hadolygu'n rheolaidd gyda mewnbwn gan yr Archwilydd allanol ar faterion/arferion gorau cyfredol - Gwelliannau pellach i brosesau diwedd y flwyddyn i'w rhoi ar waith ar gyfer BA 25 cyflwyno adroddiadau diwedd y flwyddyn i Ofwat (Adroddiad Blynnyddol ar Berfformiad) ac adroddiadau ariannol statudol y Cwmni
Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu	Adolygodd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu gynnydd tuag at gyflawni amcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu	- Adolygwyd dangosyddion perfformiad allweddol (sydd wedi cynnwys archwiliadau dwfn) ym mhob cyfarfod - Cafodd cynnydd o ran y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) ac adrodd ar garbon ei monitro - cafwyd sgôr ACLI gan Sustainable Fitch	- Canolbwyntio ar y dangosyddion perfformiad allweddol sy'n berthnasol i'n rhanddeiliad ac sy'n mesur cynnydd y Cwmni tuag at gyflawni ei amcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu - Adolygu cynnydd y Cwmni tuag at ei ymrwymiadau o ran carbon sero net yng nghyd-destun y Penderfyniad Terfynol ar gyfer PR24
Board composition and effectiveness	- Adolygodd y Pwyllgor Enwebiadau gyfansoddiad y Bwrdd, ei waith cynllunio ar gyfer olyniaeth ac aelodaeth ei Bwyllgorau - Cynhaliwyd adolygiad mewnol o effeithiolrwydd y Bwrdd yn seiliedig ar gyfarfodydd rhwng y Cadeirydd ac unigolion sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd	- Gwnaed newidiadau i aelodaeth Pwyllgorau - Cafodd yr adolygiad allanol o effeithiolrwydd y Bwrdd ei fonitro ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd - Cwblhawyd yr adolygiad mewnol o effeithiolrwydd y Bwrdd a chytunwyd ar gamau gwellu (gweler tudalennau 113 a 114)	- Coiff yr adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd ei gynnal drwy broses wedi'i hwyluso'n fewnol yn BA 25 - Cefnogi'r broses cynllunio olyniaeth ar gyfer penodi Cadeirydd newydd yn BA 25 a Chyfarwyddwr Anweithredol ac Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol newydd yn BA 26 - Bwrw ymlaen â chamau gweithredu y cytunwyd arnynt sy'n deillio o'r adolygiad mewnol o effeithiolrwydd y Bwrdd yn BA 24

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

1 Arweinyddiaeth y Bwrdd a Diben y Cwmni – parhad

Datblygiad ac addysg y bwrdd

Cynhaliodd y Bwrdd sawl seisiwn ddatblygu yn ystod 2023 a 2024, a ystyriodd Strategaeth Ariannol y Grŵp a datblygiad gallu deallusrwydd arifffisial. At hynny, cafodd y Bwrdd ddiweddariadau wedi'u targedu ar y broses o arfarnu buddsoddiad amlgyfalaf a Materion Ariannol sy'n ymwneud â PR24 a chynhaliodd ginio lle roedd partneriaid busnes o Microsoft yn bresennol.

Ymweliadau â safleoedd gweithredol

- **Mehefin 2023 Debra Bowen Rees a Tom Crick**
Gwyddoniaeth Gwasanaethau Dŵr – ymweliad rhannu gwybodaeth am ddalgylch, ardal dalgylch Glascoed
- **Awst 2023 – Debra Bowen Rees, Joanne Kenrick, Lila Thompson a Tom Crick**
Maerdy – cronfa wasanaeth Glynredynog – arolygiad glanhau tanciau.
- **Hydref 2023 – Debra Bowen Rees, Joanne Kenrick, Lila Thompson**
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Rotherwas a throsolwg o Strategaeth Gwaredu Maetholion Afon Gwy
- **Tachwedd 2023 – Barbara Moorhouse, Debra Bowen Rees a Lila Thompson**
Ymweliad safle yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Five Fords.
- **Rhagfyr 2023 – Alastair Lyons**
Ymweliad i asesu dyfroedd ymdrochi a systemau gorlif storm Afon Ddyfrdwy.

Aelodau a buddsoddwyr yn BA 24

Yn yr un modd ag y byddai cwmni rhestredig yn cynnal deialog â'i randdeiliaid, rydym yn cynnal deialog rheolaidd â'n Haelodau a'n Buddsoddwyr bondiau. Ar hyn o bryd mae gennym 68 o Aelodau Glas Cymru, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd. Dewisir Aelodau Glas gan Banel Dethol Aelodau Annibynnol. Drwy broses recriwtio flynyddol sy'n seiliedig ar hysbysebu agored, nod y Panel yw cynnal grŵp cytbwys ac amrywiol o unigolion, sy'n adlewyrchu'n fras amrywiaeth ein cwsmeriaid a buddiannau rhanddeiliaid allweddol.

Ein Panel Dethol Aelodau Annibynnol

Yn ogystal â Syr Paul Silk (Cadeirydd Annibynnol), mae aelodau'r panel yn cynnwys Menna Richards, sy'n Gyn-gyfarwyddwr Anweithredol, Chris Jones, sy'n gyn-Brif Swyddog Gweithredol a Debra Bowen Rees, sy'n Gyfarwyddwr Anweithredol ar hyn o bryd. Mae ysgrifennydd y Cwmni yn rheoli'r Aelodaeth, yn ceisio adborth gan y Panel Dethol Aelodau Annibynnol a

chynnwys cyfarfodydd yr Aelodau ac yn trefnu'r broses recriwtio Aelodau a'r broses sefydlu ganlyniadol. Mae'r Panel Dethol Aelodau Annibynnol yn argymhell y rhestr derfynol o ymgeiswyr i'w chymeradwyo gan y Bwrdd. Yn ystod BA 25, ar ôl i Menna Richards ymddeol, bydd y Panel Dethol Aelodau Annibynnol yn recriwtio aelod o'r panel yn ei lle o blith aelodau presennol y Grŵp.

Ein Haelodaeth

Yn ystod y flwyddyn, gadawodd pedwar Aelod eu rolau a phenodwyd 10 Aelod newydd ar ôl proses recriwtio agored a hysbysebwyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Ar ôl cael eu penodi, gwahoddwyd yr Aelodau newydd i sesiwn sefydlu diwrnod llawn, a gynhaliwyd yng Ngwaith Trin Dŵr Llwyn Onn a Chanolfan Addysg Gwaith Trin Gwastraff Cilfynydd.

Cyfarfodydd aelodau a gynhaliwyd yn ystod 2023-2024

2023

- Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (Gorffennaf)
- Sefydlu Aelodau Newydd (Tachwedd)
- Cyfarfod Hanner Blwyddyn (Rhagfyr)

2024

- Cyfarfodydd Rhanbarthol Aelodau
- Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien (Ionawr)
- Cronfa Ddŵr Llys y Frân (Mawrth)
- Parc Cinnel (Mawrth)

Cyfarfodydd a deialog â'n Haelodau

Defnyddir y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, cyfarfodydd hanner blwyddyn a gweithdai chwarterol gan y Bwrdd i roi wybodaeth ddiweddaraf i'n Haelodau am berfformiad y Grŵp a'r cynnydd y mae wedi'i wneud o ran cyflawni ei amcanion strategol, er mwyn sicrhau bod yr Aelodau yn deall y materion allweddol y mae'r Cwmni yn mynd i'r afael â nhw, ac ystyried yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y cynigion ffurfiol sydd ym maes yr Aelodau.

Caiff adborth gan yr Aelodau, drwy gyfarfodydd yr Aelodau ac adborth a rennir yn uniongyrchol ag Ysgrifenyddiaeth y Cwmni, ei rannu â'r Bwrdd ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyladwy i adborth, gwaith craffu ac argymhellion yng ngweithgarwch gwneud penderfyniadau'r Bwrdd.

Mae'r Cadeirydd, Debra Bowen Rees, fel yr Aelod o'r Panel Dethol Aelodau Annibynnol sy'n Gyfarwyddwr Anweithredol, Joanne Kenrick (ar faterion sy'n ymwneud â Pholisi Cydnabyddiaeth) ac Ysgrifennydd y Cwmni hefyd ar gael i gyfarfod ag unrhyw Aelod y tu allan i Gyfarfodydd Aelodau wedi'u trefnu.

Caiff adroddiadau ar sylw yn y wasg eu rhannu'n rheolaidd â'r Aelodau drwy Ysgrifenyddiaeth y Cwmni. Darperir gwybodaeth ychwanegol i'r Aelodau drwy gyfarfodydd, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran ymatebion i ddigwyddiadau gweithredol sy'n effeithio ar y busnes, megis tywydd garw, wrth iddynt godi.

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol eraill ar dudalennau 54 i 55 yn y Adroddiad Strategol.

Ein buddsoddwyr

Cawn ein hariannu'n llwyr gan ddyled ac mae codi dyled am gost isel yn rhan allweddol o'n strategaeth ariannol. Mae ein statws credyd ymhlith y gorau yn sector dŵr y DU. Ein strategaeth gyllido hirdymor barhaus yw cynnal ein gerio i lefel lle mae'r Bwrdd yn ystyried y byddem yn gallu cael mynediad i'r lefel fwyaf effeithlon o arian dyled a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion strategol. Mae mynediad i farchnadoedd ariannol yn allweddol i gyflawni ein hamcanion strategol ac mae gennym gydberthnasau agos ac agored â'n buddsoddwyr bondiau.

Cyfarfodydd a deialog â'n buddsoddwyr bondiau

Mae'r tîm Trysorlys yn sicrhau bod ein buddsoddwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy Adroddiadau Buddsoddwyr bob chwe mis, a gymeradwyir gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad yn dilyn cyfarfodydd gyda buddsoddwyr a, lle y bo'n briodol, yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan fuddsoddwyr ar faterion sy'n effeithio ar y Grŵp yn ei brosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r uwch-dîm rheoli yn trefnu Diwrnod i Fuddsoddwyr bob blwyddyn, ym mis Gorffennaf fel arfer, lle mae'r Cadeirydd hefyd yn bresennol, ac mae Trysorydd y Grŵp, y Prif Swyddog Ariannol a'r Prif Swyddog Gweithredol yn cyfarfod â buddsoddwyr yn ôl yr angen neu pan ofynnir iddo wneud hynny. Bwriedir cynnal y Diwrnod Blynnyddol i Fuddsoddwyr ar 10 Gorffennaf 2024 eleni, a chaiff manylion pellach am y digwyddiad hwn eu hanfon at fuddsoddwyr sydd wedi'u cofrestru ar Gronfa ddata rhanddeiliaid y Grŵp.

Yn ystod BA 24, ymhlith y pynciau y mae'r tîm wedi ymgysylltu â'n buddsoddwyr yn eu cylch mae perfformiad y Cwmni, yn arbennig ein sgôr yn yr Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol (EPA), yr adolygiad o achosion o gamadrodd ar ollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen, ein rhaglen carbon sero net, ein sgôr ACLI gan Sustainable Fitch (gweler tudalen 22) a'n cynlluniau ar gyfer AMP8 fel rhan o'r adolygiad rheoleiddiol o brisiau ar gyfer PR24.

2 Rhannu cyfrifoldebau

Rolau a chyfrifoldebau

Aelodau'r Bwrdd

- Mae pob un o aelodau'r Bwrdd yn Gyfarwyddwyr y cwmni daliannol, Glas Cymru a'r cwmni gweithredol rheoleiddedig, Dŵr Cymru Cyfyngedig. Mae'r un aelodaeth Bwrdd yn sicrhau dull gweithredu unedig lle y caiff buddiannau'r cwmni gweithredol eu hyrwyddo fel petai Dŵr Cymru Cyfyngedig yn gwmni rhestredig cyhoeddus ar wahân, yn unol â chanllawiau Ofwat ar Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd. Bwriedir i Ddiben Glas Cymru sicrhau bod Dŵr Cymru yn cyflawni ei amcanion strategol, gan ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid a'n cymunedau.
- Mae'r Bwrdd yn gyfrifol ar y cyd am y canlynol:
- Pennu strategaeth y Grŵp a chytuno ar y cynlluniau a ddatblygwyd gan Dîm Gweithredol Dŵr Cymru er mwyn sicrhau llwyddiant y Grŵp yn yr hirdymor er budd ei gwsmeriaid a'u cymunedau, gan ystyried buddiannau rhanddeiliad.
- Herio, annog a monitro perfformiad Tîm Gweithredol Dŵr Cymru yn erbyn yr amcanion strategol.
- Sicrhau adnoddau ariannol a dynol digonol i gyflawni amcanion y Grŵp.
- Goruchwyllo a sicrhau cydymffurfiaeth y Grŵp â gofynion statudol a rheoleiddiol.
- Goruchwyllo prosiectau buddsoddiad cyfalaf mawr.
- Pennu'r awydd i gymryd risgiau ar gyfer y busnes a sicrhau digonolrwydd ac effeithlonrwydd systemau rheolaethau mewnol a rheoli risg y Grŵp.
- Asesu a monitro diwylliant, gwerthoedd a safonau corfforaethol y Grŵp.

Penderfyniadau a materion a gedwir i'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu rhestr ffurfiol o Faterion a Gedwir at ystyriaeth y Bwrdd. Caiff hon ei monitro gan Ysgrifennydd y Cwmni a'i hadolygu gan y Bwrdd yn ôl y gofyn ond o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r ystyriaeth fanwl o gyfrifoldebau penodol i Bwyllgorau'r Bwrdd, ond wedi cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am wneud penderfyniadau yn y meysydd hyn. Wedyn, mae Cadeirydd pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar y materion a drafodwyd, y penderfyniadau a wnaed a, lle y bo'n briodol, mae'n gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynglŷn â materion y mae angen iddo eu cymeradwyo. Ceir disgrifiad o waith Pwyllgorau'r Bwrdd ar dudalen 97.

Mae cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau ar gael i bob Cyfarwyddwr Anweithredol. Caiff pob Pwyllgor ei Gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol annibynnol ac maent yn cynnwys mwyafrif o Gyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol, ac eithrio'r Pwyllgor Enwebiadau, y Pwyllgor caffaeliad ar gyfer Cwsmeriaid a'r Pwyllgor Goruchwyllo Gollyngiadau Dŵr, a Gadeirir gan Gadeirydd y Bwrdd.

Penodir aelodau'r Pwyllgorau ar sail argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau sy'n adolygu aelodaeth y Pwyllgorau bob blwyddyn, ac mae penodiadau yn para am gyfnod o hyd at dair blynedd, y gellir ei estyn am ddau gyfnod arall o dair blynedd, ar yr amod bod y Cyfarwyddwr yn parhau'n annibynnol. Mae holl Aelodau'r Bwrdd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Sefydlir y Pwyllgorau â Chylch Gorchwyl ysgrifenedig sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n briodol ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau o ran arferion gorau a llywodraethu.

Mae Cylch Gorchwyl Pwyllgorau a'r Materion a Gedwir yn ôl i'r Bwrdd ar gael ar wefan y Cwmni. Ewch i <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/governance/board-committees>

Tîm Gweithredol Dŵr Cymru

Mae Tîm Gweithredol Dŵr Cymru yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd ac am reoli'r busnes o ddydd i ddydd. Fe'i harweinir gan y Prif Swyddog Gweithredol ac mae'n cynnwys y Prif Swyddog Ariannol. Mae ei aelodau eraill yn uwch-reolwyr o bob rhan o'r busnes. Mae Tîm Gweithredol Dŵr Cymru yn cyfarfod deirgwaith y mis ac mae'n gyfrifol am redeg y busnes o ddydd i ddydd a materion gweithredol eraill er mwyn rhoi'r strategaethau y mae'r Bwrdd wedi cytuno arnynt ar waith. Dengys y diagram o'r Fframwaith Llywodraethu ar dudalen 97 Bwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau Rheoli sy'n cefnogi Tîm Gweithredol Dŵr Cymru. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau gan y Prif Swyddog Gweithredol, y Prif Swyddog Ariannol a Tîm Gweithredol Dŵr Cymru ym mhob cyfarfod wedi'i drefnu, sy'n rhoi diweddariad ar ein perfformiad ariannol a gweithredol ac unrhyw faterion cyfredol neu rai sy'n dod i'r amlwg.

Effeithiolrwydd y bwrdd

Caiff perfformiad y Bwrdd a'i Bwyllgorau ei adolygu'n flynyddol (gweler tudalen 113). Caiff cyfansoddiad y Bwrdd ei adolygu'n flynyddol hefyd gan y Pwyllgor Enwebiadau er mwyn cadarnhau amrywiaeth briodol o gefndir, sgiliau o phrofiad, ac fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer olyniaeth Cyfarwyddwyr. Adolygwyd cyfansoddiad Pwyllgorau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn a chafodd newidiadau i'r aelodaeth bresennol eu cynnig a'u cymeradwyo. Caiff y flaenamserlen ar gyfer agendâu cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol ei hadolygu gan y Bwrdd ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cael cyfle i awgrymu eitemau i'w cynnwys. Ar ddiwedd pob cyfarfod o'r Bwrdd, cynhelir trafodaeth lle mae'r Cyfarwyddwyr yn lleisio eu barn am effeithiolrwydd y cyfarfod ac unrhyw gyfleoedd i wella yn y dyfodol.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

2 Rhannu Cyfrifoldebau – parhad

Annibyniaeth

Rydym yn ystyried annibyniaeth ein Cyfarwyddwyr Anweithredol yn barhaus ac yn ffurfiol bob blwyddyn. Ac eithrio Cadeirydd y Bwrdd, a ystyriwyd yn annibynol adeg ei benodiad, ystyrir bod pob un o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol yn annibynol yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, ac nid oes gan yr un ohonynt unrhyw gydb berthynas a allai ddylanwadu ar eu barn annibynol. Ystyrir achosion posibl o wrthdaro buddiannau ar ddechrau pob un o gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Byddai Cyfarwyddwyr yn esgusodi eu hunain o unrhyw faterion lle yr ystyrir bod gwrthdaro buddiannau o'r fath yn bodoli.

Nid yw ein dogfennau cyfansoddiadol yn nodi dyraniad amser penodol y mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Anweithredol ei gyflawni er mwyn bod yn effeithiol yn eu rolau.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn adolygu i ba raddau y mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael amser priodol i gyflawni eu rôl yn effeithiol, ac yn ystyried unrhyw ymrwymadau newydd arfaethedig y mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn bwriadu eu cyflawni, ochr yn ochr â'u rolau presennol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal adolygiadau rheolaidd o amrywiaeth a chydbywysedd sgiliau a phrofiad ar y Bwrdd, sy'n eang eu cwrmpas fel y nodir ar dudalennau 115 i 117.

Penodiadau allanol

Cyfarwyddwyr Gweithredol

Nodir y penodiadau allanol a ddelir gan Peter Perry a Mike Davis yn eu bywgraffiadau ar dudalen 102.

Aelodaeth a phresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Trefnir i'r Bwrdd gyfarfod now gwaith y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd ychwanegol o'r Bwrdd, yn ôl y gofyn, yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl ar dudalen 99 yn dangos union nifer cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod BA 24 a phresenoldeb y Cyfarwyddwyr yn y cyfarfodydd hynny. Mae aelodau'r Bwrdd yn gwneud pob ymdrech i fynychu pob cyfarfod.

Gwrthdaro buddiannau

Caiff cyfarwyddiaethau a buddiannau busnes allanol eraill eu monitro'n ofalus, ynghyd â natur a nifer y cyfarwyddiaethau allanol a ddelir gan y Cyfarwyddwyr er mwyn bodloni ein hunain na fydd unrhyw benodiadau ychwanegol yn cael effaith andwyol ar eu hymrwymiad amser i'w rôl yn Dŵr Cymru. Cyn i Gyfarwyddwr gael ei benodi, gofynnir i'r penodai ddatgelu unrhyw fuddiannau eraill a all arwain at wrthdaro buddiannau ac mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr hysbysu'r Bwrdd am unrhyw fuddiannau busnes yn y dyfodol a allai arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig. Rhaid i unrhyw benodiadau allanol newydd arfaethedig i'w dal gan gyfarwyddwr presennol gael eu trafod â Chadeirydd y Bwrdd, yn y lle cyntaf, a chael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Enwebiadau i'w cymeradwyo.

Cadeirydd y Bwrdd

- mae'n gyfrifol am arwain y Bwrdd.
- mae'n gosod yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.
- mae'n sicrhau effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau a llywodraethu da.

Yr Uwch-gyfarwyddwr

Annibynol

- Mae'n cyfarfod â Chyfarwyddwyr Anweithredol eraill a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn flynyddol er mwyn adolygu perfformiad Cadeirydd y Bwrdd.
- Bydd yn Cadeirio cyfarfod os na all Cadeirydd y Bwrdd fod yn bresennol.
- Mae'n gweithredu fel seinfwrdd anffurfiol i bob aelod o'r Bwrdd.

Cyfarwyddwyr Anweithredol

- Maent yn herio'r Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn ffordd adeiladol ac yn monitro'r ffordd y mae'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd yn cael ei gweithredu o fewn y fframwaith risg a rheoli a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Maent hefyd yn mentora ac yn cefnogi aelodau o Dim Gweithredol Dŵr Cymru ac uwch-reolwyr ym mhob rhan o'r busnes.
- Maent yn cymryd diddordeb byw mewn materion gweithredol sy'n effeithio ar y busnes (gweler yr ymweliadau â safleoedd ar dudalen 110).

Prif Swyddog Gweithredol

Y tu hwnt i faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd, y Prif Swyddog Gweithredol sy'n bennaf cyfrifol am arwain rheolwyr y Cwmni, gyda chymorth Tîm Gweithredol Dŵr Cymru.

Aelodau

Fel Grŵp o dan berchenogaeth cwmni cyfyngedig drwy warant, nid oes gennym gyfranddalwyr, ond mae ein Haelodaeth yn cynnwys unigolion sy'n dod o bob rhan o'n hardal gyflenwi (neu sydd â chysylltiad cryf) sy'n ymgymryd â rôl llywodraethu hollbwysig. Mae Aelodaeth yn bersonol ac yn ddi-dâl. Nid oes gan yr Aelodau unrhyw fudd ariannol yn y busnes. Mae'r annibyniaeth hon yn galluogi'r Aelodau i ddwyn y Bwrdd i gyfrif am warchod ein hasedau a darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol mewn ffordd a fydd yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ysgrifennydd y Cwmni

- Mae'n cynorthwyo Cadeirydd y Bwrdd er mwyn sicrhau bod y Grŵp yn llywodraethu'n effeithiol ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol a rheoleiddiol.
- Mae'n gweithredu fel y prif gydgyssylltydd a phwynt cyswllt ar gyfer Aelodau'r Grŵp, gan sicrhau bod yr Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn rhannu gwaith craffu ac adborth yr Aelodau â'r Bwrdd a Thîm Gweithredol Dŵr Cymru.
- Mae'n paratoi agendâu cyfarfodydd y Bwrdd y cytunir arnynt drwy ymgynghori â Chadeirydd y Bwrdd a'r Prif Swyddog Gweithredol, er y gall unrhyw aelod o'r Bwrdd ofyn am i eitem gael ei hychwanegu at yr agenda.
- Mae tîm Ysgrifennyddol y Cwmni ar gael i gynorthwyo'r holl Gyfarwyddwyr Anweithredol a Thîm Gweithredol Dŵr Cymru ac mae'n gweithio i sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n dda rhwng y Bwrdd, Tîm Gweithredol Dŵr Cymru a phwyllgorau a thimau rheoli mewnol y Grŵp.

3 Cyfansoddiad y Bwrdd, olyniaeth a gwerthuso

Penodi, sefydlu a datblygu cyfarwyddwyr

Dilyniir proses drwyadl a thryloyw ar gyfer penodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd (gweler tudalen 116).

Mae'r broses sefydlu yn cynnwys cyfle i weld papurau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau fel y bo'n briodol, ymweliadau â safleoedd a chyfarfodydd un i un â Chyfarwyddwyr Anweithredol eraill, prif gynghorwyr y Cwmni, aelodau o Dîm Gweithredol Dŵr Cymru ac uwch-reolwyr ym mhob rhan o'r busnes. Lle y bo'n briodol, mae Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd hefyd yn mynychu cwrs Sefydliad y Cyfarwyddwyr i gyfarwyddwyr newydd. Caiff Cyfarwyddwyr raglen sefydlu wedi'i theilwra wrth ymuno a rhaglenni addysgol a gwybodaeth parhaus ar bynciau sy'n berthnasol i weithredu a llywodraethu'r busnes.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu ein Cyfarwyddwyr yn borhaus, mae Ysgrifennydd y Cwmni yn sicrhau bod y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn deddfwriaeth a threfniadau llywodraethu corfforaethol ac adrodd fel y bo'n briodol. Mae presenoldeb rheolaidd ein Harchwilydd Allanol, Deloitte, yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn helpu i sicrhau bod y Cyfarwyddwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cyfredol ym maes llywodraethu.

Ceir manylion am ymweliadau ein Cyfarwyddwyr Anweithredol â safleoedd gweithredol a chyfleoedd datblygu addysgol i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ar dudalen 110. Gwahoddir Cyfarwyddwyr Anweithredol i nodi pynciau y byddai'n fuddiol iddynt gael hyfforddiant mwy penodol yn eu cylch er mwyn bod yn fwy effeithiol yn eu rolau.

Mae'r ymgeisydd terfynol ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Anweithredol newydd i Fwrdd y Cwmni rheoleiddiedig yn cyfarfod ag Ofwat cyn i unrhyw benodiad gael ei wneud.

Cyfnod mewn swydd ac ailethol

Penodir Cyfarwyddwyr Anweithredol am gyfnod o dair blynedd y gellir ei adnewyddu am hyd at ddau gyfnod arall o dair blynedd. Sut bynnag, ni chaniateir i unrhyw Gyfarwyddwr Anweithredol wasanaethu am fwy na 10 mlynedd o dan delerau ein Herthyglau. At hynny, bydd pob Cyfarwyddwr yn sefyll yn ffurfiol i gael ei ailethol gan Aelodau Glas bob blwyddyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a bydd unrhyw Gyfarwyddwr a benodir yn ystod y flwyddyn yn sefyll i gael ei ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nesaf ar ôl iddo gael ei benodi.

Ar ôl cwblhau naw mlynedd yn gwasanaethu fel Cyfarwyddwr, ymddiswyddodd Graham Edwards o'r Bwrdd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ym mis Gorffennaf 2023. Nid oes neb arall wedi ymddeol o'r Bwrdd na chael ei benodi iddo yn ystod BA 24.

Gwerthuso'r bwrdd

Mae'r Bwrdd o'r farn bod gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau y cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad, annibyniaeth a gwybodaeth am y Grŵp i'w galluogi i gyflawni eu priod ddyletswyddau a chyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd yn adolygu hyn yn rheolaidd drwy ei adolygiad blynnyddol o effeithiolrwydd ac mewn trafodaethau ag Ysgrifennydd y Cwmni a'r Pwyllgor Enwebiadau.

Yn ystod BA 24, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad mewnol, yn dilyn adolygiad allanol a gynhaliwyd gan Halex Consulting Limited yn BA 23, yn unol â gofyniad y Cod y dylai cwmnïau gynnal gwerthusiad o'r Bwrdd wedi'i hwyluso'n allanol bob tair blynedd o leiaf.



ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

3 Cyfansoddiad y Bwrdd, olyniaeth a gwerthuso – parhad

Argymhellion allweddol yng ngwerthusiad BA 24 o'r Bwrdd

Argymhelliad	Camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer BA 25
Cynllunio ar gyfer olyniaeth y Bwrdd ac aelodaeth o Bwyllgorau	Gan gydnabod y bydd y Cadeirydd a'r Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yn ymddeol yn ystod BA 25, dylid canolbwyntio ar reoli cynlluniau olyniaeth er mwyn sicrhau y cynhelir cyfansoddiad, profiad a chydbwysedd sgiliau'r Bwrdd. Caiff y gwaith o reoli'r broses drosglwyddo ei arwain gan y Pwyllgor Enwebiadau a chaiff ei gefnogi drwy ailgyflunio aelodaeth Pwyllgorau yn ystod 2024 er mwyn sicrhau y cedwir arbenigedd priodol ym mhob un o Bwyllgorau'r Bwrdd. Er mwyn deall yr heriau gweithredol a daearyddol penodol y mae'r busnes yn eu hwynebu, ystyriwyd y byddai profiad a gafwyd naill ai fel Cyfarwyddwr Gweithredol neu Anweithredol mewn endid â gweithrediadau eang ar sawl safle (cyfleustod yn ddelfrydol) yn ychwanegiad defnyddiol wrth ystyried recriwtio rhagor o Gyfarwyddwyr Anweithredol, yn ogystal â cheisio diddordeb gan ymgeiswyr o Gymru er mwyn cynyddu nifer yr Aelodau Cymreig o'r Bwrdd.
Goruchwyliaeth weithredol	Er mwyn i'r Bwrdd allu nodi prif faterion gweithredol a meysydd ffocws yn glir, dylai diweddariadau'r Prif Swyddog Gweithredol, y Prif Swyddog Ariannol a'r Tim Gweithredol dynnu sylw at feysydd sy'n destun pryder, heriau yn y dyfodol a materion sy'n dod i'r amlwg ac adrodd arnynt ar wahân i fethodolegau adrodd presennol. Bydd hyn yn dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn cynlluniau a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac yn galluogi'r Bwrdd i nodi tueddiadau, dadansoddi goblygiadau a thrafod camau gweithredu posibl yn fwy effeithiol. O ystyried y ffocws ar wella perfformiad gweithredol, byddai goruchwyliaeth y Bwrdd yn canolbwyntio ar yr un materion ac yn osgoi neilltuo amser rheoli i ymdrin â materion eraill. Byddai dadansoddiad y Bwrdd o'r gwelliant cynyddol a sicrhawyd yn cael ei arwain gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a chytunwyd y byddai pob Cyfarwyddwr Anweithredol yn ymuno â'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch hyd y gellir rhagweld.
Rheoli rhanddeiliaid	Cafwyd cefnogaeth i'r cynnig y dylai'r Tim Gweithredol ailasesu strategaeth gyfathrebu'r Cwmni er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall y problemau y mae'r busnes yn eu hwynebu, y cynlluniau i fynd i'r afael â nhw a'r ffactorau sy'n ein hatal rhag gwneud cynnydd cyflymach, yn arbennig yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng buddsoddi a fforddiadwyedd cwsmeriaid. O ystyried pwysigrwydd ein fframweithiau cyflenwyr allweddol i gyflwyno rhaglen fuddsoddi AMP8, cytunwyd y dylai'r Bwrdd gynyddu ei weithgarwch rhyngweithio ar lefel uwch â phrif gyflenwyr.
Papurau a threfniadau cyfarfodydd y Bwrdd	Cytunwyd bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud o ran yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr adolygiad o effeithiolrwydd ar gyfer BA 23 gyda gwelliant nodedig yn ansawdd papurau a chyflwyniadau. Yn ystod BA 25, rhoddir sylw i bwysigrwydd sicrhau bod papurau'r Bwrdd yn nodi'n glir faterion allweddol y mae angen canolbwyntio arnynt, yr ymatebion amgen sydd ar gael ac argymhelliad (argymhellion) rheolwyr. At hynny, gwnaed argymhellion er mwyn pwysleisio pwysigrwydd nodi awduron papurau a Swyddogion Gweithredol atebol i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod adolygiad priodol wedi'i gynnal cyn i'r papurau gael eu cyflwyno i'w hadolygu a'u cymeradwyo.
Effeithiolrwydd Pwyllgorau	Cydnabuwyd bod Pwyllgorau'r Bwrdd yn parhau i weithredu'n effeithiol er i feysydd penodol i'w gwella gael eu nodi. Gan gydnabod yr amrywiaeth eang o amcanion strategol Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a'u DPAAu ategol, ochr yn ochr â'r nifer mawr o gyrff goruchwyllo ac ymgynghori a gofynion adrodd newydd, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ganolbwyntio ar roi blaenoriaeth i feysydd a fyddai'n gwneud y cyfraniad mwyaf at gyflawni amcanion strategol allweddol. Cafodd y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Technoleg eu hannog i gydweithio er mwyn osgoi diblygu'r gwaith y mae'r ddau Bwyllgor yn ei wneud wrth adolygu a goruchwyllo risgiau sy'n gysylltiedig â thechnoleg ac effeithiolrwydd ei fframweithiau rheoli TG.
Gwelliant parhaus	Gan gydnabod pwysigrwydd adborth a herio parhaus, a'r rôl y mae hyn yn ei chwarae o ran datblygu a chynnal Bwrdd effeithiol, cytunwyd y byddai amllder ac amseriad adborth yn cael eu hystyried ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd. Cytunwyd hefyd y byddai anghenion hyfforddiant Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael eu hadolygu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

Yn gyffredinol, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Bwrdd yn parhau i weithredu'n effeithiol. Mae'r Bwrdd yn un colegol o ran dynameg ac yn cynnwys cydbwysedd da o brofiad ac aelodau sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd ac sy'n awyddus i hyrwyddo llwyddiant y Grŵp. Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel fforwm trafod agored a thryloyw. Mae pawb yn cael cyfle i gael ei glywed ac anogir pawb i gyfranogi, sy'n cyfrannu at ddiwylliant cadarnhaol a chefnogol. Adolygwyd perfformiad y Cadeirydd gan y Bwrdd (heb i'r Cadeirydd fod yn bresennol) o dan arweiniad yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Mawrth 2024. Ystyriodd yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol y sylwadau a'r adborth a gafwyd gan y Cyfarwyddwyr, a'u trafod â Chadeirydd y Bwrdd, ac roedd yn gallu cadarnhau bod perfformiad y Cadeirydd yn parhau i fod yn effeithiol iawn a'i fod yn dangos ymrwymiad priodol i'w rôl a'i ddyletswyddau, gan roi cefnogaeth ardderchog i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, a bod ar gael yn ôl y gofyn i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.

Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau



Alastair Lyons CBE

Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau

Aelodau eraill:

- Graham Edwards (tan fis Gorffennaf 2023)
- Peter Perry
- Joanne Kenrick
- Debra Bowen Rees (o fis Gorffennaf 2023)

Yn absenoldeb y Cadeirydd, neu pan fydd y Pwyllgor yn ymdrin â mater olyn y Cadeirydd y Bwrdd, bydd yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yn cadeirio'r cyfarfod.

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 4

Meysydd ffocws yn edrych ymlaen at 2024-25:

- Dechrau ar y broses o benodi olynnydd i Gadeirydd y Bwrdd yn 2024, a gaiff ei harwain gan yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol, a pharhau i ddatblygu'r strategaeth er mwyn sicrhau y caiff olynwyr i lenwi'r prif rolau ar y Bwrdd eu penodi fesul cam. Ar ôl proses ddethol drwyadl, mae Saxon Bampfylde wedi'i benodi i gefnogi'r broses o benodi olynnydd i Gadeirydd y Bwrdd.
- Cynnal y cydbwysedd priodol o sgiliau, gwybodaeth, profiad ac annibyniaeth ar y Bwrdd drwy gynllunio ar gyfer olyniaeth y Bwrdd a thrwy ganlyniadau y cytunwyd arnynt o'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Bwrdd.
- Adolygu aelodaeth bresennol Pwyllgorau gan ystyried materion olyniaeth.

Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor fel a ganlyn:

- Sicrhau bod gan y Bwrdd y sgiliau, y cefndir a'r profiad angenrheidiol i alluogi'r Grŵp i gyflawni ei amcanion strategol presennol a'i amcanion strategol yn y dyfodol;
- Sicrhau bod cyfansoddiad y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael ei adolygu'n rheolaidd yng nghyd-destun cylchdroi cyfarwyddwyr, strategaeth a gweithgareddau'r Cwmni, ei amcanion o ran amrywiaeth, a chylch gorchwyl y Bwrdd;
- Llunio cynlluniau sy'n sicrhau olyniaeth drefnus ar gyfer rolau ar y Bwrdd a'i Bwyllgorau;
- Sicrhau bod gweithdrefn ffurfiol, drylwyr a thryloyw ar gyfer penodiadau i'r Bwrdd;
- monitro cynlluniau olyniaeth y Prif Weithredwr ar gyfer Tim Gweithredol Dŵr Cymru;
- Gweithio a chydgyssylltu â Byrddau Pwyllgorau eraill, fel y bo'n briodol, gan gynnwys y Pwyllgor Cydnabyddiaeth mewn perthynas â phhecyn cydnabyddiaeth i'w gynnig i unrhyw benodai newydd i'r Bwrdd, ac ar faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb cyflog rhywedd a chydaddoldeb cyflog ethnigrwydd.
- Mae'r Pwyllgor wedi cymhwyso'r Egwyddorion ac wedi cydymffurfio â Darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU sy'n ymwneud â Phwyllgorau Enwebiadau.
- Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor (corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/terms-of-reference) yn nodi'r 5 cyfrifoldeb y mae'r Pwyllgor yn eu cyflawni ar ran y Cwmni a'i is-gwmnïau, sydd wedi llywio agenda a meysydd ffocws allweddol y Pwyllgor yn ystod 2023/24.

Blaenoriaethau	Committee activity and outcome
Cyfansoddiad a chydbwysedd y Bwrdd	Ystyriodd y Pwyllgor sgiliau, gwybodaeth, profiad, annibyniaeth ac amrywiaeth Cyfarwyddwyr Anweithredol a gwneud sylwadau arnynt. Yn yr ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi ystyried Ymrwymadau ac amodau penodi Cyfarwyddwyr er mwyn llywio gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth y Bwrdd.
Sicrhau amrywiaeth meddylfryd ac ymagwedd ymhlith aelodau'r Bwrdd	Mae'r Pwyllgor wedi ystyried amcanion y Grŵp o ran amrywiaeth a chynhwysiant wrth gynnal ei brosesau recriwtio ac wedi sicrhau bod o leiaf 33% o aelodau'r Bwrdd yn fenywod ac wedi penodi o leiaf un Cyfarwyddwr Anweithredol o gefndir ethnig lleiafrifol i'r Bwrdd.
Aelodaeth pwyllgorau'r Bwrdd	Ar ôl ymuno â'r Bwrdd, mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn treulio 12 mis fel Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion a heriau gweithredol. Adolygodd y Pwyllgor aelodaeth ehangach Pwyllgorau yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd ac roedd wedi'i fodlon bod Pwyllgorau'r Bwrdd yn cadw'r cymysgedd cywir o sgiliau a phrofiad, yn ogystal â'r gallu i herio'n effeithiol a hyrwyddo amrywiaeth. O fis Chwefror 2024 ymlaen, cytunodd y Bwrdd y byddai pob Aelod o'r Bwrdd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.
Cynllunio ar gyfer olyniaeth	Mae'r Pwyllgor wedi adolygu cynlluniau olyniaeth ar gyfer y Bwrdd a Thîm Gweithredol Dŵr Cymru yn ystod 2023-24. Roedd hyn yn cynnwys trafod pryd y dylid dechrau ar y broses o benodi olynnydd i Gadeirydd y Bwrdd yn 2024 a'r Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yn 2025.
Llywodraethu ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau	Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad blynyddol o'i effeithiolrwydd yn erbyn ei Gylch Gorchwyl ei hun a doeth i'r casgliad bod y Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod BA 24 ac nad oedd angen diwygio ei Gylch Gorchwyl. Adolygodd y Pwyllgor y rhestr o Gyfarwyddwyr a benodwyd i is-gwmnïau'r Grŵp ac roedd wedi'i fodloni bod trefniadau priodol ar waith o hyd ym mhob rhan o'r Grŵp.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL PARHAD

Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau – parhad

Proses benodi'r bwrdd

Mae'r Pwyllgor yn arwain y broses o wneud penodiadau i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor wedi'i fodloni bod y broses yn un ffurfiol, trwyadl a thryloyw ar gyfer penodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd, sy'n cyflawni amcanion y Grŵp o ran amrywiaeth a chynhwysiant, yn ogystal â helpu i sicrhau olyniaeth drefnus.

Cynllunio ar gyfer olyniaeth

Mae'r Pwyllgor yn adolygu ac yn asesu cyfansoddiad y Bwrdd ar ran y Bwrdd ac yn argymhell penodi Cyfarwyddwyr newydd. Mae'n goruchwyllo'r cynlluniau olyniaeth a ddatblygwyd gan y Prif Weithredwr ac mae'r Bwrdd yn adolygu cynlluniau olyniaeth Tîm Gweithredol Dŵr Cymru, gyda diweddariad blynyddol gan y Cyfarwyddwr Cymorth Busnes a Phobl.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Fel rhan o'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau, mae'r Bwrdd yn ystyried y cydbwysedd o sgiliau, profiad, annibyniaeth ac amrywiaeth fel y'u hadolygir gan y Pwyllgor. Mae'r Bwrdd yn cadw llygad am gyfleoedd i wella'r lefel bresennol o amrywiaeth o ran sgiliau, profiad, cefndiroedd, hil, rhywedd a nodweddion personol Aelodau'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn adrodd ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran rhoi Polisi Amrywiaeth y Bwrdd ar waith a monitro amrywiaeth y Bwrdd ac ar gymarebau amrywiaeth o ran y rhywiau y Grŵp yn ei Adroddiad Blynyddol. Mae hefyd yn cyflwyno adroddiad ar y ffordd y mae'n goruchwyllo cynlluniau i hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithlu er mwyn sicrhau bod yr unigolion sy'n gweithio i ni yn gynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethir gennym, yn unol â pholisiau'r Grŵp o blaid datblygu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob rhan o'r busnes.

Ym morn y Pwyllgor, mae'r Bwrdd yn cael budd o amrywiaeth briodol eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Mae bywgraffiadau'r Cyfarwyddwyr ar dudalennau 102 i 105 yn rhoi manylion am eu cefndir, eu sgiliau a'u profiad, ac o ystyried y Bwrdd yn ei gyfarwydd maent yn rhai amrywiol ac eang eu cwrmpas.

Ar ddiwedd BA 24, mae 56% o aelodau'r Bwrdd (BA 22–23: 50%) a 26% o aelodau Tîm Gweithredol Dŵr Cymru (BA 22–23: 33%) yn fenywod, ond yn y gweithlu ehangach, mae 45% o'r uwch-reolwyr hynny sy'n uniongyrchol atebol i aelod o Dîm Gweithredol Dŵr Cymru yn fenywod (BA 22–23: 38%) yn fenywod.

Rydym yn parhau i gefnogi argymhellion Adolygiad Hampton Alexander a wnaeth annog cwmnïau i gynyddu canran y menywod sy'n aelodau o fyrdau a thimau arwain (gan gynnwys Tîm Gweithredol Dŵr Cymru ac sy'n uniongyrchol atebol i Dîm Gweithredol Dŵr Cymru) i 33% erbyn diwedd 2020, sef targed sydd wedi'i gyflawni. Mae'n galonogol ein bod wedi llwyddo i barhau i gyflawni'r targed hwn a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gadw at y targed hwn.

Cefnogwn argymhellion Adolygiad Parker sy'n annog cwmnïau i gynyddu'r ethnigrwydd ar fyrdau ac, ar hyn o bryd, rydym yn cyrraedd y targed gwirfoddol a osodwyd gan Adolygiad Parker y dylai fod o leiaf un Cyfarwyddwr o gefndir ethnig lleiafrifol erbyn 2024.

Er nad ydym yn gwmni rhestredig, rydym yn cydymffurfio â Rheolau Rhestru'r DU i gyrraedd targedau penodol o ran amrywiaeth Byrddau ar sail 'cydymffurfio neu esbonio'. Mae'r targedau fel a ganlyn:


- Mae o leiaf 40% o aelodau'r Bwrdd yn fenywod (56% ar gyfer BA 24)
- Mae o leiaf un o'r uwch swyddi ar y Bwrdd (Cadeirydd, Prif Swyddog Gweithredol, Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol neu Brif Swyddog Ariannol) yn fenyw
- Mae o leiaf un aelod o'r Bwrdd o gefndir ethnig lleiafrifol

Ar ôl i'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf 2023 ddod i ben, pan olynodd Joanne Kenrick Graham Edwards fel yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol, rydym wedi gallu cadarnhau ein bod yn cydymffurfio â Rheolau Rhestru'r DU ac y byddwn yn parhau i sicrhau bod gan y Bwrdd gydbwysedd priodol ym mhob ffordd ac ystyried targedau'r Rheolau Rhestru ar gyfer amrywiaeth byrddau fel rhan o'n cynlluniau olyniaeth ar gyfer uwch rolau ar y Bwrdd yn y dyfodol.

Gwyddom hefyd y gallwn wella amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach ym mhob rhan o'r Cwmni ac nid yw'r Pwyllgor na'r Bwrdd yn llaesu dwylo ynghylch y materion hyn. Mae'r Grŵp yn ymrwymedig i ddileu gwahaniaethu ac annog amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn ein galluogi i recriwtio a chadw gweithlu amrywiol. Gellir gweld datganiad amrywiaeth ein Bwrdd ar ein gwefan yn:

<https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/company-statements/board-diversity-statement>

Amcanion y polisi amrywiaeth	Camau gweithredu	Cynnydd
Y Pwyllgor i ystyried gwir amrywiaeth meddwl gan ystyried holl sgiliau, gwybodaeth, profiad, cefndiroedd a nodweddion aelodau'r Bwrdd, bydd y Pwyllgor yn adolygu cyfansoddiad y Bwrdd yn rheolaidd a'r ffordd y mae'n cynllunio ar gyfer olyniaeth ac yn datblygu talent, yn ogystal â'r ogweddau ehangach ar amrywiaeth.	Bydd Bwrdd amrywiol yn cynnwys ac yn defnyddio gwahaniaethau mewn sgiliau, profiad rhanbarthol a phrofiad yn y diwydiant, cefndir a hil, rhywedd a nodweddion personol, megis deallusrwydd, asesu a barnu beirniadol, dewrder, bod yn agored, gonestrwydd a bod yn ystyriol a'r gallu i wrando, meithrin cydberthnasau ac ennyn ymddiriedaeth.	Mae'r Pwyllgor yn cydbwysu'r ystyriaeth a roddir i'r nodweddion hyn, gan gofio hefyd fod pob penodiad i'r Bwrdd yn cael ei wneud ar sail teilyngdod, ac yng nghyd-destun y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar y Bwrdd er mwyn iddo fod yn effeithiol. Ystyrir y ffactorau hyn wrth fwrw ymlaen â'r broses o recriwtio Cyfarwyddwyr Anweithredol.
Bydd y Pwyllgor yn gweithio gyda chwmnïau ymgynghoriaeth recriwtio sy'n deall gwerthoedd y Grŵp a'i ymagwedd at amrywiaeth a bydd yn nodi ac yn cynnig ymgeiswyr addas.	Bydd y Pwyllgor yn gweithio gyda chwmni ymgynghori ar recriwtio, yn dilyn proses ddethol a fydd yn sicrhau'r gwerth gorau am arian. Bydd y cwmni wedi llofnodi'r Cod Ymddygiad Gwirfoddol Safonol ar gyfer cwmnïau chwilio gweithredol a bydd yn ymrwymedig i gadw at y safonau hynny.	Bydd y Pwyllgor yn parhau i ymgysylltu â'r cwmni ymgynghori ar recriwtio priodol sy'n bodloni'r meini prawf hyn yn ystod ei broses recriwtio.
Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn, yn yr adran o'r Adroddiad Blyneddol sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol, ar y broses y mae wedi'i defnyddio mewn perthynas â phenodiadau i'r Bwrdd, ei gynnydd o ran cadw neu wella amrywiaeth y Bwrdd ac ar gymarebau amrywiaeth o ran y rhywiau.	Gweler tudalennau 115 a 116.	Mae'r adroddiad hwn yn dangos tystiolaeth o waith y Pwyllgor ar y broses ar gyfer penodiadau, cynnydd wrth gadw neu wella amrywiaeth y Bwrdd ac ar amrywiaeth a chynhwysiant rhwng y rhywiau. Drwy adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo'r ffordd y rhoddir polisïau ar waith er mwyn gwella amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob rhan o'r busnes. Mae'r adolygiad o'r Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau hefyd yn cynnwys trafodaeth am y camau gweithredu arfaethedig i leihau'r bwlch ymhellach.
Bydd y Pwyllgor hefyd yn adrodd ar y gwaith o oruchwyllo cynlluniau i hyrwyddo amrywiaeth yn ein gweithlu er mwyn sicrhau bod yr unigolion sy'n gweithio i ni wir yn gynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethir gennym.	Cafodd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ddiweddariad ar ddenu a chadw gweithlu amrywiol er mwyn adlewyrchu ein cymunedau ym mis Mawrth 2024.	Mae'r Cwmni wedi gweithio'n galed i gasglu data personol ar nodweddion gwarchodedig. Mae cyfradd cofnodi data ethnigrwydd wedi'i chynnal ar 80% ac mae'r Bwrdd yn parhau i gefnogi'r rhaglen o weithgareddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y busnes ehangach.
Adolygu ei Bolisi Amrywiaeth bob blwyddyn ac argymhell unrhyw newidiadau i'r Bwrdd.	Cafodd Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cwmni ei adolygu a'i ddiweddarau ym mis Awst 2023.	Bydd y Cwmni yn parhau i adolygu Polisi a Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cwmni bob blwyddyn.



Alastair Lyons
Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau

6 Mehefin 2024

 Gweler tudalen 99 am bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

4 Archwilio, risg a rheolaeth fewnol



Barbara Moorhouse
(o fis Gorffennaf 2023)

Adroddiad y Pwyllgor
Ansawdd a Diogelwch

Aelodau eraill:

- Debra Bowen Rees
- Tom Crick
- Mike Davis
- Jane Hanson
- Joanne Kenrick
- Alastair Lyons
- Lila Thompson
- Peter Perry
- Graham Edwards OBE
(Cadeirydd tan fis
Gorffennaf 2023)

Ymgynghorwyr annibynnol:

- David Elliott (Arbenigo
ym maes perfformiad
Amgylchedd a Dŵr
Gwastraff)
- Milo Purcell (Arbenigo
ym maes Dŵr ac Iechyd y
Cyhoedd)

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 7

 Gweler tudalen 99
am bresenoldeb yng
nghyfarfodydd y Bwrdd a'i
Bwyllgorau

Ymddiswyddodd Graham
Edwards OBE o'i rolau fel
Cyfarwyddwr Anweithredol,
Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a
Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a
Diogelwch, yn y Cyfarfod

Cyffredinol Blynnyddol ar
7 Gorffennaf 2023 ar ôl
gwasanaethu fel Cadeirydd y
Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ym
mis Mai a mis Mehefin. Olynodd
Barbara Moorhouse Graham
fel Cadeirydd y Panel Ansawdd
a Diogelwch yn weithredol o
ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol
Blynnyddol. O fis Chwefror 2024
ymlaen, cytunwyd y byddai pob
Aelod o'r Bwrdd yn bresennol
yng nghyfarfodydd y Pwyllgor
Ansawdd a Diogelwch.

Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

Prif gyfrifoldebau

Ar ran y Bwrdd mae'r Pwyllgor yn
gweithredu fel y prif fforwm ar gyfer
monitro perfformiad gweithredol y
Grŵp ac yn goruchwyllo'r broses o
reoli a lliniaru risgiau i'r busnes yn sgil
materion gweithredol, amgylcheddol ac
iechyd a diogelwch.

Mae'r Pwyllgor yn gwneud y
canlynol hefyd:

- herio Tîm Gweithredol Dŵr Cymru
er mwyn sicrhau gwelliant parhaus
o ran perfformiad gweithredol a'r
ffordd y caiff y Cynllun Ymrwymiad
Gwasanaeth ei gyflawni
- adolygu perfformiad gweithredol y
Grŵp o ran Dŵr a Dŵr Gwastraff, ac
asesu priodoldeb strategaethau Dŵr,
Dŵr Gwastraff ac Amgylcheddol;
- monitro'r dirwedd o flaenoriaethau
amgylcheddol, rheoleiddiol a
llywodraethol sy'n datblygu a
meysydd o bryder sy'n dod i'r
amlwg a'r effaith y gallent ei
chael ar safonau rheoleiddiol,
cynlluniau gweithredol a chynlluniau
buddsoddi.
- asesu adroddiadau blynnyddol, gan
gynnwys yr Adroddiad Blynnyddol
ar Ddiogelwch Argaeau, y Cynllun
Rheoli Adnoddau Dŵr a'r Adroddiad
Blynnyddol ar Iechyd a Diogelwch,
ac argymhell y rhain i'r Bwrdd i'w
cymeradwyo;
- adolygu a dylanwadu ar y Cynllun
Rheoli Iechyd a Diogelwch a'r ffordd
y caiff ei gyflawni;
- goruchwyllo cydymffurfiaeth y
Grŵp â'i gyfrifoldebau am iechyd
y cyhoedd a'i rwymedigaethau i
ddarparu dŵr yfed glân a diogel a
glanweithdra dŵr gwastraff yn unol
â'r holl safonau perthnasol;
- adolygu digonolrwydd trefniadau
argyfwng a diogelwch y Grŵp a
chael sicrwydd eu bod yn cyd-fynd â
chanllawiau statudol cyfredol megis
gofynion Seilwaith Cenedlaethol
Critigol (CNI), Strategaeth Diogelwch
Amddiffynnol a'r Gyfarwydddeb
Mesurau Diogelwch ac Argyfwng
(SEMD);
- adolygu a chytuno ar systemau
gweithredol a rhaglen archwilio
sicrhau ansawdd y Grŵp a chael
canfyddiadau adroddiadau
archwilio yn ymwneud â darpariaeth
gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff;
- yn adolygu canfyddiadau
Adolygiadau o Ddigwyddiadau
Difrifol o unrhyw fethiant o ran
ansawdd dŵr, yr amgylchedd,
diogelwch, neu wasanaeth
cwsmeriaid. Arweinir Adolygiadau o
Ddigwyddiadau Difrifol gan Brif

Swyddog Gweithredol y Grŵp er
mwyn nodi achos(ion) sylfaenol
ac unrhyw oblygiadau ehangach
sydd i'r digwyddiad a chytuno ar
gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael
ag unrhyw broblemau parhaus;

Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Yn ystod BA 24, roedd
gweithgareddau'r Pwyllgor yn
cynnwys adolygu:

- adroddiadau chwarterol a blynnyddol
ar Iechyd a Diogelwch;
- adroddiadau perfformiad ar gyfer
Gwasanaethau Dŵr a Dŵr Gwastraff,
gydag adroddiadau yn cael eu
cyflwyno ar fethiannau safonau
ansawdd, a chydymffurfiaeth
â phrosesau mewnol, ynghyd
â chynlluniau gwella ar gyfer y
meysydd hyn;
- adroddiadau risgiau strategol
perthnasol (gan gynnwys adolygiad
o risgiau rheoleiddiol amgylcheddol
sy'n dod i'r amlwg a gynhelir bob
chwe mis ac adolygiad o risgiau
sy'n gysylltiedig â'r cemegion a
ddefnyddir amlaf mewn prosesau
trin dŵr i gadarnhau cydymffurfiaeth
â safonau BS:EN) a chynlluniau
lliniaru;
- strategaethau ar gyfer meysydd
busnes allweddol gan gynnwys,
ymhlith pethau eraill:
 - Strategaeth Atal Llygredd
 - Strategaeth Cydymffurfio ar gyfer
Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff
(gan gynnwys llif a monitro hyd
digwyddiadau (EDM))
 - Strategaeth Gollyngiadau Dŵr
 - Strategaeth Llifogydd
 - Strategaeth Slwtsh
 - Munudau Cwsmeriaid a Gollir
 - Microlygryddion
 - Rheoli Dalgylchoedd
 - Strategaeth sylweddau
polyffloroalcyl a
pherffloroalcyl (PFAS)
 - adroddiadau chwarterol a
blynnyddol ar Iechyd a Diogelwch;
- y strategaeth ar gyfer cydymffurfio â
Rheoliadau 26 (trin a diheintio dŵr),
27/28 (Asesu Risg) a 29/30 (halogi
sy'n deillio o Bibellau) o Reoliadau
Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016
gan gynnwys diweddariadau ar
risgiau'r Cynllun Diogelwch Dŵr Yfed;
- yr Adroddiad Blynnyddol ar
Ddiogelwch Argaeau ac adolygiad
o ganlyniadau Asesiadau Risg
Portffolio ar gyfer argaeau
cronfeydd dŵr a gwaith cynnal a
chadw parhaus a wneir gan y tîm
Prosiectau Cyfalaf yn unol ag arfer

gorau a gyhoeddir yn y 'Guide to Risk Assessment for Reservoirs Safety Management' a luniwyd gan Defra ac Asiantaeth yr Amgylchedd;

- diweddariadau ar waith Panel Cyngori Annibynnol y Grŵp ar yr Amgylchedd;
- Canlyniadau Dŵr Ymdrochi blynyddol;
- Dosbarthiad wedi'i ddiweddaru o Orlifoedd Storm a Chanllawiau ar Orlifoedd Storm nas Caniateir;
- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ac adolygiad o effeithiolrwydd fel rhan o'r Adolygiad mewnol blynyddol o Effeithiolrwydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2024.

Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24	Gweithgarwch a chanlyniadau'r Pwyllgor
Monitro lechyd a Diogelwch	Cyflwynwyd Adroddiadau lechyd a Diogelwch blynyddol a chwarterol gan y Cyfarwyddwr lechyd, Diogelwch a Llesiant ac adolygodd y Pwyllgor hefyd adroddiadau ar ddigwyddiadau lechyd a Diogelwch, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a risgiau posibl. Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiadau a'u herio a rhoddodd ddiweddariadau i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod. Nododd y Pwyllgor waith y Grŵp Diogelwch Prosesau a'i feysydd gweithgarwch allweddol ar gyfer 2023/24 a chymeradwyodd y Datganiad Polisi am lechyd, Diogelwch a Llesiant ar ran y Bwrdd.
Clywed yn uniongyrchol gan ein rheoleiddwyr allweddol ar eu meysydd â blaenoriaeth i'r Grŵp	Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023, adolygodd y Pwyllgor, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, y prif ffactorau wrth wraidd yr Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol y Grŵp, yn arbennig y cynnydd yn y nifer o achosion o lygredd difrifol a aseswyd, gan nodi gwelliannau o ran cydymffurfiaeth â thrwyddedau gollwng dŵr a lleihad yn nifer yr achosion o lygredd o asedau cyflenwi dŵr. Ym mis Mawrth 2024, adolygodd y Pwyllgor Berfformiad y Grŵp o ran Ansawdd Dŵr gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed.
Adolygu'n fanwl ymateb y Grŵp i ddigwyddiadau tywydd difrifol	Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Sicrwydd Annibynnol a luniwyd gan Jacobs a Grŵp Herio Annibynnol y Grŵp yn dilyn eu hadolygiad o adolygiad ar ôl digwyddiad y Grŵp o'r digwyddiad rhewi/dadmer ym mis Rhagfyr 2022, pan oedd y tymereddau yng Ngorllewin Cymru yn cyfateb i'r tymereddau yn Ucheldiroedd yr Alban. Nododd y Pwyllgor fod y mwyafrif o'r camau gweithredu wedi'u nodi drwy Adolygiad Ar ôl Digwyddiad mewnol ac yr oeddent wrthi'n cael eu cyflawni gyda chynlluniau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion. Adolygodd y Pwyllgor hefyd y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran gwaith y Grŵp ar Brosiect Novello er mwyn aildrefnu'r timau ymateb i ddigwyddiadau a fflyd tanceri'r Grŵp er mwyn galluogi amseroedd ymateb cyflymach petai'r cyflenwad yn cael ei dorri ym mhob ardal. Roedd y rhaglen waith hon wedi helpu i gyflawni camau gweithredu a nodwyd yn yr adolygiadau ar ôl digwyddiad o'r digwyddiad rhewi/dadmer.
Monitro perfformiad gweithredol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer dŵr yfed a safonau amgylcheddol	Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor yn cael Adroddiadau Rheoli Misol ac yn adolygu Cynllun Perfformiad Ofwat gan gynnwys y Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth. Ceir diweddariadau gan y canlynol: • Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr, Cynllunio Asedau a Chyflawni Cyfalaf; • Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr Gwastraff, Cwsmeriaid Busnes ac Ynni; • Diweddariadau o ran gohebiaeth reoleiddiol gan y Cyfarwyddwr Ansawdd, Polisi a Chydymffurfiaeth. Gwerthusodd y Pwyllgor yr adroddiadau a'r diweddariadau a gafwyd yn erbyn 'dangosfyddau' a oedd yn nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â DPAAu a nodwyd gan y Pwyllgor.
Adolygu diweddariadau cynnydd yn erbyn strategaethau gweithredol allweddol	Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran strategaethau gweithredol, gan gynnwys: • Munudau Cwsmeriaid a Gollir • Gweithfeydd Trin Dŵr • Haearn a Derbynioldeb Dŵr i Gwsmeriaid • Plwm (Adrannau 29/30 (Halogi sy'n deillio o Bibellau) o Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016) • Gollyngiadau dŵr • Slwtsh • Llygredd • Llifogydd • Rheoliadau Ffitiadau Dŵr Ystyriwyd faint o gynnydd a oedd wedi'i wneud o ran rhoi'r strategaethau gweithredol ar waith, cytunwyd ar flaenoriaethau byrdymor a thymor canolig ac ystyriwyd yr angen i ddatblygu arferion gweithredol er mwyn ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg. Ym mis Medi 2023, cafod y Pwyllgor bapur diweddaru ar Gynlluniau Adfer ar ôl Gollyngiadau Dŵr ar gyfer AMP7

ADRODDIAD Y PWYLLGOR ANSAWDD A DIOGELWCH PARHAD

Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch – parhad

Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24		Gweithgarwch a chanlyniadau'r Pwyllgor
Archwiliadau trylwyr o faterion technegol	Teuliodd y Pwyllgor amser ychwanegol ar sesiynau 'at wraidd y mater' ar faterion a gafodd fudd o adolygiad manwl. Yn ystod y flwyddyn, roedd y rhain yn cynnwys: - Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2024 - Trwyddedu ASmgylcheddol - Rheoli Dalgylchoedd Roedd y diweddariad ar y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar ffurf sesiwn addysgu ar elfennau allweddol y Cynllun gyda newidiadau allweddol yn cael eu nodi, gan gynnwys diweddaru rhagamcanion o'r galw o ganlyniad i raglen gosod mesuryddion wedi'i mireinio ar gyfer AMP8 a modelau wedi'u mireinio ac wedi'u diweddaru ar gyfer gollyngiadau dŵr a chost mesuryddion. Rhoddodd yr Adolygiad o Waith Rheoli Dalgylchoedd drosolwg i aelodau'r Pwyllgor o'r ffordd y bydd y Strategaeth Rheoli Dalgylchoedd yn cyflawni uchelgais Ymateb Strategol 1 yn Dŵr Cymru 2050, sef: Diogelu Dŵr Yfed Glân Drwy Reoli Dalgylchoedd a gweithredu fel y man cychwyn ar gyfer ein proses rheoli risg o'r tarddiad i'r tap. Cafodd y Pwyllgor friff mewnol hefyd ar y fersiwn wedi'i diweddaru o'r Canllawiau ar Ddosbarthu Gorlifoedd Storm (GN066) a'r Canllawiau ar Orlifoedd Storm nas Caniateir (GN021). Nododd y Pwyllgor ymgysylltu parhaus â Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod sut i roi'r ddwy set o nodiadau cyfarwyddyd ar waith yn ymarferol.	
Parhau i fonitro prosiectau cyfalaf 'pibellau mewn argaeau' mewn nifer o leoliadau cronfeydd dŵr	Argymhellodd y Pwyllgor yr adroddiad blynyddol ar Ddiogelwch Argaeau i'r Bwrdd i'w gymeradwyo gan nodi bod yr adroddiad yn dangos bod y Grŵp wedi cyflawni ei ddyletswyddau fel ymgymwrwr argaeau sydd wedi'u cofrestru o dan Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (y Ddeddf), fel y'i diwygiwyd bellach gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 4 (Cronfeydd Dŵr). Nododd yr adroddiad blynyddol fod disgwyl i 437 o 'Fesurau er Diogelwch' (MITIOS) gael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn a bod yr holl fesurau ond tri, a oedd wedi'u gohirio am resymau diogelwch, wedi'u cyflwyno; roedd cynnydd da wedi'i wneud o ran rhaglen gyfalaf 'Pibellau mewn Argaeau' ac roedd gwaith bellach wedi'i gwblhau mewn 19 o'r 26 o argaeau â blaenoriaeth.	
Llywodraethu	Adolygodd y Pwyllgor: - Ei Gylch Gorchwyl - Adolygiad edrych yn ôl o Ddyletswyddau - Blaenamserlen o eitemau agenda ar gyfer 2023-24 a chynlluniau ar gyfer 2024-25 Adolygodd y Pwyllgor hefyd Gyfeiriad y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn y Dyfodol yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023 a chynhaliodd adolygiad o'i effeithiolrwydd fel rhan o'r gwerthusiad mewnol o'r Bwrdd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Daeth adolygiad edrych yn ôl y Pwyllgor o ddyletswyddau, a nodir yn y Cylch Gorchwyl, i'r casgliad bod y Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24. Daeth adolygiad y Pwyllgor o'i berfformiad i'r casgliad bod y Cylch Gorchwyl yn briodol o hyd.	



Barbara Moorhouse
Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
6 Mehefin 2024

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio



Jane Hanson CBE

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

Aelodau eraill:

- Debra Bowen Rees
- Joanne Kenrick

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 6

 Gweler tudalen 99 am bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Meysydd ffocws gan edrych ymlaen at FA 25:

- Monitro'r broses o ddatblygu a gweithredu allbynnau Ymgynghoriad BEIS: Ailennyn Ymddiriedaeth mewn Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn fframweithiau llywodraethu corfforaethol y Grŵp wrth i ragor o ganllawiau gael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth.
- Sicrhau bod y Grŵp yn barod a bod ganddo'r gallu i weithredu newidiadau i God Llywodraethu Corfforaethol y DU ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2025.
- Goruchwyllo'r cynnydd parhaus a wneir o ran Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes y Grŵp ac aeddfedrwydd swyddogaeth risg y Grŵp o dan arweiniad y Prif Swyddog Risg.
- Goruchwyllo'r egwyddorion mabwysiadu, datblygiadau i'r model gweithredu a rheolaeth barhaus y Tasglu dros Ddatgeliadau sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd a gofynion adrodd anariannol eraill sy'n dod i'r amlwg ar gyfer BA 25 a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys adolygu a chymerau'r methodolegau, y tybiaethau, y ffynonellau data a'r datgeliadau a ddefnyddir gan y Grŵp i fesur ac adrodd ar ei risgiau a chyfleoedd ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, effeithiau a dibyniaethau ym maes bioamrywiaeth, a pherfformiad ym maes cynaliadwyedd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn monitro datblygiadau a disgyrliadau rheoleiddwyr, buddsoddwyr, a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas ag adrodd anariannol ac yn cynghori'r Bwrdd yn unol â hynny.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei gadeirio gan Jane Hanson sydd â chefnidir cadarn ym maes cyllid, llywodraethu corfforaethol, archwilio a rheoli risg ac sy'n meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn Gyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol, ac mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan y Pwyllgor ddigon o brofiad o'r sector dŵr a materion ariannol i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol.

Ymhlith yr unigolion eraill sy'n mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd mae'r Prif Swyddog Gweithredol, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Prif Swyddog Risg, y Pennaeth Archwilio Mewnol, Ysgrifennydd y Grŵp a chynrychiolwyr o Archwilydd Allanol y Grŵp (yr Archwilydd Allanol), a benodwyd gan y Grŵp yn ystod ei Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Gorffennaf 2023, gyda'r penodiad yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023. Mae gan y Pwyllgor fynediad dirwysr hefyd at gynghorwyr rheoli a chynghorwyr allanol er mwyn ei helpu i gyflawni ei ddyletswyddau.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau preifat ar wahân â'r Prif Archwilydd Mewnol a'r Archwilydd Allanol ac nid oedd unrhyw reolwyr yn bresennol yn y sesiynau hyn.

Prif gyfrifoldebau

Ar ran y Bwrdd, mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo:

- cywirdeb datganiadau ariannol y Grŵp, gan gynnwys sicrhau bod y Grŵp yn rhoi adroddiadau ariannol clir, cyflawn, teg, cytbwys a dealladwy i'w holl randdeiliaid;
- priodoldeb ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol, gan gynnwys y rhai sydd ynghlwm wrth ddatgeliadau budd y cyhoedd (chwythu'r chwiban);
- effeithiolrwydd a dibynadwyedd y fframwaith rheoli risg;
- cywirdeb a chynaliadwyedd y systemau rheolaeth fewnol a adolygir gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol a swyddogaethau sicrwydd eraill;
- effeithiolrwydd, perfformiad, gwrthrychedd ac annibyniaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilydd Allanol.

Mae gan y Pwyllgor agenda eang sy'n canolbwyntio ar brosesau archwilio, risg a sicrwydd y busnes ac mae'n ymdrin â'r rhain ar y cyd â'r rheolwyr, yr Archwilydd Allanol, y gwasanaeth Archwilio Mewnol a thimau Cyllid a Chydymffurfiaeth Reoleiddiol a Sicrwydd y Grŵp. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor (corporate.dwrwymru.com/cy-gb/library/terms-of-reference) yn nodi'r 10 dyletswydd y mae'r Pwyllgor yn eu cyflawni ar ran y Grŵp a'i is-gwmnïau, sydd wedi llywio agenda a meysydd ffocws allweddol y Pwyllgor ar gyfer BA 24.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio – parhad

Blaenoriaethau ar gyfer BA 24	Gweithgarwch a chanlyniadau'r Pwyllgor
Adrodd ariannol	Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad manwl o berfformiad ariannol hanner ffordd drwy'r flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn (datganiadau ariannol), gan ystyried dyfarniadau o bwys ac amcangyfrifon a statws Busnes Gweithredol y Grŵp (rhagor o fanylion isod) cyn argymhell i'r Bwrdd y dylid cymeradwyo'r datganiadau.. Adolygodd y Pwyllgor fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon BA 24 a dywedodd wrth y Bwrdd fod y cynnwys yn rhoi asesiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad a sefyllfa ariannol y Grŵp.
Datganiad Busnes Gweithredol a Hyfywedd	Asesodd y Pwyllgor ragolygon y Grŵp dros gyfnod o 12 mis o leiaf fel sy'n ofynnol gan y datganiad 'Busnes Gweithredol' ar dudalen 171 a nododd nad oedd unrhyw ansicrwydd perthnasol i'w ddatgelu mewn perthynas â gallu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol. Nodir y Datganiad am Hyfywedd Hirdymor y Grŵp ar gyfer BA 24 ar dudalennau 67 i 71. Cytunodd y Pwyllgor ddull Asesu Hyfywedd Hirdymor y Grŵp ac argymhellodd y Datganiad am Hyfywedd Hirdymor i'w gymeradwyo gan y Bwrdd yng nghyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin 2024.
Archwilio Mewnol	Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol BA 24 a rhannodd ei Gynllun Archwilio Mewnol amlinellol ar gyfer BA 25 yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2024. Ystyriodd y Pwyllgor ymatebion rheolwyr i archwiliadau barn anfodddhaol a chyfyngedig, a'u hadolygu wedyn er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud i unioni'r gwendidau rheoli. Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol Adroddiad ar Chwythu'r Chwiban ac Ymchwiliadau Arbennig i'r Pwyllgor yn rheolaidd, a oedd yn cynnwys manylion datganiadau newydd er budd y cyhoedd sy'n cael eu gwneud neu eu cyfeirio at y swyddogaeth archwilio mewnol, a'r canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd drwy ymchwilio i honiadau o'r fath. Cafodd Asesiad Ansawdd Allanol ei gynnal mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio mewnol, sy'n ofynnol bob pum mlynedd, gan Protiviti yn unol â Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol. Daeth yr asesiad i'r casgliad fod y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn 'Cyddymffurfio'n Gyffredinol' â Safonau Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol, sef y lefel uchaf bosibl o gydymffurfiaeth â'r Safonau.
Systemau Rheolaeth Fewnol a Rheoli Risg	Parhaodd y Pwyllgor i oruchwyllo'r ffordd y mae systemau rheolaethau mewnol a sicrwydd y Grŵp yn gweithredu, gan gynnwys adolygiadau manwl o risg a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol, trwydded a rheoleiddiol perthnasol. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar ddatblygiad parhaus fframwaith parodrwydd i dderbyn risg strategol y Grŵp gan nodi y byddai Penderfyniad Terfynol PR24 yn dylanwadu ar yr adolygiad dilynol o amcanion risg strategol ac y byddai'r adolygiad yn cael ei gydlynw ar y cyd ag adolygiad cyn AMP8 o risgiau strategol (a sgoriau). Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Siarter Archwilio Mewnol sy'n nodi cwmpas gwaith ar gyfer swyddogaeth archwilio mewnol y Grŵp ac yn cadarnhau ei hannibyniaeth. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y Siarter yn parhau i gynnwys y manylion priodol sy'n ofynnol gan gyhoeddiadau diweddaraf Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol y DU a chanllawiau ar Siarteri Archwilio Mewnol. Cafodd Systemau Busnes a Chynlluniau Archwilio Ansawdd eu hadolygu gan y Pwyllgor cyn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch i'w cymeradwyo.

Blaenoriaethau ar gyfer BA 24

Gweithgarwch a chanlyniadau'r Pwyllgor

Llywodraethu

Cafodd ac adolygodd y Pwyllgor gyflwyniadau rheoleiddiol a phrosesau sicrwydd y Grŵp mewn perthynas â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol, ac Adroddiadau Sicrwydd drafft gan Jacobs a'r Archwilydd Allanol. Ar yr un pryd, cafodd y Pwyllgor Ddatganiad Risg a Chydymffurfiaeth blynyddol (a Thystysgrif Glustnodi gysylltiedig) y Grŵp, ynghyd â diweddariad ar Reolaethau Mewnol, a rhoddodd adborth i'r Bwrdd ar y prosesau sicrwydd a fabwysiadwyd cyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn ffurfiol.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar waith y Pwyllgor Gollyngiadau Dŵr a'r Defnydd o Ddŵr y Pen gan y Prif Swyddog Risg. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn parhau i fod yn aelod o'r Pwyllgor Gollyngiadau Dŵr a'r Defnydd o Ddŵr y Pen.


Gwnaeth y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo polisiau a gweithdrefnau penodol. Roedd y rhain yn cynnwys strategaethau Trysorlys a Threthiant y Grŵp cyn iddynt gael eu cyhoeddi, a chynnydd o ran cydymffurfiaeth â Thelerau Talu Cyflenwyr yn unol â'r Cod Taliadau Prydlon, y gwnaeth y Pwyllgor ei ystyried yn ystod ei gyfarfod ym mis Hydref 2023, gan nodi cynnydd cadarnhaol yn erbyn targedau cydymffurfiaeth.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r polisiau hyn yn unol â Chylch Gorchwyl y Bwrdd.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar Bapur Sefyllfa'r FRC ar Adfer Ymddiriedaeth mewn Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022) a chytunodd i gynnal dadansoddiad o fylchau gan ddefnyddio graddau coch, oren a gwyrdd mewn ymateb i'r Cod Llywodraethu Corfforaethol newydd yn ystod BA 25.

Cytunodd y Pwyllgor fân ddiwygiadau i'w Gylch Gorchwyl ac ystyriodd ddiweddariadau gan Ysgrifennydd y Grŵp a oedd yn dangos sut roedd y Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn ariannol. Daeth adolygiad y Pwyllgor o'i berfformiad i'r casgliad bod y Pwyllgor yn gweithio'n dda a'i fod wedi cyflawni'r dyletswyddau a nodir yn ei Gylch Gorchwyl.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar feysydd allweddol o gydymffurfiaeth, gan gynnwys trefniadau'r Grŵp o ran trwydded gweithredu cerbydau, diogelu data, trethi ac yswiriant, er mwyn cael sicrwydd bod systemau digonol a chadarn ar waith gan y Grŵp i reoli digwyddiadau sy'n datblygu.



ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio – parhad

Blaenoriaethau ar gyfer BA 24	Gweithgarwch a chanlyniadau'r Pwyllgor
Archwilydd Allanol	Caiff y Pwyllgor ei gynorthwyo gan yr Archwilydd Allanol a gafodd ei benodi yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Gorffennaf 2023, gyda'r penodiad yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023. Cyn iddo gael ei benodi'n ffurfiol, mynychodd yr Archwilydd Allanol gyfarfodydd y Pwyllgor ym mis Mai a mis Mehefin 2023 er mwyn arsylwi pan gyflwynodd yr Archwilydd Allanol blaenorol, sef KPMG, ei ddiweddariadau diwedd y flwyddyn i'r Pwyllgor ym mis Mai a mis Mehefin 2023. Asesodd y Pwyllgor effeithiolrwydd y broses archwilio allanol yn ystod ei gyfarfod ym mis Medi 2023, gan ddsygu gwersi o gyfnod KPMG er mwyn llywio gwaith parhaus yn y dyfodol ô'r Archwilydd Allanol. Adolygodd gadarnhad o annibyniaeth yr Archwilydd Allanol, a gaiff ei gynnwys yn ei adroddiad hanner blwyddyn a'i adroddiad diwedd y flwyddyn i'r Pwyllgor. Noda'r adroddiadau hyn y gweithdrefnau polisi i'r Pwyllgor fodloni ei hun nad oes unrhyw ffactorau a all, neu y gellir ystyried y gallant, amharu ar annibyniaeth a gwrthrychedd y broses archwilio allanol, yn enwedig o ran lefel y ffioedd a godir am waith nad yw'n waith archwilio. Cyflwynodd yr Archwilydd Allanol ei gynllun archwilio ar gyfer BA 24 i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2023 a rhoddodd wybod am y cynnydd a wnaed yn ei erbyn yng nghyfarfodydd diweddarch y Pwyllgor. Roedd y cynllun archwilio hefyd yn tynnu sylw at faterion allweddol o ran Diwygiadau Corfforaethol, gan gynnwys cyflwyno Safon Ofynnol yr FRC ar gyfer Pwyllgorau Archwilio ac Archwilio Allanol a diweddariadau i God Llywodraethu Corfforaethol y DU. Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor adroddiadau'r Archwilydd Allanol hanner ffordd drwy'r flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys y cadarnhad o annibyniaeth, ac roedd yn fodlon nad oedd unrhyw amhariad ar wrthrychedd y Partner Archwilio Allanol a staff archwilio, gan gynnwys mewn perthynas â darparu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â gwaith archwilio. Cymeradwyodd y Pwyllgor lythyrau sylwadau'r rheolwyr, a chafodd y llythyrau hyn eu llofnodi wedyn gan y Prif Swyddog Cyllid ar ran y Grŵp a'u cyflwyno i'r Archwilydd Allanol. Adolygodd y Pwyllgor y broses ar gyfer yr adolygiad mewnol o effeithiolrwydd yr Archwilydd Allanol, sef KPMG, a gynhaliwyd ar ôl yr archwiliad statudol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben gyda BA 23 a'r canlyniadau yn dilyn yr adolygiad mewnol hwnnw. Roedd yr ymarfer hwn wedi cefnogi gwaith cynllunio ar gyfer BA 24 gyda'r Archwilydd Allanol. Yn ystod BA 24 ni chynhaliwyd unrhyw arolygiad rheoleiddiol o ansawdd archwiliadau'r Grŵp. Cyflwynodd y Pwyllgor ei argymhelliad i'r Bwrdd i ailbenodi'r Archwilydd Allanol. Gweler dros y dudalen am ragor o fanylion a'r penderfyniad i benodi'r Archwilydd Allanol, a gafodd ei gymeradwyo gan ein Haelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Gorffennaf 2023.

Adroddiad ariannol ac amcangyfrifon a dyfarniadau sylweddol

Yn ystod BA 24, ystyriodd y Pwyllgor y materion penodol canlynol mewn perthynas ag adroddiadau ariannol ar y canlyniadau interim a diwedd y flwyddyn.

Dyfarniadau ac amcangyfrifon allweddol	Testun adolygiad y Pwyllgor Archwilio	Casgliadau
Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy	Y dull o bennu'r tâl am ddrwgddyledion.	Ar ôl asesu perfformiad casgliadau arian parod presennol, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn briodol, ond caiff y sefyllfa ei monitro'n agos o hyd yn sgil newidiadau chwyddiannol diweddar.
Dosbarthu costau	Dosbarthu rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf.	Ystyriwyd bod costau, gan gynnwys gwariant ar gyflogeion a gwariant mewnol arall, yn cael eu dosbarthu'n briodol rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf a'u bod yn cael eu dosbarthu'n unol â pholisiâu cyfrifyddu.
Amcangyfrif gwerth teg	Y dull o asesu amcangyfrifon gwerth teg a chyfalafu.	Ystyriwyd bod Amcangyfrif Gwerth Teg a addaswyd y Grŵp, a fu'n destun adolygiad allanol, yn briodol.
Rhesymoldeb tybiaethau rhwymedigaethau pensiwn buddiannau diffiniedig	Y tybiaethau a gymhwysir at brisio pensiynau gan gynnwys cyfraddau disgowntio a chwyddiant.	Daeth adolygiad y Pwyllgor o'r tybiaethau ar gyfer cyfraddau disgowntio a chwyddiant a gymhwyswyd at brisio pensiynau i'r casgliad eu bod o fewn yr ystod o dybiaethau derbyniol ar y cyfan.
Statws Busnes Gweithredol	Asesiad o Statws Busnes Gweithredol y Grŵp.	Ar ôl asesu hylifedd ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y Grŵp yn fusnes gweithredol o hyd a'i bod yn briodol paratoi datganiadau ariannol blynyddol ar y sail honno.

Trafodir y materion uchod yn fanylach yn Adroddiad yr Archwilyr ar dudalen 158.

Tendr am wasanaethau archwilio

Cytunodd y Bwrdd i gyflogi Deloitte LLP fel Archwilydd y Grŵp, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan ein Haelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf 2023.


Gwasanaethau a ffioedd nad ydynt yn ymwneud â gwaith archwilio

Polisi'r Grŵp yw peidio â defnyddio'r Archwilydd Allanol ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â gwaith archwilio yn gyffredinol, a bod unrhyw waith nad yw'n waith archwilio yn ddarostyngedig i Bolisi Caffael y Grŵp a chymeradwyaeth y rheolwyr yn unol â Pholisi'r Grŵp ar gyfer

Darparu Gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â Gwaith Archwilio. Rhaid i bob ffi nad yw ar gyfer gwaith archwilio a delir i'r Archwilydd Allanol gael ei chymeradwyo ymlaen llaw yn unol ag awdurdod dirprwyedig y Pwyllgor. Er mwyn cydymffurfio â diwygiadau'r FRC i'r Cod, mae cap ar ffioedd ar gyfer gwaith nad yw'n waith archwilio ym mhob rhan o'r Grŵp, sef 70% o'r ffi archwilio allanol statudol gyfartalog dros gyfnod o dair blynedd i'r Grŵp mewn unrhyw flwyddyn ariannol, yn gymwys o'r flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2020.

Yn ystod BA 24, roedd ffioedd archwilio datganiadau ariannol y Grŵp yn £577,000 (BA 23: £535,000), ac roedd ffioedd ar gyfer gwasanaethau sicrwydd eraill a oedd yn ymwneud â gwaith archwilio yn £106,000 (BA 23:

£111,000) ac roedd ffioedd ar gyfer gwasanaethau eraill nad oeddent yn ymwneud â gwaith archwilio yn £141,000 (BA 23: £71,000). O ganlyniad, roedd ffioedd nad ydynt ar gyfer gwaith archwilio yn cyfrif am 28% (11% yn ystod BA 23) o gyfartaledd ffioedd archwilio'r tair blynedd diwethaf, sydd ymhell o fewn y terfyn. Am ragor o fanylion am wasanaethau nad ydynt yn ymwneud â gwaith archwilio a ddarperir gan Deloitte, gweler nodyn 3 i'r Datganiadau Ariannol ar dudalen 186.



Jane Hanson
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

6 Mehefin 2024

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

Adroddiad y Pwyllgor Technoleg



Yr Athro Tom Crick MBE
Cadeirydd y Pwyllgor Technoleg

Aelodau eraill:

- Barbara Moorhouse
(a ymunodd ym mis Mawrth 2024)
- Joanne Kenrick
- Alastair Lyons
- Rob Norris, Prif Swyddog Technoleg
- Peter Perry

Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr, Cynllunio Asedau a Chyflawni Cyfalaf yn mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor.

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 4

 Gweler tudalen 99 am bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Meysydd ffocws gan edrych ymlaen at FA 25:

- Adolygu a monitro cynnydd gwaith i drawsnewid y tîm Gwasanaeth TG a'i ddatblygu'n barhaus, gan gynnwys
 - y rhaglen ddiogelwch, gan gynnwys mwy o ffocws ar seiberfygythiadau o ganlyniad i'r sefyllfa geowleidyddol (e.e. Wcráin), cynyddu ein lefel aeddfedrwydd o ran diogelwch CMMI a gwella ymwybyddiaeth o seiber-risgiau ym mhob rhan o'r busnes;
 - cynnal adolygiad ar ôl rhoi'r rhaglen mudo i gyfrifiadura cwmwl ar waith;
 - rhoi gweddill Cynllun Buddsoddi AMP7 ar waith a chynllunio buddsoddi ar gyfer PR24 (AMP8) gan gynnwys uwchraddio SAP S/4HANA;
 - monitro pa mor barod yw'r Grŵp ar gyfer terfynu Rhwydwaith Ffôn Cyhoeddus Analog y DU yn 2025;
 - monitro sut y caiff strategaethau a phlatfformau Deallusrwydd Artiffisial y Grŵp eu gweithredu dros y flwyddyn ac yn ystod AMP8;
 - adolygu a monitro'r defnydd o Ddata Synwryddion a Thechnolegau Synwryddion Clyfar yn barhaus er mwyn cefnogi datblygiadau i adroddiadau perfformiad byw;
 - adolygu parodrwydd y Grŵp o ran Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb yn barhaus.

Prif gyfrifoldebau

Cymeradwyo'r strategaethau a ddatblygir ar gyfer darpariaeth technoleg gwybodaeth, technoleg weithredol (TW) a diogelwch gwybodaeth y Grŵp; gan gynnwys goruchwyllo mesurau lliniaru ac amddiffyn rhag seiber-risgiau er mwyn helpu i gyflawni amcanion busnes tymor canolig y Grŵp yn y ffordd fwyaf effeithlon, ac yn unol â pharodrwydd y Grŵp i dderbyn risg.

Adolygu'r cynlluniau gweithredu i gyflawni strategaethau technoleg y Grŵp a goruchwyllo'r cynnydd sy'n cael ei wneud, gan gynnwys adolygu ac olrhain cynnydd rhwymedigaethau'r Grŵp o dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Seilwaith 2018.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor (corporate.dwr.cymru.com/cy-gb/library/terms-of-reference) yn nodi 11 o feysydd penodol lle mae dyletswydd ar y Pwyllgor i oruchwyllo, adolygu a chraffu ar ddarpariaethau TG, TW a diogelwch gwybodaeth y Grŵp. Mae'r meysydd a'r dyletswyddau hyn wedi llywio agenda a meysydd ffocws allweddol y Pwyllgor yn ystod BA 24.

Blaenoriaethau ar gyfer BA 24	Gweithgarwch a chanlyniadau'r Pwyllgor
Mae hyn yn cynnwys y manylion a gymeradwywyd yn fewnol	Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau strategol ym mhob cyfarfod yn ystod BA 24, a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: - Gweddill Cynllun Buddsoddi AMP7 a'i gydnawsedd â'r Strategaeth Technoleg. Ystyriodd y Pwyllgor y strategaeth bresennol, y dirwedd dechnoleg a gallu timau/partneriaid, yng nghyd-destun cynllun cyflawni AMP7 a'r gwaith o baratoi Cynllun Technoleg AMP8 yn unol â chynlluniau tymor hwy'r Grŵp. - Taith barhaus y Cwmni i'r Cwmwl. Bu'r Pwyllgor yn monitro goruchwyliaeth rheolwyr o'r gydberthynas â phartner cefnogi Cwmwl allweddol a'i berfformiad, ochr yn ochr â chynnydd a goruchwyliaeth lywodraethu'r rhaglen Cwmwl. - Cynnydd o ran cynllun buddsoddi AMP8. Cafodd y Pwyllgor drosolwg ac adolygiad, gan gynnwys meincnodau ar gyfer y diwydiant, o daith y Grŵp tuag at S/4HANA gan PwC yn ystod ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023. Nododd y Grŵp fod hyder y byddai rhaglen S/4HANA y llwyddiannus oherwydd y mesurau diwydrwydd dyladwy a roddwyd ar waith yn fewnol ac ar y cyd â phartneriaid. Cafwyd diweddariadau ar gynnydd yn erbyn rhaglen S/4HANA ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod BA 24. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau blynyddol ar strategaethau'r Grŵp mewn perthynas â'r canlynol a nododd gynnydd yn eu herbyn: Strategaeth Data a Phlatform Data Busnes (EDP), Strategaeth SMART (rhwydwaith dŵr a dŵr gwastraff), Strategaeth Digidol Manwerthu a Rheoli Larymau. Bydd y Pwyllgor yn parhau i oruchwyllo Rhaglen SAP S/4HANA y Grŵp drwy gydol 2024/25. Wrth iddo baratoi ar gyfer AMP8, mae'r Grŵp wedi defnyddio ffrydiau gwaith i baratoi ar gyfer symud i SAP S/4HANA, sef system Cynllunio Adnoddau Busnes newydd sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â systemau sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes. Drwy'r gwaith hwn mae'r Grŵp yn cadarnhau safbwyntiau ar y technolegau cywir i'w defnyddio ac mae wedi dechrau'r gwaith paratoi, gyda gweithgareddau glanhau hen godau a data. Bydd SAP S/4HANA yn adeiladu ar y sylfaen ddigidol a roddwyd ar waith yn AMP7 er mwyn galluogi'r Grŵp i foderneiddio'r busnes ymhellach drwy fuddsoddi mewn technolegau 'plygio a chwarae' newydd, ac yn galluogi gweledigaeth 2050 drwy gyflawni disgwyliadau defnyddwyr sy'n newid yn gyflym, gwella seiberddiogelwch, defnyddio dadansoddeg data mawr a gwasanaethau cwmwl. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran datblygu cynllun Buddsoddi mewn Technoleg AMP8, sy'n cyd-fynd â'r strategaethau busnes a TG. Mae'r cynllun, y bydd y Pwyllgor yn ei fonitro ac yn craffu arno yn ystod 2024 a 2025, yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r ffactorau ysgogi allweddol ar gyfer plattformau technoleg gan gynnwys darfordiad systemau, gan gynnwys ffocws cryf ar seiberddiogelwch a chydnerthedd. Mae'r broses hon wedi'i gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth TG feithrin dealltwriaeth well o gyfeiriad y Grŵp a'r cyfleoedd i fanteisio at blatfformau technoleg er mwyn sicrhau bod y busnes yn effeithlon a'i drawsnewid i wella profiad cwsmeriaid a phrofiad y gweithlu maes. Mae hyn ochr yn ochr â'r broses barhaus o drawsnewid tîm y Gwasanaeth TG tuag at fanteisio ar dechnolegau Cwmwl a meithrin diwylliant a arweinir gan arloesedd.
Gwybodaeth a Seiberddiogelwch	Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau gan y Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth yn ystod pob cyfarfod ar gynnydd o ran Cynllun Diogelwch Gwybodaeth y Grŵp, gan gynnwys: - Risgiau diogelwch gwybodaeth allweddol, gan gynnwys adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol a dangosyddion risg allweddol; - Cadarnhad bod cerrig milltir arwyddocaol o fewn y Rhaglen Seiberddiogelwch wedi cael eu cwblhau a bod gwelliannau cynyddrannol wedi cael eu gwneud i alluoedd Seiberddiogelwch; - Diweddariadau ar gynnydd i gryfhau diwylliant ac ymwybyddiaeth seiber o fewn y Grŵp er mwyn cyrraedd lefel well a mwy aeddfed o seiberddiogelwch. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar y dirwedd bygythiadau o ran seiberddiogelwch a diogelwch gwybodaeth ar y pryd, gan gynnwys lefel uwch o fygythiadau i seiberddiogelwch (e.e. ymosodiadau atal gwasanaeth ac ymosodiadau meddalwedd wystlo) mewn sefydliadau Seilwaith Cenedlaethol Critigol. Adolygodd y Pwyllgor ac uwch-gydweithwyr ym maes Gweithrediadau Diogelwch gynlluniau'r Grŵp ar gyfer seibergadernid yng nghyd-destun y mewnbyn hwn. Adolygodd y Pwyllgor ymateb y Grŵp i seiberymosodiad atal gwasanaeth penodol ar wefan y Grŵp ym mis Mehefin 2023 a chanlyniad yr ymarferion ymateb i seiberddigwyddiadau a arweinwyd gan Defra, yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol a Chanolfan Seibergadernid Cymru ynghyd â phroffion cadernid mewnol. Nododd y Pwyllgor y camau a gymerwyd i wella aeddfedrwydd seiberddiogelwch y Grŵp, gan gynnwys canlyniad ymgyrch cadernid a gynhaliwyd ym mhob rhan o'r Grŵp drwy gydol mis Chwefror 2024, a oedd yn cynnwys wythnos seiber a gweminar â'r Dr Jessica Barker (arbenigwr ym maes diwylliant ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch) a ddarparodd wybodaeth arbenigol allanol i gydweithwyr.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

Adroddiad y Pwyllgor Technoleg – parhad

Blaenoriaethau ar gyfer BA 24		Gweithgarwch a chanlyniadau'r Pwyllgor
Technoleg Weithredol	Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar berfformiad technoleg weithredol (TW) a mesurau diogelwch ym mhob un o'i gyfarfodydd a monitrodd y defnydd ehangach a wneir o dechnoleg i amddiffyn asedau gweithredol y Grŵp. At hynny, cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar gydymffurfiaeth y Grŵp â Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Seilwaith (NIS) 2018 yn dilyn asesiad yr Arolygiaeth Dŵr Yfed o ymatebion Fframwaith Asesu Seiber y Grŵp. Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed yn erbyn y Fframwaith Asesu Seiber gyda'r Grŵp ar y trywydd cywir o hyd i gyrraedd targedau sector yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, a rhagori arnynt mewn manau, erbyn diwedd AMP7. Adolygodd y Pwyllgor yr effaith y bydd terfynu Rhwydwaith Ffôn Cyhoeddus Analog y DU yn 2025, sef y seilwaith telathrebu cyhoeddus analog etifeddol, yn ei chael ar y Grŵp. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r ffordd y caiff y broses bontio hon ei rheoli, a bydd yn gwneud hyn drwy ymateb fel Grŵp ac fel diwydiant ar ffurf Grŵp Strategaeth Gweithrediadau Water UK, gan ystyried atebion technoleg gwahanol sy'n briodol i'r asedau dan sylw. Cyflwynir diweddariadau i'r Pwyllgor ym mhob cyfarfod. Cafodd diweddariadau ar Gynllun Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth eu rhannu â'r Pwyllgor, a roddodd sicrwydd ynghylch y modelau llywodraethu a oedd ar waith a chadernid y cynlluniau seilwaith ar gyfer seilwaith a rhaglenni critigol. Cytunodd y Pwyllgor y byddai diweddariadau blynyddol yn y maes hwn yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor yn ogystal â diweddariadau ad hoc, er mwyn rhoi manylion am ganfyddiadau ymarferion profi a gynlluniwyd.	
Llywodraethu	Gyda mewnbwn gan y Prif Swyddog Technoleg o'r Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth, adolygodd y Pwyllgor ei Gylch Gorchwyl, yn ogystal ag asesu sut roedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn ariannol. Cytunodd y Pwyllgor ar fân ddiwygiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor. Ar ôl adolygu ei Gylch Gorchwyl, cytunodd y Pwyllgor i leihau nifer cyfarfodydd y Pwyllgor o bedwar i dri chyfarfod y flwyddyn. Daeth adolygiad y Pwyllgor o'i berfformiad i'r cosgliad bod y Pwyllgor wedi gwneud cynnydd da yn ystod BA 24 o ran ei oruchwyliaeth o ddarpariaeth TG, TW a diogelwch gwybodaeth y Grŵp. Hefyd, adolygodd y Pwyllgor ei effeithiolrwydd fel rhan o'r gwerthusiad manwl o'r Bwrdd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod seibergadernid y Grŵp wedi parhau i gryfhau drwy bob un o'r gweithrediadau TG a Diogelwch, sydd wedi'u cefnogi gan Raglen Trawsnewid y Gwasanaeth TG sy'n dal i fynd rhagddi. Oherwydd y nifer cynyddol o seiberfygythiadau byd-eang, yn enwedig i sefydliadau Seilwaith Cenedlaethol Critigol, mae'r Grŵp yn amharod i gymryd risgiau a bydd yn parhau i fuddsoddi mewn technolegau a seilwaith seiberddiogelwch priodol, yn ogystal â datblygu ei ddiwylliant seiber ymhellach. Bydd hefyd yn goruchwyllo cynlluniau'r Grŵp i wneud y defnydd gorau posibl o blatfformau Cwmwl a'i waith paratoi ar gyfer uwchraddio i SAP S/4HANA.	



Tom Crick
Cadeirydd y Pwyllgor Technoleg
6 Mehefin 2024

Adroddiad y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI)



Debra Bowen Rees

Cadeirydd y Pwyllgor ACLI

Aelodau eraill:

- Jane Hanson
- Peter Perry
- Alastair Lyons
- Mike Davis
- Lila Thompson

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 4

- Gweler tudalen 99 am bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Meysydd ffocws gan edrych ymlaen at FA 25:

- Adolygu ac argymhell i'r Bwrdd y dylid cymeradwyo strategaeth ACLI newydd a dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi'u hailddiffinio ar gyfer ACLI er mwyn helpu i gyflawni cynlluniau PR24 gan ystyried penderfyniad terfynol Ofwat.
- Goruchwyllo'r gwaith o weithredu a chyflawni Strategaeth Rheoli Ystadau'r Grŵp.
- Gweithredu Strategaeth Caffael Cynaliadwy'r Grŵp.
- Adolygu cynnydd y Grŵp tuag at gyflawni ei dargedau lleihau carbon i sero net
- Goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau ac Adroddiadau Bioamrywiaeth y Grŵp ar gyfer 2025.
- Goruchwyllo, adolygu a rhoi cyngor ar rwymedigaethau adrodd a chyflwyniadau anariannol y Grŵp.
- Sicrhau bod mesurau ACLI perthnasol yn cael eu monitro ac yr hysbysir y Pwyllgor perthnasol o'r Bwrdd amdanynt, a blaenoriaethu'r meysydd hynny sydd bwysicaf i'n rhandeiliad, a thrwy hynny, sicrhau bod y Pwyllgor yn cyflawni ei amcanion.

Prif gyfrifoldebau

Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor fel a ganlyn:

- Datblygu a goruchwyllo Strategaeth ACLI y Grŵp (corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/investors/environmental-social-and-governance);
- Monitro perfformiad yn erbyn amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol ACLI y Grŵp;
- Ystyried y partneriaethau trydydd parti y mae'r Grŵp yn rhan ohonynt mewn perthynas â'r Strategaeth ACLI;
- Ystyried y confensiynau adrodd a'r metrigau ACLI y dylai'r Grŵp eu mabwysiadu;
- Ystyried trefniadau adrodd y Grŵp i Asiantaethau Sgorio ACLI a'r dewis o asiantaethau sgorio a fydd yn asesu'r Grŵp;
- Adolygu gofynion adrodd ACLI sydd ar ddod ac asesiad y Grŵp o'u goblygiadau, ar lefel strategol a gweithredol, ar gyfer busnes ac enw da'r Grŵp;
- Sicrhau bod y Grŵp yn cynnal polisïau priodol er mwyn cefnogi ei fframwaith ACLI yn effeithiol, yn arbennig ei effaith amgylcheddol.

Mae'r Pwyllgor, a gafodd ei sefydlu yn ystod BA 22, wedi parhau i wneud cynnydd ar y strategaeth adrodd a phrosesau adrodd, a'r gwaith o reoli a goruchwyllo risgiau a chyfleoedd ACLI. Mae hyn wedi cynnwys datblygu ymhellach y Strategaeth, yr amcanion a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) ym maes ACLI y mae'r Pwyllgor yn eu defnyddio i fonitro perfformiad yn erbyn targedau ACLI y Grŵp. Yn ystod gweddill AMP7, byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein Strategaeth ACLI yn cyd-fynd â chynlluniau gweithredol a chynlluniau buddsoddi ar gyfer PR24. I gefnogi'r gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn cael diweddariadau rheolaidd gan is-bwyllgorau Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd Tîm Gweithredol Dŵr Cymru, sy'n cyngori ar faterion yn ymwneud ag addasu i newid yn yr hinsawdd ac yn cefnogi gwaith ymgysylltu effeithiol mewn meysydd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Grŵp wedi parhau i adrodd yn erbyn y Tasglu ar Ddatganiadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd. Mae gwaith y flwyddyn hon wedi helpu i ddwyn ynghyd gynnwys cydlynus ar draws gwahanol fframweithiau adrodd, gan gynnwys y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd, Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd a Chompack Byd-eang y Cenhedloedd Unedig, sydd oll wedi bwydo i mewn i'n gwaith cynllunio ar gyfer PR24. Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod BA 24, byddwn yn canolbwyntio yn ystod BA 25 ar ddatblygu trefniadau adrodd ymhellach i gydymffurfio'n llawn â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd ac adolygu fframweithiau adrodd anariannol sy'n dod i'r amlwg lle bo'r rhain yn cyd-fynd â'n hamcanion ACLI a Strategaeth Dŵr Cymru 2050.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Sustainable Fitch (sef is-adran ACLI Fitch Ratings) adolygiad i sgorio'r Grŵp, a orweiniodd at ddyfarnu '2' (proffil ACLI 'Da').

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor (corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/terms-of-reference) yn nodi wyth maes penodol lle mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor i oruchwyllo, adolygu a chraffu ar ran y Grŵp. Mae'r meysydd a'r dyletswyddau hyn wedi llywio agenda a meysydd ffocws allweddol y Pwyllgor yn ystod BA 24.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

Adroddiad y Pwyllgor ACLI – parhad

Blaenoriaethau ar gyfer BA 24	Gweithgarwch a chanlyniadau'r Pwyllgor
Strategaeth Cyhoeddir Strategaeth ACLI y Grŵp ar wefan y Grŵp yn dwrcymru.com/esg	Adolygodd y Pwyllgor berfformiad yn erbyn 10 amcan ACLI y Grŵp, a oedd yn cynnwys archwiliadau trylwyr o'r meysydd canlynol: - Cynnydd yn erbyn cynlluniau ar gyfer Parthau Diogelu, sy'n helpu i gyflawni Ymateb Strategol 1 Dŵr Cymru 2050 – Diogelu dŵr yfed glân drwy Reoli Dalgylchoedd. - Cynllunio a Chynaliadwyedd Hirdymor gan gynnwys adolygiad o Strategaeth Cyllido Cynaliadwyedd y Grŵp yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Awst 2023. - Effaith y Grŵp ar economi Cymru. Addasu i heriau yn y dyfodol (gweler yr Adroddiadau ar Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd isod) - Strategaeth Carbon Sero Net gan gynnwys siart o allyriadau er mwyn helpu gyda chynlluniau Monitro a Mudo Carbon AMP8 ar gyfer PR24. - Adroddiadau i'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd a risgiau cysylltiedig. - Adborth sgorio gan Sustainable Fitch. - Caffael Cynaliadwy (gweler isod) - Gweithio i greu buddiannau gwirioneddol yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. - Denu a chadw gweithlu amrywiol er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym. - Sicrhau fforddiadwyedd gan gynnwys diweddariadau ar gynllunio cyn AMP8. Cafodd y Pwyllgor ganlyniad ymarfer perthnasedd dwbl a gefnogwyd gan Banel Cyngori Annibynnol ar yr Amgylchedd Dŵr Cymru a Grŵp Cwsmeriaid Annibynnol y Cwmni, a wnaeth flaenoriaethu wyth mesur perfformiad sy'n gysylltiedig â'r 36 o fesurau DPA y cytunwyd arnynt, sy'n helpu i gyflawni 10 Amcan Strategol ACLI y Grŵp. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar bob un o'r mesurau â blaenoriaeth ochr yn ochr â diweddariadau ar yr Amcanion Strategol, a chraffodd ar berfformiad yn eu herbyn, ac roedd hyn wedi ei alluogi i dargedu adnoddau at y materion hynny sy'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor y busnes ac yn mynd i'r afael â disgwyliadau rhanddeiliaid allweddol yn y ffordd orau.
Amgylchedd	Strategaeth Carbon Sero Net Mae'r Pwyllgor wedi cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd tuag at gyflawni Strategaeth Carbon Sero Net y Grŵp, gan gynnwys mewn perthynas â chwe phecyn gwaith a nodwyd i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2040: - Defnyddio llai o ynni a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ein hunain. - Defnyddio bionwy o garthion i ddatgarboneiddio gwres a/neu drafnidiaeth. - Newid yn raddol i fflyd carbon isel. - Rheoli a lleihau allyriadau sy'n ffoi o brosesau trin. - Monitro a lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag adeiladu. - Cynyddu lefelau atafaelu carbon a bioamrywiaeth i'r eithaf. Yn ogystal, cafodd y Pwyllgor adolygiad manwl o waith Mudo Carbon ar gyfer PR24 yn ystod ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024. Cafodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Ymaddasu i Newid Hinsawdd y Grŵp yn ystod ei gyfarfod ym mis Awst 2023. Mae rhagor o fanylion am Gynllun Ymaddasu i Newid Hinsawdd y Grŵp ar gael ar-lein drwy ddilyn y ddolen ganlynol: corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/our-plans Cafodd Strategaeth Rheoli Ystadau'r Grŵp ei chymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror 2024. Parhaodd y Pwyllgor i oruchwylio pethau allweddol i'w cyflawni o fewn y Strategaeth Rheoli Ystadau gan gynnwys mentrau i wella bioamrywiaeth, atafaelu carbon, a gwella ansawdd y dŵr yn ein cronfeydd dŵr. Tra bod y Pwyllgor yn parhau i oruchwylio strategaethau a pholisïau ACLI allweddol y Grŵp, mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn ei helpu i adolygu a goruchwylio perfformiad amgylcheddol gweithredol y Grŵp. Gweler tudalennau 118 i 120 am ragor o fanylion am fusnes y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Blaenoriaethau ar gyfer BA 24		Gweithgarwch a chanlyniadau'r Pwyllgor
Cymdeithasol	Cydberthnasau allweddol â rhanddeiliaid	Adolygodd y Pwyllgor gydberthnasau allweddol â rhanddeiliaid a'r camau a oedd yn deillio o hynny. Mae hyn yn ategu dealltwriaeth y Pwyllgor o'r ffordd y mae'r Grŵp yn rhyngweithio â rhanddeiliaid allweddol ynghylch materion ACLI yn rheolaidd, yn ogystal â gwella ei ddealltwriaeth o ddisgwyliadau rhanddeiliaid ac effaith y Grŵp ar y byd y tu allan.
	Caffael cynaliadwy	Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran datblygu Polisi Caffael Cynaliadwy gan y tîm Caffael. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o effaith gwariant Dŵr Cymru ar economi Cymru a ddangosodd fod y Cwmni, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn cefnogi lefelau uchel o weithgarwch economaidd yng Nghymru (gweler tudalen 75 am ragor o fanylion). Ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariadau i'r Polisi Caffael Cynaliadwy ym mis Ebrill 2024. Am ragor o fanylion am y Polisi Caffael Cynaliadwy, gweler tudalen 75.
	Gweithlu amrywiol	Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cymorth Busnes a Phobl gyflwyniad i'r Pwyllgor ar ganlyniadau Arolwg Staff BA 24 ac ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran denu a chadw gweithlu amrywiol er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym. Nododd y Pwyllgor fod 80% o'r gweithlu wedi datgan eu proffil ethnig, a oedd yn welliant sylweddol, ac a oedd yn golygu bod y Grŵp yn symud yn agosach at y pwynt lle gellir cymharu Dŵr Cymru â Chymru yn gyffredinol.
	Cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethir gennym	Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2023, cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau gan y Cyfarwyddwr Strategaeth Cwsmeriaid ac Ymgysylltu a'r Rheolwr-Gyfarwyddwr – Gwasanaethau Cwsmeriaid Domestig ynghylch ymgysylltu â'n sylfaen gwsmeriaid, gan gynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo â chwsmeriaid sy'n agored i niwed a gwaith i gyflwyno 'Cymuned', sef Cronfa Gymorth (Gymunedol) y Cwmni a ehangwyd yn ddiweddar, sy'n cynnig cymorth byrdymor i gefnogi aelwydydd sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd pan fo'u biliau yn fwy na'u hincwm. Nododd y Pwyllgor fod y Cwmni, erbyn canol y flwyddyn, wedi cefnogi 131,446 o aelwydydd drwy ei dariffau cymdeithasol a 16,467 o aelwydydd eraill drwy ei gynlluniau cymorth ariannol.
Llywodraethu a risg	Adroddiadau ACLI	Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiad ar faterion ACLI yn yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon, gan gynnwys y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd. Adolygodd a chraffodd ar adroddiad Ymaddasu i Newid Hinsawdd y Cwmni hefyd a dull gweithredu'r Grŵp mewn perthynas â fframweithiau adrodd anariannol newydd. Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad naratif ar faterion ACLI yn Adroddiad Blyneddol BA 24, a chymeradwyodd yr adroddiad naratif hwnnw i'w gymeradwyo'n derfynol gan y Bwrdd.
	Sgoriau ac achrediadau ACLI	Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Statws ACLI Sustainable Fitch gyda sgôr o 2 (yr uchaf yw 1, yr isaf yw 5) yn seiliedig ar ei adroddiad ar faterion ACLI ar gyfer BA 23. Nododd y Pwyllgor yr argymhelliaid a wnaed yn yr adroddiad i gynnal a gwella'r sgôr hon ymhellach yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2023 a bydd yn olrhain gwaith i gyflawni'r argymhellion hyn drwy gydol 2024 a 2025.
	Risgiau ACLI	Adolygodd y Pwyllgor risgiau a chyfleoedd ACLI bob chwe mis. Caiff y risgiau hyn eu mapio yn erbyn trefniadau Rheoli Risgiau Busnes y Grŵp ac mae'r gwaith o'u datblygu wedi bwydo i mewn i adroddiadau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd ynghylch risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Cydnabu'r Pwyllgor y risgiau sy'n perthyn i'r Fframwaith ACLI yn erbyn y rhai a fyddai'n cael eu goruchwyllo o fewn y maes busnes lle caiff y risg ei thrin neu ei goruchwyllo gan un o Bwyllgorau eraill y Bwrdd e.e. Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Cytunodd y Pwyllgor y byddai pob risg ACLI, nad yw'n cael ei goruchwyllo'n uniongyrchol mewn rhan arall o'r busnes, yn cael ei goruchwyllo'n uniongyrchol gan y Pwyllgor.
	Effeithiolrwydd y Pwyllgor ACLI	Aeth y Pwyllgor ati i adolygu a diweddarau ei Gylch Gorchwyl ar ddiwedd y flwyddyn, a oedd yn cyd-fynd â Chylch Gorchwyl enghreifftiol newydd Sefydliad Llywodraethu Corfforaethol Siartredig y DU, ac adolygodd ei berfformiad yn erbyn y dyletswyddau a nodir yn y Cylch Gorchwyl hwn. Nododd y Pwyllgor na chafodd unrhyw ddiwygiadau eu cynnig i'w Gylch Gorchwyl a daeth i'r casgliad ei fod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod BA 24.

Debra Bowen Rees

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

6 Mehefin 2024

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth



Joanne Kenrick
Cadeirydd y Pwyllgor
Cydnabyddiaeth

Aelodau eraill:

- Debra Bowen Rees
(tan 2 Chwefror 2024)
- Tom Crick
- Alastair Lyons

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 5

 Gweler tudalen 99
am bresenoldeb yng
nghyfarfodydd y Bwrdd a'i
Bwyllgorau

Mae Cadeirydd y Pwyllgor
wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor
Cydnabyddiaeth ers mis
Medi 2019 ac mae wedi bod
yn Gadeirydd ers cyfarfod y
Pwyllgor ym mis Tachwedd
2020. Mae gan y Cadeirydd
brofiad perthnasol ychwanegol
fel Cadeirydd Pwyllgor
Cydnabyddiaeth ar gyfer cwmni
arall ers 2018.

Trosolwg o'r adroddiad hwn:

Adran 1

Datganiad y Cadeirydd

Mae'n rhoi trosolwg o weithgareddau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth
yn ystod y flwyddyn ac yn esbonio'r cyd-destun busnes lle
mae penderfyniadau ynghylch tâl wedi'u gwneud, ar gyfer ein
Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r gweithlu yn gyffredinol.

Adran 2

**Cysoni tâl a pherfformiad, Egwyddorion
Cydnabyddiaeth a Chanllawiau Ofwat**

Mae'n amlinellu'r egwyddorion cydnabyddiaeth y cytunwyd arnynt
sy'n sail i'n hathroniaeth ynglŷn â thâl a'r ffordd rydym yn ystyried
buddiannau a barn ein rhanddeiliaid allweddol wrth bennu polisi a
chanlyniadau cydnabyddiaeth.

Adran 3

Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer 2023–25

Mae'n nodi ein polisi cydnabyddiaeth ar gyfer gweddill cyfnod AMP7,
a gafodd ei gymeradwyo gan yr aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol
Blyneddol 2023.

Adran 4

Tâl yn ystod BA 24

Dengys y symiau a dalwyd i'n Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn
perthynas â BA 24 a'r ffordd y gwnaethom berfformio yn erbyn y
targedau a bennwyd ar gyfer tâl amrywiadwy.

Adran 5

Penderfyniadau ynghylch tâl ar gyfer BA 25

Mae'n amlinellu dull y Pwyllgor o weithredu'r Polisi Cydnabyddiaeth ar
gyfer BA 25 ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Adran 6

Gwybodaeth bwysig arall

Dengys wybodaeth statudol allweddol arall fel sy'n ofynnol gan
Reoliadau Adrodd ar Gydabyddiaeth Cyfarwyddwyr.

Prif gyfrifoldebau

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am argymhell y dogfennau canlynol i'r Bwrdd ac Aelodau Glas eu cymeradwyo: (i) Polisi Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol drwy bleidlais gyfrwymol bob tair blynedd o leiaf (neu'n gynt, os yw'n cyd-daro â chylch AMP newydd); (ii) yr Adroddiad Blyneddol ar Gydabyddiaeth drwy bleidlais gynghorol bob blwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn pennu cydnabyddiaeth Cadeirydd y Bwrdd, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau Tîm Gweithredol Dŵr Cymru, o fewn paramedrau'r Polisi Cydnabyddiaeth cymeradwy. Er bod Cadeirydd y Bwrdd yn aelod o'r Pwyllgor, nid yw'n rhan o unrhyw benderfyniadau am ei gydabyddiaeth ei hun. Wrth arfer ei gyfrifoldebau, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwyllo polisi cydnabyddiaeth y gweithlu a pholisïau cysylltiedig eraill, a chysoni cymhellion a dyfarnoliadau â diwylliant a Diben y Cwmni, gan ystyried y pwyntiau hyn wrth bennu Polisi Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a gwneud penderfyniadau blyneddol ar gydabyddiaeth.

Cafodd ein Polisi ei gymeradwyo diwethaf yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2023. Cynhelir ein hadolygiad llawn nesaf yn 2025 i gyd-fynd â dechrau'r AMP newydd. Mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i nodi'n fanwl yn ei Gylch Gorchwyl sydd ar gael yn [corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/terms-of-reference](https://www.dwr.cymru.com/cy-gb/library/terms-of-reference).

Yn ystod BA 24, cafodd y Pwyllgor gyngor annibynnol gan Korn Ferry, sydd wedi ymrwymo i God Ymddygiad Grŵp yr Ymgynghorwyr Cydnabyddiaeth a chaiff ei gyngor ei lywodraethu gan y Cod.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y cyngor a gafwyd gan Korn Ferry yn annibynnol ac yn wrthrychol. Talwyd cyfanswm o £85,589 ynghyd â TAW mewn ffioedd i Korn Ferry (BA 23: £44,136 ynghyd â TAW i Korn Ferry a £38,575 ynghyd â TAW i'r cynghorwyr blaenorol, Deloitte).

Adran 1: Datganiad Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Annwyl Aelodau Glas

Ar ran y Bwrdd, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Cydnabyddiaeth ar gyfer BA 24.

Cyd-destun busnes, cyflogaion ac aelodau

Fel yr eglurwyd yn neges y Prif Weithredwr (tudalen 15), mae Dŵr Cymru yn parhau i wynebu'r cyfnod mwyaf heriol yn ei hanes, fel llawer o gwmnïau dŵr eraill.

Mae'r Cwmni wedi datgan ymrwymiad i'w raglen gwella perfformiad a'r rhaglen fuddsoddi sylfaenol er mwyn gwella cydnetheredd yr asedau rydym yn dibynnu arnynt. Wrth gwrs, mae cydbwysedd sensitif rhwng

ariannu buddsoddiad, rheoli lefelau biliau ein cwsmeriaid er mwyn eu cadw mor fforddiadwy â phosibl, a chynnal lefel uchel o ran gerio ariannol hefyd. Er bod cyflawni'r buddsoddiad hwn mewn seilwaith yn gwbl greiddiol i'n strategaeth, ni fydd rhai o'r buddiannau a fydd yn deillio o hyn i'w gweld am nifer o flynyddoedd.

Ym mis Tachwedd 2023, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth a oedd yn nodi ein cynlluniau i fynd i'r afael â'r meysydd lle nad ydym yn cyflawni disgwyliadau rheoleiddiol Ofwat ar hyn o bryd, sef: gollyngiadau dŵr, defnydd dŵr y pen, toriadau i'r cyflenwad, ansawdd dŵr yfed, gwaith atgyweirio ar y prif bibellau, cydymffurfiaeth o ran gweithfeydd trin dŵr a llygredd. Roedd y Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth yn amlinellu ein camau gweithredu a'n nodau orfaethedig ar gyfer BA 24 a BA 25 i adfer y meysydd hyn cyn gynted â phosibl i'r safonau perfformiad y mae ein cwsmeriaid, ein haelodau a'r rheoleiddiwr yn eu disgwyl gennym, a'r nod yw na fydd Dŵr Cymru yn cael ei asesu fel cwmni sydd ar ei hôl hi erbyn BA 25.

Bydd cyrraedd y targedau ar gyfer BA 25 a bennwyd yn y Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth yn anodd i'r rheolwyr, yn bennaf oherwydd y gallai ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth effeithio ar eu gallu i wneud hynny. Er enghraifft, gall digwyddiadau'n ymwneud â'r tywydd, fel lefelau glawiad eithriadol o uchel, effeithio ar allu ein hasedau i weithio'n ôl y disgwyl a gall hyn yn ei dro gael effaith negyddol ar ffactorau fel ansawdd dŵr, gollyngiadau dŵr a digwyddiadau'n ymwneud â llygredd.

Mae sychder difrifol neu ddadmer rhew difrifol, y digwyddodd y ddau ohonynt yn 2022, yn cael effaith sylweddol ar duedd pibellau i dorri, gan effeithio ar yr hyn y gallwn ei gyflawni o ran gollyngiadau dŵr a llygredd. Serch hynny, rydym yn gwneud ein gorau i roi'r cynllun gweithredu uchelgeisiol hwn ar waith ym mhob maes. Yn unol â hynny, ar gyfer BA 25, er mwyn sicrhau bod y rheolwyr yn canolbwyntio gymaint â phosibl ar gyflawni'r Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth, rydym wedi pennu targedau'r Cynllun fel y pethau ymestynnol i'w cyflawni yn rhan perfformiad gweithredol y Cynllun Tâl Amrywiadwy Blyneddol (AVP), sydd ei hun yn cynnwys hanner yr AVP posibl.

Yn fy natganiad y llynedd, nodais fod adroddiadau rheoleiddiol ar gyfer gollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen wedi cael eu hailddatgan ar gyfer blyneddoddd blaenorol, fel y datgelwyd gan ein prosesau sicrwydd mewnol. O ganlyniad i'r ailddatganiad hwn, ystyriodd y Pwyllgor y llynedd a ddylid cymhwyso darpariaethau malus ac adfachu o fewn cynlluniau tâl amrywiadwy'r cwmni. O safbwynt adfachu, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y canlyniadau o ran tâl amrywiadwy ar gyfer BA 21 a BA 22 yn dal i adlewyrchu perfformiad corfforaethol cyffredinol yn y blyneddoddd hynny. O safbwynt malus, derbyniodd y Pwyllgor gynnig y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Cyllid i hepgor eu tâl amrywiadwy ar gyfer BA 23, penderfyniad a oedd yn rhannol gysylltiedig â'r Adolygiad o Adroddiadau Rheoleiddiol. Roedd canfyddiadau ymchwiliad ffurfiol Ofwat i'r achosion hyn o gamdroad yn 2024 yn cyd-fynd â'n hadolygiad ni i raddau helaeth. Mae'r Pwyllgor, felly, yn fodlon bod y camau a gymerwyd y llynedd yn briodol o hyd.

Y Cyd-destun ar gyfer Penderfyniadau Gwobrwyo

Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, felly, wneud ei benderfyniadau ynghylch gwobrwyo'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a gweddill y Tîm Gweithredol o fewn y cyd-destun heriol hwn. Ac mae'n rhaid iddo daro cydbwysedd gofalus, gan ystyried llawer o ffactorau.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth – parhad

Er enghraifft, mae data meincnod yn dangos yn gyson fod cyflogau a chyfanswm cydnabyddiaeth ein Cyfarwyddwyr Gweithredol ymhlith yr isaf yn niwydiant dŵr y DU. Ar y llaw arall, mae agweddau'r cyhoedd at gydnabyddiaeth yn y diwydiant dŵr yn gyffredinol, yn ogystal â datblygiadau gwleidyddol a rheoleiddiol, yn rhoi pwysau ar y Pwyllgor i barhau i ddangos pwyll ac ymataliaeth wrth benderfynu ar dâl Cyfarwyddwyr Gweithredol. At hynny, wrth wneud penderfyniadau ynghylch tâl nawr, yn enwedig o ran pennu targedau ymestynnol priodol ar gyfer tâl amrywiadwy, mae'n rhaid ystyried faint o amser y bydd yn ei gymryd i'r buddsoddiadau a'r mentrau gwella perfformiad sydd ar waith ar hyn o bryd gyflawni'r buddiannau a ragwelir.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y modd y mae tîm rheoli'r Cwmni yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r busnes, a'i gynnydd wrth roi'r cynlluniau a ddatblygwyd ganddo i wella perfformiad ar waith, yn dangos profiad ac ymrwymiad sylweddol ein Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Tîm Gweithredol. Wrth i ni edrych ymlaen at y cylch AMP nesaf, mae'n hanfodol bod y Cwmni'n gallu denu a chadw arweinwyr ar lefel Cyfarwyddwyr Gweithredol ac ar lefel uwch-reolwyr, ar yr adeg pan fo'u hangen fwyaf ar y diwydiant dŵr. Rhaid i'r penderfyniadau a wnawn ynghylch cydnabyddiaeth nawr ac yn y dyfodol goel eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau bod hyn yn bosibl.

Cydnabyddiaeth o fewn Dŵr Cymru

Fel rhan o'r penderfyniadau a wnawn a'r trafodaethau a gawn fel Pwyllgor am gydnabyddiaeth cyfarwyddwyr a'r tîm gweithredol, rydym yn ystyried yn ofalus sut fath o gydnabyddiaeth rydym yn ei rhoi i gyflogeion ac yn cael adborth gan y busnes ynghylch profiadau cyflogeion yn ehangach.

Ar gyfer BA 25, rydym wedi cytuno ar godiad cyflog o 4.2% ar gyfer ein gweithlu ehangach. Yn dilyn y cytundeb y gwnoethom ei sicrhau â'r undebau ar ddechrau'r AMP hwn, mae'r codiad hwn yn cyd-fynd â'r gyfradd CPIH ym mis Rhagfyr 2023.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein proses ymgysylltu â chyflogeion ac rwyf wedi cyfarfod â grŵp ffocws bach o gydweithwyr o'r tu mewn i'r busnes er mwyn deall eu safbwyntiau ar eu cydnabyddiaeth eu hunain, ac esbonio a thrafod y ffordd y mae ein hegwyddorion yn cael eu cymhwyso ar lefel Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Mae'r cwmni yn parhau i ganolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiant ac yn y cyd-destun hwnnw, roeddwn yn falch iawn o weld mai dim ond cynnydd bach o 3.6% i 4.8% a welwyd yn ein bwlch cyflog rhywedd canolrifol, a hynny'n bennaf o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y menywod yn hanner y gweithlu sydd â'r tâl isaf. Parhaodd y bwlch cyflog rhywedd cymedr i ostwng o 6.0% yn 2022 i 5.6% yn 2023. O safbwynt ein bylchau taliadau bonws, sero oedd y canolrif o hyd oherwydd natur gynhwysol y cynllun gwobrwyo cydweithwyr a chynyddodd y cymedr i 11.1% yn 2023 (2022: 6.8%), a hynny'n bennaf am fod rhai uwch-arweinwyr benywaidd wedi gadael yn ystod y flwyddyn.

Cydnabyddiaeth ar gyfer BA 24

- Codiad cyflog i gyflogeion yn weithredol o 1 Ebrill 2023: 6.2%
- Taliadau o £1,000 o dan y cynllun gwobrwyo cydweithwyr a dalwyd ym mis Mehefin 2023
- Cyfran y Cwmni o Gynlluniau Tâl Amrywiadwy Cyflogeion a dalwyd ym mis Gorffennaf 2023 ar 31.2% o'r uchafswm yn seiliedig ar berfformiad.
- Bwlch cyflog rhywedd: canolrif o 4.8% a chymedr o 5.6% ar y dyddiad ciplun, sef 5 Ebrill 2023. Bwlch cyflog ethnigrwydd (a gyfrifwyd ac a gyhoeddwyd am y tro cyntaf): canolrif o 3.47% a chymedr o 5.68% ar y dyddiad ciplun, sef 5 Ebrill 2023

Cydnabyddiaeth ar gyfer BA 25

- Codiad cyflog i gyflogeion yn weithredol o 1 Ebrill 2024: 4.2%
- Taliadau o £1,000 o dan y cynllun gwobrwyo cydweithwyr a delir ym mis Gorffennaf 2024
- Cyfran y Cwmni o Gynlluniau Tâl Amrywiadwy Cyflogeion a delir ym mis Gorffennaf 2024 ar 18.13% o'r uchafswm yn seiliedig ar berfformiad

Gwaith allweddol a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod BA 24

Er nad ydym yn gwmni rhestredig, rydym yn mabwysiadu trefniadau llywodraethu sy'n gymwys i gwmni rhestredig cyhoeddus. Felly, rydym yn cyflwyno ein Polisi Cydnabyddiaeth i Aelodau Glas ei gymeradwyo bob tair blynedd o leiaf. Cafodd ein Polisi Cydnabyddiaeth i Gyfarwyddwyr ar gyfer gweddill AMP7 ei gymeradwyo gan Aelodau Glas yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn 2023, gan sicrhau bod y polisi a'r modd y caiff ein cynlluniau tâl amrywiadwy eu gweithredu yn cyd-fynd â'n hamcanion perfformiad a chyflawni allweddol ar gyfer AMP7. Cynhelir ein hadolygiad llawn nesaf o'r polisi yn 2025 i gyd-fynd â'r Penderfyniad ynghylch AMP8. Felly, yn ystod BA 24, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar roi ein cynlluniau tâl amrywiadwy ar waith yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.

Ceir rhagor o fanylion isod am y cynlluniau i roi'r AVP ar gyfer BA 25 ar waith. Ni fydd dull na thargedau'r Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor (LTVPS) yn newid ar gyfer 2024/25, am i'r rhain gael eu pennu ar ddechrau AMP7.

Edrych yn ôl – canlyniadau tâl mewn perthynas â BA 24

Adolygodd y Pwyllgor ganlyniad cardiau sgorio AVP a LTVPS ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a nodir y canlyniadau llawn yn Adran 4.

Crynodeb o gerdyn sgorio AVP

Ar gyfer BA 24, arweiniodd alldro fformiwlâg y cerdyn sgorio at daliadau o 25.77% o'r uchafswm i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Roedd taliadau yn erbyn ein nodau Cwsmeriaid, Gweithredol a Strategol yn cyfateb i 7.06% allan o 30%, 6.25% allan o 50% a 12.46% allan o 20% yn y drefn honno.

Roedd hyn yn dangos natur ymestynnol y targedau a'r heriau a wynebwyd gan y busnes, sydd wedi'u nodi uchod a'u hegluro'n fanylach yn neges y Prif Weithredwr. Rydym yn cydnabod na fyddai'r cynlluniau gwella perfformiad a ddatblygwyd ac sydd nawr yn cael eu rhoi ar waith gan y rheolwyr, ynghyd â'r prosiectau buddsoddi cefnogol, yn cael effaith ar unwaith ar y DPAau gweithredol a bennwyd gennym yn ein AVP. Roedd hyn yn golygu na chafodd chwech allan o saith o'r mesurau gweithredol eu cyflawni yn ystod BA 24.

O safbwynt metrigau cwsmeriaid, roedd ein sgôr rhwng y trothwy a'r

targed yn erbyn y mesurau gwasanaeth cwsmeriaid a bennwyd ar gyfer y llynedd.

Yn olaf, asesodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth fod perfformiad yn erbyn ein metrigau strategol yn cyd-fynd â'r targed yn gyffredinol, gyda gwaith i baratoi ein cyflwyniad ar gyfer PR24 a nifer y cilomedrau o afonydd a wellwyd – metrig amgylcheddol allweddol – yn well na'r targed.

Ar ôl adolygu alldro'r cynllun, ystyriodd y Pwyllgor hefyd a oedd yn briodol defnyddio disgresiwn i ddiwygio'r canlyniad mewn unrhyw ffordd. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod metrigau penderfyniad terfynol Ofwat yn darparu targedau ymestynnol ar gyfer y busnes a oedd yn anodd eu cyflawni, a bod y cynllun wedi gweithredu yn ôl y bwriad o ran adlewyrchu hyn. Roedd digwyddiadau difrifol o ran ansawdd dŵr, erlyniadau llygredd, a pherfformiad iechyd a diogelwch yn ffactorau allweddol yn y drafodaeth hon hefyd. Ystyriwyd adroddiad a gafwyd gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn nodi na fu unrhyw achosion o lygredd categori 1, ac o ran y saith achos o lygredd categori 2, na fu unrhyw achosion o ladd pysgod. Hefyd, cofnodwyd y nifer lleiaf erioed o ddigwyddiadau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn ystod y flwyddyn. O ystyried y wybodaeth hon a'r ffaith bod y Pwyllgor o'r farn bod yr alldro yn adlewyrchu perfformiad yn gyffredinol, penderfynodd y Pwyllgor beidio â defnyddio ei ddisgresiwn y tro hwn.

Crynodeb o gerdyn sgorio LTVPS

Ar gyfer BA 24, nid arweiniodd alldro fformiwlâg y cerdyn sgorio at daliadau i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol oherwydd ni lwyddwyd i gyrraedd y lefelau trothwy. Yn fwy penodol, roedd ein perfformiad Totex yn adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi gwneud buddsoddiadau hanfodol ychwanegol yn ein rhaglen gwella asedau ac, felly, ni chafodd y trothwy ei gyrraedd. Roedd y nifer mawr o gosbau a osodwyd am ollyngiadau dŵr a phrif bibellau dŵr yn torri wedi cael cryn effaith ar ein perfformiad o ran y Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau, a oedd wedi mwy na gwrthbwysio perfformiad uwchlaw'r targed mewn elfennau eraill o'r cerdyn sgorio (er enghraifft, cilomedrau o afonydd a wellwyd).

Edrych i'r dyfodol – cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr mewn perthynas â BA 25

Yn unol â'r cylch blyneddol arferol, adolygodd y Pwyllgor gyflogau'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ac aelodau'r Tîm Gweithredol ym mis Mawrth 2024. Ystyriodd y Pwyllgor sawl pwynt cyfeirio, gan gynnwys y codiad cyflog arfaethedig i'r gweithlu ehangach, perfformiad y busnes a pherfformiad unigol yn ystod BA 24 a'r cyd-destun economaidd ehangach. O ganlyniad, penderfynodd y Pwyllgor gynyddu cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol 4.2% o 1 Ebrill 2024, yn unol â'r codiad ar gyfer y gweithlu ehangach.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod hwn yn godiad priodol o ystyried y cyd-destun presennol ond mae'n gwybod bod hyn yn gadael y weithrediaeth yn y safle isaf o gymharu â gweddill y farchnad. Adolygodd y Pwyllgor lwfans car y Cyfarwyddwyr Gweithredol y llynedd a chanfu ei fod gryn dipyn yn is na chyfradd y farchnad. Felly, penderfynodd gynyddu'r lwfans car yr eilwaith ar gyfer BA 25 o £8,500 i £12,000.

Hefyd, adolygodd y Pwyllgor ffi Cadeirydd y Bwrdd, gan ystyried ymarfer meincnodi â'r farchnad allanol a ffactorau cymharol mewnol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei bod yn briodol dyfarnu cynnydd o 4.2% i'r Cadeirydd, yn unol â'r cynnydd a ddyfarnwyd i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r gweithlu ehangach.

Cafodd ffioedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol eu hadolygu gan y Bwrdd (ac eithrio'r Cyfarwyddwyr Anweithredol), a benderfynodd na ddylai'r ffi sylfaenol newid, ond y dylai'r ffioedd ychwanegol ar gyfer cadeirio Pwyllgorau'r Bwrdd gynyddu £2,500 fel a ganlyn:

- O £10,000 i £12,500 y flwyddyn ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.
- O £7,500 i £10,000 y flwyddyn ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
- O £2,500 i £5,000 y flwyddyn ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a Chadeirydd y Pwyllgor Technoleg.

Mae'r Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol yn cael ffi ychwanegol o £10,000 y flwyddyn sydd heb newid ers y llynedd.

Nodir cyflogau a ffioedd sy'n gymwys i'r Cyfarwyddwyr yn ystod BA 25 ar dudalennau 147 a 148.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

5 Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth – parhad

Mesurau AVP ar gyfer BA 25

Ar gyfer AVP BA 25, gellir ennill hyd at 100% o'ch cyflog, yn seiliedig ar berfformiad. Yn unol ag adolygiad blynyddol y Pwyllgor o'r cerdyn sgorio mesurau, penderfynodd fod y pwysoliadau cyffredinol, sef 30% ar gyfer mesurau Cwsmeriaid, 50% ar gyfer mesurau Gweithredol ac 20% ar gyfer mesurau Strategol, yn briodol o hyd ar gyfer blaenoriaethau busnes a rhanddeiliaid y Cwmni.

Fodd bynnag, o ystyried mai prif ffocws y rheolwyr a'r Bwrdd yw gwella perfformiad, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu y dylai'r metrigau a ddefnyddir yn elfen Perfformiad Gweithredol y cynllun gyd-fynd â mesurau'r Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth, sef y rhai lle nad ydym yn cyflawni'r safonau rheoleiddiol disgwylidig ym marn Ofwat. Yn unol â hynny, bydd yr amrediadau targed ar gyfer pob mesur (a gaiff eu datgelu'n llawn yn Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr BA 25) yn cyd-fynd â'r graddau y caiff y Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth ei gyflawni yn ystod BA 25, a bydd angen gwella ar sefyllfa BA 24 er mwyn ystyried gwneud unrhyw daliad.

Yn ogystal, adolygodd y Pwyllgor bwysoliadau pob metrig yng ngoleuni blaenoriaethau mewnol a disgwyliadau rheoleiddiol y Cwmni. O ganlyniad, mae wedi dyrannu 35% o'r cyfanswm AVP posibl yn uniongyrchol i berfformiad yn erbyn mesurau amgylcheddol (digwyddiadau'n ymwneud â llygredd, cydymffurfiaeth o ran dŵr gwastraff, gollyngiadau dŵr a chilomedrau o afonydd a wellwyd), gydag 20% yn seiliedig ar ddigwyddiadau'n ymwneud â llygredd. Ceir rhagor o fanylion am y metrigau AVP unigol ar gyfer BA 25 ar dudalen 148.

Cyd-destun aelodau

Rydym yn croesawu barn ein Haelodau wrth wneud dyfarniadau ac rydym yn ystyried y farn hon, ynghyd â phwyntiau cyfeirio eraill, yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf 2023, eglurais i'r Aelodau yr heriau sy'n wynebu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth wrth iddo wneud penderfyniadau am gydnabyddiaeth aelodau gweithredol. Rwy'n falch bod yr Aelodau yn ystyried ac yn deall y problemau sy'n ein hwynebu o chawsom lower o gefnogaeth gan yr Aelodaeth i'r atebion o ran cydnabyddiaeth. Pan fo Aelodau yn mynegi pryderon neu'n gofyn cwestiynau, rwyf yn ymdrin â nhw'n syth er mwyn gwrandao ar awgrymiadau a safbwyntiau a'u trafod. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth hefyd yn trafod unrhyw adborth a roddir gan yr aelodau. Rydym yn gwerthfawrogi'r holl adborth a roddir drwy broses ffurfiol y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, yn ogystal ag adborth uniongyrchol gan Aelodau, ac rydym yn croesawu croestoriad o safbwyntiau.

Yn ystod BA 25, rwyf yn bwriadu cynnal sesiwn gydag aelodau newydd i egluro gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, ein hegwyddorion o ran cydnabyddiaeth aelodau gweithredol (a amlinellir yn Adran 2) a sut mae'r polisi cydnabyddiaeth yn gweithio. Hefyd, yn ogystal â'm diweddariad blynyddol ar gydnabyddiaeth yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf, rydym yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau yn ystod y flwyddyn am y gwaith a wnaed gennym yn 2024 i ddatblygu'r Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer yr AMP nesaf, a gaiff ei gyflwyno yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn 2025.

Adolygiad o'r Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer 2025

Tua diwedd BA 24, dechreuodd y Pwyllgor gynllunio ar gyfer Adolygiad Polisi 2025 a fydd yn fwy sylweddol ac a fydd yn cyd-fynd â dechrau cylch AMP8. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried yn fanwl sut mae ein cynlluniau yn cyd-fynd â'r Penderfyniad Rheoleiddiol (unwaith y cytunir arno) er mwyn sicrhau bod ein strwythurau cydnabyddiaeth i gyfarwyddwyr gweithredol yn helpu'n briodol i

gyflawni'r blaenoriaethau gweithredol rydym yn rhagweld y byddant yn rhan allweddol o'r Penderfyniad.

Fel y nodais yn fy nghyflwyniad, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant dŵr ar hyn o bryd, y farn gyhoeddus gysylltiedig a'r lefel uwch o graffu rheoleiddiol ar dâl Cyfarwyddwyr Gweithredol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ac Ofwat. Er gwaethaf y ffactorau hyn, mae'n rhaid i'r Pwyllgor sicrhau bod y Cwmni yn parhau i fod yn gorff deniadol i weithio iddo, lle mae arweinwyr effeithiol a chadarn (a chyflogeion ym mhob rhan o'r Cwmni) yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael tâl teg am eu hymdrechion a'u cyflawniadau, wrth iddynt geisio cyflawni eu hamcanion. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer y cylch AMP nesaf yn erbyn yr ystyriaethau hyn a chaiff amrywiaeth o opsiynau gwahanol eu hystyried.

Edrychaf ymlaen at ymgysylltu ag Aelodau Glas, cydweithwyr a rhanddeiliaid eraill yn ystod y flwyddyn wrth i'n hadolygiad fynd rhagddo.



Joanne Kenrick
Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

6 Mehefin 2024

Adran 2: Cysoni tâl a pherfformiad, egwyddorion cydnabyddiaeth a chanllawiau Ofwat

Ym mis Rhagfyr 2019, cymeradwyodd Aelodau Glas newid i'n Herthyglau Cymdeithasu er mwyn nodi'n glir ein Diben, yr ydym wedi ymrwymo i'w gyflawni ers 2001 pan gaffaelwyd busnes Dŵr Cymru gan Glas Cymru. Mae ein Diben, a amlinellir ar dudalen 5 yr Adroddiad Blyneddol hwn, wedi llywio'r gwaith o ddatblygu ein Hegwyddorion Cydnabyddiaeth, fel y'u nodir isod.

Yr egwyddorion cydnabyddiaeth

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn trafod yr Egwyddorion Cydnabyddiaeth allweddol sy'n gymwys i waith y Pwyllgor yn rheolaidd ag Aelodau Glas. Cafodd yr Egwyddorion, a restrir isod, eu rhannu ag Aelodau ddiwethaf yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2020. Gan mai adolygiad canol cylch oedd Adolygiad Polisi 2023 o oedd yn mynd â ni at ddiwedd cylch rheoleiddiol AMP7, nid yw'r Egwyddorion wedi newid.

1	2	3	4
Dylai cydnabyddiaeth wobrwyo/cymell buddiannau hirdymor y busnes, hyrwyddo ei lwyddiant cynaliadwy yn yr hirdymor ac adlewyrchu ei ddull strategol cytûn yn y dyfodol.	Dylai cydnabyddiaeth helpu i gysoni buddiannau Cyfarwyddwyr a chyflogeion â chwsmeriaid y Grŵp, ac adlewyrchu Diben a gwerthoedd y Cwmni.	Dylai cydnabyddiaeth ganolbwyntio ar faterion o bwys allweddol y busnes — onsawdd dŵr ac amgylcheddol, gwasanaeth cwsmeriaid a pherfformiad ariannol.	Dylai cydnabyddiaeth adlewyrchu nod Dŵr Cymru i fod yn un o'r cwmnïau sy'n perfformio orau yn y sector.
5	6	7	8
Dylai targedau cydnabyddiaeth fod yn ymestynol o ran perfformiad blaenorol ac o gymharu â chwmnïau eraill yn y sector. Lle y bo'n bosibl, dylent fod yn ffigurau caled y gellir eu harchwilio.	Bwriedir i gydnabyddiaeth gymell rheolwyr yn absenoldeb cyfranddalwyr ac opsiynau cyfranddaliadau.	Dylai cydnabyddiaeth fod yn deg ac yn gystadleuol o ran y sector ac yn fewnol er mwyn helpu i ddenu a chadw unigolion o'r radd flaenaf.	Dylai cyfran briodol o gydnabyddiaeth i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fod yn amrywiadwy er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir mewn perthynas â chymryd risgiau.
9	10	11	12
Dylai'r strwythur cydnabyddiaeth fod yn ddigon clir fel bod y rheini y mae'n effeithio arnynt yn deall beth yw ei nod.	Bydd cydnabyddiaeth yn dryloyw i Aelodau Glas ac yn cael ei chymeradwyo'n rheolaidd ganddynt.	Dylai cydnabyddiaeth ystyried model nid er cyfranddalwyr y Cwmni, a barn yr Aelodau a rhanddeiliaid eraill.	Dylai penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor ystyried cydnabyddiaeth y gweithlu a pholisïau cysylltiedig, a chysoni cymhellion a gwobrwyon â'r diwylliant.

Wrth ddatblygu'r Polisi Cydnabyddiaeth ac ystyried ei weithredu ar gyfer BA 24, ystyriodd y Pwyllgor amcanion Canllawiau Ofwat ar Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU yr FRC. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y fframwaith ar gyfer cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol yn mynd i'r afael yn briodol â'r ffactorau canlynol:

Eglurder	Mae'r Pwyllgor yn ymrwymedig i fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch materion yn ymwneud â thâl. Rydym yn ceisio gwneud hyn drwy ein lefel uchel o ddatgeliadau a system adrodd glir. Wrth wneud ei benderfyniadau, mae'r Pwyllgor yn dilyn Amcanion Canllawiau Ofwat ar Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd, a gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yr FRC (y Cod). Nodir y canlyniadau cymhelliant gwirioneddol yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth bob blwyddyn.
Symrlwydd	Anelwn at sicrhau bod ein strwythur cydnabyddiaeth yn glir i bawb fel bod pawb y mae'n effeithio arnynt yn ei ddeall ac yn deall ei ddiben. Lle y bo modd, mae ein trefniadau cydnabyddiaeth yn unol ag arferion gorau'r DU.
Risg	Mae gan y Pwyllgor ddisgresiwn i addasu canlyniadau AVP a LTVPS os bydd o'r farn eu bod yn anghyson â pherfformiad cyffredinol y Cwmni, gan ystyried unrhyw ffactorau perthnasol. Mae darpariaethau adfachu a malus yn gymwys i AVP a LTVPS.
Rhagfynegadwyedd	Nodir yr uchafswm cyfleoedd ar gyfer AVP a LTVPS yn y Polisi, ac mae'r canlyniadau gwirioneddol yn dibynnu ar lefel y perfformiad a gyflawnir yn erbyn mesurau penodol.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth – parhad

Cymesuredd	Mae ein Polisi wedi'i lunio i doru cydbwysedd rhwng mesurau hirdymor a byrdymor, sy'n gysylltiedig â chynllun strategol y Cwmni. Mae cyfran sylweddol o'n trefniadau cydnabyddiaeth ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gysylltiedig â chyflawni amodau perfformiad ymestynnol er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael eu gwobrwyo'n deg am lwyddo. Wrth feincnodi tâl Cyfarwyddwyr, rydym yn ystyried y data yn eu cyd-destun, gan gynnwys cymhlethdod y rôl.
Cysoni â diwylliant	Drwy ddefnyddio'r un mesurau allweddol ar gyfer pob cynllun tâl amrywiadwy, rydym yn sicrhau tryloywder ac ymdeimlad o gydberchenogaeth o'r targedau oherwydd mae dyfardal blynyddol pob cydweithiwr yn dibynnu ar ei berfformiad yn erbyn yr un targedau allweddol, i raddau mwy neu lai.

Cysoni tâl yn strategol

Wrth bennu polisiâu cydnabyddiaeth, mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i ddenu a chadw unigolion a all ateb heriau byrdymor a hirdymor y Grŵp.

Mae'n rhaid i dâl fod yn gynaliadwy ac mae'n rhaid iddo annog unigolion i ganolbwyntio ar gyflawni strategaeth y Cwmni yn y tymor hwy. Hefyd, mae'n rhaid iddo fod yn deg i unigolion a'r gweithlu ehangach. Wrth bennu'r Polisi Cydnabyddiaeth a chanlyniadau cyflog, mae'r Pwyllgor yn ystyriol o'n model nid er cyfranddalwyr.

Mae'r Pwyllgor yn benderfynol na ddylai cydnabyddiaeth wobrwyo perfformiad gwael ac y dylem fod yn dryloyw ynglŷn â chofnodi perfformiad. Mae perthynas agos rhwng hyn a gweledigaeth y Grŵp i Ennyn Ymddiriedaeth ein Cwsmeriaid Bob Dydd!

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys esboniad o Bolisi Tâl Cyfarwyddwyr Gweithredol y Cwmni a sut mae cysylltiad rhwng y meini prawf ar gyfer gwobrwyo elfennau cydnabyddiaeth amrywiadwy byrdymor a hirdymor a chyflawni mwy i gwsmeriaid, a sut y cânt eu cymhwyso'n fanwl gywir.

Cysylltu tâl â safbwyntiau ein prif randdeiliaid

Mae ein Polisi Cydnabyddiaeth i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn ystyried safbwyntiau ein rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys ein cwsmeriaid, ein cyflogeion a'n Haelodau, cyrrf rheoleiddio perthnasol a chymdeithas ehangach. Rydym yn ystyried hyn o ran y ffordd y dylai rhanddeiliaid ddylanwadu ar y broses o bennu polisiâu cydnabyddiaeth, yn ogystal â'u dylanwad ar ganlyniadau tâl. Drwy gydol pob penderfyniad o'r fath, mae angen cydbwysu disgwyliadau rhanddeiliaid â'r angen i ddenu a chadw unigolion allweddol sydd â'r profiad a'r gallu perthnasol.

	Aelodau	Cwsmeriaid a'r gymdeithas ehangach	Cyflogeion	Cyrff Llywodraethol a Rheoleiddiol (e.e. Ofwat)
Sut rydym yn ymgysylltu ynghylch tâl?	Mae'r Aelodau yn chwarae rôl lywodraethu hanfodol o ran cymeradwyo ein polisi a'n canlyniadau cydnabyddiaeth. Rydym yn ymgysylltu bob blwyddyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac yn sicrhau bod Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar gael i drafod materion sy'n ymwneud â thâl â'r Aelodau yn ôl y gofyn. Caiff ein Polisi Cydnabyddiaeth ei gymeradwyo bob tair blynedd o leiaf, a chynhelir pleidlais gynghorol ar weddill yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.	Nid oes gennym raglen benodol i ymgysylltu â'n cwsmeriaid ar faterion sy'n ymwneud â chydabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol. Fodd bynnag, fel un o'r cwmnïau mwyaf yng Nghymru sy'n cael effaith sylweddol ar y dirwedd economaidd-gymdeithasol, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o broffil cyhoeddus uchel cydnabyddiaeth a barn cwsmeriaid yn ogystal â chymdeithas yn gyffredinol. Mae hyn yn dylanwadu ar bob un o'n penderfyniadau ynghylch cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol.	Fel rhan o'n rhaglen ymgysylltu eang â chydweithwyr, rydym yn trafod rôl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, y cysylltiad rhwng perfformiad a chydabyddiaeth, a pholisiâu cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r busnes ehangach. Caiff allbynnau trafodaethau o'r fath eu bwydo yn ôl i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.	Os bydd y rheoleiddiwr yn ceisio ymgysylltu'n uniongyrchol ynghylch materion tâl byddwn yn ymateb yn briodol.

	Aelodau	Cwsmeriaid a'r gymdeithas ehangach	Cyflogeion	Cyrff Llywodraethol a Rheoleiddiol (e.e. Ofwat)
Cysylltiad â rhif egwyddor(ion) cydnabyddiaeth	1231011	123	21112	345
Effaith ar ganlyniadau cydnabyddiaeth (enghraifftiau)	- Gwneir pob penderfyniad ynghylch tâl y Cyfarwyddwyr Gweithredol gan ystyried barn yr Aelodau. - Er nad oes targedau penodol yn ein cynlluniau tâl amrywiadwy mewn perthynas ag Aelodau, mae pwerau disgresiwn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn golygu y penderfynir ar bob canlyniad tâl yn seiliedig ar sicrhau atebolrwydd i'r Aelodau (ymhlith rhanddeiliaid eraill).	- Mae tâl amrywiadwy byrdymor a hirdymor yn canolbwyntio i raddau helaeth ar berfformiad sylfaenol y Cwmni o ran cyflawni dros ein cwsmeriaid. Caiff gwasanaeth cwsmeriaid ei fesur yn uniongyrchol yn ein AVP, drwy ein sgoriau B-Mex, C-MeX a D-MeX (sgoriau profiad cwsmeriaid a chyflawni Ofwat). - Yn LTVPS, mae hanner y cerdyn sgorio yn canolbwyntio ar gyflawni ein hymrwymiadau i gwsmeriaid ar gyfer AMP7. - Caiff y Pwyllgor Cydnabyddiaeth arfer ei ddisgresiwn ynglŷn â chanlyniadau cydnabyddiaeth gan ystyried profiad cwsmeriaid.	- Gwneir penderfyniadau ynghylch tâl y Cyfarwyddwyr Gweithredol yng nghyd-destun y gweithlu ehangach – er enghraifft, un o'r prif bwyntiau cyfeirio a ddefnyddir gan y Pwyllgor i bennu cyflogau yw'r cynnydd canrannol ym mhob rhan o'r busnes. - Os byddwn o'r farn bod hynny'n briodol, caiff metrigau cyflogeion eu cynnwys yn y cynlluniau tâl amrywiadwy. Er enghraifft, rydym wedi cynnwys canran yr uwch-reolwyr benywaidd fel metrig ar gyfer BA 24.	- Mae ein fframwaith cydnabyddiaeth yn seiliedig ar ein cylchoedd rheoleiddiol pum mlynedd. Ar adeg pob penderfyniad ar AMP, rydym yn ystyried ein Polisi Cydnabyddiaeth yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig cymhellion priodol am gyflawni ymrwymiadau o dan yr AMP, ond heb gymryd risgiau diangen. - Felly, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y mwyafrif o gardiau sgorio AVP a LTVPS â gwneud y penderfyniad rheoleiddiol ar gyfer cyfnod yr AMP presennol, sef AMP7, y mae ein holl gynlluniau busnes yn seiliedig arno. - Caiff y Pwyllgor Cydnabyddiaeth arfer ei ddisgresiwn ynglŷn â chanlyniadau cydnabyddiaeth gan ystyried perfformiad ehangach y busnes, a gall gynnwys achosion o dor-rheoliadau.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

5 Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth – parhad

Adran 3: Crynodeb o'r Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer 2023-25

Cafodd Polisi Cydnabyddiaeth AMP7 ei gymeradwyo gan Aelodau Glas yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2023,, a nodir y prif elfennau yn y tabl isod:

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
Cyflog sylfaenol	Helpu i ddenu, cadw a chymell cyflogeion o'r radd flaenaf.	Caiff ei adolygu bob blwyddyn fel arfer a chaiff unrhyw godiadau eu cymhwyso fel arfer yn weithredol o 1 Ebrill. Bydd adolygiadau o gyflog yn adlewyrchu: - Rôl, profiad a pherfformiad - Amodau economaidd ehangach. - Y codiadau cyflog a ddyfernir i weddill y gweithlu - Adolygiadau o gydnabyddiaeth yn y sector dŵr o bryd i'w gilydd	Codiadau cyflog blynyddol sydd fel arfer yn gysylltiedig â rhai'r gweithlu ehangach, er bod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cadw'r hawl i ddyfarnu codiadau cyflog i unigolion uwchlaw neu islaw'r lefel hon lle y bo'n briodol.	Adolygiadau Perfformiad Blynyddol.
Buddiannau	Cynnig pecyn o fuddiannau sy'n gystadleuol yn y forchnad er mwyn helpu i ddenu a chadw cyflogeion. Mae buddiannau gofal iechyd hefyd yn hybu parhad busnes.	Gall y Cyfarwyddwyr fod yn gymwys i gael yswiriant iechyd preifat ac yswiriant iechyd parhaol. Gall buddiannau eraill fel treuliau adleoli neu lwfansau teithio/llety gael eu cynnig fel y bo'n briodol.	Mae gwerth buddiannau yn seiliedig ar y gost i'r Cwmni ac ni chaiff ei bennu ymlaen llaw.	Dim.
Pensiwn	Helpu i ddenu a chadw cyflogeion o safon.	Bydd gan bob cyflogai, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol, yr hawl i uchafswm cyfraniad pensiwn o 11%. Mae cyflogeion cymwys yn cael cyfle i ymeithrio a chael lwfans arian parod. Os bydd y gyfradd cyfraniadau cyflogwr uchaf ar gyfer y gweithlu ehangach yn newid, bydd y gyfradd newydd hon hefyd yn gymwys i Gyfarwyddwyr Gweithredol. Mae buddiannau pensiwn ar gyfer yr holl gyflogeion a fu'n rhan o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru yn parhau i gynyddu'n unol â'r codiadau yn eu cyflog sylfaenol. Mae'r cynnydd hwn hefyd yn y Cynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr y mae Peter Perry yn rhan ohono. Darperir yswiriant bywyd ar bedair gwaith y cyflog sylfaenol i Gyfarwyddwyr Gweithredol a phob cyflogai sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru neu Gynllun Arian Parod Amgen yn lle Pensiwn.	Mae'r lwfans arian parod uchaf yn cyfateb i gyfraniad y cyflogwr o 11% o'r cyflog llai cyfraniad YG y cyflogwr.	Dim.

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
AVP	Cymell unigolion i gyflawni targedau ymestynol a nodau strategol bob blwyddyn.	Caiff targedau AVP eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor. Mesurir perfformiad yn erbyn lefelau trothwy, targed ac uchaf. Pennir yr alldro yn erbyn targedau gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar ôl diwedd y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn targedau. Telir dyfardaliadau a enillir fel arian parod, nid ydynt yn bensiynadwy ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adfachu (gweler y manylion ar dudalen 141). Gall dyfardaliadau AVP gael eu hamrywio (naill ai eu cynyddu neu eu lleihau) yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agosach â'r perfformiad a gyflawnwyd, gan gynnwys er mwyn adlewyrchu profiad cwsmeriaid. Mae rheolau AVP yn galluogi'r Pwyllgor i ohirio talu unrhyw ddyfardaliadau nes i ymchwiliad sy'n mynd rhagddo gael ei gwblhau.	Y swm AVP mwyaf posibl yw 100% o'r cyflog, am gyflawni targedau perfformiad ymestynol.	Dewisir mesurau gan y Pwyllgor bob blwyddyn gydag o leiaf 80% o'r dyfardal yn seiliedig ar fesurau Cwsmeriaid a mesurau Gweithredol wedi'u halinio â mesurau rheoleiddiol a geir yn ein Cynllun Busnes.
LTVPS	Cysoni ffocws hirdymor y Cyfarwyddwyr Gweithredol â buddiannau cwsmeriaid a rhanddeiliaid Dŵr Cymru. Rhoi cymhelliant i gyflawni strategaeth hirdymor y Cwmni.	Dyfardaliadau arian parod yn seiliedig ar dargedau perfformiad ymestynol. Mesurir perfformiad yn erbyn trothwy, targed a lefelau uchaf. Asesir perfformiad yn erbyn y mesurau dros gyfnod pum mlynedd AMP7. Gwneir taliadau interim yn flynyddol, wedi'u capio fel arfer ar y cyfle targed cyffredinol ar gyfer y flwyddyn, oni fydd y Pwyllgor yn penderfynu fel arall. Gall dyfardaliadau LTVPS gael eu hamrywio (naill ai eu cynyddu neu eu lleihau) yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agosach â'r perfformiad a gyflawnwyd, gan gynnwys er mwyn adlewyrchu profiad cwsmeriaid. Mae dyfardaliadau yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adfachu (gweler y manylion ar dudalen 141). Mae rheolau LTVPS yn galluogi'r Pwyllgor i ohirio talu unrhyw ddyfardaliadau nes i ymchwiliad sy'n mynd rhagddo gael ei gwblhau.	Y dyfardal uchaf posibl i'r Prif Weithredwr yw 500% o'i gyflog dros y cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd (hyd at ddyfardal uchaf posibl o 100% y flwyddyn). Ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol eraill, y dyfardal uchaf posibl yw 300% o'u cyflog dros y cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd (hyd at ddyfardal uchaf posibl o 60% y flwyddyn).	Oni fydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn penderfynu fel arall, 50% yn seiliedig ar berfformiad Totex a 50% yn seiliedig ar amrywiaeth o fesurau datblygu perfformiad sy'n berthnasol i gyflawni nodau hirdymor y Cwmni ac sy'n cyd-fynd â mesurau rheoleiddiol a geir yn ein Cynllun Busnes.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

5 Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth – parhad

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
Ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol	Rhoi lefel briodol o ffi i ddenu a chadw unigolion ag ystod eang o brofiad a sgiliau er mwyn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau.	Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn penderfynu ar y ffi sy'n daladwy i Gadeirydd y Bwrdd. Yn unigol, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Cadeirydd yn cymeradwyo'r ffioedd sy'n daladwy i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Gall y Cwmni wneud taliad mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth treth gysylltiedig os ystyrir bod hyn yn briodol.	Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael ffi sylfaenol. Gellir talu ffioedd ychwanegol er mwyn adlewyrchu ymrwymadau amser a/neu gyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft i'r Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeiryddion Pwyllgorau.	Adolygiad Blynnyddol.

Nodir yr elfennau o'r Polisi Cydnabyddiaeth sy'n ymdrin â Chyfarwyddwyr Gweithredol yn ymuno â'r Bwrdd ac yn gadael y Bwrdd yn Adroddiad Blynnyddol 2023 sydd ar gael yn [drcymru.com/glascymrureports](https://www.drcymru.com/glascymrureports).

Darpariaethau adfachu

Gall y Pwyllgor adfachu dyfardaliadau AVP a/neu LTVPS o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Camddatganiad perthnasol neu wall cyfrifo wrth asesu canlyniadau ariannol unrhyw aelod-gwmni o Grŵp Glas Cymru (y Grŵp).
- Methiant perthnasol i reoli risg mewn unrhyw aelod-gwmni o'r Grŵp neu uned fusnes berthnasol.
- Camymddwyn difrifol neu niwed a achosir i enw da Dŵr Cymru (y Cwmni) neu aelod-gwmni o'r Grŵp.
- Methiant corfforaethol perthnasol unrhyw aelod-gwmni o'r Grŵp neu uned fusnes berthnasol.

Gellir adfachu dyfardaliadau AVP naill ai cyn talu'r dyfardal ar gyfer blwyddyn berfformiad benodol neu yn y flwyddyn berfformiad ganlynol.

Gellir adfachu dyfardaliadau LTVPS naill ai cyn talu'r dyfardal ar gyfer blwyddyn berfformiad benodol neu nes bod cyfrifon y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2028 wedi cael eu harchwilio.

Adran 4: Tâl

Tâl y gweithlu ehangach

Yn ogystal â bod yn gyfrifol am bennu'r Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Tîm Gweithredol, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwyllo polisi tâl ym mhob rhan o'r Grŵp. Cytunir ar bolisi tâl y gweithlu â'n hundebau llafur cydnabyddedig ac mae'n dilyn telerau ein Cytundeb Cydweithio a'n Cytundeb Partneriaeth â Gwasanaethau Cwsmeriaid Domestig.

Tâl sefydlog

Cytunir ar y Dyfardal Cyflog Cyffredinol Blynnyddol â'n hundebau llafur cydnabyddedig a chaiff cyflogau eu cynyddu'n gyson drwy'r gweithlu cyfan.

Ar gyfer BA 24, roedd gan y gweithlu ehangach gytundeb i ddyfarnu cynnydd yn unol â CPIH ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, mewn partneriaeth â'n hundebau llafur, gwnaethom gytuno ar gynnydd o 6.2% (3% yn is na CPIH ym mis Rhagfyr 2022) o thaliad costau byw o £2,000. Mae buddiannau pensiwn yn gyson drwy'r Cwmni cyfan ac mae gan holl aelodau Cynllun Pensiwn Personol y Grŵp yr hawl i gael yr un cyfraniad cyflogwr fel canran o gyflog, yn unol ag arfer orau.

Tâl amrywiadwy

Mae'r Cynllun Tâl Amrywiadwy Blynnyddol (AVP) (i gydweithwyr islaw lefel y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwchlaw Band 5) a'r Cynllun Gwobrwy Cydweithwyr (Bandiau 1–5) yn defnyddio nifer o fetrigau allweddol a rennir – yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â Chwsmeriaid, Perfformiad a Gwariant. Mae hyn yn sicrhau tryloywder ac ymdeimlad o berchenogaeth a rennir o'r targedau.

Mae'r AVP ar gyfer cydweithwyr uwchlaw Band 5 yn cynnwys elfen o gyfle yn seiliedig ar gyflawni amcanion personol, yn ogystal â pherfformiad y Cwmni. Mae'r uchafswm cyfle yn amrywio o 10% i 60% o'u cyflog sylfaenol, yn dibynnu ar y band.

Nid yw'r cynllun Gwobrwyo Cydweithwyr, ar gyfer Bandiau 1–5, yn cynnwys elfen personol ac mae swm y taliad yn gwbl seiliedig ar berfformiad y Cwmni yn erbyn y metrigau a nodwyd. Yr uchafswm cyfle o dan y cynllun Gwobrwyo Cydweithwyr yw £1,500. Y taliad gwirioneddol mewn perthynas â blwyddyn perfformiad BA 24 yw £1,000 (BA 23: £1,000).

Tâl Cyfarwyddwyr Gweithredol

Yr hyn a dalwyd i Gyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer BA 24 (Archwiliwyd)

		Peter Perry		Mike Davis	
		BA 24 £"000oedd	BA 23 £"000oedd	BA 24 £"000oedd	BA 23 £"000oedd
Tâl Sefydlog	Cyflog	355	341	281	270
	Buddiannau ¹	1	1	1	1
	Arall ²	8	5	8	–
	Pensiwn a chroniad pensiwn	34 ³	445 ⁴	27 ⁵	26 ⁵
	Cyfanswm y Tâl Sefydlog	398	792	317	297
Tâl Amrywiadwy	Tâl amrywiadwy blynyddol – AVP	91	–	72	–
	Cymhelliad hirdymor – LTVPS	–	–	–	–
	Cyfanswm y Tâl Amrywiadwy	91	–	72	–
Cyfanswm Cydnabyddiaeth Ffigur Sengl		489	792	389	297
Llai Croniad Pensiwn Buddiannau Diffiniedig		–	(412)	–	–
Cyfanswm Cydnabyddiaeth Ffigur Sengl heb gynnwys Croniad Buddiannau Diffiniedig		489	380	389	297

¹ Buddiannau trethadwy sy'n ymwneud ag yswiriant iechyd preifat.

² Ar gyfer y ddau Gyfarwyddwr Gweithredol mae hyn yn cynrychioli lwfans car o £8,500. Ar gyfer Peter Perry, mae hyn yn cynrychioli lwfans car o £5,000 yn ystod BA 23.

³ Mae'r cyfanswm o £34k yn cynnwys cronriad pensiwn Buddiannau Diffiniedig gwerth £0 (gweler isod) a thaliadau cynllun arian parod yn lle pensiwn gwerth £34k, sy'n cyfateb i 11% o'r cyflog llai cyfraniad YG y cyflogwr. Crisialodd Peter Perry ei fuddiannau pensiwn yn weithredol o 1 Awst 2023, ac felly ni choiff unrhyw groniadau pensiwn Buddiannau Diffiniedig eraill eu cydnabod ar gyfer Peter Perry o'r dyddiad hwn.

⁴ Yn ystod BA 23, roedd cyfanswm pensiwn Peter Perry, sef £445k, yn cynnwys cronriad pensiwn Buddiannau Diffiniedig gwerth £412k a thaliadau cynllun arian parod yn lle pensiwn gwerth £32k sy'n cyfateb i 11% o'r cyflog llai cyfraniad YG y cyflogwr.

Ni thalwyd y swm o £412k yn y flwyddyn ac mae'n ymwneud â darpariaeth pensiwn yn y dyfodol yn unol â rheolau a deddfwriaeth cynlluniau pensiwn. Mae'r ffigur yn seiliedig ar ddull rhagnodedig CThEF o brisio'r pensiwn Buddiannau Diffiniedig o gronnwyd yn y flwyddyn o ganlyniad i'r cynnydd yn y Cyflog Pensiynadwy Terfynol.

Mae'r cyflwyniad uchod yn cynnwys Cyfanswm Cydnabyddiaeth Ffigurau Sengl sy'n cynnwys ac yn hepgor cronriad pensiwn buddiannau diffiniedig yn y flwyddyn, er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall yr adroddiad hwn ac adlewyrchu natur gynhenid wahanol buddiannau ar ôl ymddeol ac elfennau eraill o gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol.

⁵ Mae hyn yn cynrychioli taliadau cynllun arian parod yn lle pensiwn, sy'n cyfateb i 11% o'r cyflog llai cyfraniad YG y cyflogwr.

Pensiynau (Archwiliedig)

Mae buddiannau pensiwn ar gyfer yr holl gyflogeion a fu'n rhan o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru, sef cynllun buddiannau diffiniedig, yn parhau i gynyddu'n unol â'r codiadau yn eu cyflog pensiynadwy. Mae'r cynnydd hwn hefyd yn y Cynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr y mae Peter Perry yn rhan ohono. Crisialodd Peter Perry ei fuddiannau pensiwn yn weithredol o 1 Awst 2023. Dangosir isod y pensiwn a gronnwyd gan Peter Perry yn ystod y cyfnod rhwng 31 Mawrth 2023 a 1 Awst 2023 (pan roddodd y gorau i Gronni).

	Oedran ymdeol arferol	Pensiwn blynyddol a gronnwyd ar 31 Mawrth 2023	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2023	Gwerth cyfalafedig wedi'i ailbrisio y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2023	Pensiwn blynyddol a gronnwyd ar 1 Awst 2023	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 1 Awst 2023	Cyfraniadau a dalwyd gan yr aelod yn ystod y flwyddyn 2024	Swm Mewnbyn Pensiwn (llai cyfraniadau'r aelod 2024)
Peter Perry	60	£224,935	£4,498,695	£4,953,063	£230,570	£4,611,404	–	–

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

5 Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth – parhad

Tâl amrywiadwy blynyddol (AVPS) – canlyniad ar gyfer BA 24

Dengys y tabl isod berfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer AVP ar gyfer BA 24. Os nad yw canlyniad terfynol targed penodol ar gael fel ar ddyddiad yr adroddiad hwn, mae'r dyfarniad a nodir yn seiliedig ar amcangyfrif gorau presennol. Felly, gall y gwerthoedd hyn newid.

Gall Peter Perry a Mike Davis ennill hyd at 100% o'r cyflog mewn unrhyw flwyddyn benodol. Dangosir isod y perfformiad a gyflawnwyd yn ystod BA 24, o dan bob metrig yn erbyn yr amrediadau targed a bennwyd:

						Perfformiad a gyflawnwyd BA 24
Elfen	Pwysoliad	Metrig	Perfformiad trothwy	Perfformiad targed	Uchafswm perfformiad	
Gwasanaeth cwsmeriaid	30%	C-MeX (Safle)	6ed	3ydd	1af	5ed
		D-MeX (Safle)	12ed	9ed	6ed	11ed
		B-MeX (Sgôr allan o 5)	4.3	4.4	4.5	4.3
Cyfanswm % o'r Cyflog ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid			3	18	30	7.06
Perfformiad gweithredol	50%	Dŵr:				
		Ansawdd dŵr tap (Sgôr CRI)	5.45	4.50	2.0	7.74
		Toriadau yn y cyflenwad (mm:ss)	16:12	08:48	08:00	23:16
		Gollyngiad (l/d)	239.3	225.3	218.3	261.61
		Derbynioldeb Dŵr (cysylltiadau/1000)	2.35	2.02	1.75	2.48
		Dŵr gwastraff:				
		Cydymffurfiaeth Gweithfeydd Trin Dŵr a Dŵr Gwastraff (%)	98.32	99.16	100	97.34
		Digwyddiadau yn ymwneud â llygredd (Digwyddiadau)	91	81	71	108
		Carthffosydd mewnol yn gorlifo (Digwyddiadau)	217	210	203	201
Cyfanswm % o'r Cyflog ar gyfer Perfformiad Gweithredol			5	30	50	6.25
Nodau Strategol	20%	Paratoi ar gyfer PR24	Cyflawnwyd	Rhagorwyd	Heb gyflawni	Heb gyflawni
		Km o afonydd a wellwyd	170	294	418	345
		Perfformiad Statws Credyd	Disgyn un 'notch'	Rhagolwg negyddol	Statws Presennol	Rhagolwg negyddol
		% yr uwch-reolwyr benywaidd	26	29	32	24
Cyfanswm % o'r Cyflog ar gyfer Nodau Strategol			2	12	20	12.46
Cyfanswm % o'r Dyfarnad a Gyflawnwyd						25.77

Y perfformiad cyffredinol a gyflawnwyd ar gyfer BA 24 yn AVP y Cyfarwyddwyr Gweithredol oedd 25.77%. Arweiniodd y lefel hon o berfformiad at gyfanswm dyfarnaliadau i Gyfarwyddwyr Gweithredol fel a ganlyn:

Peter Perry: £91,364.62 (25.77% o'i gyflog) a dalwyd ym mis Gorffennaf 2024.

Mike Davis: £72,412.75 (25.77% o'i gyflog) a dalwyd ym mis Gorffennaf 2024.

Rhagor o wybodaeth am y broses o bennu targedau

Mae tâl amrywiadwy yn rhan bwysig o'r pecyn cydnabyddiaeth yn Dŵr Cymru. O safbwynt athronyddol, y cysyniad o dâl amrywiadwy yw bod disgwyl i gyfarwyddwyr gweithredol gael siawns rhesymol o gael tâl trothwy o leiaf, gan nodi ein safle meincnod perthynol o ran cyflogau.

Caiff yr amrediadau a nodir ar gyfer pob metrig o dan yr AVP eu pennu yn unigol gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, gan ystyried amrywiaeth o ffactorau. Isod nodir yr egwyddorion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried mewn perthynas â phob un o feysydd yr AVP.

Metrigau Gwasanaeth Cwsmeriaid

Pennir pob metrig gwasanaeth cwsmeriaid drwy gyfeirio at berfformiad hanesyddol. Roedd perfformiad trothwy yn ystod BA 24 yn seiliedig ar sgoriau'r flwyddyn flaenorol gyda pherfformiad targed ac ymestynnol yn gwella ar flynyddoedd blaenorol.

Nodau Gweithredol

Mewn perthynas â Nodau Gweithredol (h.y. y rhai sy'n cysylltu'n uniongyrchol â Phenderfyniad Terfynol AMP 7), roedd y ffactorau a ystyriwyd yn cynnwys y canlynol ymhlith eraill:

1. Perfformiad y flwyddyn flaenorol – yn ystod BA 24 nid oedd unrhyw drothwyon yn is na pherfformiad sylfaenol BA 23.
2. Cynlluniau mewnol – a fyddai fel arfer yn dylanwadu ar y lefel darged o berfformiad.
3. Penderfyniad Terfynol Ofwat – yn ystod BA 24 roedd y targedau ymestynnol yn cyd-fynd â'r Penderfyniad Terfynol.

Nodau Strategol

Pennir Nodau Strategol bob blwyddyn i gyd-fynd ag amrywiaeth o flaenoriaethau sefydliadol craidd eraill. Ar gyfer pob metrig, bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn adolygu'r perfformiad trothwy, targed ac ymestynnol gofynnol, er mwyn ystyried bod y lefelau perfformiad hyn yn cynnig her sy'n gymesur â'r dyfardal posibl sydd ar gael.

Tâl amrywiadwy hirdymor (LTVPS) – y canlyniad ar gyfer BA 24

O dan LTVPS ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2025, asesir perfformiad bob blwyddyn yn erbyn nodau interim. Gwneir taliadau interim hyd at 60% o'r uchafswm ar gyfer pob un o'r ddwy elfen: perfformiad Totex; canlyniadau ODI cyffredinol ar gyfer mesurau datblygu perfformiad. Asesir perfformiad cyffredinol dros gyfnod pum mlynedd yr AMP. Gallai hyn arwain at dalu neu adennill unrhyw symiau a dandalwyd neu a ordalwyd yn y flwyddyn olaf.

Ar gyfer BA 24, mae'r perfformiad a gyflawnwyd ar gyfer pob targed i'w weld isod. Roedd y perfformiad cyffredinol a gyflawnwyd yn is na'r lefelau trothwy ar gyfer y ddwy elfen ac felly nid oes unrhyw symiau'n daladwy i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn perthynas â BA 24.

Elfen	Pwysoliad	Lefel drothwy perfformiad (cyflawniad o 10%)	Lefel darged perfformiad (cyflawniad o 60%)	Uchafswm lefel perfformiad (cyflawniad o 100%)	Perfformiad a gyflawnwyd	Canran yr elfen a enillwyd
Perfformiad Totex	50%	£643m	£614m	£599m	£683m	–
Canlyniadau ODI cyffredinol ar gyfer mesurau datblygu perfformiad	50%	£(3.4)m	£(2.0)m	£2.6m	£(6)m	–
Cyfanswm (fel canran o'r dyfardal uchaf)						–

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

5 Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth – parhad

Nodir manylion y perfformiad a gyflawnwyd ar gyfer pob un o'r mesurau datblygu perfformiad a gyfrannodd at yr asesiad LTVPS cyffredinol ar gyfer BA 24 isod:

		Lefel drothwy perfformiad (cyflawniad o 5%) (cyflawniad o 3%)	Lefel darged perfformiad (cyflawniad o 30%) (cyflawniad o 18%)	Uchafswm lefel perfformiad (cyflawniad o 50%) (cyflawniad o 30%)	Perfformiad a gyflawnwyd	Cymhelliad Cyflawni Canlyniadau (ODI) £m
Mesur	Unedau CEO CFO					
Mesurau gwasanaeth parhaus						
Derbynioldeb dŵr yfed	Cysylltiadau fesul 1,000 o'r boblogaeth	2.56	2.48	1.75	2.48	(1.8)
Prif bibellau dŵr yn torri	# fesul 1,000km o brif bibellau	130.80	130.5	133.1	146.2	(1.3)
Gosod pibellau cyflenwi newydd yn lle rhai plwm	Nifer	5,600	5,600	5,600	2,981	-
Gollyngiadau dŵr	%	8.8	11.7	11.7	(15.9)	(5.6)
Carthffosydd yn dymchwel	# fesul 1,000km o garthffosydd	7.2	7.2	7.2	5.96	-
Addysg gymunedol	Unigolion	73,000	74,000	74,000	87,685	0.00
Ymwelwyr â chyfleusterau hamdden	Unigolion	720,000	775,000	775,000	1,034,101	0.3
Defnydd y pen	%	2.1	3.4	4.0	(3.4)	(1.6)
Mesurau'r rhaglen fuddsoddi						
Km o afonydd a wellwyd	Km	25	25	160	345	4.3
Dŵr wyneb a dynnwyd o garthffosydd	Sy'n cyfateb i doeon	862,150	862,150	862,150	-	(0.3)
Systemau storio gorlif corthffosydd cyfun	m3	13,500	13,500	13,500	-	-
Cyflawni ein rhaglen gwella cronfeydd dŵr	Safleoedd	17	17	17	21	-
Cyflawni'r rhaglen o astudiaethau parthol	Parthau	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	-
Caffaeliad uniongyrchol ar gyfer cwsmeriaid: cynllun strategaeth cyflenwi dŵr Cwm Taf (tanberfformio)	Dyddiad:	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	-
Caffaeliad uniongyrchol ar gyfer cwsmeriaid: cynllun strategaeth cyflenwi dŵr Cwm Taf (gorberfformio)	Dyddiad:	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	-
Adeiladu canolfan ymwelwyr newydd	Cyflawnwyd	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Cyflawnwyd	-
Cyflawni cynllun cydnorthedd dŵr Grid De Cymru y Cwmni	% wedi'i gwblhau	95	95	95	19	-
Cyfanswm		(3.4)	(2.0)	2.6	N/A	(6.0)

Mae'r mesurau yn y tabl uchod gyda "Dd/G" ar gyfer perfformiad yn y flwyddyn yn adlewyrchu ymrwymadau i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhaglenni cyfalaf ar amser, lle nad oedd unrhyw allbynnau wedi'u trefnu ar gyfer BA 24.

Ffioedd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol (Archwiliedig)

Cyfarwyddwyr Anweithredol	Cyfanswm y ffioedd £'000	
	BA 24	BA 23
Alastair Lyons	237	228
Graham Edwards ¹	23	75
Joanne Kenrick ¹	78	63
Debra Bowen Rees	66	63
Tom Crick	66	63
Jane Hanson	73	63
Lila Thompson ²	63	35
Barbara Moorhouse ³	71	13

¹ Roedd Graham Edwards yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol tan iddo adael y Bwrdd ar 7 Gorffennaf 2023, pan ddaeth Joanne Kenrick yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol. Mae'r ffioedd a ddangosir yn adlewyrchu hyn.

² Ymunodd Lila Thompson â'r Bwrdd ar 6 Medi 2022. Talwyd £64,000 iddi yn FY 24, a oedd yn cynnwys tandaliad o £1,000 mewn perthynas â BL 23.

³ Ymunodd Barbara Moorhouse â'r Bwrdd ar 16 Ionawr 2023.

Ni chafodd yr un Cyfarwyddwr Anweithredol unrhyw fuddiannau na chydabyddiaeth ychwanegol uwchlaw ei ffioedd sylfaenol. Fodd bynnag, mae hawl ganddynt i gael ad-daliad am unrhyw dreuliau teithio a llety yr eir iddynt fel rhan o'u dyletswyddau, yn unol â pholisïau arferol y Grŵp.

Ni wnaed unrhyw daliadau yn FY 24 i gyn-gyfarwyddwyr, yn cynnwys unrhyw daliadau am golli swydd.

Adran 5: Penderfyniadau ynghylch tâl ar gyfer BA 25

Tâl Cyfarwyddwyr Gweithredol

£	Cyflog sylfaenol BA 25	Cyflog sylfaenol BA 24
Peter Perry	£369,430	£354,539
Mike Davis	£292,798	£280,996

Cyflog sylfaenol

Wrth adolygu cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol, ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd a gynigiwyd am berfformiad unigol, y busnes a'r gweithlu ehangach yn ystod BA 24. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn argymhelliad y Cyfarwyddwyr Gweithredol y byddai'n briodol dyfarnu'r un cynnydd â'r gweithlu ehangach i aelodau Tîm Gweithredol Dŵr Cymru. Roedd gan y gweithlu ehangach gytundeb ar waith i ddyfarnu cynnydd yn unol â CPIH ym mis Rhagfyr 2023. Felly, dyfarnwyd cynnydd o 4.2.% i aelodau'r Tîm Gweithredol hefyd. Roedd pob cynnydd yn weithredol o fis Ebrill 2024.

Buddiannau a phensiwn

Ni fydd trefniadau buddiannau na phensiwn yn newid ar gyfer BA 25, heblaw am y ffaith y bydd lwfans car y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cynyddu yn weithredol o 1 Ebrill 2024. Adolygodd y Pwyllgor lwfans car y Cyfarwyddwyr Gweithredol ym mis Mawrth 2023 a chanfu ei fod gryn dipyn yn is na chyfradd y farchnad. Felly, cynyddwyd y lwfans hwn mewn dau gam, yn weithredol o 1 Ebrill 2023 ac unwaith eto ym mis Ebrill 2024, gan gynyddu'r lwfans car i £12,000 y flwyddyn.

Mae gan bob cyflogai, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol, hawl i uchafswm cyfraniad pensiwn o 11% o'i gyflog. Mae cyflogaion cymwys yn cael cyfle i ymeithrio a chael lwfans arian parod sy'n cyfateb i 9.7%. Bydd y buddion yn ystod y flwyddyn yn cynnwys yswiriant iechyd preifat hefyd.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

5 Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth – parhad

Tâl amrywiadwy blynyddol

Ar gyfer BA 25, gellir ennill hyd at 100% o'ch cyflog, yn seiliedig ar berfformiad. Mae'r mesurau perfformiad a ddefnyddir yn yr adran Perfformiad Gweithredol wedi'u cysoni â'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ymrwymiad Gwasanaeth a gyflwynwyd i Ofwat. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi adolygu pwysoliadau pob metrig yng ngoleuni blaenoriaethau mewnol a disgwyliadau rheoleiddiol y Cwmni. O ganlyniad, mae wedi dyrannu 35% o'r cyfanswm AVP posibl yn uniongyrchol i berfformiad o dan fesurau amgylcheddol (digwyddiadau'n ymwneud â llygredd, cydymffurfiaeth o ran dŵr gwastraff, gollyngiadau dŵr a chilomedrau o afonydd a wellwyd), gydag 20% o'r ffigur hwn yn seiliedig ar ddigwyddiadau'n ymwneud â llygredd.

Ceir dadansoddiad manylach o'r mesurau a'u pwysoliadau ar gyfer BA 25 isod.

	Gwasanaeth Cwsmeriaid	Perfformiad Gweithredol	Nodau Strategol
Mesurau (mae'r canrannau yn gyfran o'r cyfanswm o dan y maes hwnnw)	- C-MeX (18.8%)* - B-MeX (5.6%)* - D-MeX (5.6%)* * Mesurau Ofwat o wasanaeth cwsmeriaid ar gyfer boddhad cwsmeriaid domestig, cwsmeriaid busnes a chwsmeriaid sy'n ddatblygwyr, yn y drefn honno.	- Cydymffurfiaeth ag ansawdd dŵr (5%) - Toriadau mewn cyflenwad (5%) - Perfformiad gollyngiadau dŵr (5%) - Atgyweirio prif bibellau (5%) - Cydymffurfiaeth gweithfeydd trin (5%) - Digwyddiadau llygredd categori 1 a 2 (10%) - Digwyddiadau llygredd categori 3 (10%) - Y defnydd o ddŵr y pen (5%)	- Cwblhau PR24 a pharodrwydd ar gyfer AMP8 (5%) - Cynaliadwyedd (Km o afonydd a wellwyd) (5%) - Perfformiad statws credyd (5%) - Gwella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar lefel uwch-reolwyr (5%)
Faint o'r cynllun?	30%	50%	20%

Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor

Bydd LTVPS yn parhau i gael ei fesur o dan gynllun pum mlynedd 2020-25 a bydd yn seiliedig ar y canlynol:

- Totex (cyfanswm y gwariant – costau gweithredu a buddsoddiadau): (50%)
- Gwobrau/cosbau yn erbyn mesurau datblygu perfformiad: (50%)

Ffioedd Cadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol

Cafodd y ffioedd sy'n daladwy i Gadeirydd y Bwrdd eu hadolygu ym mis Mawrth 2024 a phenderfynodd y Pwyllgor (yn absenoldeb Cadeirydd y Bwrdd) y dylai ffi Cadeirydd y Bwrdd gael ei chynyddu 4.2% yn unol â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Ym mis Mawrth 2024, adolygodd Cadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ffioedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol a phenderfynu y dylid cadw'r ffi sylfaenol ar £63,376, gyda'r ffi am gadeirio pwyllgorau'r bwrdd yn cynyddu £2,500 fesul pwyllgor. Mae hyn yn golygu bod ein strwythur ffioedd ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi'u cysoni fel bod y ffioedd ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau (a gyflwynwyd y llynedd am y tro cyntaf) yn cyd-fynd â chyfraddau'r farchnad.

Bydd y ffioedd ar gyfer BA 25 fel a ganlyn (rhoddir pob ffigur mewn £):

Rôl	Ffi BA 25	Ffi BA 24
Cadeirydd y Bwrdd	247,282	237,315
Ffi sylfaenol Cyfarwyddwyr Anweithredol	63,376	63,376
Ffioedd am gyfrifoldebau Bwrdd ychwanegol (a ychwanegir at ffi sylfaenol Cyfarwyddwyr Anweithredol)		
Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol	10,000	10,000
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio	12,500	10,000
Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch	12,500	10,000
Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth	10,000	7,500
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu	5,000	2,500
Cadeirydd y Pwyllgor Technoleg	5,000	2,500

Adran 6: Gwybodaeth bwysig arall

Tâl gweithlu DŴR Cymru

Cymhareb tâl y Prif Swyddog Gweithredol

Dyma'r bumed flwyddyn rydym wedi cymhwyso'r gofynion ar Adrodd Cymhareb Tâl y Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer cwmnïau rhestredig sy'n cymharu tâl y Prif Swyddog Gweithredol â chyflogeion yn yr 25ain ganradd, y ganradd gymedrig a'r 75ain ganradd. Er mwyn cyfrifo'r gymhareb, rydym wedi cymhwyso Methodoleg A o ganllawiau Llywodraeth y DU, sef y dull mwyaf cywir a chadarn, ym marn y Pwyllgor.

Blwyddyn	Methodoleg	Cymhareb tâl y 25ain ganradd	Cymhareb tâl canolrifol	Cymhareb tâl y 75ain ganradd
BA 24	A	14:1	11:1	8:1
BA 23*	A	11:1	8:1	7:1
BA 22	A	19:1	15:1	12:1
BA 21	A	28:1	23:1	18:1
BA 20	A	22:1	18:1	14:1

Mae cymhareb ganolrifol y flwyddyn hon yn uwch na'r flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith na chafodd y Prif Swyddog Gweithredol unrhyw dâl amrywiadwy ar gyfer BA 23. Mae ffactorau eraill yn cynnwys y codiad cyflog o 4% a ddyfarnwyd i'r Prif Gyfarwyddwr Gweithredol, a oedd 2.2% yn llai na'r cynnydd a ddyfarnwyd i gyflogeion ym mis Ebrill 2022. Cafodd hyn ei wrthbwyso ychydig gan gynnydd yn lwfans car y Prif Swyddog Gweithredol.

*Pe bai'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cael y tâl amrywiadwy yn unol â'r canlyniad fformiwläig a nodir ar dudalen 144, Cymhareb Tâl y Prif Swyddog Gweithredol fyddai:

Blwyddyn	Methodoleg	Cymhareb tâl y 25ain ganradd	Cymhareb tâl canolrifol	Cymhareb tâl y 75ain ganradd
BA 23	A	16:1	12:1	10:1

Pennwyd cyflogeion y 25ain ganradd, y ganradd gymedrig a'r 75ain ganradd gan ddefnyddio cyfanswm y tâl ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 ar gyfer yr holl gyflogeion ar 31 Mawrth 2024. Nodir manylion tâl yr unigolion ar sail gyfwerth og amser llawn isod:

BA 24	Tâl y 25ain ganradd	Tâl canolrifol	Tâl y 75ain ganradd
Cyfanswm y tâl	35,030	46,227	59,170
Cyflog	28,105	28,540	47,251

Nodiadau ar fethodoleg

- Mae'r cymarebau tâl yn adlewyrchu ein hegwyddorion cydnabyddiaeth a'n Polisi Cydnabyddiaeth cymeradwy. Ystyrir bod cyfanswm y gydnabyddiaeth yn deg ac yn gystadleuol a'i fod yn adlewyrchu amodau economaidd ehangach, gan ein galluogi i ddenu a chadw sgiliau a thalent.
- Cafodd yr elfennau sy'n ymwneud â thâl amrywiadwy eu hamcangyfrif ar gyfer y gweithlu ehangach, gan na fydd taliadau unigol yn derfynol tan fis Gorffennaf 2024.
- Mae cyflogau cyflogeion newydd a thaliadau amrywiadwy blyneddol wedi'u newid er mwyn adlewyrchu'r hyn sy'n gyfwerth â chyflogau amser llawn.
- Mae cyflogau rhan amser a thaliadau amrywiadwy blyneddol, gan gynnwys taliadau costau byw, wedi'u newid er mwyn adlewyrchu'r hyn sy'n gyfwerth â chyflogau amser llawn.
- Nid yw croniad Pensiwn Buddiannau Diffiniedig wedi'i gynnwys ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol na'r gweithlu ehangach. Mae hyn i'w briodoli i'r amrywiad sylweddol yng nghroniad y Prif Swyddog Gweithredol sy'n effeithio ar y gymhareb ac nid yw'n gynrychioliadol at ddibenion cymharu cydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn rhwng y Prif Swyddog Gweithredol a'n cyflogeion. Nid yw'r ffigurau ar gyfer croniad buddiannau diffiniedig ar gyfer y gweithlu ehangach wedi'u cynnwys ychwaith gan nad ydynt ar gael.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL

PARHAD

5 Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth – parhad

Bwlch cyflog rhywedd

Diffinnir y Bwlch Cyflog Rhywedd fel y bwlch cyffredinol rhwng tâl a thaliadau bonws wrth edrych ar gymedr a chanolrif pob rhyw (a gyfrifir gan ddefnyddio cyfraddau tâl yr awr ar y dyddiad ciplun, sef 5 Ebrill 2023 a'r taliadau bonws a dalwyd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2023), ni waeth beth fo'r rôl na'r lefel awdurdod. Mae'n galonogol bod ein bwlch cyflog rhywedd yn dal i fod yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae ein Hadroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhywedd (gweler y ddolen isod) yn nodi'r mentrau allweddol rydym yn eu cynnal er mwyn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yn Dŵr Cymru.

Rydym yn parhau i hyrwyddo dyrchafiad menywod drwy'r Cwmni – am ragor o fanylion am rai o'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd i gefnogi amrywiaeth o ran rhywedd a mathau eraill o amrywiaeth drwy ein sefydliad cyfan, gweler tudalen 88 yn ein hadran Cynnydd o ran Cynaliadwyedd a'r astudiaeth achos ar gydraddoldeb i bawb ar dudalen 10.

Diffiniadau

Bwlch cyflog canolrifol – Y gwahaniaeth rhwng y canolbwyntiau yn amrediadau tâl dynion a menywod.

Bwlch cyflog cymedrig – Y gwahaniaeth rhwng tâl cymedrig dynion a thâl cymedrig menywod.

Roedd y bwlch cyflog canolrifol wedi cynyddu o 3.6% yn 2022 i 4.8% yn 2023, ac roedd y bwlch cymedrig wedi gostwng o 6.0% yn 2022 i 5.6% yn 2023.

Ar gyfer ein Huwch-reolwyr, ein bwlch canolrifol oedd 2.1% a'n bwlch canolrifol oedd 7.0% yn 2023.

O safbwynt taliadau bonws, mae'r mwyafrif o'n cyflogeion yn cael swm sefydlog y taliad Gwobrwy Cydweithwyr ac yn ystod y flwyddyn gasglu, roeddent hefyd wedi cael taliad costau byw. Mae canolbwynt pob rhywedd yn cwmpo o fewn niferoedd y cydweithwyr sy'n cael y taliad Gwobrwy Cydweithwyr ac am mai taliad sefydlog oedd hwn, nid oes gwahaniaeth canrannol rhwng dynion a menywod wrth gyfrifo ar sail ganolrifol. O ganlyniad, fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid oes bwlch o ran y bonws canolrifol. Mae bwlch o ran y bonws cymedrig yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o ddynion yn y swyddi lefel uchaf yn y Cwmni lle mae'r cyfleoedd i ennill tâl amrywiadwy yn uwch. Ar gyfer y flwyddyn adrodd hon, cynyddodd y bwlch o ran y bonws cymedrig i 11.1%.

Mae ein hadroddiad llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan yn dwrcymru.com/genderreport.

Bwlch cyflog ethnigrwydd

Nid yw'r Bwlch Cyflog Ethnigrwydd yn eitem adrodd statudol eto. Mae'r cyfrifiadau'n dangos y gwahaniaeth yn y gyfradd tâl fesul awr rhwng cyflogeion sy'n nodi eu bod yn wyn a'r rhai sy'n nodi eu bod yn dod o leiafrif ethnig.

Mae 79.8% o'r gweithlu wedi datgan eu statws ethnigrwydd ac rydym wedi defnyddio'r data hyn i gyfrifo Bwlch Cyflog Ethnigrwydd 2023. O'r boblogaeth hon, mae 3.9% o gydweithwyr yn disgrifio eu hunain fel Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig Arall, mae 95.7% o gydweithwyr yn disgrifio eu hunain fel Gwyn Prydeinig neu Wyddelig neu Wyn Arall a nododd 0.4% y byddai'n well ganddynt beidio â dweud.

Yn seiliedig ar y data hyn, y canlyniadau yw:

Bwlch Cyflog Ethnigrwydd Cymedrig 5.68%

Bwlch Cyflog Ethnigrwydd Canolrifol 3.47%

Newid blynyddol mewn tâl i Gyfarwyddwyr y Bwrdd a phob cyflogai

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r newid i'r gydnabyddiaeth a dalwyd i Gyfarwyddwyr y Bwrdd ar gyfer y pedair blwyddyn ariannol ddiwethaf o gymharu â'r newid canrannol cyfartalog i gyflogeion Dŵr Cymru:

	Newid canrannol BA 24 o gymharu â BA 23			Newid canrannol BA 23 o gymharu â BA 22			Newid canrannol BA 22 o gymharu â BA 21			Newid canrannol BA 21 o gymharu â BA 20		
	Cyflog/ Ffioedd	Buddiannau Trethadwy	Tâl Bonws Blynyddol	Cyflog/ Ffioedd	Buddiannau Trethadwy	Tâl Bonws Blynyddol	Cyflog/ Ffioedd	Buddiannau Trethadwy	Tâl Bonws Blynyddol	Cyflog/ Ffioedd	Buddiannau Trethadwy	Tâl Bonws Blynyddol
Cyfarwyddwyr Gweithredol												
Peter Perry	4.0	-	100	2.8	-	(100)	2.0	(5.1)	(19.7)	2.0	(2.3)	(6.3)
Mike Davis	4.0	-	100	2.8	(70.5)	(100)	2.0	(5.1)	(19.7)	2.0	22	51.7
Cyfarwyddwyr Anweithredol												
Alastair Lyons	4.0	-	-	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Graham Edwards	(69.4)	-	-	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Joanne Kenrick	23.4	-	-	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Jane Hanson	15.8	-	-	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Debra Bowen Rees	3.9	-	-	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Tom Crick	3.9	-	-	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Lila Thompson	74.8	-	-	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
Barbara Moorhouse	420.7	-	-	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
John Warren	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	-	-	-	-	-	-
Pob Cyflogai												
Cyflogai Dŵr Cymru Cyffredin	9.5	-	-	7.9	-	1.5	4.5	-	1.0	4.5	-	4.1

Sut mae tâl y Prif Weithredwr yn cymharu â blynyddoedd blaenorol?

	BA 15	BA 16	BA 17	BA 18	BA 19	BA 20	BA 21	BA 22	BA 23	BA 24
Cyfanswm cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr (£'000)	974	746	629	679	607	685	892	675	792	489
Cyfanswm cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol llai croniad pensiwn (£'000)	690	604	629	601	624	678	555	602	380	489
Canlyniad tâl amrywiadwy blynyddol (%)	79	70	75	65	67	60	50.0	40	dim	26
Canlyniad cynllun hirdymor (%)	91	65	65	27	25	19	23.1	30 ¹	dim	dim

¹ Gan fod hwn yn daliad interim o ran y perfformiad a gyflawnwyd yn ystod cyfnod yr AMP, rhoddir cap o 30% ar y swm a dalwyd.

Sut mae cyfanswm y gwariant ar gyflog y Cyfarwyddwyr Gweithredol a chyfanswm tâl staff yn cymharu â gwariant arall?

£m ac eithrio canrannau	BA 23	BA 24	Newid	
			£m	%
Cyfanswm y gwariant [sut caiff ei ddiffinio?]	826.4	876.4	50.0	6.1
Costau cydnabyddiaeth cyflogeion	167.4	176.8	9.4	5.6
Dychwelyd gwerth i gwsmeriaid	12.0	14.0	2.0	16.7
Costau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol	1.1	0.9	(0.2)	(18.0)

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth – parhad

Contractau gwasanaeth a llythyrau penodi Cyfarwyddwyr y Bwrdd

Mae dyddiadau contractau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd yn eu swydd ar 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

Alastair Lyons
1 Mai 2016

Joanne Kenrick
1 Tachwedd 2015

Tom Crick
1 Hydref 2017

Debra Bowen Rees
1 Ionawr 2020

Jane Hanson
1 Ionawr 2021

Peter Perry
1 Ebrill 2020

Lila Thompson
6 Medi 2022

Mike Davis
1 Ionawr 2020

Barbara Moorhouse
16 Ionawr 2023

Dylai Aelodau sydd am weld y contractau gwasanaeth a'r llythyrau penodi uchod ofyn i Ysgrifennydd y Cwmni amdanynt drwy anfon e-bost i company.secretary@dwrcymru.com

Crynodeb o bleidleisiau'r Aelodau ar y Polisi Cydnabyddiaeth a'r Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth

Cymeradwyodd yr Aelodau y Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer AMP7 yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020, a'r tro diwethaf iddynt gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth oedd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023 ac roedd y pleidleisiau fel a ganlyn:

	Pleidlois o blaid
Aelodau (a fu'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy) a bleidleisiodd o blaid yr Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023	97%
Aelodau (a fu'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy) a gymeradwyodd Bolisi Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr ar gyfer 2020-2025 - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023	97%



ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad ynghyd â Datganiadau Ariannol archwiledig y Grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.

Mae'r adolygiad o berfformiad y Grŵp yn yr Adroddiad Strategol ar dudalennau 14 i 91. Mae hwn, ynghyd ag adrannau cyntaf yr adroddiad, yn rhoi gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth tymor hwy, gweithrediad ei fusnesau, datblygiadau yn y dyfodol a'r canlyniadau a'r sefyllfa ariannol ar gyfer BA 24. Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a amlinellir ar dudalennau 92 i 153 wedi'i ymgorffori drwy gyfeirio at yr adroddiad hwn ac yn unol â hynny, dylai gael ei ddarllen fel rhan o'r adroddiad hwn.

Nodir manylion proses y Grŵp ar gyfer mynd i'r afael â'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir gan y Grŵp yn yr adran ar Reoli Risg ar dudalennau 56 i 66.

Perfformiad ariannol

Mae'r Grŵp mewn sefyllfa ariannol gadarn ar 31 Mawrth 2024. Mae gerio yn parhau'n unol ag amrediad targed y Bwrdd ar 60%, ac rydym wedi cadw ein statws credyd cadarn. Darllenwch fwy yn Adolygiad y Prif Swyddog Cyllid ar dudalennau 24 i 29.

Polisi difidendau

Cwmni cyfyngedig drwy warant yw Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Ni thelir unrhyw ddifidendau y tu allan i'r Grŵp. Mae ein model nid er cyfranddalwyr yn golygu y caiff gwerth a grëir yn y busnes ei ddefnyddio er budd cwsmeriaid er mwyn cefnogi tariffau cymdeithasol a chynyddu'r buddsoddiad mewn asedau er mwyn darparu ein gwasanaethau hanfodol.

Dŵr Cymru Cyfyngedig – Busnes Penodedig

Ym mis Mawrth 2016, cymeradwyodd Bwrdd Glas bolisi difidendau fel bod modd i hyd at £100m gael ei ddosbarthu o fewn y Grŵp, ond y tu allan i'r hyn a neilltuir at ddibenion rheoleiddio, er mwyn helpu i ariannu prosiectau masnachol.

Yn unol â'r Polisi hwn, talwyd difidendau o fewn y Grŵp gwerth £30.2 miliwn yn 2016-2017. Ni thalwyd unrhyw ddifidendau o fewn y Grŵp ers hynny ac ni ddisgwylir i unrhyw ddifidendau o'r fath gael eu talu yn y dyfodol agos.

Os bydd y Bwrdd yn ystyried difidendau o'r fath yn y dyfodol, mae wedi cadarnhau y bydd yn ystyried i ba raddau y mae'r cwmni penodedig yn cyflawni ei ymrwymadau perfformiad i ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid a rhwymedigaethau rheoleiddiol eraill, a'i ymrwymadau eraill yn PR19 mewn perthynas â materion i'w hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad i dalu difidend. Cafodd Polisi Difidendau wedi'i ddiweddarau ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2022 a gan Ofwat ym mis Ebrill 2022. Gweler dwcymru.com/dividendpolicy

Offerynnau ariannol

Ymdrinnir â rheoli risgiau ariannol a gwybodaeth am offerynnau ariannol yn Nodiadau 1, 15 ac 16 i'r Datganiadau Ariannol ar dudalen 157.

Ymchwil a datblygu

Gyda chymorth ein cwsmeriaid, rheoleiddwyr a llywodraethau fel ei gilydd i wella gwasanaethau a lleihau ein hól troed carbon a'n hól troed amgylcheddol, rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd gwell o weithio a datblygiadau ym maes technoleg. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r agenda a nodir yn ein Strategaeth Arloesi, sy'n cysylltu â mwy na 100 o sefydliadau academaidd a sefydliadau eraill, arbenigwyr ym maes technoleg a chwmnïau arloesi bydeang. Am fanylion ein buddsoddiad mewn prosiectau technegol ac arloesol a'n hymchwili iddynt gweler tudalen 77 o'n Hadroddiad Strategol.

Cyfarwyddwyr

Nodir Cyfarwyddwyr y Cwmni a oedd yn eu swydd yn ystod y flwyddyn, a hyd at ddyddiad llofnodi'r Datganiadau Ariannol, ar dudalennau 102 i 105.

Indemniad y Cyfarwyddwyr

Mae gan y Cwmni yswiriant Cyfarwyddwyr a Swyddogion sy'n diogelu rhag camau cyfreithiol a gymerir yn erbyn y Cyfarwyddwyr ac indemniad mewn amgylchiadau lle nad yw Cyfarwyddwr wedi gweithredu'n dwyllodrus nac yn anonest. Mae'r indemniad yn indemniad sy'n gymwys at ddiben y Ddeddf Cwmnïau ac er budd yr holl Gyfarwyddwyr. Ni wnaed unrhyw hawliadau yn erbyn y polisi hwn ers dyddiad yr adroddiad diwethaf.

Cyflogeion

Mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd denu, datblygu a chadw'r bobl gywir. Yn unol ag arferion gorau, rydym wedi rhoi polisiau cyflogaeth ar waith sy'n rhoi cyfle cyfartal i'n holl gyflogeion, ni waeth beth fo'u rhyw, hil, lliw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, credoau crefyddol na'u statws priodol. Ceir gwybodaeth am ddulliau'r Bwrdd o ymgysylltu â'r gweithlu ar dudalennau 52 a 107.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Nodir manylion am sut mae'r Cyfarwyddwyr wedi rhoi sylw i'r angen i feithrin cydberthnasau busnes y Cwmni â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill, ac effaith y sylw hwnnw, gan gynnwys ar y prif benderfyniadau a wnaed gan y Cwmni yn ystod y flwyddyn ariannol yn yr Adroddiad Strategol ar dudalennau 54 i 55.

Llywodraethu corfforaethol

Yn ystod BA 24, rydym wedi cymhwyso'r egwyddorion ac wedi cydymffurfio â darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 a Chanllawiau Ofwat ar Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd, fel y'u diweddarwyd yn 2019, ac fel sy'n ofynnol gan ein hamodau Trwydded. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran ar Lywodraethu ar dudalennau 106 a 107.

Newid yr Erthyglau Cymdeithasu

Oni nodir yn benodol i'r gwrthwyneb yn Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, gellir newid Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni drwy benderfyniad arbennig aelodau'r Cwmni.

Rhoddion gwleidyddol

Mae'n bolisi gan y Bwrdd i beidio â gwneud rhoddion i bleidiau gwleidyddol na mynd i wariant gwleidyddol. Yn ystod BA 24, rhoddwyd £30,000 i Step Change er mwyn cefnogi'r gwaith y mae'r elusen yn ei wneud i roi cyngor ar ddyled i'n cwsmeriaid.

Rydym yn datgelu'r taliad hwn am fod y sefydliad hwn hefyd yn ymgyrchu dros newid polisiau'r Llywodraeth, gan gynnwys ar faterion sy'n ymwneud â dyled. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw ran o'r taliad hwn wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith ymgyrchu'n uniongyrchol. Heblaw am hyn, ni wnaed unrhyw roddion na thaliadau yn ystod BA 23 a BA 24 y mae'n ofynnol eu datgelu o dan adran 366 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

WaterAid

Fel sy'n briodol i Gwmni sydd â strwythur corfforaethol fel ein strwythur ni, nid ydym yn rhoi nawdd corfforaethol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gefnogi WaterAid, sef y corff nid er elw rhyngwladol, sy'n benderfynol o wneud dŵr glân, toiledau gweddus a hylendid da yn gyffredin i bawb, ym mhob man o fewn cenhedlaeth.

Unigolion â rheolaeth sylweddol

Cadwn Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Sylweddol er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (Deddf 2015). Mae'r Cwmni wedi cofrestru endidau cyfreithiol perthnasol penodol y gallir eu cofrestru o fewn strwythur y Grŵp.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Oherwydd ein hymrwymiad i adroddiadau tryloyw ac arferion gorau, rydym wedi cynnwys ein datgeliadau adrodd ynni a charbon syml ar dudalen 48 o'r adroddiad hwn ochr yn ochr â'n hŏl troed blynyddol o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr a chymhareb dwysedd sy'n briodol i'n busnes, sy'n bodloni gofynion Rheoliadau Deddf Cwmnïau 2006 (Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr) 2013.

Archwilydd BA 24

Deloitte LLP oedd Archwilydd Grŵp Glas Cymru (y Grŵp) ar gyfer cyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Fel rhan o'r broses archwilio, gwnaethom gadarnhau, hyd y gŵyr pob Cyfarwyddwr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilwyr yn ymwybodol ohoni, bod y Cyfarwyddwyr wedi cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod yr Archwilydd yn cael unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod Archwilydd y Grŵp yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cadarnhawm y canlynol hyd eithaf ein gwbyodaeth:

- bod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu cymwys, yn rhoi darlun gwir a theg o berfformiad y Grŵp;
- bod yr Adroddiad Strategol yn cynnwys adolygiad teg o berfformiad y busnes, ei risgiau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol;
- bod y Cyfarwyddwyr o'r farn bod yr Adroddiad Blynyddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Wrth ystyried y broses o ddatblygu'r system rheolaethau, mae'r tîm rheoli yn adolygu perthnasedd a'r costau a'r buddiannau cymharol sy'n gysylltiedig â phob risg sylweddol a nodwyd. Cynlluniwyd y systemau rheolaeth fewnol i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn camdatganiadau, colled neu fethiant. Fel rhan o'r broses o adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, cynhelir trafodaethau â rheolwyr ar risgiau sylweddol ac adolygir cynlluniau ar gyfer gwaith archwilio mewnol ac allanol a chanlyniadau gwaith o'r fath.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei adolygiad i'r Bwrdd a ddaw wedyn i'w gasgliad ar y cyd ynglŷn ag effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Bwrdd yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a rheolwyr, ac yn dibynnu ar y gwaith a wneir ganddo fel mater o drefn i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol ac adroddiadau misol ar berfformiad ariannol a gweithredol.

Gyda'i gilydd, mae'r prosesau hyn yn galluogi'r Bwrdd i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol drwy gydol y flwyddyn.

Yn unol ag Adran 489 o Ddeddf Cwmnïau 2006, cyflwynir cynnig y dylid ailbenodi Deloitte LLP yn Archwilydd y Grŵp i'r Aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd ar ddod.

Hawliau dynol

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol mewn perthynas â chydweithwyr a'n cadwyn gyflenwi (gweler tudalen 75 am wybodaeth am ein Polisi Caffael Cynaliadwy, Safonau Cydymffurfio Cadwyni Cyflenwi a Pholisi Gwrthgaethwasiaeth). Ategir ein Cod Ymddygiad mewnol gan nifer o bolisiau'r Grŵp gan gynnwys Gwrthfwlio ac Aflonyddu, Chwythu'r Chwiban, Gwrth-lwgrwobrwyiaeth a Gwrth-dwyll.

Diogelu data a gwybodaeth

Mae Dŵr Cymru yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn trin gwybodaeth bersonol am ein cwsmeriaid a'n cyflogeion mewn ffordd gyfrifol a gonest, gan gynnwys parchu eu hawliau diogelu data yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae ein Datganiad Preifatrwydd i'w weld ar ein gwefan yn corporate. dwr.cymru.com/cy-gb/legal-privacy/privacy-policy

Gwybodaeth arall

Rhoddwyd amcan o ddatblygiadau tebygol yn y busnes yn y dyfodol a manylion digwyddiadau arwyddocaol ers diwedd y flwyddyn ariannol yn Adolygiad y Prif Swyddog Cyllid ar dudalennau 24 i 29.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Glas Cymru ddydd Gwener 5 Gorffennaf 2024.

Busnes gweithredol

Paratowyd y datganiadau ariannol ar gyfer BA 24 ar sail busnes gweithredol. I weld Datganiad Busnes Gweithredol y Cyfarwyddwyr a manylion pam yr ystyrir bod y dybiaeth ei fod yn Fusnes Gweithredol yn briodol (gweler tudalen 171).

Drwy orchymyn y Bwrdd

Nicola Foreman

Ysgrifennydd y Cwmni

6 Mehefin 2024

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

O RAN YR ADRODDIAD BLYNYDDOL A'R DATGANIADAU ARIANNOL

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfraith a rheoliadau cymwys.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU a chyfraith gymwys.

O dan gyfraith cwmni, ni ddylai'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r Datganiadau Ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y Grŵp a'r Rhiant-gwmni ac o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol ac elw neu golled y Grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o Ddatganiadau Ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol, yn berthnasol ac yn ddibynadwy;
- nodi a gafodd y datganiadau eu paratoi yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU;
- asesu gallu'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol;
- defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol onid ydynt naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r Rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y Rhiant-gwmni ac i ddatgelu yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Rhiant-gwmni ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am y fath rheolaeth fewnol ag sydd ei hangen yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, ac mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r grŵp ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi penderfynu paratoi Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn wirfoddol fel pe bai'n ofynnol i'r Cwmni gydymffurfio â Rheolau Rhestru a Chanllawiau Datgelu a Rheolau Tryloywder yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'r materion hynny.

O dan gyfraith a rheoliadau cymwys, mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr sy'n cydymffurfio â'r gyfraith honno a'r rheoliadau hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y cwmni ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Rydym o'r farn bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, yn eu cyfarwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid i asesu sefyllfa a pherfformiad y Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth.

Drwy orchymyn y Bwrdd



Nicola Foreman

Ysgrifennydd y Cwmni

6 Mehefin 2024

DATGANIADAU ARIANNOL

Cynnwys

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	158
Datganiad Cyfunol o Incwm	168
Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr	168
Mantolen Gyfunol	169
Datganiad Cyfunol o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn	170
Mantolen y Rhiant-gwmni	170
Datganiad y Rhiant-gwmni o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn	171
Datganiad Cyfunol o'r Llif Arian Parod	171
Datganiad Llif Arian Parod y Rhiant-gwmni	172
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	173

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU GLAS CYMRU HOLDINGS CYFYNGEDIG

1. Barn

Yn ein barn ni:

- mae datganiadau ariannol Glas Cymru Holdings Cyfyngedig (y 'rhiant-gwmni') a'i is-gwmnïau (y 'Grŵp') yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2024 a cholled y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae datganiadau ariannol y Grŵp wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig;
- mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig ac fel y'u cymhwyswyd yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006;
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol sy'n cynnwys:

- y datganiad incwm cyfunol;
- datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol;
- y fantolen gyfunol a mantolen y rhiant-gwmni;
- y datganiad cyfunol a datganiad y rhiant-gwmni o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn;
- y datganiad llif arian parod cyfunol a datganiad llif arian parod y rhiant-gwmni;
- y nodiadau cysylltiedig 1 i 28 o'r datganiadau ariannol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth iddynt gael eu paratoi yn gyfraith gymwys ac yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig ac, o ran datganiadau ariannol y rhiant-gwmni, fel y'u cymhwyswyd yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006.

2. Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a chyfraith gymwys. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio'n fanylach o dan gyfrifoldebau'r archwilydd am yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol ein hadroddiad.

Rydym yn annibynnol ar y Grŵp a'r rhiant-gwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Datgelir y gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio a ddarparwyd i'r Grŵp a'r rhiant-gwmni ar gyfer y flwyddyn yn nodyn 3 i'r datganiadau ariannol. Rydym yn cadarnhau nad ydym wedi darparu unrhyw wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio a waherddir gan Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol i'r Grŵp nac i'r rhiant-gwmni.

Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennym yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer ein barn.

3. Crynodeb o'n dull archwilio

Materion archwilio allweddol

Roedd y materion archwilio allweddol a nodwyd gennym yn ystod y flwyddyn gyfredol fel a ganlyn:

- Prisio darpariaeth symiau masnach derbyniadwy preswyl ac amhreswyl yn Dŵr Cymru Cyfyngedig;
- Dosbarthiad gwariant y rhaglen gyfalaf yn Dŵr Cymru Cyfyngedig

Perthnasedd

Y perthnasedd a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer datganiadau ariannol y Grŵp oedd £12.0m (2023: £12.0m) a bennwyd ar sail cyfanswm yr asedau, sy'n cyfateb i 0.15% (2023: 0.14%) o gyfanswm yr asedau.

Cwmpasu

Mae ein gwaith cwmpasu wedi arwain at brofion archwilio mewn perthynas â thros 99% (2023: dros 99%) o refeniw'r Grŵp, 99% (2023: 99%) o golled cyn treth a 99% (2023: dros 100%) o gyfanswm yr asedau.

4. Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod y cyfarwyddwyr yn gwneud defnydd priodol o sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Roedd ein gwerthusiad o asesiad y cyfarwyddwyr o allu'r Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau i fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredu yn cynnwys:

- adolygu trefniadau benthyca'r Grŵp, yn enwedig yr asesiad o lefel y cyfleusterau wedi'u neilltuo nas hawliwyd, gan gynnwys y cyfleuster credyd cylchdro o £400 miliwn;
- asesu a yw'r tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y rhagolygon llif arian parod yn gyson â chyllidebau cymeradwy'r Bwrdd a chynlluniau'r dyfodol ar gyfer gweddill cyfnod AMP (Cynllun Rheoli Asedau) 7 a'r rhagolwg diweddaraf ar gyfer tri mis cyntaf AMP 8;
- profi cywirdeb rhifyddol y rhagolwg llif arian parod;
- gwerthuso cydymffurfiaeth â chyfamodau a'r hyblygrwydd ar y cyfamodau;
- asesu priodoldeb datganiadau busnes gweithredol rheolwyr yng ngoleuni'r asesiad uchod.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd gennym, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mewn perthynas â'r adroddiad ar y ffordd y mae'r Grŵp wedi cymhwyso Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, nid oes gennym unrhyw beth perthnasol i'w ychwanegu na thynnu sylw ato mewn perthynas â datganiad y cyfarwyddwyr yn y datganiadau ariannol ynghylch a oedd y cyfarwyddwyr yn ei ystyried yn briodol mabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

5. Materion archwilio allweddol

Materion a oedd, yn ein barn broffesiynol, yn fwyaf arwyddocaol yn ein harchwiliad o ddatganiadau ariannol y cyfnod cyfredol yw materion archwilio ariannol ac maent yn cynnwys y risgiau mwyaf arwyddocaol a aseswyd o gamddatganiad perthnasol (p'un a yw o ganlyniad i dwyll ai peidio) a nodwyd gennym. Roedd y materion hyn yn cynnwys y rhai a oedd wedi cael yr effaith fwyaf ar: y strategaeth archwilio gyffredinol; y broses o ddyrannu adnoddau yn ystod yr archwiliad; a chyfeirio ymdrechion y tîm ymgysylltu.

Ymdriniwyd â'r materion hyn yng nghyd-destun ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol cyfan, ac wrth lunio ein barn ar y datganiadau hynny, ac nid ydym yn rhoi barn ar wahân ar y materion hyn.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL PARHAD

5.1 Priso darpariaeth symiau masnach derbyniadwy yn Dŵr Cymru Cyfyngedig

Disgrifiad o'r mater archwilio allweddol

Mae Dŵr Cymru Cyfyngedig yn cyflenwi dŵr i gwsmeriaid preswyl a busnes yng Nghymru a rhannau o Loegr. Y ddarpariaeth ar gyfer amhariad ar symiau derbyniadwy yw cyfran y cwsmeriaid nad ydynt yn talu eu biliau, neu na allant dalu eu biliau. Mae rheolwyr yn amcangyfrif y golled credyd ddisgwyliedig am eu symiau derbyniadwy wrth gyfrifo'r lefel briodol o ddarpariaeth drwgddyledion.

Ar 31 Mawrth 2024, y ddarpariaeth a gofnodwyd oedd £84.2 miliwn (2023: £80.7 miliwn) sy'n ymgorffori amcangyfrif rheolwyr o effaith ffactorau economaidd allanol yn y dyfodol ar allu cwsmeriaid i dalu eu biliau sy'n ddyledus i Dŵr Cymru Cyfyngedig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer symiau masnach derbyniadwy yn Dŵr Cymru Cyfyngedig yn seiliedig ar symiau arian parod a gasglwyd yn hanesyddol o ddyledion wedi'u hanfonebu at gwsmeriaid â mesurydd a heb fesurydd dros y tair blynedd diwethaf, y mae rheolwyr o'r farn ei bod yn gynrychioliadol o'r risg o ran casglu o'r boblogaeth symiau derbyniadwy. Yna, caiff y ddarpariaeth ei haddasu ar gyfer amodau economaidd yn y dyfodol, y mae rheolwyr wedi ystyried eu bod yn symudiadau disgwyliedig yn incwm gwario aelwydydd a chyfraddau diweithdra.

Mae'r mater archwilio allweddol yn canolbwyntio ar briodoldeb y dybiaeth bod cyfraddau casglu arian parod dros y blynyddoedd blaenorol yn ddisgwyliad rhesymol wrth benderfynu ar golledion credyd disgwyliedig gydol oes o dan IFRS 9 Offerynnau Ariannol.

Trafodir y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn nodyn 1 o'r datganiadau ariannol fel barn gyfrifyddu ac amcangyfrif cyfrifyddu. Mae'r farn gyfrifyddu yn ymwneud â'r colledion ar y cyd oherwydd amhariad ar symiau masnach a chyfrifir risg credyd debyg drwy ddefnyddio cyfraddau casglu arian parod ar symiau derbyniadwy cwsmeriaid â mesurydd a heb fesurydd. Mae'r amcangyfrif cyfrifyddu yn ymwneud â'r tebygolrwydd o fethu ag adennill dyled ac mae'n seiliedig ar golled credyd ddisgwyliedig, a bennwyd drwy brofiad yn y gorffennol a symudiadau disgwyliedig yn y dyfodol mewn cyfraddau casglu arian parod.

Gwnaeth y Pwyllgor Archwilio hefyd ystyried hyn fel maes ffocws arwyddocaol fel y'i trafodir yn Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar dudalen 121. Trafodir y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn nodyn 11 o'r datganiadau ariannol. Mae rheolwyr wedi cynnwys hyn fel ffynhonnell o ansicrwydd amcangyfrif yn nodyn 1 o'r datganiadau ariannol.

Sut yr ymatebodd cwmplas ein harchwiliad i'r mater archwilio allweddol

Roedd ein gweithdrefnau i ymdrin â'r mater archwilio allweddol yn cynnwys y canlynol:

- cael dealltwriaeth o reolaethau perthnasol dros y penderfyniad ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion, gan gynnwys rheolaethau dros y data ategol a'r tybiaethau;
- profi cyflawnder a chywirdeb y data a gynhwyswyd wrth gyfrifo'r ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion;
- profi dyraniad yr arian parod a dderbyniwyd yn y flwyddyn gyfredol yn ddyled o fewn y tair blynedd diwethaf;
- profi statws oedran dyledion ar gyfer pob categori o ddyled;
- gwerthuso rhesymoldeb y data economaidd a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad;
- gwerthuso tybiaethau rheolwyr a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion a herio a yw hyn yn cynrychioli colled credyd ddisgwyliedig gydol oes, gan gynnwys defnyddio dodansoddeg data i gyfrifo'r cyfraddau casglu arian parod yn y flwyddyn ddiwethaf drwy ddefnyddio data ffynhonnell o'r system filio;
- asesu priodoldeb y datganiadau a ddarparwyd mewn perthynas â'r tybiaethau allweddol, a'r ystod o faterion sensitif a ddatgelwyd.

Arsylwadau allweddol	Rydym wedi ein bodloni bod y tybiaethau a gymhwyswyd wrth asesu'r colledion credyd disgwyliedig yn rhesymol a bod darpariaeth Dŵr Cymru Cyfyngedig ar gyfer drwgddyledion wedi cael ei chyfrifo'n briodol drwy ddefnyddio data perthnasol, yn unol ag IFRS 9 Offerynnau Ariannol.
----------------------	---

5.2 Dosbarthiad gwariant y rhaglen gyfalaf yn Dŵr Cymru Cyfyngedig

Disgrifiad o'r mater archwilio allweddol	Mae gan Dŵr Cymru Cyfyngedig raglen gyfalaf sylweddol y cytunir arni â'r rheoleiddiwr ('Ofwat') ar ddechrau pob cynllun rheoli asedau (AMP), ac felly mae'n mynd i wariant sylweddol mewn perthynas â datblygu a chynnal a chadw asedau seilwaith a strwythurau gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, mae Dŵr Cymru Cyfyngedig wedi buddsoddi £520 miliwn (2023: £420 miliwn) o gyfalaf mewn asedau dŵr a dŵr gwastraff fel rhan o raglen fuddsoddi arfaethedig AMP 7. Mae'r buddsoddiad wedi'i rannu rhwng ychwanegiadau cyfalaf gwerth £341 miliwn (2023: £287 miliwn) a ychwanegir at y fantolen, a gwariant ar adnewyddu seilwaith gwerth £101 miliwn (2023: £78 miliwn) sy'n gostau cynnal a chadw a osodwyd yn llawn fel treuliau ar y datganiad incwm. Mae gweddill y buddsoddiad cyfalaf yn cynnwys asedau a fabwysiadwyd gwerth £162 miliwn (2023: £109 miliwn) a llog wedi'i gyfalafu o £17 miliwn (2023: £25 miliwn). Fel rhan o'r ychwanegiadau cyfalaf gwerth £341 miliwn cynhwysir £84 miliwn (2023: £78 miliwn) o gostau pobl wedi'u cyfalafu. Gan fod y penderfyniad ynghylch a yw gwariant yn cael ei gyfalafu neu ei osod fel treuliau yn y cyfnod yn effeithio'n uniongyrchol ar berfformiad ariannol cofnodedig y Grŵp, nodwyd mater archwilio allweddol gennym mewn perthynas â gorddatgan gwariant cyfalaf. Mae angen orddel doethineb mawr wrth benderfynu a yw costau, gan gynnwys gwariant ar gyflogeion a gwariant mewnol arall, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu ac felly'n cael eu cynnwys yng ngwerth cario Eiddo, Offer a Chyfarpar, neu fel arall a ddylid eu gosod fel treuliau ar unwaith. O ganlyniad i hynny, rydym wedi penderfynu bod potensial i dwyll drwy, o bosibl, ystumio'r gorbenion wedi'u cyfalafu, sy'n cynnwys costau pobl o £84 miliwn yn bennaf (2023: £78 miliwn). Mae risg hefyd wedi cael ei nodi yn y farn wrth benderfynu a yw costau, rhai cychwynnol a dilynol, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu ac felly'n cael eu cynnwys yng ngwerth cario Eiddo, Offer a Chyfarpar, neu fel arall a ddylid eu gosod fel treuliau ar unwaith. Gwnaeth y Pwyllgor Archwilio hefyd ystyried hyn yn farn allweddol fel y'i trafodir yn adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar dudalen 121. Ceir rhagor o fanylion yn y nodyn ar farnau cyfrifyddu hollbwysig yn nodyn 1 o'r datganiadau ariannol.
--	---

Sut y gwnaeth cwmpos ein harchwiliad ymateb i'r mater archwilio allweddol	Roedd ein gweithdrefnau i ymdrin â'r mater archwilio allweddol yn cynnwys y canlynol: - cael dealltwriaeth o'r rheolaethau perthnasol dros ddosbarthu gwariant y rhaglen gyfalaf; - profi sampl o gostau i gadarnhau a yw'r costau mewn perthynas â gwelliannau i asedau; - gwerthuso priodoldeb triniaeth gyfrifyddu cyfalafu gorbenion sy'n cynnwys costau pobl drwy gyfeirio at ofynion IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar ac asesu'r polisïau, y gweithdrefnau a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth amcangyfrif gwerth costau sy'n ymwneud â phobl y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i brosiectau cyfalaf; - herio methodoleg ac amcangyfrif rheolwyr drwy ystyried a oes tybiaethau priodol amgen.
---	---

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL PARHAD

Arsylwadau allweddol Rydym wedi ein bodloni bod costau wedi'u cyfalafu mewn perthynas â gwelliannau i'r asedau a bod y tybiaethau a wnaed mewn perthynas â chyfalafu costau sy'n ymwneud â phobl yn rhesymol.


6. Cymhwyso perthnasedd

6.1. Perthnasedd

Rydym yn diffinio perthnasedd fel maint camddatganiad yn y datganiadau ariannol sy'n golygu y byddai penderfyniadau economaidd person gweddol wybodus fwy na thebyg yn cael eu newid neu y dylanwedid arnynt. Rydym yn defnyddio perthnasedd wrth gynllunio cwmphas ein gwaith archwilio ac wrth werthuso canlyniadau ein gwaith.

Yn seiliedig ar ein barn broffesiynol, penderfynwyd ar berthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd fel a ganlyn:

	Datganiadau'r ariannol y Grŵp	Datganiadau ariannol y rhiant-gwmni
Perthnasedd	£12.0 miliwn (2023: £12.0 miliwn)	Perthnasedd £5.3 miliwn (2023: £8.4 miliwn)
Sail ar gyfer penderfynu ar berthnasedd	Mae perthnasedd y Grŵp ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi cael ei gadarnhau o ran nifer o fetrigau ac mae'n cyfateb i 0.15% (2023: 0.14%) o Gyfanswm yr Asedau.	Gwnaethom benderfynu ar berthnasedd y rhiant-gwmni mewn perthynas â chanran asedau net (0.15% - 2023: 0.20%).
Rhesymeg dros y meincnod a gymhwyswyd	Rydym o'r farn mai cyfanswm yr Asedau yw'r meincnod mwyaf priodol i'w gymhwyso wrth benderfynu ar berthnasedd. Mae'r Grŵp yn Grŵp seilwaith yn bennaf sy'n cynhyrchu refeniw bron yn gyfan gwbl drwy ddefnyddio ei asedau. Gan fod refeniw'r Grŵp yn cael ei reoleiddio i raddau helaeth gan Ofwat, rydym yn asesu, yn gyson â ffocws allweddol y Grŵp ar gynnal a chadw'r asedau y mae'n berchen arnynt ac yn eu gweithredu ac ar fuddsoddi ynddynt, y sylfaen asedau yw'r meincnod priodol.	Nid yw'r rhiant-gwmni yn masnachu nac yn bodoli at ddibenion cynhyrchu elw, felly mae'r perthnasedd wedi'i bennu gan ddefnyddio asedau net.



6.2. Perthnasedd perfformiad

Gwnaethom bennu perthnasedd perfformiad ar lefel is na pherthnasedd er mwyn ei gwneud yn llai tebygol bod camddatganiadau, gyda'i gilydd, heb eu cywiro a heb eu canfod, yn fwy na'r perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd.

	Datganiadau'r ariannol y Grŵp	Datganiadau ariannol y rhiant-gwmni
Perthnasedd perfformiad	65% (2023: 75%) o berthnasedd y Grŵp sy'n cyfateb i £7.8 miliwn (2023: £9.0 miliwn)	65% (2023: 75%) o berthnasedd y rhiant-gwmni sy'n cyfateb i £3.4 miliwn (2023: £6.3 miliwn)
Sail a rhesymeg dros benderfynu ar berthnasedd perfformiad	Roedd y ffactorau a ystyriwyd gennym wrth bennu perthnasedd perfformiad yn cynnwys: - archwiliad 2024 yw ein blwyddyn gyntaf o archwilio'r Grŵp a'r is-gwmnïau; - ansawdd yr amgylchedd rheolaeth ac a ydym yn gallu dibynnu ar reolaethau mewnol yn ein profion sylweddol; - nifer a gwerth camddatganiadau heb eu cywiro a nodwyd yn yr archwiliad blaenorol a nodwyd gan yr archwilydd rhagflaenol yn y flwyddyn flaenorol.	

6.3. Trothwy adrodd ar gyfer gwallau

Cytunwyd â'r Pwyllgor Archwilio y byddem yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar bob gwahaniaeth archwilio dros £0.6 miliwn (2023: £0.6 miliwn), yn ogystal â gwahaniaethau islaw'r trothwy hwnnw y gellid cyfiawnhau paratoi adroddiad arnynt, yn ein barn ni, ar sail ansoddol. Rydym hefyd yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar faterion sy'n ymwneud â datgelu a nodwyd gennym wrth asesu'r ffordd y cafodd y datganiadau ariannol eu cyflwyno'n gyffredinol.

7. Trosolwg o gwmpas ein harchwiliad

7.1. Nodi a chwmpasu elfennau

Cafodd ein harchwiliad ei gwmpasu drwy gael dealltwriaeth o'r Grŵp a'r amgylchedd, gan gynnwys rheolaethau dros y Grŵp cyfan, a thrwy asesu'r risgiau o gamddatganiad perthnasol ar lefel y Grŵp.

Mae'r segment sy'n ymwneud â Dŵr a Dŵr Gwastraff a reoleiddir yn cynnwys Dŵr Cymru Cyfyngedig yn bennaf a fu'n destun archwiliad cwmpasu llawn a oedd yn defnyddio perthnasedd o £7.4 miliwn (2023: £12.0 miliwn) O blith pedair elfen adrodd y Grŵp (2023: 12), cynhaliwyd archwiliad cwmpasu llawn ar dri (2023: tri) gennym at ddibenion y Grŵp. Gwnaed gwaith archwilio mewn ymateb i'r risgiau o gamddatganiad perthnasol yn uniongyrchol gan dîm ymgysylltu'r archwiliad o'r Grŵp,

Roedd hyn yn golygu bod 99% (2023: dros 99%) o refeiwr'r Grŵp, 99% (2023: 99%) o golled cyn treth a 99% (2023: dros 100%) o Gyfanswm yr Asedau yn destun profion archwilio.

Ar lefel y Grŵp, gwnaethom hefyd brofi'r broses gyfuno ac ymgymryd â gweithdrefnau dadansoddol ar lefel gyfunol y Grŵp er mwyn cadarnhau ein casgliad nad oedd unrhyw risgiau sylweddol o gamddatgan yn berthnasol wybodaeth ariannol gyfunol am yr elfennau nad oeddent wedi mynd drwy weithdrefnau archwilio cwmpas llawn.

7.2 Ein hystyriaeth o'r amgylchedd rheolaeth

Mae'r Grŵp yn defnyddio SAP fel llwyfan meddalwedd cyfrifyddu ariannol. Drwy ymwneud â'n harbenigwyr technoleg gwybodaeth, cawsom ddealltwriaeth o Reolaethau Technoleg Gwybodaeth Cyffredinol perthnasol o fewn llwyfan meddalwedd cyfrifyddu ariannol y Grŵp a chymwysïadau, systemau ac adnoddau ategol, gan gynnwys rheolaethau mynediad, rheolaethau rheoli newid a rheolaethau ynglŷn â gwahanu dyletswyddau. Nid oeddem yn gallu dibynnu ar y systemau TG perthnasol oherwydd canfyddiadau yn y Rheolaethau Technoleg Gwybodaeth Cyffredinol. Yn unol â hynny, cynhaliwyd archwiliad llawn.

7.3 Ein hystyriaeth o risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Wrth gynllunio ein harchwiliad, rydym wedi ystyried effaith bosibl newid yn yr hinsawdd ar fusnes y Grŵp a'i ddatganiadau ariannol. Rydym wedi gwerthuso dogfennaeth rheolwyr ynglŷn â'r broses o nodi risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, y ffordd y penderfynir ar gamau lliniaru a'r effaith ar y datganiadau ariannol. Er i reolwyr gydnabod y risgiau a achosir gan newid yn yr hinsawdd, maent wedi asesu nad oes unrhyw effaith feintiol berthnasol yn codi o newid yn yr hinsawdd ar y dyfarniadau na'r amcangyfrifon a luniwyd yn y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 fel y'i datgelwyd yn nodyn 1 o'r datganiadau ariannol.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

PARHAD

Cynhaliwyd ein hasesiad risg ansoddol ein hunain o effaith bosibl newid yn yr hinsawdd ar falansau cyfrifon y Cwmni a'i ddosbarthiadau o drafodion ac ni nodwyd unrhyw risgiau rhesymol bosibl ychwanegol o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Gwnaethom hefyd dybio nad yw risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ein materion archwilio allweddol. Cyflawnwyd ein gweithdrefnau drwy gynnwys arbenigwyr ar newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd a thrwy ddarllen datgeliadau a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Strategol er mwyn ystyried a ydynt yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad mewn ffordd berthnasol a gwerthuso a yw datgeliadau priodol wedi cael eu gwneud yn y datganiadau ariannol.

Ynghyd â'n harbenigwyr ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, gwnaethom y canlynol:

- gwerthuso datgeliadau'r datganiadau ariannol er mwyn asesu a oedd y tybiaethau ynglŷn â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a fu'n sail i falansau cyfrifon penodol wedi cael eu datgelu'n briodol;
- darllen y datganiadau ynglŷn â newid yn yr hinsawdd (fel y'u datgelwyd yn yr Adroddiad Strategol) ac ystyried a yw'r wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad naratif yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad mewn ffordd berthnasol.

8. Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad fel archwilydd arnynt. Mae'r cyfarwyddwr yn gyfrifol am y wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad, neu a yw fel arall yn ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan mewn ffordd berthnasol.

Os nodwn anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol amlwg o'r fath, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennym, os down i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i ni roi gwybod am hynny.

Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth.

9. Cyfrifoldebau cyfarwyddwyr

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y datganiad o gyfrifoldebau cyfarwyddwyr, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod wedi rhoi darlun cywir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol ag a bennir yn angenrheidiol gan y cyfarwyddwyr i'w galluogi i baratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol, datgelu materion sy'n ymwneud â busnes gweithredu fel y bo'n briodol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y cyfarwyddwyr yn bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant-gwmni neu beidio â gweithredu, neu nad oes ganddynt ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

10. Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Gellir gweld disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad fel archwilydd.

11. Y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir ar y graddau y mae ein gweithdrefnau yn gallu canfod achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, isod.

11.1. Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig ag achosion o afreoleidd-dra

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas ag achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, ystyriwyd y canlynol:

- natur y diwydiant a'r sector, yr amgylchedd rheolaeth a pherfformiad y busnes, gan gynnwys y ffordd y mae polisiâu cydnabyddiaeth y Grŵp wedi cael eu llunio, ffactorau allweddol sy'n ysgogi cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr, lefelau taliadau bonws a thargedau perfformiad;
- asesiad rheolwyr eu hunain o'r risgiau y gall achosion o afreoleidd-dra godi o ganlyniad i dwyll neu wall;
- canlyniadau ein hymholiadau gan reolwyr, archwilyddwyr mewnol, y cyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r ffordd y maent yn nodi ac yn asesu risgiau o afreoleidd-dra eu hunain, gan gynnwys y rhai sy'n benodol i sector y Grŵp;
- unrhyw faterion a nodwyd gennym ar ôl cael ac adolygu dogfennaeth y Grŵp ynglŷn â'u polisiâu a'u gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r canlynol:
 - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - o canfod ac ymateb i'r risg o dwyll ac a ydynt yn ymwybodol o unrhyw achosion gwirioneddol, a amheuir neu honedig o dwyll.
 - o y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau
- y materion a drafodwyd ymhlith fîm ymgysylltu'r archwiliad ac arbenigwyr mewnol perthnasol, gan gynnwys treth, prisiadau, pensiynau, trysorlys a phrisio, TG ac ACLI o ran sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw arwyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, gwnaethom ystyried y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli yn y sefydliad i gyflawni twyll, gan nodi'r potensial mwyaf i gyflawni twyll yn y meysydd canlynol:

- priso'r ddarpariaeth ar gyfer symiau masnach derbyniadwy preswyl ac amhreswyl yn Dŵr Cymru Cyfyngedig;
- dosbarthu gwariant y rhaglen gyfalaf, yn enwedig costau pobl, yn Dŵr Cymru Cyfyngedig

Yn debyg i bob archwiliad o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), mae'n ofynnol i ni hefyd ymgymryd â gweithdrefnau penodol mewn ymateb i'r risg o ddiystyru rheolaethau.

Gwnaethom hefyd feithrin dealltwriaeth o'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r Grŵp yn gweithredu'n unol ag ef, gan ganolbwyntio ar ddarpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sydd a gafodd effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Cwmnïau'r DU, deddfwriaeth sy'n ymwneud â phensiynau, deddfwriaeth treth.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL PARHAD

Hefyd, gwnaethom ystyried darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond y gall cydymffurfiaeth â nhw fod yn hanfodol i allu'r Grŵp i weithredu neu osgoi cosb berthnasol. Roedd y rhain yn cynnwys amodau trwydded a osodwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat), Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, GDPR ac iechyd a diogelwch.

11.2. Ymateb yr archwiliad i risgiau a nodwyd

O ganlyniad i gyflawni'r uchod, gwnaethom nodi bod priso'r ddarpariaeth ar gyfer symiau masnach derbyniadwy preswyl ac amhreswyl yn Dŵr Cymru Cyfyngedig yn fater archwilio allweddol a oedd yn ymwneud â'r risg bosibl o dwyll. Mae'r adran o'n hadroddiad sy'n ymdrin â materion archwilio allweddol yn esbonio'r mater yn fanylach a hefyd yn disgrifio'r gweithdrefnau penodol a gyflawnwyd gennym mewn ymateb i'r mater archwilio allweddol hwn.

Yn ogystal â'r uchod, roedd ein gweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y dywedir eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cwnsler cyfreithiol allanol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- ymgymryd â gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw gydb berthnasau anarferol neu annisgwyl a all fod yn arwydd o risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, adolygu adroddiadau archwilwyr mewnol a darllen gohebiaeth â CThEF, Ofwat, ac awdurdodau rheoleiddio perthnasol eraill;
- wrth fynd i'r afael â'r risg y byddai'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos tuedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion o bwys sy'n anarferol neu'r tu hwnt i fusnes arferol.

Hefyd, gwnaethom rannu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll â holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Adroddiad ar ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol eraill

12. Barnau ar faterion eraill a ragnodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol;
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Grŵp a'i rhiant-gwmni a'u hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad strategol nac adroddiad y cyfarwyddwyr.

13. Barnau ar faterion eraill a ragnodwyd drwy ein llythyr penodiad

Yn ein barn ni, mae'r rhan o'r adroddiad ar Gydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 a fyddai wedi bod yn gymwys pe bai'r Cwmni yn gwmni a restrir.

14. Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed fel rhan o'n harchwiliad, daethom i'r casgliad bod pob un o'r elfennau canlynol yn y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn gyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol a'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad:

- datganiad y cyfarwyddwyr ynghylch priodoldeb mabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol ac unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd ar dudalen 155;
- esboniad y cyfarwyddwyr ynghylch eu hasesiad o ragolygon y Grŵp, y cyfnod y mae'r asesiad hwn yn ei gwmpasu a pham mae'r cyfnod yn briodol ar dudalennau 67 i 71;
- datganiad y cyfarwyddwyr ynghylch teg, cytbwys a dealladwy ar dudalen 156;
- cadarnhad y bwrdd ei fod wedi cynnal asesiad cadarn o'r risgiau sy'n dod i'r golwg a'r prif risgiau ar dudalen 58;
- yr adran o'r adroddiad blynyddol sy'n disgrifio'r adolygiad o effeithiolrwydd systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol ar dudalen 122;
- yr adran sy'n disgrifio gwaith y Pwyllgor Archwilio ar dudalennau 121 i 125.

15. Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad

15.1. Digonolrwydd esboniadau a gafwyd a chofnodion cyfrifyddu

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os, yn ein barn ni:

- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth nac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y rhiant-gwmni, neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn gyson â'r cofnodion na'r ffurflenni cyfrifyddu.

Nid oes gennym ddim i'w nodi mewn perthynas â'r materion hyn.

15.2. Cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n ofynnol i ni hefyd roi gwybod os, yn ein barn ni, nad yw datgeliadau penodol ynglŷn â chydabyddiaeth cyfarwyddwyr wedi cael eu gwneud neu nad yw'r rhan a'r adroddiad ar gydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion na'r ffurflenni cyfrifyddu.

Nid oes gennym ddim i'w nodi mewn perthynas â'r materion hyn.

16. Defnyddio ein hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu aelodau'r Cwmni o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu ohonynt yn adroddiad yr archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawn y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r rhiant-gwmni ac aelodau'r rhiant-gwmni, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y barnau a luniwyd gennym.

DATGANIAD INCWM CYFUNOL AR GYFER
Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH

		2024	2023
		Ailddatganwyd	
		£m	£m
Gweithgoreddau parhaus	Noder		
Refeniw	2	927.9	843.8
Costau gweithredu:			
Gwariant gweithredol	3	(370.3)	(376.1)
Amhariad ar symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	3	(28.3)	(24.8)
Incwm gweithredu arall	3	5.2	5.3
Eitem eithriadol	3	-	(30.8)
Gwariant ar adnewyddu seilwaith	3	(101.3)	(78.0)
Dibrisio ac amorteiddio	3	(386.7)	(346.8)
	3	(881.4)	(851.2)
Elw/(colled) gweithredu		46.5	(7.4)
(Colled)/elw ar waredu asedau sefydlog		(0.1)	0.3
Elw/(colled) cyn llog		46.4	(7.1)
Treuliau ariannol:			
Incwm ariannol	4	21.2	14.9
Treuliau ariannol	4	(270.0)	(297.6)
Enillion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	4	30.1	139.3
Setliadau sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn	4	37.4	(20.9)
Symudiadau eraill ar offerynnau ariannol deilliadol	4	(7.3)	160.2
		(218.7)	(143.4)
Colled cyn trethiant		(172.3)	(150.5)
Trethiant	5	41.4	25.8
Colled am y flwyddyn		(130.9)	(124.7)

Mae'r Cwmni wedi dewis cymryd yr eithriad o dan adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i beidio â chyflwyno datganiad incwm ar gyfer y rhiant-gwmni. Elw'r rhiant-gwmni ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 oedd £1.2 miliwn (2023: £1.5 miliwn). Mae'r cymaryddion ar gyfer treuliau ariannol ac enillion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol wedi cael eu hailddatgan. Nid oes unrhyw effaith ar y golled ar gyfer y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o dan nodyn 1 o'r datganiadau ariannol hyn.

DATGANIAD INCWM CYNHWYSFAWR
CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN
A DDAETH I BEN 31 MAWRTH

	Noder	2024	2023
		£m	£m
Colled am y flwyddyn		(130.9)	(124.7)
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw na cholled			
Ennill actiwaraid a gydnabuwyd yn y cynllun pensiwn	21	26.4	124.5
Treth ohiriedig gysylltiedig	6	(6.6)	(31.1)
Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar	7	141.8	593.4
Treth ohiriedig gysylltiedig	6	(35.4)	(148.4)
Cyfanswm yr eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw na cholled		126.2	538.4
Cyfanswm y (draul)/incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		(4.7)	413.7

MANTOLEN GYFUNOL
AR 31 MAWRTH

	Noder	2024 £m	2023 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	8	7,303.3	6,970.2
Asedau anniriaethol	9	201.4	202.6
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	2.2	0.7
Asedau ariannol eraill:			
- offerynnau ariannol deilliadol	15	-	4.1
- buddiannau cyflogeion	21	31.6	12.0
		7,538.5	7,189.6
Asedau cyfredol			
Stocrestrau		7.9	5.3
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	645.7	648.6
Arion parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	12	167.1	379.4
Asedau ariannol eraill:			
- offerynnau ariannol deilliadol	15	1.2	5.8
		821.9	1,039.1
Cyfanswm yr asedau		8,360.4	8,228.7
Rhwymedigaethau			
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(627.9)	(685.8)
Darpariaethau	17	(5.4)	(17.8)
Rhwymedigaethau ariannol eraill:			
- benthyciadau	14	(237.7)	(94.7)
		(871.0)	(798.3)
(Rhwymedigaethau)/asedau cyfredol net		(49.1)	240.8
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(740.4)	(540.8)
Buddiannau cyflogeion	21	(2.6)	-
Darpariaethau	17	(4.8)	(5.4)
Rhwymedigaethau ariannol eraill:			
- benthyciadau	14	(4,008.7)	(4,090.9)
- offerynnau ariannol deilliadol	15	(398.6)	(444.5)
Treth ohiriedig - net	6	(812.3)	(822.1)
		(5,967.4)	(5,903.7)
Cyfanswm y rhwymedigaethau		(6,838.4)	(6,702.0)
Asedau net		1,522.0	1,526.7
Cronfeydd wrth gefn			
Cronfa ailbriso wrth gefn	7	1,696.2	1,692.0
Enillion argadwedig		(174.2)	(165.3)
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		1,522.0	1,526.7

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 168 i 209 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 6 Mehefin 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:


P Perry

Prif Swyddog Gweithredol


M Davis

Prif Swyddog Ariannol

DATGANIAD CYFUNOL O NEWIDIADAU
MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

	Cronfa oilbrizio wrth gefn £m	Enillion argadwedig £m	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £m
Ar 1 Ebrill 2022	1,339.7	(226.7)	1,113.0
Colled am y flwyddyn	-	(124.7)	(124.7)
Ennill actiwaroidd yn glir o dreth	-	93.4	93.4
Ailbrizio yn glir o dreth	445.0	-	445.0
Trosglwyddo i enillion argadwedig	(92.7)	92.7	-
Ar 31 Mawrth 2023	1,692.0	(165.3)	1,526.7
Colled am y flwyddyn	-	(130.9)	(130.9)
Ennill actiwaroidd yn glir o dreth	-	19.8	19.8
Ailbrizio yn glir o dreth	106.4	-	106.4
Trosglwyddo i enillion argadwedig	(102.2)	102.2	-
Ar 31 Mawrth 2024	1,696.2	(174.2)	1,522.0

MANTOLEN Y RHIAINT-GWMNI

	Noder	2024 £m	2023 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Buddsoddi mewn is-gwmnïau	10	3,502.0	4,095.7
Asedau ariannol eraill:			
- benthyciadau i ymgymeriadau'r Grŵp	11	21.6	21.6
		3,523.6	4,117.3
Asedau cyfredol			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill		3.5	4.0
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	12	12.3	10.6
		15.8	14.6
Asedau net		3,539.4	4,131.9
Cronfeydd wrth gefn			
Enillion argadwedig		37.4	36.2
Cronfa ailbrizio wrth gefn	7	3,502.0	4,095.7
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		3,539.4	4,131.9

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 168 i 209 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 6 Mehefin 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:


P Perry
Prif Swydddog Gweithredol


M Davis
Prif Swydddog Ariannol

DATGANIAD Y RHIAANT-GWMNI O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

	Cronfa ailbriso wrth gefn £m	Enillion argadwedig £m	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £m
Ar 1 Ebrill 2022	4,201.5	34.7	4236.2
Elw am y flwyddyn	-	1.5	1.5
Ailbriso	(105.8)	-	-105.8
Ar 31 Mawrth 2023	4,095.7	36.2	4131.9
Elw am y flwyddyn	-	1.2	1.2
Ailbriso	(593.7)	-	-593.7
Ar 31 Mawrth 2024	3,502.0	37.4	3539.4

DATGANIAD CYFUNOL O'R LLIF ARIAN PAROD

	Noder	2024 £m	2023 Ailddatganwyd £m
Llif arian parod o weithgareddau gweithredu			
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau*	18a	380.9	380.1
Treth incwm a dderbyniwyd		0.5	0.6
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu		381.4	380.7
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		21.2	13.4
Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd		(372.4)	(296.6)
Asedau anniriaethol a brynwyd		(39.3)	(38.6)
Enillion o werthu offer a chyfarpar		-	0.4
Grantiau a chyfraniadau a dderbyniwyd		32.2	30.5
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(358.3)	(290.9)
Llif arian parod net cyn gweithgareddau cyllido		(23.1)	(89.8)
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido			
Costau dyroddi benthyciadau		(1.9)	-
Benthyciadau hirdymor		230.0	-
Ad-daliadau benthyciad cyfnod penodol		(65.4)	(58.4)
Llog a dalwyd	18b	(193.2)	(128.7)
Derbyniadau o offerynnau ariannol deilliadol	18c	8.7	49.5
Taliadau ar offerynnau ariannol deilliadol	18c	(11.8)	(70.4)
Rhwymedigaethau prydlesau a dalwyd		(201.8)	(17.5)
Llif arian parod net o weithgareddau cyllido		(235.4)	(225.5)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	19b	(212.3)	(135.7)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 1 Ebrill		379.4	515.1
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth	12	167.1	379.4

* Ni chaiff eitemau eithriadol £dim (2023: £30.8 miliwn eu cynnwys mewn llifau arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau, gweler nodyn 18).

Mae'r cymaryddion ar gyfer llog a dalwyd a derbyniadau/taliadau ar offerynnau ariannol deilliadol wedi cael eu hoilddosbarthu yn sgil newid mewn polisi cyfrifyddu (gweler nodyn 1). Ceir cynnydd o £149.6m yn y mewn-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu a chynnydd cyfatebol yn yr all-lif arian parod net o weithgareddau cyllido, nid oes unrhyw effaith ar all-lif arian parod net o'r flwyddyn flaenorol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o dan nodyn 1 o'r datganiadau ariannol hyn.

DATGANIAD O LIF ARIAN PAROD Y RHIAANT-GWMNI

	Noder	2024 £m	2023 £m
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		1.9	1.9
Benthyciad hirdymor i is-gwmni		(0.2)	-
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		1.7	1.9
Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo			
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 1 Ebrill		10.6	8.7
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth	12	12.3	10.6

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu

Polisiâu cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ("y Cwmni") yn gwmni preifat sy'n hanu o Gymru ac wedi'i gorffori a'i gofrestru yno. Y rhif cofrestredig yw 09917809 a'r cyfeiriad cofrestredig yw Linea, Ffordd Fortran, Llaneirwg, CF3 0LT.

Nodir y prif bolisiâu cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn isod. Mae'r polisiâu hyn wedi cael eu cymhwyso'n gyson at y ddwy flwyddyn a gyflwynwyd.

SAIL PARATOI

Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig yn gwmni cyfyngedig drwy warant a hefyd yn gweithredu fel rhiant-gwmni eithaf Grŵp Glas.

Cafodd datganiadau ariannol cyfunol Glas Cymru Holdings Cyfyngedig a datganiadau ariannol y rhiant-gwmni eu paratoi a'u cymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU ("IFRS a fabwysiadwyd gan y DU"). Paratowyd y datganiadau ariannol cyfunol o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy ailbrisio asedau sefydlog, asedau ariannol a rhwymedigaethau eraill (yn cynnwys offerynnau ariannol deilliadol) a buddsoddiad y rhiant-gwmni ar werth teg drwy elw neu golled. Yr arian cyfred a ddefnyddir i gyflwyno'r cyfrifon hyn yw GBP a dangosir pob balans wedi'i dalgrynnu mewn £m.

O dan IFRS, mae'n ofynnol i'r datganiadau ariannol gael eu paratoi drwy ddefnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu penodol ac mae'n ofynnol i reolwyr arfer eu doethineb wrth gymhwyso polisiâu cyfrifyddu'r Grŵp. Datgelir y meysydd sy'n gofyn am arddel mwy o ddoethineb neu sy'n fwy cymhleth, neu feysydd lle mae tybiaethau ac amcangyfrifon yn bwysig i'r datganiadau ariannol, ar dudalen 180.

SAIL Y CYFUNO

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Cwmni a'i is-gwmnïau. Dilëir trafodion ac elw rhwng grwpiau ar adeg cyfuno.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys canlyniadau cyfuniadau busnes gan ddefnyddio'r dull caffael. Yn y fantolen gyfunol, caiff asedau, rhwymedigaethau a rhwymedigaethau digwyddiadol y sawl sy'n caffael eu cydnabod i ddechrau yn ôl eu gwerthoedd teg ar y dyddiad caffael. Caiff canlyniadau gweithrediadau a gaffaelwyd eu cynnwys yn y datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol o'r dyddiad y ceir rheolaeth drostynt.

Mae datganiadau ariannol y Cwmni yn cyflwyno gwybodaeth am y Cwmni fel endid ar wahân ac nid am ei Grŵp.

BUSNES GWEITHREDOL

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol gan fod gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan y Grŵp a'r rhiant-gwmni adnoddau digonol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad y'u cymeradwyr ac nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol i'w ddatgelu.

Wrth asesu priodoldeb sail cyfrifyddu busnes gweithredol, mae'r Cyfarwyddwyr wedi adolygu'r adnoddau sydd ar gael i'r Grŵp ar ffurf arian parod a hyblygrwydd y cyfleusterau banc a neilltuwyd, sef £485 miliwn ar 31 Mawrth 2024, a estynnwyd ymhellach i fwy na £600 miliwn ar ôl diwedd y flwyddyn ar ôl cytuno ar benthyciad tymor penodol newydd o £125 miliwn, a hefyd ystyried digonolrwydd cyfalaf y Grŵp. Ar hyn o bryd, mae cyfleusterau credyd cylchdro gwerth £400 miliwn ar gael i'r Grŵp i'w defnyddio yn ôl ei ddisgresiwn ac os bydd y Grŵp yn tybio bod hynny'n fuddiol, cânt eu defnyddio'n rhannol i reoli llifau arian parod gweithredol. Mae £80 miliwn wedi'i hawlio ar 31 Mawrth 2024, a gaiff ei ad-dalu yn ystod mis Mai 2024. Ar hyn o bryd, bydd cyfleusterau credyd cylchdro'r Grŵp yn dod i ben ym mis Chwefror 2027. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo strategaeth ailgyllido Trysorlys, sy'n nodi sut y bydd yn gweithredu i ddiwallu anghenion cyllido'r Cwmni dros y chwe blynedd nesaf. Mae'r Grŵp wedi gwerthuso'r amgylchedd marchnad presennol ac wedi ystyried gofyniad ailgyllido AMP 8, lle y bydd angen i ni ailgyllido dros £3 biliwn. Mae'r lefel hon o hyblygrwydd yn cael ei hystyried yn ddigonol i ddiwallu anghenion gweithredol yn y byrdymor ac mae'n golygu na fyddai angen rhagor o gyllid y tu hwnt i'n cyfleusterau credyd cylchdro presennol tan fis Mawrth 2026, pan fydd ein had-daliad dyled berthnasol nesaf yn ddyledus.

Mae'r Grŵp wedi cynnal cydberthnasau gweithredol â nifer o arweinwyr ac mae hefyd yn monitro tueddiadau ar y farchnad, ac mae'n ymwybodol o'r dyledion wedi'u tanysgrifio'n dda a ddyroddir yn rheolaidd yn y sector. O ystyried bod statws credyd y Grŵp ymhlith yr uchaf yn y diwydiant, mae'r Cyfarwyddwyr yn hyderus yng ngallu'r Grŵp i godi'r arian sydd ei angen, mewn modd amserol ac am gyfradd gystadleuol, ac mae amrywiol opsiynau eraill ar gael megis cyhoeddi ailgyllido AMP 8 yn gynnar, bondiau gosod preifat a benthyciadau cyfnod penodol.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried maint yr effeithiau posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol neu newidiadau mewn amgylchiadau, ac effeithiolrwydd tebygol camau lliniaru y byddai'r Cyfarwyddwyr yn ystyried eu cymryd. Mae'r cynllun ariannol wedi mynd drwy nifer o senarios negyddol difrifol ond credadwy er mwyn asesu gallu'r Grŵp i weithredu o fewn y cyfmodau a'r cyfleusterau presennol. Mae'r senarios hyn yn ystyried: effeithiau posibl costau cyfanswm gwariant cynyddol, yn cynnwys effaith cyfanswm gwariant unigol sylweddol yn codi yn y cyfnod asesu; amgylcheddau chwyddiant isel ac uchel; lefelau uwch o ddrwgddyledion; cosbau cymhellion cyflawni canlyniadau; ac effaith y ffactorau hyn yn dwyn ffrwyth ar sail gyfunol. Ystyriwyd camau lliniaru, gan gynnwys gohirio gwariant cyfalaf a lleihad mewn gwariant totex dewisol arall.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

BUSNES GWEITHREDOL (PARHAD)

Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd wedi asesu'r effeithiau posibl sy'n deillio o'r argyfwng costau byw a'r cyfraddau llog sy'n effeithio ar y DU ar hyn o bryd ac, er eu bod yn cael effaith negyddol ar ein sefyllfa ariannol, nid oes yr un o'r ffactorau hyn yn destun pryder mawr i'w ddatgelu mewn perthynas â gallu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol.

Byddai gostyngiad mewn llifau arian parod yn effeithio ar fetrigau ariannol allweddol, yn enwedig cymarebau sicrwydd llog. Fodd bynnag, yn y senario lle gwelir y dirywiad mwyaf difrifol, mae hyblygrwydd o hyd o ran gerio a sicrwydd llog o fewn y lefelau sbarduno a nodir yn ein cyfamedau benthyca; ac er bod y llifau arian parod gostyngol yn gwanhau ein metrigau ariannol, maent yn parhau o fewn arweiniad asiantaethau statws credyd ar gyfer ein statws credyd cyfredol.

Ar ôl ystyried y materion hyn, nid yw'r cyfarwyddwyr yn credu bod unrhyw ansicrwydd perthnasol i'w ddatgelu mewn perthynas â gallu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol.

NEWIDIADAU MEWN POLISIÂU CYFRIFYDDU A DATGELIADAU

Mae'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau newydd canlynol wedi cael eu mabwysiadu gan y Grŵp am y tro cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2023:

Diwygiadau

- Rhwymedigaethau anghyfredol gyda Chyfamedau (Diwygiadau i IAS 1)
- Contractau Yswiriant (Diwygiadau i IFRS 17)
- Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 8)
- Treth Ohiriedig sy'n gysylltiedig ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n deillio o Drafodiad Sengl (IAS 12)
- Nid yw mabwysiadu'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau hyn wedi cael effaith berthnasol ar ddatganiadau ariannol y Grŵp na'r rhiant-gwmni.
- Mae'r Grŵp a'r Cwmni wedi newid polisi cyfrifyddu ar gyfer dosbarthu llog a dalwyd ar y datganiad llif arian parod. Mae llog a dalwyd bellach yn cael ei ddosbarthu'n weithgarwch cyllido gan y tybir bod hyn yn adlewyrchu natur y llifau arian parod yn well.

NEWIDIADAU I'R SAFONAU CYFRIFYDDU YN Y DYFODOL

Ar y dyddiad y cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn, mae Safonau a Diwygiadau newydd, nas cymhwyswyd yn y datganiadau ariannol hyn. Mae'r Cyfarwyddwyr yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Diwygiadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith berthnasol ar ddatganiadau ariannol y Grŵp na'r rhiant-gwmni.

CYDNABOD REFENIW

Refeniw yw'r incwm sy'n dderbyniadwy yn ystod busnes arferol am rwymedigaethau perfformiad a gyflawnir, heb gynnwys treth ar werth. Caiff refeniw ei rannu rhwng y ddwy ffrwd incwm ganlynol:

Mae Refeniw wedi ei reoleiddio yn ymwneud â darparu gwasanaethau dŵr, gwasanaethau carthffosiaeth a gwasanaethau manwerthu cysylltiedig. Cydnabyddir refeniw gan gwsmeriaid â mesuryddion pan gaiff y gwasanaeth ei ddarparu a chaiff ei fesur yn seiliedig ar ddarlenniadau mesurydd gwirioneddol a defnydd omcangyfrifedig ar gyfer y cyfnod rhwng y darlleniad mesurydd diwethaf a diwedd y flwyddyn yn seiliedig ar dariffau o'r cynllun taliadau a gyhoeddir bob blwyddyn. Ar gyfer cwsmeriaid heb fesurydd, y rhwymedigaeth perfformiad yw'r gallu i ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth drwy gydol y cyfnod. Codir tâl ar gwsmeriaid o'r fath yn flynyddol, sy'n cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol a chydabyddir refeniw ar sail llinell syth dros y flwyddyn ariannol.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar bob cwmni dŵr i ganiatáu i drydydd partïon greu cysylltiad awdurdodedig â'u rhwydweithiau a gall nifer o weithgareddau fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni hyn, gan arwain at y trafodion a'r triniaethau cyfrifyddu canlynol o dan IFRS 15:

- Taliadau cysylltu: symiau yw'r rhain a dderbynnir gan ddatblygwyr am gysylltu â'r rhwydwaith, y mae'r Grŵp yn eu cydnabod fel incwm wrth gyflawni'r rhwymedigaeth honno o ran perfformiad.
- Taliadau ac archebion seilwaith: cyfraniadau trydydd parti tuag at rwymedigaeth y Grŵp i sicrhau darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol â'r cysylltiad neu'r prif bibellau yn ystod ei oes/eu hoese; mae'r Grŵp yn amcangyfrif bod cysylltiad yn para 80 mlynedd ar gyfartaledd ac yn gohirio rhyddhau taliadau dros y cyfnod hwnnw.
- Mabwysiadu asedau: fel arfer caiff carthffosydd eu mabwysiadu heb gost, ond mae derbyn yr ased y tu hwnt i gwmpas IFRS 15 ac felly dylid ei gydnabod ar werth teg (gan ohirio incwm anariannol cysylltiedig).
- Gwriadau: taliad yn gyfnewid am symud pibell ddŵr neu garthffos yn unol â newidiadau eraill i'r seilwaith. Y rhwymedigaeth o ran perfformiad yw symud y brif bibell, heb greu ased ychwanegol, felly cydnabyddir refeniw ar unwaith.
- Mae ein hincwm gweithredu arall yn ymwneud yn bennaf â gwerthu nwy. Caiff y refeniw o werthu nwy ei gydnabod pan gaiff ei gyflenwi. Mae allforion o drydan adnewyddadwy yn cael eu cynnwys gyda chostau pŵer am ei fod yn cael ei drin fel rhagfantoli naturiol â defnydd. O dan strategaeth ynni'r Grŵp mae'n ymrwymo i gontractau sy'n pennu pris defnyddio ynni llai allforion o ynni a brynir yn y dyfodol er mwyn lleihau effaith amrywiannau mewn prisiau pŵer. Caiff allforion trydan eu cydnabod pan gânt eu cyflenwi.

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

EITEMAU EITHRIADOL

Eitemau eithriadol yw'r eitemau sylweddol hynny a ddatgelir ar wahân oherwydd eu maint a/neu natur fel y gellir cael dealltwriaeth gywir a theg o berfformiad y Grŵp.

BUDDSODDIADAU

Mae buddsoddiadau'r Cwmni yn cynnwys daliadau ecwiti mewn is-gwmnïau a berchnogir yn llawn, fel y nodir yn nodyn 10. Datgenir y rhain ar werth teg, gydag unrhyw golled neu ennill canlyniadol yn cael eu cydnabod yn uniongyrchol mewn ecwiti, yn y gronfa ailbrisio wrth gefn (nodyn 7).

Cyfrifwyd y gwerth teg drwy ddefnyddio gwerth busnes yn seiliedig ar GCRh cysgodol gan gyfeirio at ddull llif arian parod wedi'i ddisgowntio, cost gyfartalog cyfalaf wedi'i phwysoli a chymharu â chwmnïau tebyg.

CYFUNIADAU BUSNES

Yn unol ag IFRS 3, cyfrifir am gyfuniadau busnes drwy ddefnyddio'r dull caffael ar y dyddiad caffael, sef y dyddiad y trosglwyddir rheolaeth.

EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Mae gwerth economaidd busnes dŵr a charthffosiaeth y Grŵp yn deillio o'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) a bennir gan Ofwat pan fydd yn adolygu prisiau bob pum mlynedd ac yn unol â hynny tybir ei fod yn fesur priodol o werth teg ei asedau. Mae'r Grŵp o'r farn bod dull gwerth teg o brisio ei asedau yn adlewyrchu'n well werth sylfaenol yr asedau na dull cyfrifyddu cost hanesyddol sy'n tanndatgan gwerth cyfredol yr asedau a ddefnyddir.

Ar 31 Mawrth 2024, mae cyfanswm gwerth asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol wedi cael ei ailbrisio i 'GCRh cysgodol' Dŵr Cymru Cyfyngedig, sef GCRh 31 Mawrth 2024 a gyhoeddwyd gan Ofwat yn ei Phenderfyniad Terfynol ar gyfer PR19 fel y'i haddaswyd ar gyfer effaith unrhyw orwariant/tanwariant totex a gwobrau/cosbau'r Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau. Dosbarthiadau asedau yr effeithir arnynt yw asedau seilwaith a strwythurau gweithredol.

Adolygir gwerth cario asedau ar gyfer amhariad os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl; adolygir oes asedau a gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol.

Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys:

- a. Asedau seilwaith (sef prif bibellau a charthffosydd, cronfeydd cronni dŵr a chronfeydd storio dŵr heb ei drin wedi ei bwmpio, argaeau, pibellau slwtsh a gollyngfeydd i'r môr);
- b. Asedau eraill (gan gynnwys eiddo, strwythurau a chyfarpar gweithredol uwchben y ddaear, a gosodiadau a ffitiadau).

ASEDAU SEILWAITH

Mae asedau seilwaith yn cynnwys cronfeydd cronni dŵr a rhwydwaith o systemau dŵr a dŵr gwastraff tanddaearol yn bennaf. At ddibenion cyfrifyddu, mae'r system ddŵr wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli categorïau o ddosbarthiadau o asedau gyda nodweddion ac oes ased debyg. Mae'r system dŵr gwastraff wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli ardaloedd gweithredu daearyddol, sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r Grŵp yn gweithredu ei weithgareddau dŵr gwastraff.

Ymdrinnir â gwariant ar asedau seilwaith sy'n ymwneud â chynnydd mewn gallu, gwelliannau neu achosion perthnasol o adnewyddu elfennau o'r rhwydwaith fel ychwanegiadau, a gynhwysir ar gost. Nodir gwariant yr aed iddo wrth atgyweirio a chynnal a chadw gallu gweithredu elfennau seilwaith unigol, 'gwariant ar adnewyddu seilwaith' yn y flwyddyn yr eir i'r gwariant.

Pennir y tâl dibrisiant a godir am asedau seilwaith ar gyfer pob elfen o'r rhwydwaith ac mae'n seiliedig ar gost pob elfen, y gwerth gweddilliol amcangyfrifedig a'r oes ddefnyddiol gyfartalog ddisgwyliedig sy'n weddill. Mae oes economaidd gyfartalog ddefnyddiol elfennau'r seilwaith yn amrywio'n bennaf o 35 i 150 o flynyddoedd, gyda nifer bach yn cynrychioli tua 4% o gyfanswm nifer yr asedau seilwaith sydd y tu hwnt i'r amrediad hwn.

ASEDAU ERAILL

Mae asedau eraill wedi'u dibrisio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd fel a ganlyn:

Adeiladau rhydd-ddaliadol	60 mlynedd
Strwythurau gweithredol	5-80 mlynedd
Offer, cyfarpar a chaledwedd gyfrifiadurol	3-40 mlynedd

Ni ddibrisir asedau tra byddant yn cael eu hadeiladu nes eu bod wedi'u comisiynu. Ni ddibrisir tir.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

COSTAU BENTHYCA

Costau benthyca cyffredinol a phenodol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu a chynhyrchu asedau cymwys sy'n cael eu cyfalafu yw costau benthyca. Asedau cymhwys yw asedau sy'n cymryd cyfnod sylweddol o amser i'w paratoi ar gyfer eu defnydd neu werthiant bwriadedig.

ASEDAU A FABWYSIADWYD

Mae asedau a fabwysiadwyd heb gost yn cynnwys carthffosydd yn bennaf. Cânt eu cydnabod fel ychwanegiadau ar werth teg a'u dibrisio ar sail llinell syth dros oes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig o 50 mlynedd.

ASEDAU ANNIRIAETHOL

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol a datblygiadau system cysylltiedig yn bennaf. Caiff asedau anniriaethol eu cynnwys ar y dechrau ar gost llai amorteiddio cronedig. Mae cost yn adlewyrchu pris prynu ynghyd ag unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddechrau defnyddio'r ased, gan gynnwys costau mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Cydnabyddir gwariant ar ymchwil fel gwariant yr aed iddo. Caiff costau yr aed iddynt ar brosiectau datblygu eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir y meini prawf cydnabod perthnasol.

Adolygir gwerth cario asedau anniriaethol ar gyfer amhariad os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar sail llinell syth yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sy'n amrywio o rhwng 7 ac 20 mlynedd. Adolygir oes yr asedau hyn yn flynyddol.

PRYDLESAU

Ar ddechrau contract, mae'r Grŵp yn asesu a yw contract yn brydles, neu'n cynnwys prydles. Pan fydd prydles yn bresennol, cydnabyddir ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth prydles ar y dyddiad cychwyn. Caiff y rhwymedigaeth prydles ei mesur ar werth presennol taliadau prydles yn y dyfodol a fydd yn dod yn ddyledus dros gyfnod y brydles, a chydabyddir yr ased hawl i ddefnyddio fel eiddo, offer a chyfarpar ar gost. Fel arfer, mae hyn yn cyfateb i'r mesur cychwynnol o'r rhwymedigaeth prydles.

Caiff taliadau prydles eu disgowntio drwy ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlwg yn y brydles neu, os nad yw hynny ar gael yn hawdd, gyfradd fenthycia gynyddrannol y Grŵp. Yn gyffredinol, mae'r Grŵp yn defnyddio ei gyfradd fenthycia gynyddrannol fel y gyfradd ddisgowntio. Ar ôl y dyddiad cychwyn, caiff y rhwymedigaeth prydles ei chynyddu at ddibenion ychwanegu llog (sef dad-ddirwyn y disgowntio a gymhwyswyd at daliadau prydles yn y dyfodol) a'u lleihau yn ôl taliadau prydles a wneir. Yn ychwanegol at hyn, caiff y swm cario ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw ailfesuriad neu addasiadau i'r brydles. Fel arfer, mae angen ailfesuriadau o ganlyniad i adolygiadau rhent neu newidiadau i gyfnod y brydles. Yn yr achosion hyn, gwneir addasiad cyfatebol i'r ased hawl i ddefnyddio.

Caiff dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio ei godi ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Pan fydd tymor prydles yn llai na 12 mis i'r dyddiad cychwyn ac nad oes opsiwn prynu, mae'r Grŵp yn cymhwyso'r eithriad i gydnabod prydles fyrdymor sydd ar gael o dan IFRS 16. Mae'r Grŵp yn cymhwyso'r eithriad cydnabod gwerth isel a ganiateir gan y safon i brydlesau asedau sydd â gwerth llai na £2,500. Caiff taliadau ar gyfer prydlesau byrdymor a gwerth isel yn codi, yn lle hynny, i gostau gweithredu ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Pan fydd y Grŵp yn gweithredu fel prydleswr, mae'n penderfynu ar ddechrau'r brydles a yw pob prydles yn brydles cyllid neu'n brydles weithredu.

GRANTIAU A CHYFRANIADAU CWSMERIAID

Mae grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid mewn perthynas â gwariant ar eiddo, offer a chyfarpar wedi'u gwrthbwysu yn erbyn yr asedau hyn.

CYMELLDALIADAU RHAGLENNI GWARIANT CYFALAF

Mae cytundebau'r Grŵp â'i bartneriaid adeiladu sy'n ymwneud â chyflawni rhaglenni gwariant cyfalaf yn ymgorffori bonysau cymell sy'n daladwy ar ôl i'r rhaglenni gael eu cwblhau. Mae cost ychwanegiadau eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys cronïad ar gyfer bonysau cymell a enillwyd hyd yma, mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau i raddau helaeth ar ddiwedd y flwyddyn, lle yr ystyrir ei bod yn debygol y câi cymelldaliad ei wneud. Dim ond mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau y caiff symiau y gellir eu hadennill gan bartneriaid contract o ran methu â chyflawni targedau eu cydnabod.

1. Polisiau cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

STOCRESTR

Caiff stocrestrau eu datgan ar gost neu werth realeiddiadwy net, p'un bynnag sydd isaf.

SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL

Caiff symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill eu cydnabod ar y dechrau ar werth teg ac wedyn eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio llai darpariaeth ar gyfer amhariad. Yn gyntaf, cânt eu hasesu'n unigol ar gyfer amhariad, neu ar y cyd pan na fydd y symiau derbyniadwy yn sylweddol yn unigol. Os nad oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol o amhariad ar gyfer swm derbyniadwy unigol, caiff ei gynnwys mewn grŵp o symiau derbyniadwy gyda nodweddion tebyg o ran risg credyd a'i asesu'n gyfunol ar gyfer amhariad yn seiliedig ar y golled credyd ddisgwyliedig. Cofnodir symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer amhariad yn y Datganiad Incwm.

ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB IDDO

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys buddsoddiadau hylifol iawn y gellir yn hawdd eu troi'n symiau hysbys o arian parod ac nad yw eu gwerth yn debygol o newid yn sylweddol. Y math yma o fuddsoddiadau, fel arfer, yw'r rhai sy'n aeddfedu llai na thri mis o'r dyddiad caffael ac maent fel arfer yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuo'n gyda banciau neu sefydliadau ariannol eraill.

BUDDIANNAU PENSIWN

1) CYNLLUN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG

Yr ased a gydnabwyd yn y Fantolen mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig yw gwerth teg asedau'r cynllun llai gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gwerth teg yr asedau hyn wedi cael ei amcangyfrif yn seiliedig ar y prisiau canfyddadwy diweddaraf sydd ar gael, wedi'i ddiweddarw drwy gyfeirio at symudiadau mewn mynegeion canfyddadwy cymaradwy i'r dyddiad adrodd, ac wedi'i addasu yn unol â barnau i adlewyrchu gwahaniaethau yn hylifedd ac elfennau credyd y broses o brisio ased. Cyfrifir y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn flynyddol gan actiwari annibynnol gan ddefnyddio dull rhagamcanu unedau. Pennir gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig drwy ddisgowntio'r all-lifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfraddau llog bondiau corfforaethol o safon a gaiff eu mynegi yn yr arian cyfred y caiff y buddiannau eu talu ynddo, ac a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg og y bydd y rhwymedigaeth pensiwn gysylltiedig yn codi. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 21.

Caiff enillion a cholledion actiwaraid sy'n deillio o addasiadau oherwydd profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraid eu codi neu eu credydu i ecwiti mewn incwm cynhwysfawr arall yn ystod y cyfnod pan fyddant yn codi.

Cydnabyddir costau ôl-wasanaeth ar unwaith yn y datganiad incwm.

2) CYNLLUN CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Cydnabyddir rhwymedigaethau ar gyfer cyfraniadau i'r cynllun fel traul yn y datganiad incwm yn ystod y cyfnod pan fyddant yn codi.

RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL ERAILL

Caiff dyled ei mesur i ddechrau ar werth teg, sef yr elw net ar ôl didynnu costau dyroddi y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, ac wedyn ei mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Cydnabyddir costau dyroddi dyled yn y datganiad incwm dros dymor disgwyliedig offerynnau o'r fath ar gyfradd sefydlog ar y swm cario.

Rhwymedigaethau i dalu am nwyddau/gwasanaethau a gaffaelwyd yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr yw symiau masnach taladwy. Caiff cyfrifon sy'n daladwy eu dosbarthu'n rhwymedigaethau cyfredol os oes taliad yn daladwy o fewn blwyddyn, neu yn ystod cylch gweithredu arferol y busnes.

Offerynnau deilliadol a ddefnyddir gan y Grŵp yw cyfnewidiadau cyfradd llog, cyfnewidiadau chwyddiant a rhagfantolion pŵer. Defnyddir offerynnau deilliadol at ddiben rhagfantoli er mwyn newid proffil risg yr amlygiadau sylfaenol presennol a geir o fewn y Grŵp. Caiff deilliadau eu cydnabod i ddechrau ac wedyn eu hailfesur ar werth teg. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, dim ond un o ddeilliadau'r Grŵp a oedd yn gymwys at ddibenion cyfrifyddu ar sail rhagfantoli, ond dewisodd y Cwmni beidio â chymhwyso cyfrifyddu ar sail rhagfantoli (2023: un). Caiff yr offerynnau hyn eu cario ar werth teg gyda newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

BENTHYCIADAU SY'N DDERBYNIADWY

Caiff benthyciadau sy'n dderbyniadwy eu mesur ar werth teg ar ôl cydnabyddiaeth gychwynnol. Ar ôl cydnabyddiaeth gychwynnol, wedyn caiff benthyciadau eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio drwy ddefnyddio'r dull cyfradd llog weithredol lle y caiff llog ei gredydu i'r datganiad incwm a'i ychwanegu at werth cario benthyciadau sy'n dderbyniadwy ar gyfradd gyson yn gymesur â swm y benthyciad sy'n weddill. Mae'r Grŵp yn cydnabod lwfans colled ar gyfer colledion credyd disgwyliedig ar ei fenthyciadau sy'n dderbyniadwy. Caiff swm y colledion credyd disgwyliedig ei ddiweddarw ar bob dyddiad adrodd i adlewyrchu newidiadau yn y risg o ran credyd ers y gydnabyddiaeth gychwynnol.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

INCWM A THREULIAU CYLLIDO

Mae treuliau cyllido yn cynnwys llog sy'n daladwy, mynegeo ar fenthyciadau mynegrifol, cyfnewidiadau mynegrifol a thaliadau cyllid ar rwymedigaethau prydlesau a gydnabyddir mewn elw neu golled drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol. Caiff costau benthyca y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu neu gynhyrchu ased sy'n cymryd cyfnod sylweddol o amser i'w baratoi at ddefnydd, eu cyfalafu fel rhan o gost yr ased hwnnw. Mae incwm cyllido yn cynnwys llog sy'n dderbyniadwy ar gronfeydd a fuddsoddiwyd.

Cydnabyddir incwm llog a llog sy'n daladwy mewn elw neu golled wrth iddo gronni, drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol.

TRETHIANT

Mae treth incwm ar gyfer y flwyddyn cyn cynnwys treth gyfredol a threth ohiriedig. Cydnabyddir treth yn y datganiad incwm ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag eitemau a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall neu'n uniongyrchol mewn cronfeydd wrth gefn.

Treth gyfredol yw'r dreth y disgwylir iddi fod yn daladwy ar yr incwm trethadwy ar gyfer y flwyddyn, drwy ddefnyddio cyfraddau sydd wedi'u cyhoeddi i raddau helaeth ar ddyddiad y fantolen, ac unrhyw addasiadau i'r dreth sy'n daladwy mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol.

TRETH OHIRIEDIG

Darperir treth incwm ohiriedig yn llawn, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar wahaniaethau dros dro sy'n deillio o sylfeini treth asedau a rhwymedigaethau a'u symiau cario yn y datganiadau ariannol cyfunol. Fodd bynnag, ni roddir cyfrif am y dreth incwm ohiriedig os yw'n deillio o gydnabyddiaeth gychwynnol ased neu rwymedigaeth mewn trafodiad heblaw am gyfuniad busnes nad yw, ar adeg y trafodiad, yn effeithio ar gyfrifyddu nac ar elw neu golled drethadwy. Pennir treth incwm ohiriedig drwy ddefnyddio cyfraddau (a chyfreithiau) treth a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd i raddau sylweddol ar ddyddiad y fantolen ac y disgwylir iddynt fod yn gymwys pan gaiff ased y dreth incwm ohiriedig gysylltiedig ei gwireddu neu pan gaiff rhwymedigaeth y dreth incwm ohiriedig ei bodloni.

Mae treth incwm ohiriedig wedi'i chynabod mewn perthynas ag enillion a gariwyd ymlaen ac eithrio lle yr ailfuddsoddiwyd mewn rhai asedau gweithredol y mae'r Grŵp yn bwriadu eu defnyddio tan ddiwedd eu hoes economaidd ddefnyddiol. Mae'r Grŵp yn rhagweld y caiff yr asedau hyn eu gwaredu maes o law am swm bach iawn, neu swm sy'n llai na'u sylfaen dreth, ac felly ni ddisgwylir i unrhyw enillion trethadwy godi yn y dyfodol.

Caiff asedau treth incwm ohiriedig eu cynabod i'r graddau ei bod yn debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir defnyddio gwahaniaethau dros dro yn ei erbyn.

DARPARIAETHAU

Caiff darpariaethau eu cynabod pan fydd gan y Grŵp rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau er mwyn fodloni'r rhwymedigaeth, ac mae'r swm wedi cael ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 17. Ni chydabyddir darpariaethau am golledion gweithredu yn y dyfodol.

Pan fydd nifer o rhwymedigaethau tebyg, pennir y tebygolrwydd y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried dosbarthiad y rhwymedigaethau yn gyffredinol. Cydnabyddir darpariaeth hyd yn oed os yw'r tebygolrwydd y bydd all-lif mewn perthynas ag unrhyw eitem unigol a gaiff ei chynnwys yn yr un dosbarth o rhwymedigaethau yn fach.

AMCANION A PHOLISIÂU RHEOLI RISG CYLLIDO

Rheolir gweithgareddau trysorlys o fewn cyfres ffurfiol o bolisiâu ac amcanion trysorlys, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymeradwyo gan y Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r polisiâu yn gwahardd yn benodol unrhyw drafodion o natur hapfasnachol a'r defnydd o offerynnau ariannol cymhleth.

Caiff polisiâu manwl penodol ar gyfer rheoli cyfradd llog, arian cyfred a risg chwyddiant a risg hylifedd eu cymeradwyo gan y Bwrdd a dim ond gyda chaniatâd Ymddiriedolwr Sicrwydd Dŵr Cymru Cyfyngedig y gellir eu newid. Caiff risg ei lliniaru ymhellach drwy gyfyngu ar y lefel yr amlygiad i unrhyw wrthbarti penodol.

Mae'r Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi arian ac i reoli risg weithredol; yn bennaf, mae'r offerynnau hyn yn cynnwys bondiau a restrwyd, prydlesau, cyfleusterau benthyciadau banc a deilliadau.

1) RISG O RAN CREDYD

O dan bolisi trysorlys cymeradwy Bwrdd y Grŵp mabwysiedir dull darbodus o reoli arian parod a gosodir adneuo'n â therfyn amser am dri mis ar y mwyaf gyda banciau yn amodol ar feini prawf statws hirdymor o A-/A3/A o leiaf. Gall bondiau gael eu prynu oddi wrth rai gwrthbartion â sgôr AA gyda dyddiadau aeddfedu o hyd at flwyddyn a dim ond gyda banciau goruwchgenedlaethol â sgôr AAA penodol y gellir gosod pryniannau papur masnachol o hyd at flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, yr uchafswm buddsoddiad arian parod gyda gwrthbarti unigol oedd £100 miliwn (2023: £100 miliwn).

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

2) Y RISG O RAN CYFRADD LLOG

Mae'r Grŵp wedi'i gyfamodi i ragfantoli o leiaf 85% o gyfanswm ei rwymedigaethau ariannol sy'n weddill naill ai'n rhwymedigaethau mynegrifol neu'n rhwymedigaethau cyfradd sefydlog. Ar 31 Mawrth 2024, roedd y Grŵp wedi rhagfantoli 98% o gyfanswm ei rwymedigaethau ariannol sy'n weddill naill ai'n rhwymedigaethau mynegrifol neu'n rhwymedigaethau cyfradd sefydlog, gan gynnwys balansau arian parod rhydd (2023: 100%). At y diben hwn, caiff rhwymedigaethau llog cyfradd gyfnewidiol eu rhagfantoli drwy gyfuniad o offerynnau deilliadol a balansau arian parod. Mae'r fframwaith rheoleiddio, y mae referniw a gwerth asedau rheoleiddiol yn cael eu mynegeo yn unol ag ef, hefyd yn amlygu'r Grŵp i risg o chwyddiant. Felly, yn amodol ar gyfyngiadau'r farchnad a chymeradwyaeth y Bwrdd, gall y Grŵp geisio codi dyled newydd drwy offerynnau mynegrifol neu ymrwmo i drafodion rhagfantoli priodol.

Mae'r Grŵp yn dadansoddi ei amlygiad i gyfraddau llog ar sail ddynamig. Caiff gwahanol senarios eu hefelychu gan ystyried ailgyllido, adnewyddu'r safleoedd presennol, cyllido amgen a rhagfantoli. O gyfanswm y benthyciadau o £4,224 miliwn ar 31 Mawrth 2024 (2023: £4,135 miliwn), roedd £85 miliwn yn ymwneud â dyled cyfradd gyfnewidiol (2023: Dim). Felly, mae'r Grŵp yn ystyried bod ei amlygiad cyffredinol i gyfraddau llog ar ddyddiad y fantolen mor fach â phosibl.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd 94% (2023: 97.0%) o ddyled gros y Grŵp ar gyfraddau llog sefydlog neu fynegrifol RPI ar ôl ystyried cyfnewidiadau mewn cyfraddau llog ac RPI. Mae'r rhagfantolion a sefydlwyd i reoli risgiau o ran cyfraddau llog yn ddarvoudus eu natur, ond nid ydynt yn bodloni'r gofynion er mwyn cael eu trin fel rhagfantolion at ddibenion cyfrifyddu. Yn unol â hynny, adlewyrchir pob symudiad yng ngwerth teg offerynnau ariannol deilliadol yn y datganiad incwm. Mae hyn wedi arwain at rwymedigaeth net o £438 miliwn ar y fantolen ar 31 Mawrth 2024 (2023: £435 miliwn) ond, gan dybio y bydd y cyfnewidiadau yn cael eu dal nes eu bod wedi aeddfedu, bydd hyn yn lleihau i £dim yn y pen draw wrth i daliadau gael eu gwneud.

3) RHAGFANTOLION PRIS PŴER

Mae'r Grŵp yn ymrwmo i gontractau sy'n pennu pris cyfran o bryniannau pŵer yn y dyfodol er mwyn lleddfu effaith amrywiannau mewn prisiau pŵer. Mae'r contractau hyn yn gymwys fel offerynnau ariannol ac fe'u cynhwysir yn y datganiadau ariannol.

4) RISG AILGYLLIDO

Caiff risg ailgyllido ei rheoli drwy gadw cydbwysedd rhwng parhad cyllid a hyblygrwydd drwy'r defnydd o fenthyciadau mewn amrywiaeth o offerynnau, mathau a dyddiadau aeddfedu. Polisi'r Grŵp yw sicrhau nad yw'r proffil aeddfeddrwydd yn gosod straen ormodol ar ei allu i ad-dalu benthyciadau. O dan y polisi hwn, ni all mwy nag 20% o brifswm benthyciadau'r Grŵp o £4,224 miliwn (2023: £4,135 miliwn) ddod yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o 24 mis.

5) RISG O RAN HYLIFEDD

Mae'r Grŵp yn cynnal cyfleusterau bancio wedi'u neilltuo er mwyn cael hyblygrwydd wrth reoli ei hylifedd.

O dan y Cytundeb Telerau Cyffredin sy'n rheoli rhwymedigaethau i ddeiliaid bondiau a chredydwy'r ariannol eraill, mae'n ofynnol i'r Grŵp sicrhau bod arian parod ar gael i ariannu gweithrediadau am 12 mis.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd y Grŵp wedi neilltuo cyfleusterau benthycia nas hawliwyd gwerth £400 miliwn, yr oedd £320 miliwn ohonynt (2023: £200 miliwn) heb eu hawlio, ac arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo (heb gynnwys cyfrif taliadau dyledion) o £167 miliwn (2023: £379 miliwn). Ceir cyfleuster gorddrafft o £10 miliwn hefyd sy'n adnewyddadwy bob blwyddyn.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd cyfleuster hylifedd arbennig o £135m hefyd (2023: £135 miliwn); mae angen hwn er mwyn bodloni rhwymedigaethau penodol o ran llog o rhwymedigaethau eraill na ellir eu cyllido drwy lif arian parod gweithredu os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal, ar ôl achos o ddiffygddalu o dan gyfamodau cyllido dyled y Grŵp. Mae'r cyfleuster wedi ei ddarparu gan ddarparwr yswiriant ac mae'n adnewyddadwy ar sail cyfnod treigl bytholwyrdd o bum mlynedd.

6) RISG CYFALAF

Amcan y Grŵp wrth reoli cyfalaf yw diogelu ei allu i barhau fel busnes gweithredol. O ystyried yr omgylchedd rheoleiddio y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddo, mae'r Grŵp yn monitro cyfalaf ar sail y gymhareb gerio. Caiff hon ei chyfrifo'n ddyled net (fel y'i diffiniwyd yng nghyfmodau benthycia'r Grŵp) fel cyfran o'i Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio fel y'i pennir gan Ofwat ac sy'n gysylltiedig â symudiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPIH). Ar 31 Mawrth 2024, y mesur o gerio rheoleiddiol oedd 60% (2023: 59%).

Mewn perthynas â'r risgiau a nodir uchod, darperir datgeliadau meintiol eraill yn nodyn 16.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

GWARANT Y RHIANT-GWMNI

Mae'r Cwmni wedi darparu gwarant ar gyfer pob un o'r is-gwmnïau canlynol er mwyn iddynt gymryd yr esemptiad rhag y gofyniad i gynnal archwiliad, yn unol â gofynion adran 479A o Ddeddf Cwmnïau 2006

- Cambrian Utilities Limited, rhif y cwmni 10082803
- Welsh Water Infrastructure Limited, rhif y cwmni 10082776
- Welsh Water Holdings Limited, rhif y cwmni 10079953
- Welsh Water Organic Waste Limited, rhif y cwmni 11468450

AMCANGYFRIFON A DYFARNIADAU CYFRIFYDDU HANFODOL

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio ag IFRS mae angen defnyddio amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau o asedau a rhwymedigaethau a nodir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau o refeniw a threuliau a nodir yn ystod y cyfnod adrodd. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar wybodaeth rheolwyr am y swm, digwyddiadau neu gamau gweithredu hyd y gellir, gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny yn y pen draw.

1) DARPARIAETH AR GYFER AMHARIAD AR SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY

Cyfrifir colledion ar y cyd oherwydd amhariad ar symiau derbyniadwy gyda risg credyd debyg gan ddefnyddio model ystadegol. Mae rheolwyr yn defnyddio cyfraddau casglu safonol fel y'i gwelwyd dros y 3 blynedd flaenorol i bennu lefel y drwgddyledion. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Dyled wedi'i mesur yn seiliedig ar ddata hanesyddol:

- 100% o ddyled heb ei hadennill am gyfnod o fwy na dwy flynedd;
- 99% o ddyled rhwng 1-2 flynedd;
- 5% o ddyled yn ddyledus am lai na blwyddyn.

Dyled heb ei mesur yn seiliedig ar ddata hanesyddol:

- 100% o ddyled heb ei hadennill am gyfnod o fwy na dwy flynedd;
- 99% o ddyled rhwng 1-2 flynedd;
- 8% o ddyled yn ddyledus am lai na blwyddyn.

Amcangyfrif cyfrifyddu – mae'r tebygolrwydd o fethu ag adennill dyled yn seiliedig ar golled credyd ddisgwyliedig, a bennir yn ôl profiad yn y gorffennol fel y dangosir yn y pwyntiau bwled uchod a symudiadau disgwyliedig mewn cyfraddau casglu yn y dyfodol, a addaswyd ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol (gan gynnwys effaith amcangyfrifedig pandemig COVID-19 a'r argyfwng fforddiadwyedd presennol sy'n effeithio ar aelwydydd yn y DU). Felly, byddai newidiadau annisgwyl yn y sefyllfa economaidd, ac yn ymddygiad cwsmeriaid, yn effeithio ar gywirdeb cyfrifiadau amhariad. Mae'r prif dybiaethau sensitifrwydd a ddefnyddiwyd yn y broses ddarparu fel a ganlyn:

- Cynnydd o £2 filiwn yn y ddarpariaeth, sy'n cyfateb i ostyngiad o 1% mewn cyfraddau casglu arian parod, sy'n darparu ar gyfer y sefyllfa economaidd bresennol;
- Caiff 90% orchmynion codi tâl eu hadennill mewn cyfnodau diweddarach ar sail y duedd hanesyddol.

I'r graddau y mae'r methiant i adennill ôl-ddyledion yn newid 5%, byddai'r ddarpariaeth ar gyfer amhariad yn cynyddu neu'n gostwng £2.0 miliwn (2023: £2.0 miliwn).

2) COLLEDION CREDYD DISGWYLIEDIG Y RHIANT-GWMNI

Aeth y Cwmni ati i gynnal ei asesiad a amhariad ar fenthyciadau rhwng cwmnïau drwy ddadansoddiad honesyddol a dadansoddiad yn edrych i'r dyfodol, gan ddefnyddio gwybodaeth ansoddol a meintiol. Un ffocws craidd y dadansoddiad yn edrych i'r dyfodol oedd rhagolygon llif arian parod ar gyfer y ddwy flwyddyn nesaf, hyd at 31 Mawrth 2026. Mae hyn yn cydfynd â diwedd cyfnod presennol Dŵr Cymru Cyfyngedig (cwmni gweithredu'r Grŵp) o refeniw rheoleiddiedig pan fo sicrwydd ynglŷn â gwerthoedd trosiant wedi'i filio. At hynny, ystyriwyd yr asesiad o hyfywedd yn yr hirdymor, gyda chyfnod adolygu dros saith mlynedd, sydd ar gael ar dudalennau 67 i 71.

Ar sail yr asesiad uchod, daeth y rheolwyr i'r casgliad fod risg credyd isel yn gysylltiedig â benthyciadau rhwng cwmnïau'r Cwmni ac ategir hyn gan gredyd ansawdd uchel y Grŵp (graddau A3, A- ac A gan Moody's, S&P a Fitch, yn y drefn honno). Felly, mae'r benthyciad yn dod o dan 'cam 1' o fodel amhariad IFRS 9 a gellir cyfrifo colledion credyd disgwyliedig am 12 mis. Penderfynwyd bod y rhain yn amherthnasol ac, felly, nid ystyriwyd bod angen addasu gwerthoedd cario na gwneud datgeliadau ychwanegol.

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

3) BUDDIANNAU PENSIWN

Mae gwerth presennol y rhwymedigaethau pensiwn yn dibynnu ar y cyfrifiad actiwaraid, sy'n cynnwys nifer o dybiaethau. Y tybiaethau allweddol a ystyrir yw'r gyfradd ddisgowntio, chwyddiant prisiau, cynnydd mewn cyflogau a chyfraddau marwolaethau, a ddefnyddir i gyfrifo gwerth presennol yr all-lifau arian parod amcangyfrifedig y bydd eu hangen yn y dyfodol i fodloni'r rhwymedigaethau ynglŷn â phensiynau. Wrth bennu'r gyfradd ddisgowntio sydd i'w defnyddio, mae'r Grŵp yn ystyried arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o safon uchel, wedi'u mynegi mewn sterling, a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn yn codi. Pe bai'r gyfradd ddisgowntio hon yn gostwng neu'n cynyddu 0.1%, byddai gwerth cario'r rhwymedigaethau pensiwn ar 31 Mawrth 2024 yn cynyddu neu'n lleihau £5.0 miliwn (2023: £5.7 miliwn). Dylid nodi y gall cyfraddau actiwaraid fod yn wahanol i'r tybiaethau a ddefnyddiwyd oherwydd amodau'r farchnad ac amodau economaidd sy'n newid a bywydau hwy neu fyrrach cyfranogwyr ac, fel y cyfryw, mae hyn yn un o brif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrif. Datgelir materion sensitif mewn perthynas â'r tybiaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn yn nodyn 21.

Os yw asedau'r cynllun yn tangyflawni o gymharu â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaethau, bydd hyn yn lleihau gwerth y gwarged rhagamcanol neu gynyddu gwerth y diffyg rhagamcanol. Ac eithrio arian parod, mae asedau yn cynnwys cronfeydd buddsoddi cyfun, cronfeydd strategaeth amgen a chronfeydd eiddo nas rhestrir ar farchnad weithredol. O gyfanswm asedau gwerth £420.0 miliwn (2023: £412.1 miliwn), mae asedau â gwerth teg o £113.4 miliwn (2023: £114.8 miliwn) yn asedau ariannol Lefel 3; ystyrir mai'r rhain yw'r rhai lleiaf hylifol a'r rhai mwyaf anodd i'w prasio ac, felly, cânt eu hamcangyfrif i raddau helaeth. Mae gwerth teg yr asedau hyn wedi cael ei amcangyfrif yn seiliedig ar y prisiau canfyddadwy diweddaraf sydd ar gael, wedi'i ddiweddarau drwy gyfeirio at symudiadau mewn mynegeion canfyddadwy cymaradwy i'r dyddiad adrodd, ac wedi'i addasu yn unol â barnau i adlewyrchu gwahaniaethau yn hylifedd ac elfennau credyd y broses o brasio ased. Byddai symudiad o 5% yng ngwerth teg yr asedau ariannol Lefel 3 hyn yn cynyddu neu'n lleihau gwerth cario cyffredinol yr ased pensiwn £5.7 miliwn (2023: £5.7 miliwn).

Mae'r dybiaeth o ran y gyfradd marwolaethau a ddefnyddir i gyfrifo gwerth presennol y rhwymedigaethau pensiwn wedi'i rhannu'n ddwy ran benodol. Yn gyntaf, y cyfraddau marwolaethau presennol (tabl sylfaen), ac yn ail, sut y dylai'r cyfraddau hyn ganiatáu ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Er mwyn cyfrifo'r gwerth presennol, mae tablau sylfaen S3PxA wedi cael eu defnyddio, wedi'u haddasu ar gyfer pwysoliadau o 101% i ddynion a 104% i fenywod, gyda gwelliannau yn unol â model rhagamcanu 2022 CMI, gyda chyfradd tuedd hirdymor o 1.0% y flwyddyn. Defnyddir y model CMI gan gynlluniau pensiwn a chwmnïau yswiriant yn y DU, y mae angen iddynt wneud tybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau yn y dyfodol.

4) CYFRIFYDDU AR GYFER AILDDATGAN GOLLYNGIADAU DŴR A'R DEFNYDD O DDŴR Y PEN

Fel y nodwyd yn BA 23, roedd y Grŵp yn cynnig y dylid cyflwyno pecyn iawndal i gwsmeriaid gwerth cyfanswm o £29 miliwn er mwyn ymdrin ag ailddatgon perfformiad y Grŵp o ran gollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen. Ym mis Mawrth 2024, cwblhaodd Ofwat ei hymchwiliad i berfformiad gollyngiadau dŵr Dŵr Cymru, gan dderbyn y pecyn arfaethedig.

Barn gyfrifyddu: Mae'r Grŵp wedi arddel doethineb wrth lunio strwythur arfaethedig y pecyn, gan rannu'r iawndal rhwng ad-daliad uniongyrchol i gwsmeriaid ac ildio'r GCRh yn y dyfodol. Mae ad-daliadau o £15 miliwn wedi cael eu gwneud yn llawn i gwsmeriaid yn BA 24 a bydd y Grŵp hefyd yn ildio £14 miliwn ar gyfer y cynnydd yn y GCRh yn PR24.

Nid oes darpariaeth wedi'i chydabod ar 31 Mawrth 2024 ar gyfer yr elfen iawndal o £14m am ei bod yn cynrychioli prisiau is y disgwylir iddynt gael eu codi ar gwsmeriaid y cytunir arnynt rywbryd yn y dyfodol drwy'r system reoleiddio. O dan y system reoleiddio ar gyfer PR24, caiff y Grŵp adennill gorwariant rheoleiddiol ar gyfer BA 21 a BA 22 sydd i'w briodoli i wariant ar ollyngiadau dŵr, ond ni fydd y Grŵp yn ystyried hyn yn y cynnydd yn y GCRh ar 1 Ebrill 2025.

5) BUDDSODDIAD Y RHIANT-GWMNI MEWN IS-GWMNÏAU

Cofnodir buddsoddiad Glas Cymru Holdings Cyfyngedig yn ei is-gwmnïau ar werth teg, gan ddefnyddio gwerth busnes sy'n seiliedig ar GCRh cysgodol sy'n cyfeirio at ddull llif arian parod wedi'i ddisgowntio, cost gyfartalog cyfalaf wedi'i phwysoli a chymharu â chwmnïau tebyg. Mae'r llifau arian parod wedi'u disgowntio yn seiliedig ar gynllun ariannol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 a'r PR24 a gyflwynwyd i Ofwat ar gyfer y pum mlynedd a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2030. Mae ansicrwydd cynhenid yn gysylltiedig â phrisio'r buddsoddiad ar y GCRh heb unrhyw bremiwm, gyda phob premiwm o 1% yn orwain at gynydd o £75m yn y prisiad. Mae'r prisiad is yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu'r teimlad negyddol yn y diwydiant ar hyn o bryd, sydd wedi arwain at gymhwyso premiwm is dros GCRh.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

6) AMCANGYFRIF GWERTH TEG

Yn unol ag IFRS 13 Mesur Gwerth Teg, caiff deilliadau masnachu a thrysorlys y Grŵp eu categoreiddio'n lefelau gwahanol:

Lefel 1: prisiau a restrwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rywmedigaethau union debyg.

Lefel 2: mewnbynnau ar wahân i brisiau a ddyfynnwyd a gaiff eu cynnwys yn Lefel 1 sy'n ganfyddadwy ar gyfer yr ased neu rywmedigaeth, naill ai'n uniongyrchol (prisiau) neu'n anuniongyrchol (yn deillio o brisiau).

Lefel 3: mewnbynnau ar gyfer yr ased neu rywmedigaeth nad ydynt yn seiliedig ar ddata canfyddadwy o'r farchnad.

Caiff holl ddeilliadau trysorlys y Grŵp eu categoreiddio fel Lefel 2. Yn unol ag IFRS 13, mae ffactor addasu wedi cael ei gymhwyso at y cyfnewidiadau yn seiliedig ar arfer safonol y diwydiant er mwyn ystyried y risg o ran credyd drwy amcangyfrif llifau arian parod yn y dyfodol yn seiliedig ar gromliniau cyfraddau llog cymwys. Yna, caiff llifau arian parod rhagamcanol eu disgowntio'n ôl drwy ddefnyddio ffactorau disgowntio, sy'n deillio o gromliniau cyfraddau llog cymwys wedi'u haddasu ar gyfer amcangyfrif y rheolwyr o risg o ran gwrthbarti a risg i'w credyd eu hunain a risg i'r farchnad, lle y bo'n briodol.

Caiff deilliadau masnachu, sy'n ymwneud â rhagfantolion pris pŵer eu categoreiddio fel Lefel 2 lle y derbynnir dull o brisio yn unol â'r farchnad ar gyfer y masnachau hyn. Lle na dderbynnir dull o brisio yn unol â'r farchnad mae'r gwerthoedd teg yn rhai amcangyfrifedig yn hytrach na chanfyddadwy, ac felly cânt eu categoreiddio fel rhai Lefel 3.

Ar 31 Mawrth 2024 roedd gwerthoedd teg deilliadau fel a ganlyn:

Lefel 2:

Asedau: deilliadau masnachu £1.2 miliwn, deilliadau trysorlys (£dim (2023: deilliadau masnachu £9.9 miliwn, deilliadau trysorlys (£dim).

Rhwymedigaethau: deilliadau masnachu £dim, deilliadau trysorlys £439.1 miliwn (2023: deilliadau masnachu £dim, deilliadau trysorlys £444.5 miliwn).

Deilliadau masnachu sy'n ymwneud â rhanfantolion pris pŵer. Mae deilliadau trysorlys yn ymwneud â chontractau cyfnewidiadau cyfradd llog. Cofnodir yr holl ddeilliadau ar y fantolen ar werth teg.

Caiff buddsoddiadau dyled Lefel 2 eu prisio gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio, sy'n disgowntio llifau arian parod cytundebol gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio sy'n deillio o brisiau canfyddadwy'r farchnad mewn perthynas ag offerynnau dyled eraill y gwrthbartion a ddyfynnir.

7) CYFALAFU

Mae angen arddel doethineb mawr wrth benderfynu a yw costau, sef gwariant cychwynnol a dilynol, gan gynnwys gwariant ar gyflogeion a gwariant mewnol arall, ar seilwaith ac asedau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu (y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r ased, gan ddarparu budd economaidd tebygol ac y gellir eu mesur yn ddibynadwy) ac a gânt eu cynnwys felly wrth brisio eiddo, offer a chyfarpar, neu fel arall a ddylent gael eu gosod fel treuliau ar unwaith. Rydym yn cyfalafu gwariant sy'n ymwneud â chostau cyflogeion ar sail uniongyrchol ac anuniongyrchol, drwy ddefnyddio taflenni gwaith ac amcangyfrif o gostau gorbenion sydd i'w priodoli i brosiect cyfalaf, a adolygir o leiaf unwaith y flwyddyn. Pe bai ein canran wedi'i chyfalafu yn cynyddu neu'n gostwng 5% byddai hyn yn cael effaith ariannol o £9.7 miliwn, yn seiliedig ar gyfanswm costau cyflogaeth.

Caiff hyn ei fonitro'n barhaus drwy broses herio costau'r rhaglen gyfalaf a chraffu ar gostau, a ategir gan ddadansoddiad trydydd parti o raniad y rhaglen gyfalaf rhwng costau cynnal a chadw a godir ar y datganiad incwm ac ychwanegiadau eiddo, offer a chyfarpar i'r fantolen.

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

8) EFFAITH OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL AR DDIBRISANT

Mae oes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig Eiddo, Offer a Chyfarpar ac asedau anniriaethol yn seiliedig ar brofiad rheolwyr. Pan fydd rheolwyr yn nodi bod oes economaidd ddefnyddiol wirioneddol yn wahanol iawn i'r amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i gyfrifo dibrisiant, caiff y tâl hwnnw ei addasu'n rhagolygol. Oherwydd pwysigrwydd Eiddo, Offer a Chyfarpar a buddsoddiad anniriaethol i'r Grŵp, gallai amrywiadau rhwng oes economaidd ddefnyddiol wirioneddol ac amcangyfrifedig effeithio ar ganlyniadau gweithredu yn gadarnhaol ac yn negyddol. Fel y cyfryw, mae hyn yn ffynhonnell allweddol o ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif. Y gwariant dibrisiant ac amorteiddio ar gyfer y flwyddyn oedd £386.7 miliwn. Byddai cynnydd o 10 y cant yn oes gyfartalog asedau wedi lleihau'r ffigur hwn £35.2 miliwn a byddai lleihad o 10 y cant wedi cynyddu'r ffigur hwn £38.6 miliwn.

9) NEWID YN YR HINSAWDD

Mae'r amgylchedd naturiol y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddo yn newid yn rheolaidd, ac mae hyn yn dylanwadu ar y modd y caiff ei wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff eu darparu yn y dyfodol. Mae'r Grŵp wedi ymgorffori targedau uchelgeisiol sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn ei nodau strategol, sy'n effeithio ar y portffolio o asedau sy'n ofynnol yn ei weithrediadau i ddarparu gwasanaethau o'r fath. Rydym wedi cynnal adolygiad, yn unol â datgeliadau ein Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd, ar effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd a deddfwriaeth amgylcheddol neu fesurau datgarboneiddio'r Grŵp yn bennaf mewn perthynas â phrisiad yr eiddo, offer a chyfarpar a ddelir gan y Grŵp a darpariaethau neu rwymedigaethau digwyddiadol. Nid ystyriwyd bod unrhyw ddiwygiadau'n angenrheidiol yn y datganiadau ariannol y flwyddyn hon a chaiff dadansoddiadau pellach eu cynnal drwy gydol y flwyddyn ariannol newydd. Byddwn yn adolygu effaith newid yn yr hinsawdd ar y datganiadau ariannol bob blwyddyn pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Bydd y Grŵp yn ceisio gwella cywirdeb ei asesiad o oes ddefnyddiol ymhellach drwy gyflwyno gwybodaeth sy'n edrych mwy i'r dyfodol mewn adolygiadau o oes asedau. Bydd y Grŵp yn parhau i liniaru'r amlygiad sydd gan werth cario ei sylfaen asedau llyfr i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd drwy weithgareddau cynllunio strategol sy'n ymgorffori senarios hinsawdd diffiniedig, addewidion i liniaru'r newid yn yr hinsawdd, ac amcanestyniadau hirdymor o ran yr hinsawdd. Mae'r Grŵp yn gosod amddiffynfeydd rhag llifogydd parhaol a mesurau cydnorthedd yn y cyfleusterau mwyaf bregus i amddiffyn ei asedau.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein strategaeth newid yn yr hinsawdd ar dudalen 30.

10) INCWM O GYSYLLTIADAU Â'R RHWYDWAITH DŴR A CHARTHFFOSIAETH

Mae'r Grŵp yn derbyn incwm gan ddatblygwyr ar gyfer cysylltiadau newydd â'r rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth, a hynny ar ffurf asedau seilwaith a fabwysiadwyd. Wrth asesu'r incwm hwn, rydym wedi barnu bod y contract y tu allan i gwmpas IFRS 15 ac felly wedi cydnabod balans incwm gohiriedig ar werth teg yr asedau a fabwysiadwyd sy'n cael ei ryddhau i'r datganiad incwm er mwyn lleihau dibrisiant yr asedau cysylltiedig y mae'n ymwneud â nhw. Cydnabyddir unrhyw daliadau ar godir ar ddatblygwyr neu gwsmeriaid preswyl am gysylltiadau newydd â'r rhwydwaith ar unwaith mewn referniw ar ôl i'r cysylltiad newydd gael ei gwblhau oherwydd bernir mai hon yw'r rhwymedigaeth perfformiad o dan IFRS 15.

AILDDATGAN

Mae'r fantolen gyfunol ar 31 Mawrth 2023 wedi cael ei hailddatgan er mwyn cyflwyno offerynnau ariannol deilliadol. Mae offerynnau ariannol deilliadol bellach yn cael eu cyflwyno fel uned cyfrif unigol, lle roedd nifer o unedau cyfrif yn cael eu cymhwyso at bob offeryn yn flaenorol. Mae hyn wedi arwain at newidiadau i ddeilliadau ar y fantolen fel a ganlyn:

- asedau anghyfredol – lleihad o £314.4 miliwn
- asedau cyfredol – lleihad o £21.3 miliwn
- rhwymedigaethau cyfredol – lleihad o £26.3 miliwn
- rhwymedigaethau anghyfredol – lleihad o £309.4 miliwn

Nid oes unrhyw effaith ar gyfanswm balans yr offerynnau ariannol deilliadol nac ar asedau net.

Mae'r datganiad incwm cyfunol a'r datganiad llif arian parod cyfunol (gweler newid mewn polisiâu cyfrifyddu ar dudalen 174) ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 wedi cael eu hailddatgan er mwyn cyflwyno treuliau ariannol, gyda £20.9 miliwn bellach yn cael ei ddatgelu fel taliadau ar offerynnau ariannol deilliadol fel elfen o ennill gwerth teg ar ddeilliadau yn hytrach na chael ei gynnwys o dan y pennawd treuliau ariannol. Nid oes unrhyw effaith ar gyfanswm y treuliau ariannol, colled am y flwyddyn, na'r llif arian parod net am y flwyddyn.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

2. Refeniw

Ym marn y Cyfarwyddwyr dim ond un segment gweithredu sydd, sef gweithredu busnes dŵr a charthffosiaeth (a gweithgareddau masnachol ymylol) yn y DU. Gan mai dim ond gweithgareddau domestig sydd gan y Grŵp, dim ond un segment daearyddol sydd; felly, mae'r datgeliadau ar gyfer y segment hwn eisoes wedi'u rhoi yn y datganiadau ariannol hyn. Tîm Gweithredol Dŵr Cymru yw prif benderfynwr gweithredu'r Grŵp, a chaiff adroddiadau eu cyflwyno iddo ar y sail hon.

Er bod y Grŵp yn gweithredu mewn un segment, gellir dadgrynhoi ei weithgareddau i'r prif ffrydiau incwm canlynol:

Grŵp	2024 £m	2023 £m
Refeniw wedi ei reoleiddio		
Dŵr	374.2	330.6
Carthffosiaeth	495.6	457.3
Manwerthu	46.8	46.9
Cyfanswm y refeniw wedi ei reoleiddio	916.6	834.8
Arall (heb ei reoleiddio)	11.3	9.0
Cyfanswm y refeniw	927.9	843.8

Mae refeniw wedi ei reoleiddio yn ymwneud â darparu gwasanaethau dŵr, carthffosiaeth a manwerthu cysylltiedig sy'n gweithredu o dan drwydded Dŵr Cymru Cyfyngedig fel rhan o'r diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr, wedi ei reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat).

Mae refeniw arall (heb ei reoleiddio) yn ymwneud â ffrydiau incwm nad ydynt yn destun proses rheoli prisiau Ofwat; mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu ynni organig yn bennaf a rhai gweithgareddau eraill sy'n ymylol a/neu'n ategol i fusnes dŵr a charthffosiaeth craidd y Grŵp.

Ar 25 Mai 2023, lansiodd Ofwat ymchwiliad i adroddiadau Dŵr Cymru ar ollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen ac ar 31 Mai 2023 cyflwynodd Hysbysiad A203 o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn gofyn am ragor o wybodaeth gan y Cwmni.

Fel y'i nodwyd yn BA 23, cynigiodd y Grŵp y dylid cynnig pecyn iawndal gwerth cyfanswm o £29 miliwn i gwsmeriaid, a dderbyniwyd gan Ofwat pan ddaeth ei hymchwiliad i ben ym mis Mawrth 2024. Fel rhan o'r pecyn hwn, darparwyd ar gyfer ad-daliadau gwerth £15 miliwn i gwsmeriaid ar 31 Mawrth 2023 ac fe'u cydnabuwyd yn ffrwd incwm Dŵr BA 23. Mae'r ad-daliadau wedi cael eu gwneud yn llawn yn ystod BA 24.

3. Elw/(colled) gweithredu

Mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys wrth gyfrifo (colled)/elw gweithredu:

Grŵp	2024 £m	2023 £m
Gwariant gweithredu		
Pŵer	76.1	74.3
Cemegion	22.7	21.9
Deunyddiau a chyfarpar	9.7	9.7
Cerbydau ac offer	5.9	6.6
Treuliau swyddfa	6.7	5.9
Costau eiddo	3.8	3.5
Yswiriant	7.5	6.6
Contractwyr dŵr a charthffosiaeth	12.3	27.1
Gwasanaethau labordai a dadansoddi	1.7	1.4
Comisiynau casglu	1.5	1.9
Contractau TG	17.3	14.9
Gwasanaethau a gaiff eu prynu a chostau eraill	55.5	52.8
Costau cyflogeion (nodyn 20)	193.7	185.0
Costau staff wedi'u cyfalafu neu wedi'u dosbarthu i wariant ar adnewyddu seilwaith	(88.0)	(79.1)
Credyd ymchwil a datblygu	(0.5)	(0.5)
Ardrethi	26.3	27.0
Taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd	17.3	16.4
Ffioedd sy'n daladwy i Archwylwyr	0.8	0.7
Cyfanswm gwariant gweithredol	370.3	376.1
Amhariad ar symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	28.3	24.8
Incwm gweithredu arall	(5.2)	(5.3)
Eitem eithriadol	-	30.8
Gwariant ar adnewyddu seilwaith	101.3	78.0
Dibrisio ac amorteiddio	329.6	
Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar		319.6
Symudiad mewn incwm gohiriedig	14.7	(12.4)
Amorteiddio asedau anniriaethol	42.4	39.6
Dibrisio ac amorteiddio	386.7	346.8
Cyfanswm y costau gweithredu	881.4	851.2

Aeth y Grŵp i dreuliau ansylweddol a oedd yn ymwneud â phrydlesau byrdymor, prydlesau asedau gwerth isel neu daliadau prydlesau amrywiadwy yn 2024 a 2023.

Mae costau staff yn ystod y flwyddyn gwerth £3.6 miliwn (2023: £dim) wedi cael eu dosbarthu i wariant ar adnewyddu seilwaith.

Mae incwm gweithredu arall yn cynnwys incwm o allforio nwy a gynhyrchir yn fewnol yn bennaf.

Mae symudiad mewn incwm gohiriedig yn ymwneud â'r incwm a gydnabuwyd ar ased a fabwysiadwyd gan y Grŵp am ddim cost lle mae cydnabyddiaeth gychwynnol yr asedau ar werth teg o fewn asedau sefydlog ac maent yn cael eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol gyda symudiad cyfatebol mewn incwm gohiriedig.

Caiff allforion trydan adnewyddadwy eu cynnwys o fewn costau pŵer gan eu bod yn cael eu trin fel proses naturiol o ragfantoli ein defnydd. Ein strategaeth ynni yw llunio contractau sy'n pennu pris defnydd llai allforion pryniannau pŵer yn y dyfodol er mwyn lleddfu effaith amrywiannau mewn prisiau pŵer. Yn ystod y flwyddyn, roedd taliadau defnydd yn £83.4 miliwn (2023: £82.6 miliwn) ac allforiwyd £8.4 miliwn (2023: £15.0 miliwn).

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

3. Elw/(colled) gweithredu parhad

GWASANAETHAU A DDARPARWYD GAN ARCHWILWYR Y GRŴP

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Grŵp y gwasanaethau canlynol gan ei archwilwyr statudol:

Grŵp	2024 £000	2023 £000
Ffioedd archwilio		
Archwiliad o'r rhiant-gwmni a datganiadau ariannol cyfunol	61	68
Archwiliad o is-gwmnïau	516	467
Cyfanswm y ffioedd archwilio	577	535
Gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio	106	111
Gwasanaethau sicrwydd eraill	141	71
Cyfanswm gwasanaethau archwilio, gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag archwilio a gwasanaethau sicrwydd eraill	824	717
Cyfanswm cost gwasanaethau a ddarperir gan archwilwyr y Grŵp	824	717

Mae gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio yn cynnwys gwaith archwilio mewn perthynas â gofynion rheoleiddio: yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu polisi ffurfiol mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd gan archwilwyr allanol. Bydd unrhyw waith nad yw'n waith archwilio yn mynd drwy broses tendro cystadleuol ac yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.

EITEM EITHRIADOL

Nid oes unrhyw eitemau eithriadol yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024.

Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 gwnaethom gydnabod eitem eithriadol gwerth £30.8 miliwn. Mae'r eitem hon yn cyfeirio at ddyfarnu cynnydd mewn pensiynau uwchlaw cap o 5%. O dan gymal 'ymdrechion gorau' yn rheolau ein cynllun pensiwn, dim ond pe bai meini prawf penodol yn cael eu bodloni y gellid dyfarnu cynnydd llawn yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Yn BA 23, mae dyfardaliadau o dan y cynllun uwchlaw cap o 5% wedi'u talu gan y cynllun pensiwn ac, am fod gan y cynllun warged bellach, disgwylir i'r amodau hyn gael eu talu yn y dyfodol. Felly, mae'r draul yn BA 23 yn cyfeirio at y dyfardaliadau ychwanegol a roddwyd. Yn y dyfodol, disgwylir i newidiadau i'r dybiaeth hon gael eu cyflwyno o dan Incwm Cynhwysfawr Arall yn unol â gofynion IAS 19. Datgelir hyn fel eitem eithriadol yn BA 23 am mai dim ond yn ystod y flwyddyn honno y bydd y broses gyfrifyddu ar gyfer y cynnydd hwn drwy'r cyfrif elw a cholled yn digwydd, am ei fod o werth sylweddol ac am nad yw'n adlewyrchiad agos o wariant gweithredol o ddydd i ddydd. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y rheolwyr yn ystyried y cymal 'ymdrechion gorau' ym mhob cyfnod yn y dyfodol ac, felly, caiff unrhyw symudiad yn yr amcangyfrif ei gyflwyno fel Incwm Cynhwysfawr Arall fel sy'n ofynnol gan IAS 19.

4. Costau cyllido

Grŵp	2024 £m	2023 Ailddatganwyd £m
Llog ar fuddsoddiadau	20.5	14.9
Incwm llog net ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	0.7	-
Incwm cyllid	21.2	14.9
Treuliau ariannol:		
Llog sy'n daladwy ar fondiau	(102.0)	(97.5)
Mynegeoio ar fondiau mynegrifol	(115.3)	(161.4)
Mynegeoio ar fenthyciad mynegrifol	(11.7)	(30.3)
Llog sy'n daladwy ar brydlesau (yn cynnwys cyfnewidiadau i RPI)	(28.9)	(9.2)
Llog benthyciadau eraill	(23.7)	(18.4)
Llog arall sy'n daladwy a chostau cyllid	(7.0)	(7.0)
Tâl llog net a godwyd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	-	(2.1)
Cyfalafu costau benthycia o dan IAS 23 (2024: 5.5%; 2023: 7.9%)	18.6	28.3
Treuliau ariannol cyn enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	(270.0)	(297.6)
Derbyniadau/taliadau net ar offerynnau ariannol deilliadol	37.4	(20.9)
(Enillion)/colledion gwerth teg ar gyfnewidiadau cyfradd llog	(42.6)	32.1
Enillion gwerth teg ar gyfnewidiadau mynegrifol	44.1	157.2
(Colledion) gwerth teg ar ddeilliadau masnachu	(8.8)	(29.1)
Enillion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	30.1	139.3
Cost cyllid net	(218.7)	(143.4)
Colledion gwerth teg heb eu cynnwys ar gyfer adrodd ar gyfamodau	7.3	(160.2)
Costau cyllid net ar gyfer adrodd ar gyfamodau	(211.4)	(303.6)

Mae'r cymaryddion ar gyfer treuliau ariannol a setliadau ar setliadau offerynnau ariannol deilliadol yn y flwyddyn wedi cael eu hailddatgan. Mae treuliau ariannol wedi lleihau £20.9m gyda lleihad cyfatebol mewn enillion gwerth teg ar ddeilliadau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o dan nodyn 1 o'r datganiadau ariannol hyn.

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd er nad ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu. O ganlyniad, mae cyfnewidiadau cyfradd llog a chyfnewidiadau mynegrifol y Grŵp wedi'u pennu ar werth teg ar ddyddiad pob mantolen gyda'r golled neu elw net wedi eu datgelu yn y datganiad incwm. Yn ystod oes y cyfnewidiadau hyn, os cânt eu dal nes eu bod wedi aeddfedu, bydd yr addasiadau gwerth teg hyn yn cael eu gwrthdroi ac yn gostwng i ddim. (Gweler nodyn 15 mewn perthynas ag offerynnau ariannol deilliadol a ddeler ar y fantolen.)

Achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau cyfradd llog gan amrywiadau mewn cyfraddau llog hirdymor, ac achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau mynegrifol gan amrywiadau yng ngwerth giltiau mynegrifol.

5. Trethiant

DADANSODDIAD O'R CREDYD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Grŵp	2024 £m	2023 £m
Treth gyfredol		
Treth gyfredol ar golledion am y flwyddyn	-	-
Treth gyfredol ar gredyd ymchwil a datblygu	-	(0.1)
Addasiad mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	0.1	0.1
Cyfanswm y dreth gyfredol	0.1	-
Treth ohiriedig		
Cychwyn a gwrthdroi gwahaniaethau amseru	39.8	46.1
Addasiad mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	1.5	(20.3)
Cyfanswm y dreth ohiriedig (nodyn 6)	41.3	25.8
Trethiant	41.4	25.8

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

5. Trethiant parhad

Treth gyfredol yw treth gorfforaeth sy'n daladwy ar elw neu golledion cwmni wedi'i haddasu at ddibenion treth a dim ond os bydd elw trethadwy ar ôl yr addasiadau treth hyn y caiff ei chodi – gweler cysoni treth gyfredol.

Mae trethi cyfredol mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol sy'n cyfateb i £0.1 miliwn (2023: £0.1 filiwn) yn ymwneud â chredydau treth ar gyfer ymchwil a datblygu, ac adfer tir hlogedig.

Mae'r credyd treth gohiriedig mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol wedi codi o ganlyniad i nodi gwariant ychwanegol ar offer a pheiriannau a oedd yn gymwys am ddiwydriad uwch o 130% ar ôl cwblhau'r broses o gyfrifo treth gorfforaeth yn 2023. Mae'r hyn sy'n gymaradwy yn 2023 yn cynnwys tâl treth ohiriedig o £21.0 miliwn o flwyddyn flaenorol sy'n deillio o newidiadau i brisiad cyfnewidiadau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a gododd yn y flwyddyn honno. Roedd disgwyliad yn flaenorol y byddai'r rhain yn gwrthdroi ar ôl Mawrth 2023 pan fyddai'r dreth gorfforaeth yn 25% yn hytrach na 19%. Fodd bynnag, am eu bod wedi gwrthdroi yn 2023, pan oedd cyfradd treth o 19%, datgelwyd tâl ychwanegol o £21.0 miliwn fel eitem blwyddyn flaenorol am ei bod yn ymwneud â newid mewn amcangyfrif a luniwyd ar 31 Mawrth 2022.

Daeth y drefn 'didyniad uwch' ar gyfer offer a pheiriannau i ben ar 31 Mawrth 2023. Felly, nid oes unrhyw gredyd treth yn y cyfnod cyfredol.

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd reolau enghreifftiol ar gyfer fframwaith isafswm treth gorfforaethol byd-eang newydd a fyddai'n gymwys i grwpiau busnes amlwladol y mae eu refeniw yn fwy na €750m ('Piler Dau'). Rhoddwyd deddfwriaeth Isafswm Treth Piler Dau BEPS ar waith ym mis Mehefin 2023 yn y DU a bydd yn weithredol ar gyfer blwyddyn ariannol y Grŵp sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024. Mae'r Grŵp wedi cymhwyso'r eithriad dros dro gorfodol o dan IAS 12 mewn perthynas â chyfrifyddu ar gyfer trethi gohiriedig sy'n deillio o weithredu rheolau Piler Dau. Mae'r Grŵp wedi asesu ei amlygiad posibl i drethi incwm Piler Dau ac ni ddisgwylir i'r rheolau newydd gael effaith berthnasol ar y tâl treth i'r Grŵp.

Mae'r gyfradd dreth weithredol ar gyfer y flwyddyn yn is (2023: yn is) na'r gyfradd treth gorfforaeth safonol yn y DU sef 25% (2023: 19%). Esbonnir y gwahaniaethau isod:

Grŵp	2024 £m	2023 £m
Colled cyn treth	(172.3)	(150.5)
Colled cyn treth wedi'i lluosio â'r gyfradd treth gorfforaeth yn y DU sef 25% (2023: 19%)	43.1	28.6
Effaith:		
Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	1.6	(20.2)
Dibrisiant a godir ar yr asedau nad ydynt yn cymhwyso	(2.6)	(1.9)
Treuliau nad ydynt yn ddiwydriad uwch at ddibenion treth	(0.7)	(0.1)
130% o ddiwydriad uwch ar gyfer offer a pheiriannau	-	2.8
Gwahaniaeth yng nghyfradd safonol treth gorfforaeth (19%) a'r gyfradd a ddefnyddir ar gyfer treth ohiriedig (25%)	-	16.6
Trethiant	41.4	25.8

5. Trethiant parhad

CYSONI TRETH GYFREDOL

Mae'r tabl isod yn cysoni'r tâl treth tybiannol ar gyfradd dreth gorfforaeth y DU i gyfanswm y tâl treth cyfredol ar gyfer y flwyddyn.

Grŵp	2024 £m	2023 £m
Colled cyn Treth	(172.3)	(150.5)
Credyd treth disgwyliedig (25%, 2023: 19%)	43.1	28.6
Dibrisiant sy'n fwy na lwfansau cyfalaf	(70.4)	(34.8)
Costau pensiwn sy'n fwy na thaliadau	0.2	(6.2)
Treuliau nad ydynt yn ddidynadwy at ddibenion treth	(0.2)	(0.2)
Dirwy am ddiffyg cydymffurfiaeth amgylcheddol	(0.5)	-
Symudiadau gwerth teg mewn deilliadau - nad ydynt yn drethadwy	21.4	66.1
IFRIC 18 - rhyddhau incwm nad yw'n drethadwy	4.1	2.3
Symudiad mewn darpariaethau sy'n ddidynadwy pan gânt eu talu	0.5	0.3
Llog wedi'i gyfalafu - gellir tynnu treth pan fo wedi'i gyfalafu	4.7	5.4
Credydau Gwariant Ymchwil a Datblygu a drethwyd mewn blynyddoedd blaenorol	-	0.1
Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	0.1	0.1
Colledion treth a gariwyd ymlaen	(2.9)	(61.7)
Trethiant Cyfredol	0.1	-

Mae'r Grŵp yn buddsoddi'n fawr mewn gwariant cyfalaf ac felly mae'n gallu hawlio rhyddhad treth ar ffurf lwfansau cyfalaf, sef math o ryddhad treth a gynigir gan y Llywodraeth sydd â'r nod o symbylu'r math hwn o fuddsoddiad. Gan nad oes gan y Grŵp unrhyw gyfranddalwyr, mae'r gwargedion y mae'n eu cynhyrchu yn cadw biliau dŵr mor isel â phosibl ac maent hefyd yn cael eu hailfuddsoddi er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau i gwsmeriaid, yn hytrach na chael eu talu i gyfranddalwyr ar ffurf dididendau. Mae'r ailfuddsoddiad hwn yn aml ar ffurf gwariant cyfalaf, sy'n denu lwfansau cyfalaf pellach. O ganlyniad i ragolygon elw'r Grŵp a'r lwfansau cyfalaf y gall eu hawlio ar ôl i'r drefn treuliau lawn gael ei chyflwyno ar gyfer offer a pheiriannau, nid yw'r Grŵp yn disgwyl talu treth gorfforaeth yn ystod AMP8 (2026-2030).

Y ffactor pwysicaf sy'n effeithio ar y dreth a godir ar y Grŵp ar hyn o bryd yw'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant a godir ar eiddo, offer a chyfarpar yn y datganiadau ariannol a'r rhyddhad treth a hawlir ar gyfer y gwariant hwn (lwfansau cyfalaf). Cydnabyddir trethi gohiriedig ar y gwahaniaeth dros dro rhwng swm cario'r asedau sefydlog yn y cyfrifon a'r swm a gaiff ei ddiynnu at ddibenion treth mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Mae dibrisiant yn fwy na'r swm a hawlir ar gyfer lwfansau cyfalaf am fod y Grŵp yn gallu penderfynu ar swm y lwfansau cyfalaf y mae'n eu hawlio yn ystod pob cyfnod yn unol â'r deddfwriaeth treth. Nid yw lwfansau cyfalaf wedi cael eu hawlio'n llawn y flwyddyn hon, nac yn y cyfnod blaenorol.

Caiff offerynnau ariannol deilliadol trysorlys eu cario ar eu gwerth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg (heb gynnwys taliadau a derbyniadau) sy'n codi rhwng dyddiadau mantolenni yn y datganiad incwm ond nid ydynt yn agored i dreth gorfforaeth. Cydnabyddir trethi gohiriedig ar y gwahaniaeth dros dro sy'n hafal i werth teg net y deilliadau yn y datganiadau ariannol llai'r symiau a ddiynnwyd at ddibenion treth.

Caiff rhyddhad treth ei hawlio ar gyfer costau llog sy'n cynnwys effaith llifau arian parod y flwyddyn gyfredol sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol deilliadol trysorlys. Caiff rhyddhad treth ei hawlio hefyd ar gyfer llog sy'n cael ei gyfalafu fel rhan o asedau sefydlog (gweler nodyn 4). Mae'r Grŵp yn gyfan gwbl breswyl yn y DU at ddibenion treth a chaiff ei gyllido'n gyfan gwbl gan ddyled allanol, sy'n gwbl ddidynadwy yn unol â deddfwriaeth treth y DU. Mae'r Grŵp wedi dewis cael ei drin fel "cwmnïau seilwaith cymwys" o dan Esemptiad Seilwaith er Budd y Cyhoedd y darperir ar ei gyfer mewn deddfwriaeth ynglŷn â chyfyngiadau llog corfforaethol. O ganlyniad, nid oes unrhyw gyfyngiad llog ar gyfer y cyfnod presennol (2023: £dim).

Codir dyled newydd drwy ddyroddi bondiau ac mae bondiau'r Grŵp wedi'u rhestru ar gyfnewidfa stoc Lwcsembwrg. Fel 'Bondiau Ewro wedi'u rhestru', nid oes unrhyw ofyniad i ddiynnu treth y DU a gadwyd yn ôl o daliadau llog. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw fanteision treth yn gysylltiedig â rhestru bondiau yn Lwcsembwrg o'i chymharu â Llundain, gan fod eithriad treth a gadwyd yn ôl mewn perthynas â llog yn berthnasol i fondiau a restrir ar y naill gyfnewidfa a'r llall. Er bod bondiau yn cael eu dyroddi fel bondiau dygiedydd, cânt eu trosglwyddo'n electronig drwy Euroclear a Clearstream ac nid ydynt wedi cael eu dyroddi ar 'ffurf ddiffiniol' (ffurf papur).

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

6. Treth ohiriedig

Cyfrifir treth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau dros dro o dan y dull rhwymedigaeth gan ddefnyddio cyfradd dreth o 25% (2023: 25%).

Mae'r symudiad yn y ddarpariaeth treth ohiriedig fel y'i dangosir isod:

	2024	2023
Grŵp	£m	£m
Ar 1 Ebrill	822.1	668.4
(Credyd) i'r datganiad incwm	(41.3)	(25.8)
Tâl a godir ar y Datganiad incwm cynhwysfawr mewn perthynas ag enillion gwirioneddol ar fuddiannau	6.6	31.1
pensiwn	35.4	148.4
Tâl a godir ar y Datganiad incwm cynhwysfawr mewn perthynas ag ailbrisio ased sefydlog	822.8	822.1
Ar 31 Mawrth		

Datgelir rhwymedigaethau treth ohiriedig ar 31 Mawrth 2024 ar y fantolen fel £812.3 miliwn o rwymedigaethau treth ohiriedig a £10.5 miliwn a nodwyd yn erbyn gwarged y cynllun pensiwn o dan Asedau anghyfredol.

	2024	2023
Grŵp	£m	£m
Effaith:		
Lwfansau treth sy'n fwy na dibrisiant	346.5	366.2
Treth ohiriedig wrth ailbrisio asedau sefydlog	567.2	565.9
Enillion cyfalaf a ailfuddsoddwyd	4.0	4.0
Treth ohiriedig ar golledion treth a gariwyd ymlaen	(103.2)	(93.4)
Treth ohiriedig ar golledion ar offerynnau ariannol deilliadol	(1.0)	(22.5)
Pensiynau	10.5	3.7
Gwahaniaethau treth eraill	(1.2)	(1.8)
Treth ohiriedig	822.8	822.1

Nodir isod ddadansoddiad o'r symudiadau yn y rhwymedigaethau ac asedau treth ohiriedig mawr a gydnabyddir gan y Grŵp:

	Dibrisiant treth cyflymach £m	Pensiynau £m	Colledion treth £m	Arall £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2022	807.5	(19.3)	(8.6)	(111.3)	668.3
Tâl/(credyd) i incwm	(19.8)	(8.1)	(84.8)	87.0	(25.7)
Tâl/(credyd) i gronfeydd wrth gefn	148.4	31.1	-	-	179.5
Ar 1 Ebrill 2023	936.1	3.7	(93.4)	(24.3)	822.1
Tâl/(credyd) i incwm	(53.8)	0.2	(9.8)	22.1	(41.3)
Tâl/(credyd) i gronfeydd wrth gefn	35.4	6.6	-	-	42.0
Ar 31 Mawrth 2024	917.7	10.5	(103.2)	(2.2)	822.8

Cydnabuwyd trethi gohiriedig ar y gwahaniaeth dros dro rhwng swm cario'r asedau sefydlog yn y cyfrifon a'r swm a gaiff ei ddiwynnu at ddibenion treth (lwfansau cyfalaf) mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Gan fod lwfansau cyfalaf wedi bod yn uwch na'r dibrisant a godwyd ar yr asedau sefydlog hyd yma, mae rhwymedigaeth treth ohiriedig o £346.9 miliwn ar ddyddiad y fantolen (2023: £366.2 miliwn). Mae rhwymedigaeth treth ohiriedig o £567.2 miliwn (2023: £565.9 miliwn) hefyd wedi cael ei chydabod mewn perthynas â gwargedion ailbrisio sy'n codi o ailbrisio asedau sefydlog er mwyn adlewyrchu 'gwerth cyfalaf rheoleiddio cysgodol' Ofwat. Codir tâl y dreth ohiriedig gysylltiedig ar y gronfa ailbrisio wrth gefn.

Mae'r Grŵp wedi cydnabod ased treth ohiriedig o £1.0 million (2023: £22.5 miliwn) mewn perthynas ag offerynnau ariannol deilliadol sy'n cael eu cario ar eu gwerth teg yn y cyfrifon. Ni chodir treth gorfforaeth ar symudiadau gwerth teg sy'n ymwneud â deilliadau yn y cyfnod y byddant yn codi ond maent yn drethadwy/didynadwy mewn cyfnodau diweddarach pan geir y llif arian parod gwirioneddol. Nodir dyddiadau aeddfedu'r deilliadau yn nodyn 15 ac, mewn rhai achosion, maent yn ymestyn tan 2057.

Mae rhwymedigaeth treth ohiriedig o £10.5 miliwn (2023: £3.7 million asset) wedi'i chydabod mewn perthynas â'r gwarged (2023: gwarged) ar y cynllun pensiwn – gweler nodyn 21.

Mae asedau treth ohiriedig wedi cael eu cydnabod mewn perthynas â phob colled treth a gwahaniaethau dros dro eraill sy'n orwain at asedau treth ohiriedig am ei bod yn debygol y caiff yr asedau hyn eu hadennill. Caiff yr asedau treth ohiriedig hyn eu hadennill yn erbyn y rhwymedigaethau treth ohiriedig mewn perthynas ag asedau sefydlog a gaiff eu gwrthdroi yn yr un cyfnodau. Gall y Grŵp bennu swm y lwfansau cyfalaf y mae'n ei hawlio, sy'n golygu y gall elw trethadwy fod ar gael yn y cyfnodau y caiff asedau treth ohiriedig eu hadennill.

Mae gan y Grŵp golledion treth gwerth £412.7 miliwn a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024 (2023: £374.0 miliwn).

Nid oes treth ohiriedig wedi'i darparu ar enillion taladwy gwerth £133.0 miliwn sydd wedi'u hailfuddsoddi lle mae'r ased newydd wedi'i ddosbarthu'n strwythur gweithredol e.e. tanciau concrid. Fel arfer, caiff yr asedau hyn eu dymchwel neu eu gwaredu ar ddiwedd eu hoes economaidd ddefnyddiol ac felly nid ydym yn disgwyl y bydd enillion taladwy yn codi yn y dyfodol. Pe bai treth ohiriedig yn cael ei chydabod mewn perthynas â'r enillion hyn, byddai'r rhwymedigaeth treth ohiriedig ar 31 Mawrth 2024 yn cynyddu £33.3 miliwn (2023: £33.3 miliwn), sef yr enillion a gariwyd ymlaen wedi'u lluosio â'r gyfradd a ddefnyddir i gyfrifo trethi gohiriedig, sef 25% (2023: 25%). Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw falans treth ohiriedig (2023: dim).

7. Cronfa ailbrisio wrth gefn

GRŴP

Mae gwerth economaidd busnes dŵr a charthffosiaeth y Cwmni yn deillio o'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) a bennwyd gan Ofwat yn ystod ei adolygiadau pum mlynedd o brisiau. Mae'r Cwmni o'r farn bod dull gwerth teg o brisio ei asedau yn adlewyrchu'n well werth sylfaenol yr asedau na dull cyfrifyddu cost hanesyddol sy'n tanddatgan gwerth cyfredol yr asedau a ddefnyddir.

Ar 31 Mawrth 2024, mae cyfanswm gwerth asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol ar gyfer Dŵr Cymru Cyfyngedig wedi cael ei ailbrisio i 'GCRh cysgodol' y Cwmni, sef GCRh 31 Mawrth 2023 a gyhoeddwyd gan Ofwat yn ei Phenderfyniad Terfynol PR19 fel y'i haddaswyd ar gyfer effaith unrhyw orwariant/tanwariant totex a gwobrau/cosbau Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau. Dosbarthiadau asedau yr effeithir arnynt yw asedau seilwaith a strwythurau gweithredol.

Adolygir gwerth cario asedau ar gyfer amhariad os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Caiff llinellau asedau a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu bob blwyddyn.

	2024 £m	2023 £m
Symudiad cronfa ailbrisio wrth gefn		
Cronfa ailbrisio wrth gefn ar 1 Ebrill	1,692.0	1,339.7
Ailbrisio asedau i GCRh	141.8	593.4
Tâl dibrisio ar asedau a ailbrisiwyd	(136.3)	(114.5)
	5.5	478.9
Treth ohriedig wrth ailbrisio	(35.4)	(148.4)
Treth ohriedig ar y tâl dibrisio	34.1	21.8
	(1.3)	(126.6)
Cronfa ailbrisio wrth gefn ar 31 Mawrth	1,696.2	1,692.0

CWMNI

Mae'r symudiad yng nghronfa ailbrisio wrth gefn y rhiant-gwmni ond yn ymwneud â'r lleihad o £593.7 miliwn yng ngwerth buddsoddiad y Cwmni mewn is-gwmnïau yn ystod y flwyddyn, sef o £4,095.7 miliwn i £3,502.0 miliwn (2023: lleihad o £105.8 miliwn, o £4,201.5 miliwn i £4,095.7 miliwn). Adlewyrchir hyn yn y Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

8. Eiddo, offer a chyfarpar

	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol	Asedau seilwaith	Strwythurau gweithredol	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol	Cyfanswm
Grŵp – 2024					
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2023	42.0	3,445.3	5,123.9	278.8	8,890
Ailbrisio	-	4.9	-	-	4.9
Ychwanegiadau llai grantiau a chyfraniadau	-	241.8	271.2	7.9	520.9
Gwaredu	-	-	-	(2.5)	(2.5)
Ar 31 Mawrth 2024	42.0	3,692.0	5,395.1	284.2	9,413.3
Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2023	25.2	-	1,621.4	273.2	1,919.8
Ailbrisio	-	(51.7)	(85.2)	-	(136.9)
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.7	51.7	274.0	3.2	329.6
Rhyddhawyd wrth waredu	-	-	-	(2.5)	(2.5)
Ar 31 Mawrth 2024	25.9	-	1,810.2	273.9	2,110.0
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2024	16.1	3,692.0	3,584.9	10.3	7,303.3
Ar 31 Mawrth 2024 (sail cost hanesyddol)	16.1	2,465.1	2,518.4	10.3	5,009.9

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

8. Eiddo, offer a chyfarpar parhad

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £292.8 miliwn mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2023: £343.3 miliwn).

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £131.3 miliwn o gostau benthyca wedi eu cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2023: £118.0 miliwn), yr oedd £16.7 miliwn ohono yn ychwanegiadau yn y flwyddyn (2023: £25.1 miliwn).

Mae gwerth llyfr net tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yn cynnwys £15.9 miliwn mewn perthynas â thir, nad yw wedi'i ddibrisio (2023: £15.9 miliwn).

	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol £m	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol £m	Cyfanswm £m
Grŵp – 2023					
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2022	42.6	3,029.4	4,908.2	281.2	8,261.4
Ailbrisio	–	210.8	–	–	210.8
Ychwanegiadau llai grantiau a chyfraniadau	–	205.1	215.7	0.3	421.1
Gwaredu	(0.6)	–	–	(2.7)	(3.3)
Ar 31 Mawrth 2023	42.0	3,445.3	5,123.9	278.8	8,890.0
Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2022	25.0	–	1,688.0	273.0	1,986.0
Ailbrisio	–	(71.7)	(310.9)	–	(382.6)
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.8	71.7	244.3	2.8	319.6
Rhyddhawyd wrth waredu	(0.6)	–	–	(2.6)	(3.2)
Ar 31 Mawrth 2023	25.2	–	1,621.4	273.2	1,919.8
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2023	16.8	3,445.3	3,502.5	5.6	6,970.2
Ar 31 Mawrth 2023 (sail cost honesyddol)	16.8	2,275.8	2,408.8	5.6	4,707.0

8. Eiddo, offer a chyfarpar parhad

ASEDAU HAWL I DDEFNYDDIO

Mae'r uchod yn cynnwys asedau hawl i ddefnyddio fel y'u dadansoddir isod:

	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Grŵp – 2024			
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2023	684.6	0.1	684.7
Gwaredu	(269.3)	–	(269.3)
Ailbrisio	20.8	–	20.8
Dibrisiant	(39.4)	–	(39.4)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024	396.7	0.1	396.8
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024 (cost hanesyddol)	265.1	0.1	265.2

	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Grŵp – 2023			
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2022	657.0	26.4	683.4
Gwaredu	–	(26.9)	(26.9)
Ailbrisio	81.6	3.4	85.0
Dibrisiant	(54.0)	(2.8)	(56.8)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023	684.6	0.1	684.7
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023 (cost hanesyddol)	452.2	0.1	452.3

Roedd gwaredu £265.4 miliwn (2023: £26.9 miliwn) yn cynrychioli'r penderfyniad i derfynu trefniant prydles, gyda'r Grŵp yn cadw perchnogaeth o'r asedau sylfaenol.

Mae prydlesau'r Grŵp yn cynnwys asedau seilwaith trin dŵr a charthffosiaeth yn bennaf er mwyn iddo ymgymryd â'i weithrediadau.

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw eiddo, offer na chyfarpar.

9. Asedau anniriaethol

	Cost £m	Amorteiddio £m	Gwerth llyfr net £m
Grŵp – 2024			
Ar 1 Ebrill 2023	538.4	(335.8)	202.6
Ychwanegiadau/(tâl) a godwyd am y flwyddyn	41.2	(42.4)	(1.2)
Ar 31 Mawrth 2024	579.6	(378.2)	201.4

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol a datblygiadau system cysylltiedig yn bennaf.

	Cost £m	Amorteiddio £m	Gwerth llyfr net £m
Grŵp – 2023			
Ar 1 Ebrill 2022	499.8	(296.2)	203.6
Ychwanegiadau/(tâl) a godwyd am y flwyddyn	38.6	(39.6)	(1.0)
Ar 31 Mawrth 2023	538.4	(335.8)	202.6

Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £42.1 miliwn mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2023: £33.0 miliwn). Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £13.3 miliwn o gostau benthyca wedi eu cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2023: £12.6 miliwn), yr oedd £1.9 miliwn ohono yn ychwanegiadau yn y flwyddyn (2023: £3.1 miliwn).

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw asedau anniriaethol.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

10. Grŵp Buddsoddiadau

Delir ecwiti o lai na 10% yn y cwmni canlynol nas rhestrwyd:

	Prif weithgareddau	Gwlad corffori	Daliad
Water Research Centre (1989) plc	Ymchwil dŵr	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau Cyffredin "B" o £1

RHIANT-GWMNI

Mae gan y rhiant-gwmni fuddsoddiad o £10 yn Glas Cymru Anghyfyngedig (daliad 100%) a buddsoddiad o £100,000 yn Welsh Water Holdings Limited (100%). Mae ganddo hefyd fuddsoddiadau anuniongyrchol yn ymgymeriadau'r is-gwmnïau canlynol:

	Prif weithgareddau	Preswylfa dreth	Gwlad corffori	Dosbarth o gyfalaf	Daliad
Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig	Cwmni dalianno	Yn breswyl yn y DU	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau cyffredin o £	100%
Dŵr Cymru (Holdings) Limited	Cwmni daliannol	Yn breswyl yn y DU	ECymru a Lloegr	Cyfranddaliadau cyffredin o £1 a chyfranddaliadau cyffredin dewis anatbrynadwy o 1	100%
Dŵr Cymru Cyfyngedig	Dŵr a charthffosiaeth	Yn breswyl yn y DU	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau cyffredin o £1	100%
Dŵr Cymru (Financing) UK Plc	Codi cyllid	Yn breswyl yn y DU	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau cyffredin o £1	100%
Cambrian Utilities Limited	Gwasanaethau manwerthu yn y farchnad gystadleuol	Yn breswyl yn y DU	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau cyffredin o £1	100%
Welsh Water Infrastructure Limited	Gweithgarwch busnes cystadleuol yn y sector dŵr a sectorau cysylltiedig eraill	Yn breswyl yn y DU	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau cyffredin o £1	100%
Welsh Water Organic Energy Limited	Prosesu, trin ac ailgylchu gwastraff bwyd	Yn breswyl yn y DU	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau cyffredin o £1	100%
Welsh Water Organic Energy (Cardiff) Limited	Gweithredu a chynnal a chadw cyfleuster treulio anerobig gwastraff bwy	Yn breswyl yn y DU	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau cyffredin o £1	100%
Welsh Water Organic Waste Limited	Tanceru gwastraff hylifol i'w waredu	Yn breswyl yn y DU	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau cyffredin o £1	100%

Swyddfa gofrestredig pob un o'r cwmnïau uchod yw Linea, Ffordd Fortran, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0LT.

Mae'r rhiant-gwmni wedi ailbrisio ei fuddsoddiadau yn ymgymeriadau'r is-gwmnïau i werth teg; caiff y gwerth cario ei ailbrisio bob blwyddyn ac mae'n destun adolygiad o amhariad.

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur y Grŵp yn <https://dwrcymru.com/companystructure>.

	2024 £m	2023 £m
Buddsoddi mewn is-gwmnïau		
Ar 1 Ebrill	4,095.7	4,201.5
Ailbrisio	(593.7)	(105.8)
Ar 31 Mawrth	3,502.0	4,095.7

Caiff buddsoddiadau'r rhiant-gwmni mewn is-gwmnïau eu cydnabod i ddechrau yn ôl cost a chânt eu hailbrisio wedi hynny yn ôl gwerth teg. Mae gwerth teg buddsoddiadau yn cynnwys gwerth teg y cwmni dŵr a charthffosiaeth wedi'i reoleiddio, Dŵr Cymru Cyfyngedig, yn bennaf, sydd wedi'i brisio ar werth busnes GCRh cysgodol wedi'i driongli yn erbyn llif arian parod wedi'i ddisgowntio, gan ddefnyddio'r cynllun ariannol hyd at 31 Mawrth 2025 a model ariannol PR24 hyd at 31 Mawrth 2030 a gyflwynwyd.

Gweler hefyd yr amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol yn nodyn 1.

Cydnabyddir symiau ailbrisio o dan incwm cynhwysfawr arall.

11. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

Grŵp	2024	Ailddatganwyd 2023
	£m	£m
Cyfredol		
Symiau masnach derbyniadwy	559.1	604.6
Darpariaeth ar gyfer amhariad ar symiau derbyniadwy	(84.2)	(80.7)
Symiau masnach derbyniadwy – net	474.9	523.9
Rhagdaliadau	15.4	22.1
Incwm a gronnydd	98.7	87.5
Symiau derbyniadwy eraill	56.7	15.1
	645.7	648.6
Anghyfredol		
Symiau derbyniadwy eraill	2.2	0.7
Cyfanswm y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	647.9	649.3

Mae cymaryddion y flwyddyn flaenorol wedi cael eu hailddatgan i ddangos symiau masnach derbyniadwy sy'n destun gorchmynion codi tâl yn gros o fewn symiau masnach derbyniadwy yn hytrach na lleihad yn y ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Effaith y newid oedd cynnydd o £7.4 miliwn mewn symiau masnach derbyniadwy, gyda chynnydd cyfatebol yn y ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Nid oes unrhyw effaith ar symiau masnach derbyniadwy net.

Mae symiau cario symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill yn cyfateb yn fras i'w gwerth teg ar 31 Mawrth 2024 a 31 Mawrth 2023.

Ar 31 Mawrth 2024, yn seiliedig ar adolygiad o gyfraddau casglu hanesyddol, ystyriwyd bod amhariad ar £84.2 miliwn (2023: £80.7 miliwn) o symiau masnach derbyniadwy ac felly darparwyd ar eu cyfer. Mae'r symiau derbyniadwy y mae amhariad arnynt yn ymwneud yn bennaf â chyflenwi dŵr wedi'i fesur a heb ei fesur a gwasanaethau carthffosiaeth. Mae symiau masnach derbyniadwy sy'n fwy na mis oed yn ddyledus; mae'r golofn net yn dangos symiau y tybir nad oes amhariad arnynt.

Symiau masnach derbyniadwy 2024	Cyfanswm £m	Darparwyd ar gyfer £m	Net £m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	362.6	–	362.6
O dan fis	26.7	(1.7)	25.0
Rhwng un a chwe mis	47.2	(3.0)	44.2
Rhwng chwe mis a blwyddyn	31.5	(2.0)	29.5
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	36.3	(33.1)	3.2
Rhwng dwy a thair blynedd	24.5	(23.3)	1.2
Dros dair blynedd	30.3	(21.1)	9.2
	559.1	(84.2)	474.9
Symiau masnach derbyniadwy 2023	Cyfanswm £m	Darparwyd ar gyfer £m	Net £m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	408.1	–	408.1
O dan fis	23.2	(1.4)	21.8
Rhwng un a chwe mis	40.2	(2.5)	37.7
Rhwng chwe mis a blwyddyn	28.2	(1.7)	26.5
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	42.6	(32.0)	10.6
Rhwng dwy a thair blynedd	26.4	(23.6)	2.8
Dros dair blynedd	35.9	(19.5)	16.4
	604.6	(80.7)	523.9

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

11. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill parhad

Mae symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer amhariad ar symiau masnach derbyniadwy fel a ganlyn:

	2024 £m	2023 £m
Ar 1 Ebrill	80.7	77.0
Tâl a godir ar y Datganiad Incwm	27.6	23.7
Symiau derbyniadwy a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn fel rhai na ellir eu casglu	(24.1)	(20.0)
Ar 31 Mawrth	84.2	80.7

Yn ystod y flwyddyn mae'r Grŵp wedi dileu £24.1 miliwn o ddyledion y darparwyd yn llawn ar eu cyfer (2023: £20.0 miliwn).

Yr amlygiad mwyaf i risgiau credyd ar y dyddiad adrodd yw gwerth cario pob dosbarth o symiau derbyniadwy a nodir uchod. Mae'r mwyafrif o'r symiau masnach derbyniadwy yn ymwneud â nifer mawr o filiau bach cwsmeriaid (preswyl ac amhreswyl) ac felly tybir bod y risg o grynodiad yn isel. O fewn y symiau derbyniadwy eraill mae swm o £39.4m (2023: £14.2) wedi'i gynnwys oddi wrth gorff lled-lywodraethol. Incwm a gronwyd yw asedau contract mewn perthynas â gwahaniaethau amseriad rhwng biliau cwsmeriaid a diwedd blwyddyn y Grŵp.

Mae achosion o greu a rhyddhau darpariaeth ar gyfer symiau derbyniadwy y mae amhariad arnynt wedi cael eu cynnwys mewn gwariant gweithredol.

Mae'r risg o amhariad ar ddosbarthiadau eraill o symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill yn isel iawn. Mynegwyd pob swm masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill mewn sterling.

Mae'r tablau isod yn dangos effaith cymhwyso'r model "colled ddisgwyliedig" yn unol ag IFRS 9. Mae darparu ar gyfer dyledion yn seiliedig ar brofiad yn y gorffennol fel y'i haddaswyd ar gyfer rhai ffactorau sy'n edrych i'r dyfodol.

	Cyfraddau diffygdlu hanesyddol %	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol %	Cyfanswm yr addasiad %	Amhariad hanesyddol £m	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol £m	Cyfanswm yr amhariad £m
2024						
Wedi'u bilio ymlaen llaw	–	–	–	–	–	–
O dan fis	4.4%	1.9%	6.3%	1.2	0.5	1.7
Rhwng un a chwe mis	4.4%	1.9%	6.3%	2.1	0.9	3.0
Rhwng chwe mis a blwyddyn	4.4%	1.9%	6.3%	1.4	0.6	2.0
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	91.1%	–	91.1%	33.1	–	33.1
Rhwng dwy a thair blynedd	95.2%	–	95.2%	23.3	–	23.3
Dros dair blynedd	97.7%	–	97.7%	21.1	–	21.1
	–	–	–	82.2	2.0	84.2

	Cyfraddau diffygdlu hanesyddol %	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol %	Cyfanswm yr addasiad %	Amhariad hanesyddol £m	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol £m	Cyfanswm yr amhariad £m
2023 a ailddatganwyd*						
Wedi'u bilio ymlaen llaw	–	–	–	–	–	–
O dan fis	3.9%	2.2%	6.1%	0.9	0.5	1.4
Rhwng un a chwe mis	3.9%	2.2%	6.1%	1.6	0.9	2.5
Rhwng chwe mis a blwyddyn	3.9%	2.2%	6.1%	1.1	0.6	1.7
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	75.0%	–	75.0%	32.0	–	32.0
Rhwng dwy a thair blynedd	89.5%	–	89.5%	23.6	–	23.6
Dros dair blynedd	71.2%	–	71.2%	19.5	–	19.5
				78.7	2.0	80.7

* Mae'r addasiad o ran edrych i'r dyfodol ar gyfer 2023 wedi cael ei ailddatgan i adlewyrchu'r gallu i adennill 90% o'r gorchymyn codi tâl mewn amhariad hanesyddol.

Mae gan y Grŵp tua 7,550 o orchmynion codi tâl fel sicrwydd cyfochrog yn erbyn £12.5 miliwn o ddyled (2023: 7,400 o orchmynion yn erbyn £12 miliwn o ddyled).

11. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill parhad

Mae methodoleg darparu'r Grŵp ar gyfer symiau masnach derbyniadwy yn cymhwyso'r dull symlach o fesur colledion credyd disgwylidig a ganiateir o dan IFRS 9. Mae'n defnyddio lwfans colledion credyd disgwylidig gydol oes ar gyfer yr holl symiau masnach derbyniadwy ac incwm cronedig. Effaith y cronïad ar 31 Mawrth 2024 yw £4.7 miliwn, sef darpariaeth referniw o 5% yn erbyn balans gros o £94.2 miliwn (2023: £4.1 miliwn a 5%)

Cwmni

Mae benthyciad y rhiant-gwmni i ymgymeriadau'r Grŵp, sef £21.6 miliwn (2023: £21.6 miliwn) yn fenthyciad i is-gwmni sydd o dan berchnogaeth lawn Welsh Water Holdings Limited. Mae'r benthyciad yn denu llog ar gyfradd o 5% ac mae'n ad-daladwy ar gais. Mae llog sy'n cronni ar y benthyciad wedi'i gynnwys mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill.

12. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

	Grŵp 2024 £m	Grŵp 2023 £m	Cwmni 2024 £m	Cwmni 2023 £m
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	19.6	35.1	-	-
Adneuo byrdymor	147.5	344.3	12.3	10.6
	167.1	379.4	12.3	10.6

Y gyfradd llog weithredol ar adneuo byrdymor ar 31 Mawrth 2024 oedd 5.1% (2023: 3.9%) ac roedd gan yr adneuo hyn gyfnod oeddfedrwydd cyfartalog o 1 diwrnod (2023: 44 diwrnod). Roedd holl arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo wedi'i ddal mewn sterling.

13. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill

Grŵp	2024	2023
Cyfredol	£m	£m
Symiau masnach taladwy	61.3	64.6
Symiau cyfalaf taladwy	58.0	56.1
Nawdd cymdeithasol a threthi eraill	4.0	3.6
Cronïadau	97.3	141.0
Incwm gohiriedig	407.3	420.5
	627.9	685.8
Grŵp	2024	2023
Anghyfredol	£m	£m
Cronïadau	26.0	-
Incwm gohiriedig	714.4	540.8
	740.4	540.8

14. Rhwymedigaethau ariannol eraill – benthyciadau

Grŵp	2024	2023
Cyfredol	£m	£m
Cronïadau llog	18.2	30.3
Bondiau	(0.7)	(0.7)
Benthyciadau cyfnod penodol	170.3	64.2
Rhwymedigaethau prydlesau	49.9	0.9
	237.7	94.7
Grŵp	2024	2023
Anghyfredol	£m	£m
Cronïadau llog	4.4	20.0
Bondiau	3,262.7	3,148.7
Benthyciadau cyfnod penodol	615.2	545.0
Rhwymedigaethau prydlesau	126.4	377.2
	4,008.7	4,090.9

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw fenthyciadau.

Mae bondiau wedi'u datgan yn glir o £12.7 miliwn (2023: £12.2 miliwn) o gostau dyroddi heb eu hamorteiddio a £1.6 miliwn (£2.4 miliwn) o bremiwm dyroddi heb ei amorteiddio.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

14. Rhwymedigaethau ariannol eraill – benthyciadau parhad

Rhoddwyd pecyn sicrwydd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig (DCC), fel rhan o raglen fondiau'r Grŵp er budd deiliaid uwch fondiau, prydleswyr cyllid ac uwch-gredydwy ariannol eraill.

Gwarantir rhwymedigaethau DCC gan y Cwmni, Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Holdings) Limited. Prif elfennau'r pecyn sicrwydd yw:

- i. sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol cyntaf dros holl asedau ac ymgymeriadau DCC, i'r graddau a ganiateir gan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, cyfraith gymwys orall a'i drwydded;
- ii. sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol a roddir gan y gwarantwyr y cyfeirir atynt uchod a gaiff ei gronni ar bob un o asedau'r cwmnïau hyn gan gynnwys, yn achos Dŵr Cymru (Holdings) Limited, arwystl sefydlog cyntaf dros ei gyfranddaliadau yn DCC.

Mae Bondiau Dosbarth A y Grŵp o £1,197 miliwn (2023: £1,141 miliwn) yn elwo ar warant gan Assured Guaranty UK Ltd. Mae gan Assured Guaranty statws credyd o A1/AA gan Moody's a Standard & Poor's yn y drefn honno, ac nid yw Fitch yn rhoi statws iddo. Felly, mae statws credyd y bondiau Dosbarth A wedi symud yn ddiofyn i'r statws uchaf o blith statws y gwarantwr ariannol neu statws sylfaenol y bondiau hyn, sef A1/AA/A gan Moody's, Standard & Poor's a Fitch yn y drefn honno. Mae'r statws sylfaenol (A3/A-/A) yn adlewyrchu ansawdd credyd y bondiau hyn ar eu pen eu hunain heb warant gan Assured Guaranty, a'r un yw'r statws hwn â statws credyd bondiau Dosbarth B y Grŵp o £1,576 miliwn (2023: £1,517 miliwn).

Cafodd Bondiau Dosbarth C y Grŵp o £500 miliwn (2023: £500 miliwn) statws Baa/BBB/BBB+ gan Moody's, Standard & Poor and Fitch yn y drefn honno.

Mae benthyciadau cyfnod penodol yn cynnwys £80 miliwn (2023: dim) a howliwyd ar gyfleusterau credyd cylchdro o £400 miliwn (2023: £200 miliwn). Mae'r cyfleuster credyd cylchdro yn dwyn llog ar gyfradd Sonia a 0.45% a daw i ben ar 27 Chwefror 2027. Ym mis Rhagfyr 2023 cytunodd y Grŵp ar fenthyciad cyfnod penodol newydd â NatWest am £150m, a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2031. Hawliwyd y benthyciad yn llawn yn ystod y flwyddyn. Mae balans y benthyciadau cyfnod penodol sy'n weddill o £556m yn ymwneud â benthyciadau ag EIB a KfW, sydd â chyfnod ad-dalu cyfartalog o 4.3 blynedd, y mae £217m o'r swm hwnnw yn fynegrifol ac y mae £338m ohono yn gyfnewidiol, sy'n dwyn cyfradd llog gyfartalog o 6.22% yn y flwyddyn.

Ym mis Mai 2024, cytunodd y Grŵp ar fenthyciad cyfnod penodol newydd â KfW am £125m gan ymrwymo iddo hyd at 31 Mawrth 2029 gyda llog yn daladwy ar gyfradd SONIA a 1.15% a delir ddwywaith y flwyddyn.

15. Asedau a rhwymedigaethau ariannol eraill – ac offerynnau ariannol deilliadol

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu a chaiff symudiadau yn eu gwerth teg eu rhoi ar y Datganiad Incwm (gweler nodyn 4).

Gwerthoedd teg Grŵp – 2024	Asedau £m	Rhwymedigaethau £m
Cyfredol		
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	1.2	–
	1.2	–
Anghyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	–	(376.7)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	–	(21.9)
		(398.6)
Cyfanswm	1.2	(398.6)

Gwerthoedd teg Grŵp – 2023	Asedau a Ailddatganwyd £m	Rhwymedigaethau a Ailddatganwyd £m
Cyfredol		
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	5.8	–
	5.8	–
Anghyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	–	(418.4)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	–	(26.1)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	4.1	–
	4.1	(444.5)
Cyfanswm	9.9	(444.5)

Mae'r cymaryddion ar gyfer asedau a rhwymedigaethau offerynnau ariannol deilliadol wedi cael eu hailddatgan. Nid oes unrhyw effaith ar gyfanswm yr offerynnau ariannol deilliadol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o dan nodyn 1 o'r datganiadau ariannol hyn.

15. Asedau a rhwymedigaethau ariannol eraill – offerynnau ariannol deilliadol parhad

Mae'r Grŵp wedi adolygu pob contract ar gyfer deilliadau sefydledig y mae angen rhoi cyfrif amdanant ar wahân os nad ydynt yn bodloni gofynion penodol yn IFRS 9; nid oes gan y Grŵp unrhyw ddeilliadau sefydledig o'r fath.

Cafodd un (2023: dim) cyfnewidiad ei derfynu yn y flwyddyn a chafodd taliad terfynu o £3.9m (2023: dim) ei gynnwys o fewn symudiad gwerth teg deilliadau yn y datganiad incwm. Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw offerynnau ariannol deilliadol na deilliadau sefydledig.

CYFNEWIDIADAU CYFRADD LLOG

Ar 31 Mawrth 2024, pennodd cyfnewidiad cyfradd llog y gyfradd llog ar £192 miliwn (2023: £192 miliwn) o rwymedigaethau cyfnewidiol a ddelir gan y Grŵp. Dyddiad aeddfedu'r cyfnewidiad yw 31 Mawrth 2031 a'r gyfradd llog sefydlog yw 5.67% y flwyddyn, sy'n daladwy bob chwarter.

CYFNEWIDIADAU MYNEGRIFOL

CYFNEWIDIADAU PRYDLESAU

Effaith y cyfnewidiadau mynegrifol yw mynegrifo'r gyfradd llog ar £176 miliwn (2023: £378 miliwn) o rwymedigaethau prydlesau drwy gyfeirio at y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI).

Swm tybiannol y cyfnewidiadau mynegrifol a ddyrannwyd i brydlesau ar 31 Mawrth 2024 oedd £300 miliwn (2023: £384 miliwn), sy'n cynrychioli'r balans cyfartalog ar y prydlesau yn amodol ar gyfraddau llog cyfnewidiol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024.

Mae'r swm tybiannol yn amorteiddio yn ystod oes y cyfnewidiadau i gyfateb i falansau cyfraddau cyfnewidiol cyfartalog y prydlesau.

Mae prif delerau cyfnewidiadau wedi'u mynegrifo fel a ganlyn:

Swm tybiannol	£300m yn amorteiddio (2023: £384 miliwn yn amorteiddio)
Aeddfedrwydd cyfnewidiad cyfartalog	13 mlynedd (2023: 12 mlynedd)
Cyfradd llog gyfartalog	1.50% sefydlog ynghyd ag RPI (2023: 1.64% sefydlog ynghyd ag RPI)

CYFNEWIDIADAU BONDIAU

Effaith y cyfnewidiadau mynegrifol yw mynegeo'r gyfradd llog ar £1,250 miliwn o fondiau cyfradd sefydlog drwy gyfeirio at yr RPI (2023: £1,250 miliwn).

Mae'r prif delerau fel a ganlyn:

Swm tybiannol a fynegeiwyd	£1,684m (2023: £1,595 miliwn)
Aeddfedrwydd cyfnewidiad	14 mlynedd (2023: 15 mlynedd)
Cyfradd llog	(0.15)% a fynegeiwyd yn ôl RPI (2023: (0.16)% a fynegeiwyd yn ôl RPI)

16. Rheoli risg cyllido

Mae polisiâu'r Grŵp mewn perthynas â rheoli risg cyllido wedi'u cynnwys yn y nodyn ar bolisiau cyfrifyddu ar dudalen 178. Nodir datgeliadau rhifiadol offerynnau ariannol sy'n ofynnol o dan IFRS 7 isod.

A) Y RISG O RAN CYFRADD LLOG

Roedd y cyfraddau llog a oedd yn weithredol ar ddyddiadau'r fantolen fel a ganlyn:

	2024	2023
Asedau:		
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	5.1%	3.9%
Rhwymedigaethau:		
Bondiau	4.9%	4.5%
Benthyciadau cyfnod penodol	3.8%	3.0%
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	4.6%	4.6%
Rhwymedigaethau prydlesau	6.6%	6.1%

Nid yw symiau masnach derbyniadwy a thaladwy na symiau derbyniadwy a thaladwy eraill yn dwyn llog.

Mae'r cyfraddau llog gweithredol yn anwybyddu effaith y cyfnewidiadau cyfradd llog a mynegrifol a nodir yn nodyn 15. Nid ydynt yn cynnwys y tâl mynegeo sy'n gymwys i fondiau mynegrifol ychwaith.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

16. Rheoli risg cyllido parhad

B) Y RISG O RAN HYLIFEDD

Grŵp – 2024	< blwyddyn £m	1-2 flynedd £m	2-5 mlynedd £m	> 5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	167.1	-	-	-	167.1
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	645.7	2.2	-	-	647.9
	812.8	2.2	-	-	815.0
Rhwymedigaethau:					
Bondiau	0.8	481.1	499.2	2,293.6	3,274.7
Benthyciadau cyfnod penodol	170.1	91.1	199.2	324.9	785.3
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	0.2	-	-	-	0.2
Rhwymedigaethau prydlesau	49.9	30.4	4.0	92.0	176.3
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	627.9	15.6	46.8	678.0	1,368.3
Offerynnau ariannol deilliadol	(80.0)	36.6	79.7	742.2	778.5
Llog sy'n daladwy yn y dyfodol	163.9	148.3	336.0	681.1	1,329.3
	932.8	803.1	1,164.9	4,811.8	7,712.6
Grŵp – 2023	O fewn blwyddyn £m	1-2 flynedd £m	2-5 mlynedd £m	> 5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	379.4	-	-	-	379.4
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	649.3	-	-	-	649.3
	1,028.7	-	-	-	1,028.7
Rhwymedigaethau:					
Bondiau	0.8	0.8	950.5	2,208.1	3,160.2
Benthyciadau cyfnod penodol	64.0	88.5	219.6	236.8	608.9
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	0.2	-	-	-	0.2
Rhwymedigaethau prydlesau	0.9	250.8	33.0	93.4	378.1
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	685.8	12.4	37.1	491.3	1,226.6
Offerynnau ariannol deilliadol	13.5	(75.6)	149.4	749.5	836.8
Llog sy'n daladwy yn y dyfodol	171.7	157.5	357.3	725.0	1,411.5
	936.9	434.4	1,746.9	4,504.2	7,622.4

Mae'r taliadau prydles gofynnol o dan brydlesau yn dod yn ddyledus fel a ganlyn:

	2024 £m	2023 £m
Rhwymedigaethau prydlesau gros		
O fewn blwyddyn	61.5	24.0
Rhwng dwy a phum mlynedd	54.6	319.5
Ar ôl pum mlynedd	128.5	127.4
	244.6	470.9
Llog yn y dyfodol	(68.3)	(92.8)
Rhwymedigaethau prydlesau net	176.3	378.1
Mae rhwymedigaethau prydlesau net yn ad-daladwy fel a ganlyn:		
O fewn blwyddyn (nodyn 14)	49.9	0.9
Rhwng dwy a phum mlynedd	34.4	283.8
Ar ôl pum mlynedd	92.0	93.4
Cyfanswm dros flwyddyn (nodyn 14)	126.4	377.2

16. Rheoli risg cyllido parhad

C) GWERTHOEDD TEG

Nodir gwerthoedd teg offerynnau ariannol deilliadol y Grŵp yn nodyn 15. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwerth teg a gwerth llyfr bondiau'r Grŵp.

	2024		2023	
	Gwerth llyfr £m	Gwerth teg £m	Gwerth llyfr £m	Gwerth teg£m
Bondiau	3,274.7	2,944.1	3,160.2	2,973.7

Mae gwerthoedd teg pob un o'r offerynnau ariannol eraill yn hafal i'r gwerthoedd llyfr.

CH) CYFLEUSTERAU BENTHYCA

Ar 31 Mawrth 2024, roedd cyfleusterau benthyca wedi'u neilltuo gwerth £400 miliwn ar gael i'r Grŵp, yr oedd £320 miliwn ohono heb ei hawlio, ac yr oedd yr holl ragamodau wedi cael eu bodloni mewn perthynas ag ef (2023: £200 miliwn).

	2024 £m	2023 £m
Yn dod i ben ymhen mwy na blwyddyn:		
Cyfleusterau credyd cylchdro	400.0	200.0
	400.0	200.0

Mae'r holl gyfleusterau ar gael am dair blynedd gydag opsiwn ar gyfer estyniad o flwyddyn.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan Dŵr Cymru (Financing) Limited gyfleuster hylifedd arbennig o £135 miliwn (2023: £135 miliwn) y mae'n ofynnol iddo ei gadw er mwyn bodloni rhai rhwymedigaethau'r Grŵp o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu cyllido drwy lif arian parod gweithredu'r Grŵp, os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal. Byddai cyfnod atal yn digwydd pe bai Dŵr Cymru Cyfyngedig yn methu â bodloni ei gyfamodau cyllido dyled. Mae'r cyfleuster yn gyfleuster bytholwyrdd pum mlynedd a ddarperir gan ddarparwr yswiriant.

Telir cyfraddau llog cyfnewidiol ar yr holl gyfleusterau uchod.

D) RHEOLI RISG CYFALAF

	2024 £m	2023 £m
Cymarebau gerio		
Cyfanswm benthyciadau (nodyn 14)	(4,246.4)	(4,185.6)
Llai: arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo (nodyn 12)	167.1	379.4
Dyled net cyn addasiadau sy'n ofynnol gan CTA	(4,079.3)	(3,806.2)
Costau dyroddi heb eu hamorteiddio	(12.7)	(12.2)
Mynegio cyfnewidiadau	(434.0)	(345.0)
Setliadau deilliadau ar ôl diwedd y flwyddyn (nodyn 18)	40.5	-
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo y tu allan i grŵp GCA	(17.4)	(15.3)
Dyled net	(4,502.9)	(4,178.7)
Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh)	7,475.7	7,161.3
Cyfanswm cyfalaf	2,972.8	2,982.6
Cymhareb gerio	60%	58%

Fel y'i nodir ar dudalen 179, mae'r Grŵp yn monitro ei strwythur cyfalaf yn seiliedig ar gymhareb gerio reoleiddiol sy'n cymharu ei ddyled net â GCRh cyhoeddedig Ofwat (mae ailbrisiad Eiddo, Offer a Chyfarpar yn seiliedig ar GCRh cysgodol, mesur mewnol, sy'n adlewyrchu addasiadau i GCRh am danberfformio neu orberfformio ar fesurau megis totex a chymhellion cyflawni canlyniadau).

Yn unol â'r Cytundeb Telerau Cyffredin, cyfrifir gerio rheoleiddio fel lefel y ddyled net (gweler y rhestrau termau) yn y grŵp gwaraneiddio busnes cyfan (o dan Glas Cymru Anghyfyngedig (GCA)) o'i chymharu â'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

17. Darpariaethau

	Darpariaeth ailstrwythuro £m	Darpariaeth ar gyfer colled anyswiriedig £m	Darpariaethau eraill £m	Cyfanswm £m
Grŵp – 2024				
Ar 1 Ebrill 2023	3.1	4.6	15.5	23.2
Codwyd ar y Datganiad Incwm	–	1.0	2.1	3.1
Colledion wedi'u hyswiro	–	2.4	–	2.4
Symiau nas defnyddiwyd a wrthdröwyd	(1.5)	–	(0.5)	(2.0)
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(0.6)	(1.2)	(14.7)	(16.5)
Ar 31 Mawrth 2024	1.0	6.8	2.4	10.2
O fewn blwyddyn	1.0	2.3	2.1	5.4
Ar ôl mwy na blwyddyn	–	4.5	0.3	4.8
Ar 31 Mawrth 2024	1.0	6.8	2.4	10.2

	Darpariaeth ailstrwythuro £m	Darpariaeth ar gyfer colled anyswiriedig £m	Darpariaethau eraill £m	Cyfanswm £m
Grŵp – 2023				
Ar 1 Ebrill 2022	3.7	4.3	0.5	8.5
Codwyd ar y Datganiad Incwm	–	1.1	15.0	16.1
Symiau nas defnyddiwyd a wrthdröwyd	–	–	–	–
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(0.6)	(0.8)	–	(1.4)
Ar 31 Mawrth 2023	3.1	4.6	15.5	23.2

Rhannwyd yn symiau i'w defnyddio:				
O fewn blwyddyn	1.4	1.4	15.0	17.8
Ar ôl mwy na blwyddyn	1.7	3.2	0.5	5.4
Ar 31 Mawrth 2023	3.1	4.6	15.5	23.2

Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw ddarpariaethau ar 31 Mawrth 2024 (2023: dim).

DARPARIAETH AILSTRWYTHURO

Mae hon yn darparu'n wreiddiol ar gyfer cost lleihad yn nifer y staff o 182 i gyflawni targed costeffeithlonrwydd heriol ar gyfer y cyfnod rheoleiddio 2020 i 2025. Caiff y rhagolwg hwn ei ailasesu bob blwyddyn.

Ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, tybiwyd nad oedd angen cost ailstrwythuro o £1.5 miliwn oherwydd cyfraddau godael naturiol yn y Grŵp ac adleoli staff ac felly cafodd ei rhyddhau'n ôl i'r datganiad incwm mewn treuliau gweithredu.

DARPARIAETH COLLEDION HAWLIADAU

Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â hawliadau yn erbyn y Grŵp a lle mae yswiriant rhannol neu lawn yn erbyn hawliadau cydnabyddir swm yswiriant derbyniadwy cyfatebol mewn symiau derbyniadwy eraill. Y ddarpariaeth colled net ar ôl didynnu swm yswiriant derbyniadwy o £2.4m (2023: dim) yw £4.4m (2023: £4.6m).

Mae'r cyfnod defnyddio ar gyfer y rhwymedigaethau hyn yn ansicr oherwydd natur yr hawliadau, ond amcangyfrifir ei fod o fewn pum mlynedd.

DARPARIAETH ERAILL

Gwneir darpariaethau eraill ar gyfer rhwymedigaethau penodol eraill sy'n codi fel rhan o fusnes arferol y Grŵp.

Fel y nodwyd yn BA 23, roedd y Grŵp yn cynnig y dylid cyflwyno pecyn iawndal i gwsmeriaid gwerth cyfanswm o £29 miliwn er mwyn ymdrin ag ailddatgan perfformiad y Grŵp o ran gollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen. Ym mis Mawrth 2024, cwblhaodd Ofwat ei hymchwiliad i berfformiad gollyngiadau dŵr Dŵr Cymru, gan dderbyn y pecyn arfaethedig. Ar 31 Mawrth 2023, darparodd y Grŵp, o dan ddarpariaethau eraill, £15 miliwn ar gyfer ad-daliadau i gwsmeriaid fel rhan o'r pecyn hwn.

Mae darpariaethau eraill hefyd yn cynnwys £2.1 miliwn, sef amcangyfrif rheolwyr o'r dirwyon disgwyliedig mewn perthynas ag erlyniadau rheoleiddio.

18. Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu

A) ARIAN PAROD A GYNHYRCHWYD O WEITHREDIADAU

Cysoni elw gweithredu i arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau:

Grŵp	2024 £m	2023 £m
(Colled)/elw gweithredu	46.5	(7.4)
Addasiadau ar gyfer:		
Dibrisio ac amorteiddio	386.7	346.8
Newidiadau mewn cyfalaf gweithio:		
Gostyngiad/(cynnydd) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	1.1	(54.6)
(Cynnydd) mewn stocrestrau	(2.6)	(1.0)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	(37.8)	50.8
Eitem eithriadol – cynnydd mewn pensiwn	-	30.8
(Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau	(13.0)	14.7
	(52.3)	40.7
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	380.9	380.1

Ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, cydnabuwyd eitem eithriadol gennym, sef dyfarnu cynnydd mewn pensiynau uwchlaw cap o 5%. O dan gymal 'ymdrechion gorau' yn rheolau ein cynllun pensiwn, dim ond pe bai meini prawf penodol yn cael eu bodloni y gellid dyfarnu cynnydd llawn yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Nid oedd angen unrhyw gyfraniadau arian parod ychwanegol ar y Grŵp i ddyfarnu'r cynnydd hwn.

B) LLOG A DALWYD

Grŵp	2024 £m	2023 Ailddatganwyd £m
Llog sy'n daladwy fesul Datganiad Incwm	270.0	297.6
Llai eitemau anariannol:		
Mynegeo ar fondiau mynegrifol	(115.3)	(161.4)
Mynegeo ar ddyledion mynegrifol	(11.7)	(30.3)
Amorteiddio costau dyroddi bondiau	(1.5)	(1.5)
Tâl llog a godwyd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	-	(2.1)
Amorteiddio premiwm dyroddi bondiau	0.8	0.8
Effaith cyfalafu o dan IAS 23	18.6	28.3
Gostyngiad/(cynnydd) mewn croniadau	28.4	(2.7)
	(80.7)	(168.9)
Taliad terfynu cyfnewidiad wedi'i gynnwys mewn symudiadau eraill ar offerynnau ariannol deilliadol	3.9	-
Llog a dalwyd	193.2	128.7

C) DERBYNIADAU/TALIADAU NET AR OFFERYNNAU ARIANNOL DEILLIADOL

Grŵp	2024 £m	2023 Ailddatganwyd £m
Setliadau sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn yn unol â'r datganiad incwm	37.4	(20.9)
Llai eitemau anariannol:		
Derbyniadau wedi'u setlo ar ôl diwedd y flwyddyn	(40.5)	-
	(40.5)	
(Taliadau) net ar offerynnau ariannol deilliadol yn unol â datganiad llif arian	(3.1)	(20.9)

Mae'r cymaryddion ar gyfer treuliau ariannol a setliadau ar offerynnau ariannol deilliadol wedi cael eu hailddatgan. Nid oes unrhyw effaith ar y golled gyffredinol ar gyfer y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o dan nodyn 1 o'r datganiadau ariannol hyn.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

19. Dadansoddi a chysoni (dyled)/cronfeydd net

Diffinnir (dyled)/cronfeydd net fel gwerth arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo llai llog cronedig net a chyfanswm y benthyciadau.

A) GELLIR DADANSODDI (DYLED)/CRONFEYDD NET AR DDYDDIAD Y FANTOLEN FEL:

	Grŵp		Cwmni	
	2024 £m	2023 £m	2024 £m	2023 £m
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	167.1	379.4	12.3	10.6
Dyled sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	(3,877.9)	(3,693.7)	-	-
Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(169.6)	(63.5)	-	-
Rhwymedigaethau prydlesau	(176.3)	(378.1)	-	-
Llog cronedig	(22.6)	(50.3)	3.5	3.8
	(4,246.4)	(4,185.6)	3.5	3.8
(Dyled)/cronfeydd net	(4,079.3)	(3,806.2)	15.8	14.4

B) GELLIR CRYNHOI'R SYMUDIAD MEWN (DYLED)/CRONFEYDD NET YN YSTOD Y FLWYDDYN FEL:

	Grŵp		Cwmni	
	2024 £m	2023 £m	2024 £m	2023 £m
(Dyled)/cronfeydd net ar 1 Ebrill	(3,806.2)	(3,551.4)	14.4	13.1
Symudiad mewn arian parod net	(212.3)	(135.7)	1.7	1.9
Symudiad mewn dyled sy'n deillio o lifau arian parod	39.2	75.9	-	-
Symudiad mewn (dyled)/cronfeydd net sy'n deillio o lifau arian parod	(173.1)	(59.8)	1.7	1.9
Symudiad mewn llog cronedig	27.7	(2.5)	(0.3)	(0.6)
Mynegeoio dyled fynegrifol	(127.7)	(192.5)	-	-
Symudiad mewn (dyled)/cronfeydd net	(273.1)	254.8	1.4	1.3
(Dyled)/cronfeydd net ar 31 Mawrth	(4,079.3)	(3,806.2)	15.8	14.4

20. Cyflogeion a Chyfarwyddwyr

COSTAU STAFF AR GYFER Y GRŴP YN YSTOD Y FLWYDDYN

	2024	2023
	£m	£m
Cyflogau	163.3	156.3
Costau nawdd cymdeithasol	16.9	17.6
Costau pensiwn eraill	13.5	11.1
	193.7	185.0

O'r uchod mae £88.0 miliwn (2023: £79.1 miliwn) wedi cael ei gyfalafu neu ei ddosbarthu o fewn gwariant ar adnewyddu seilwaith, sef cost buddsoddi gwaith cyflogeion ar y rhaglen gyfalaf.

	2024	
	Nifer	Nifer
Nifer y bobl a gyflogir gan y Grŵp ar gyfartaledd (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol)	3,790	3,554

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o weithgareddau strategol a gweithredol y Cwmni i Dîm Gweithredol Dŵr Cymru, sef uwch-grŵp rheoli sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol a chyflogeion. Roedd cyfanswm cydnabyddiaeth y personél allweddol hwn fel a ganlyn:

	2024	2023
	£m	£m
Cyfarwyddwyr Gweithredol	0.9	1.5
Personél allweddol arall	3.8	2.9
	4.7	4.4

Am ragor o wybodaeth gweler yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth ar dudalen 132.

Ni thalwyd cydnabyddiaeth ac nid yw'n daladwy ychwaith gan y rhiant-gwmni. Cyflogir y Cyfarwyddwyr gan gwmnïau eraill yn y Grŵp ac ystyriant fod eu dyletswyddau i'r Cwmni hwn yn gysylltiedig â'u gweithgareddau eraill yn y Grŵp. Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw gyflogeion yn ystod y flwyddyn heblaw am y Cyfarwyddwyr.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

21. Ymrwymïadau pensiwn

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ariennir (yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol a gwasanaeth pensiynadwy), sef Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Mae asedau'r cynllun wedi'u dal mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Caewyd Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru i aelodau newydd o 31 Rhagfyr 2005. Cyflwynwyd cynllun cyfraniadau diffiniedig newydd, sef Cynllun Pensiwn Personol Dŵr Cymru, o 1 Ionawr 2006.

CYNLLUN BUDDIANNAU YMDDEOL A ARIENNIR GAN Y CYFLOGWR (EFRBS)

Yn ystod 2011, rhoddodd y Grŵp drefniadau ar waith drwy Gynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS) ar gyfer pedwar Aelod Gweithredol 'wedi'u capio' o'r cynllun. Mae cronïad buddiannau o dan y cytundeb hwn yn amodol ar barhau'n aelod o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Ar 31 Mawrth 2024: roedd dau Aelod Gweithredol â hawliadau o dan y trefniant hwn, y mae un ohonynt yn cael ei fuddiannau.

RISGIAU

Drwy'r cynllun, mae'r Grŵp wedi'i amlygu i sawl risg, y nodir y rhai pwysicaf yn eu plith isod:

- Anwadalrwydd asedau:

Cyfrifir rhwymedigaethau'r cynllun gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio a bennir drwy gyfeirio at arenillion bondïau (ond mae methodoleg y gyfradd ddisgowntio yn wahanol at ddibenion cyfrifyddu a chyllido). Os bydd asedau'r Cynllun yn darparu adenillion sy'n is na'r gyfradd ddisgowntio, bydd hyn yn creu neu'n cynyddu diffyg y Cynllun (os bydd pob peth arall fel y mae). Mae'r Cynllun yn dal amrywiol asedau sy'n ceisio adenillion y disgwylir iddynt berfformio'n well na bondïau yn yr hirdymor, ond sydd â risg o anwadalrwydd yn y byrdymor.

- Symudiad yn arenillion bondïau:

Bydd gostyngiad yn arenillion bondïau corfforaethol yn cynyddu rhwymedigaethau'r Cynllun, ond caiff hyn ei wrthbwysu'n rhannol gan gynydd yng ngwerth daliannau bond y Cynllun.

- Risg o chwyddiant:

Am fod rhan helaeth o fuddiannau'r aelodau yn gysylltiedig â chwyddiant (yn amodol ar gapiau uchaf blynyddol), bydd lefel uchel o chwyddiant yn arwain at gynydd mewn buddiannau y gellir eu priodoli i'r aelodau, a fydd yn ei dro yn cynyddu rhwymedigaethau'r Cynllun.

- Disgwyliad oes

Mae rhwymedigaeth ar y Cynllun i ddarparu buddiannau i aelodau am weddill eu bywyd, felly bydd cynnydd yn y disgwyliad oes yn golygu y bydd y Cynllun yn talu buddiannau aelodau dros gyfnod hwy, a fydd yn ei dro yn cynyddu rhwymedigaethau'r Cynllun.

VIRGIN MEDIA LTD V NTL PENSION TRUSTEES II LTS AC ORS

Mae'r Grŵp yn ymwybodol o ddyfarniad yr Uchel Lys yn achos Virgin Media Ltd v NTL Pension Trustees II Ltd ac Ors ac mae'n aros am ganlyniad yr apêl, a gynhelir ar 25 Mehefin 2024, ac unrhyw wrandawïadau ychwanegol, yn ogystal â chadarnhad gan y Llywodraeth ynghylch a fydd yn cyhoeddi rheoliadau newydd mewn ymateb i'r mater hwn. Mae'r effaith ariannol bosibl wrthi'n cael ei hasesu.

CYNLLUN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG

Cynhaliwyd prisiad actiwaraid llawn o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2022 gan Joanne Eynon o Quantum Advisory, actiwari proffesiynol cymwysedig annibynnol, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Diweddarwyd y prisiad hwn ar 31 Mawrth 2024 a'r prif dybiaethau a wnaed gan yr actiwari oedd:

	2024	2023
Cyfradd ddisgowntio	4.7%	4.6%
Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant yr RPI	3.1%	3.3%
Cyfradd cynnydd heb ei gapio mewn pensiwn	3.1%	3.3%
Cyfradd cynnydd wedi'i gapio mewn pensiwn	3.0%	3.2%
MARWOLDEB AR ÔL YMDDEOL (DISGWYLIAD OES)		
– Pensiynwyr cyfredol 65 oed – dynion	86.3 mlynedd	86.8 mlynedd
– Pensiynwyr cyfredol 65 oed – menywod	88.5 mlynedd	89.0 mlynedd
– Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) – dynion	87.2 mlynedd	87.8 mlynedd
– Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) – menywod	89.6 mlynedd	90.2 mlynedd

Mae'r datgeliadau ynglŷn â'r gyfradd marwolaethau ar 31 Mawrth 2024 yn defnyddio model rhagamcanu cyfraddau marwolaethau CMI 2022 gyda chyfradd tuedd hirdymor o 1.0% y flwyddyn.

Premiwm risg o chwyddiant (IRP) yw 0.4%, sef yr un IRP ag a gofnodwyd y flwyddyn flaenorol.

21. Ymrwymïadau pensiwn parhad

Mae newidiadau yn y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig, heb gynnwys EFRBS fel a ganlyn:

	2024 £m	2023 £m
Ar 1 Ebrill	397.4	504.5
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.1	0.2
Traul llog	17.9	14.0
Ailfesuriad: (ennill) yn sgil newid mewn tybiaethau ariannol	(21.1)	(135.7)
Buddiannau a dalwyd	(16.4)	(16.4)
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	-	30.8
Ar 31 Mawrth	377.9	397.4

Mae newidiadau yn asedau'r cynllun gwerth teg fel a ganlyn:

	2024 £m	2023 £m
Ar 1 Ebrill	412.1	427.5
Incwm llog	18.6	11.7
Enillion/(colled) profiad	5.3	(11.2)
Cyfraniadau	0.4	0.5
Buddiannau a dalwyd	(16.4)	(16.4)
Ar 31 Mawrth	420.0	412.1

Asedau'r cynllun	2024 £m	2023 £m
Arian parod	40.0	9.7
Ecwiti a Bondiau	266.6	287.6
Arall	113.4	114.8
Cyfanswm yr asedau	420.0	412.1

Heblaw am arian parod, mae asedau'n cynnwys cronfeydd buddsoddi cyfunol, nas dyfynnir ar farchnad weithredol, a ddangosir fesul categori yn y tabl uchod. O'r cyfanswm, mae asedau â gwerth teg o £113.4 miliwn yn asedau ariannol Lefel 3 (2023: £114.8 miliwn); ystyrir mai'r rhain yw'r rhai lleiaf hylifol a'r rhai anoddaf i'w prisia, ac felly cânt eu hamcangyfrif i raddau mwy. Gweler hefyd yr amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol yn nodyn 1. Gwahaniaethau rhwng y digwyddiadau gwirioneddol fel maent wedi digwydd a'r tybiaethau a wnaed ar ddyddiad y prisiad actiwaraidd cynharach a newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd yn ystod y flwyddyn yw enillion a cholledion profiad.

Mae asedau Ecwiti a Bondiau yn cael eu datgan yn glir o £5.6 miliwn o offerynnau ariannol deilliadol (2023: £11.0 miliwn). Mae asedau arian parod yn cynnwys £0.1 miliwn o offerynnau ariannol deilliadol (2023: £0.5 miliwn). Codir taliadau ar y datganiad incwm a'r datganiad o incwm cynhwysfawr fel a ganlyn:

	2024 £m	2023 £m
Datganiad incwm:		
Costau gwasanaeth	0.1	0.2
Llog net (incwm)/costau	(0.7)	2.3
Cynnydd eithriadol mewn pensiwn	-	30.8
Cyfanswm (a gredydwyd)/a godwyd ar y datganiad incwm	(0.6)	33.3
Incwm cynhwysfawr arall:		
Ennill/(colled) actiwaraidd ar asedau'r cynllun	5.3	(11.2)
Ennill actiwaraidd ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig	21.1	135.7
Y cyfanswm a gredydwyd i'r datganiad incwm cynhwysfawr	26.4	124.5

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, cydnabuwyd cost gwasanaeth yn y gorffennol o £30.8 miliwn, sef dyfarniad cynnydd mewn pensiynau o dan gymal 'ymdrechion gorau' yn rheolau ein cynllun pensiwn lle y dyfernir cynnydd RPI llawn os caiff meini prawf penodol eu bodloni. Cydnabuwyd hyn fel eitem eithriadol fel ein rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar 31 Mawrth 2023 a ddarperir ar gyfer cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol uwchlaw cap cymal 'ymdrechion gorau' o 5%. Cyflwynir unrhyw symudiad mewn amcangyfrif yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 ac mewn cyfnodau yn y dyfodol fel Incwm Cynhwysfawr Arall yn unol â gofyniad IAS 19. Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabod yr eitem eithriadol yn nodyn 3 ar dudalen 186.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

21. Ymrwymïadau pensiwn parhad

	2024 £m	2023 £m
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir	(377.9)	(397.4)
Gwerth teg asedau'r cynllun	420.0	412.1
	42.1	14.7
Rhwymedigaeth treth ohiriedig a ddyrannwyd i'r cynllun pensiwn	(10.5)	-
Ased buddiannau diffiniedig	31.6	14.7
Rhwymedigaeth EFRBS nas ariannwyd	(2.6)	(2.7)
Ased/(rhwymedigaeth) buddiannau diffiniedig net	29.0	12.0

Cydnabyddir y gwahaniaeth rhwng y ddau swm fel gwarged neu rwymedigaeth yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Lle mae'r gwahaniaeth hwn yn arwain at warged o ran buddiannau diffiniedig, cydnabyddir hyn yn unol ag IFRIC 14 'IAS 19 – Y Terfyn ar Ased Buddiant Diffiniedig, y Gofynion Cyllido Sylfaenol a'u Rhyngweithiad', ar y sail bod gan y Grŵp hawl ddiamod i unrhyw arian dros ben a all fodoli ar ôl i'r cynllun pensiwn gael ei gau unwaith y bydd yr holl aelodau wedi gadael y cynllun a bod eu buddiannau wedi'u setlo.

	Newid mewn tybiaeth	Symudiad mewn rhwymedigaethau £m
Cyfradd ddisgowntio	0.10%	5.0
Chwyddiant mewn prisiau	0.10%	4.8
Disgwyliad oes	1 flwyddyn	9.0

Mae'r dadansoddiad uchod o sensitifrwydd yn seiliedig ar newidiadau unigol o ran pob tybiaeth tra bod pob tybiaeth arall yn cael ei chadw'n gyson. Yn ymarferol, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd, ac mae'n debygol y bydd rhyw lefel o gydberthyniad rhwng y symudiadau mewn gwahanol dybiaethau.

EFFAITH AR LIFAU ARIAN PAROD YN Y DYFODOL

Caiff lefel cyfraniadau ei hadolygu ym mhob gwerthusiad teirblwydd. Cynhaliwyd y gwerthusiad diwethaf ar 31 Mawrth 2022.

O dan y Rhestr bresennol o Gyfraniadau, ni ddisgwylir i unrhyw gyfraniadau adennill diffygion gael eu talu ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025. Bydd cyfraniadau gwasanaeth (sy'n cynnwys symiau sy'n daladwy gan aelodau a'r Grŵp) yn y dyfodol oddeutu £0.2 miliwn.

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun yw tua 14 mlynedd.

FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO

Caiff y Cynllun ei ariannu a'i lywodraethu yn unol â gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau. Nid oes unrhyw lwfans gennym ar gyfer unrhyw ofynion cyllido sylfaenol o dan IFRIC14.

Mae'r Cynllun yn gweithredu o dan gyfraith Ymddiriedolaeth a'r ymddiriedolwr corfforaethol (Welsh Water Pension Trustee Limited) sy'n gyfrifol am ei lywodraethu o ddydd i ddydd. Caiff y Cyfarwyddwyr sy'n Ymddiriedolwyr gymorth gweithwyr proffesiynol profiadol, megis actiwriaid, gweinyddwyr ac ymgynghorwyr buddsoddi, i reoli'r Cynllun.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi strategaeth fuddsoddi amrywiol ar waith sy'n anelu at fodloni rhwymedigaethau'r Cynllun. Nodir manylion yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi. Mae penderfyniadau o ddydd i ddydd ynglŷn â dewis asedau wedi cael eu dirprwyo i BlackRock fel eu rheolwr buddsoddi ymddiriedol.

CHWYDDIANT UCHEL

Ar gyfer y rhan fwyaf o Adrannau'r Cynllun, caiff pensiynau sy'n cael eu talu (ac mewn rhai achosion fuddiannau gohiriedig) eu cynyddu ar 1 Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ("RPI") fel y'i mesurir dros y cyfnod perthnasol, sef y newid blyneddol yn yr RPI a gyhoeddir ar gyfer y mis Medi, y mis Rhagfyr neu'r mis Ionawr blaenorol.

O ganlyniad i lefelau uchel cyfredol o chwyddiant, cafodd llawer o adrannau'r Cynllun gynnydd llawn yn unol â'r RPI ym mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023 drwy reol 'ymdrechion gorau' (sef cap i bob pwrpas ar gynnydd mewn pensiwn a gaiff ei ddiystyru os gall y Cynllun fforddio talu cynnydd uwch heb fod angen cyfraniadau gan y Cwmni). Cytunodd yr Ymddiriedolwr a'r Grŵp hefyd i ddarparu cynnydd disgresiynol o 3% mewn pensiynau, ar ben y cynnydd wedi'i gapio o 5% i adrannau'r Cynllun sydd â chap ac nad ydynt yn ddarostyngedig i'r rheol 'ymdrechion gorau'.

22. Prydleswr

PRYDLES WEITHREDOL

	2024	2023
	£m	£m
Incwm o brydlesau	0.1	0.1

Mae'r Grŵp yn prydlesu tir i Gyngor Caerdydd, sy'n safle cyfleuster compostio ar hyn o bryd, a weithredir gan un o gyd gwmnïau'r Grŵp, sef Welsh Water Organic Energy Limited, sy'n darparu gwasanaethau gwastraff bwyd a gwyrdd. Mae'r Grŵp wedi dosbarthu'r brydles hon yn brydles weithredol am nad yw'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar y tir. Mae taliadau'r brydles wedi'u mynegeo i'r RPI.

Mae'r brydles yn para am 8 mlynedd arall, gyda chyfanswm yr isafswm derbyniadau presennol heb eu disgowntio o brydlesau yn cyfateb i £0.8 miliwn, a gydnabyddir yn gyfartal dros weddill y cyfnod.

23. Cyfalaf ac ymrwymïadau ariannol eraill

Mae cynllun busnes y Grŵp ar 31 Mawrth 2024 yn rhagweld gwariant cyfalaf net a gwariant adnewyddu seilwaith o £511 miliwn (2023: £429 miliwn) yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Er mai dim ond cyfran o'r swm hwn y contractiwyd yn ffurfiol yn ei chylch, mae'r Grŵp i bob diben yn ymrwymedig i'r rhan fwyaf o'r cyfanswm fel rhan o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf a gymeradwywyd gan ei reoleiddiwr, Ofwat.

24. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn unol â'r eithriad a roddwyd o dan IAS 24 nid oes unrhyw ddatgeliad yn y datganiadau ariannol cyfunol o drafodion ag endidau sy'n rhan o Grŵp Glas Cymru Holdings Cyfyngedig. Datgelwyd cydnabyddiaeth i bersonél rheoli allweddol yn nodyn 20.

Rhoddodd y rhiant-gwmni fenthyciad rhwng-gwmni i Welsh Water Holdings Limited, is-gwmni a berchnogir yn llawn, yn ystod y flwyddyn o ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Ar 31 Mawrth 2024, roedd balans y benthyciad hwn yn £21,553,698 (2023: £21,553,698). Codir llog ar gyfradd sefydlog o 5% a chodwyd £1,077,685 yn ystod y flwyddyn (2023: £1,332,435). Ar 31 Mawrth 2024 roedd y llog derbyniadwy a gronwyd yn ymwneud â hyn yn gyfanswm o £3,403,669 (2023: £3,825,984).

25. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Rhwymedigaethau digwyddiadol yw all-lifau arian parod posibl yn y dyfodol sydd naill ai'n bosibl ond nid yn debygol neu'n debygol ond na ellir eu mesur mewn ffordd ddigon dibynadwy.

Mae rheoleiddwyr amgylcheddol yn parhau i gynnal ymchwiliadau (llygredd, ansawdd dŵr a chydymffurfiaeth) i'r Grŵp, a gallai'r rhain arwain at all-lif ariannol, ond nid oes modd mesur yr effaith bosibl ar hyn o bryd.

26. Statws y cwmni

Cwmni cyfyngedig drwy warant ydyw ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Os caiff y Cwmni ei ddirwyn i ben, mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig i £1 yr un.

27. Cronfa Ymddiriedolaeth Cwm Elan

Yn 1984 lluniodd Awdurdod Dŵr Cymru gytundeb gwerthu a phrynu amodol gydag Awdurdod Dŵr Hafren Trent ar gyfer gwerthu'r draphont ddŵr a gwaith cysylltiedig a ddefnyddir i gludo'r swmpgyflenwad i gronfeydd dŵr Hafren Trent.

Buddsoddwyd y swm o £31.7 miliwn, sef y gydnabyddiaeth am y gwerthiant amodol, mewn cronfa ymddiriedolaeth. Prif swyddogaeth y gronfa oedd rhoi incwm i Awdurdod Dŵr Cymru, tra'n cadw gwerth cyfalaf y gronfa mewn termau real. Breiniwyd buddiant Awdurdod Dŵr Cymru yn y gronfa hon yn Dŵr Cymru Cyfyngedig o dan ddarpariaethau Deddf Dŵr 1989.

Nid yw asedau'r gronfa wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn. Ar 31 Mawrth 2024, gwerth y gronfa ymddiriedolaeth ar y farchnad oedd £89 miliwn (2023: £90 miliwn).

Mae'r llog derbyniadwy yn cynnwys £3.8 miliwn (2023: £3.5 miliwn) mewn perthynas â symiau a ddosbarthwyd o Gronfa Ymddiriedolaeth Cwm Elan.

28. Cwmni daliannol uniongyrchol ac eithaf a pharti rheolaethol

Y cwmni daliannol uniongyrchol ac eithaf a'r parti rheolaethol yw Glas Cymru Holdings Cyfyngedig, cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif y cwmni 09917809, swyddfa gofrestredig Linea, Ffordd Fortran, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0LY. Y grŵp mwyaf a lleiaf y cyfunir canlyniadau'r Cwmni ag ef yw'r un dan arweiniad Glas Cymru Holdings Cyfyngedig.

ATODIADAU

Cynnwys

A – Rhestr Termiau	211
B – Rheoleiddio Cwmnïau Dŵr yng Nghymru	216
C – PR19 Ymrwymiodau Perfformiad wedi'u Diffinio	217
D – Ymatebion Strategol i Dŵr Cymru 2050	219
E – Amcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI)	221

A – RHESTR TERMAU

Enw	Disgrifiad
AMP6	Roedd Cynllun Rheoli Asedau 6 yn rhedeg rhwng 2015 a 2020
AMP7	Mae Cynllun Rheoli Asedau 7 yn rhedeg rhwng 2020 a 2025
AMP8	Bydd Cynllun Rheoli Asedau 8 yn rhedeg o 2025 i 2030.
Treulio anerobig	Proses lle y caiff deunydd organig ei ddadelfennu gan facteria a micro-organebau eraill i gynhyrchu ynni adnewyddadwy
Asedau	Mae'r rhain yn cynnwys seilwaith megis prif bibellau dŵr a charthffosydd, argaeau a chronfeydd dŵr, gweithfeydd trin dŵr a charthffosydd, gorsafoedd pwmpio, labordai cwmnïau, depos a gweithdai.
AVPS	Cynllun Tâl Amrywiadwy Blyneddol – elfen o enillion sy'n gysylltiedig â pherfformiad
Methiant bacteriolegol	Caiff y dŵr yfed a gyflenwir i gwsmeriaid ei samplu a'i ddadansoddi yn erbyn amrywiaeth o baramedrau cemegol a bacteriolegol. Os bydd sampl yn dangos paramedr bacteriolegol sydd uwchlaw'r terfyn a nodir yn y rheoliadau, tybir ei fod yn fethiant bacteriolegol
BBC	Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig
Dalgylch	Ardal o dir lle mae dŵr yn draenio i gorff dŵr (fel afon neu gronfa ddŵr)
CAW	Llyfr Gwaith Cyfrifyddu Carbon
CCW	Cyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru
CCWater	Cyngor Defnyddwyr Dŵr
CHP	Peiriant Gwres a Phŵer Cyfunedig
Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi	Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi
C-MeX	Mesur boddhad cwsmeriaid yw'r C-MeX (mesur profiad cwsmeriaid) Cyfrifir sgôr C-MeX cwmni fel cyfartaledd sgoriau boddhad cwsmeriaid wedi'i bwysoli o wasanaeth cwsmeriaid ac arolygon o brofiad cwsmeriaid
Carthffos gyfun	Carthffos gyfun ar gyfer carthion a dŵr glaw ffo
Gorlif storm cyfun	System ar gyfer carthion a dŵr glaw ffo yw gorlif storm cyfun
Cwmni cyfyngedig drwy warant	Cwmni preifat nad oes ganddo gyfranddalwyr na chyfalaf cyfranddaliadau
CPIH	Mynegai Prisiau Defnyddwyr – gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr
CPNI	Canolfan Gwarchod Seilwaith Cenedlaethol
Statws credyd	Mae statws credyd yn rhoi asesiad o ansawdd credyd cwmni a all effeithio ar gost benthyca
CRI	Mynegai Risg Cydymffurfio
CRO	Prif Swyddog Risg
CSO	Mae Systemau Gorlif Carthffosydd Cyfun yn gweithredu fel falfiau rhyddhau sy'n atal carthffosydd rhag gorlwytho. Hebddynt, byddai eiddo a gweithfeydd trin carthion yn mynd dan ddŵr
CSO/SO	Mae Systemau Gorlif Storm Cyfun yn gweithredu fel falfiau rhyddhau sy'n atal carthffosydd rhag gorlwytho. Hebddynt, byddai eiddo a gweithfeydd trin carthion yn mynd dan ddŵr. Mae system gorlif storm gyfun yn gweithredu yn yr un ffordd ond lle mae dŵr glaw heb ei drin a dŵr gwastraff a charthion yn cael eu cario gyda'i gilydd mewn rhwydwaith cyfun
Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn	Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn yw'r gwahaniaeth rhwng y GCRh a'r ddyled net ac felly mae'n mesur y gwerth a grëir gan y busnes i gwsmeriaid. Gall rhywfaint o'r gwerth hwnnw goel ei ddefnyddio i fuddsoddi yn y busnes ac i ad-dalu cwsmeriaid. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cadw dyled net ar 60% o'r GCRh ac mai Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn a gedwir yw'r 40% sy'n weddill
Defra	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Trwyddedau gollwng	Cytundebau cyfreithiol a roddir gan y rheoleiddiwr amgylcheddol sy'n ymwneud â swm ac ansawdd y dŵr gwastraff y gellir ei ddychwelyd i'r amgylchedd a pha mor aml y gellir gwneud hynny

A – RHESTR TERMAU PARHAD

Enw	Disgrifiad
D-MeX	Mesurau o wasanaeth cwsmeriaid ar gyfer cwsmeriaid gwasanaethau datblygwyr (cysylltiadau newydd), a ddatblygwyd gan Ofwat ar gyfer AMP7. Gweler y diffiniad o C-Mex uchod
DPC	Caffaeliad Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid
Cynllun Diogelu Dŵr Yfed	Dull rhagweithiol o asesu risg i ansawdd dŵr yfed, sy'n diogelu iechyd y cyhoedd yn well
Cynllun Sychder	Cynllun statudol a baratoir gan gwmni dŵr sy'n nodi'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i reoli'r cyflenwad dŵr yn ystod cyfnod o sychder
DWI	Arolygiaeth Dŵr Yfed
Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff	Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff
DWRP	Cynllun Adfer Dŵr Yfed
Asiantaeth yr Amgylchedd	Asiantaeth yr Amgylchedd
EDM	Monitor Hyd Cyson
EDI	Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Elifyn	Dŵr sy'n llifo o safle trin carthion ar ôl iddo gael ei drin.
eNGO	Asiantaeth anllywodraethol amgylcheddol
Asiantaeth yr Amgylchedd	Un o gyrff anadrannol gweithredol y Llywodraeth sydd â dyletswydd statudol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd yn Lloegr.
ERM	Rheoli Risgiau Busnes
ACLI	Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu
FD	Penderfyniad Terfynol
FFO	Cronfeydd o Weithrediadau Mae cronfeydd o weithrediadau/dyled net yn fesur o allu'r Grŵp i dalu ei ddyled gan ddefnyddio orian parod a gynhrychir o weithrediadau ac mae'n fetrig allweddol a ddefnyddir gan asiantaethau statws credyd, gan gynnwys S&P, i asesu ansawdd credyd.
Y gallu i gyllido	Gallu cwmnïau dŵr penodedig i gyllido eu swyddogaethau drwy ddyled, ecwiti neu enillion argadwedig.
CDG	Cynnyrch Domestig Gros
Gerio	Dyled net a fynegir fel canran o gyfalaf gwerth rheoleiddio.
GHG	Nwy tŷ gwydr
Glas Cymru	Glas Cymru yw'r enw cyffredinol a ddefnyddir i gyfeirio at gwmni daliannol y Grŵp. Ffurfiwyd Glas Cymru Cyfyngedig yn 2000 i fod yn berchen ar Dŵr Cymru, ei gyllido a'i reoli. Yn ystod 2015-16 ailgofrestrwyd Glas Cymru Cyfyngedig fel Glas Cymru Anghyfyngedig a chrëwyd Glas Cymru Holdings Cyfyngedig fel y cwmni daliannol ar gyfer Grŵp Glas Cymru
Dŵr daear	Dŵr y gellir dod o hyd iddo yn haenen ddirlawn y pridd
Grŵp	Glas Cymru a'i holl is-gwmnïau
GYC	Gwerth Ychwanegol Gros
HR	Adnoddau Dynol
HSOC	Canolfan Sicrwydd a Gweithrediadau Hybrid
ICG	Grŵp Her Annibynnol
TGCh	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
Panel Cyngori Annibynnol ar yr Amgylchedd	Panel Cyngori i Dŵr Cymru yw'r Panel Cyngori Annibynnol ar yr Amgylchedd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau amgylcheddol rheng flaen yng Nghymru a Lloegr, ac academyddion blaenllaw mewn meysydd arbenigol
IED	Cyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol

A – RHESTR TERMAU
PARHAD

Enw	Disgrifiad
INNS	Rhywogaethau estron goresgynnol
IPCC	Y Panel Rhyngwladol ar Newid yn yr Hinsawdd
ISO	Sefydliad Safonau Rhyngwladol
TG	Technoleg gwybodaeth
DPA	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Gollyngiadau dŵr	Dŵr a gollir rhwng y gwaith trin a chartref neu fusnes y cwsmer
Hylifedd	Argaeledd asedau y gellir eu troi'n arian parod yn rhwydd, sef arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo a chyfleusterau credyd cylchdro ar gyfer y Grŵp
Look-up	Pan fydd gwaith trin dŵr gwastraff yn methu â bodloni'r paramedrau a ganiatawyd fel y'u pennwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd
Cydymffurfiaeth	am lai na 95% o'r amser
Anafiadau lle collir amser	Anafiadau sy'n codi yn y gwaith sy'n arwain at amser i ffwrdd o'r gwaith at ddibenion trin a gwella.
LTDS	Strategaeth Gyflawni Hirdymor
LTVPS/LVPS	Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor. Elfen o enillion sy'n gysylltiedig â pherfformiad
Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig	Mae Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig yn mesur cydymffurfiaeth ym mhob parth ansawdd dŵr ar gyfer y 39 o baramedrau cemegol a bacteriolegol allweddol sy'n deillio o'r rhoglen monitro statudol o samplau a gymerir o dapiau cwsmeriaid
Megalitrau (ML)	Mae un megalitr yn hafal i 1,000 o fetrau ciwbig neu un filiwn o litrau. Mae pwll nofio maint Olympaidd yn cynnwys 2.5 megalitr o ddŵr
Cyfoeth Naturiol Cymru	Corff a noddur gan Lywodraeth Cymru. Ei ddiben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy.
Dyled net	Yn unol â'r diffiniad yn y Cytundeb Termau Cyffredin, cyfanswm y benthyciadau llai arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo wedi'u haddasu ar gyfer costau dyroddi bondiau heb eu hamorteiddio, setliadau cronedig ar offerynnau ariannol deilliadol, mynegeoio ar fondiau lle mae cyfnewidiadau yn troi'r cyfraddau sefydlog yn RPI llai arian parod a ddeler y tu allan i Glas Cymru Anghyfyngedig. Nid yw dyled net yn cynnwys gwerth teg deilliadau.
NBS	Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur
NED	Cyfarwyddwr anweithredol
NEP	Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol
NMB	Bwrdd Rheoli Maethynnau
Cyfarwyddwyr Anweithredol	Aelodau o Fwrdd Glas Cymru nad ydynt yn gyfrifol am redeg y busnes o ddydd i ddydd ond sy'n herio rheolwyr ac yn goruchwyllo'r gwaith o redeg y Grŵp. Gweler tudalen 117 am ragor o fanylion am eu rôl
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
ODI	Y Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau. Dyma'r system o wobrau a chosbau sy'n sail i'r mesurau perfformiad a nodir yn ein cynlluniau busnes ar gyfer Penderfyniad Terfynol PR14 a PR19 Ofwat
Ofwat	Rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr
Costau gweithredu	Cyfanswm gwariant gweithredu'r busnes, llai unrhyw incwm gweithredu, sef unrhyw elw neu gollod wrth waredu asedau sefydlog ac incwm allforio pŵer yn bennaf
Opex	Gweler Costau Gweithredol
TW	Technoleg Weithredol
PC	Ymrwymiad Perfformiad
PCC	Defnydd y pen
PFAS	Sylweddau perffflworocalcyl a pholyfflworocalcyl, a elwir ar lafar yn gemegion byth bythol
PFET	Triniaeth Briglif Gyfatebol

A – RHESTR TERMAU PARHAD

Enw	Disgrifiad
Achosion o Lygredd	Achosion o ryddhau'n ddamweiniol neu'n fwiadol halogyddion fel olewau, tanwyddau a chemegion a all fod yn niweidiol i iechyd dynol a'r amgylchedd
PPC	Cod Taliadau Prydlon
PR19	Proses Adolygu Prisiau 2019 Ofwat, prisiau proses pennu prisiau reoleiddiol 5 mlynedd ar gyfer AMP7 (2020-2025), sy'n arwain at y Penderfyniad Terfynol ar brisiau a roddir i gwmnïau ym mis Rhagfyr 2019
PR24	Proses Adolygu Prisiau arfoethedig Ofwat yn 2024, a fydd yn arwain at Benderfyniad ym mis Rhagfyr 2024, i bennu prisiau ar gyfer AMP8 (2025-2030)
Gorsaf bwmpio	Caiff ei defnyddio i bwmpio dŵr neu garthffosiaeth o un lle i'r llall
QSC	Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd	Un o Bwyllgorau lefel Bwrdd Dŵr Cymru sy'n mynd i'r afael â pherfformiad o risgiau gweithredol ym mhob rhan o'r Cwmni
Glawlif	Dull Dŵr Cymru o reoli dŵr wyneb a charthffosydd gorlawn (systemau draenio trefol cynaliadwy)
RCP	Llwybrau Crynodaau Cynrychioliadol
Termau real	Y newid mewn rhif ariannol ar ôl dileu effaith chwyddiant
Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh)	Gwerth ased Dŵr Cymru, a bennir gan Ofwat, lle y caniateir i'n hadnillion o fuddsoddiad (neu Adenillion Rheoliadol) gael eu gwneud. Mae hyn, mewn gwirionedd, yn brocsi ar gyfer y gwerth economaidd a ddefnyddir ar gyfer busnes penodedig Dŵr Cymru Cyfyngedig
Anafiadau adroddadwy	Anafiadau y rhoddir gwybod i'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch amdanynt o dan reoliadau RIDDOR
RIDDOR	Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 ac fel y'u diwygiwyd. Mae'r rheoliadau yn pennu pa onafiadau, clefydau a digwyddiadau peryglus y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt a sut a phryd.
Cronfa ddŵr	Llyn naturiol neu artiffisial lle y caiff dŵr ei gasglu a'i storio nes y bydd ei angen
Dychwelyd Gwerth	Taliadau a buddsoddiad wnaed er budd ein cwsmeriaid a ariannwyd o elw dosbarthadwy, y gellid fel arall eu talu i gyfranddalwyr fel difidendau mewn cwmni sy'n eiddo i gyfranddalwyr
Pibell ymgodol	Piblinell wedi'i phwmpio sy'n cludo dŵr gwastraff
RPI	Mynegai Prisiau Manwerthu
RSPB	Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
ACA	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Mae diogelwch yn bwysig i bawb	Hyfforddiant diogelwch ymddygiadol sy'n pwysleisio bod gan bob unigolyn gyfrifoldeb am faterion lechyd a Diogelwch
SCC	Cod Ymddygiad Cyflenwyr
Cerdyn sgorio	Cofnod ystadegol a ddefnyddir gan Dŵr Cymru i fesur cyflawniad neu gynnydd tuag at nod penodol
SDG	Nod Datblygu Cynaliadwy
Security and Emergency	Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a DEFRA i'r sector dŵr er mwyn cynnig arweiniad ar sut i ymateb i ddigwyddiadau mawr
SEMD	Cyfarwydddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (Ymgymrwyr Dŵr a Charthffosiaeth a thrwydded Cyflenwi Dŵr)
Cronfa wasanaeth	Tanc sy'n cynnwys dŵr yfed a leolir fel arfer o fewn system dosbarthu dŵr neu'n agos ati
Y Gallu i Ddarparu Gwasanaeth	Gallu system o asedau i ddarparu lefel ddisgwyliedig o wasanaeth i ddefnyddwyr a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol
Mecanwaith Cymell Gwasanaeth (SIM)	Un o fesurau Ofwat a gynlluniwyd i wella lefel y gwasanaeth y mae cwmnïau dŵr yn ei darparu i gwsmeriaid.

A – RHESTR TERMAU PARHAD

Enw	Disgrifiad
Carthffos	Pibell danddaearol sy'n cludo dŵr gwastraff a dŵr wyneb o eiddo preswyl ac amhreswyl i'w drin a'i waredu
Carthffosydd yn gorlifo	Pan fo dŵr gwastraff yn dianc o bibellau carthffosydd drwy goead y twll archwilio neu ddraen, neu drwy lifo yn ôl i fyny drwy doiledau
SO	Gorlif Storm – gweler CSO/SO uchod.
SOAF	Fframwaith Asesu Gorlifoedd Storm
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
CAM	Gweler Mae Diogelwch yn Bwysig i Bawb
Tanc storm	Tanc lle y caiff dŵr storm a dŵr gwastraff ei storio, mewn tywydd gwlyb, nes bod y gwaith trin dŵr yn gallu ei drin
SDCau	Gweler Draenio Trefol Cynaliadwy
Dŵr wyneb	Dŵr ffo o ddŵr glaw sy'n disgyn ar eiddo cwsmeriaid (fel toeon, llwybrau a thramwyfeydd)
Draenio dŵr wyneb	Symud dŵr glaw, eira neu iâ wedi toddi o rannau allanol eiddo (fel toeon a thramwyfeydd), yn aml i garthffos dŵr wyneb neu garthffos gyfun
Draenio Trefol Cynaliadwy	System ddraenio gynaliadwy sydd wedi'i chynllunio i leihau effaith bosibl datblygiadau newydd a datblygiadau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â gollyngiadau draenio dŵr wyneb
TNFD	Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd
Totex	Talfyriad Ofwat ar gyfer cyfanswm y gwariant. Cyfanswm gwariant cyfalaf a gwariant gweithredol
Prif bibell gyflenwi	Prif bibell y caiff dŵr ei fwydo drwyddo i mewn i system dosbarthu dŵr. Yn aml, bydd prif bibell gyflenwi yn rhedeg o waith trin dŵr i gronfa wasanaeth
UKRI	Ymchwil ac Arloesi yn y DU, corff cyllido ymchwil sy'n cyfuno saith hen Gyngor Ymchwil
UKWIR	Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU, corff a sefydlwyd gan y diwydiant dŵr i gefnogi ymchwil a llywio agenda ymchwil y diwydiant
WASC	Cwmni Dŵr a Charthffosiaeth
Dŵr gwastraff	Deunydd gwastraff o eiddo preswyl neu amhreswyl o gaiff ei gludo i ffwrdd o eiddo mewn carthffosydd neu ddraeniau
Gwaith trin dŵr gwastraff	Diben gweithfeydd trin dŵr gwastraff yw cael gwared ar gynhyrchion gwastraff biolegol neu gemegol o ddŵr cyn iddo gael ei ddychwelyd i ffynonellau dŵr
Prif bibell ddŵr	Pibell fawr sy'n cludo dŵr sydd wedi'i drin i gartrefi
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd cwmni dŵr yn sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y dŵr a gyflenwir a'r galw amdano dros y 25 mlynedd nesaf
Gwaith trin dŵr	Mae gweithfeydd trin dŵr yn cynhyrchu dŵr yfed ar gyfer y cyhoedd neu ddŵr diwydiannol ar gyfer gweithgynhyrchu neu weithrediadau busnes eraill
WOC	Cwmni Dŵr yn unig
WQ	Ansawdd dŵr
WRMP	Gweler Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr
WTW	Gweler Gwaith Trin Dŵr
WWTW	Gweler Gwaith Trin Dŵr Gwastraff

B – RHEOLEIDDIO CWMNIAU DŴR YNG NGHYMRU

Enw	Disgrifiad
Llywodraeth Cymru	Mae gan Lywodraeth Cymru awdurdod datganoledig dros y rhan fwyaf o faterion sy'n ymwneud â rheoleiddio'r diwydiant dŵr yng Nghymru.
Arolygiaeth Dŵr Yfed	Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn gorff statudol â dyletswyddau a phwerau i ddatblygu a diweddarau rheoliadau ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed (sy'n deillio o ddeddfwriaeth yr UE), monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau o'r fath a chymryd camau gorfodi lle y bo angen. Penodir y Prif Arolygydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru.
Cyfoeth Naturiol Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd	Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yw rheoleiddwyr amgylcheddol Cymru a Lloegr, yn y drefn honno, sy'n chwarae rolau pwysig o ran rheoleiddio a chynllunio cwmnïau dŵr. Maent yn nodi rhwymedigaethau amgylcheddol cwmnïau dŵr yn y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol yng Nghymru a Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol y Diwydiant Dŵr yn Lloegr.
Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn un o gyrff cyhoeddus anadrannol DEFRA a Llywodraeth Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) i gynrychioli buddiannau cwsmeriaid drwy ymdrin â chwynion, cael a chyhoeddi gwybodaeth, rhoi cyngor ac ymchwilio i faterion sydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr. Caiff y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ei gefnogi gan bwyllgorau rhanbarthol a sefydlwyd o dan y Ddeddf gan gynnwys Pwyllgor Cymru.
Ofwat	Ofwat yw rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr. Mae ei ddyletswyddau yn cynnwys diogelu buddiannau defnyddwyr, sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyflawni eu swyddogaethau statudol a gwella cydnerthedd cwmnïau dŵr. Mae gan Ofwat amrywiaeth o bwerau, gan gynnwys pennu terfynau prisiau a thargedau perfformiad drwy'r broses Adolygu Prisiau a gynhelir bob pum mlynedd.
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).	Mae Defra yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd ac, felly, mae ganddi gylch gorchwyl eang i chwarae rôl bwysig ym mywyd pobl o ddydd i ddydd, o'r bwyd rydym yn ei fwyta i'r aer rydym yn ei anadlu, i'r dŵr rydym yn ei yfed. Nod Defra yw gwneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ei chenhadaeth yw 'adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, gan ei adael mewn cyflwr gwell na'r hyn oedd'.

C – YMRWYMIADAU PERFFORMIAD PR19

WEDI’U DIFFINIO

	Enw	Disgrifiad
Wt1	Cydymffurfiaeth ansawdd dŵr (Mynegai Risg Cydymffurfio)	Asesir Cydymffurfiaeth Ansawdd Dŵr gan ddefnyddio Mynegai Risg Cydymffurfio. Mae'r Mynegai Risg Cydymffurfio yn mesur risg sy'n deillio o fethiannau cydymffurfio o ran dŵr wedi'i drin. Coiff sgôr Mynegai Risg Cydymffurfio ei chyfrifo ar gyfer pob methiant cydymffurfio unigol mewn parthau cyflenwi dŵr, manau cyflenwi a gweithfeydd trin a chronfeydd gwasanaeth. Mynegai Risg Cydymffurfio blynyddol cwmni, mewn unrhyw flwyddyn galendr benodol, yw swm y sgoriau Mynegai Risg Cydymffurfio unigol ar gyfer pob methiant i gydymffurfio y rhoddwyd gwybod amdano yn ystod y flwyddyn.
Wt2	Toriadau yn y Cyflenwad Dŵr	Nifer gyfartalog y munudau y mae cwsmeriaid heb ddŵr yn ein hardal gyflenwi (yn cynnwys toriadau a gynlluniwyd a rhai nas cynlluniwyd). Fe'i cyfrifir fel nifer cyfartalog y munudau a gollwyd fesul cwsmer ar gyfer y sylfaen cwsmeriaid gyfan ar gyfer toriadau a barodd am dair awr neu fwy.
Wt3	Derbynioldeb dŵr yfed	Nifer y troeon y mae defnyddwyr yn cysylltu â'r Cwmni oherwydd blas ac arogl dŵr yfed, neu am nad yw dŵr yfed yn glir, fesul 1,000 o'r boblogaeth.
Wt4	Atgyweirio Prif Bibellau	Mae hyn yn cynnwys gwaith atgyweirio ffisegol ar brif bibellau y collir dŵr ohonynt. Coiff ei nodi fel nifer yr achosion o atgyweirio prif bibellau fesul mil cilomedr o'r rhwydwaith prif bibellau dŵr cyfan (heb gynnwys pibellau cyfathrebu a chyflenwi).
Wt5	Toriadau heb eu cynllunio %	Mae'r mesur hwn yn fodd i asesu iechyd asedau (yn bennaf ar gyfer asedau uwchlaw lefel y ddaear nad ydynt yn seilwaith), ar gyfer tynnu dŵr a gweithgareddau trin dŵr. Coiff ei ddiffinio fel y llif nad yw ar gael ar sail flynyddol, yn seiliedig ar gapasiti cynhyrchu wythnos frig. Mae'r mesur hwn yn gymesur ag amllder methiant asedau yn ogystal â natur hanfodol a graddau'r asedau sy'n achosi toriad mewn cyflenwad.
Wt8	Gosod pibellau cyflenwi newydd yn lle rhai plwm	Mae'r mesur hwn yn cofnodi'r gostyngiad yn nifer y pibellau plwm yn ein rhwydwaith cyflenwi dŵr.
En1	Cydymffurfiaeth gweithfeydd trin	Ar gyfer ein gweithfeydd dŵr trin dŵr gwastraff, ceir trwydded sy'n rheoleiddio ansawdd y dŵr gwastraff y caniateir i'r Cwmni ei ryddhau i afonydd a dyfroedd arfordirol. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoleiddio hyn. Y mesur yw % y gydymffurfiaeth â thrwyddedau gollwng.
En3	Achosion o lygredd (fesul 10,000km o garthffosydd)	Lleihau nifer yr achosion o lygredd (a achosir gan flociadau neu gwympiadau mewn carthffosydd).
En4	Gollyngiad (% y gostyngiad) – cyfartaledd tair blynedd	Mae gollyngiadau yn disgrifio'r dŵr a gollir rhwng y gwaith trin ac eiddo'r cwsmer. Mae gennym darged i leihau gollyngiadau dŵr a chaiff hyn ei fesur gan ddefnyddio'r lleihad canrannol mewn gollyngiadau cyfartalog dros dair blynedd mewn Megalitrau y dydd o linell sylfaen gychwynnol 2019/20.
En5	Defnydd y Pen (% y gostyngiad) – cyfartaledd tair blynedd	Defnydd y pen yw'r swm cyfartalog o ddŵr a ddefnyddir gan bob person bob dydd. Mae gennym darged i leihau defnydd y pen a chaiff hyn ei fesur gan ddefnyddio'r lleihad canrannol yn nefnydd cyfartalog y pen dros dair blynedd o linell sylfaen gychwynnol 2019/20.
Sv1	C-MeX	C-MeX yw mesur profiad cwsmeriaid a boddhad cwsmeriaid. Mae'n cynnwys dau arolwg: Arolwg o Brofiad Cwsmeriaid – arolwg o foddhad cwsmeriaid ymhlith hapsampl o gwsmeriaid y Cwmni dŵr; ac Arolwg o Wasanoeth Cwsmeriaid – arolwg boddhad cwsmeriaid ymhlith hapsampl o'r cwsmeriaid hynny sydd wedi cysylltu â'u cwmni dŵr. Coiff sgoriau'r ddau arolwg eu pwysoli'n gyfartal i gynhyrchu mesur C-MeX cyfun.

C – YMRWYMIADAU PERFFORMIAD PR19

WEDI’U DIFFINIO PARHAD

	Enw	Disgrifiad
Sv2	D-MeX	Mae D-Mex yn mesur boddhad cwsmeriaid gyda Gwasanaethau i Ddatblygwyr. Cyfrifir sgôr D-MeX o ddwy elfen sy'n cyfrannu'n gyfartal: - sgôr D-MeX ansoddol, sy'n seiliedig ar y graddau a roddir gan gwsmeriaid gwasanaethau i ddatblygwyr sydd wedi cael trafodion â'r Cwmni drwy gydol y flwyddyn adrodd mewn arolwg o foddhad cwsmeriaid; - sgôr D-MeX meintiol, sy'n seiliedig ar berfformiad y Cwmni yn erbyn set o fetrigau perfformiad a ddewisir gan Water UK drwy gydol y flwyddyn adrodd.
Sv4	Boddhad cwsmeriaid busnes	Mae'r ymrwymiad perfformiad hwn yn mesur sgôr cyfartalog cwsmeriaid allan o bump o bedwar arolwg chwarterol o foddhad cwsmeriaid busnes. Bydd y Cwmni yn cynnal arolwg o 250 o gwsmeriaid busnes bob chwarter (cyfanswm o 1,000 y flwyddyn). Bydd yn arolygu sampl o blith ei holl gwsmeriaid, nid dim ond y rhai sydd wedi cysylltu â'r Cwmni.
Sv5	Gwasanaethau â Blaenoriaeth i Gwsmeriaid mewn Amgylchiadau Bregus	Rydym yn rhoi cymorth arbennig i'r cwsmeriaid hynny sydd mewn amgylchiadau bregus sydd wedi'u cofrestru ar ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth. Mae'r mesur hwn yn nodi nifer yr aelwydydd ar Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth y Cwmni fel cyfran o'r holl aelwydydd yn rhanbarth y Cwmni.
Rt1	Llifogydd carthion mewnol (fesul 10,000 o gysylltiadau carthffos)	Cyfrifir y mesur fel nifer yr achosion o lifogydd carthion mewnol wedi'u normaleiddio fesul 10,000 o gysylltiadau carthffos, gan gynnwys llifogydd carthion o ganlyniad i ddigwyddiadau tywydd difrifol.
Rt3	Carthffosydd yn dymchwel (fesul 1,000 km o garthffosydd)	Mae carthffos yn dymchwel pan fydd methiant strwythurol wedi digwydd i'r bibell sy'n arwain at effaith gwasanaeth ar gwsmer neu'r amgylchedd a phan gymerir camau i atgyweirio'r bibell neu osod un newydd er mwyn adfer gwasanaeth arferol. Caiff ei nodi fel nifer y carthffosydd sy'n dymchwel fesul 1,000 cilomedr o'r holl garthffosydd sy'n cael effaith ar wasanaethau i gwsmeriaid neu'r amgylchedd.
Rt4	Cyfanswm y Cwynion	Cyfanswm y cwynion gan gwsmeriaid preswyl a gyflwynwyd i'r Cwmni fesul 10,000 o gysylltiadau. Mae'n cynnwys cyfanswm y cysylltiadau digroeso (h.y. cwynion dros y ffôn), cwynion ysgrifenedig (llythyr ac e-bost), a chysylltiadau drwy sianeli cysylltiadau newydd (megis y cyfryngau cymdeithasol neu sgwrsio ar y we).
BI3	Lefel drwgddyledion y Cwmni	Mae lefel drwgddyledion y Cwmni yn mesur cyfanswm y biliau dŵr a dŵr gwastraff nas talwyd y tybir nad oes modd eu casglu fel cyfran o gyfanswm y refeniw sy'n cael ei filio ym mhob blwyddyn adrodd.
BI2	Cwsmeriaid bregus ar dariffau cymdeithasol	Nifer y cwsmeriaid preswyl sy'n cael cymorth ariannol drwy ein tariffau cymdeithasol.
En6	Km o afonydd a wellwyd	Hyd cronrus yr afonydd a wellwyd o ganlyniad i gamau'r Cwmni i wella iechyd ac estheteg afonydd.
Ft10	Addysg Gymunedol	Cyfanswm nifer y plant a'r oedolion sydd wedi cymryd rhan yn rhaglen addysg y Cwmni bob blwyddyn.
Ft11	Ymwelwyr â chyfleusterau hamdden	Cyfanswm nifer yr ymwelwyr â safleoedd hamdden y Cwmni bob blwyddyn.
Co1	Anafiadau adroddadwy	Nifer yr anafiadau unigol y rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch amdanynt o dan RIDDOR bob blwyddyn.

D – YMATEBION STRATEGOL I DŴR CYMRU 2050

Er hwylustod, nodwn isod y 18 o ymatebion strategol yn DŴR CYMRU 2050: ADOLYGU A DIWEDDARU MAWRTH 2022. Mae'r ddogfen honno hefyd yn cynnwys diweddariad ar gyfer pob un o'r ymatebion strategol ar y dystiolaeth, yr ymchwil a'r datblygiadau arloesol diweddaraf sydd ar gael.

Ymateb Strategol	Disgrifiad
1. DIOGELU DŴR YFED GLÂN DRWY REOLI DALGYLCHOEDD	Dalgylchoedd fel llinell amddiffyn gyntaf: Byddwn yn wynebu lefelau uwch o blaleiddiaid, gwrteithiau, moetholion a phathogenau mewn dŵr crai, a mwy o dyrffedd dŵr yn cyrraedd ein gweithfeydd trin dŵr yn sgil amaethu sy'n dwysáu a stormydd mwy garw. Byddwn yn llunio rhaglen eang, arloesol o waith rheoli dalgylchoedd ar y cyd â thirfeddianwyr a phartneriaid.
2. DIGON O DDŴR I BAWB	Gan ein bod yn wynebu bwlch cynyddol rhwng y cyflenwad a'r galw am ddŵr oherwydd y twf yn y boblogaeth, a'r hafau sychach yn sgil newid yn yr hinsawdd, byddwn yn defnyddio ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr i sicrhau'r cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw am ddŵr hyd at 2050. Rydym yn bwriadu rhoi camau trosglwyddo dŵr, mesurau rheoli galw a rhaglenni lleihau gollyngiadau dŵr ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg, gan gydnabod ar yr un pryd y posibilrwydd y bydd angen cefnogi rhannau eraill o'r DU
3. GWELLA DIBYNADWYEDD SYSTEMAU CYFLENWI DŴR YFED	Gan ein bod yn wynebu risg gynyddol o doriadau oherwydd dŵr ffô amaethyddol, digwyddiadau tywydd eithafol, a seiberymosodiadau, byddwn yn ychwanegu mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd integreiddio i'n systemau trin a chyflenwi dŵr.
4. DIOGELU EIN HASEDAU CYFLENWI DŴR HOLLBWYSIG	Gan ein bod yn wynebu risgiau cynyddol o darfu (er enghraifft, o ddigwyddiadau tywydd garw yn sgil newid yn yr hinsawdd a mwy o ddibyniaeth ar dechnoleg) a gostyngiad yng ngoddefiant cwsmeriaid o doriadau yn y cyflenwad, byddwn yn gwella cydnherthedd asedau dŵr hollbwysig lle ceir canlyniadau difrifol os byddant yn methu.
5. SICRHAU ANSAWDD DŴR DERBYNIOL I BOB CWSMER	Mae prif bibellau dŵr sy'n heneiddio a mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol yn cynyddu'r risg y bydd y dŵr a gyflenwir wedi'i afliwio neu y bydd blas drwg arno dros dro. Eir i'r afael â hyn drwy waith wedi'i dargedu i osod prif bibellau newydd yn lle rhai haearn. Rydym yn anelu at gyflawni 0.8-1.3 o gysylltiadau fesul 1,000 o'r boblogaeth erbyn 2050.
6. TUAG AT GYMRU DDI-BLWM	Mae gennym gyfle i helpu i wella iechyd y cyhoedd, a chynnig gwaith wedi'i dargedu i osod pibellau cyfathrebu a chyflenwi newydd yn lle rhai plwm, fel rhan o ymdrech gymdeithasol ehangach i fynd i'r afael â'r lefelau o blwm mewn dŵr yfed.
7. GWEITHIO GYDA CHWSMERIAID A CHYMUNEDAU	Byddwn yn gweithio gyda chwsmeriaid a chymunedau i lunio atebion ar y cyd, rhannu gwybodaeth a chefnogi mentrau sy'n lleihau'r defnydd o ddŵr, yn atal achosion o gamddefnyddio carthffosydd, ac yn sicrhau buddiannau ehangach i gymunedau a'r amgylchedd.
8. SICRHAU BOD Y GWASANAETHAU A DDARPERIR I GWSMERIAID YN FFORDDIADWY	Gydag anghydraddoldeb, dyled a thlodi ar gynydd rhaid i ni geisio sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn fforddiadwy i bob cwsmer: o ran biliau cyfartalog ac o ran y rhai sydd ar darffau cymdeithasol. Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau mewn ffyrdd cynyddol arloesol ac effeithlon ac yn trosglwyddo'r arbedion hyn i'n cwsmeriaid.
9. CEFNOGI CWSMERIAID MEWN AMGYLCHIADAU BREGUS	Diben yr Ymateb Strategol: Mae angen i ni ddefnyddio data'n effeithiol, darparu gwasanaeth cwsmeriaid personol a gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau eraill i roi cymorth priodol ac effeithiol i gwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus.
10. YMDRIN Â'N CWSMERIAID SY'N CAEL Y GWASANAETH GWAETHAF	Gan fod disgwyliadau cwsmeriaid o ran cael gwasanaeth da bob amser yn cynyddu, byddwn yn mynd i'r afael â chwynion hirsefydlog y cwsmeriaid sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf er mwyn sicrhau bod pawb yn cael lefel dderbyniol o wasanaeth. Ni fyddwn yn codi tâl ar gwsmeriaid pan na fydd y gwasanaeth yn cyrraedd ein safonau gwasanaeth.
11. CYFLOGWR O DDEWIS	Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, prinder cynyddol o ran cyflogaion sy'n meddu ar sgiliau technegol a galw cynyddol am ddulliau gweithio mwy hyblyg, bydd angen i ni barhau i fod yn gyflogwr delfrydol, gan ddenu, datblygu ac ysbrydoli pobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd, er mwyn darparu gwasanaeth ardderchog i'n cwsmeriaid.

D – YMATEBION STRATEGOL I DŴR CYMRU 2050

PARHAD

Ymateb Strategol	Disgrifiad
12. GWASANAETH CWSMERIAID O'R RADD FLAENAF	Mae disgwyliadau newidiol gan gwsmeriaid, y chwyldro digidol a newid mewn demograffeg a ffordd o fyw yn annog Dŵr Cymru i ddatblygu ein diwylliant gwasanaeth cwsmeriaid ymhellach. Byddwn yn harneisio newid technolegol i ddarparu gwasanaeth personol i gwsmeriaid drwy eu dewis sianel cysylltu.
13. RHEOLI SYSTEMAU DŴR YN DDOETH	Gyda'r cyfle i fanteisio ar ddatblygiadau technolegol, byddwn yn gwella perfformiad y gwasanaeth a chydnerthedd ein hasedau drwy ddulliau synhwyro o bell, dadansoddi data ac awtomeiddio, a thrwy hynny'n datrys problemau cyn iddynt effeithio ar ein busnes neu'r amgylchedd.
14. CEFNOGI ECOSYSTEMAU A BIOAMRYWIAETH	Mae bioamrywiaeth dan fygythiad, gan gynnwys colli, darnio a gorddefnyddio cynefinoedd. Yn y tymor hwy, bydd y tymheredd a phatrymau glawio newidiol yn effeithio ar fioamrywiaeth hefyd. Byddwn yn chwilio am ffyrdd o helpu byd natur, gan wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, wrth i ni gyflawni ein gweithgareddau dŵr a charthffosiaeth.
15. DEFNYDDIO NATUR I LEIHOU PERYGL LLIFOGYDD A LLYGREDD	Wrth i ni wynebu trefoli graddol yn sgil newidiadau demograffig, a glaw trymach yn sgil newid yn yr hinsawdd, mae Dŵr Cymru yn cynnig lleihau'r risg o lygredd a charthffosydd yn gorlifo drwy ddatblygu systemau draenio trefol cynaliadwy a'u rhoi ar waith. Ein nod fydd gosod systemau draenio cynaliadwy mewn dinasoedd a chytrefi mawr (Abertawe, Caerdydd, Casnewydd, Wrecsam, Caer) sy'n wynebu'r risg uchaf, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.
16. AFONYDD A THRAETHAU GLANACH	Wrth i dwf y boblogaeth, newid defnydd tir, newid yn yr hinsawdd a ffynonellau newydd o lygredd roi mwy o bwysau ar yr amgylchedd naturiol, byddwn yn gwella ein hasedau dŵr gwastraff er mwyn gwneud ein rhan i helpu i gyflawni statws ecolegol 'da' ar gyfer ein hafonydd, ein llynnoedd a'n dyfroedd arfordirol.
17. DIOGELU EIN HASEDAU DŴR GWASTRAFF HOLLBWYSIG	Wrth i ni wynebu mwy o risg o darfu, er enghraifft oherwydd mwy o dywydd garw yn sgil newid yn yr hinsawdd, a'r ffaith bod cwsmeriaid yn llai parod i dderbyn achosion o lygredd, byddwn yn gwella cydnerthedd ein hasedau dŵr gwastraff hollbwysig, sy'n cael cryn effaith ar yr amgylchedd a chwsmeriaid lle bydd methiant.
18. SICRHAU ALLYRIADAU CARBON SERO NET ERBYN 2040 A HYRWYDDO ECONOMI GYLCHOL*	Wrth i'r hinsawdd newid, ac wrth i gostau ynni gynyddu, byddwn yn anelu at leihau cyfanswm ein hallyriadau carbon 90% erbyn 2030 a niwtraleiddio carbon erbyn 2040. Byddwn hefyd yn achub ar gyfleoedd i ailddefnyddio dŵr wedi ei drin a deunyddiau naturiol eraill a allai fod yn werthfawr, gan gyfrannu at yr economi gylchol yn ein rhanbarth lleol.

E – AMCANION ACLL

Er hwylustod, nodwn isod y 10 amcan ACLI o'n

Amcan ACLI	Disgrifiad
1. GWAITH CYNLLUNIO HIRDYMOR A CHYNALIADWYEDD	Rydym yn warcheidwoid asedau y byddwn yn dibynnu arnynt i ddarparu ein gwasanaethau hanfodol, ac i leihau effaith ar yr amgylchedd, am genedlaethau i ddod. Mae ein strwythur corfforaethol yn golygu na chawn ein llywio gan ddifidendau cyfranddalwyr – rydym yn cynllunio ar gyfer yr hirdymor ac yn ystyried anghenion cenedlaethau o gwsmeriaid y dyfodol. Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod ein polisi caffael yn gynaliadwy ac yn cefnogi busnesau lleol a'r economi gylchol yn fwy cyffredinol
2. CYFLAWNI EIN STRATEGAETH CARBON SERO NET	Rydym yn ymrwymedig i gyflawni allyriadau carbon sero net o ran carbon gweithredol a charbon corfforedig erbyn 2040 – https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/journey-to-zero Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein prosesau'n gwella'n barhaus er mwyn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd i'r eithaf a gofynnwn i'n partneriaid cadwyn gyflenwi allweddol i'n helpu i ddylunio atebion sy'n "wyrdd, yn seiliedig ar natur" sy'n fuddiol i'r amgylchedd a chymdeithas yn gyffredinol, wrth gyflawni ein swyddogaethau.
3. ADDASU EIN HASEDAU A'N GWASANAETHAU I LINIARU RISGIAU SY'N YMWNEUD Â NEWID YN YR HINSAWDD	Byddwn yn parhau i addasu ein hasedau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd ac ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd, twf yn y boblogaeth a newidiadau o ran disgwyliadau cwsmeriaid. Mae'n rhaid i ni hefyd liniaru ein hól troed carbon (gweler 4 isod) er mwyn sicrhau na fyddwn yn cyfrannu o gwbl at newid yn yr hinsawdd erbyn 2040
4. GWEITHIO I GREU BUDDIANNAU GWIRIONEDDOL YN Y CYMUNEDAU RYDYM YN EU GWASANAETHU	Byddwn yn pennu llinell sylfaen glir ar gyfer materion amgylchedd, cymdeithasol a llywodraethu cyfredol ac yn mesur gwelliannau yn erbyn honno, gydag egwyddor "enillion net" ar gyfer ein gweithgareddau gweithredol a'n rhaglen o brosiectau cyfalaf sy'n sicrhau buddiannau diriaethol i'n cymunedau.
5. SICRHAU FFFORDDIADWYEDD	Yn ystod 2021-22, rhoesom gymorth ariannol (drwy dariffau cymdeithasol a mathau eraill o gymorth) i gyfanswm o 139,000 o gwsmeriaid a rhoddwyd cyngor ar effeithlonrwydd dŵr a mesuryddion i lawer mwy, i'w helpu i reoli eu biliau dŵr. Rydym yn ymrwymedig i barhau i ddarparu'r lefel hon o gymorth ariannol i gwsmeriaid yn ystod y cyfnod 2020-25.
6. YMGYSYLLTU Â'N CWSMERIAID	Rydym yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid yn rheolaidd yn yr hirdymor, drwy waith ymchwil a grwpiau ffocws, ein grantiau cronfa gymunedol a rhaglenni Cymunedau Cydnerth o ran Dŵr. Mae disgwyliadau cwsmeriaid yn newid ac yn datblygu, ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn bodloni'r disgwyliadau hyn a hefyd ganolbwyntio ar y llwybr tuag at gyflawni'r nodau hirdymor a bennwyd gennym yn Dŵr Cymru 2050. Rydym wrthi'n datblygu polisi Caffael Cynaliadwy, a fydd yn sicrhau buddiannau i gymunedau drwy gadwyn gyflenwi fwy lleol. Rydym hefyd yn cyflwyno ffordd o gynllunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ar gyfer gwneud gwelliannau i wasanaethau cwsmeriaid, ac yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a chwsmeriaid ar brosiectau fel menter Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog.
7. DENU A CHADW GWEITHLU AMRYWIOL SY'N ADLEWYRCHU EIN CYMUNEDAU	Ein hased pwysicaf yw ein gweithlu, ac mae denu a chadw pobl sydd â'r sgiliau cywir a'r amrywiaeth o ran profiad, cefndir a nodweddion personol i ateb yr heriau y bydd ein busnes yn eu hwynebu yn y dyfodol yn flaenoriaeth allweddol. Mae ein diwylliant a'n gwerthoedd wedi'u hymgorffori ym mholisiau ein gweithle, megis polisi lechyd, Diogelwch a Llesiant, cefnogi gweithle cynhwysol lle gall cydweithwyr ymfalchïo yn "Ennyn Ymddiriedaeth ein Cwsmeriaid Bob Dydd".
8. ADDASU I HERIAU'R DYFODOL	Mae ein strwythur corfforaethol ac absenoldeb difidendau cyfranddalwyr yn ein galluogi i ganolbwyntio ar yr hirdymor, yn ogystal â diwallu anghenion cwsmeriaid heddiw. Bydd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn canolbwyntio ar fonitro cynnydd yn erbyn ein nodau ac ystyried ac ymateb i risgiau sy'n ymwneud â materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu er mwyn sicrhau ein bod yn addasu iddynt a bod ein hymatebion yn cael eu cynnwys yn strategaeth y Cwmni. Mae Byrddau ar y cyd Glas Cymru Holdings Cyf. a Dŵr Cymru Cyf. hefyd yn monitro risgiau strategol ac yn ystyried, ynghyd â'r Tîm Gweithredol, y potensial i risgiau sy'n dod i'r golwg a risgiau "alarch du" effeithio ar ein busnes a'r gwasanaethau a ddarparwn.

E – AMCANION ACLL PARHAD

Amcan ACLI	Disgrifiad
9. DANGO ATEBOLRWYDD	Rydym yn dangos atebolrwydd drwy ein trefniadau llywodraethu corfforaethol tryloyw, gan ganolbwyntio ar gynnal a diogelu'r adnoddau naturiol sydd ar gael i ni, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno adroddiadau tryloyw ar ein perfformiad a'r heriau a wynebwr gan y busnes, yn ein hadroddiadau corfforaethol a thrwy ein cynllun cyhoeddi lle rydym yn darparu gwybodaeth ar ein gwefan – corporate.dwrcymru.com/en/community/environment/environmentalinformation-regulations Rydym yn rhoi arferion cyflogaeth teg ar waith drwy ein polisiau recriwtio ac adnoddau dynol, a gofynnwn i gyflenwyr ymrwmo i'n Cod Ymddygiad Cyflenwyr a chymryd camau i atal arferion cyflogaeth annheg. Mae ein strategaethau gweithredol yn blaenoriaethu ein hymrwymadau amgylcheddol – i leihau ein hól troed amgylcheddol a gwella ein hamgylchedd a chymunedau lle bynnag y gallwn
10. CYDWEITHIO	Mewn llawer o feysydd, ni allwn gyflawni ein hamcanion drwy weithio ar ein pen ein hunain; rydym eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr, llywodraethau, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill i gyflawni ein hamcanion amgylcheddol. Byddwn yn defnyddio ein profiad o gyfrannu at y broses o ddatblygu Cynllun Rheoli Maethynnau Afon Gwy lle roedd nifer o sefydliadau a sectorau gwahanol wedi gweithio gyda'i gilydd tuag at gyflawni targedau ffosfforws (rheoleiddwyr amgylcheddol, corff cyngorau, sefydliadau trydydd sector a Dŵr Cymru). Mae dull cydweithredol tebyg yn cael ei ddatblygu ar gyfer afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) eraill yng Nghymru. Mae angen i ni weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a sefydliadau lleol eraill, y bydd eu cefnogaeth yn hollbwysig i'n helpu i reoli problemau draenio dŵr wyneb a thrwy hynny leihau gollyngiadau o systemau gorlif storm.



Mae'r broses o lunio'r adroddiad hwn yn cefnogi gwaith Coed Cadw, sef prif elusen cadwraeth coetir y DU. Bydd pob coeden a gaiff ei phlannu yn tyfu'n ddalfa carbon hollbwysig, gan helpu i leihau'r effeithiau amgylcheddol yn ogystal â chreu hafanau naturiol i fywyd gwylt a phobl.



Glas Cymru Holdings Cyfyngedig
Rhif y Cwmni: 09917809